Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

# Achos Busnes Llawn – gydag Atodiadau

Medi 2025

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53126 ISBN digidol 978-1-83745-098-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## CYNNWYS – YR ACHOS BUSNES LLAWN


Cyflwyniad ..... 3
Yr Achos Strategol ..... 4
Cyd-destun strategol ..... 4
Yr achos dros newid ..... 9
Amcanion gwariant y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ..... 11
Llunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ..... 14
Manteision disgwyliedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ..... 18
Cyfyngiadau ..... 20
Dibyniaethau ..... 20
Yr Achos Economaidd ..... 24
Cyflwyniad ..... 24
Ffactorau llwyddiant allweddol a dadansoddiad o'r opsiynau ..... 24
Gwerth am arian yr opsiynau ar y rhestr fer ..... 38
Yr Achos Masnachol ..... 88
Strategaeth gaffael ..... 88
Sut y bwriedir caffael gofynion allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ..... 88
Llywodraethu a goruchwylio rhaglenni ..... 91
Yr Achos Ariannol ..... 92
Yr effaith ar gyfrif incwm a gwariant Llywodraeth Cymru ..... 92
Yr effaith ar fantolen Llywodraeth Cymru ..... 94
Fforddiadwyedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'i gyllido ..... 95
Cefnogaeth rhanddeiliaid ..... 96
Yr Achos Rheoli ..... 97
Rheoli'r rhaglen ..... 97
Rheoli newid ..... 106
Gwireddu manteision ..... 106
Rheoli risg ..... 108
Sicrwydd rhaglenni ..... 109
A. Gwerth amaethyddiaeth yng Nghymru ..... 110
Cyflwyniad ..... 110
Defnydd tir ..... 110
Rôl economaidd ffermio ..... 112
Cynhyrchu bwyd a diogeledd bwyd ..... 113
Allyriadau nwy tŷ gwydr net ..... 114
Effaith ffermio ar ansawdd aer ..... 114
Rôl ffermio o ran darparu gwasanaethau ecosystem ..... 115
B. Tystiolaeth o werthusiadau o gynlluniau blaenorol i gefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru ..... 125
Gwerthusiad o Glastir ..... 125
Gwerthusiad o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaethau Cynghori ..... 131
Trydydd Arolwg o Arferion Ffermio Cymru ..... 134

Cyfraniadau Cynllun y Taliad Sylfaenol at broffidioldeb ffermydd yng Nghymru ........ 134
C. Dadansoddiad gwerth am arian o'r Haen Gyffredinol – dull gweithredu a chanlyniadau ........ 137
Y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd – Llwyfan Modelu Integredig........ 137
Consortiwm a arweinir gan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol ........ 161
D. Dadansoddiad gwerth am arian o'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol ........ 164
Gweithred Opsiynol: Creu Coetir Newydd ac Amaethgoedwigaeth ........ 164
Gweithred Opsiynol: Rheoli a Gwella Cynefinoedd ........ 164
Gweithred Opsiynol: Rhoi'r Cynllun Rheoli Safle Dynodedig ar waith ........ 165
Gweithred Opsiynol: Adfer gwrychoedd neu blannu rhai newydd ........ 165
Gweithred Opsiynol: Ymgymryd â gweithredoedd i wella iechyd pridd a chyflwyno gorchudd cnydau amlrywogaethol. ........ 166
Gweithred Opsiynol: Cefnogi ffermio organig (ardystiedig a throsi) ........ 167
Gweithred Opsiynol: Creu cynefinoedd dros dro a pharhaol, gan gynnwys pyllau a phyllau dŵr tymhorol ........ 167
Gweithred Opsiynol: Rheoli coetir sy'n bodoli eisoes........ 168
Gweithred Opsiynol: Rhoi mesurau bioddiogelwch fferm o safon uwch ar waith ........ 169
Gweithred Opsiynol: Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ehangach a mwy datblygedig) ........ 170
Gweithred Opsiynol: Cynhyrchu cynaliadwy ........ 171
Gweithred Opsiynol: Pennu neu addasu Opsiynau sy'n helpu pobl i ymwneud â'r amgylchedd naturiol a chael mynediad ato ........ 172
Gweithred Opsiynol: Gwell ansawdd dŵr, llif a defnydd, gan gynnwys lliniaru llifogydd........ 173
Gweithred Opsiynol: Gwella ansawdd aer a lleihau allyriadau amonia........ 174
Gweithred Gydweithredol: Arloesi ac Ymchwil a Datblygu ........ 174
Gweithred Gydweithredol: Gweithgarwch ar raddfa tirwedd ........ 175
Gweithred Gydweithredol: Cymorth i'r farchnad a'r gadwyn gyflenwi........ 176
Crynodeb ........ 177
E. Achos Masnachol – caffaeliadau allweddol ........ 178
F. Cofrestr o fanteision ........ 179
G. Cynllun llywodraethu – Taliadau Gwledig Cymru ........ 180
Cyflwyniad........ 180
Cwmpas y cynllun ........ 180
Meini prawf llwyddiant / gwireddu manteision........ 180
Lefelau o awdurdod........ 180
Uwchgyfeirio materion a'u datrys ........ 181
H. Cynllun rheoli cyffredinol Taliadau Gwledig Cymru ........ 189
I. Fframwaith rheoli newid – Taliadau Gwledig Cymru ........ 195

## CYFLWYNIAD

Ymateb Llywodraeth Cymru i un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'i nod yw creu system newydd o gymorth i ffermwyr a fydd yn manteisio i'r eithaf ar rym amddiffynnol natur drwy ffermio, gan gydnabod anghenion ffermydd teuluol yng Nghymru a'r angen am brosesau cynhyrchu bwyd lleol sy'n ecolegol gynaliadwy.

Mae'r Achos Busnes hwn dros y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dilyn y Model Pum Achos, sef safon gymeradwy Trysorlys EF i baratoi achosion busnes yn y sector cyhoeddus. Mae'n cynnwys pum dimensiwn ac yn ateb y cwestiynau allweddol canlynol:

- Yr Achos Strategol – A yw'n cydweddu'n strategol ac yn cynnig achos cymhellol dros newid?
- Yr Achos Economaidd – A fydd yn sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf posibl drwy'r dewis delfrydol o weithgareddau?
- Yr Achos Masnachol – A yw'n fasnachol hyfyw ac yn atyniadol i'r ochr gyflenwi?
- Yr Achos Ariannol – A yw'n fforddiadwy ac yn gyllidadwy dros amser?
- Yr Achos Rheoli – A oes modd ei gyflawni'n llwyddiannus?

Mae'r Achos Busnes yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ionawr 2026 pan fydd y cynllun yn lansio a diwedd y Cyfnod Pontio ym mis Rhagfyr 2029.

Dylid darllen yr Achos Busnes ar y cyd â Manylion ategol y Cynllun a'r Asesiad Effaith Integredig.

# Yr Achos Strategol

> *Cwestiwn allweddol: A yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cydweddu'n strategol ac yn cynnig achos cymhellol dros newid?*

Mae'r adran hon yn esbonio'r Achos Strategol dros y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae i'r adran chwe phrif ran:

- Disgrifiad o'r cynnwys strategol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Esboniad ynghylch pam mae angen y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yr achos dros newid;
- Crynodeb o'r amcanion gwariant ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Esboniad o'r ffordd y lluniwyd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Disgrifiad o fanteision disgwyliedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Crynodeb o'r  y cyfyngiadau allweddol a'r dibyniaethau sydd wedi llywio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

## *Cyd-destun strategol*

### <u>*Cymorth i ffermwyr yng Nghymru*</u>

#### Pwysigrwydd tir a ffermio yng Nghymru

Mae tir Cymru yn bwysig ac mae ffermwyr Cymru yn chwarae rhan unigryw mewn cymdeithas yng Nghymru. Mae'r tir yn darparu bwyd i ddefnyddwyr Cymru, ac yn cefnogi bywoliaethau a chymunedau gwledig ac yn darparu gwasanaethau amgylcheddol a chymdeithasol hollbwysig sy'n fuddiol i drigolion Cymru. Cydnabyddir bod ffermwyr Cymru yn darparu bwyd o ansawdd uchel a bod ganddynt y potensial i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf dybryd sy'n wynebu Cymru drwy gyfrannu at aer a dŵr glân, lleihau allyriadau carbon, dal carbon, cefnnogi ecosystemau a chynnal cymunedau gwledig, bywoliaethau, a'r Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r manteision ehangach hyn a gynigir gan ffermio yn aml yn cael llai o gydnabyddiaeth.

#### Hanes cymorth i ffermwyr yng Nghymru

Mae'r ffordd y rhoddir cymorth, yn enwedig cymorth ariannol, i ffermwyr Cymru wedi newid dros amser. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, prif ddiben polisïau amaethyddol oedd sicrhau cyflenwad digonol a sicr o fwyd. Pan ddaeth y DU yn aelod o'r UE yn 1973, cynigiodd ei Bolisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) fframwaith sefydlog i ffermwyr yng Nghymru am ddegawdau. Rhoddodd gymorth incwm sylweddol i ffermwyr, ynghyd â mynediad i farchnad fwy o faint ar gyfer eu cynhyrchion a amddiffynwyd gan ffin tariff allanol. Roedd arferion ffermio a rheoli tir yng Nghymru hefyd yn cael eu rheoli gan fframwaith manwl o ddeddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth ddomestig.

Wrth i'r heriau a wynebai Cymru a gweddill yr UE newid, daeth cymorth i ffermwyr yn gynyddol gysylltiedig â'r amgylchedd. Roedd PAC 2014-20 yn rhoi taliadau uniongyrchol i ffermwyr Cymru drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol, cynlluniau gwyrddu, ailddosbarthu a ffermwyr ifanc ynghyd â Rhaglen Datblygu Gwledig a oedd yn rhoi cymorth amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol i'r economi wledig ehangach.

#### Effaith penderfyniad Brexit y DU

Yn sgil penderfyniad y DU i adael yr UE, daeth cymorth i ffermwyr a rheolwyr tir yng Nghymru o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin i ben yn 2020 a daeth cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig i ben yn 2023. Mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cael eu disodli gan gymorth sydd â'r nod o ddiwallu anghenion Cymru a ffermwyr Cymru. Mae datganoli yn golygu y gall Cymru ddatblygu ei fframwaith deddfwriaethol ei hun ar gyfer cymorth amaethyddol ar wahân i'r DU a gweddill yr UE. Mae hyn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei pholisi amaethyddol yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r heriau a'r cyfleoedd unigryw sy'n wynebu Cymru.

#### Deddf Amaethyddiaeth 2020

Deddfwriaeth y DU yw Deddf Amaethyddiaeth 2020, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2020. Mae'n cynnwys darpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i barhau i roi cymorth ariannol i'r sector amaethyddol yng Nghymru ar ôl 2020 drwy fersiwn ddomestig ar Gynllun y Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Buddsoddi Gwledig PAC gyda'r nod o hyrwyddo'r sector amaethyddol a marchnadoedd amaethyddiaeth. Roedd Llywodraeth Cymru yn glir o'r cychwyn y bwriedid i'r pwerau a gafodd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 fod yn rhai trosiannol hyd nes y gellid rhoi deddfwriaeth sylfaenol Gymreig ar waith i gefnogi ei huchelgeisiau i Gymru a ffermwyr Cymru.

#### Ymateb Llywodraeth Cymru i Brexit

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel ei chynnig arfaethedig i ddisodli Cynllun y Taliad Sylfaenol drwy broses iteraidd sy'n dyddio'n ôl i benderfyniad y DU i adael yr UE.

Mae'r broses wedi golygu ymgysylltu ac ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid (gweler Ffigur 1):

- Yn Brexit a'n Tir (2018)[1], ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei chynigion cychwynnol i barhau i roi cymorth i ffermwyr ar ôl gadael yr UE[2].
- Wedyn, yn Ffermio Cynaliadwy a'n Tir (2019)[3], ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei chynigion i barhau â chymorth i ffermwyr a'r economi wledig ehangach ac i'w symleiddio[4].
- Nododd y naill ymgynghoriad a'r llall yr uchelgais i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) gerbron y Senedd.
- Yn 2020, lansiodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Amaeth (Cymru) a amlinellodd eu bwriad i roi egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar waith a defnyddio'r fframwaith hwn i lunio dull gweithredu cyfannol, hirdymor o gefnogi'r sector amaethyddol yng Nghymru[5]. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chrynodeb o'r adborth a'i hymateb polisi ym mis Medi 2021[6].
- Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion bras ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy[7]. Bu'r rhain yn fodd i ymgysylltu â ffermwyr a rhanddeiliaid eraill ar y cynigion mewn ffordd ystyrlon, gan ddangos ymhellach sut y bwriedir i'r pwerau yn y Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) gael eu defnyddio. Cafodd Llywodraeth Cymru 100 o ymatebion gan sefydliadau a grwpiau â buddiant yn y sector amaethyddol. Cyhoeddwyd yr adborth ac ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2023[8].
- Yn 2023, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru unwaith eto ar ei chynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy[9] gan gynnwys ei bwriad i roi cymhelliant i ffermwyr ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chyfnod pontio, er enghraifft gwneud taliadau sefydlogrwydd a sut y bydd y rhain yn lleihau dros y cyfnod.
- Ym mis Mai 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig y byddai Cam Paratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei gyflwyno yn 2025 ac mai'r bwriad oedd y bydd Cyfnod Pontio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn dechrau o 2026. Y nod oedd rhoi digon o amser i Lywodraeth Cymru gwblhau'r broses o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol. Sefydlwyd strwythur cydweithredol ar y cyd â rhanddeiliaid er mwyn cyflawni hyn (Bord Gron Weinidogol, Grŵp Swyddogion a Grŵp Cyflenwi Rhanddeiliaid Coed a Gwrychoedd ac roedd panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon yn is-set o'r Ford Gron Weinidogol)
- Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun amlinellol a nododd strwythur a chynnwys arfaethedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys manylion am y Gweithredoedd Cyffredinol. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â gwaith 'cydlunio' ar ddau gam i'w gwneud yn bosibl i randdeiliaid lywio'r broses o ddatblygu ei chynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r naill gam a'r llall wedi golygu cyfranogiad dwys gan randdeiliaid allweddol. Fel rhan o'r cam cyntaf, yn 2020, gwnaeth bron 2,000 o ffermwyr ymateb i arolwg ac yna cynhaliwyd 270 o gyfarfodydd. Arweiniodd yr ail gam, yn 2022, at 1,344 o ymatebion i arolwg gan ffermwyr ar-lein neu ar bapur a chyflwynwyd 101 o ymatebion ychwanegol at yr arolwg drwy gyfweliadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Hefyd, cynhaliwyd 26 o weithdai i gasglu adborth manylach ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig: roedd 23 o weithdai yn cwmpasu Gweithredoedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chanolbwyntiodd tri ar ei brosesau megis cymhwystra a chofrestru. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad terfynol a gydluniwyd ym mis Mehefin 2023[10].

Mae'r gweithgarwch ymgysylltu hwn drwy ymgynghori a chydlunio wedi helpu Llywodraeth Cymru i ddeall safbwyntiau ffermwyr, yr undebau ffermio a sefydliadau eraill megis cyrff anllywodraethol amgylcheddol a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol ac ymateb iddynt wrth ddatblygu ei chynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Yn benodol, mae wedi cadarnhau bod angen cymorth i ffermwyr a hefyd wedi rhoi cyfle i gulhau'r opsiynau posibl ar gyfer cwmpas, datrysiadau, cyflwyno, gweithredu a chyllido. Esbonnir hyn ymhellach yn nes ymlaen yn yr Achos Strategol wrth drafod yr angen am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r ffordd y mae wedi cael ei lunio.

---

[1] Llywodraeth Cymru, Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio Cymru, (2018), https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-10/cymorth-i-ffermwyr-cymru-ar-ol-brexit-dogfen-ymgynghori.pdf

[2] Cyflwynwyd 1,043 o ymatebion o sylwedd i Brexit a'n Tir

[3] Llywodraeth Cymru, Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Symleiddio cymorth amaethyddol, (2020), https://www.llyw.cymru/ffermio-cynaliadwy-tir-symleiddio-cymorth-amaethyddol

[4] Cafodd Llywodraeth Cymru 508 o ymatebion unigryw i'w hymgynghoriad ar 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir', a amlinellodd ein cynigion diwygiedig i roi cymorth i ffermwyr;

[5] Cafodd 232 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ei fframwaith deddfwriaethol i gefnogi amaethyddiaeth Cymru.

[6] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Papur Gwyn Amaeth (Cymru) – Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb Polisi Llywodraeth Cymru (21 Medi 2021) | LLYW.CYMRU

[7] Llywodraeth Cymru, Cynllun Ffermio Cynaliadwy –Cynigion Bras ar gyfer 2025, (2022), https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/cynllun-ffermio-cynaliadwy-cynigion-bras-ar%20gyfer%202025.pdf

[8] Llywodraeth Cymru, Cynllun Ffermio Cynaliadwy: dadansoddiad o'r adborth i gynigion bras y cynllun, Cynllun Ffermio Cynaliadwy: dadansoddiad o'r adborth i gynigion bras y cynllun | LLYW.CYMRU

[9] Llywodraeth Cymru, Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cefnogi ffermwyr i ffermio, (2023), https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-12/dogfen-ymgynghori-cynllun-ffermio-cynaliadwy_0.pdf

[10] Llywodraeth Cymru, Cynigion Bras Cynllun Ffermio Cynaliadwy: ymateb cyd-ddylunio


## Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn pennu mai rheoli tir yn gynaliadwy fydd yr egwyddor gyffredinol ar gyfer polisïau amaethyddol yn y dyfodol yng Nghymru, gan gynnwys rheoleiddio a chymorth. Mae ei amcanion yn adlewyrchu egwyddorion rheoli tir yn gynaliadwy fel y'u nodwyd yn flaenorol yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* (2020)[11] a *Phapur Gwyn Amaeth Cymru* (2020)[12].

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau ynghylch:

- Cyflwyno'r Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy;
- Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi cymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol ond heb ddiffinio'r dull cyflwyno;
- Pennu gofynion monitro ac adrodd ar reoli tir yn gynaliadwy;
- Pennu gofynion monitro ac adrodd ar gymorth amaethyddol yn y dyfodol

*Ffigur 1: Amserlen ar gyfer datblygu cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*




## Rheoli tir yn gynaliadwy

Diffinnir rheoli tir yn gynaliadwy gan bedwar amcan strategol:

- Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy[13];
- Lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd;
- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu;
- cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd[14].

Mae'n rhaid i'r amcanion hyn gael eu cyflawni mewn ffordd sy'n:

- Diwallu anghenion presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Cyfrannu at y nodau llesiant a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bwriedir iddynt, gyda'i gilydd, roi'r sail dros ddull gweithredu cyfannol sy'n sicrhau'r canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a ddymunir drwy reoli tir yn gynaliadwy er budd Cymru yn yr hirdymor.

O dan y Ddeddf, caiff Gweinidogion Cymru addasu deddfwriaeth ynglŷn â Chynllun y Taliad Sylfaenol, fel y mae'n effeithio ar Gymru a helpu ffermwyr Cymru (yn ariannol neu fel arall) i fabwysiadu arferion sy'n cyfrannu at reoli tir yn gynaliadwy. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhagweld dibenion lluosog i gymorth sy'n cyfrannu at ganlyniadau Llywodraeth Cymru o ran rheoli tir yn gynaliadwy:

- **Annog cynhyrchu bwyd mewn modd sy'n amgylcheddol gynaliadwy:** er enghraifft, drwy gefnogi'r broses o fabwysiadu arferion amaethyddol amgylcheddol gynaliadwy sy'n defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu rhoi.

[11] Llywodraeth Cymru, Ffermio Cynaliadwy a'n Tir Symleiddio cymorth amaethyddol, (2020), https://www.llyw.cymru/ffermio-cynaliadwy-tir-symleiddio-cymorth-amaethyddol
[12] Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn Amaeth (Cymru), (2020), https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/bil-amaethyddiaeth-papur-gwyn.pdf
[13] Mae'r ffactorau sy'n berthnasol i ba un a yw bwyd a nwyddau eraill yn cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy yn cynnwys gwytnwch busnesau amaethyddol o fewn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt a'u cyfraniad i'r economi leol, ymysg pethau eraill.
[14] Mae adnoddau diwylliannol yn cynnwys treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol.

- **Helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau:** er enghraifft, drwy gefnogi gwytnwch economaidd busnesau amaethyddol drwy arallgyfeirio ffermydd a chryfhau busnesau fferm i gyfrannu at gymunedau (lleol) gwledig ffyniannus.
- **Gwella gwytnwch busnesau amaethyddol** er mwyn cadw ffermwyr ar y tir a chynnal ffyniant busnesau amaethyddol yn y dyfodol, gan gynnwys newydd-ddyfodiaid a chynllunio olyniaeth, i gyfrannu at gynaliadwyedd y sector amaethyddol yng Nghymru a'r bwyd a'r nwyddau eraill y mae'n eu cynhyrchu.
- **Cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd** ar bob lefel o gymhwysedd, gan gynnwys annog dysgwyr newydd i ymddiddori yn y Gymraeg drwy'r sector amaethyddol cyfan.
- **Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr,** gan gynnwys drwy wneud defnydd effeithlon o danwydd ac ynni, lleihau mewnbynnau allanol i'r eithaf a chael da byw a chnydau cynhyrchiol.
- **Atafaelu a storio carbon i'r graddau gorau posibl** drwy greu stociau carbon newydd ar ffermydd a gwella'r rhai sy'n bodoli eisoes, er enghraifft drwy gynyddu cynnwys carbon priddoedd, adfer mawndir, plannu coed a/neu wrychoedd a rheoli coetir fferm.
- **Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau** drwy osgoi effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, rhywogaethau, a chynefinoedd a sicrhau manteision ar eu cyfer.
- **Cadw a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol,** gan gynnwys harddwch naturiol a threftadaeth ddiwylliannol.
- **Gwella ansawdd yr aer** drwy gyfyngu ar lygredd o ronynnau o law dyn a nwyon niweidiol, gan gynnwys amonia ($NH_3$), deunydd gronynnol mân (PM2.5) a chyfansoddion organig anweddol heblaw methan.
- **Gwella ansawdd dŵr** drwy reoli'r amgylchedd dŵr yn gynaliadwy er mwyn cefnogi cymunedau iach, busnesau ffyniannus a bioamrywiaeth.
- **Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol ac ymgysylltiad y cyhoedd â hwy** fel y bydd pobl yn gallu mwynhau budd cefn gwlad sy'n gysylltiedig â gwell iechyd a llesiant yn haws.
- **Lliniaru risgiau o lifogydd a sychder** drwy helpu ffermydd i baratoi ar gyfer cyfnodau o lawiad isel neu uchel a thrwy hynny leihau'r risgiau i'r fferm a chymunedau o ganlyniad i lifogydd, sychder ac erydu arfordirol, gan gynnwys drwy reoli llifogydd ar sail natur.
- **Cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid.**
- **Sicrhau effeithlonrwydd adnoddau i'r graddau gorau posibl** drwy fabwysiadu dull cylchol o barhau i ddefnyddio adnoddau a deunyddiau cyhyd â phosibl ac osgoi gwastraff.
- **Annog busnesau amaethyddol i reoli ynni yn effeithiol** gan gynnwys drwy fabwysiadu arferion effeithlonrwydd ynni ac arbed ynni, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar eu tir a thrwy hynny eu helpu i ddod yn fwy cystadleuol a gwydn.

## *Cysoni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy â pholisïau a strategaethau presennol Llywodraeth Cymru*

Ar wahân i'r Ddeddf, bydd angen hefyd i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod yn gyson â pholisïau, mentrau a thargedau rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol, sector a lleol perthnasol. Ystyrir y canlyniad ynghyd ag eraill yn yr Asesiad Effaith Integredig cyhoeddedig ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru feddwl mwy am yr hirdymor yn seiliedig ar ddull cydgysylltiedig o atal problemau a chreu Cymru y bydd pawb am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r saith Nod Llesiant yn y Ddeddf yn rhoi fframwaith ar gyfer penderfyniadau'r llywodraeth y mae'n rhaid iddo gael ei adlewyrchu yn ein dull newydd o reoli tir.

Mae'r ddeddf yn seiliedig ar "ffyrdd o weithio" allweddol:

- Sicrhau canlyniadau hirdymor er mwyn cyfrannu at anghenion hirdymor cymdeithas Cymru megis lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, ymaddasu a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a galluogi ffermwyr i barhau i wneud bywoliaeth o amaethyddiaeth;
- Atal lle yr ymdrinnir ag achos sylfaenol problemau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth sy'n gallu codi o ofynion ar y tir i gyflawni allbynnau y tu hwnt i'w allu naturiol a ffocws cul ar ganlyniadau economaidd: gall problemau megis newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth gael effeithiau sylweddol ar gynhyrchu: dangosir y goblygiadau posibl mewn adroddiad diweddar i WWF Cymru[15];
- Integreiddio ysgogwyr ffyniant [ym maes amaethyddiaeth] â gweithredoedd a fydd yn ei gwneud yn bosibl i'r amgylchedd [gwledig] gael ei wella yn yr hirdymor;
- Cydweithio â rhanddeiliaid a'u cynnwys drwy gydol y broses o ddatblygu polisïau.

[15] WWF Cymru, *Extreme weather and its impact on farming viability in Wales*

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru drwy gyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gwarchod bioamrywiaeth a hyrwyddo cynaliadwyedd.

Mae i'r Ddeddf bedwar nod allweddol:

- Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy: Sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n cynnal ac yn gwella ecosystemau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau: Cryfhau'r broses o warchod bioamrywiaeth drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gadw a gwella gwytnwch ecosystemau.
- Lliniaru newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo: Sefydlu targed statudol i leihau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050 (wedi'i ddisodli gan nod sero net 2050 erbyn hyn[16]).
- Effeithlonrwydd adnoddau a lleihau gwastraff: Cyflwyno mesurau i hyrwyddo lleihau gwastraff, ailgylchu a defnyddio adnoddau yn gynaliadwy, gan gynnwys pwerau i gyflwyno rheoliadau rheoli gwastraff newydd.

Ymhlith pethau eraill, mae'r Ddeddf yn:

- Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio Polisi Adnoddau Naturiol sy'n amlinellu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau yn gynaliadwy;
- Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad sy'n asesu cyflwr adnoddau naturiol Cymru a sut maent yn cyfrannu at lesiant;
- Cryfhau'r cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth;
- Sefydlu fframwaith ar gyfer cyllidebu carbon er mwyn sicrhau bod Cymru yn lleihau ei hallyriadau'n effeithiol;
- Rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno taliadau a godir am fagiau siopa, cyfyngu ar fathau penodol o wastraff, a gwella cyfraddau ailgylchu.

## Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ymateb i sawl ymrwymiad penodol sef:

- Creu system newydd o gymorth ffermio a fydd yn cynyddu pŵer amddiffynnol natur drwy ffermio, gan werthfawrogi anghenion penodol ffermydd teuluol yng Nghymru a chydnabod y broses o gynhyrchu bwyd lleol sy'n ecolegol gynaliadwy;
- Cyflwyno cyfnod pontio i'r cynllun cymorth ffermio newydd, gan gynnwys parhau â thaliadau sefydlogrwydd, y tu hwnt i dymor y Senedd bresennol;
- Helpu ffermwyr a thirfeddianwyr gweithredol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru i annog creu coetiroedd ar dir sy'n llai cynhyrchiol ac ymchwilio i ffyrdd o ddenu buddsoddiad ar gyfer creu coetiroedd sy'n sicrhau perchnogaeth a rheolaeth leol;
- Datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru (gweler isod).

Bwriedir i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy chwarae rôl bwysig o ran gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol cynaliadwy a ffyniannus.

## Rheoliadau ac ymrwymiadau amgylcheddol eraill

### *Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021*

Bydd angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy weithio ar y cyd â rheoliadau eraill sy'n bodoli eisoes i annog ffermwyr i fabwysiadu arferion sy'n mynd ymhellach na'r gofynion statudol, er enghraifft Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 sydd â'r nod o atal llygredd dŵr sy'n deillio o weithgareddau amaethyddol.

Ni fydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ariannu gweithgareddau sydd eisoes yn ofynnol o dan y gyfraith: er enghraifft, mae'n ofynnol i ffermwyr gynnal hawliau tramwy cyhoeddus ar eu tir o dan y gyfraith, felly bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys cymorth i wella mynediad i'r cyhoedd y tu hwnt i'r rhwymedigaethau statudol hyn.

### *Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kumming-Montreal*

Bwriedir i gymorth flaenoriaethu gweithredoedd i fynd i'r afael â'r fframwaith hwn a pholisiau ac ymrwymiadau rhyngwladol eraill Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, ym mis Hydref 2022, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i sicrhau cyfraniad Cymru at Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kumming-Montreal[17]. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyfraniad pwysig i allu Cymru i gyflawni targedau allweddol, yn enwedig (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):

- Diogelu 30% o dir, dŵr croyw a môr a'i reoli'n effeithiol erbyn 2030 (Targed 3);
- Lleihau llygredd a dŵr ffô maethynnau gormodol o amaethyddiaeth (Targed 7);

---

[16] Llywodraeth Cymru, Targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon, Mawrth 2021
[17] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Plymio Dwfn Bioamrywiaeth, 2022

- Rheoli ardaloedd o dan amaethyddiaeth a choedwigaeth yn gynaliadwy (Targed 10).

### *Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)*

Nod cyfunol Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth (Cymru) yw cryfhau a gwella'r ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Yn benodol, bydd y Bil yn gwrthsefyll cylchoedd negyddol o ran niwed amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth drwy ymgorffori egwyddorion amgylcheddol a chyflwyno targedau bioamrywiaeth sydd â'r nod o atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Bydd y targedau yn cwmpasu pedwar maes â blaenoriaeth: atal y broses o golli rhywogaethau, gwella gwytnwch ecosystemau, lleihau llygredd a sicrhau mwy o fynediad at dystiolaeth a mwy o ddefnydd ohoni. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn chwarae rhan allweddol i gyflawni'r targedau hyn pan fyddant wedi'u sefydlu mewn is-ddeddfwriaeth.

### *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig at Ddyletswydd Gweinidogion Cymru o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau wrth arfer eu swyddogaethau.

### *Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid*

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn adeiladu ar Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru sy'n ceisio sicrhau gwelliannau parhaol yn safonau iechyd a lles anifeiliaid o ran cadw anifeiliaid a diogelu iechyd y cyhoedd ar yr un pryd a chyfrannu'n economaidd ac yn amgylcheddol[18].

Mae Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021-26 – a ddatblygwyd fel rhan o'r Fframwaith – yn disgrifio sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adeiladu ar y cynnydd a wnaed yng Nghymru o ran lles anifeiliaid drwy gyflwyno amrywiaeth eang o bolisïau er mwyn cynnal momentwm diwygiadau ym maes lles anifeiliaid ers datganoli'r pwerau perthnasol[19].

Y canlyniadau uniongyrchol allweddol a ddymunir o dan y Fframwaith a'i gynllun cyflawni yw:

- Mae gan Gymru anifeiliaid cynhyrchiol iach;
- Mae ansawdd bywyd anifeiliaid yng Nghymru yn dda;
- Mae pobl yn ymddiried yn y ffordd y caiff bwyd ei gynhyrchu a'r ffordd y caiff iechyd y cyhoedd ei ddiogelu.

Hefyd, bwriedir i'r Fframwaith gyfrannu at sicrhau bod gan Gymru economi wledig ffyniannus ac amgylchedd o ansawdd uchel.

### *Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru*

Datblygwyd y Strategaeth Bwyd Cymunedol gyda gweledigaeth i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth i hyrwyddo a chryfhau'r system bwyd cymunedol a lleol yng Nghymru, cynyddu faint o fwyd iachach a chynaliadwy o ffynonellau lleol sydd ar gael a'r defnydd a wneir ohono ac ysbrydoli gwelliannau mewn llesiant yn ein cymunedau[20].

Mae iddi chwe amcan:

- Sicrhau meddwl ac arweinyddiaeth strategol cydgysylltiedig ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â natur amrywiol a chymhleth materion sy'n gysylltiedig â bwyd;
- Galluogi cydlynu a gweithredu yn y system fwyd leol er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyfywedd hirdymor, cynnig cyfleoedd newydd i gadwyni cyflenwi lleol a gwella gwytnwch systemau bwyd lleol;
- Cryfhau gwytnwch bwyd yn ein cymunedau drwy fynd i'r afael â thlodi bwyd, afiechyd sy'n ymwneud â deiet a lleihau gwastraff bwyd;
- Creu cymunedau bwyd cydlynol a thrwy hynny gynnig budd o ran cynhwysiant cymdeithasol a llesiant meddwl a chorfforol;
- Galluogi rhwydweithiau cyflenwi lleol amrywiol, cryfach fel y bydd mwy o fwyd a brynir yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru;
- Galluogi tyfu cymunedol a garddwriaeth.

Cafodd y Strategaeth ei llunio yn seiliedig ar ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys grwpiau cymunedol, busnesau lleol a chyrff cyhoeddus er mwyn ymdrin â'r anghenion a'r cyfleoedd unigryw sydd mewn cymunedau yng Nghymru.

## *Yr achos dros newid*

Mae cynhyrchu bwyd diogel o safon uchel yn parhau'n flaenoriaeth economaidd a chymdeithasol hollbwysig i Gymru, sy'n golygu y bydd yn rhaid i'r sector ffermio ddod yn fwy effeithlon a gwydn. Ar yr un pryd, mae angen i'r sector – fel pob rhan arall

---

[18] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, 2014
[19] Llywodraeth Cymru, 2021, Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021-26
[20] Llywodraeth Cymru, 2025, Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru

o economi a chymdeithas Cymru – ymateb i'r heriau a achosir gan yr argyfwng hinsawdd a natur drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr net a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru.

Er gwaethaf y cymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru, mae'r sector ffermio yn parhau mewn sefyllfa fregus:

- Er bod y ffermydd mwyaf yn cyfrif am 47% o gyfanswm y trosiant yn 2023, dim ond 3% o ffermydd oedd y rhain: mewn gwrthgyferbyniad, roedd y ffermydd lleiaf yn cyfrif am 61% o'r cyfanswm ond dim ond yn cyfrif am 5% o'r trosiant ar 16% o'r tir a ffermir[21];
- Mae incwm ffermydd yn dangos anwadalrwydd o flwyddyn i flwyddyn, y dylanwedir arno gan amodau presennol y farchnad, y mae'r tywydd yn effeithio arnynt[22];
- Roedd dros 75% o elw ffermydd yn dibynnu ar daliadau drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol yn 2023[23] (gweler Tabl 10);
- Roedd nifer y defaid a'r ŵyn yn 2024 ar ei lefel isaf ers 2011[24];
- Ers 2004, mae'r fuches odro wedi cynyddu ychydig (3%) ond mae maint y fuches eidion wedi lleihau'n sylweddol (33%);
- Mae cyfanswm y llafurwyr fferm wedi lleihau 11,708 (18.9%) i 50, 244 yn ystod y 25 mlynedd diwethaf[25];

Mae'r amgylchedd naturiol yn cynnig yr amodau a'r adnoddau sydd eu hangen ar y sector ffermio i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel:

- Mae Cymru wedi datgan bod argyfwng hinsawdd[26]:
  - Mae eisoes yn profi patrymau tywydd tymhorol mwy eithafol megis llifogydd a hafau sych a phoeth, a'r disgwyl yw y bydd y digwyddiadau hyn yn dod yn beth arferol (nid eithriadol);
  - Mae wedi profi cynnydd mewn tymereddau blynyddol cyfartalog, gyda hafau poethach a gaeafau mwynach;
  - Mae ffermwyr yn wynebu tymhorau tyfu llai rhagweladwy, erydu pridd a straen ar gnydau oherwydd tywydd mwy eithafol;
- Mae Cymru yn wynebu argyfwng natur[27] sy'n deillio o golli cynefinoedd, llygredd, a defnydd tir anghynaliadwy:
  - Mae un o bob chwe rhywogaeth yn wynebu mynd yn ddiflanedig[28];
  - Dim ond 11% o dir sydd wedi'i ddiogelu at ddibenion natur (ond mae llawer mewn cyflwr ecolegol gwael) [29];
  - Mae priddoedd, sy'n hollbwysig i gynnal bioamrywiaeth ac amaethyddiaeth, yn cael ei diraddio ac mae mater organig yn cael ei golli, sy'n amharu ar eu gallu i storio carbon, gan waethygu newid yn yr hinsawdd[30];
  - Nid yw nifer yr achosion o lygredd wedi'u cadarnhau o ffynonellau amaethyddol wedi gwella ers dechrau casglu data yn 2001 gyda 150 o achosion y flwyddyn ar gyfartaledd[31];
  - Mae nifer mawr o gyrff dŵr yn methu â chyrraedd statws da oherwydd llygredd o amaethyddiaeth[32].
- Mae angen diogelu iechyd a lles anifeiliaid a ffermir[33]:
  - Mae anifeiliaid iach a chynhyrchiol yn lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol megis allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd o ddefnyddio cynhyrchion fferyllol;
  - Mae defnyddwyr a chadwyni cyflenwi yn disgwyl yn gynyddol i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd gael bywyd o ansawdd da;
  - Mae Cymru yn wynebu bygythiadau cynyddol o glefydau ecsotig, yn enwedig y rhai sy'n achosi bygythiadau dirfodol i dda byw;
  - Mae iechyd anifeiliaid yn hanfodol i gynhyrchu bwyd diogel a diogelu iechyd y cyhoedd.

Mae ffermio hefyd yn chwarae rôl bwysig yng ngwead diwylliannol a chymdeithasol Cymru yn ogystal â'i helpu i gyflawni ei nodau llesiant.

Drwy ymateb yn effeithiol i bwysau o'r fath gellir sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar yr un pryd:

- Mae'r galw am fwyd a gynhyrchir yn gynaliadwy yn cynyddu ymhlith defnyddwyr;

[21] Llywodraeth Cymru, Arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth, Mehefin 2024
[22] Llywodraeth Cymru, Incymau fferm: Ebrill 2023 i Fawrth 2024, 2025, a chyhoeddiadau cynharach.
[23] Llywodraeth Cymru, Arolwg o Fusnesau Fferm, 2023-2024
[24] Llywodraeth Cymru, Arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth: Mehefin 2024, 2024
[25] Llywodraeth Cymru, Arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth: Mehefin 2024, 2024
[26] Datganodd Llywodraeth Cymru fod argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019.
[27] Datganodd Llywodraeth Cymru fod argyfwng hinsawdd ym mis Mehefin 2021.
[28] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar y Sefyllfa Naturiol, 2019
[29] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar y Sefyllfa Naturiol, 2019
[30] Llywodraeth Cymru, Adolygiad o dystiolaeth pridd Cymru, 2022
[31] Llywodraeth Cymru, Adolygiad statudol o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol: adolygiad 2025, 2025
[32] Llywodraeth Cymru, Adolygiad statudol o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol: adolygiad 2025, 2025
[33] *The Economics of Animal Health and Production*, Jonathan Rushton, Golygydd, CABI, 2009

- Gall defnydd mwy effeithlon o fewnbynnau fferm megis gwrtaith ac ynni wella effeithlonrwydd a lleihau'r effaith niweidiol ar newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd;
- Gall mabwysiadu systemau ac arferion ffermio newydd roi hwb i gynhyrchiant a hefyd fod yn fuddiol i ecosystemau;
- Mae cynnal iechyd da anifeiliaid yn un o ysgogwyr allweddol cynhyrchiant anifeiliaid ac mae'n hanfodol ar gyfer ffermio da byw yn gynaliadwy;
- Mae busnesau fferm mwy gwydn yn hollbwysig i ddiogelu bywoliaethau amaethyddol a bywoliaeethau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

### *Amcanion gwariant y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

#### *Nod ac amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Nod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yw helpu ffermwyr Cymru i fynd i'r afael â phedwar amcan bras rheoli tir yn gynaliadwy Llywodraeth Cymru a thrwy hynny gyfrannu at wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru i ffermwyr Cymru arwain y byd o ran ffermio cynaliadwy[34]. Bwriedir gwobrwyo ffermwyr am sicrhau amrywiaeth eang o ganlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd a nwyddau eraill ac oherwydd cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill.

Nod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw adeiladu ar safonau uchel yr arferion ffermio sydd eisoes ar waith yng Nghymru drwy gefnogi ffermwyr gyda'r gwaith y maent yn ei wneud i leihau eu hôl troed carbon a gwella'r amgylchedd, ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Mae'n seiliedig ar ffordd o sicrhau'r canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a ddymunir ar lefel fferm gyfan drwy fabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy ar y cyd. Cred Llywodraeth Cymru fod Cymru yn addas iawn ar gyfer y math hwn o ffermio a bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn helpu ffermwyr – yn ariannol ac o ran trosglwyddo gwybodaeth a chyngor – i fabwysiadu'r arferion hyn.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn pennu'r amcanion hirdymor allweddol canlynol:

- Mae 95% o fusnesau fferm sy'n cymryd rhan yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol yn ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy erbyn diwedd y Cyfnod Pontio (h.y. Rhagfyr 2029);
- Mae 100% o ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn mabwysiadu arferion rheoli tir mwy cynaliadwy erbyn diwedd y Cyfnod Pontio (h.y. Rhagfyr 2029);
- Mae 75% o ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ystyried eu bod wedi cadw, os nad wedi gwella, eu gwytnwch (pan fydd yr holl ystod o Weithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol ar gael) wrth iddynt bontio i arferion ffermio cynaliadwy;
- Mae pob ffermwr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi mabwysiadu arferion ffermio newydd/gwahanol i leihau eu hallyriadau carbon neu wedi ymaddasu i amodau hinsawdd sy'n newid erbyn diwedd y Cyfnod Pontio (h.y. Rhagfyr 2029);
- Mae pob ffermwr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn rheoli o leiaf 10% o'r fferm at ddibenion natur a bioamrywiaeth, wedi creu coetir neu wrychoedd newydd ac yn cynnal coetir a gwrychoedd sy'n bodoli eisoes erbyn diwedd y Cyfnod Pontio (h.y. Rhagfyr 2029);
- Mae pob ffermwr yn cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy neu wedi gwella'r ffordd y rheolir safleoedd hanesyddol yn flynyddol.

#### *Y sefyllfa bresennol*

Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, mae Cynllun Cymorth Amlflwydd Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn cyfrannu at gyflawni amcanion rheoli tir yn gynaliadwy drwy'r ffordd y mae'n rhoi cymorth. Mae'n rhoi sicrwydd, tryloywder ac eglurder i'r sector amaethyddol ynglŷn â gweithgareddau arfaethedig Llywodraeth Cymru i gefnogi'r sector dros bob cyfnod o bum mlynedd. Mae'r Cynllun Cymorth Amlflwydd presennol yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ionawr 2025 i 31 Rhagfyr 2029.

Ar hyn o bryd, mae ffermwyr yng Nghymru yn parhau i gael cymorth ariannol ar ffurf Cynllun y Taliad Sylfaenol, Taliad Ailddosbarthu a Thaliadau i Ffermwyr Ifanc, y cyfeirir atynt fel arfer fel Cynllun y Taliad Sylfaenol[35]. Mae amcanion y cymorth yn canolbwyntio'n bennaf ar roi sefydlogrwydd ariannol i ffermwyr a, thrwy hynny, gefnogi economïau gwledig:

- Mae Cynllun y Taliad Sylfaenol yn cynnig cymorth refeniw uniongyrchol i ffermwyr er mwyn eu helpu i reoli risgiau ariannol ac ansicrwydd sy'n gysylltiedig â ffermio, megis prisiau'r farchnad sy'n newid yn sydyn, tywydd eithafol, neu glefydau;

[34] Llywodraeth Cymru, Cefnogi ffermwyr i ffermio, Rhagfyr 2023
[35] Cafwyd gwared ar wyrddu yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol yn 2021 ar ôl ymgynghoriad ar symleiddio'r PAC yn 2020.

- Mae'n rhaid i ffermwyr sy'n cael arian o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol fabwysiadu arferion ffermio penodol a chadw at safonau rheoli da byw ac amgylcheddol diffiniedig, a bennwyd mewn deddfwriaeth yn bennaf, a elwir yn Drawsgydymffurfio[36];
- Mae Cynllun y Taliad Sylfaenol yn helpu i gynnal cymunedau gwledig sy'n dibynnu'n fawr ar weithgarwch amaethyddol.

Yn ychwanegol at Gynllun y Taliad Sylfaenol, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r sector amaethyddol drwy amrywiol gynlluniau buddsoddi gwledig a ariennir, y mae llawer ohonynt yn cyd-fynd â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Nod y cyllid hwn yw cefnogi'r economi wledig ac amgylchedd naturiol Cymru, cynhyrchiant ac arallgyfeirio, coetiroedd a choedwigaeth, gwelliannau amgylcheddol ar y fferm a chadwyni cyflenwi bwyd a ffermio.

Mae Cynefin Cymru yn un o'r cynlluniau buddsoddi gwledig allweddol sydd ar gael i ffermwyr cyn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Ei nod yw diogelu tir cynefin a fu o dan Glastir gynt, cynnwys tir cynefin ychwanegol nad yw o dan drefniant rheoli taledig a chynnal cymorth ar gyfer tir comin.

Mae ffermwyr hefyd yn cael budd o Cyswllt Ffermio, sef rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth, arloesi a chynghori i fusnesau ffermio a choedwigaeth. Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol o dan Gynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 i roi cyngor a chymorth i wella gwytnwch a hyrwyddo trawsnewidiad mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a chymunedau gwledig. Ar ôl gadael yr UE, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid gwerth £22.9m i Cyswllt Ffermio ar gyfer 2023-2025 i helpu o bontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Gan edrych ymlaen, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu addasu model presennol Cyswllt Ffermio fel y bydd ffermwyr yn cael y cyngor, yr arweiniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni amcanion rheoli tir yn gynaliadwy a gofynion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cymru ac, yn benodol, Taliadau Gwledig Cymru, yn chwarae rolau hollbwysig i ddarparu Cynllun y Taliad Sylfaenol, y Cynllun Buddsoddi Gwledig a Cyswllt Ffermio:

- Maent yn gyfrifol am oruchwylio, rheoli a chyflawni Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig;
- Mae timau polisi Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Taliadau Gwledig Cymru i sicrhau bod arlwy'r Cynllun Buddsoddi Gwledig yn cyfrannu at bolisïau ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru;
- Mae Taliadau Gwledig Cymru yn sicrhau bod ffermwyr yn bodloni'r gofynion ar gyfer cael arian o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol a llawer o daliadau'r Cynllun Buddsoddi Gwledig, gan gynnwys:
    - Darparu'r Systemau Gweinyddu a Rheolaethau Integredig;
    - Cynnal y System Adnabod Parseli Tir;
    - Gwiriadau gweinyddol, gan gynnwys safonau rheoli grantiau;
    - Arolygiadau i gadarnhau cydymffurfiaeth â meini prawf cymhwystra a rheolau cynlluniau;
    - Trefniadau gweinyddol ac arolygu i gadarnhau cydymffurfiaeth â rheolau Trawsgydymffurfio;
- Mae Taliadau Gwledig Cymru yn rhoi arweiniad a chymorth i ffermwyr drwy'r canlynol:
    - Llwyfannau ar-lein sy'n symleiddio ceisiadau, yn prosesu taliadau, ac yn cyfathrebu;
    - Canolfan cyswllt â chwsmeriaid benodol i helpu ffermwyr i ddeall y rheolau, manteisio ar gyfleoedd cyllido a hwyluso cymorth digidol;
    - Cymorth technegol a chanllawiau cyhoeddedig i helpu ffermwyr i fodloni gofynion cydymffurfiaeth;
    - Mae rhaglen Cyswllt Ffermio Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth, arloesi a chynghori i fusnesau ffermio a choedwigaeth ac mae'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn rhoi cyngor ac arweiniad ar bolisi cyffredinol a grantiau;
- Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn dryloyw.

Mae Tabl 1 dangos y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid refeniw a chyfalaf ar gyfer cymorth i ffermwyr dros y cyfnod ers 2019/20. Mae'n cwmpasu taliadau uniongyrchol i ffermwyr ac eraill yn ogystal â chostau gweinyddu'r gwahanol fentrau. Mae hefyd yn gwahaniaethu rhwng gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

*Tabl 1: Dyraniad gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth i ffermwyr (£'000, 2019/20 – 2025/26)*

| Math | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | | | |
| Strategaeth amaethyddiaeth | 20 | 100 | 400 | 650 | 400 | 500 | 500 |
| Cynllun y Taliad Sylfaenol | 243,000 | 243,000 | 238,000 | 238,000 | 235,000 | 238,000 | 238,000 |
| Gweinyddu Taliadau Gwledig Cymru | 12,996 | 0 | 3,548 | 9,194 | 8,194 | 3,694 | 3,794 |

[36] Set o reolau sy'n cynnwys Gofynion Rheoli Statudol a safonau ar gyfer Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da yw Trawsgydymffurfio.

| Math | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweinyddu Taliadau Gwledig Cymru – nid arian parod | | 14,070 | 12,048 | 9,649 | 6,649 | 6,300 | 10,243 |
| Cynlluniau Buddsoddi Gwledig | | | 6,820 | 6,830 | 23,272 | 42,889 | 60,220 |
| Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20[37] | 100,265 | 86,102 | 73,458 | 81,629 | 62,338 | | |
| Newydd-ddyfodiaid Ffermio | 4,000 | 0 | | | | | |
| **Cyfalaf** | | | | | | | |
| TG Polisi Amaethyddol Cyffredin | 0 | 0 | 3,458 | | | | |
| TGCh Taliadau Gwledig | 2,000 | 1,505 | 1,505 | 6,000 | 6,000 | 12,380 | 8,200 |
| Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20[38] | 47,228 | 32,318 | 33,631 | 35,184 | 18,804 | | |
| Cynlluniau Buddsoddi Gwledig | | | | 20,500 | 23,300 | 46,620 | 66,952 |
| **Refeniw** | **360,281** | **343,272** | **337,732** | **345,952** | **335,853** | **292,883** | **314,257** |
| **Cyfalaf** | **49,228** | **33,823** | **35,136** | **65,684** | **48,104** | **59,000** | **75,152** |
| **Cyfanswm** | **409,509** | **377,095** | **372,868** | **411,636** | **383,957** | **351,883** | **389,409** |

## *Yr angen am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Er bod ffermwyr yng Nghymru yn gwybod sut i gynhyrchu bwyd eithriadol, mae angen cymorth arnynt i addasu eu harferion ffermio er mwyn mynd i'r afael â phwysau amgylcheddol a chymdeithasol a sicrhau bod eu busnesau yn broffidiol ac yn wydn ar yr un pryd. Ni fydd grymoedd y farchnad ar eu pennau eu hunain yn ddigon i sicrhau bod gwelliannau o ran cynhyrchiant amaethyddol hirdymor yn cyd-fynd â gwell stiwardiaeth amgylcheddol, mwy o fanteision cymdeithasol, a mwy o sefydlogrwydd economaidd gwledig. Yn hytrach, mae angen cymorth am sawl rheswm:

- Mae rhai arferion ffermio yn aml yn arwain at allanoldebau megis allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd, llygredd dŵr, diraddiant priddoedd, colli bioamrywiaeth: gellir mynd i'r afael â hyn os caiff y costau allanol hyn eu mewnoli drwy wobrwyo ffermwyr am arferion sy'n gwella gwasanaethau ecosystemau neu leihau'r angen am wariant cyhoeddus yn y dyfodol ar adferiad amgylcheddol;
- Yn gysylltiedig â hyn, gall cyllid Llywodraeth Cymru helpu i sicrhau manteision cymdeithasol nad yw marchnadoedd yn rhoi gwerth arnynt fel arfer: mae'r rhain yn cynnwys dŵr ac aer glân/glanach, atafaelu carbon, gwell bioamrywiaeth a gwarchod tirweddau: drwy dalu ffermwyr i sicrhau'r manteision hyn gellir cyfiawnhau buddsoddi trethdalwyr mewn amaethyddiaeth y tu hwnt i gynhyrchu bwyd;
- Er mwyn lleihau'r risg a wynebir gan ffermwyr a rheolwyr tir a sicrhau mwy o sefydlogrwydd economaidd drwy hyrwyddo gwytnwch hirdymor amaethyddiaeth Cymru, er enghraifft drwy hyrwyddo priddoedd iachach ac amrywiaeth cnydau a all leihau costau mewnbwn dros amser ac annog pori a defnydd tir cynaliadwy i wrthsefyll ysgytwadau hinsoddol (e.e. llifogydd, cyfnodau o sychder) yn well;
- Er mwyn cefnogi cadwyni cyflenwi (Cymreig) lleol a brandio gwledig drwy helpu amaethyddiaeth Cymru i wahaniaethu ei hun yn rhyngwladol a thrwy hynny greu cyfleoedd ar gyfer cynhyrchion sy'n ychwanegu gwerth a mwy o eco-dwristiaeth;
- Er mwyn cynnal hyfywedd economaidd ardaloedd gwledig drwy gynnal ffermydd a fyddai fel arall mewn sefyllfa fregus fel busnesau (e.e. drwy ffrydiau incwm wedi'u harallgyfeirio) a thrwy gefnogi cyflogaeth wledig mewn gwasanaethau gwarchod natur, twristiaeth, ac amgylcheddol.
- Er mwyn cadw'r cyfraniad sylweddol gan ffermio a ffermwyr i'n diwylliant a'n hiaith werthfawr.

I grynhoi, ceir cyfle i ddatblygu diwydiant amaethyddol mwy cynaliadwy a gwydn sy'n darparu bwyd ynghyd â manteision cymdeithasol hanfodol a hefyd gynnal bywoliaethau gwledig a rheoli gwerth am arian gwariant cyhoeddus yn yr hirdymor.

Mae cymorth Llywodraeth Cymru i ffermwyr ar hyn o bryd ac yn ddiweddar (e.e. Cynllun y Taliad Sylfaenol, y cynlluniau buddsoddi gwledig a Glastir) yn annigonol i gyflawni ei hamcanion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy am sawl rheswm:

- Nid yw Cynllun y Taliad Sylfaenol wedi'i dargedu'n ddigonol i wireddu'r cyfleoedd economaidd sydd ar gael gan dir Cymru drwy wella gwytnwch ffermydd;
- Mae Cynllun y Taliad Sylfaenol yn gyfyngedig ei gwmpas, gan fethu â chefnogi gwytnwch a chynaliadwyedd ehangach ffermio yng Nghymru;
- Rhoddodd cynlluniau amaeth-amgylchedd megis Glastir gymhelliant annigonol i ffermwyr gymryd rhan er mwyn sicrhau newid buddiol sylweddol ar gyfradd genedlaethol, yn enwedig ar dir lle mae ymyriadau fwyaf dymunol;
- Yn aml, cysylltiad gwan sydd rhwng cyllid a'r canlyniadau a ddymunir ac maent yn mynd yn groes i amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

[37] Yn cynnwys yr elfennau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a'r UE
[38] Yn cynnwys yr elfennau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a'r UE

At hynny, mae tystiolaeth o werthusiadau o gynlluniau cymorth amaethyddol diweddar yng Nghymru yn tynnu sylw at eu llwyddiant cyfyngedig i gydbwyso gwaith i wella cynhyrchiant fferm a gwella'r amgylchedd naturiol. Er enghraifft, mae gwerthusiad o Glastir yn rhoi tystiolaeth ar statws nifer o gynefinoedd ac adnoddau naturiol (a rhai adnoddau diwylliannol dethol) a'r newid iddynt[39]. Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Amcangyfrifwyd bod coetiroedd yn ymestyn dros 23,700 hectar (16.9%) o Gymru yn 2021, 7% yn fwy nag yn 2010 ond yn llai na'r hyn a ddymunir;
- Cynyddodd hyd gwrychoedd 4% gyda chynnydd o 9% o ran lled ac uchder hyd at 2021, ond yn dal yn llai na'r hyn a ddymunir;
- Collwyd 5% o'r tir amaethyddol mwyaf cynhyrchiol (Tir âr a Glaswelltir wedi'i Wella) hyd at 2021;
- Ni chanfuwyd unrhyw newid mewn tir lled-naturiol;
- Bydd newidiadau o ran gorchudd coetir a threfol wedi cael effaith niweidiol ar ansawdd gweledol tirweddau ar raddfa leol yn ogystal â gwasanaethau a manteision eraill;
- Yn gyffredinol, newidiodd 6.8% o Gymru ddefnydd tir rhwng 2010 a 2021.

Hefyd, defnyddiwyd cyfres o ddangosyddion ar gyfer cyflwr cynefinoedd i olrhain tueddiadau dros yr hirdymor, y tymor canolig a'r byrdymor. Er bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion yn awgrymu dim newid na sefydlogrwydd, mae nifer y dangosyddion sy'n gostwng wedi cynyddu'n gyson, sy'n awgrymu y bydd angen camau pellach o bosibl i wella gwytnwch a chynaliadwyedd adnoddau naturiol yng Nghymru o ystyried y pwysau presennol ar reoli defnydd tir a'r risgiau a achosir gan newid yn yr hinsawdd, llygredd cemegol a bioddiogelwch.

## *Llunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Gan adlewyrchu'r gwersi o gymorth blaenorol i ffermwyr yn ogystal â'r heriau newydd a wynebir gan ffermwyr, mae'r broses o lunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cael ei llywio gan bum egwydddor allweddol:

- Dylai gadw ffermwyr ar y tir a thrwy hynny sicrhau bod y tir yn parhau i gael ei reoli gan y rhai sy'n ei adnabod orau (h.y. ffermwyr) a hefyd eu helpu i ymaddasu a ffynnu;
- Dylai gynnal prosesau cynhyrchu bwyd hollbwysig yng Nghymru a thrwy hynny gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i ffermwyr Cymru arwain y byd o ran ffermio cynaliadwy, gan fodloni rhwymedigaethau byd-eang Cymru heb symud prosesau cynhyrchu bwyd i wledydd sydd â safonau amgylcheddol is;
- Dylai adeiladu ar ddiwydiant amaethyddol ffyniannus a gwydn a chydnabod bod y gwaith o sicrhau canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol yn dibynnu ar ffermydd sy'n economaidd gynaliadwy;
- Dylai cymorth o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol anelu at fanteisio i'r eithaf ar bob canlyniad rheoli tir yn gynaliadwy drwy roi cymorth sy'n annog sicrhau'r canlyniadau gyda'i gilydd a lleihau cyfnewidiadau i'r eithaf;
- Dylai fod modd i bob ffermwr fod yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys tenantiaid a'r rhai sydd â hawliau tir comin.

### *Strwythur y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn talu ffermwyr i ymgymryd â 12 Gweithred Gyffredinol sy'n golygu eu bod yn mabwysiadu arferion [mwy] cynaliadwy sy'n mynd y tu hwnt i'r rhai sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth/rheoliadau presennol. Fel y cyfryw, mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn golygu y bydd ffermwyr yn sicrhau canlyniadau [penodol] sy'n cynnig manteision nid yn unig ar gyfer y fferm ond hefyd o ran yr amgylchedd, iechyd a lles anifeiliaid a chymdeithas yn fwy cyffredinol yn unol ag amcanion rheoli tir yn gynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Er y bydd rhai o'r Gweithredoedd eisoes yn mynd rhagddynt ar lawer o ffermydd ledled Cymru, nod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw helpu ffermwyr i wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau a gweithio'n dda yn eu hamgylchedd. Mewn llawer o achosion, gall ymgymryd â'r Gweithredoedd yn gyson eu helpu i leihau eu costau.

Rhagwelir strwythur tair haen a fydd yn cynnwys:

- Gweithredoedd Cyffredinol, sy'n ofynnol gan bawb sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: maent wedi'u llunio i fod yn gymwys i'r amrywiaeth o ffermydd yng Nghymru ond nid yw rhai Gweithredoedd yn gymwys i bob fferm (e.e. nid yw gweithredoedd iechyd anifeiliaid yn gymwys i ffermydd âr);
- Gweithredoedd Opsiynol, a fydd yn cynnig dewis i'r rhai sy'n cymryd rhan flaenoriaethu neu ymgymryd â'r camau pwysicaf a mwyaf priodol i'w hamgylchiadau;
- Gweithredoedd Cydweithredol, a fydd yn cynnig cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan weithio gydag eraill i sicrhau newid ar raddfa fwy.

[39] Y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd – Adroddiad 105, 2024, Tueddiadau cenedlaethol Cymru a Gwerthusiad o Glastir

Caiff ffermwyr eu gwobrwyo o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy am ragori ar ei linell sylfaen reoliadol a bodloni nifer o ofynion y cynllun. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad bod yn rhaid i 10% o leiaf o bob fferm cael ei reoli'n weithredol fel cynefin er budd bywyd gwyllt ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd[40]. Os nad oes gan ffermydd ddigon o gynefinoedd ar hyn o bryd i fodloni'r gofyniad hwn o 10%, byddant yn gallu creu cynefinoedd dros dro newydd i gyrraedd y trothwy.

Mae'r cynnig blaenorol y dylai 10% o leiaf o bob fferm fod o dan orchudd coed fel coetir neu goed unigol wedi cael ei ddileu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon[41] a thrafodaethau ag aelodau bord gron a rhanddeiliaid ehangach. Mae wedi cael ei ddisodli gan darged lefel cynllun ar gyfer plannu coed a chreu gwrychoedd a gofyniad i gwblhau cynllun cyfleoedd i blannu coed a chreu gwrychoedd. Caiff cyllid penodol ar gyfer y gwaith plannu hwn ei ddarparu drwy'r Gweithredol Opsiynol.

Bydd yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol yn rhoi cymorth technegol ac ariannol i helpu ffermwyr i adeiladu ar y Gweithredoedd Cyffredinol, er mwyn sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ychwanegol. Drwy gymryd rhan ar gam cynnar yn y Cynllun bydd hyn yn helpu ffermwyr i wella lefelau eu hincwm, eu sefydlogrwydd a'u cynaliadwyedd. Disgwylir i'r ystod o Weithredoedd Cyffredinol a fydd ar gael gynnwys gweithredoedd ynglŷn â chynhyrchiant, ymarfer fferm cynaliadwy, adfer cynefinoedd a chymorth o hyd drwy grantiau bach. Bydd y rhain yn adeiladu ar y cynllun paratoi presennol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sydd ar gael yn 2025.

Bydd yr Haen Gydweithredol yn helpu ffermwyr a sefydliadau i weithio gyda'i gilydd i gael y potensial mwyaf i sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol. Mae enghreifftiau yn cynnwys rhannu gwybodaeth ac arloesedd â ffermwyr eraill neu academyddion er mwyn gwella effeithlonrwydd ffermydd a gweithio gyda'i gilydd i wella cyfleoedd i gadwyni cyflenwi lleol. Mae rhai cynlluniau buddsoddi gwledig megis y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig sy'n helpu i greu cynefinoedd rhyng-gysylltiedig ar draws tirweddau mewn ffordd gydgysylltiedig i sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol gorau posibl yn cael eu defnyddio i lywio'r Gweithredoedd Cydweithredol[42].

Bydd ffermwyr yn gallu dewis pa Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol y maent yn eu mabwysiadu, os o gwbl. Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol â blaenoriaeth a fydd ar gael pan fydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei lansio yn 2026; caiff eraill eu cyflwyno yn ystod y Cyfnod Pontio (gweler isod).

## *Cymhwystra'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Haenau Cyffredinol ac Opsiynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy[43]:

- Mae'n rhaid i ffermwyr ymgymryd â gweithgareddau amaethyddol neu ategol fel y'i diffiniwyd yn y Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru)[44];
- Mae'n rhaid bod gan ffermwyr o leiaf dri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru[45] neu mae'n rhaid eu bod yn gallu dangos mwy na 550 o oriau llafur safonol;

Mae'n rhaid bod gan ffermwyr rheolaeth reoli dros y tir[46] am o leiaf 10 mis o'r flwyddyn galendr[47].

[40] Wrth benderfynu a yw'r gofyniad o 10% wedi cael ei fodloni, bydd pob cynefin megs glaswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau, pyllau a choetir llydanddail sefydledig ei gynnwys ynghyd ag ardaloedd cynefin newydd ei greu megis gwrychoedd, plannu coetir neu greu cynefin ar dir wedi'i wella. Ni fwriedir i nodweddion eraill megis waliau sychion, adeiladau fferm traddodiadol na choetiroedd conifferaidd gael eu cynnwys.
[41] Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon: adroddiad llawn, Tachwedd 2024
[42] Menter Llywodraeth Cymru yw'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig a'i nod yw annog ymdrechion cydweithredol ymhlith ffermwyr, rheolwyr tir a rhanddeiliaid eraill i wella adnoddau naturiol Cymru a'u rheoli'n gynaliadwy. Mae'n darparu cyllid i roi datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ar waith ar raddfa tirwedd gyda'r nod o sicrhau manteision amgylcheddol a chefnogi manteision economaidd y rhai sy'n cymryd rhan ar yr un pryd. Mae proses gwneud cais y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig yn cynnwys dau gam: y cam datblygu prosiect, lle mae grwpiau neu bartneriaethau yn gwneud cais am gymorth i ddatblygu cynnig, a'r cam cyflawni prosiect lle maent yn hawlio cyllid pellach i roi eu hymyriadau arfaethedig ar waith. Mae'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig yn pwysleisio pwysigrwydd dulliau cydweithredol ar raddfa tirwedd o reoli tir, gan gydnabod y gall ymdrechion ar y cyd arwain at ganlyniadau amgylcheddol mwy sylweddol a chynaliadwy. Drwy dargedu gweithredoedd ac ymyriadau dros ardaloedd mwy o faint, mae'r cynllun yn anelu at wella bioamrywiaeth, ansawdd dŵr, iechyd priddoedd, ac agweddau hollbwysig eraill ar yr amgylchedd naturiol yng Nghymru.
[43] Diffinnir 'ffermwr' fel Person naturiol neu Gyfreithiol neu grŵp o Bersonau naturiol neu Gyfreithiol, ni waeth beth fo'r statws cyfreithiol a roddir i'r cyfryw bersonau neu grwpiau o dan gyfraith genedlaethol, y mae eu daliad wedi'i leoli yng Nghymru ac sy'n arfer gweithgarwch amaethyddol neu ategol ar dir amaethyddol.
[44] Gellir crynhoi hyn fel cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion amaethyddol, gan gynnwys cynaeafu, godro, bridio anifeiliaid a chadw anifeiliaid at ddibenion ffermio a gweithredu ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth i greu a rheoli cynefinoedd, gwarchod natur, lliniaru newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo neu gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau.
[45] Dylai'r tir gael ei gynnal mewn cyflwr sy'n ei gwneud yn addas ar gyfer gweithgareddau amaethyddol ac ategol.
[46] Mewn achosion lle mae gan ddau ffermwr neu fwy gytundeb ffermio a rennir, ac felly nad oes ganddynt feddiannaeth gyfyngol, dim ond un a all hawlio o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'n rhaid i'r holl dir yn y cytundeb gael ei gynnwys ar Ffurflen Cais Sengl y ffermwr dynodedig. Bydd angen i'r ddau gydymffurfio â'r Gweithredoedd Cyffredinol sy'n ymwneud â thir er mwyn sicrhau bod y tir yn cael ei reoli'n briodol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried a oes angen unrhyw amrywiadau i ofynion cymhwystra'r cynllun er mwyn darparu ar gyfer partneriaethau busnes sydd wedi'u llunio i roi llwybr i mewn i'r diwydiant i newydd-ddyfodiaid.
[47] Bydd angen i'r Gweithredoedd Cyffredinol gael eu cynnal am y flwyddyn galendr lawn.

## *Methodoleg dalu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Bwriedir i Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gefnogi gwytnwch busnesau fferm drwy gwblhau'r Gweithredoedd Cyffredinol sy'n gysylltiedig â Thaliad Cyffredinol sy'n cynnwys dwy elfen:

- Taliad Sylfaenol Cyffredinol. Mae hwn yn seiliedig ar amcangyfrif o'r gost yr aed iddi a'r incwm a hepgorwyd drwy ymgymryd â'r Gweithredoedd Cyffredinol sy'n bodloni gofynion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac sy'n daladwy yn erbyn:
  - Y fferm gyfan, gan ystyried y tir, yr ardaloedd o goetir a'r cynefin sydd wedi'u gwella ac unrhyw hawliau pori tir comin;
  - Ardaloedd o gynefin;
  - Ardaloedd o goetir;
- Taliad Gwerth Cymdeithasol sy'n adlewyrchu'r manteision a sicrheir i gymdeithas yn fwy cyffredinol drwy gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy.

*Cyfanswm Taliad Sylfaenol Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy = Taliad sy'n adlewyrchu costau yr aed iddynt ac incwm a hepgorwyd ar gyfer Gweithredoedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy + Taliad i gydnabod gwerth cymdeithasol*

Wrth lunio methodoleg dalu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, diffinnir gwerth cymdeithasol fel:

"Gwerth cyhoeddus y canlyniadau sy'n cael eu darparu drwy arferion ffermio cynaliadwy o ganlyniad i'r SFS nad yw prisiau'r farchnad am gynnyrch amaethyddol yn eu hadlewyrchu'n briodol ond sy'n cyfrannu at amcanion statudol Rheoli Tir yn Gynaliadwy."

Mae'r gwerth cymdeithasol yn gyson â phedwar amcan rheoli tir yn gynaliadwy Llywodraeth Cymru a chaiff ei amcangyfrif dros gyfnod sy'n adlewyrchu llesiant y genedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol (ac sy'n gyson ag adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Caiff y Cyfraddau Talu eu darparu fel rhan o fanylion y Cynllun terfynol yn 2025 a byddant yn parhau i gael eu monitro a'u diweddaru wedi hynny.

## *Prosesau gweinyddu a dilysu'r Cynllun*

### Canllaw'r Cynllun

Caiff manylion y Cynllun eu cyhoeddi er mwyn sicrhau bod ffermwyr yn cael digon o wybodaeth i ddeall y Cynllun a sut y gallant gael budd o gymryd rhan ynddo. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllaw manwl ar y Cynllun cyn iddo gael ei gyflwyno yn 2026, a fydd yn cynnwys gofynion y Cynllun y bydd angen eu bodloni i gael y Taliad Cyffredinol.

### Gwneud cais

Bydd angen i ffermwyr wneud cais am y Taliad Cyffredinol yn flynyddol drwy'r Ffurflen Cais Sengl. Efallai y bydd angen iddynt hefyd ddiweddaru systemau Taliadau Gwledig Cymru a Cyswllt Ffermio i gadarnhau bod Gweithredoedd Cyffredinol wedi cael eu cwblhau. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod trefniadau gweinyddol y Gweithredoedd Cyffredinol mor syml â phosibl. Bydd blwyddyn y cynllun yn gweithredu ar sail blwyddyn galendr.

Mae Gweithredoedd Opsiynol neu Weithredoedd Cydweithredol yn wirfoddol felly bydd angen gwneud ceisiadau ar wahân ond y bwriad yw y bydd y rhain mor effeithlon â phosibl drwy Taliadau Gwledig Cymru ar-lein.

### Cyngor a chymorth

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o sicrhau bod ei phrosesau yn glir ac yn hygyrch a bod cyngor a chymorth addas yn cael eu rhoi lle y bo'n briodol.

Byddwn yn helpu ffermwyr i gael a/neu gynnal yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni'r Gweithredoedd Cyffredinol ac i ddewis/cyflawni Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol priodol drwy roi cyngor, gwersi i'w dysgu a chymorth datblygu, gan gynnwys drwy gyfleoedd wyneb yn wyneb ar y fferm a gyda ffermwyr eraill. Y bwriad yw adeiladu ar raglen Cyswllt Ffermio yr ymddiriedir ynddi.

### Rhybuddion a chosbau

Un o'r amodau talu yw bod yn rhaid parhau i gydymffurfio â meini prawf cymhwystra'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y llinell sylfaen reoliadol a holl Weithredoedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n gymwys. Os bydd diffyg cydymffurfiaeth neu ddatganiadau anghywir, gall hyn arwain at arweiniad i gywiro mân broblemau lle y bo modd. Mae'n bosibl y caiff taliadau eu

lleihau a/neu y caiff cosbau ariannol eu rhoi yn achos problemau mynych neu broblemau mwy sylweddol o ran cydymffurfiaeth. Bydd y rhain yn gymesur ac yn briodol.

## *Pontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

### Cam paratoi

Cyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn ystod 2025, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Cam Paratoi sydd â'r nod o baratoi ffermwyr a rheolwyr tir ar ei gyfer. Mae'n cynnwys sawl ymyriad sy'n rhoi cyngor a chymorth i ffermwyr, gan gynnwys:

- Taliadau uniongyrchol i ffermwyr drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol tan ddiwedd 2025, sy'n esempt o ddyletswyddau rheoli tir yn gynaliadwy;
- Parhau â Chynllun Cynefin Cymru ac estyn cytundebau ynglŷn â thir comin;
- Parhau â'r Taliad Cymorth Organig;
- Estyn Cyswllt Ffermio hyd at wanwyn 2026 er mwyn parhau i roi cymorth trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi;
- Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig newydd i gefnogi partneriaethau â ffocws ar ffermwyr sy'n cynnig datrysiadau sy'n seiliedig ar natur mewn tirwedd, dalgylch neu ar raddfa Cymru gyfan: bydd hyn yn helpu i lywio Gweithredoedd Cydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Cyfnodau pellach i wneud cais o dan y cynllun grantiau bach megis Tyfu er mwyn yr Amgylchedd.

Cyn lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei phrosesau arfaethedig yn briodol, gan gynnwys drwy wneud y canlynol:

- Parhau â'r cynllun peilot ar gyfer y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid;
- Gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a ffermwyr i dreialu dull mwy effeithlon o greu Cynlluniau Rheoli ar gyfer ardaloedd SoDdGA;
- Lansio adnodd Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cyswllt Ffermio a datblygu cofnod dysgu Cyswllt Ffermio.

### Cyfnod Pontio (2026 – 2029)

Bydd Cyfnod Pontio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dechrau ar 1 Ionawr 2026 ac yn para tan 31 Rhagfyr 2029 yn unol â chyfnod y Cynllun Cymorth Amlflwydd[48]. Yn ystod y cyfnod hwn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno rhaglen lawn o gymorth. Mae hyn yn cynnwys y Gweithredoedd Cyffredinol a chyfres lawn o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol.

O 2026, bydd ffermwyr yn gallu dewis cymryd rhan naill ai yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy neu yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol. Os byddant yn dewis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ni fyddant yn gallu mynd yn ôl at Gynllun y Taliad Sylfaenol. Bydd taliadau o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol yn cael eu tynnu'n ôl yn raddol yn ystod y Cyfnod Pontio drwy leihau eu gwerth yn gynyddrannol, yn dechrau yn 2026.

Rhagwelir y bydd y cymorth a roddir o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn newid dros amser, gan gynnwys yn ystod y Cyfnod Pontio mewn ymateb i adborth ffermwyr a dysgu o'r broses o'i gyflwyno/gyflawni. Er enghraifft, symud y pwyslais oddi wrth brofi pridd i gynllunio ar gyfer iechyd pridd gan y bydd ffermwyr yn meddu ar yr wybodaeth angenrheidiol i roi penderfyniadau cynaliadwy ar waith ar eu ffermydd ar ôl profi pob cae o fewn pum mlynedd. Yn yr un modd, adolygu Cynlluniau Rheoli Safle Dynodedig ac ymateb i'r cynnydd a wnaed a'r targedau ar gyfer plannu coed a chreu gwrychoedd y bwriedir iddynt gael eu cyflawni cyn 2030.

### Gofynion data a gwybodaeth

Bwriad Llywodraeth Cymru yw pennu gofynion sy'n gofyn i ffermwyr yn y Cynllun ddarparu cyn lleied o ddata a gwybodaeth â phosibl, yn bennaf i gyfrifo taliadau a'i gwneud yn bosibl i'w talu.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cwblhau ymarfer cychwynnol i gadarnhau data sydd wedi rhoi cyfle i ffermydd ddiweddaru System Adnabod Parseli Tir Taliadau Gwledig Cymru er mwyn cadarnhau ardaloedd o gynefin a brigdwf ar lefel cae a fferm i baratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac at ddibenion cyfeirio o dan Gynllun Cynefin Cymru 2025. Rhagwelir y bydd ymarfer pellach yn 2025 i gadarnhau unrhyw nodweddion ychwanegol sy'n ofynnol fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy terfynol wrth baratoi i'w lansio yn 2026.

Caiff ceisiadau am Daliad Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy eu cyflwyno ar Ffurflen Cais Sengl Taliadau Gwledig Cymru. Bydd hyn yn cadarnhau'r nodweddion sy'n bresennol ar bob fferm bob blwyddyn er mwyn dilysu Gweithredoedd Cyffredinol sy'n ymwneud â thir a gwneud taliadau o dan y Cynllun. Bydd yn cadarnhau, er enghraifft, y mathau o gynefin a choed sy'n bresennol ar ffermydd yn fras ac yn nodi unrhyw nodweddion pwysig eraill megis nodweddion hanesyddol a safleoedd dynodedig.

[48] Llywodraeth Cymru, Cynllun Cymorth Amlflwydd – Amaethyddiaeth 2025-2029, 2024

Caiff Gweithredoedd Cyffredinol eraill, megis Meincnodi neu Iechyd a Lles Anifeiliaid, eu dilysu naill ai'n uniongyrchol gan drydydd partïon neu drwy'r datganiad a'r dystiolaeth ganlyniadol a roddir gan y ffermwr lle y bo'n briodol.

Llywodraeth Cymru fydd Perchennog a Phrosesydd y Data ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n golygu y bydd yn rhaid iddi gydymffurfio â'r Egwyddorion Diogelu Data a nodwyd yn Neddf Diogelu Data 2018 yn ogystal â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data.

Os bydd ffermwyr yn dewis symud i Haenau Opsiynol neu Gydweithredol y Cynllun, er mwyn ymgymryd â gwaith pwrpasol i wella cynefin er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau priodol i gefnogi, ymhlith pethau eraill, waith wedi'i dargedu i wella cynefinoedd neu blannu coed ychwanegol ar ardaloedd sensitif. Efallai y bydd rhai ceisiadau yn gofyn am asesiad safle er mwyn sicrhau bod y weithred yn addas ar gyfer yr ardal a nodwyd.

### Asesu carbon fferm

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid darparu un asesiad carbon at ddefnydd ffermwyr er mwyn iddynt ddeall cydbwysedd carbon eu fferm. Y bwriad yw mai hwn fydd sail unrhyw gyngor, arweiniad a gweithredoedd i baratoi ffermydd at y dyfodol ac y bydd yn cynnig manteision amgylcheddol yn ogystal â manteision busnes. Bydd yn galluogi ffermwyr i ddeall yn well y cyfleoedd i reoli eu heffaith carbon.

## *Manteision disgwyliedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Gellir rhannu manteision disgwyliedig y Cynllun yn grwpiau bras ar sail y buddiolwr disgwyliedig:

- Manteision uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru;
- Manteision ehangach i gymdeithas yng Nghymru, yn enwedig ffermwyr ond unigolion, busnesau a chymunedau eraill hefyd.

Gellir categoreiddio'r manteision ymhellach fel a ganlyn:

- A ydynt yn rhyddhau (arbed) arian parod ar unwaith;
- A oes iddynt werth ariannol (ond nid drwy ryddhau arian parod) am eu bod yn gwella effeithlonrwydd economaidd heb leihau'r gyllideb sydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru o reidrwydd;
- A oes modd eu mesur mewn ffordd gredadwy er nad oes modd pennu eu gwerth ariannol ond mae angen eu hystyried o hyd wrth arfarnu'r opsiynau;
- A oes modd eu disgrifio'n ansoddol ond nid yn feintiol felly maent yn annhebygol o fod yn ystyriaethau penderfynol.

Mae Tabl 2 yn crynhoi manteision disgwyliedig y Cynllun.

*Tabl 2: Manteision disgwyliedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

| Categori o fantais | Mantais |
|---|---|
| **Manteision uniongyrchol i'r sector cyhoeddus (i Lywodraeth Cymru)** | |
| Manteision sy'n rhyddhau arian parod | • Ni ragwelir unrhyw fanteision sy'n rhyddhau arian parod o ystyried y disgwylir i'r gyllideb ar gyfer y Cynllun barhau ar y lefelau blaenorol. |
| Manteision â gwerth ariannol nad ydynt yn rhyddhau arian parod | • Ni ragwelir unrhyw fanteision â gwerth ariannol nad ydynt yn rhyddhau arian parod o ystyried y disgwylir i'r gyllideb ar gyfer y Cynllun barhau ar y lefelau blaenorol |
| Manteision mesuradwy ond nad yw'n hawdd pennu eu gwerth ariannol | • Gwasanaeth o ansawdd gwell i ffermwyr – mwy ymatebol (cyflymach), llai o orfodi, ac ati.<br>• Cost (is) rheoli newidiadau i gymorth i ffermwyr wedi'i hosgoi |
| Manteision ansoddol ond nad yw'n hawdd eu mesur | • Gwell gwerth am arian o ran gwariant Llywodraeth Cymru am fod polisïau sy'n ymwneud â ffermydd yn integreiddio'n well â pholisïau eraill<br>• Arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i rannu data yn well |
| **Manteision anuniongyrchol i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus** | |
| Manteision sy'n rhyddhau arian parod | • Ni ragwelir unrhyw fanteision sy'n rhyddhau arian parod o ystyried y disgwylir i'r gyllideb ar gyfer y Cynllun barhau ar y lefelau blaenorol |
| Manteision â gwerth ariannol nad ydynt yn rhyddhau arian parod | • Ni ragwelir unrhyw fanteision â gwerth ariannol nad ydynt yn rhyddhau arian parod o ystyried y disgwylir i'r gyllideb ar gyfer y Cynllun barhau ar y lefelau blaenorol |
| Manteision mesuradwy ond nad yw'n hawdd pennu eu gwerth ariannol | • Ni ragwelir unrhyw fanteision mesuradwy ond nad yw'n hawdd pennu eu gwerth ariannol |
| Manteision ansoddol ond nad yw'n hawdd eu mesur | • Gwell canlyniadau o ganlyniad i reoli safleoedd dynodedig yn fwy effeithlon o dan y Cynllun yn hytrach na chyd-drafod cytundebau unigol<br>• Tir o dan gytundebau i gefnogi CNC |

| Categori o fantais | Mantais |
|---|---|
| | • Hwb i'w henw da fel rheoleiddwyr fferm |
| **Manteision ehangach i gymdeithas yng Nghymru (e.e. aelwydydd, unigolion, busnesau)** | |
| Manteision â gwerth ariannol nad ydynt yn rhyddhau arian parod | Ffermwyr |
| | • GYG uwch i'r fferm yn yr hirdymor |
| | Busnesau eraill |
| | • Dim |
| | Cymunedau lleol |
| | • Costau marwolaethau cynamserol (blynyddoedd o fywyd a gollir) oherwydd ansawdd aer gwael wedi'u hosgoi<br>• Gwerth gwell ansawdd dŵr<br>• Mwy o fioamrywiaeth |
| | Cymdeithas yn fwy cyffredinol |
| | • Cost gymdeithasol o ganlyniad i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi'i hosgoi<br>• Gwerth cymdeithasol atafaelu mwy o garbon |
| Manteision mesuradwy ond nad yw'n hawdd pennu eu gwerth ariannol | Ffermwyr |
| | • Llai o amrywio o ran GYG fferm |
| | Busnesau eraill |
| | • GYG uwch cadwyni cyflenwi ffermydd – rhai sefydledig a newydd<br>• Gwerth cynyddol sgiliau/busnesau gwyrdd (newydd) (lle nad yw wedi'i gynnwys mewn cadwyni cyflenwi) |
| | Cymunedau lleol |
| | • Costau iechyd o ganlyniad i well iechyd corfforol ac iechyd meddwl wedi'u hosgoi<br>• Gwell llesiant<br>• Gwell cynhyrchiant [llai o absenoldeb] ymhlith gweithlu nad ydynt yn weithlu fferm<br>• Cost is cyflenwad dŵr dibynadwy i aelwydydd ac unigolion<br>• Difrod i seilwaith ac eiddo personol/busnes o ganlyniad i berygl llifogydd a sychder wedi'i osgoi |
| | Cymdeithas yn fwy cyffredinol |
| | • Gweithgarwch corfforol cynyddol<br>• Gwerth [dim defnydd] cynyddol tirwedd (yn enwedig safleoedd treftadaeth) |
| Manteision ansoddol ond nad yw'n hawdd eu mesur | Cymunedau lleol |
| | • Cyfraniad at hamddena (fel procsi dros gefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a mynediad i'r cyhoedd iddynt)<br>• Cost amgylcheddol o ganlyniad i ddefnyddio llai o blaleiddiad wedi'i hosgoi<br>• Newid yng ngwerth "cynnal a hyrwyddo a hwyluso" y defnydd o'r Gymraeg<br>• Gwerth lefel uwch o ddiogeledd bwyd (yn ychwanegol at yr effaith ar GYG)<br>• Cynnydd yng ngwerth eiddo<br>• GYG cynyddol ar gyfer twristiaeth<br>• Cydlyniant cymdeithasol gwell mewn cymunedau gwledig – cyfalaf cymdeithasol |

## ***Cyfyngiadau***

Cyfyngir ar y broses o ddatblygu'r Cynllun yn lle Cynllun y Taliad Sylfaenol gan wahanol ffactorau allanol yn ogystal â pharamedrau y cytunwyd arnynt ac a bennwyd yn Llywodraeth Cymru Maent yn adlewyrchu gwahanol ystyriaethau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

### *Ffactorau allanol*

Mae'r ffactorau allanol yn cynnwys:

- Argaeledd ymrwymiad cyllido hirdymor sy'n cyfyngu ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer cymorth i ffermwyr;
- Amrywiaeth tirweddau Cymru a'r mathau o ffermydd sy'n gofyn am ddull wedi'i deilwra o lunio'r Cynllun yn hytrach na model dewis a dethol neu un ateb i bawb er mwyn iddo fod yn effeithiol ac yn deg;
- Traddodiadau a systemau ffermio â gwreiddiau dwfn sy'n gysylltiedig â'u cymunedau a'u cadwyni cyflenwi;
- Effaith cytundebau masnach y DU ar fewnforion ac allforion bwyd;
- Yr angen am chwarae teg rhwng gwledydd yn seiliedig ar reolau Sefydliad Masnach y Byd a Deddf Rheoli Cymorthdaliadau'r DU sy'n cyfyngu ar y cymorth amaethyddol y gellir ei gynnig[49];
- Mae Llywodraeth y DU wedi cadw penderfyniadau polisi (e.e. rhai sy'n ymwneud â rheoleiddio marchnadoedd a chystadleuaeth) yn ôl;
- Cost gynyddol mewnbynnau fferm (e.e. gwrtaith ac ynni) sy'n cynyddu'r costau sy'n gysylltiedig â bodloni gofynion y Cynllun ac sy'n ei gwneud yn fwy anodd dyrannu digon o gyllid i roi cymhelliant i ffermwyr gymryd rhan yn y Cynllun

### *Paramedrau y cytunwyd arnynt*

Cyfyngir hefyd ar y broses o ddatblygu'r Cynllun gan y canlynol:

- Y cyllid a ddyrennir o gyllideb Llywodraeth Cymru i Gyfarwyddiaeth Materion Gwledig Llywodraeth Cymru i ddatblygu a rhoi cymorth amaethyddol;
- Yr angen i gysoni'r Cynllun â deddfwriaeth, polisïau ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, targedau hinsawdd a chynlluniau adfer natur;
- Yr egwyddorion y cytunwyd arnynt sydd wedi llywio'r broses o lunio'r Cynllun, ac sy'n adlewyrchu adborth helaeth gan randdeiliaid dros gyfnod estynedig;
- Yr her gynhenid o ran cydbwyso hyfywedd economaidd a chyflawni amcanion amgylcheddol a chymdeithasol;
- Yr her sy'n gysylltiedig â datblygu metrigau sy'n mesur pob un o ganlyniadau'r Cynllun yn ddigonol;
- Yr angen i'r Cynllun gael ei lunio i fod yn syml i'w weinyddu ac yn hygyrch i bob ffermwr;
- Y sgiliau a'r gallu sydd ar gael i helpu i gyflawni'r Cynllun.

## ***Dibyniaethau***

Mae dau fath o ddibyniaeth sydd y tu allan i gwmpas y Cynllun wedi dylanwadu ar y ffordd y mae wedi cael ei lunio ac maent yn effeithio ar y tebygolrwydd y bydd yn llwyddo:

- Rhyngddibyniaethau rhwng rhaglenni a phrosiectau eraill: mae'r rhain y tu allan i'r Cynllun ond maent yn dal i fod yn rhan o amgylchedd rheoli rhaglenni a phrosiectau Llywodraeth Cymru;
- Dibyniaethau allanol y tu allan i amgylchedd rhaglenni'r Cynllun (e.e. dynameg allanol, megis deddfwriaeth, penderfyniadau strategol a chymeradwyaethau'r DU).

### *Rhyngddibyniaethau*

Fel y nodwyd uchod, mae cysylltiad annatod rhwng y Cynllun a sawl un o bolisïau presennol ac arfaethedig Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r rhyng-gysylltiadau cryf rhwng ffermio, cynaliadwyedd amgylcheddol, datblygu gwledig a llesiant cymunedol. Er mwyn i'r Cynllun sicrhau'r manteision amgylcheddol,

[49] Mae'n ofynnol i'r DU gydymffurfio â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth wrth roi cymorth amaethyddol. Mae'r cytundeb hwn yn cyfyngu ar fathau penodol o gymorth amaethyddol y gellir ei gynnig i ffermwyr, gyda'r nod o leihau cymorthdaliadau sy'n ystumio masnach.

cymdeithasol ac economaidd mwyaf i Gymru, bydd angen i'r dibyniaethau gael eu rheoli'n ofalus i sicrhau cydlyniaeth polisïau (gweler *Tabl 3*). Ceir rhagor o fanylion yn yr Asesiad Effaith Integredig cyhoeddedig o'r Cynllun.

*Tabl 3: Dibyniaethau polisïau a rhaglenni'r Cynllun*

| | **Dibyniaeth** | **Goblygiadau** |
|---|---|---|
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | Mae'n rhaid i'r Cynllun gyd-fynd â'r nodau llesiant am fod ffermwyr yn gyfranwyr allweddol, yn enwedig mewn meysydd fel bioamrywiaeth, y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a gwarchod diwylliant | Mae'r Cynllun yn ddull allweddol o sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor ac mae angen iddo gydgysylltu rhwng sectorau |
| **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** | Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y Cynllun a'r Ddeddf, sy'n pennu targedau ar gyfer lleihau allyriadau carbon, hyrwyddo'r defnydd o adnoddau yn gynaliadwy a gwella bioamrywiaeth | Bydd ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun yn chwarae rôl bwysig i gyflawni'r targedau amgylcheddol drwy arferion fel atafaelu carbon, plannu coed ac adfer cynefinoedd |
| **Strategaeth Ymaddasu i Newid Hinsawdd a Chynllun Sero Net Cymru** | Mae'r Cynllun yn cefnogi ymrwymiad Cymru i sicrhau sero net erbyn 2050 drwy hyrwyddo arferion ffermio sy'n lleihau carbon | Er mwyn sicrhau sero net bydd angen i ffermwyr gydbwyso'r ffordd y maent yn cynhyrchu bwyd â'r ffordd y maent yn rheoli eu hallyriadau carbon |
| **Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru** | Nod Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yw atal y broses o golli bioamrywiaeth a hyrwyddo gwaith adfer ecosystemau: mae gan ffermwyr rôl allweddol i'w chwarae i reoli cynefinoedd a gwella bioamrywiaeth | Gall y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyfrannu at Gynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru: mae'r graddau y bydd yn gwneud hynny yn dibynnu ar b'un a yw'r Gweithredoedd yn y tair haen yn cyd-fynd â nodau adfer natur ehangach |
| **Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru** | Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cysylltu ag ymdrechion i ddatblygu sector bwyd a diod cynaliadwy a gwydn, gan gynnwys cymorth ar gyfer cadwyni cyflenwi lleol a chynhyrchion o Gymru o ansawdd uchel | Mae'n rhaid i'r Cynllun hyrwyddo arferion cynhyrchu bwyd cynaliadwy a sicrhau hyfywedd economaidd ffermio a diogeledd bwyd ar yr un pryd |
| **Rhaglen Datblygu Gwledig** | Mae'r Cynllun yn adeiladu ar egwyddorion y Rhaglen Datblygu Gwledig sydd wedi cefnogi economïau gwledig, cymunedau a chynaliadwyedd yn hanesyddol | Er mwyn sicrhau cysondeb â'r Rhaglen Datblygu Gwledig mae hynny'n golygu sicrhau bod ffermwyr yn parhau i gael cymorth ariannol a datblygiadol digonol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy |
| **Polisi Cynllunio Cymru (PCC)** | Mae polisïau cynllunio defnydd tir o dan PCC yn effeithio ar y broses o roi mesurau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith, megis coedwigaeth, prosiectau ynni adnewyddadwy ac adfer cynefinoedd | Mae'n hanfodol bod cydgysylltu effeithiol rhwng y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a pholisïau cynllunio er mwyn osgoi gwrthdaro dros ddefnydd tir a sicrhau cysondeb â nodau datblygu gwledig |
| **Coedwig Genedlaethol Cymru** | Mae menter y Goedwig Genedlaethol, sydd â'r nod o greu rhwydwaith cysylltiedig o goetiroedd, yn dibynnu ar gyfranogiad ffermwyr yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o ran plannu coed a rheoli tir | Mae'n rhaid i gymhellion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy annog ffermwyr i gyfrannu at y Goedwig Genedlaethol a chydbwyso hynny â chynhyrchiant amaethyddol ar yr un pryd |
| **Rheoliadau llygredd amaethyddol** | Mae rheoliadau diweddar i leihau llygredd amaethyddol (e.e., rheoli maethynnau, ansawdd dŵr) yn dibynnu ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i helpu ffermwyr i gydymffurfio heb straen ariannol gormodol | Mae'n rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy roi arweiniad ymarferol a chymorth ariannol i alluogi ffermwyr i fodloni gofynion rheoliadol a gwella canlyniadau amgylcheddol ar yr un pryd |

| | Dibyniaeth | Goblygiadau |
|---|---|---|
| **Polisïau adnoddau dŵr a rheoli llifogydd** | Mae polisïau sy'n ymdrin â rheoli dŵr a lleihau perygl llifogydd yn dibynnu ar yr arferion rheoli tir yn gynaliadwy a hyrwyddir gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy | Mae rôl ffermwyr i reoli dalgylchoedd, adfer gwlyptiroedd a lleihau dŵr ffo yn hanfodol er mwyn cyflwyno datrysiadau adnoddau dŵr integredig |
| **Polisïau masnach a Brexit** | Mae cytundebau masnach y DU ar ôl Brexit yn dylanwadu ar yr amgylchedd cystadleuol i ffermwyr Cymru | Mae'n rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy alluogi ffermwyr yng Nghymru i gyrraedd safonau cynaliadwyedd a pharhau'n gystadleuol mewn marchnadoedd domestig a rhyngwladol: mae angen i bolisïau ddiogelu ffermwyr yng Nghymru rhag mewnforion rhatach a gynhyrchir i safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid is |
| **Polisïau iechyd y cyhoedd a llesiant** | Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn croestorri â mentrau iechyd y cyhoedd drwy hyrwyddo systemau bwyd lleol, gan leihau llygredd amgylcheddol a gwella mynediad i fannau gwyrdd | Gall arferion ffermio cynaliadwy gyfrannu at nodau iechyd y cyhoedd drwy gefnogi deietau iachach, aer glanach a mwy o lesiant cymunedol |
| **Polisïau twristiaeth a diwylliannol** | Mae strategaeth twristiaeth Cymru yn hyrwyddo cefn gwlad fel atyniad allweddol; mae gwarchod treftadaeth ddiwylliannol (e.e., y Gymraeg, arferion ffermio traddodiadol) yn flaenoriaeth | Mae'n rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy helpu i warchod tirweddau a diwylliant yn gyson ag amcanion twristiaeth a diogelu treftadaeth wledig |
| **Y Gymraeg** | Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyflawni ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 | Mae gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy rôl bwysig o bosibl i'w chwarae o ran gwireddu'r uchelgais drwy gryfhau cymunedau gwledig lle mae'r defnydd o'r Gymraeg yn gryf |
| **Polisïau addysg a hyfforddiant** | Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dibynnu ar fentrau datblygu sgiliau a throsglwyddo gwybodaeth i roi'r adnoddau a'r arbenigedd sydd eu hangen ar ffermwyr i fabwysiadu arferion cynaliadwy | Mae cydweithio effeithiol â cholegau amaethyddol, sefydliadau ymchwil a gwasanaethau cynghori yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy |

## *Dibyniaethau allanol*

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy hefyd wedi cael ei ffurfio gan sawl dibyniaeth allanol sy'n dylanwadu ar y ffordd y caiff ei lunio, ei roi ar waith a'i dderbyn. Crynhoir y rhai allweddol yn Tabl 4. Mae'r rhain yn adlewyrchu natur ryng-gysylltiedig ffermio, yr amgylchedd, cymunedau gwledig a fframweithiau economaidd a pholisi ehangach.

*Tabl 4: Dibyniaethau allanol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

| | Dibyniaeth: | Goblygiadau: |
|---|---|---|
| **Rhyngddibyniaethau amgylcheddol** | Newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth | Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ymdrin â mesurau lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac adfer bioamrywiaeth: gall gwella bioamrywiaeth (e.e., drwy greu cynefinoedd) wella gwytnwch ecosystemau a chefnogi gweithgarwch storio carbon mewn priddoedd, mawndiroedd a choedwigoedd |
| | Defnydd tir a gwasanaethau ecosystem | Stiwardiaid y tir yw ffermwyr, sy'n darparu nifer o wasanaethau ecosystem ac mae'n rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gydbwyso'r gwasanaethau hyn er mwyn osgoi unrhyw gyfnewidiadau annerbyniol |
| | Iechyd pridd ac ansawdd dŵr | Mae priddoedd iach yn gwella gallu pridd i gadw dŵr, lleihau dŵr ffo a gwella cynhyrchiant cnydau: mae rheoli ansawdd pridd yn dibynnu ar sicrhau canlyniadau amgylcheddol ehangach fel gwell ansawdd dŵr mewn afonydd a llai o lifogydd |
| **Rhyngddibyniaethau economaidd** | Incwm fferm a nodau amgylcheddol | Mae sefydlogrwydd ariannol ffermwyr yn hollbwysig i gyflawni amcanion amgylcheddol a chymdeithasol: heb incwm digonol, gallai ffermwyr yn ei chael hi'n anodd mabwysiadu arferion ffermio cynaliadwy Mae angen i daliadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod yn |

| | Dibyniaeth: | Goblygiadau: |
|---|---|---|
| | | ddigon i wneud iawn am golli incwm o ganlyniad i gynhyrchiant is (neu gostau cynyddol) |
| | Marchnadoedd a masnach | Mae gallu ffermwyr i fabwysiadu arferion cynaliadwy ynghlwm wrth y galw am nwyddau a gynhyrchir yn gynaliadwy: bydd cytundebau masnach, cystadleuaeth gan fewnforion a pharodrwydd defnyddwyr i dalu am gynhyrchion cynaliadwy yn cael dylanwad uniongyrchol ar lwyddiant y Cynllun Ffermio Cynaliadwy |
| **Rhyngddibyniaethau cymdeithasol** | Economi wledig | Mae ffermio yn sail i economïau gwledig, gan gefnogi swyddi mewn cadwyni cyflenwi, prosesu bwyd a thwristiaeth: bydd llwyddiant y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dibynnu ar gynnal bywoliaethau gwledig a phontio i arferion ffermio mwy cynaliadwy |
| | Llesiant cymunedol | Mae cymunedau gwledig yn dibynnu ar ffermio, nid yn unig ar gyfer gweithgarwch economaidd, ond hefyd ar gyfer hunaniaeth ddiwylliannol a chydlyniant cymdeithasol: mae angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod yn gyson â nodau datblygu gwledig ehangach i gefnogi llesiant teuluoedd ffermio a'u cymunedau |
| | Pontio rhwng y cenedlaethau | Bydd llwyddiant y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dibynnu ar genedlaethau iau yn aros yn y sector ffermio neu'n dod yn rhan ohono: mae mynediad at hyfforddiant, addysg, a pherchnogaeth tir i ffermwyr ifanc yn ffactor allweddol |
| | Cefnogaeth y cyhoedd | Mae angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddangos sut mae'n fuddiol i gymdeithas yng Nghymru er mwyn cadw cymeradwyaeth y cyhoedd a'i wneud yn fwy dilys. |
| **Arferion amgylcheddol ac amaethyddol** | Arferion cynaliadwy a diogeledd bwyd | Mae angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael cydbwysedd rhwng nodau amgylcheddol a chymdeithasol a sicrhau diogeledd bwyd Cymru |
| | Ffermio da byw a nodau hinsawdd | Mae ffermio da byw yn elfen fawr o amaethyddiaeth Cymru ond mae hefyd yn ffynhonnell sylweddol o allyriadau nwyon tŷ gwydr: mae'n rhaid cael cydbwysedd rhwng lleihau allyriadau a phwysigrwydd economaidd a chymdeithasol/diwylliannol ffermio da byw |
| **Rhyngddibyniaethau technolegol a gwybodaeth** | Mynediad at arloesedd | Mae mabwysiadu technegau ffermio cynaliadwy yn dibynnu ar fynediad ffermwyr at dechnoleg a hyfforddiant |
| | Monitro a rhannu data | Mae llwyddiant y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gofyn am systemau cadarn i fonitro canlyniadau a rhannu data er mwyn gallu olrhain cynnydd a gwneud addasiadau |
| **Rhyngddibyniaethau hinsawdd a daearyddol** | Amrywiad rhanbarthol | Mae angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gefnogi ffermydd sy'n gweithredu mewn tirweddau amrywiol: mae angen iddo gyfrif am wahaniaethau daearyddol oherwydd efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio mewn un ardal yn addas ar gyfer ardaloedd eraill |
| | Tywydd a gwytnwch | Mae gallu ffermwyr i sicrhau canlyniadau amgylcheddol yn dibynnu ar eu gallu i ymaddasu i batrymau tywydd cynyddol anwadal, megis llifogydd a sychder. |
| **Rhynddibyniaethau defnydddwyr a marchnadoedd** | Y galw am fwyd cynaliadwy | Bydd llwyddiant y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dibynnu ar lefel cefnogaeth defnyddwyr i fwyd cynaliadwy a gynhyrchir yn lleol |
| | Marchnadoedd allforio | Pan fydd Cymru yn dibynnu ar farchnadoedd allforio, gall cytundebau masnach a dewisiadau defnyddwyr sy'n newid effeithio ar barodrwydd a gallu ffermwyr i gymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy |
| **Rhyngddibyniaethau terfynau amser** | Costau byrdymor yn erbyn manteision hirdymor | Mae manteision amgylcheddol ac economaidd arferion ffermio cynaliadwy yn cymryd amser i ddod i'r golwg ond mae ffermwyr yn wynebau costau ar unwaith: mae'n rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ymdrin â chamamseru o'r fath er mwyn sicrhau bod ffermwyr yn cymryd rhan |
| | Newidiadau rhwng y cenedlaethau | Mae pontio i arferion ffermio cynaliadwy yn gofyn am newidiadau mewn gwybodaeth ac ymddygiad sy'n dibynnu ar newidiadau rhwng y cenedlaethau o ran agweddau a dulliau ffermio. |

## Yr Achos Economaidd

> *Cwestiwn allweddol: A fydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf posibl drwy'r dewis delfrydol o weithgareddau?*

### *Cyflwyniad*

Mae ffyrdd gwahanol y gallai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyflawni ei nodau a'i amcanion o bosibl.

Diben yr Achos Economaidd yw nodi'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus drwy asesu'r manteision, gan gynnwys yr holl effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, a chostau posibl gwahanol opsiynau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ochr yn ochr â'r risgiau perthnasol.

Mae'r Achos Economaidd yn seiliedig ar bedwar cam:

- Nodi'r ffactorau llwyddiant allweddol a chytuno arnynt, y dylid arfarnu'r gwahanol opsiynau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn eu herbyn ochr yn ochr â'i amcanion (yn ogystal â'r risgiau);
- Nodi 'rhestr hir' o opsiynau posibl sy'n bodloni cwmpas posibl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – fel y'i diffiniwyd yn yr Achos Strategol – ac arfarnu pa mor dda y mae pob opsiwn yn cyflawni'r amcanion hirdymor a'r ffactorau llwyddiant allweddol y cytunwyd arnynt (yn ogystal â'r risgiau) i nodi'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir;
- O'r arfarniad hwn o restr hir, datblygu 'rhestr fer' o opsiynau i'w harfarnu ymhellach, gan gynnwys Busnes fel Arfer – fel meincnod ar gyfer gwerth am arian – opsiwn 'Gwneud Lleiafswm' – ffordd ymlaen realistig sy'n gweithredu fel meincnod pellach ar gyfer gwerth am arian – a'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir sy'n cael ei hargymell;
- Cynnal y dadansoddiad gwerth am arian yn seiliedig ar arfarniad economaidd o opsiynau'r 'rhestr fer' i asesu eu costau a'u manteision a'r risgiau cysylltiedig er mwyn nodi'r Opsiwn a Ffefrir.

### *Ffactorau llwyddiant allweddol a dadansoddiad o'r opsiynau*

#### *Nod strategol ac amcanion allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Nod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yw galluogi ffermwyr Cymru i gyfrannu at bedwar amcan rheoli tir yn gynaliadwy Llywodraeth Cymru ac felly gyfrannu at wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru i ffermwyr Cymru arwain y byd o ran ffermio cynaliadwy. Bydd yn annog ffermwyr i sicrhau nifer o ganlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ychwanegol ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy ac o ganlyniad i gynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy.

Nod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw adeiladu ar safonau uchel ymarfer ffermio sydd eisoes ar waith yng Nghymru. Fel yr esboniwyd yn yr Achos Strategol, nod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw rhoi cymhelliant i ffermwyr leihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr net a gwella'r amgylchedd a hefyd gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Mae'n seiliedig ar ffordd o sicrhau'r canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a ddymunir drwy fabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy ar y cyd (h.y. ystyried ardal a system y fferm gyfan). Cred Llywodraeth Cymru fod Cymru yn addas iawn ar gyfer y math hwn o ffermio a bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn annog ffermwyr i fabwysiadu'r arferion hyn.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn pennu'r amcanion hirdymor allweddol canlynol:

- Mae 95% o fusnesau fferm sy'n cymryd rhan yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol yn ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy erbyn diwedd y Cyfnod Pontio (h.y. Rhagfyr 2029);
- Mae 100% o ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn mabwysiadu arferion rheoli tir mwy cynaliadwy erbyn diwedd y Cyfnod Pontio (h.y. Rhagfyr 2029);

- Mae 75% o ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ystyried eu bod wedi cadw, os nad wedi gwella, eu gwytnwch economaidd (pan fydd yr holl ystod o Weithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol ar gael) wrth iddynt bontio i arferion ffermio cynaliadwy;
- Mae pob ffermwr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi mabwysiadu arferion ffermio newydd/gwahanol i leihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn diwedd y Cyfnod Pontio (h.y. Rhagfyr 2029);
- Mae pob ffermwr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn rheoli o leiaf 10% o'r fferm at ddibenion natur a bioamrywiaeth, wedi creu coetir neu wrychoedd newydd ac yn cynnal coetir a gwrychoedd sy'n bodoli eisoes erbyn diwedd y Cyfnod Pontio (h.y. Rhagfyr 2029);
- Mae pob ffermwr yn cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy neu wedi gwella'r ffordd y rheolir safleoedd hanesyddol yn flynyddol.

## *Ffactorau Llwyddiant Allweddol*

Crynhoir y ffactorau llwyddiant allweddol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn Nhabl 6. Maent yn adlewyrchu:

- **Cydweddu'n strategol**: pa mor dda y mae opsiwn ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cyflawni'r amcanion hirdymor allweddol ac yn cyd-fynd yn strategol â strategaethau, rhaglenni a phrosiectau eraill Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddiwallu anghenion busnes craidd (hanfodol), dymunol ac opsiynol a bennir yn yr Achos Strategol;
- **Gwerth am arian:** pa mor dda y mae opsiwn ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf o ran ei gostau, ei fanteision a'i risgiau posibl;
- **Capasiti a galluogrwydd cyflenwyr:** pa mor dda y mae opsiwn ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn galluogi ffermwyr – a'u cadwyni cyflenwi – i ymgymryd â gweithredoedd i sicrhau'r canlyniadau gofynnol;
- **Fforddiadwyedd:** pa mor dda y gellir cyllido opsiwn ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy dros ei oes gyfan o'r arian sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru (o ystyried cyfyngiadau ar adnoddau, gan gynnwys ffynonellau posibl eraill o gyllid);
- **Cyflawnadwyedd:** pa mor dda y mae opsiwn ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn debygol o gael ei gyflwyno yn seiliedig ar y galluoedd a'r sgiliau angenrheidiol.

*Tabl 5*: *Ffactorau llwyddiant allweddol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

| | |
|---|---|
| Cydweddu'n strategol ac anghenion busnes | • Mae'n cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru a adlewyrchir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.<br>• At yr Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a nodwyd yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 y mae'n cyfrannu orau.<br>• Mae'n cael ei gefnogi gan randdeiliaid allweddol, yn enwedig y rhai y mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn effeithio arnynt yn uniongyrchol (h.y. ffermwyr a chymunedau gwledig) a sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol.<br>• Mae'r cymorth ariannol a roddir yn gysylltiedig â sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mesuradwy.<br>• Mae ffermwyr yn ystyried bod ymarfer rheoli tir yn gynaliadwy yn ddichonadwy ac yn briodol i'w busnes, gyda chymorth y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. |
| Gwerth am arian | • A yw'n hygyrch i ffermwyr yng Nghymru.<br>• Mae ffermwyr yn cael gwybodaeth hygyrch, glir am fanteision uniongyrchol ac ehangach y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'i ofynion.<br>• Rhoddir cymhelliant i ffermwyr fabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy er budd eu busnes a chymunedau gwledig/ffermio.<br>• Anogir ffermwyr i fynd ati i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau.<br>• Anogir ffermwyr i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu. |
| Capasiti a galluogrwydd yr ochr gyflenwi | • Mae ffermwyr wedi cael eu paratoi i gynnal asesiad/arfarniad cyfannol o werth posibl mabwysiadu arferion ffermio [mwy] cynaliadwy.<br>• Anogir (a chefnogir) ffermwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i'w galluogi i fabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy a busnesau gwydn.<br>• Mae ffermwyr yn cael digon o fynediad at wasanaethau cynghori a rhwydweithiau cymorth (gan gynnwys prosiectau dysgu ac arddangos rhwng cymheiriaid). |

| | |
|---|---|
| | • Anogir ffermwyr i gydweithio i wella effeithlonrwydd cadwyni cyflenwi amaethyddol (a bwyd) |
| Fforddiadwyedd | • Mae cyfraddau talu yn gyson â sicrhau'r lefelau a ddymunir o ran nifer y ffermydd sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y gyllideb sydd ar gael [cyfyngiad].<br>• Mae'r ffordd y dyrennir cyllid rhwng Gweithredoedd Cyffredinol a Gweithredoedd Opsiynol/Gweithredoedd Cydweithredol yn sicrhau'r gwerth mwyaf i ffermwyr a chymdeithas.<br>• Mae costau Llywodraeth Cymru am weinyddu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy mor isel â phosibl (e.e. maent yn gyson ag arferion gorau rhyngwladol [llai na 10% o'r gyllideb]).<br>• Mae costau ffermwyr am gymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy mor isel â phosibl.<br>• Gall ffermwyr ategu cymorth o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy drwy ddenu cyllid ychwanegol drwy fuddsoddiad anllywodraethol a mwy o adenillion o'r gadwyn gyflenwi. |
| Cyflawnadwyedd | • Mae strwythur llywodraethu priodol yn cael ei sefydlu sy'n parhau i ennyn ymddiriedaeth ffermwyr a rhanddeiliaid.<br>• Mae'n galluogi proses bontio ddidrafferth o'r cymorth presennol i ffermwyr.<br>• Gellir ei gyflawni [ar y cyfan] yn seiliedig ar seilwaith/systemau presennol Llywodraeth Cymru.<br>• Gellir ei reoli mewn ffordd ddigon hyblyg y gellir ei haddasu i newidiadau yn yr amgylchedd allanol (yn ôl y gofyn).<br>• Mae targedau CAMPUS yn cael eu datblygu sy'n rhoi ffocws a chyfeiriad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac yn cefnogi'r broses o wireddu manteision yn seiliedig ar fonitro a gwerthuso effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yn effeithiol yn erbyn llinell sylfaen sefydledig. |

## *Nodi ac asesu'r rhestr hir o opsiynau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Mae Fframwaith Hidlo Opsiynau wedi cael ei ddefnyddio i nodi a datblygu'r rhestr hir o opsiynau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Yna, o'r rhestr hon, lluniwyd rhestr fer ar gyfer arfarniad manylach fel rhan o'r dadansoddiad gwerth am arian.

Mae'n ofynnol defnyddio'r fframwwaith hidlo opsiynau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru a Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. Ar bob lefel, yn unol â'r canllawiau perthnasol, ystyrir Busnes fel Arfer ochr yn ochr ag opsiynau amgen, mwy uchelgeisiol sydd â'r nod o'i gwneud yn bosibl i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyflawni ei amcanion hirdymor allweddol.

Mae'r Fframwaith Hidlo Opsiynau yn strwythuro amrywiaeth eang o opsiynau posibl ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn seiliedig ar bum dimensiwn allweddol: cwmpas (darpariaeth); datrysiad (ymyriadau a phrosiectau); cyflawni (model sefydliadol a gweithredu); rhoi ar waith (fesul cam ac amseriad); a chyllid (gwariant) (gweler Tabl 7). Mae'r dimensiynau allweddol yn cyd-fynd â'r Model Pum Achos, sef y safon ddisgwyliedig. Ar gyfer pob dimensiwn, y nod yw nodi'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir, gan ddiystyru opsiynau a chario opsiynau posibl eraill ymlaen i restr fer o opsiynau ar gyfer arfarniad manylach yn y dadansoddiad gwerth am arian. Felly, nod y Fframwaith Hidlo Opsiynau, i bob diben, yw cwtogi ar nifer yr opsiynau posibl ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae'r ffordd y cymhwysir y Fframwaith Hidlo Opsiynau yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r ymgyngoriadau (a chydlunio) a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn lleihau nifer yr opsiynau a ystyrir yma.

*Tabl 6*: *Dimensiynau'r Fframwaith Hidlo Opsiynau*

| **Dimensiwn** | **Materion** |
|---|---|
| 1. Cwmpas | Cyfuniadau posibl o ffermydd a gweithgareddau ar y fferm a lywir gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy |
| 2. Datrysiad | Strwythur posibl rhwymedigaethau a chymhellion sy'n cyd-fynd â'r cwmpas a ffefrir ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy |
| 3. Cyflawni | Strategaethau posibl ar gyfer cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy mewn perthynas â'r cwmpas a ffefrir a'r datrysiad |
| 4. Rhoi ar waith | Camau ac amseriad posibl ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o ystyried y cwmpas a ffefrir, y datrysiad a chyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy |
| 5. Cyllido | Cyllid posibl ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o ystyried y cwmpas a ffefrir, y datrysiad, a chyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'i roi ar waith |

## Cwmpas

Pennir cwmpas yr opsiynau o ran y ddarpariaeth gyffredinol a/neu dargedu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i gyflawni amcanion hirdymor allweddol yn ogystal â'r ffactorau llwyddiant allweddol. Mae'n adeiladu ar yr anghenion a ddiffiniwyd yn yr Achos Strategol sy'n pwysleisio'r rôl hanfodol y mae'n rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei chwarae o ran:

- Hyrwyddo dull cyfannol, fferm gyfan o wella cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol;
- Bod yn atyniadol a hygyrch i bob ffermwr yn seiliedig ar amodoldeb cyfyngedig y Gweithredoedd Cyffredinol.

Crynhoir manteision ac anfanteision yr opsiynau ar gyfer cwmpas yn y tabl isod. Yr opsiwn mewn gwyrdd yw'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir. Mae'r opsiynau mewn oren hefyd yn cael eu cario ymlaen i'w harfarnu ymhellach ac nid yw'r opsiynau mewn coch yn cael eu cario ymlaen.

*Tabl 7:Crynodeb o'r asesiad o fanteision ac anfanteision yr opsiynau ar gyfer cwmpas*

| **Dimensiwn a Chontinwwm** | **Busnes fel Arfer** | **Lleiafswm** | **Canolradd** | **Canolradd** | **Uchafswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cwmpas**<br>**Darpariaeth – fel y'i hamlinellwyd yn yr Achos Strategol** | 1.0 Cynllun sylfaenol sy'n gymwys i bob fferm ledled Cymru ar sail fferm gyfan | 1.1 Cynllun sylfaenol sydd ond yn cwmpasu gweithredoedd cyfyngedig ar sail fferm rannol | 1.2 Cynllun sylfaenol sy'n gymwys i ffermydd mewn ardaloedd daearyddol penodol yn unig | 1.3 Cynllun sylfaenol sydd ond yn gymwys i ffermydd o faint penodol (e.e. y rhai sy'n llai na'r maint canolrifol) | 1.4 Cynllun uchelgeisiol sy'n gymwys i bob fferm ledled Cymru ar sail fferm gyfan |
| **Manteision** | • Mae'n hygyrch i bob ffermwr<br>• Mae'n rhoi parhad i ffermwyr sy'n cynnal hyder y bydd cymorth ar gael<br>• Mae'n rhoi'r cyfle mwyaf posibl i gymorth gael ei lunio er budd pob ffermwr | • Mae'n targedu gweithredoedd penodol lle bydd ffermwyr yn cael cymhelliant i ymgymryd â gweithredoedd<br>• Gall leihau'r gyllideb sydd ei hangen am gymorth amaethyddol | • Gallai dargedu ardaloedd penodol lle mae'r angen mwyaf am gymhelliant i ymgymryd â gweithredoedd er mwyn cyflawni amcanion rheoli tir yn gynaliadwy | • Gallai dargedu ffermydd sydd fwyaf ymatebol i gymorth (e.e. gwytnwch economaidd)<br>• Gall leihau'r gyllideb sydd ei hangen am gymorth amaethyddol | • Mae'n hygyrch i bob ffermwr<br>• Mae'n rhoi parhad i ffermwyr sy'n cynnal hyder y bydd cymorth ar gael<br>• Mae'n rhoi'r cyfle mwyaf i'r cymorth gael ei lunio er budd pob ffermwr<br>• Mae'n newid cymhellion yn ddigonol i ffermwyr fabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy |
| **Anfanteision** | • Nid yw'n newid cymhellion yn ddigonol i ffermwyr fabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy<br>• Mae diffyg targedu cymorth ar gyfer gweithredoedd | • Gall ffermwyr ddwysáu cynhyrchu ar rannau o'r fferm nad ydynt o fewn y cwmpas: mae'n codi risg o effeithiau negyddol, er enghraifft ar nwyddau a | • Mae'n anhygyrch i bob ffermwr<br>• Mae'n creu dull "llinellau ar fap" o roi cymorth amaethyddol na fyddai'n cael ei gefnogi gan undebau ffermio | • Mae'n anhygyrch i bob ffermwr<br>• Mae'n bosibl y bydd ffermydd nad ydynt yn gymwys i gael cymorth yn dwysáu cynhyrchu: mae'n codi risg o effeithiau negyddol, er | • Mae'n bosibl y bydd strwythur sy'n rhoi cymhellion sy'n ddigonol i bob ffermwr fabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy yn codi risg o werth gwael am arian |

| Dimensiwn a Chontinwwm | Busnes fel Arfer | Lleiafswm | Canolradd | Canolradd | Uchafswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | yn codi risg o werth gwael am arian<br>• Mae lefelau isel o ychwanegedd yn codi risg o werth gwael am arian | gwasanaethau ecosystem<br>• mae'n bosibl y bydd lefel gyffredinol y gefnogaeth yn lleihau: mae'n codi risg o niweidio gwytnwch economaidd rhai ffermydd | • Mae'n bosibl y bydd ffermydd nad ydynt yn gymwys yn dwysáu cynhyrchu gyda'r risg o effeithiau negyddol ar nwyddau a gwasanaethau ecosystem<br>• Mae risg i wytnwch economaidd ffermydd nad ydynt yn gymwys i gael cymorth | enghraifft ar nwyddau a gwasanaethau ecosystem<br>• Mae'n codi risg o wanhau gwytnwch economaidd ffermydd nad ydynt yn gymwys i gael cymorth<br>• Mae'n bosibl y bydd ffermwyr yn ymateb drwy leihau maint eu busnes er mwyn dod yn gymwys i gael cymorth | |
| | Cariwyd ymlaen | Diystyrwyd | Diystyrwyd | Diystyrwyd | Ffordd Ymlaen a Ffefrir |

Y ffordd ymlaen â ffefrir (1.4) yw cymhwyso Cynllun Ffermio Cynaliadwy uchelgeisiol ar sail fferm gyfan at bob fferm yng Nghymru am mai hon sy'n cyd-fynd orau ag un o'r egwyddorion llunio allweddol sy'n sail iddo.

Caiff yr opsiwn 'Lleiafswm' (1.1) ei ddiystyru am y gall annog ffermwyr i ddwysáu eu cynhyrchiant ar rai rhannau o'r fferm wrth iddynt geisio sicrhau'r adenillion mwyaf posibl ar y farchnad o'r rhan o'r fferm nad yw wedi'i thargedu. Gallai hyn gael effaith negyddol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr net ac ar wytnwch ecosystemau. Hefyd o dan gynllun fferm rannol ni fyddai ffermydd yn cael cyfle i fanteisio ar gymhellion fferm gyfan i fabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy er budd pob rhan o'r busnes.

Mae'r ddau opsiwn canolradd (1.2 ac 1.3) hefyd wedi cael eu diystyru am nad ydynt ar gael i bob fferm. Mae hyn yn anghyson ag un o'r egwyddorion allweddol wrth lunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sef darparu cynllun sy'n hygyrch i bawb.

### Datrysiad

Mae opsiynau ar gyfer datrysiadau posibl i wireddu'r cwmpas a ffefrir ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'u diffinio o ran yr ysgogwyr polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru annog ffermwyr i fabwysiadu arferion ffermio (mwy) cynaliadwy. Mae'r ysgogwyr hyn yn cynnwys:

- Mabwysiadu'r rheoliadau presennol i'w gwneud yn ofynnol i ffermwyr fabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy;
- Rhoi cyngor, hyfforddiant ac arweiniad i ffermwyr (a'u cadwyni cyflenwi);
- Rhoi cymorth ariannol sydd wedi'i ddatgysylltu oddi wrth weithredoedd penodol i sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol (megis Cynllun y Taliad Sylfaenol);
- Rhoi cymorth ariannol sy'n gysylltiedig â sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mesuradwy.

Fel gyda'r cwmpas, mae manteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau wedi cael eu harfarnu yn seiliedig ar ba mor dda y disgwylir iddynt gyflawni amcanion hirdymor allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r ffactorau llwyddiant allweddol. Crynhoir manteision ac anfanteision yr opsiynau yn Nhabl 9: yr opsiwn mewn gwyrdd yw'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir, gall yr opsiwn mewn oren hefyd gael ei gario ymlaen a gall yr opsiynau mewn coch gael eu diystyru. Yr opsiwn Busnes fel Arfer (2.0) yw Cynllun y Taliad Sylfaenol presennol (yn

bennaf taliad yr hectar sydd wedi'i ddatgysylltu oddi wrth weithredoedd penodol i sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol) ynghyd â grantiau'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol.

*Tabl 8:Crynodeb o'r asesiad o fanteision ac anfanteision yr opsiynau ar gyfer datrysiadau*

| **Dimensiwn a Chontinwwm** | **Busnes fel Arfer** | **Lleiafswm** | **Canolradd** | **Uchafswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Datrysiad**<br>**Mewn perthynas â'r cwmpas a ffefrir (Opsiwn 1.4 uchod yn cyfeirio ato)** | 2.0 Cynllun y Taliad Sengl ynghyd â'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol | 2.1 Rheoleiddio yn unig a dim cymorth na chyngor gan Lywodraeth Cymru | 2.2 Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn unig; dim cymorth ariannol na rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru | 2.3 Cymorth ariannol sy'n gysylltiedig â sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mesuradwy |
| **Manteision** | • Mae'n rhoi parhad i ffermwyr sy'n cynnal hyder y bydd cymorth ar gael | • Mae'n lleihau'r gyllideb ar gyfer cymorth ariannol (sy'n rhyddhau adnoddau ar gyfer meysydd polisi eraill) | • Mae'n lleihau'r gyllideb ar gyfer cymorth ariannol (sy'n rhyddhau adnoddau ar gyfer meysydd polisi) eraill) | • Mae'n cyd-fynd ag amcanion statudol rheoli tir yn gynaliadwy<br>• Mae'n rhoi cymhelliant i ffermwyr gynnal neu wella cynefinoedd a choetir sy'n bodoli eisoes<br>• Mae'n rhoi cymhelliant i ffermwyr weithredu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr: o bosibl<br>• Gallai sicrhau gwell gwerth am arian am fod mwy o ychwanegedd |
| **Anfanteision** | • Oni bai bod ffermydd yn hawlio o dan gynlluniau datblygu gwledig, ni chânt eu cymell i liniaru newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo na chynnal a gwella gwytnwch ecosystemau<br>• Gallai ffermwyr nad ydynt yn hawlio o dan gynlluniau datblygu gwledig ddwysau cynhyrchiant gan achosi risg o effeithiau negyddol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a nwyddau a gwasanaethau ecosystem | • Byddai cost rheoleiddio yn cael ei hysgwyddo gan ffermwyr, sy'n peryglu eu gwytnwch economaidd<br>• Gallai ffermwyr ddwysáu cynhyrchiant (ar draul yr amgylchedd)<br>• Gallai ffermwyr gael anawsterau i gydymffurfio heb gyngor na chymorth i'w helpu i ymaddasu | • Mae'n peryglu gwytnwch economaidd llawer o ffermydd a byddai goblygiadau cymdeithasol niweidiol mewn ardaloedd gwledig fwy na thebyg, yn enwedig pe bai tir yn cael ei adael yn wag<br>• Gallai ffermydd sy'n dibynnu ar adenillion o'r farchnad ddwysáu cynhyrchiant<br>• Nid oes cymhelliant i ffermwyr fuddsoddi mewn mesurau ychwanegol i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gan | • Mae'n bosibl y byddai ffermwyr y tu allan i'r cynllun newydd yn cael cymhelliant i ddwysáu cynhyrchiant yn hytrach na buddsoddi mewn cynhyrchu bwyd yn fwy cynhyrchiol) |

| Dimensiwn a Chontinwwm | Busnes fel Arfer | Lleiafswm | Canolradd | Uchafswm |
|---|---|---|---|---|
| | | | gynnwys gweithredoedd i leihau nwyon tŷ gwydr | |
| | Cariwyd ymlaen | Diystyrwyd | Diystyrwyd | Ffordd Ymlaen a Ffefrir |

Y ffordd ymlaen a ffefrir (2.3) yw rhoi cymorth ariannol i ffermwyr sy'n gysylltiedig â sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mesuradwy.

Mae'r opsiwn Busnes fel Arfer (2.0) yn tybio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi cymorth i ffermwyr fel ag y mae ar hyn o bryd. Caiff ei gario ymlaen gan nodi ei fod yn llai tebygol na'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir o gael ffermwyr i newid eu hymddygiad a mabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy.

Caiff dau opsiwn eu diystyru (2.1 a 2.2) am nad ydynt yn cyflawni amcanion hirdymor allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

### Cyflawni

Mae pedwar opsiwn ar gyfer cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cael eu nodi:

- O dan yr opsiwn **Busnes fel Arfer**, mae Taliadau Gwledig Cymru yn parhau fel yr asiantaeth taliad sengl â rôl gyfyngedig i CNC o ran cyflawni ei ddyletswyddau statudol presennol (er enghraifft mewn perthynas â rhoi caniatadau a thrwyddedau;
- O dan yr opsiwn **Lleiafswm**, nid oes unrhyw asiantaeth taliadau sengl, a chaiff ffermwyr eu talu'n unigol am weithredoedd y cytunir arnynt yn unigol drwy gytundebau grant y maent hwy ac is-adrannau polisi unigol Llywodraeth Cymru yn cytuno arnynt;
- O dan yr opsiwn **Canolradd** mae rôl o hyd i Taliadau Gwledig Cymru fel yr asiantaeth taliad sengl a mwy o rôl i Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r model cyflawni cyffredinol, yn enwedig o ran ei rôl statudol a chynghorol mewn gweithredodd sy'n effeithio ar safleoedd dynodedig yng Nghymru;
- O dan yr opsiwn **Uchafswm**, byddai swyddogaethau'r asiantaeth dalu yn cael eu trosglwyddo i ddarparwr yn y sector preifat.

Mae Tabl 10 yn crynhoi manteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau yn seiliedig ar ba mor dda y disgwylir iddynt gyflawni amcanion allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r ffactorau llwyddiant allweddol.

*Tabl 9: Crynodeb o'r asesiad o fanteision ac anfanteision yr opsiynau cyflawni*

| Dimensiwn a Chontinwwm | Busnes fel Arfer | Lleiafswm | Canolradd | Uchafswm |
|---|---|---|---|---|
| **Darparu gwasanaethau**<br>**Mewn perthynas â'r cwmpas a'r datrysiad a ffefrir (Opsiynau 1.4 a 2.3 uchod)** | 3.0 Rôl o hyd i Taliadau Gwledig Cymru fel yr asiantaeth taliad sengl a rôl gyfyngedig i CNC mewn perthynas â chyflawni ei ddyletswyddau statudol presennol | 3.1 Dim asiantaeth taliad sengl | 3.2 Rôl o hyd i Taliadau Gwledig Cymru fel yr asiantaeth taliad sengl ynghyd â rôl ychwanegol i CNC o ran y broses gyflawni, sy'n adlewyrchu ymgais i gysylltu'r holl gymorth â chanlyniadau mesuradwy | 3.3 Mae swyddogaethau'r asiantaeth dalu yn cael eu darparu gan gyflenwr yn y sector preifat |
| **Manteision** | • Cyfarwydd-deb a pharhad â ffermwyr<br>• Systemau eisoes ar waith | • Byddai taliadau i ffermwyr yn cael eu darparu drwy gytundebau grant unigol ag un is-adran benodol yn Llywodraeth Cymru | • Cyfarwydd-deb a pharhad â ffermwyr<br>• Systemau eisoes ar waith | • Gall gynnig arbedion effeithlonrwydd hirdymor |

| Dimensiwn a Chontinwwm | Busnes fel Arfer | Lleiafswm | Canolradd | Uchafswm |
|---|---|---|---|---|
| | • Profiad o Taliadau Gwledig Cymru | | • Profiad o Taliadau Gwledig Cymru<br>• Mae rôl glir i CNC o ran model cyflawni, yn helpu i sicrhau effeithiolrwydd camau gweithredu i sicrhau canlyniadau amgylcheddol | |
| **Anfanteision** | • Rôl gyfyngedig i CNC o ran y model cyflawni | • Ceisiadau lluosog i ffermwyr gael grantiau unigol, sy'n cynyddu costau i ffermwyr<br>• Ansicrwydd i ffermwyr<br>• Llai o hyblygrwydd na sefyllfa lle mae un asiantaeth yn rheoli taliadau<br>• Mae manteision profiad Taliadau Gwledig Cymru yn cael eu colli<br>• Dyblygu ymdrech weinyddol yn Llywodraeth Cymru | • Costau gweinyddol ychwanegol i Taliadau Gwledig Cymru sy'n adlewyrchu cymhlethdod cytundebau i gyflawni'r cynllun newydd<br>• Costau ychwanegol i CNC | • Byddai'n adeiladu ar drefniadau llywodraethu sy'n bodoli eisoes<br>• Byddai'n amharu ar systemau sefydledig<br>• Byddai'n cynyddu costau byrdymor i ffermwyr a Llywodraeth Cymru<br>• Efallai na fydd ffermwyr yn barod i roi data i gyflenwr yn y sector preifat |
| | Cariwyd ymlaen | Diystyrwyd | Ffordd Ymlaen a Ffefrir | Diystyrwyd |

Bydd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (3.2) yn cynnig rôl o hyd i Taliadau Gwledig Cymru fel yr asiantaeth dalu achrededig sydd â rôl gynorthwyol ychwanegol i CNC fel rhan o'r model cyflawni, yn enwedig o ran ei rôl statudol a chynghorol mewn gweithredoedd sy'n effeithio ar safleoedd dynodedig yng Nghymru.

Mae'r opsiwn Busnes fel Arfer (3.0) wedi cael ei gario ymlaen.

Mae dau opsiwn wedi cael eu diystyru: dim asiantaeth dalu sengl (3.1) ac allanoli swyddogaethau'r asiantaeth dalu (3.3)

## *Rhoi ar waith*

Mae pedwar opsiwn ar gyfer rhoi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith wedi cael eu nodi:

- **Busnes fel Arfer** – parhau i ddarparu taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau grantiau'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol (gan gynnwys Cynefin Cymru);
- **Lleiafswm** – cyfnod pontio dwy flynedd o Gynllun y Taliad Sylfaenol ynghyd â chynlluniau grantiau'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol i'r cynllun newydd, gan gynnwys cynlluniau peilot cyfyngedig;
- **Canolradd** – cyfnod pontio pedair blynedd o Gynllun y Taliad Sylfaenol ynghyd â chynlluniau grantiau'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol i'r cynllun newydd, gan gynnwys cynlluniau peilot cyfyngedig;
- **Canolradd** – pontio ar unwaith o Gynllun y Taliad Sylfaenol ynghyd â chynlluniau grantiau'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol i'r cynllun newydd.

Mae Tabl 11 yn crynhoi manteision ac anfanteision yr opsiynau hyn yn seiliedig ar ba mor dda y disgwylir iddynt gyflawni amcanion hirdymor allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r ffactorau llwyddiant allweddol.

*Tabl 10:Crynodeb o asesiad o fanteision ac anfanteision yr opsiynau rhoi ar waith*

| Dimensiwn a Chontinwwm | Busnes fel Arfer | Lleiafswm | Canolradd | Uchafswm |
|---|---|---|---|---|
| **Rhoi ar waith**<br>**Mewn perthynas â'r cwmpas a ffefrir, y datrysiad a'r dull o ddarparu gwasanaethau (Opsiynau 1.4, 2.3 a 3.2 uchod)** | 4.0 Parhau â Chynllun y Taliad Sylfaenol ynghyd â'r cynlluniau buddsoddi gwledig | 4.1 Cyfnod Pontio dwy flynedd ynghyd â chynlluniau peilot cyfyngedig | 4.2 Cyfnod Pontio pedair blynedd ynghyd â chynlluniau peilot cyfyngedig | 4.3 Pontio ar unwaith o Gynllun y Taliad Sengl i'r cynllun newydd |
| **Manteision** | • Mae'n cynnig cyfarwydd-deb a pharhad i ffermwyr<br>• Nid oes angen pontio i'r cynllun newydd | • Mae'n rhoi ychydig o amser i gynlluniau peilot gronni gwersi a ddysgwyd a phrofiad y gellir eu cynnwys wrth gyflawni'r cynllun newydd | • Mae'n rhoi mwy o amser i ffermwyr addasu eu model busnes a phontio o Gynllun y Taliad Sengl i'r cynllun newydd<br>• Mae'n cynnig pontio didrafferth o Gynllun y Taliad Sengl i'r cynllun newydd<br>• Mae cynlluniau peilot yn rhoi cyfle i gynnwys gwersi a ddysgwyd a phrofiad wrth lunio a chyflwyno'r cynllun newydd | • Mae'n rhoi terfyn ar unwaith ar gymorth o dan Gynllun y Taliad Sengl nad yw'n gysylltiedig â chanlyniadau mesuradwy.<br>• Mae'n cyflymu'r broses o wireddu manteision |
| **Anfanteision** | • Mae'n rhoi o bwys ar amodoldeb | • Efallai y bydd cyfnod pontio o 2 flynedd yn rhy fyr i lawer o ffermwyr ymaddasu<br>• Mae'n cynnig proses bontio ar fyrder (a mwy costus) i'r cynllun newydd<br>• Gall gael effaith andwyol ar y niferoedd sy'n ymuno â'r cynllun | • Cynllun y Taliad Sylfaenol am fod y cymorth presennol yn parhau am gyfnod o 4 blynedd | • Nid yw'n cynnig modd i bontio'n ddidrafferth o'r cymorth presennol i ffermwyr<br>• Dim amser i gynnal cynlluniau peilot |
| | Cariwyd ymlaen | Cariwyd ymlaen | Ffordd Ymlaen a Ffefrir | Diystyrwyd |

Y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (4.2) yw Cyfnod Pontio o bedair blynedd sy'n cynnig proses bontio lai trafferthus a chostus i'r cynllun newydd na chyfnod pontio o ddwy flynedd (4.1) – efallai y bydd ffermwyr yn ystyried yr olaf yn rhy frysiog, ac y gall hyn gael effaith andwyol ar eu penderfyniadau i gymryd rhan yn y cynllun newydd. Byddai cyfnod pontio o bedair blynedd hefyd yn rhoi digon o amser i dreialu dulliau gweithredu, a chynnwys gwersi a ddysgwyd a phrofiad yn y model cyflawni.

Mae'r opsiwn Busnes fel Arfer (4.0) hefyd wedi cael ei gario ymlaen.

Mae'r opsiwn o beidio â chael Cyfnod Pontio (4.3) wedi cael ei ddiystyru am na fyddai'n rhoi digon o amser ar gyfer proses bontio ddidrafferth o Gynllun y Taliad Sylfaenol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

## Cyllido

Mae pum opsiwn cyllido bras wedi cael eu nodi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae pob un ohonynt yn dibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru, ond maent yn adlewyrchu ffyrdd gwahanol o bennu lefel y cyllid a'i ddyrannu i ffermwyr unigol:

- **Busnes fel Arfer** – parhau i roi taliadau i ffermwyr o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (ar sail tir cymwys yn bennaf) a chynlluniau buddsoddi gwledig gan Lywodraeth Cymru;
- **Lleiafswm** – rhoi taliadau'n seiliedig ar y costau cyfartalog i ffermwyr mewn perthynas ag ymgymryd ag unrhyw weithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy.
- **Canolradd** – rhoi taliadau'n seiliedig ar y costau cyfartalog i ffermwyr a'r incwm a hepgorwyd ar gyfartaledd mewn perthynas ag ymgymryd ag unrhyw weithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy.
- **Canolradd** – rhoi taliadau'n seiliedig ar y costau cyfartalog i ffermwyr a'r incwm a hepgorwyd ar gyfartaledd mewn perthynas ag ymgymryd ag unrhyw weithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy ynghyd â thaliad sy'n adlewyrchu gwerth y canlyniadau a sicrhawyd i gymdeithas
- **Uchafswm –** rhoi taliadau'n seiliedig ar y costau gwirioneddol i ffermwyr unigol a'r incwm gwirioneddol a hepgorwyd mewn perthynas ag ymgymryd ag unrhyw weithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy

Mae Tabl 12 yn crynhoi manteision ac anfanteision pob opsiwn yn seiliedig ar ba mor dda y byddent yn cyflawni amcanion hirdymor allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r ffactorau llwyddiant allweddol.

*Tabl 11*: *Crynodeb o asesiad o fanteision ac anfanteision yr opsiynau cyllido*

| Dimensiwn a Chontinwwm | Busnes fel Arfer | Lleiafswm | Canolradd | Canolradd | Uchafswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllido**<br>**Mewn perthynas â'r cwmpas a ffefrir (1.4), datrysiad (2.3), y dull o ddarparu gwasanaethau (3.2) a rhoi ar waith (4.2)** | 5.0 Parhau i gyllido Cynllun y Taliad Sylfaenol ynghyd â'r cynlluniau buddsoddi gwledig | 5.1 Taliadau sy'n seiliedig ar gostau cyfartalog i ffermwyr mewn perthynas ag ymgymryd â gweithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy | 5.2 Taliadau sy'n seiliedig ar gostau cyfartalog i ffermwyr ac incwm cyfartalog a hepgorwyd ganddynt mewn perthynas ag ymgymryd â gweithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy | 5.3 Taliadau sy'n seiliedig ar gostau cyfartalog i ffermwyr a'r incwm cyfartalog a hepgorwyd ganddynt mewn perthynas ag ymgymryd gweithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy ynghyd â thaliad i adlewyrchu canlyniadau gwerth cymdeithasol a sicrhawyd | 5.4 Taliadau sy'n seiliedig ar gostau gwirioneddol i ffermwyr unigol ac incwm gwirioneddol a hepgorwyd ganddynt mewn perthynas â gweithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy |
| **Manteision** | • Cyfarwydd-deb a hyder wrth amcangyfrif y gyllideb | • Mae'r angen am gyllid gan Lywodraeth Cymru yn debygol o leihau | • Mae'n ystyried y costau yr eir iddynt a'r incwm a hepgorir gan ffermwyr o ganlyniad i weithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau | • Mae'n ystyried y costau yr eir iddynt a'r incwm a hepgorir gan ffermwyr o ganlyniad i weithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau<br>• Taliad i ffermwyr sy'n adlewyrchu gwerth canlyniadau a sicrheir i gymdeithas pe | • Mae ffermwyr sy'n cymryd rhan yn cael costau gwirioneddol ac incwm a hepgorwyd mewn perthynas ag unrhyw weithredoedd<br>• |

| Dimensiwn a Chontinwwm | Busnes fel Arfer | Lleiafswm | Canolradd | Canolradd | Uchafswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | bai cymorth yn rhoi cymhelliant i gymryd rhan | |
| **Anfanteision** | • Nid yw ffermwyr yn cael unrhyw gymhelliant i fuddsoddi mewn cynefinoedd nac i gynnal/gwella coetiroedd drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol ar ei ben ei hun | • Ni fydd talu costau cyfartalog gweithredoedd i sicrhau canlyniadau yn rhoi cymhelliant i ffermwyr gymryd rhan am na fydd y taliad yn cwmpasu colli'r incwm a hepgorwyd<br>• Bydd effaith negyddol debygol ar incwm busnes ffermydd i ffermydd sy'n cymryd rhan, sy'n amharu ar wytnwch economaidd ffermydd | • Ni fydd fawr ddim cymhelliant i ffermwyr sy'n mynd i gostau ac yn hepgor incwm sy'n fwy na'r cyfartaledd ymuno â'r cynllun a gall hyn beryglu eu cyfranogiad | • Mae'r angen am gyllid gan Lywodraeth Cymru yn debygol o fod yn uwch<br>• Mae'n bosibl na fydd ffermwyr â chostau uchel yn cael taliad sy'n rhoi cymhelliant iddynt gymryd rhan | • Mae'n bosibl na fydd yn fforddiadwy i Lywodraeth Cymru<br>• Nid oes unrhyw gymhelliant i ffermwyr leihau costau yr eir iddynt nac incwm a hepgorir o weithredoedd y cynllun newydd sy'n achosi risg o werth gwael am arian<br>• Costau gweinyddol mawr am dalu a dilysu costau gwirioneddol ac incwm gwirioneddol a hepgorwyd i bob ffermwr sy'n cymryd rhan |
| | Cariwyd ymlaen | Diystyrwyd | Cariwyd ymlaen | Ffordd Ymlaen a Ffefrir | Diystyrwyd |

Y Ffordd Ymlaen y Ffefrir yw'r opsiwn sy'n talu costau cyfartalog yr aed iddynt a'r incwm a hepgorwyd a thaliad sy'n adlewyrchu gwerth cymdeithasol canlyniadau (5.3). Mae'n debygol o roi cymhelliant i ffermwyr gymryd rhan am y bydd unrhyw daliad sy'n fwy na'r costau yr aed iddynt a'r incwm a hepgorwyd yn cael effaith gadarnhaol ar incwm busnes ffermydd.

Mae'r opsiwn 'Lleiafswm' lle mae'r cynllun ond yn talu'r costau cyfartalog yr aed iddynt mewn perthynas ag unrhyw weithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau (5.1) wedi cael ei ddiystyru am nad yw'n debygol o roi digon o gymhelliant i ffermwyr gymryd rhan yn y cynllun newydd, gan nad yw'r opsiwn yn cwmpasu incwm a hepgorwyd.

Mae'r opsiwn 'Canolradd', sef talu costau cyfartalog yr aed iddynt a'r incwm a hepgorwyd wedi cael ei gario ymlaen (5.2).

Mae'r opsiwn o dalu costau gwirioneddol yr aed iddynt a'r incwm a hepgorwyd (5.4) wedi cael ei ddiystyru am y byddai costau gweinyddol uchel dull gweithredu o'r fath yn achosi risg o werth gwael am arian.

Mae Tabl 13 yn crynhoi casgliadau'r asesiad o'r gwahanol gyfuniadau o opsiynau ac yn rhoi'r sail dros ddatblygu rhestr fer o opsiynau.

*Tabl 13: Crynodeb o'r Fframwaith Hidlo Opsiynau*

| Dimensiwn a Chontinwwm | Busnes fel Arfer | Lleiafswm | Canolradd | Canolradd | Uchafswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cwmpas**<br>**Darpariaeth – fel y'i hamlinellwyd yn yr Achos Strategol** | 1.0 Cynllun sylfaenol sy'n gymwys i bob fferm ledled Cymru ar sail fferm gyfan | 1.1 Cynllun sylfaenol sydd ond yn cwmpasu gweithredoedd cyfyngedig ar sail fferm rannol | 1.2 Cynllun sylfaenol sy'n gymwys i ffermydd mewn ardaloedd daearyddol penodol yn unig | 1.3 Cynllun sylfaenol sydd ond yn gymwys i ffermydd o faint penodol (e.e. y rhai sy'n llai na'r maint canolrifol) | 1.4 Cynllun uchelgeisiol sy'n gymwys i bob fferm ledled Cymru ar sail fferm gyfan |
| | Cariwyd ymlaen | Diystyrwyd | Diystyrwyd | Diystyrwyd | Ffordd Ymlaen a Ffefrir |
| **Datrysiad**<br>**Mewn perthynas â'r cwmpas a ffefrir (Opsiwn 1.4 uchod yn cyfeirio ato)** | 2.0 Cynllun y Taliad Sengl ynghyd â'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol | 2.1 Rheoleiddio yn unig a dim cymorth na chyngor gan Lywodraeth Cymru | 2.2 Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn unig; dim cymorth gan Lywodraeth Cymru | 2.3 Cymorth ariannol sy'n gysylltiedig â sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mesuradwy | |
| | Cariwyd ymlaen | Diystyrwyd | Diystyrwyd | Ffordd Ymlaen a Ffefrir | |
| **Darparu gwasanaethau**<br>**Mewn perthynas â'r cwmpas a ffefrir a'r datrysiad (Opsiynau 1.4 a 2.3 uchod)** | 3.0 Rôl o hyd i Taliadau Gwledig Cymru fel yr asiantaeth taliad sengl a rôl gyfyngedig i CNC mewn perthynas â chyflawni ei ddyletswyddau statudol presennol | 3.1 Dim asiantaeth taliad sengl | 3.2 Rôl o hyd i Taliadau Gwledig Cymru fel yr asiantaeth taliad sengl ynghyd â rôl ychwanegol i CNC o ran y broses gyflawni, sy'n adlewyrchu ymgais i gysylltu'r holl gymorth â chanlyniadau mesuradwy | 3.3 Mae swyddogaethau'r asiantaeth dalu yn cael eu darparu gan gyflenwr yn y sector preifat | |
| | Cariwyd ymlaen | Diystyrwyd | Ffordd Ymlaen a Ffefrir | Diystyrwyd | |
| **Rhoi ar waith**<br>**Mewn perthynas â'r cwmpas a ffefrir, y datrysiad a'r dull o ddarparu gwasanaethau (Opsiynau 1.4, 2.3 a 3.2 uchod)** | 4.0 Parhau â Chynllun y Taliad Sylfaenol ynghyd â'r cynlluniau buddsoddi gwledig | 4.1 Cyfnod Pontio dwy flynedd ynghyd â chynlluniau peilot cyfyngedig | 4.2 Cyfnod Pontio pedair blynedd ynghyd â chynlluniau peilot cyfyngedig | 4.3 Pontio ar unwaith o Gynllun y Taliad Sengl i'r cynllun newydd | |
| | Cariwyd ymlaen | Cariwyd ymlaen | Ffordd Ymlaen a Ffefrir | Diystyrwyd | |
| **Cyllido**<br>**Mewn perthynas â'r cwmpas a ffefrir (1.4), datrysiad (2.3), y dull o ddarparu** | 5.0 Parhau i gyllido Cynllun y Taliad Sylfaenol ynghyd â'r cynlluniau buddsoddi gwledig | 5.1 Taliadau sy'n seiliedig ar gostau cyfartalog i ffermwyr mewn perthynas ag ymgymryd â gweithredoedd sy'n sicrhau | 5.2 Taliadau sy'n seiliedig ar gostau cyfartalog i ffermwyr ac incwm cyfartalog a hepgorwyd ganddynt mewn perthynas ag ymgymryd â | 5.3 Taliadau sy'n seiliedig ar gostau cyfartalog i ffermwyr a'r incwm cyfartalog a hepgorwyd ganddynt mewn perthynas ag ymgymryd | 5.4 Taliadau sy'n seiliedig ar gostau gwirioneddol i ffermwyr unigol ac incwm gwirioneddol a hepgorwyd ganddynt mewn perthynas â |

| Dimensiwn a Chontinwwm | Busnes fel Arfer | Lleiafswm | Canolradd | Canolradd | Uchafswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **gwasanaethau (3.2) a rhoi ar waith (4.2)** | | canlyniadau mesuradwy | gweithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy | gweithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy ynghyd â thaliad i adlewyrchu canlyniadau gwerth cymdeithasol a sicrhawyd | gweithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy |
| | Cariwyd ymlaen | Diystyrwyd | Cariwyd ymlaen | Ffordd Ymlaen a Ffefrir | Diystyrwyd |

Crynhoir y rhestr fer o bedwar opsiwn sy'n deillio o ddefnyddio canlyniadau cymhwyso'r Fframwaith Hidlo Opsiynau yn Nhabl 14. Mae nodweddion unigryw pob opsiwn fel a ganlyn:

- **Opsiwn 1** yw'r opsiwn Busnes fel Arfer sy'n adlewyrchu'r dull presennol o roi cymorth i ffermwyr ac sy'n rhoi meincnod y gellir cymharu costau, manteision a risgiau'r opsiynau eraill yn ei erbyn;
- **Opsiwn 2** yw'r opsiwn 'Lleiafswm' lle mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cymorth ar gael i bob fferm yng Nghymru, o dan gynllun newydd lle mae cymorth yn gysylltiedig â'r canlyniadau y disgwylir iddynt gael eu sicrhau. Mae cyfnod pontio o 4 blynedd i'r Cynllun newydd, ac mae Taliadau Gwledig Cymru yn parhau fel yr asiantaeth gyflawni ynghyd â rôl ychwanegol i CNC. O dan yr opsiwn hwn, mae taliadau i ffermwyr yn adlewyrchu'r costau cyfartalog y mae ffermwyr yn mynd iddynt wrth ymgymryd â gweithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau;
- **Opsiwn 3** yw'r Opsiwn 'Canolradd, sy'n llai uchelgeisiol na'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir: mae'n debyg i Opsiwn 2 ond mae taliadau i ffermwyr yn adlewyrchu costau cyfartalog i ffermwyr a'r incwm a hepgorwyd ganddynt ar gyfartaledd wrth ymgymryd â gweithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol;
- **Opsiwn 4** yw'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir: mae'n estyn Opsiwn 2 fel y bydd ffermwyr hefyd yn cael taliad sy'n adlewyrchu gwerth y canlyniadau a sicrheir ganddynt i gymdeithas.

*Tabl 12*: *Rhestr fer o opsiynau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

| Dimensiynau | Opsiwn 1: Busnes fel Arfer | Opsiwn 2: 'Lleiafswm' | Opsiwn 3: 'Canolradd' | Opsiwn 4: Ffordd Ymlaen a Ffefrir |
|---|---|---|---|---|
| **Cwmpas gwasanaethau** | 1.0 Mae cymorth Llywodraeth Cymru ar gael i ffermydd ledled Cymru | 1.0 Mae cymorth Llywodraeth Cymru ar gael i ffermydd ledled Cymru | 1.0 Mae cymorth Llywodraeth Cymru ar gael i ffermydd ledled Cymru | 1.0 Mae cymorth Llywodraeth Cymru ar gael i ffermydd ledled Cymru |
| **Datrysiad gwasanaethau** | 2.0 Cynllun y Taliad Sylfaenol ynghyd â grantiau'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol | 2.3 Cymorth ariannol sy'n gysylltiedig â sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mesuradwy | 2.3 Cymorth ariannol sy'n gysylltiedig â sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mesuradwy | 2.3 Cymorth ariannol sy'n gysylltiedig â sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mesuradwy |
| **Darparu gwasanaethau** | 3.0 Rôl o hyd i Taliadau Gwledig Cymru fel yr asiantaeth taliad sengl a rôl gyfyngedig i CNC mewn perthynas â grantiau'r cynlluniau buddsoddi gwledig | 3.2 Rôl o hyd i Taliadau Gwledig Cymru fel yr asiantaeth taliad sengl ynghyd â rôl ychwanegol i CNC o ran y broses gyflawni, sy'n adlewyrchu ymgais i gysylltu'r holl gymorth â | 3.2 Rôl o hyd i Taliadau Gwledig Cymru fel yr asiantaeth taliad sengl ynghyd â rôl ychwanegol i CNC o ran y broses gyflawni, sy'n adlewyrchu ymgais i gysylltu'r holl gymorth â | 3.2 Rôl o hyd i Taliadau Gwledig Cymru fel yr asiantaeth taliad sengl ynghyd â rôl ychwanegol i CNC o ran y broses gyflawni, sy'n adlewyrchu ymgais i gysylltu'r holl gymorth â |

| Dimensiynau | Opsiwn 1: Busnes fel Arfer | Opsiwn 2: 'Lleiafswm' | Opsiwn 3: 'Canolradd' | Opsiwn 4: Ffordd Ymlaen a Ffefrir |
|---|---|---|---|---|
| | | chanlyniadau mesuradwy | chanlyniadau mesuradwy | chanlyniadau mesuradwy |
| **Rhoi ar waith** | 4.0 Parhau â Chynllun y Taliad Sylfaenol ynghyd â'r cynlluniau buddsoddi gwledig | 4.1 Cyfnod Pontio dwy flynedd ynghyd â chynlluniau peilot cyfyngedig | 4.2 Cyfnod Pontio pedair blynedd ynghyd â chynlluniau peilot cyfyngedig | 4.2 Cyfnod Pontio pedair blynedd ynghyd â chynlluniau peilot cyfyngedig |
| **Cyllido** | 5.0 Parhau i gyllido Cynllun y Taliad Sylfaenol ynghyd â'r cynlluniau buddsoddi gwledig | 5.2 Taliadau sy'n seiliedig ar gostau cyfartalog i ffermwyr ac incwm cyfartalog a hepgorwyd ganddynt mewn perthynas ag ymgymryd â gweithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy | 5.2 Taliadau sy'n seiliedig ar gostau cyfartalog i ffermwyr ac incwm cyfartalog a hepgorwyd ganddynt mewn perthynas ag ymgymryd â gweithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy | 5.3 Taliadau sy'n seiliedig ar y costau cyfartalog i ffermwyr a'r incwm a hepgorwyd ganddynt ar gyfartaledd mewn perthynas ag ymgymryd ag unrhyw weithredoedd sy'n sicrhau canlyniadau mesuradwy ynghyd â thaliad sy'n adlewyrchu gwerth y canlyniadau a sicrhawyd i gymdeithas |

Mae Tabl 15 yn crynhoi'r asesiad o'r rhestr fer o opsiynau yn erbyn amcanion hirdymor allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r ffactorau llwyddiant allweddol. Mae'r pwyntiau allweddol i'w nodi fel a ganlyn:

- Dim ond y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Opsiwn 4) sy'n creu cysylltiad rhwng gwobrwyo ffermwyr a chyflawni holl amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r opsiwn hwn hefyd sy'n cydweddu'n strategol orau o gymharu ag Opsiwn 1 sy'n cydweddu'n strategol waethaf;
- Mae pob un o'r opsiynau heblaw Opsiwn 1 (Busnes fel Arfer) yn achosi risg y bydd llai o ffermwyr yn cymryd rhan os bydd lefel y wobr yn annigonol i wneud y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn atyniadol iddynt;
- Mae'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Opsiwn 4) yn cynnig gwell gwerth am arian o bosibl na'r opsiynau eraill oherwydd y gwerth cymdeithasol ychwanegol y bydd yn rhoi cymhelliant i'w sicrhau ond bydd angen rheoli risgiau ynglŷn â gallu cyflenwyr i gefnogi ffermwyr a fforddiadwyedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ofalus.
- Mae'n bosibl y bydd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Opsiwn 4) yn llai fforddiadwy na'r opsiynau eraill o ystyried lefel y cyfranogiad yn y cynllun oherwydd cost ychwanegol y taliad gwerth cymdeithasol;
- Opsiwn 3 ac Opsiwn 4 (Busnes fel Arfer) yw'r opsiynau gorau i gyflawni amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda'r gost bontio leiaf i ffermwyr a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd.

*Tabl 13: Crynodeb o'r asesiad o'r rhestr fer o opsiynau*

| Disgrifiad o'r opsiwn: | Opsiwn 1: Busnes fel Arfer | Opsiwn 2: 'Gwneud y lleiafswm' | Opsiwn 3: Canolradd | Opsiwn 4: Ffordd Ymlaen a Ffefrir |
|---|---|---|---|---|
| **Amcanion gwariant** | | | | |
| 1. Cyfranogiad cyffredinol gan ffermwyr | | | | |
| 2. Mabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy | | | | |
| 3. Cynnal/gwella gwytnwch ffermydd | | | | |
| 4. Allyriadau nwyon tŷ gwydr is | | | | |
| 4. Rheolir o leiaf 10% o'r fferm er budd bioamrywiaeth | | | | |

| Disgrifiad o'r opsiwn: | Opsiwn 1: Busnes fel Arfer | Opsiwn 2: 'Gwneud y lleiafswm' | Opsiwn 3: Canolradd | Opsiwn 4: Ffordd Ymlaen a Ffefrir |
|---|---|---|---|---|
| 5. Rheolir safleoedd hanesyddol yn well | | | | |
| **Ffactorau llwyddiant allweddol** | | | | |
| Cydweddu'n strategol | | | | |
| Optimeiddio manteision | | | | |
| Capasiti a galluogrwydd yr ochr gyflenwi | | | | |
| Fforddiadwyedd posibl | | | | |
| Cyflawnadwyedd posibl | | | | |
| Crynodeb | | | | |

Mae'r rhestr fer o opsiynau bellach yn cael ei chario ymlaen ar gyfer dadansoddiad gwerth am arian.

## *Gwerth am arian yr opsiynau ar y rhestr fer*

Mae'r adran hon yn crynhoi'r asesiad o werth am arian y ddau opsiwn a gadwyd ar y rhestr fer. Mae wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Disgrifiad o'r dull gweithredu a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r dadansoddiad;
- Crynodeb o'r casgliadau allweddol;
- Trosolwg o'r canlyniadau modelu allweddol a gwaith dadansoddi arall ar gyfer:
  - Y Gweithredoedd Cyffredinol;
  - Y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol;
  - Y dadansoddiad integredig o'r ddau opsiwn;
- Mae adran derfynol yn dwyn ynghyd y casgliadau allweddol ynglŷn â'r opsiwn a ffefrir yn seiliedig ar ystyried dau gwestiwn allweddol:
  - A yw'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (yn seiliedig ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) yn fwy dymunol na Busnes fel Arfer (yn seiliedig ar Gynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig) ac a yw'n darparu digon o arian?
  - Os felly, beth yw'r gyfradd gychwynnol a ffefrir ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol o ystyried y cyfnewidiadau a'r manteision hirdymor dynamig posibl y gallai ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gam cynnar eu cynnig?

Ceir rhagor o fanylion am y dull gweithredu, y dystiolaeth sylfaenol a'r canlyniadau yn y gwahanol Atodiadau y cyfeirir atynt.

### *Trosolwg o'r dull gweithredu*

Mae'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd i asesu'r costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwahanol Opsiynau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ceisio bod yn gyson â gofynion y Llyfr Gwyrdd[50]. Mae'n canolbwyntio ar gymharu'r ddau opsiwn ar y rhestr fer a nodwyd yn y rhan gyntaf o'r Achos Economaidd. Mae hyn yn golygu amcangyfrif Gwerth Cymdeithasol Presennol Net[51] a Chymhareb Cost a Budd pob opsiwn[52], a hefyd nodi unrhyw gostau neu fanteision sylweddol na ellir eu mesur. Mae hefyd yn golygu asesu'r canlyniadau disgwyliedig a'r effeithiau yn erbyn amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel y'u diffiniwyd fel rhan o'r Achos Strategol er mwyn rhoi asesiad cyffredinol o werth am arian.

[50] Trysorlys EF, The Green Book: appraisal and evaluation in central government, 2022

[51] Gwerth pob mantais economaidd, llai'r holl gostau economaidd, ym mhob blwyddyn pan fyddant yn cael eu diystyru a'u hychwanegu at ei gilydd yw'r Gwerth Cymdeithasol/Cyhoeddus Presennol Net.

[52] Mae'r Gwerth Cymdeithasol Presennol Net a'r Gymhareb Cost a Budd (y Gwerth Cymdeithasol Presennol Net wedi'i rannu â chostau gweithredu perthnasol y sector cyhoeddus) yn rhoi'r Opsiynau mewn trefn gychwynnol.

Y ddau opsiwn a gariwyd ymlaen o'r broses o lunio rhestr fer yw:

- Busnes fel Arfer yn seiliedig ar barhau i roi cymorth i ffermydd yng Nghymru drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol;
- Y Ffordd Ymlaen a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cynnwys:
    - Y 15 Gweithred (Gweithredoedd Cyffredinol) a ragwelir fel rhan o'r Haen Gyffredinol;
    - Yr 17 o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a gynigiwyd yn wreiddiol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae'r dadansoddiad yn ystyried y Gweithredoedd Cyffredinol ar wahân i'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol: ystyrir yr olaf yn unigol ac yna ar y cyd. Yna caiff y canlyniadau ar gyfer y Gweithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol eu cyfuno.

## *Cwmpas costau a manteision*

Mae'r costau a'r manteision sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad gwerth am arian, sy'n gyson â'r rhai a argymhellwyd yn y Llyfr Gwyrdd, wedi'u llunio i'w gwneud yn bosibl i asesu goblygiadau pob Opsiwn o ran lles economaidd.

Y gwaith o nodi a phennu gwerth costau a'r manteision perthnasol (ochr yn ochr â'r risgiau perthnasol) sydd wrth wraidd y dull gweithredu hwn o arfarnu economaidd.

Mae costau a manteision posibl yr Opsiynau wedi cael eu pennu o safbwynt Cymreig (h.y. eu hystyried o ran eu heffaith ar gymdeithas yng Nghymru yn ei chyfanrwydd)[53]. Maent yn seiliedig ar ddatblygu cyfres o gadwyni rhesymeg sy'n mapio'r Gweithredoedd a ariennir o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a'r opsiwn Busnes fel Arfer) hyd at eu costau a'u manteision disgwyliedig. Mae'r cadwyni rhesymeg hyn hefyd wedi cael eu defnyddio i ddatblygu a chefnogi'r ffordd y bwriedir gwireddu manteision a amlinellwyd fel rhan o'r Achos Rheoli.

Mae'r gymhariaeth o'r newidiadau rhwng yr Opsiynau yn seiliedig ar "ddadansoddiad ymylol" o fewn model sefydlog ar y cyfan. Yn achos y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, lle ceir dyhead hirdymor i newid ffocws y berthynas rhwng ffermio a'r amgylchedd a chymdeithas yn fwy cyffredinol, mae'n bosibl y bydd materion arwyddocaol nad ydynt yn ymylol yn codi y bydd angen eu hasesu hefyd. Trafodir goblygiadau hyn ymhellach isod yn y rhan olaf o'r adran.

Mae costau a manteision posibl yr Opsiynau wedi cael eu rhannu'n grwpiau bras sy'n seiliedig ar y buddiolwr disgwyliedig:

- Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, er enghraifft taliadau i ffermwyr gan Lywodraeth Cymru;
- Costau a manteision ehangach i gymdeithas yng Nghymru, yn enwedig ffermwyr ond unigolion, busnesau a chymunedau eraill hefyd.

Gellir hefyd gategoreiddio'r costau a'r manteision yn ôl y canlynol:

- A ydynt yn rhyddhau (arbed) arian parod ar unwaith;
- A oes iddynt werth ariannol (ond nid drwy ryddhau arian parod) am eu bod yn gwella effeithlonrwydd economaidd heb leihau cyllideb y sector cyhoeddus sydd ei hangen o reidrwydd;
- A oes modd eu mesur mewn ffordd gredadwy er nad oes modd pennu eu gwerth ariannol ond mae angen eu hystyried o hyd wrth arfarnu'r opsiynau;
- A oes modd eu disgrifio'n ansoddol ond nid yn feintiol felly maent yn annhebygol o fod yn ystyriaethau penderfynol.

Yn y cyd-destun hwn, mae angen hepgor trosglwyddiadau o adnoddau megis y grantiau a delir o dan y gwahanol opsiynau o'r amcangyfrif cyffredinol o'r Gwerth Cymdeithasol Presennol Net; maent yn gost ar y rhoddwr (Llywodraeth Cymru) ac yn fantais i'r ffermwyr sy'n eu derbyn, ac nid ydynt yn gwneud cymdeithas

[53] Ac eithrio manteision rheoli SoDdGAau lle mae'r dystiolaeth yn ymwneud â manteision i aelwydydd yng Nghymru a Lloegr

yng Nghymru yn well nac yn waeth[54]. Fodd bynnag, efallai y bydd iddynt oblygiadau dosbarthiadol pwysig, ac fel rhan o'r cymorth hwnnw, wytnwch busnesau yn y sector ffermio.

Lle bynnag y bo modd, mae'r dadansoddiad yn rhoi gwerth ar gostau a manteision cymdeithasol ac economaidd mewn termau ariannol, oni fydd yn anghymesur neu'n amhosibl gwneud hynny. Mae costau'r gwahanol opsiynau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn deillio o amcangyfrif costau'r gweithgareddau y disgwylir i ffermwyr ymgymryd â nhw i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddau opsiwn. Er bod rhai o fanteision yr Opsiynau wedi'u hadlewyrchu mewn canlyniadau sy'n ymwneud â'r farchnad i fusnesau fferm, adlewyrchir llawer o'r manteision bwriadedig mewn canlyniadau cymdeithasol ehangach nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad, er enghraifft osgoi costau amgylcheddol a gwella llesiant. Mae'r dull a ddefnyddir i bennu gwerth y manteision hyn – a ddisgrifir ymhellach isod ac yn Atodiad C – yn dilyn arweiniad y Llyfr Gwyrdd.

Mynegir yr holl gostau a manteision cymdeithasol ac economaidd ar brisiau cyson 2025 (oni nodir fel arall). Maent hefyd wedi cael eu disgowntio, lle y bo angen, er mwyn iddynt gael eu mynegi ar sail gwerth presennol[55].

Yn olaf, ffocws y gwaith dadansoddi yw effaith gwariant posibl Llywodraeth Cymru yn y Cyfnod Pontio rhwng mis Ionawr 2026 a mis Rhagfyr 2029. Mae'r costau a'r manteision cymdeithasol ac economaidd sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad yn ceisio adlewyrchu'r rhai y gellir eu priodoli i'r gweithgareddau a ariennir gan y naill Opsiwn neu'r llall. Mewn rhai achosion, bydd y costau a'r manteision hyn yn parhau i gronni ar ôl y Cyfnod Pontio (h.y. ar ôl dechrau 2030). Er enghraifft, efallai y bydd oedi rhwng gweithgareddau ffermwyr a'u heffaith ar yr amgylchedd ac, mewn rhai achosion, efallai y bydd yr Opsiynau yn helpu i greu asedau sy'n cael effeithiau hirdymor, estynedig sy'n ymestyn y tu hwnt i'r flwyddyn y gwnaed y buddsoddiad heb fod angen i Lywodraeth Cymru barhau i'w hariannu. Yn y naill achos a'r llall, mae'r cyfnod arfarnu yn adlewyrchu oes ddisgwyliedig yr ased.

## *Materion dadansoddol*

Mae'r dadansoddiad gwerth am arian wedi codi rhai materion pwysig a heriau:

- Sut i efelychu'r cyfnod pontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol i'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir;
- Sut i asesu natur a graddau ychwanegedd, yn enwedig i ba raddau y gellir priodoli unrhyw effeithiau i daliadau o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir o gymharu â Chynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig (Busnes fel Arfer);
- P'un yw'r ffordd orau o gyfuno canlyniadau'r dadansoddiadau gwahanol o gostau a manteision y Gweithredoedd Cyffredinol a'r Gweithredoedd Opsiynol/Cydweithredol o ystyried bod angen osgoi cyfrif dwbl;
- Sut i sicrhau digon o gysondeb wrth gyfuno canlyniadau o nifer o astudiaethau â dulliau dadansoddi a thybiaethau gwahanol, ac ansicrwydd penodol.

Esbonnir ymhellach isod sut yr aethpwyd ati i ddatrys pob mater, ac yn Atodiadau C a D.

## *Sylfaen dystiolaeth*

Mae'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r dadansoddiad gwerth am arian yn defnyddio ffynonellau amrywiol.

Mae'r dadansoddiad o'r Haen Gyffredinol o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a Chynllun y Taliad Sylfaenol fel rhan o'r Opsiwn Busnes fel Arfer) yn defnyddio dwy ffynhonnell allweddol o dystiolaeth: gwaith modelu a oedd yn defnyddio'r Llwyfan Modelu Integredig fel rhan o Raglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd a gwaith dadansoddi gan gonsortiwm o dan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol.

---

[54] I'r graddau y mae trosglwyddiadau yn cael effaith ddosbarthiadol, gellir ystyried eu heffeithiau ochr yn ochr â'r Gwerth Cymdeithasol Presennol Net amcangyfrifedig drwy wneud gwaith dadansoddi dosbarthiadol.

[55] Mae'r dull disgowntio yn dilyn arweiniad y Llyfr Gwyrdd. Y brif gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir yw 3.5% (sef y Gyfradd Amser Cymdeithasol a Ffefrir (STPR),) ond defnyddir cyfradd ddisgowntio o 1.5% ar gyfer effeithiau ar iechyd a bywyd am fod yr 'effaith cyfoeth' neu'r elfen twf defnydd y pen wirioneddol o'r gyfradd ddisgowntio yn cael ei hepgor.

Mae'r Llwyfan Modelu Integredig yn gadwyn o fodelau arbenigol o'r radd flaenaf sy'n cwmpasu amaethyddiaeth, coedwigaeth, penderfyniadau dyrannu defnydd tir, dŵr, aer, priddoedd, bioamrywiaeth, gwasanaethau ecosystem a phennu gwerth. Caiff newidiadau o ran defnydd tir eu hysgogi gan dybiaethau ynglŷn â ffactorau megis economeg ffermydd ac addasrwydd tir. Nid ydynt yn ystyried sgiliau, nac ymatebion diwylliannol ac ymddygiadol.

Mae'r gwaith modelu yn amcangyfrif effeithiau ar gyfer 7,401 o ffermydd amser llawn yng Nghymru sy'n cyfrif am y canlynol:

- 30% o oddeutu 24,608 o ffermydd gweithredol yn yr arolwg amaethyddol ym mis Mehefin[56];
- 73% o'r holl wartheg (78% o wartheg eidion 69% o wartheg godro) yng Nghymru;
- 83% o'r holl ddefaid yng Nghymru;
- 67% o borfa arw, 61% o dir cnydau a 50% o laswelltir wedi'i wella, y mae 76% ohono yn laswelltir dros dro a 46% o laswelltir parhaol.

Mae'r gwaith modelu yn ei gwneud yn bosibl i gymharu'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer drwy efelychu pedwar senario gwahanol:

- Yr Haen Gyffredinol o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a dwy gyfradd dybiedig wahanol ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol:
  - £115 yr hectar – Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a);
  - £70 yr hectar – Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b);
- Yr Opsiwn Busnes fel Arfer;
- Y llinell sylfaen.

Crynhoir nodweddion allweddol pob senario yn Nhabl 1.

*Tabl 14*: *Nodweddion allweddol senarios*

| **Ffordd Ymlaen a Ffefrir** | | **Busnes fel Arfer** | **Llinell sylfaen** |
|---|---|---|---|
| **£115 yr hectar** | **£70 yr hectar** | | |
| • Caiff Cynllun y Taliad Sylfaenol ei ddileu'n llawn ar ôl y Cyfnod Pontio<br>• Ni chaiff cynlluniau buddsoddi gwledig/paratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy eu cynnwys (fel llinell sylfaen)<br>• Mae safonau cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da yn parhau'n gymwys (fel llinell sylfaen)<br>• Mae Rheoli Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 mewn grym i bob fferm, gan gynnwys costau cydymffurfiaeth<br>• Ni chaiff Gweithredoedd Opsiynol na Gweithredoedd Cydweithredol eu modelu | | • Telir Cynllun y Taliad Sylfaenol, dim tapro<br>• Nid yw cynlluniau buddsoddi gwledig/paratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'u cynnwys (dim newid o'r llinell sylfaen)<br>• Mae safonau cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da yn parhau'n gymwys (dim newid o'r llinell sylfaen)<br>• Mae Rheoli Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 mewn grym i bob fferm, gan gynnwys costau cydymffurfiaeth<br>• Nid oes unrhyw elfen o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gael | • Telir Cynllun y Taliad Sylfaenol[57], heb dapro<br>• Nid yw cynlluniau buddsoddi gwledig/paratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'u cynnwys<br>• Mae safonau cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da yn gymwys<br>• Nid yw Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 mewn grym<br>• Nid oes unrhyw elfen o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gael |

Caiff ffermydd eu modelu i ymuno â'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) neu Fusnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) os yw'r busnes fferm yn cael ei efelychu i gynhyrchu £1 yn fwy o elw nag y byddai pe bai'n gweithredu heb gyllid Llywodraeth Cymru[58]. Gall fferm gynhyrchu mwy o elw oherwydd costau, taliadau a

[56] Mae'r diffyg yn cynrychioli ffermydd rhan amser/micro-ffermydd a'r ansicrwydd yn nyraniad y System Adnabod Parseli Tir o ran ffermydd amser llawn. Oherwydd cyfyngiadau data ni fydd modd adnabod pob fferm amser llawn, na'r holl dir sy'n gysylltiedig â ffermydd amser llawn yng Nghymru.
[57] Nid yw hyn yn cynnwys taliadau ar dir comin a symiau ychwanegol i Ffermwyr Ifanc.
[58]Yn ymarferol, efallai y bydd angen i ffermwyr fod yn fwy hyderus ynglŷn â manteision ariannol posibl cymryd rhan, dyweder, yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, cyn ymrwymo i wneud hynny.

newidiadau dynamig y cynllun yn y busnes fferm i sicrhau'r enillion economaidd mwyaf posibl fel ymateb i'r senario.

Amcangyfrifir effaith efelychiadol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir fel y gwahaniaeth rhwng Busnes fel Arfer (h.y. y gwahaniaeth rhwng gwerth amcanestynedig y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a gwerth Busnes fel Arfer). Drwy hyn gellir gwahanu effaith yr Haen Gyffredinol oddi wrth ffactorau eraill megis yr amgylchedd rheoleiddio. Gellir hefyd fynegi effaith efelychiadol Busnes fel Arfer fel newid o'r llinell sylfaen.

Ceir rhagor o fanylion am y dull modelu, gan gynnwys tybiaethau craidd a ddefnyddiwyd i gynrychioli'r Haen Gyffredinol yn Atodiad C.

Mae gwaith modelu economaidd y consortiwm o dan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol yn seiliedig ar 8,781 o ffermydd amser llawn a 6,774 o ffermydd rhan amser. Y boblogaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad yw busnesau fferm sydd wedi'u cofrestru o dan y System Integredig Gweinyddu a Rheoli ac a gafodd daliadau cymorth PAC Piler I neu Biler II yn 2019[59].

Mae'r model yn cynnwys effaith y fframwaith rheoleiddio presennol, gan gynnwys y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn y llinell sylfaen ac mae'n defnyddio data ariannol yr Arolwg o Fusnesau Fferm ar gyfer 2022/23.

Caiff taliadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy eu modelu fel rhai wedi'u talu yn erbyn y fferm gyfan, gan ystyried tir wedi'i wella, ardaloedd o goetir a chynefin sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys tir comin) ac ardaloedd o gynefin newydd ei greu er mwyn cydymffurfio â rheol 10% y cynllun. Mae dwy gyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol yn cael eu modelu: £115 yr hectar a £70 yr hectar. Defnyddir y rhain i brofi effeithiau posibl cyfraddau tybiedig amgen. Mae'r model yn amcangyfrif newidiadau mewn amrywiol ganlyniadau o'u cymharu â Busnes fel Arfer (h.y. Cynllun y Taliad Sylfaenol 100%). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Niferoedd da byw a defnydd tir;
- Maint elw gros sy'n gysylltiedig â'r newid mewn da byw;
- Allbwn amaethyddol cyfanredol;
- Gofyniad Llafur Safonol;
- Incwm Busnes Fferm o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol;
- Cyfanswm cost taliadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r model yn tybio cyfradd ymuno o 100% (h.y. bydd pob busnes fferm yn cymryd rhan yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir)[60]. Yn gyffredinol, dim ond effeithiau statig, gradd un sy'n cael eu hystyried yn hytrach na chaniatáu ar gyfer addasiadau dynamig posibl i arferion rheoli a dyraniadau adnoddau.

Dylid ystyried bod pob canlyniad yn ddigon i ddangos meintiau cymharol effeithiau posibl sy'n deillio o'r Gweithredoedd yn Haen Gyffredinol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir arfaethedig, ond mae rhai elfennau pwysig o ansicrwydd yn y gwaith modelu ac mae'n bwysig eu nodi.

Crynhoir yr elfennau tebyg a gwahanol allweddol rhwng y ddau ddull modelu a'u goblygiadau o ran dehongli eu canlyniadau yn Nhabl 17. Esbonnir manylion pellach am eu goblygiadau o ran dehongli'r canlyniadau yn Atodiad C.

*Tabl 15*: *Crynodeb o nodweddion allweddol gwaith modelu'r Llwyfan Modelu Integredig a'r Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol*

| | **Llwyfan Modelu Integredig** | **Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol** | **Goblygiadau** |
|---|---|---|---|
| Cwmpas | • 7,401 o ffermydd amser llawn yng Nghymru (heb gynnwys tiroedd comin) | • 8,781 o ffermydd amser llawn<br>• 6,774 o ffermydd rhan amser | • O dan fodel y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol mae modd amcangyfrif yr effaith ar ffermydd rhan amser |

[59] Lluniwyd proffil bioffisegol ac ariannol ar gyfer pob busnes fferm drwy gyfuno amrywiol setiau data sy'n bodoli eisoes drwy Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol a chronfeydd data perthynol. Diffinnir fferm amser llawn fel un sydd ag Allbwn Safonol o €25k o leiaf.
[60] Felly, mae hyn yn cynrychioli terfyn uchaf a adlewyrchir wrth ddehongli'r canlyniadau.

| | Llwyfan Modelu Integredig | Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol | Goblygiadau |
|---|---|---|---|
| Opsiynau a gwmpaswyd | • Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)<br>• Ffordd Ymlaen a Ffefrir â dwy gyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol: un uchel ac un isel | • Yn seiliedig ar gymharu'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir â'r sefyllfa bresennol | • Mae model y Llwyfan Modelu Integredig yn cymharu canlyniadau'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir a'i dwy gyfradd ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol â chyfraddau Busnes fel Arfer |
| Mabwysiadu Opsiynau | • Mae mabwysiadu opsiynau yn cael ei efelychu ar sail optimeiddio economaidd: tybir bod ffermydd yn ymuno ag Opsiwn os yw'r Incwm Busnes Fferm efelychiadol ar y lefel dalu benodol yn fwy nag y byddai heb gyllid.[61] | • Mae'n tybio cyfradd ymuno o 100% ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy | • Tra bydd model y Llwyfan Modelu Integredig yn ei gwneud yn bosibl i'r berthynas rhwng cyfraddau Taliad Gwerth Cymdeithasol a chyfradd ymuno â'r cynllun gael ei deall, mae dadansoddiad y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol yn cyflwyno'r senario achos gwaethaf posibl. |
| Taliadau | • Caiff taliadau eu modelu fel rhai sy'n cael eu talu yn erbyn y fferm gyfan, gan ystyried tir wedi'i wella, ardaloedd o goetir a chynefin (heb gynnwys tir comin): | • Caiff taliadau eu modelu fel rhai sy'n cael eu talu yn erbyn y fferm gyfan, gan ystyried tir wedi'i wella, ardaloedd o goetir a chynefin, gan gynnwys tir comin | • Mae taliadau amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru ac Incwm Busnes Fferm yn y ddau fodel yn seiliedig ar ardaloedd gwahanol o dir a ffermir |
| Canlyniadau a fodelwyd | Newidiadau a aseswyd yn erbyn llinell sylfaen:<br>• Incwm Busnes Fferm o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol<br>• Niferoedd da byw a defnydd tir<br>• Lefelau maethynnau:<br>• Canlyniadau amgylcheddol: ansawdd aer, ansawdd dŵr, bioamrywiaeth (rhywogaethau o blanhigion a rhywogaethau o adar) ac allyriadau nwyon tŷ gwydr<br>Gwerth newidiadau yn ansawdd aer, ansawdd dŵr ac allyriadau nwyon tŷ gwydr<br>Taliadau amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru | • Newid yn niferoedd da byw a defnydd tir<br>• Newid ym maint yr elw gros sy'n gysylltiedig â newid mewn da byw<br>• Newid mewn allbwn amaethyddol cyfanredol<br>• Newid yn y Gofyniad Llafur Safonol<br>• Newid yn Incwm Busnes Fferm<br>• Taliadau amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru | • Mae'r Llwyfan Modelu Integredig yn cynnwys newidiadau mewn canlyniadau amgylcheddol o dan y gwahanol Opsiynau ac mae dadansoddiad y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol yn canolbwyntio ar ddangosyddion economaidd. |

Mae'r dadansoddiad o werth am arian posibl yr 17 o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol yn dilyn dull gweithredu eithaf tebyg i'r hyn a ddefnyddiwyd i ddadansoddi effeithiau'r Gweithredoedd Cyffredinol ond mae'r sylfaen dystiolaeth, efallai, yn llai cadarn, gyda bylchau mewn tystiolaeth ar hyn o bryd ac ansicrwydd ar gyfer y Gweithredoedd Opsiynol/Cydweithredol.

[61] Mae'r Llwyfan Modelu Integredig yn seiliedig ar optimeiddio sy'n ystyried arbedion cost posibl i'r busnes fferm o ganlyniad i'r newidiadau a awgrymir gan yr Opsiynau (e.e. nid oes angen rhoi gwrtaith ar ymylon glaswelltir garw mwyach). Mae busnesau fferm yn y Llwyfan Modelu Integredig nid yn unig yn mynd i gostau sy'n gysylltiedig â'r rhwymedigaethau a awgrymir gan Opsiwn, ond gallant hefyd gael mantais o gostau is oherwydd y Gweithredoedd angenrheidiol neu newidiadau eraill a wneir i optimeiddio'r busnes fferm mewn ymateb i'r Opsiwn.

Ar gyfer saith o'r Gweithredoedd Opsiynol, mae'r dystiolaeth o werth ariannol y manteision disgwyliedig a sicrheir gan y Weithred wedi cael ei chymharu â'r costau (h.y. y taliadau disgwyliedig gan Lywodraeth Cymru[62]). Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i amcangyfrif y Gwerth Cymdeithasol Presennol Net a'r Gymhareb Cost a Budd. Crynhoir y manteision nad oes iddynt werth ariannol neu nad ydynt wedi cael eu mesur yn y dadansoddiad hwn, ynghyd â'u harwyddocâd tebygol yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael.

O ran y saith Gweithred Opsiynol a'r tair Gweithred Gydweithredol sy'n weddill, ni nodwyd digon o dystiolaeth i amcangyfrif gwerth ariannol y manteision disgwyliedig a sicrheir gan y Weithred. Yn lle hynny, defnyddir asesiad ansoddol o'r dystiolaeth sydd ar gael i arfarnu effaith debygol y Gweithredoedd hyn. Yna, defnyddir hyn fel y sail i ddangos eu gwerth am arian tebygol, ynghyd ag asesiad o lefel yr hyder yn y canlyniadau.

Mae'r dadansoddiad yn defnyddio dwy ffynhonnell gyffredinol:

- Dadansoddiad gan y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd a ddefnyddiwyd i helpu i ddatblygu cadwyni rhesymeg ar gyfer pob Gweithred Opsiynol a Gweithred Gydweithredol[63];
- Adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru oddi wrth Miller Research Ltd gyda'r nod o archwilio[64]:
  - Rhesymeg, cwmpas a thargedu ymyriadau yn y sector amaethyddol sy'n debyg o ran thema a ffocws i'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a ragwelir o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir;
  - Effeithiolrwydd posibl ymyriadau o'r fath, ac ystyriaethau llunio allweddol sy'n dylanwadu ar raddau, dosbarthiad a pharhauster canlyniadau posibl;
  - Unrhyw wersi a ddysgwyd o ymyriadau blaenorol, gan nodi unrhyw fylchau mewn tystiolaeth neu wendidau allweddol ac asesu natur drosglwyddadwy – neu fel arall – y dystiolaeth i gyd-destun penodol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yng Nghymru.

Mae'r ffynonellau hyn wedi cael eu hategu gan dystiolaeth fwy penodol ar gyfer pob Gweithred Opsiynol a Gweithred Gydweithredol yn seiliedig ar adolygiadau o'r llenyddiaeth yn canolbwyntio ar werthusiadau ac arfarniadau o gynlluniau tebyg. Ceir manylion am y dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn Atodiad D.

## *Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol*

Diben y dadansoddiad gwerth am arian yw mireinio'r rhestr o opsiynau i gyflawni amcanion bwriadedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar ôl llunio rhestr fer, ac yna asesu'n briodol y costau, y manteision a'r risgiau perthnasol. Yn yr adrannau canlynol asesir y ddau Opsiwn ar y rhestr fer ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac ystyrir eu perfformiad yn erbyn amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (a rheoli tir yn gynaliadwy).

Y ddau Opsiwn a gadwyd yw:

- Busnes fel Arfer yn seiliedig ar barhau i roi cymorth i ffermydd yng Nghymru drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol;
- Y Ffordd Ymlaen a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cynnwys y 12 Gweithred Gyffredinol a ragwelwyd fel rhan o'r Haen Gyffredinol (Tachwedd 2024) a'r 17 o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a gynigiwyd i ddechrau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Ar gyfer pob Opsiwn, mae'r asesiad yn ystyried:

- Gwerth Cymdeithasol Presennol Net – gwerth yr holl fanteision cymdeithasol ac economaidd, llai'r holl gostau economaidd;
- Cymhareb cost a budd – mae cymhareb cost a budd o fwy nag 1 yn golygu bod y manteision disgwyliedig yn fwy na'r costau;
- Perfformiad yn erbyn amcanion a risgiau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Goblygiadau dosbarthiadol;

[62]Ni nodwyd unrhyw gostau arwyddocaol eraill.
[63] Gweler, er enghraifft, Adroddiad 40 a baratowyd gan y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd sy'n datblygu cadwyni rhesymeg i ategu'r broses o bennu gwerth economaidd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
[64] Miller Research (2025) *Evidence review of proposed SFS Optional & Collaborative Themes*, adroddiad i Lywodraeth Cymru

- Fforddiadwyedd[65].

Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar ddau gwestiwn allweddol:

- A yw'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (yn seiliedig ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) yn fwy dymunol na Busnes fel Arfer (yn seiliedig ar Gynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig) ac a yw'n darparu digon o arian?
- Os felly, beth yw'r gyfradd gychwynnol a ffefrir ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol o ystyried y cyfnewidiadau a'r manteision hirdymor dynamig posibl y gallai ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gam cynnar eu cynnig?

*Cyd-destun strategol*
Mae'n bwysig cydnabod arwyddocâd cyd-destun strategol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'n rhaglen allweddol sydd â'r nod o geisio newid y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, ffermio a'r amgylchedd a chymdeithas yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn awgrymu y gallai effeithiau cymorth Llywodraeth Cymru fod yn eithaf gwahanol i effeithiau'r gorffennol neu nad oes unrhyw gynsail amlwg iddynt yng Nghymru. Mae hyn, yn ei dro, yn achosi rhai heriau dadansoddol, er enghraifft:

- Sut i efelychu'r cyfnod pontio o Gynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Sut i asesu natur a graddau ychwanegedd, yn enwedig i ba raddau y gellir priodol unrhyw effeithiau i daliadau o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o gymharu â Chynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig (Busnes fel Arfer);
- Sut i gyfuno canlyniadau dadansoddiadau gwahanol o gostau a manteision y Gweithredoedd Cyffredinol a'r Gweithredoedd Opsiynol/Gweithredoedd Cydweithredol (e.e. er mwyn osgoi cyfrif dwbl);
- Sut i sicrhau digon o gysondeb wrth gyfuno canlyniadau o nifer o astudiaethau â dulliau dadansoddi a thybiaethau gwahanol, ac ansicrwydd penodol.

Mae hefyd yn golygu y bydd yn hanfodol olrhain effeithiau – disgwyliedig ac annisgwyl – y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'i addasu yn ôl yr angen yn seiiedig ar y gwersi a ddysgwyd.

*Ansawdd tystiolaeth a goblygiadau*
Y ffynonellau allweddol o dystiolaeth:

- Gwaith modelu a dadansoddi gan gonsortiwm o dan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol;
- Gwaith modelu a dadansoddi gan y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd – y Llwyfan Modelu Integredig;
- Adolygiad Tystiolaeth o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol gan Miller Research;
- Gwaith gan Eftec (fel rhan o gonsortiwm y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd) i amcangyfrif gwerth manteision cyfalaf naturiol;
- Dadansoddiad swyddogion a oedd yn adeiladu ar yr uchod ac amrywiol adroddiadau o dan y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd, Llywodraeth Cymru ac Ystadegau Swyddogol eraill, a thystiolaeth arall

Er bod y sail dystiolaeth yn rhoi sylfaen amhrisiadwy i gynnal y dadansoddiad gwerth am arian, mae angen cydnabod rhai cyfyngiadau pwysig:

- Mae'r gwaith modelu wedi cael ei gyfyngu i ddwy gyfradd wahanol ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol, ac i'r Haen Gyffredinol yn unig;
- Mae'n rhai asesiad rhannol a statig braidd o effaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Mae'n seiliedig yn bennaf ar yr Amlinelliad o'r Cynllun a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024;
- Nid yw'n adlewyrchu'n llawn sut y bydd penderfyniadau ar lefel fferm ynglŷn â chymryd rhan yn seiliedig ar ffactorau lluosog heblaw effaith ar Incwm Busnes Fferm, megis arferion ffermio presennol, cydberthnasau masnachol ac agwedd tuag at arloesi a newid;

[65] Archwilir hyn yn fanylach fel rhan o'r Achos Ariannol ond fe'i hystyrir yma am ei fod yn cyfyngu ar gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol y gellir ei fforddio.

- Nid yw'r gwaith modelu yn cyfrif am y manteision bwriadedig ond anuniongyrchol o ganlyniad i gwblhau'r Gweithredoedd Cyffredinol;
- Mae rhai rhannau o'r dystiolaeth o fanteision Gweithredoedd Opsiynol wedi dyddio, yn seiliedig ar ffynonellau cyfyngedig neu y daw o wledydd eraill – sy'n golygu bod angen ei dehongli'n ofalus yng nghyd-destun y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Mae bylchau pwysig yn bodoli yn y dystiolaeth.

Mae hyn oll yn golygu bod cryn ansicrwydd – a bod angen arfer doethineb wrth ddehongli'r canlyniadau ar lefel y rhaglen.

*Ysgogwyr allweddol yr adenillion economaidd*
Mae'r Gymhareb Cost a Budd gyffredinol ar gyfer y gwahanol Opsiynau dros y Cyfnod Pontio a thu hwnt yn dibynnu ar y canlynol:

- Faint o ffermydd sy'n dewis ymuno â'r cynllun o dan bob Opsiwn a pha mor gyflym;
- Faint o'r gyllideb sydd ar gael i Lywodraeth Cymru y bydd ei angen i weinyddu pob Opsiwn;
- Pa gyfran o'r gyllideb flynyddol sydd ar gael fydd yn cael ei gwario ar yr Haen Gyffredinol a pha gyfran y gellir ei buddsoddi yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol;
- Pa gyfran o'r cyllid ar gyfer y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol sy'n cael ei dyfarnu ar sail disgresiwn, er enghraifft yn dibynnu ar y canlyniadau disgwyliedig (ac adenillion);
- Beth yw'r adenillion cymharol disgwyliedig y mae eu gwerth ariannol wedi cael eu pennu sy'n cael eu sicrhau o daliadau drwy'r Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol sy'n dibynnu, yn rhannol, ar y graddau y mae'r Gweithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol yn arwain at y canlyniadau a ddymunir;
- Pa mor arwyddocaol yw'r bylchau neu'r gwendidau yn y sylfaen dystiolaeth.

*A yw'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (yn seiliedig ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) yn well na Busnes fel Arfer (yn seiliedig ar Gynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig) ac a yw'n cynnig adenillion digonol?*
Mae'r asesiad yn awgrymu bod disgwyl i'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir fod yn fwy dymunol na Busnes fel Arfer ar sail gwerth am arian dros y Cyfnod Pontio (2026-2029):

- Cymhareb Cost a Budd amcangyfrifedig gyffredinol Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda'i gilydd yw 1.82 (gyda chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115) a 2.22 gyda chyfradd o £70 o gymharu â 0.48 ar gyfer Busnes fel Arfer;
- Disgwylir i'r Haen Gyffredinol gynhyrchu mwy o adenillion na Busnes fel Arfer: y Cymarebau Cost a Budd ar gyfer cyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol a chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol yw 1.26 a 1.6 o gymharu â 0.56 ar gyfer Busnes fel Arfer;
- Y Gymhareb Cost a Budd ddisgwyliedig ar gyfer yr Haen Opsiynol a Chydweithredol yw 5.02 o gymharu â 0.74 ar gyfer Busnes fel Arfer: dylid nodi cyfyngiadau'r amcangyfrifon hyn wrth ddehongli ffigurau cyfanredol y Gymhareb Cost a Budd.

Er na ellir nodi holl gostau a manteision posibl Cynllun Ffermio Cynaliadwy na phennu gwerth iddynt ar y cam hwn, disgwylir i'r manteision a hepgorwyd fod yn fwy sylweddol, sy'n golygu y gallai Cymhareb Cost a Budd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gael ei danamcangyfrif o bosibl.

Yn y tymor canolig i'r tymor hwy, disgwylir i Gymhareb Cost a Budd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gynyddu wrth i'r niferoedd sy'n ymgymryd â Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol gynyddu ac wrth i ffermwyr ddod yn fwy effeithlon o ran bodloni gofynion y Cynllun a sicrhau'r canlyniadau a'r manteision bwriadedig.

Ceir rhai elfennau ansicr arwyddocaol ynglŷn ag effeithiau posibl y mae'n bwysig eu cydnabod wrth ddehongli'r amcangyfrifon presennol.

Mae'r Ffordd Ymlaen â Ffefrir yn fwy cyson ag amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (a rheoli tir yn gynaliadwy).

*Beth yw'r gyfradd gychwynnol a ffefrir ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol gyda'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir?*
Mae'r Cymarebau Cost a Budd a fodelwyd â chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £70 yn fwy na'r rhai â chyfradd o £115 ond nid yw'r canlyniadau hyn yn rhoi'r darlun llawn, a awgrymodd wahaniaethau dosbarthiadol.

Mae Taliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd uchel yn cael effaith gadarnhaol ar Gymhareb Cost a Budd ddisgwyliedig y Ffordd Ymlaen a Ffefrir mewn sawl ffordd wahanol nad ydynt wedi'u hadlewyrchu yn y Cymarebau Cosb a Budd a fodelwyd:

- Mae'n rhoi hwb i Incwm Busnes Fferm y disgwylir iddo roi cymhelliant i gyflymu'r broses o ymgymryd â'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir – disgwylir i fwy o ffermydd ymuno â'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn gynt os bydd y gyfradd yn uwch;
- Rhagwelir y bydd unrhyw benderfyniad i fabwysiadu'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn gynnar yn esgor ar nifer o fanteision dros y Cyfnod Pontio:
    - Mae'n annog ffermwyr i wneud mwy i wireddu manteision bwriadedig (ond anuniongyrchol) y Gweithredoedd Cyffredinol yn gynt;
    - Mae'n rhoi cyfleoedd i fwy o ffermwyr wireddu manteision masnachol sy'n gwella gwytnwch economaidd a chynaliadwyedd mabwysiadwyr cynnar;
    - Mae'n cynnig y cyfleoedd yn Haenau Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gynt, lle y disgwylir i ychwanegedd a gwerth am arian fod yn well (na'r Haen Gyffredinol);
    - Mae'n golygu y bydd y manteision amgylcheddol yn dechrau cael eu gwireddu'n gynt;
    - Mae'n hollbwysig i lwyddiant hirdymor y Cynllun Ffermio Cynaliadwy am ei bod yn rhoi rhwymedigaeth ar fwy o ffermwyr i fabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy.

Gall Taliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd uchel hefyd gynnig manteision dynamig pellach yn y tymor canolig i'r tymor hwy:

- Bydd mwy o ffermydd o bosibl yn barod i fabwysiadu ac ymgorffori arferion ffermio mwy effeithlon a gwell oherwydd y Gweithredoedd y maent yn ymgymryd â nhw yn y Cyfnod Pontio;
- Bydd mwy o ffermydd yn cymryd rhan yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol (sy'n cynnig yr enillion mwyaf o fuddsoddiad) ac, felly, bydd hyn yn adeiladu llif cryfach o brosiectau â Chymhareb Cost a Budd uwch.

At hynny, mae'r dystiolaeth gan Defra [66] yn awgrymu'r canlynol:

"… payments to farmers may influence not just the presence of a feature or habitat or whether it is managed, but also the type, quality and timing of its management, and the attitudes and behaviour of the farmer and that rewards existing provision of public goods and may help to foster positive attitudes to the environment over time, which may enhance the long-term additionality of the scheme"

Byddai'r effaith hon yn lleihau costau'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir a chynyddu'r Gymhareb Cost a Budd ddisgwyliedig.

Yn olaf, mae Taliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd uchel yn cynyddu cost y Ffordd Ymlaen a Ffefrir i Lywodraeth Cymru sy'n achosi'r risg y bydd yn torri'r cyfyngiad o ran fforddiadwyedd.

*Casgliadau allweddol*
Nodir y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) fel yr opsiwn a ffefrir.

Mae'r dadansoddiad yn dangos y canlynol:

- Mae'r niferoedd y disgwylir iddynt ymgymryd â'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn cynyddu'n gyflymach gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol sy'n ysgogi Cymhareb Cost a Budd uwch (ond ansicr o hyd) yn y tymor canolig i'r tymor hwy os gellir sicrhau manteision dynamig, ehangach drwy gael ffermwyr i ymgymryd â'r Haen Gyffredinol yn gynt;

[66] Defra, 2012, *Dynamic Deadweight in Environmental Stewardship: Towards a better understanding of the added benefits of the scheme*, adroddiad a gyflwynwyd gan GHK ar y cyd â Land Use Consultants

- cyfradd uchaf y Taliad Gwerth Cymdeithasol sy'n fforddiadwy dros y Cyfnod Pontio yw £107 yr hectar.

Ar yr un pryd, o ystyried amcanion strategol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei reoli'n weithredol drwy'r canlynol:

- Adolygiadau rheolaidd/blynyddol i asesu ei effaith ar agweddau ac ymddygiad ffermwyr fel y gall olrhain y gwerth am arian a sicrheir;
- Ymchwil bellach er mwyn cael gwell dealltwriaeth o werth am arian

Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i addasu ffurf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys y fethodoleg dalu.

## *Canlyniadau allweddol ar gyfer pob Opsiwn*

Mae'r rhan hon o'r adran yn dwyn ynghyd ganlyniadau allweddol y dadansoddiad, yn benodol yr amcangyfrifon o gostau a manteision y ddau Opsiwn ar y rhestr fer, lle y pennir gwerth ariannol a lle na phennir gwerth ariannol. Mae iddi bedair rhan:

- Cymhariaeth o fanteision economaidd a chostau'r Haen Gyffredinol yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir â Chynllun y Taliad Sylfaenol o dan Fusnes fel Arfer;
- Cymhariaeth o fanteision a chostau Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir â'r cynlluniau buddsoddi gwledig o dan Fusnes fel Arfer;
- Crynodeb o gostau gweinyddu'r gwahanol Opsiynau i Lywodraeth Cymru;
- Dadansoddiad integredig sydd â'r nod o gyfuno'r canlyniadau ar gyfer y gwahanol elfennau o'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (h.y. yr Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol) ac yna eu cymharu ag effeithiau disgwyliedig yr Opsiwn busnes fel arfer (h.y. Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig): mae hyn yn agored i ansicrwydd perthnasol.

## *Manteision economaidd a chostau'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)*

### Manteision economaidd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)

Amcangyfrifir manteision economaidd Haen Gyffredinol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) i ffermwyr llawn amser a rhan amser sy'n cymryd rhan yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer. Maent yn adeiladu ar y Llwyfan Modelu Integredig ac ymchwil y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol.

Amcangyfrifir dau grŵp bras o fanteision:

- Y newid mewn gwerth ychwanegol gros (GYG) gan ffermydd yng Nghymru a ysgogir gan y newid mewn Incwm Busnes Fferm ar ôl addasu ar gyfer taliadau trosglwyddo;
- Yr effaith ar yr amgylchedd, yn benodol:
    - Allyriadau nwyon tŷ gwydr is ac atafaelu mwy o garbon;
    - Gwell ansawdd aer;
    - Gwell ansawdd dŵr;
    - Gwell bioamrywiaeth[67].

Gan fod amcangyfrifon y Llwyfan Modelu Integredig ar sail wahanol i amcangyfrifon y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol, cânt eu cyflwyno ar wahân.

#### *Amcangyfrifon y Llwyfan Modelu Integredig*

Mae Tabl 18 yn dangos effaith efelychiadol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes Fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) ar ffermydd amser llawn a fesurir o ran y canlynol yn unig:

[67] Nid yw'r effaith ar hamdden wedi cael ei chynnwys am na ddisgwylir i'r Gweithredoedd yn yr Haen Gyffredinol gael effaith gynyddrannol o'u cymharu â Busnes fel Arfer.

- Cyfran y ffermydd lle mae'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn cynnig mantais economaidd o gymharu â'r llinell sylfaen (h.y. heb gyllid Llywodraeth Cymru) y disgwylir iddynt gymryd rhan ym mhob cynllun;
- Da byw;
- Defnydd tir;
- Cynefin dros dro;
- Rheoli gwrychoedd;
- Y newid disgwyliedig yn y defnydd o wrtaith.

Mae'r newidiadau hyn yn ysgogi effeithiau amgylcheddol ac economaidd ymhellach i lawr a fodelwyd.

Mae'r holl ganlyniadau yn adlewyrchu'r cyfnod ar ôl Pontio. Ystyrir eu proffil posibl yn ystod y Cyfnod Pontio o 2026 i 2029 a thu hwnt yn ddiweddarach yn yr adran.

*Cymryd rhan yn ôl nifer y ffermydd ac arwynebedd*
Efelychir y bydd 99% a 97% o ffermydd amser llawn y model yn ymuno â'r Haen Gyffredinol (yn hytrach na pheidio â chael unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru) gyda chyfraddau uchel ac isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol, yn y drefn honno. Yn y naill achos a'r llall, efelychir y bydd y mwyafrif helaeth o ffermydd yn ymuno â'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir.

Efelychir y bydd 99.7% o'r arwynebedd tir a fodelwyd yn ymuno â'r Haen Gyffredinol gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol o gymharu â 99.1% gyda chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol.

*Newidiadau o ran da byw*
O dan Fusnes fel Arfer, amcangyfrifir y bydd unedau da byw pori yn dirywio 2.8% yn gyffredinol ar ôl y Cyfnod Pontio o gymharu â'r llinell sylfaen, yn bennaf oherwydd gostyngiad o 9.0% mewn unedau da byw pori godro (ohewrydd y cyfyngiadau a'r gofynion ynglŷn â rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol).

O dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, amcangyfrifir y bydd gostyngiad ychwanegol o 4.8% (cyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol) a 4.7% (cyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol) yn nifer yr unedau da byw pori. Gwelir y gostyngiadau mwyaf o ran defaid (gostyngiad o 6% gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol), yna unedau da byw pori godro (gostyngiad o 4% gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol) ac eidion (gostyngiad o 3%). Mae hyn yn adlewyrchu'r arwynebeddau mwy o gynefin ar ffermydd defaid sy'n destun y Weithred Gyffredinol sy'n gysylltiedig â Chynnal Cynefinoedd. Mae creu cynefin dros dro ar laswelltir sy'n cylchdroi a thir âr yn dylanwadu ar stocio ym mhob un o'r categorïau o unedau da byw pori. Mae gwahaniaethau o ran newidiadau mewn stocio o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn ymylol (0.07% yn gyffredinol), sy'n adlewyrchu lefelau ymuno tebyg.

*Defnydd tir*
O dan Fusnes fel Arfer, ceir newidiadau amcangyfrifedig bach iawn yng nghyfanswm yr arwynebedd o gnydau (gostyngiad o 0.19%) ac arwynebedd glaswelltir sy'n cylchdroi (cynnydd o 0.11%). Nid awgrymir unrhyw newidiadau eraill mewn arwynebedd cynhyrchiol.

Mewn cymhariaeth, mae newidiadau o ran defnydd tir o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn fwy oherwydd gofynion Rheol 10% y Cynllun Cynefinoedd a Chreu Cynefin Dros Dro, ond maent yn dal yn fach fel canran o gyfanswm yr arwynebedd cynhyrchiol a fodelwyd[68].

*Rheoli gwrychoedd*
Amcangyfrifir y bydd arwynebedd gwrychoedd yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, yn gyffredinol, yn cynyddu 192% gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol a 190% gyda chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol. Y rheswm dros hyn yw y tybir bod y rhan fwyaf o wrychoedd heb eu rheoli yn y llinell sylfaen ac, felly, y modelir y byddant yn cynyddu mewn lled i 3m wrth 2m o 1m wrth 1m[69]. Caiff cyfanswm o 373,891 o goed ifanc eu plannu gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol o gymharu â 370,728 gyda chyfradd isel Taliad

[68] Mae glaswelltir sy'n cylchdroi yn arwain at ostyngiad ychwanegol o 5% o dir ac mae cnydau yn arwain at ostyngiad ychwanegol o 0.7%.
[69] Mae gwrychoedd sy'n ymuno â'r Haen Gyffredinol yn mynd drwy ddau newid allweddol, yn dibynnu ar eu cyflwr llinell sylfaen: Lled yn cynyddu i 3m wrth 2m o 1m wrth 1m os nad ydynt wedi'u rheoli o dan y llinell sylfaen, neu o 2m wrth 2m os tybir eu bod eisoes yn cael eu rheoli; a phlannu coed ifanc mewn gwrychoedd bob 50 metr. Caiff coed ifanc eu plannu lle y tybir bod y gwrych heb ei reoli (ac felly mewn cyflwr gwaeth) o dan y llinell sylfaen ond tybir eu bod eisoes yn bresennol i'w tyfu yn y gwrych os caiff ei reoli o dan y llinell sylfaen.

Gwerth Cymdeithasol. Mae'r gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall yn fach iawn, sy'n adlewyrchu niferoedd mawr o ffermwyr yn ymuno o dan y ddwy gyfradd.

*Mewnbynnau maethynnau*

Ysgogir newidiadau ym mewnbynnau maethynnau gan newidiadau o ran stocio a defnydd tir. O dan Fusnes fel Arfer, amcangyfrifir y bydd gostyngiad o 5.8% ym mewnbynnau maethynnau yn gyffredinol, a ysgogir gan ostyngiad o 14.5% mewn gwrtaith nitrad a gostyngiad o 9% yn ysgarthion gwartheg godro (sy'n gysylltiedig â gostyngiad mewn unedau da byw pori godro). Nid effeithir ar ysgarthion gwartheg eidion a defaid.

Mewn cymhariaeth â Busnes fel Arfer, mae'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn awgrymu gostyngiadau ychwanegol o 4.4% (cyfradd uchel) a 4.3% (cyfradd isel) ym mewnbynnau maethynnau. Mae gostyngiadau yn digwydd ym mhob categori o fewnbwn. Yn unol â'r gostyngiadau stocio, gwelir y newidiadau mwyaf yn ysgarthion defaid (gostyngiad o 6.2% gyda'r ddwy gyfradd).

*Tabl 16:Amcangyfrif o'r niferoedd a fydd yn cymryd rhan yn y cynllun a newidiadau o ran defnydd tir a stocio ac arferion ffermio (y Llwyfan Modelu Integredig – ffermydd amser llawn yn unig)*

| Metrig | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £115 yr hectar | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £70 yr hectar | Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) |
|---|---|---|---|
| % y ffermydd yr efelychir/tybir y byddant yn ymuno â'r cynllun | 99 | 97 | 100 |
| Da byw (uned da byw pori) | 894,806 | 895,402 | 939,993 |
| Defnydd tir (hectar) | | | |
| • Tir cnwd | 61,015 | 61,023 | 61,428 |
| • Glaswelltir sy'n cylchdroi | 108,528 | 108,762 | 114,582 |
| • Glaswelltir wedi'i wella'n barhaol | 518,798 | 518,798 | 518,798 |
| • Pori garw | 157,629 | 157,629 | 157,629 |
| Cynefin dros dro a grëir (hectar) | 16,019 | 15,673 | - |
| Rheoli gwrychoedd | | | |
| • Coed ifanc a dyfwyd (nifer) | 373,891 | 370,728 | - |
| • Arwynebedd ($m^2$) | 67,793,000 | 67,405,800 | 23,215,920 |
| • Cyfain ($m^3$) | 135,506,280 | 134,540,190 | 24,345,540 |
| Mewnbwn N (kg N) | 116,728,388 | 116,815,590 | 122,036,910 |

*Economeg ffermydd*

Mae Tabl 19 yn crynhoi effaith efelychiadol Opsiynau'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes Fel Arfer ar fesurau o economeg ffermydd ar ôl Pontio yn seiliedig ar y tybiaethau a ddefnyddiwyd. Mae'n dangos:

- Cyfran y ffermydd y disgwylir iddynt gymryd rhan o dan bob Opsiwn;
- Y taliadau disgwyliedig a dderbynnir gan ffermwyr sy'n cymryd rhan oddi wrth Lywodraeth Cymru;
- Y newid disgwyliedig yn Incwm Busnes Fferm (mesur o elw) o'i gymharu â'r llinell sylfaen[70].

[70] Mae'r llinell sylfaen yn tybio y caiff Cynllun y Taliad Sylfaenol ei dalu heb dapro.

*Taliadau Llywodraeth Cymru i ffermwyr*
O dan Fusnes fel Arfer, efelychir y bydd ffermwyr amser llawn yn cael taliadau o £143.5m ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol ar ôl Pontio o dan y Llwyfan Modelu Integredig[71].

Mae cyfanswm taliadau efelychiadol Llywodraeth Cymru gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol 18% yn uwch nag ydynt o dan Fusnes fel Arfer (£169m). Maent 13% yn is gyda chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol (£125m).

Mae'r gwahaniaeth yng nghyfanswm y taliadau rhwng y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn adlewyrchu'n bennaf y 140 o ffermydd a'r 5,556 hectar ychwanegol yr efelychir y byddant yn ymuno â'r Haen Gyffredinol gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn gymwys i bob fferm sy'n cymryd rhan.

*Incwm Busnes Fferm Cyfanredol*
O dan Fusnes fel Arfer, amcangyfrifir Incwm Busnes Fferm cyfanredol o tua 13.6% yn llai nag o dan y llinell sylfaen, yn bennaf oherwydd llai o unedau da byw pori godro mewn perthynas â'r rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, costau allforio Nitrogen y mae'r ffermwyr yn eu hwynebu oherwydd terfynau cymhwyso Nitrogen, a'r terfynau cymhwyso eu hunain. Nid yw'r terfynau hyn yn effeithio ar ffermydd sy'n stocio gwartheg eidion a defaid ond maent yn mynd i rywfaint o gostau ychwanegol y rheoliadau megis cyfnodau caeedig ar gyfer taenu a chadw cofnodion.

O gymharu â Busnes fel Arfer, mae'r Incwm Busnes Fferm efelychiadol cyfanredol yn cynyddu 2.5% ymhellach gyda'r gyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfanswm uchaf ar gyfer taliadau efelychiadol Llywodraeth Cymru (£25m ychwanegol). Mewn gwrthgyferbyniad, amcangyfrifir y bydd Incwm Busnes Fferm cyfanredol yn gostwng 12.1% gyda chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £70 yr hectar. Mae hyn yn adlewyrchu'r lefel isaf o daliadau Llywodraeth Cymru o gymharu â Busnes fel Arfer (£19m yn is).

Mae cyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)) yn arwain at ostyngiad o 14% (£44m) mewn Incwm Busnes Fferm cyfanredol efelychiadol o gymharu â chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol. Mae amcangyfrifon o'r fath yn agored i ansicrwydd.

Ystyrir proffil y newid mewn Incwm Busnes Fferm dros y Cyfnod Pontio o 2026 i 2029 a thu hwnt yn ddiweddarach yn yr adran hon.

*Tabl 17*: *Newidiadau amcangyfrifedig yn economeg ffermydd ar ôl Pontio (Fferm amser llawn, y Llwyfan Modelu Integredig)*

| Metrig | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £115 yr hectar | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £70 yr hectar | Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) |
|---|---|---|---|
| % y ffermydd yr efelychir y byddant yn ymuno â'r cynllun | 99 | 97 | 100 |
| Taliadau Llywodraeth Cymru i ffermwyr (£m) | 168.9 | 124.6 | 143.5 |
| Incwm Busnes Fferm (£m)[72] | 306.4 | 262.9 | 298.9 |

*Carbon a Nwyon Tŷ Gwydr*
Un o nodau allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw helpu i leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr y gellir eu priodoli i ffermio yng Nghymru. Mae i effaith y gwahanol Opsiynau ddwy brif elfen a ystyrir ar wahân:

[71] Mae'r Llwyfan Modelu Integredig ond yn modelu ffermydd amser llawn yn unig ac nid yw'n cynnwys taliadau na gweithredoedd ar dir comin na'r swm ychwanegol i ffermwyr ifanc. Felly, mae'r gwariant efelychiadol yn llai nag y byddai pe bai'r boblogaeth lawn o ffermydd, a'r tir cysylltiedig, yn cael eu cynnwys ac ni ddylid ystyried mai'r swm hwn yw gost lawn yr Haen Gyffredinol i Lywodraeth Cymru.
[72] Mynegir hyn yn ôl prisiau 2023 a chaiff ei drosi i brisiau 2025 yn ddiweddarach yn y dadansoddiad.

- Newidiadau mewn stociau carbon sy'n gysylltiedig â phriddoedd anorganig, biomas amaethyddol a llystyfiant coetir newydd;
- Newidiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol o'r canlynol:
  - Mawn/priddoedd gwlyptiroedd;
  - Rheoli tir amaethyddol (da byw a gwrtaith).

Mae Tabl 20 yn crynhoi canlyniadau gwaith modelu'r Llwyfan Modelu Integredig ar gyfer y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) ar ôl Pontio.

Lleihau nwyon tŷ gwydr amaethyddol, yn hytrach na chynyddu stociau carbon, sy'n sicrhau'r rhan fwyaf o fanteision carbon disgwyliedig o dan yr Opsiwn Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) a'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir. Ysgogir y gostyngiadau hyn gan newidiadau o ran da byw a mewnbynnau N.

Ar gyfer stociau carbon mewn priddoedd a biomas, amcangyfrifir y bydd y newid disgwyliedig yn y cyfnod o wyth mlynedd o 2023 (y flwyddyn sylfaen ar gyfer y dadansoddiad) hyd at 2030 tua sero o dan Fusnes fel Arfer oherwydd y newid bach o ran defnydd tir[73]. O dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol, dros yr un cyfnod, amcangyfrifir y bydd stociau carbon yn cynyddu 0.02% o'r llinell sylfaen sy'n gysylltiedig â'r Weithred Gyffredinol Rheoli Gwrychoedd.

Yn yr wyth mlynedd hyd at 2030, o dan Fusnes fel Arfer bydd gostyngiad cronnol o 5.53% o'r llinell sylfaen mewn nwyon tŷ gwydr amaethyddol oherwydd gostyngiadau mewn da byw (unedau da byw pori godro) a gwrtaith N. O gymharu â Busnes fel Arfer, bydd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn gweld gostyngiad pellach o 4.2% (gyda chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £70 yr hectar) i 4.3% (gyda chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar) oherwydd gostyngiadau pellach mewn da byw (gwartheg eidion, defaid, gwartheg godro) a mewnbynnau N.

*Tabl 18*:*Newidiadau amcangyfrifedig i stociau ac allyriadau nwyon tŷ gwydr (Ffermydd amser llawn, KtCO2 cyfwerth cronnol, 2023-2030, y Llwyfan Modelu Integredig)*

| **Effaith** | **Newid cronnol (2023-2030)** | | | **Gwahaniaeth (2023-2030)** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £115 yr hectar** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £70 yr hectar** | **Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £115 yr hectar** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £70 yr hectar** |
| Newid mewn stociau carbon o ganlyniad i newid defnydd tir a choedwigaeth a chynhyrchion coed wedi'i gynaeafu (cynnydd mewn allyriadau carbon) | -92.34 | -91.53 | 0.78 | -93.11 | -92.31 |
| Allyriadau ychwanegol o wlyptiroedd | -0.81 | -0.81 | -0.81 | 0.01 | 0.01 |
| Fflwcs mewn nwyon tŷ gwydr amaethyddol ychwanegol (cynnydd mewn allyriadau carbon) | -3,112.0 | -3,086.0 | -1,796.1 | -1,315 | -1,290 |

*Ansawdd aer*

Disgwylir i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wella ansawdd aer drwy leihau allyriadau amonia gan y sector ffermio a ysgogir gan newidiadau o ran rheoli tir, gan gynnwys stocio a mewnbynnau Nitrogen. Disgwylir i hyn, yn ei

[73] Mae dadansoddiad y Llwyfan Modelu Integredig yn amcangyfrif yr effeithiau amgylcheddol disgwyliedig dros wahanol gyfnodau gan ddefnyddio 2023 fel y flwyddyn sylfaen.

dro, leihau crynodiadau o ronyn ($PM_{2.5}$). Yna, caiff llai o gysylltiad â $PM_{2.5}$ ei adlewyrchu mewn canlyniadau iechyd gwell a fesurir o ran blynyddoedd o fywyd a gollir (a osgowyd).

Mae Tabl 21 yn crynhoi canlyniadau gwaith modelu'r Llwyfan Modelu Integredig ar gyfer y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) ar ôl Pontio. O dan Fusnes fel Arfer, amcangyfrifir y bydd allyriadau amonia yn gostwng 6.8% o gymharu â'r llinell sylfaen, a ysgogir gan lefel is o dda byw (godro yn bennaf) a mewnbynnau gwrtaith N. O gymharu â Busnes fel Arfer, amcangyfrifir y bydd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn arwain at ostyngiad ychwanegol o 3.7% (gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol) a 3.6% (gyda chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol) mewn allyriadau amonia sy'n adlewyrchu gostyngiadau ychwanegol o ran da byw a gwrtaith N.

O dan Fusnes fel Arfer a'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir, mae llai o grynodiadau $PM_{2.5}$ yn dilyn o leihau allyriadau amonia. O dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, ceir mantais ychwanegol o ehangu uchder a lled gwrychoedd o dan y Weithred Gyffredinol Rheoli Gwrychoedd a'r cynnydd mewn coed mewn gwrychoedd. Fodd bynnag, gellir priodoli'r brif effaith i leihau unedau da byw a mewnbynnau.

Cyfrifir y manteision o wella ansawdd aer yn nhermau blynyddoedd o fywyd a gollir a osgowyd yn y boblogaeth. O dan Fusnes fel Arfer, osgoir colli 5.3 o flynyddoedd o fywyd oherwydd $PM_{2.5}$. O gymharu â Busnes fel Arfer, mae'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn dangos gostyngiadau ychwanegol o tua thraean a gwahaniaeth dibwys rhwng dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol. Ystyrir proffil tebygol y fantais hon dros y Cyfnod Pontio o 2026 i 2029 a thu hwnt yn ddiweddarach yn yr adran.

*Tabl 19*: *Newidiadau amcangyfrifedig yn ansawdd aer ar ôl Pontio (Ffermydd amser llawn, y Llwyfan Modelu Integredig)*

| **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol)** | | **Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)** |
|---|---|---|
| **Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £115 yr hectar** | **Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £70 yr hectar** | |
| • Gostyngiad ychwanegol o 3.7% mewn allyriadau amonia<br>• Gostyngiad ychwanegol o 3.78 Blynyddoedd o Fywyd a Gollir | • Gostyngiad ychwanegol o 3.6% mewn allyriadau amonia<br>• Gostyngiad ychwanegol o 3.72 Blynyddoedd o Fywyd a Gollir | • Gostyngiad o 6.8% mewn allyriadau amonia<br>• Gostyngiad o 5.3 o Flynyddoedd o Fywyd a Gollir mewn perthynas â chysylltiad â $PM_{2.5}$ ymhlith y boblogaeth lawn yng Nghymru. |

*Ansawdd dŵr*

Dylanwedir ar lwythi llygryddion ar gyfer M, P a gwaddod gan newidiadau mewn da byw, gwrtaith a defnydd tir. Felly, disgwylir i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy helpu i wella ansawdd dŵr drwy leihau llwythi llygryddion o nitrogen (N), ffosfforws (P) a gwaddod a thrwy hynny wella ansawdd dŵr o bosibl yn nalgylchoedd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae Tabl 22 yn crynhoi canlyniadau gwaith modelu'r Llwyfan Modelu Integredig ar gyfer y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer ar ôl y Cyfnod Pontio.

O gymharu â'r llinell sylfaen, mae Busnes fel Arfer yn dangos gostyngiadau amcangyfrifedig o 7% yn y llwyth nitrad a ffosfforws. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu lleihad yn nifer yr unedau da byw (godro yn bennaf0, mewnbynnau gwrtaith (gwrtaith N a gwrtaith P) ac effeithiau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Ceir gostyngiad ymylol yn y llwyth gwaddod, sy'n adlewyrchu'r newid bach iawn o ran defnydd tir.

O gymharu â Busnes fel Arfer, amcangyfrifir y bydd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn gweld gostyngiadau pellach yn y llwyth nitrad (3.0%) a'r llwyth ffosfforws (1.7%). Ysgogir y newidiadau hyn gan y gostyngiadau ychwanegol o ran da byw, gwrtaith N a gwrtaith P. Fel Busnes fel Arfer, nid oes unrhyw newid yn y llwyth gwaddod oherwydd y newid cyfyngedig o ran defnydd tir.

Cyfunir llygryddion ansawdd dŵr (N, P, gwaddod) ar raddfa is-ddalgylch o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr er mwyn amcangyfrif cyfanswm y llwyth ar y lefel honno. Caiff y rhain eu cronni i lawr yr afon, gan gyfrif am gysylltiadau i lawr yr afon rhwng yr is-ddalgylchoedd a llygryddion anamaethyddol, ac yna eu troi'n grynodiad a

ddefnyddir wedyn i bennu statws dŵr yfed N a statws P o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer pob dalgylch[74].

O dan Fusnes fel Arfer, efelychir dim newid yn nifer y dalgylchoedd sy'n methu â chyrraedd statws nitrad dŵr yfed. O dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, rhagwelir y bydd un dalgylch yn gwella gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol.

O dan Fusnes fel Arfer, ceir gostyngiad o 10% yn nifer y dalgylchoedd â statws P cymedrol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn y llinell sylfaen, a chynnydd mewn dalgylchoedd â statws da (2%) ac uchel (3%). Efelychir na fydd statws unrhyw ddalgylchoedd yn dirywio. Mae gwelliannau yn gysylltiedig ag unedau da byw godro a mewnbynnau gwrtaith N.

O gymharu â Busnes fel Arfer, mae'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn gweld llai o ddalgylchoedd yn cyrraedd statws da (1% yn llai nag o dan Fusnes fel Arfer) ond mwy yn symud i statws uchel (1% ychwanegol). Efelychir na fydd statws unrhyw ddalgylchoedd yn dirywio. Mae gwelliannau yn adlewyrchu'r gostyngiadau ychwanegol mewn llwyth P oherwydd gostyngiadau ychwanegol mewn da byw a gwrtaith P.

Ystyrir eu proffil tebygol yn ystod y Cyfnod Pontio o 2026 i 2029 a thu hwnt yn ddiweddarach yn yr adran.

*Tabl 20*: *Newidiadau amcangyfrifedig yn ansawdd dŵr ar ôl Pontio (Ffermydd amser llawn, y Llwyfan Modelu Integredig)*

| **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol)** | | **Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)** |
|---|---|---|
| **Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £115 yr hectar** | **Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £70 yr hectar** | |
| • Gostyngiad ychwanegol o 3% yn y llwyth N a gostyngiad ychwanegol o 1.7% yn y llwyth P.<br>• Dim newid yn y llwyth gwaddod<br>• Efelychir y bydd un dalgylch yn gwella (methu â chyrraedd) statws nitrad dŵr yfed.<br>• Gostyngiad o 10% mewn dalgylchoedd â statws P cymedrol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, cynnydd o 1% yn y rhai â statws da, cynnydd o 4% yn y rhai sydd â statws uchel. Dim dirywiad o ran statws dalgylchoedd | • Gostyngiad ychwanegol o 3% yn y llwyth N a gostyngiad ychwanegol o 1.7% yn y llwyth P.<br>• Dim newid yn y llwyth gwaddod<br>• Efelychir y bydd un dalgylch yn gwella (methu â chyrraedd) statws nitrad dŵr yfed.<br>• Gostyngiad o 10% mewn dalgylchoedd â statws P cymedrol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, cynnydd o 1% yn y rhai â statws da, cynnydd o 4% yn y rhai sydd â statws uchel. Dim dirywiad o ran statws dalgylchoedd | • Gostyngiad o 7% yn y llwyth nitrad a ffosfforws<br>• Dim newid yn y llwyth gwaddod<br>• Dim newid yn nifer y dalgylchoedd sy'n methu â chyrraedd statws nitrad dŵr yfed<br>• Gostyngiad o 10% mewn dalgylchoedd â statws P cymedrol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, cynnydd o 2% yn y rhai â statws da, cynnydd o 3% yn y rhai sydd â statws uchel. Dim dirywiad o ran statws dalgylchoedd |

*Pennu gwerth effeithiau amgylcheddol*

Mae'r Llwyfan Modelu Integredig wedi pennu gwerth ariannol i'r effeithiau amgylcheddol efelychiadol gan ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n gyson ag arweiniad y Llyfr Gwyrdd. Crynhoir y sail dros yr asesiad yn Nhabl 23; ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C

*Tabl 21*: *Mesur ffisegol ar gyfer pob mantais y pennir ei gwerth*

| **Manteision** | **Unedau** | **Math o werth** |
|---|---|---|
| Ansawdd aer | Blynyddoedd o fywyd a gollir bob blwyddyn | *Reduction in costs of health impacts from air pollution* (Jones et al. *Modelling for ONS*[75]) |
| Ansawdd dŵr | *Expected changes in WFD status due to changes in P and N* | *Benefit to society from higher quality freshwater environments* (*Updated* |

[74] Gall newid mewn statws a fodelwyd ddigwydd gyda gwelliannau ansawdd dŵr ymylol os oedd crynodiad y llinell sylfaen yn agos i drothwy'r statws.

[75] Jones, L., Vieno, M., Morton, D., Cryle, P., Holland, M., Carnell, E., Nemitz, E., Hall, J., Beck, R., Reis, S., Pritchard, N., Hayes, F., Mills, G., Koshy, A., Dickie, I. (2017). *Developing Estimates for the Valuation of Air Pollution Removal in Ecosystem Accounts. Final report for the Office of National Statistics*, Gorffennaf 2017.

| Manteision | Unedau | Math o werth |
|---|---|---|
| | | *values from National Water Environment Benefit Survey*[76]) |
| Nwyon Tŷ Gwydr | Newid net mewn TCO2eq atmosfferig dros 8 mlynedd | *Benefit of reducing atmospheric GHG concentrations from non-traded sources* (DESNZ, 2023)[77] |

Mae Tabl 24 yn crynhoi gwerth amcangyfrifedig y manteision amgylcheddol ar ôl Pontio[78]. Maent yn amcangyfrif y gwerth presennol net cronnol dros gyfnod o wyth mlynedd ar gyfer pob Opsiwn.

Ac eithrio mesurau i greu cynefin dros dro, tybir y bydd pob mantais yn parhau ar gyfer y cyfnod a fodelwyd at ddibenion amcanestyn yr effeithiau hirdymor.

Mae gwerthoedd ffisegol a fodelwyd ar gyfer ansawdd dŵr ar gyfer cyfartaledd blynyddol hirdymor newydd. Po fyrraf y cyfnod y pennir gwerth manteision, y lleiaf rhesymol yw tybio bod gwelliannau yn ansawdd dŵr mewn-ffrwd wedi digwydd oherwydd oedi yn y system (maethynnau yn cael eu cadw mewn priddoedd a dylanwad dŵr daear mewn rhai dalgylchoedd). Dylid nodi hyn wrth ystyried y manteision dros gyfnodau byr yn hytrach na chyfnodau hwy.

O dan Fusnes fel Arfer, amcangyfrifir cyfanswm o £483m o fanteision amgylcheddol efelychiadol. Mae’r Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn ychwanegu £376m o fanteision dros wyth mlynedd (h.y. cyfanswm o £858m) gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol ac mae cyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn arwain at fanteision ychwanegol o £369m (cyfanswm o £851m) dros yr un cyfnod.

Daw’r rhan fwyaf o’r fantais o lefelau is o allyriadau nwyon tŷ gwydr (£477m neu 98.8%) a gwneir y prif gyfraniad gan allyriadau nwyon tŷ gwydr o amaethyddiaeth a osgowyd oherwydd newidiadau o ran da byw a mewnbynnau. Effaith ddibwys a gaiff newidiadau o ran defnydd tir, a hefyd reoli gwrychoedd o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir.

Pennir gwerth manteision ansawdd dŵr o dan Fusnes fel Arfer ar £4.8m ac maent ychydig yn uwch o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (£5.21m gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol) oherwydd gostyngiadau mwy o ran stocio a mewnbynnau.

Amcangyfrifir mai manteision ansawdd aer fydd yn gwneud y cyfraniad lleiaf. O dan Fusnes fel Arfer, amcangyfrifir manteision gwerth £0.8m. O dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, pennir eu gwerth ar £1.9m gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol. Ysgogir y lefel uchaf o fanteision gan gynnydd yn arwynebedd gwrychoedd a nifer y coed mewn gwrychoedd, ochr yn ochr â gostyngiadau ychwanegol o ran stocio.

*Tabl 22*: *Manteision amgylcheddol amcangyfrifedig (Ffermydd amser llawn, £m, GPN, 2023-2030, prisiau 2023, y Llwyfan Modelu Integredig)*

| Effaith | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £115 yr hectar | | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £70 yr hectar | | Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Newid ffisegol | GPN manteision (£m, 8 mlynedd) | Newid ffisegol | GPN manteision (£m, 8 mlynedd) | Newid ffisegol | GPN manteision (£m, 8 mlynedd) |
| Yr effaith ar stoc carbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr | Lleihad o 3.205m tCO2e | 851 | Lleihad o 3.178m tCO2e | 844 | Lleihad o 1.796m tCO2e | 477 |

[76] Paul J. Metcalfe, William Baker, Kevin Andrews, Giles Atkinson, Ian J. Bateman, Sarah Butler, Richard T. Carson, Jo East, Yves Gueron, Rob Sheldon, Kenneth Train (2012) *An assessment of the nonmarket benefits of the Water Framework Directive for households in England and Wales*

[77] DESNZ (2023) *Green Book supplementary guidance: valuation of energy use and greenhouse gas emissions for appraisal*, *GOV.UK*.

[78] Amcangyfrifir y manteision hyn yn ôl prisiau 2023; cânt eu troi’n brisiau 2025 yn ddiweddarach yn y dadansoddiad.

| Effaith | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £115 yr hectar | | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £70 yr hectar | | Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Newid ffisegol** | **GPN manteision (£m, 8 mlynedd)** | **Newid ffisegol** | **GPN manteision (£m, 8 mlynedd)** | **Newid ffisegol** | **GPN manteision (£m, 8 mlynedd)** |
| Yr effaith ar ansawdd dŵr | 25 Gwella<br>0 Dirywio | 5.21 | 25 Gwella<br>0 Dirywio | 5.21 | 21 Gwella<br>0 Dirywio | 4.8 |
| Yr effaith ar ansawdd aer | 9.08 o flynyddoedd o fywyd a gollir | 1.94 | 9.02 o flynyddoedd o fywyd a gollir | 1.93 | 5.3 o flynyddoedd o fywyd a gollir | 0.84 |
| **Cyfanswm** | | **858.2** | **-** | **851.1** | | **482.6** |

### *Amcangyfrifon lefel fferm gan gonsortiwm o dan arweiniad y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol*

*Ymarfer fferm*

Mae Tabl 25 yn crynhoi canlyniadau allweddol gwaith modelu'r consortiwm o dan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol sy'n amcangyfrif y newid o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Gan fod y dadansoddiad yn tybio cyfradd ymuno â'r cynllun o 100%, mae'r canlyniadau ar gyfer y gostyngiad o ran da byw a defnydd tir yr un fath ar gyfer dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol. Mae'r model yn cynhyrchu'r canlyniadau ar gyfer pob fferm ac ar gyfer ffermydd amser llawn yn unig.

*Tabl 23: Effaith amcangyfrifedig y cynllun ar ymarfer fferm o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir ('000, y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol)*

| | Ffermydd amser llawn | Ffermydd rhan amser | Pob fferm |
|---|---|---|---|
| Gostyngiad o ran da byw (unedau da byw pori) | 63.4 | 2.2 | 65.6 |
| Cynefin lled-naturiol a gynhelir (hectar) | 231.9 | 32.7 | 264.6 |
| Cynefin lled-naturiol a grëir (hectar) | 22.7 | 4.9 | 27.6 |
| Coetir a gynhelir (hectar) | 51.0 | 14.9 | 65.9 |
| Tir comin a gynhelir (hectar) | 74.3 | 7.3 | 81.6 |
| **Cyfanswm arwynebedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (hectar)** | **1,257.2** | **231.7** | **1,488.9** |

*Economeg ffermydd*

Mae Tabl 26 yn crynhoi effaith efelychiadol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer ar economeg ffermydd ar ôl Pontio, o dan y tybiaethau cychwynnol (dangosir effeithiau o dan ddadansoddiad o sensitifrwydd yn ddiweddarach ac maent yn bwysig o ran dehongli'r effeithiau posibl). Mae'n dangos y taliadau i ffermwyr oddi wrth Lywodraeth Cymru a'r newid disgwyliedig yn Incwm Busnes Fferm o gymharu â'r sefyllfa bresennol (h.y. Busnes fel Arfer). Mae'r taliadau hyn yn adlewyrchu'r broses o drosglwyddo adnoddau oddi wrth Lywodraeth Cymru i'r ffermwyr sy'n eu derbyn.

*Tabl 24*: *Effeithiau amcangyfrifedig ar economeg ffermydd ar ôl Pontio (y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol)*

| Metrig | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £115 yr hectar | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £70 yr hectar | Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) |
|---|---|---|---|
| Taliadau Llywodraeth Cymru i ffermwyr (£m) | £243.7m (pob fferm)<br>£206.1m (pob fferm amser llawn) | £176.7m (pob fferm)<br>£149.6m (pob fferm amser llawn) | £241.8m (pob fferm)<br>£197.3m (pob fferm amser llawn) |
| Newid yn Incwm Busnes Fferm (£m) [79] | • £79.3m (pob fferm)<br>• £60.4m (pob fferm amser llawn) | • £146.3m (pob fferm)<br>• £117.0m (pob fferm amser llawn) | |

Mae'n bwysig deall sut mae cyfraddau Taliad Gwerth Cymdeithasol gwahanol yn effeithio ar Incwm Busnes Fferm o gymharu â'r sefyllfa pe bai ffermwyr yn aros yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol (gweler Tabl 27):

- Yn gyffredinol, o dybio cyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol a chyfradd ymuno o 100%, amcangyfrifir y bydd Incwm Busnes Fferm yn y sector ffermio yn gostwng £67m yn llai nag y byddai o dan gyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol[80];
- Amcangyfrifir y bydd 98.3% o ffermydd yn gweld rhywfaint o ostyngiad yn eu Hincwm Busnes Fferm gyda chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £70 yr hectar o gymharu ag 89.8% os pennir cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar;
- Ar gyfer y ffermydd hynny yr amcangyfrifir y bydd eu Hincwm Busnes Fferm yn gostwng, y gostyngiad cymedrig yw £9.8k y flwyddyn gyda chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol o gymharu â £6.8k y flwyddyn gyda Thaliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd uchel: y gostyngiadau canolrifol yw £3.9k y flwyddyn a £7.1k yn y drefn honno.

*Tabl 25*: *Effaith amcangyfrifedig gwahanol gyfraddau Taliad Gwerth Cymdeithasol a dybir ar Incwm Busnes Fferm o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir*

| | Ffermydd amser llawn | | Pob fferm | |
|---|---|---|---|---|
| | Taliad Gwerth Cymdeithasol £70 yr hectar | Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar | Taliad Gwerth Cymdeithasol £70 yr hectar | Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar |
| % y ffermydd y bydd eu Hincwm Busnes Fferm yn gostwng | 98.0% | 85.1% | 98.3% | 89.8% |
| Y mae'r gostyngiad canolrifol (£'000) iddynt yn | -9.0 | -5.1 | -7.1 | -3.9 |
| Y mae'r gostyngiad cymedrig (£'000) iddynt yn | -14.0 | -10.1 | -9.8 | -6.8 |
| % y ffermydd y bydd eu Hincwm Busnes Fferm yn cynyddu | 2.0% | 14.9% | 1.7% | 10.2% |
| Y mae'r cynnydd canolrifol (£'000) iddynt yn | 4.7 | 4.5 | 3.3 | 3.9 |
| Y mae'r cynnydd cymedrig (£'000) iddynt yn | 17.4 | 11.3 | 13.4 | 10.1 |

[79] Mynegir hyn yn ôl prisiau 2023 a chaiff ei drosi i brisiau 2025 yn ddiweddarach yn y dadansoddiad.
[80] Gellir ystyried y dadansoddiad hwn yn un "achos gwaethaf" oherwydd mae'r Incwm Busnes Fferm a gollir os telir cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yn cynnwys yr holl stoc a waredir mewn busnesau fferm ac yn tybio bod pob fferm yn ysgwyddo costau cydymffurfio ychwanegol, na fydd yn wir o bosibl ym mhob achos.

At hynny, nid yw'r effaith hon yn unffurf ymhlith pob math o fferm (gweler Tabl 28)[81]:

- Amcangyfrifir y bydd ffermydd defaid arbenigol yn yr AdAF yn gweld cynnydd cyfanredol o £24.0m yn eu Hincwm Busnes Fferm gyda Thaliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd uchel (o gymharu â Thaliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd isel) a'r cynnydd amcangyfrifedig ar gyfer ffermydd pori cymysg yn yr ALFf yw £17.6m;
- Mae'r gwahaniaeth yng nghyfran y ffermydd sy'n gweld gostyngiad yn eu Hincwm Busnes Fferm os pennir cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar (yn hytrach na £70 yr hectar) ar ei fwyaf ymhlith ffermydd defaid arbenigol yn yr AdAF, ffermydd eidion arbenigol yn yr AdAF a ffermydd cnydau âr;
- Ar gyfer y ffermydd hynny y mae eu Hincwm Busnes Fferm yn cynyddu gyda Thaliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd uchel, y cynnydd cymedrig yn yr Incwm Busnes Fferm yw £3k fesul fferm, gyda'r cynnydd cymedrig yn yr Incwm Busnes Fferm fesul fferm yn amrywio o £4.5k (ALFf godro) i £2k (iseldir cymysg).

*Tabl 26*: *Effaith amcangyfrifedig gwahanol gyfraddau Taliad Gwerth Cymdeithasol ar Incwm Busnes Fferm yn ôl math o fferm o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir*

| **Math o fferm** | **Cnydau âr** | **Godro ALFf** | **Godro iseldir** | **Pori iseldir** | **Iseldir cymysg / arall** | **Pori cymysg ALFf** | **Gwartheg arbenigol AdAF** | **Defaid arbenigol AdAF** | **Pob fferm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y ffermydd** | **301** | **924** | **621** | **2,124** | **1,680** | **4,752** | **978** | **4,175** | **15,555** |
| Newid yn Incwm Busnes Fferm ar £70 (£m) | -2.6 | -20.3 | -25.5 | -16.2 | -8.5 | -34.9 | -7.1 | -31.2 | -146.3 |
| Newid yn Incwm Busnes Fferm ar £115 (£m) | -1.0 | -15.2 | -21.8 | -10.3 | -4.3 | -17.3 | -2.3 | -7.2 | -79.3 |
| **Gwahaniaeth (£m)** | 1.6 | 5.1 | 3.7 | 5.9 | 4.2 | 17.6 | 4.8 | 24.0 | 67.0 |
| % y mae eu Hincwm Busnes Fferm yn gostwng ar £70 | 98.7 | 99.7 | 99.7 | 99.4% | 97.1% | 99.1% | 97.6% | 97.0% | 98.3% |
| % y mae eu Hincwm Busnes Fferm yn gostwng ar £115 | 86.4 | 96.6 | 95.0 | 97.2% | 91.6% | 92.2% | 85.2% | 81.6% | 86.4% |
| **Gwahaniaeth (%)** | 12.3% | 3.1% | 4.7% | 2.2% | 5.5% | 6.9% | 12.4% | 15.4% | 11.9% |
| Y mae eu gostyngiad cymedrig yn eu Hincwm Fferm Busnes ar £70 (£'000) yn | -9.0 | -22.9 | -41.3 | -7.8 | -5.4 | -7.5 | -7.6 | -8.1 | -9.8 |
| Y mae eu gostyngiad cymedrig yn eu Hincwm Fferm Busnes ar £115 (£'000) yn | -4.7 | -18.4 | -37.2 | -5.3 | -3.4 | -4.5 | -4.5 | -4.7 | -6.8 |
| **Gwahaniaeth (£'000)** | -4.3 | -4.5 | -4.1 | -2.5 | -2.0 | -3.0 | -3.1 | -3.4 | -3.0 |

Bydd y gwahaniaethau hyn yn effaith dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol ar Incwm Busnes Fferm yn effeithio ar y cymhelliant i ymuno â Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar ôl caniatáu ar gyfer tapro taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu y bydd ffermwyr yn ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (Haen Gyffredinol) yn gyflymach gyda'r Taliad Gwerth Cymdeithasol uchel o gymharu â'r Taliad Gwerth Cymdeithasol isel yn yr achos canolog (gweler Tabl 29);

- Yn 2026, os caiff Cynllun y Taliad Sylfaenol ei dapro i 60%, mae cyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn golygu y bydd tua 4,100 yn fwy o ffermydd yn ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o gymharu â chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol;
- Yn 2027, os caiff Cynllun y Taliad Sylfaenol ei dapro i 40%, mae cyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn golygu y bydd 4,900 o ffermydd ychwanegol yn ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o gymharu â chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol;

[81] Fel uchod, mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn cynrychioli'r "achos gwaethaf posibl",

- Yn 2028, os caiff Cynllun y Taliad Sylfaenol ei dapro i 20%, mae cyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn golygu y bydd tua 2,300 yn fwy o ffermydd yn ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

*Tabl 27*: *Cyfradd ymuno amcangyfrifedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o dan wahanol gyfraddau Taliad Gwerth Cymdeithasol (achos canolog)*

| **Cyffredinol** | **Achos canolog** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd ymuno** | **2026** | **2027** | **2028** | **2029** |
| **Y Ffordd Ymlaen a Ffefrir – Taliad Gwerth Cymdeithasol uchel (£115 yr hectar)** | | | | |
| Cyfradd ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (% y ffermydd) | 42 | 69 | 83 | 98 |
| Ffermydd sy'n aros o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (% y ffermydd) | 58 | 31 | 17 | 0 |
| Ffermydd nad ydynt mewn Cynllun (% y ffermydd) | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Nifer y ffermydd yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy | 6,580 | 10,811 | 12,864 | 15,244 |
| **Y Ffordd Ymlaen a Ffefrir – Taliad Gwerth Cymdeithasol isel (£70 yr hectar)** | | | | |
| Cyfradd ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (% y ffermydd) | 16 | 38 | 68 | 97 |
| Ffermydd sy'n aros o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (% y ffermydd) | 84 | 62 | 32 | 0 |
| Ffermydd nad ydynt mewn Cynllun (% y ffermydd) | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Nifer y ffermydd yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy | 2,473 | 5,926 | 10,562 | 15,088 |

Mae dadansoddiad pellach yn awgrymu gwahaniaethau sylweddol rhwng mathau o ffermydd yn y gyfradd ymuno amcangyfrifedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (Haen Gyffredinol) gyda'r Taliad Gwerth Cymdeithasol uchel o gymharu â'r Taliad Gwerth Cymdeithasol isel (gweler Tabl 30) o ystyried gwahanol gyfraddau tapro ar Gynllun y Taliad Sylfaenol: wrth i'r tapro gynyddu, ffermydd godro a phori yr effeithir arnynt fwyaf gan gyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol o gymharu â chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol.

*Tabl 28*: *Cyfradd ymuno amcangyfrifedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o dan wahanol gyfraddau Taliad Gwerth Cymdeithasol gyda thapro Cynllun y Taliad Sylfaenol yn ôl math o fferm (% y ffermydd, achos canolog)*

| **Math o fferm** | **Cnydau âr** | **Godro ALFf** | **Godro iseldir** | **Pori iseldir** | **Iseldir cymysg / arall** | **Pori cymysg ALFf** | **Gwartheg arbenigol AdAF** | **Defaid arbenigol AdAF** | **Pob fferm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y ffermydd** | **301** | **924** | **621** | **2,124** | **1,680** | **4,752** | **978** | **4,175** | **15,555** |
| **Cynllun y Taliad Sylfaenol – 100%** | | | | | | | | | |
| Taliad Gwerth Cymdeithasol Isel (£70 yr hectar) | 1.3% | 0.3% | 0.3% | 0.6% | 2.9% | 0.9% | 2.4% | 3.0% | 1.7% |
| Taliad Gwerth Cymdeithasol Uchel (£115 yr hectar) | 13.6% | 3.4% | 5.0% | 2.8% | 8.4% | 7.8% | 14.8% | 18.4% | 10.2% |
| **Gwahaniaeth** | 12.3% | 3.1% | 4.7% | 2.2% | 5.5% | 6.9% | 12.4% | 15.4% | 8.5% |
| **Tapro Cynllun y Taliad Sylfaenol – 60% yn 2026** | | | | | | | | | |
| Taliad Gwerth Cymdeithasol Isel (£70 yr hectar) | 21.9% | 7.4% | 8.4% | 4.5% | 10.2% | 13.0% | 22.1% | 28.4% | 15.9% |
| Taliad Gwerth Cymdeithasol Uchel (£115 yr hectar) | 61.5% | 34.1% | 31.9% | 26.8% | 31.2% | 41.4% | 51.6% | 55.3% | 42.3% |
| **Gwahaniaeth** | 39.5% | 26.7% | 23.5% | 22.3% | 21.0% | 28.4% | 29.6% | 26.9% | 26.4% |
| **Tapro Cynllun y Taliad Sylfaenol – 40% yn 2027** | | | | | | | | | |

| Math o fferm | Cnydau âr | Godro ALFf | Godro iseldir | Pori iseldir | Iseldir cymysg / arall | Pori cymysg ALFf | Gwartheg arbenigol AdAF | Defaid arbenigol AdAF | Pob fferm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y ffermydd** | **301** | **924** | **621** | **2,124** | **1,680** | **4,752** | **978** | **4,175** | **15,555** |
| Taliad Gwerth Cymdeithasol Isel (£70 yr hectar) | 57.1% | 29.7% | 28.0% | 22.3% | 27.6% | 36.4% | 47.4% | 52.2% | 38.1% |
| Taliad Gwerth Cymdeithasol Uchel (£115 yr hectar) | 84.4% | 54.1% | 44.9% | 60.2% | 59.9% | 73.0% | 76.1% | 78.7% | 69.5% |
| **Gwahaniaeth** | 27.2% | 24.4% | 16.9% | 37.9% | 32.3% | 36.6% | 28.7% | 26.5% | 31.4% |
| **Tapro Cynllun y Taliad Sylfaenol – 20% yn 2028** | | | | | | | | | |
| Taliad Gwerth Cymdeithasol Isel (£70 yr hectar) | 83.4% | 50.8% | 41.9% | 58.9% | 58.5% | 71.5% | 74.5% | 77.4% | 67.9% |
| Taliad Gwerth Cymdeithasol Uchel (£115 yr hectar) | 90.0% | 66.5% | 58.5% | 77.4% | 78.0% | 86.3% | 89.3% | 88.1% | 82.7% |
| **Gwahaniaeth** | 6.6% | 15.7% | 16.6% | 18.5% | 19.5% | 14.9% | 14.8% | 10.7% | 14.8% |

## Costau economaidd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)

Amcangyfrifir costau economaidd Haen Gyffredinol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer (h.y. Cynllun y Taliad Sylfaenol) ar gyfer ffermwyr sy'n cymryd rhan. Cynhwysir dwy elfen:

- Gwerth yr amser a dreulir gan ffermwyr yn gwneud cais am gymorth ariannol;
- Gwerth yr amser a dreulir gan ffermwyr yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan bob Opsiwn ynghyd ag unrhyw dreuliau eraill yr eir iddynt[82]: dim ond i'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir y mae'r elfen hon yn berthnasol gan na fydd gan ffermwyr unrhyw rwymedigaethau cydymffurfio ychwanegol o dan Fusnes fel Arfer.

Hepgorir yr holl gostau sy'n gysylltiedig â cheisiadau am gymorth heblaw am Haen Gyffredinol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol).

Mae Tabl 31 yn crynhoi'r costau blynyddol allweddol ar ddiwedd y Cyfnod Pontio (h.y. pan dybir y bydd cyfraddau cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar eu huchaf). Mynegir y costau hyn ar brisiau 2023 cyson yn nhermau gwerth presennol net[83]. Ystyrir proffil disgwyliedig y costau hyn dros y Cyfnod Pontio o 2026 i 2029 a thu hwnt yn ddiweddarach yn yr adran hon.

[82] Esbonnir y tybiaethau sy'n sail i'r costau amcangyfrifedig yn Atodiad C.
[83] Lle y bo angen, cânt eu troi'n brisiau 2025 yn ddiweddarach yn y dadansoddiad.

*Tabl 29*: *Costau disgwyliedig y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) ar gyfer y sector ffermio ar ôl Pontio (£m)*

| **Elfen o gost** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol)** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £115 yr hectar** | | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £70 yr hectar** | |
| | **Pob fferm** | **Ffermydd amser llawn** | **Pob fferm** | **Ffermydd amser llawn** |
| Cost gwneud cais am gymorth i ffermwyr[84] | 1.0 | 0.7 | 1.0 | 0.7 |
| Cost ymgymryd â Gweithredoedd i gydymffurfio â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (wedi'i gwrthbwyso gan daliad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy)[85] | 33.4 | 22.2 | 33.4 | 22.2 |
| Gostyngiad ym maint elw gros o ymgymryd â Gweithredoedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy | 47.7 | 47.0 | 47.7 | 47.0 |
| **Cyfanswm** | 82.1 | 69.9 | 82.1 | 69.9 |

### Crynodeb o gostau a manteision y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)

Mae'r rhan olaf o'r adran hon yn dwyn ynghyd y dystiolaeth sydd ar gael i amcangyfrif:

- Y manteision net (Gwerth Cymdeithasol Presennol Net) sy'n cael eu deillio fel gwerth presennol net y manteision cymdeithasol llai gwerth presennol net y costau cymdeithasol;
- Y gymhareb cost a budd sy'n cael ei deillio fel cymhareb y Gwerth Cymdeithasol Presennol Net i daliadau Llywodraeth Cymru i ffermwyr.

Mae'n canolbwyntio ar gymharo costau a manteision economaidd:

- Y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol (a'r rheoliadau llygredd amaethyddol perthnasol);
- Busnes fel Arfer (h.y. Cynllun y Taliad Sylfaenol ynghyd â'r rheoliadau llygredd amaethyddol).

Ystyrir dwy fantais economaidd:

- Yr effeithiau amcangyfrifedig ar y gwerth gros a ychwanegir gan y sector ffermio;
- Gwerth cymdeithasol allyriadau nwyon tŷ gwydr is (a lefel uwch o atafaelu carbon) a gwell ansawdd aer a dŵr.

Er mwyn gwneud hyn, mae'r costau a'r manteision a amcangyfrifwyd drwy'r Llwyfan Modelu Integredig wedi cael eu haddasu mewn sawl ffordd:

- I'w hestyn i gynnwys ffermydd rhan amser a thir comin yn seiliedig ar yr arwynebedd tir;
- I broffilio pob un ohonynt fel y byddant yn cronni yn unol â'r gyfradd ymuno ddisgwyliedig ar gyfer pob Opsiwn;
- I fynegi'r manteision ar sail flynyddol yn hytrach na sail gronnol;
- I gydnabod y gall rhai manteision ddigwydd eto, ond ar sail ostyngol, y tu hwnt i'r Cyfnod Pontio (h.y. ar ôl tybio bod taliadau Llywodraeth Cymru wedi dod i ben at ddibenion yr Achos Busnes[86]).

Mae Tabl 32 yn crynhoi gwerth amcangyfrifedig y taliadau i ffermwyr sy'n eu derbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru dros y Cyfnod Pontio o dan bob un o'r tri Opsiwn gwahanol. Mae'n dangos:

---

[84] Amcangyfrifir y costau hyn yn seiliedig ar y costau a nodwyd ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth (Cymru), Awst 2023.

[85] Daw'r costau amcangyfrifedig o waith modelu gan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol.

[86] Mae angen yr addasiad hwn oherwydd ffocws yr Achos Busnes ar daliadau Llywodraeth Cymru dros y Cyfnod Pontio: nid yw'n golygu y disgwylir i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddod i ben bryd hynny.

- Canran dybiedig y ffermydd sy'n ymuno â'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (neu sy'n aros yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol) sy'n seiliedig ar ddadansoddiad gan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol;
- Y taliadau o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Chynllun y Taliad Sylfaenol a amcangyfrifwyd yn seiliedig ar waith modelu'r Llwyfan Modelu Integredig[87];
- Cyfanswm gwerth taliadau Llywodraeth Cymru o dan bob Opsiwn sy'n cyfansymio taliadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Chynllun y Taliad Sylfaenol.

*Tabl 30*: *Cyfradd ymuno amcangyfrifedig â'r Haen Gyffredinol yn seiliedig ar daliadau Llywodraeth Cymru i ffermwyr (£m, achos canolog)*

| **Yr effaith ar:** | **2026** | **2027** | **2028** | **2029** |
|---|---|---|---|---|
| **Y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) – £115 yr hectar** | | | | |
| % y ffermydd sy'n ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (hectar) | 42% | 69% | 83% | 98% |
| Taliad o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (£m) | 109.2 | 179.4 | 215.8 | 254.8 |
| % y ffermydd sy'n aros yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol (hectar) | 58% | 31% | 17% | 0% |
| Taliad o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (£m) | 77.5 | 27.6 | 7.6 | 0.0 |
| Cyfanswm y taliad (£m) | 186.7 | 207.0 | 223.3 | 254.8 |
| **Y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol)** – £70 yr hectar | | | | |
| % y ffermydd sy'n ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (hectar) | 16% | 38% | 68% | 97% |
| Taliad o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (£m) | 30.7 | 72.9 | 130.4 | 186.0 |
| % y ffermydd sy'n aros yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol (hectar) | 84% | 62% | 32% | 0% |
| Taliad o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (£m) | 112.3 | 55.2 | 14.3 | 0.0 |
| Cyfanswm y taliad (£m) | 142.9 | 128.1 | 144.7 | 186.0 |
| **Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)[88]** | | | | |
| % y ffermydd sy'n ymuno â Chynllun y Taliad Sylfaenol (hectar) | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Cyfanswm y taliad (£m) | 222.7 | 222.7 | 222.7 | 222.7 |

Mae Tabl 33 yn crynhoi gwerth ychwanegol gros amcangyfrifedig pob fferm. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi cael eu hestyn o'r amcangyfrifon ar gyfer ffermydd amser llawn i gynnwys pob darn o dir sy'n gymwys ar gyfer yr Opsiynau a'u trosi'n brisiau 2025 gan ddefnyddio datchwyddwr y CDG.

[87] Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys lwfans amcangyfrifedig ar gyfer taliadau i ffermwyr sy'n defnyddio tir comin.
[88] Mae'r amcangyfrifon hyn a fodelwyd ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol ychydig yn llai na'r taliadau presennol o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

*Tabl 31*: *Manteision amcangyfrifedig (£m y flwyddyn ar ôl Pontio, ffermydd amser llawn a rhan amser a thir comin, achos canolog)*

| **Yr effaith ar:** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £115 yr hectar** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £70 yr hectar** | **Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)** |
|---|---|---|---|
| Newid yn Incwm Fferm Busnes o gymharu â dim Cynllun y Taliad Sylfaenol heb gynnwys taliadau trosglwyddo | 65.6 | 66.4 | 0.5 |
| Gwerth ychwanegol gros fel % o Incwm Fferm Busnes | 151% | 151% | 151% |
| **Gwerth ychwanegol gros fferm** | **99.1** | **100.3** | **0.8** |

Mae Tabl 34 yn crynhoi gwerth presennol net cronnol amcangyfrifedig y manteision disgwyliedig: mae'n gwahaniaethu rhwng yr effaith ar werth ychwanegol gros a'r manteision amgylcheddol. Mae'n adeiladu ar ganlyniadau gwaith modelu'r Llwyfan Modelu Integredig drwy addasu ar gyfer y canlynol:

- Y gyfradd ymuno dybiedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a ddefnyddiwyd i amcangyfrif taliadau Llywodraeth Cymru (gweler Tabl 34);
- Gwerth blynyddol cyfartalog yr hectar pob mantais dros gyfnod o wyth mlynedd (a amcangyfrifwyd yn seiliedig ar ganlyniadau gwaith modelu'r Llwyfan Modelu Integredig)[89];
- Set o dybiaethau ynglŷn â pha mor bell y disgwylir i bob mantais ddigwydd eto ar ôl y Cyfnod Pontio pan dybir y bydd taliadau Llywodraeth Cymru o fewn cwmpas yr Achos Busnes yn dod i ben[90].

Y fantais fwyaf yw'r lleihad amcangyfrifedig mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr.

*Tabl 32*: *Manteision amcangyfrifedig (£m, GPN, ffermydd amser llawn a rhan amser a thir comin, prisiau 2025, achos canolog)*

| **Yr effaith ar:** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £115 yr hectar** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol): Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol – £70 yr hectar** | **Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)** |
|---|---|---|---|
| Gwerth ychwanegol gros fferm | 272.8 | 203.2 | 3.1 |
| Stoc carbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr | 739.3 | 676.0 | 467.1 |
| *Ansawdd dŵr* | 5.0 | 4.9 | 4.7 |
| Ansawdd aer | 1.6 | 1.4 | 0.8 |
| Adfer rhywogaethau | 0.7 | 0.7 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **1,019.4** | **886.2** | **475.8** |

Mae Tabl 35 yn dwyn ynghyd y gwahanol elfennau o gostau a manteision amcangyfrifedig y gwahanol Opsiynau. Mae'r canlyniadau yn dangos y disgwylir i'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda chyfraddau Taliad Gwerth Cymdeithasol gwahanol greu Cymarebau Cost a Budd uwch na Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol). Ceir cymhareb cost a budd o 1.60 gyda chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol a 1.28 gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol. Gellir priodoli'r gwahaniaeth yn bennaf i'r ffaith nad yw taliadau uwch Llywodraeth Cymru yn cael eu gwrthbwyso gan fanteision cynyddol a fodelwyd am nad oes unrhyw

[89] Mae gwaith modelu'r Llwyfan Modelu Integredig yn llunio amcangyfrifon o werth presennol net cronnol manteision amgylcheddol gwahanol Opsiynau dros gyfnod o wyth mlynedd o 2023-2030. Mae'r rhain wedi cael eu trosi'n werthoedd blynyddol cyfartalog ar sail heb ei disgowntio cyn cael eu cynnwys yn yr Achos Busnes.

[90] Dim ond gwariant Llywodraeth Cymru yn ystod y Cyfnod Pontio y mae'r Achos Busnes hwn yn ei gwmpasu – ynghyd ag unrhyw ymrwymiadau a wnaed – mae'n tybio na fydd unrhyw daliadau yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru o 2030 ymlaen i gynnal gweithgareddau fferm.

wahaniaeth sylweddol yn ymddygiad efelychiadol ffermwyr. Ceir cymhareb cost a budd o 0.56 ar gyfer Busnes fel Arfer.

*Tabl 33*: *Gwerth am arian amcangyfrifedig y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) (Achos canolog)*

| | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir – Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol = £115/hectar** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir – Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol = £70/hectar** | **Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)** |
|---|---|---|---|
| Manteision net (GPN, £m) | 1,019.4 | 886.2 | 475.8 |
| Taliadau Llywodraeth Cymru (GPN, £m, 2026-2029) | 795.9 | 552.7 | 846.7 |
| **Cymhareb Cost a Budd** | **1.28** | **1.60** | **0.56** |

Mae sensitifrwydd y canlyniadau wedi cael ei brofi drwy ystyried achosion "gorau" rhesymol ac achosion "gwaethaf" rhesymol ynghylch yr achos canolog a gyflwynir uchod. Mae’r ddau wahaniaeth allweddol yn adlewyrchu tybiaethau ynglŷn â’r canlynol:

- Cyfradd a lefel ymuno â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda dwy gyfradd wahanol y Taliad Gwerth Cymdeithasol: mae’r achos “gorau” yn tybio cyfradd ymuno lawn ar unwaith â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac mae’r achos “gwaethaf” yn tybio cyfradd ymuno arafach sy’n adlewyrchu tystiolaeth ynglŷn â rhai o’r rhwystrau posibl i fabwysiadu;
- Gwerth uned manteision newidiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr: mae’r achos “gorau” yn defnyddio gwerth cymdeithasol “uchel” carbon a argymhellir gan Lywodraeth y DU ac mae’r achos “gwaethaf” yn cymhwyso gwerth cymdeithasol “isel” carbon.

Mae Tabl 36 yn crynhoi’r Cymarebau Cost a Budd amcangyfrifedig ar gyfer pob Opsiwn o dan wahanol dybiaethau. Mae’n dangos bod y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) yn gyson yn cynhyrchu elw uwch (h.y. Cymhareb Cost a Budd) na Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol). Yn yr achos “gorau”, gyda chyfradd ymuno gyflymach ac uwch â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a gwerth cymdeithasol carbon uwch, y Cymarebau Cost a Budd yw 1.64 a 2.23 yn drefn hon ac mae’r Gymhareb Cost a Budd ar gyfer Busnes fel Arfer bob amser yn llai na 0.84.

*Tabl 34*: *Cymhareb Cost a Budd amcangyfrifedig y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)*

| | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir – Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol = £115/hectar** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir – Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol = £70/hectar** | **Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)** |
|---|---|---|---|
| Achos gorau | 1.64 | 2.23 | 0.84 |
| Achos canolog | 1.28 | 1.60 | 0.56 |
| Achos isaf | 0.76 | 0.91 | 0.26 |

### Costau a manteision y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) nad yw eu gwerth ariannol wedi cael eu pennu

Mae angen dehongli’r canlyniadau yn Nhabl 37 gyda gofal am nad ydynt yn adlewyrchu holl gostau na manteision posibl y Ffordd Ymlaen a Ffefrir.

Yn gyntaf, mae’r dadansoddiad uchod yn adeiladu ar ganlyniadau gwaith modelu’r Llwyfan Modelu Integredig nad yw’n cofnodi pob un o effeithiau amgylcheddol posibl y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer nac yn pennu gwerth iddynt. Mae Tabl 37 yn crynhoi’r newidiadau amcangyfrifedig mewn bioamrywiaeth erbyn 2040 fel y’i mesurwyd gan gyffredinrwydd rhywogaethau o adar a phlanhigion o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer. Er ei fod yn mesur yr effaith efelychiadol ar fioamrywiaeth, ni phennir gwerth ariannol iddo, a hynny’n bennaf oherwydd amrywioldeb y gwerth priodol yn dibynnu ar yr amodau.

*Tabl 35:Newidiadau amcangyfrifedig mewn bioamrywiaeth erbyn 2040*

| | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol)** | **Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol)** |
|---|---|---|
| Rhywogaethau o adar | Nid oes unrhyw newid o'r llinell sylfaen yn achos 94% o rywogaethau o adar a fodelwyd, sy'n golygu nad effeithir ar y tueddiadau hanesyddol (dirywiad, sefydlogrwydd neu welliant).<br>Mae'r newidiadau amcanestynedig yn y 6% arall yn llai na lefel yr ansicrwydd yn y gwaith modelu. | Nid oes unrhyw newid o'r llinell sylfaen yn achos 99% o rywogaethau o adar a fodelwyd, sy'n golygu nad effeithir ar y tueddiadau hanesyddol (dirywiad, sefydlogrwydd neu welliant).<br>Mae'r newidiadau amcanestynedig yn y 1% arall yn llai na lefel yr ansicrwydd yn y gwaith modelu. |
| Rhywogaethau o blanhigion | Mae 11% o blotiau o gynefin a fodelwyd yn symud i uchder llystyfiant posibl ffafriol (mae 92% mewn cyflwr anffafriol yn y llinell sylfaen ac mae hyn yn lleihau i 81% o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir).<br>Gwelir cynnydd mewn rhywogaethau o blanhigion am fod cynefinoedd yn fwy addas ar gyfer corlwyni cyffredin a rhywogaethau eraill sy'n tyfu mewn rhos neu gors: gwelir lefelau is o rywogaethau glaswelltir asidig wedi'i bori.<br>Gwrychoedd: Amcanestynnir y bydd newidiadau yn y gyfundrefn pridd a golau dros 20 mlynedd yn sicrhau amodau mwy addas ar gyfer rhywogaethau coetir ac ymyl coetir cyffredin ac yn lleihau niferoedd rhywogaethau mewn glaswelltiroedd wedi'u gwella ac wedi'u lled-wella. | Ni chawsant eu modelu oherwydd y newid cyfyngedig o ran defnydd tir. |

Yn ail, mae'n bosibl bod rhai o'r manteision sydd wedi'u cynnwys yng ngwaith dadansoddi'r Llwyfan Modelu Integredig wedi'u tanbrisio. Er enghraifft, mae'r effaith ar ansawdd aer ond yn ystyried gwerth y blynyddoedd amcangyfrifedig o fywyd a gollir sy'n cael eu hosgoi: nid yw'n cynnwys costau iechyd a llesiant eraill y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwaeth (e.e. cost gofal iechyd, colli cynhyrchiant a llesiant gwaeth). O ystyried graddfa fach y manteision amcangyfrifedig o ran ansawdd aer, effaith gyfyngedig y mae'r hepgoriad yn debygol o'i chael ar fanteision cyffredinol pob Opsiwn.

Yn drydydd, mae'n bwysig cydnabod ac ymgorffori:

- Manteision disgwyliedig y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a fydd yn codi'n araf ac a allai gronni dros y tymor canolig i'r hirdymor (h.y. y tu hwnt i'r Cyfnod Pontio) yn dibynnu ar y ffordd y mae cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn effeithio ar agweddau a dulliau gweithredu ffermwyr wrth gymryd camau dilynol yn sgil eu Gweithredoedd fel rhan o'r Haen Gyffredinol, er enghraifft meincnodi, DPP, profi pridd, asesiadau rheoli plâu integredig ac asesiad arfaethedig o fioddiogelwch anifeiliaid a sgorio symudedd a chyflwr corff a hyfforddiant ar gyfer eu buches neu eu haid;
- Dim ond drwy gymryd rhan yn yr Haen Opsiynol y bydd rhai manteision allweddol yn codi: mae'r Haen Gyffredinol yn talu costau ymlaen llaw i ddatblygu cynlluniau a fydd ond yn dwyn ffrwyth ar ôl cael taliadau pellach o dan yr Haen Opsiynol os bydd ffermwyr yn eu hawlio. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol: y Cynllun Rheoli Safle Dynodedig a'r Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Gwrychoedd.

Yn olaf, nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys rhai o effeithiau posibl y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, yn benodol:

- Nid yw'n ystyried unrhyw effeithiau posibl ar iechyd anifeiliaid, perygl llifogydd, nac ansawdd tirwedd sy'n adlewyrchu mwynhad pobl o gefn gwlad;
- Nid yw'n ymgorffori unrhyw risgiau i'r gadwyn gyflenwi amaethyddol;
- Mae'n seiliedig ar fodel statig ar y cyfan sy'n golygu nad yw'n ystyried yn llawn fanteision dynamig posibl cymryd rhan ar gam cynnar/yn helaethach yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi'u cofnodi yn ystod y Cyfnod Pontio, ac nid yw ychwaith yn adlewyrchu manteision posibl cael mwy o ffermydd i gymryd rhan ar gam cynharach ar lefel fferm gyfan yn y tymor hwy: er enghraifft, mae mynediad cynharach yn rhoi mwy o gyfle i ffermwyr wireddu manteision masnachol (e.e. mynediad at fasnachu

mewn carbon, bodloni gofynion proseswyr ar fioamrywiaeth ac ati) a bydd hyn yn gwella eu gwytnwch economaidd a'u cynaliadwyedd[91];

- Mae'n diystyru unrhyw effeithiau galluogi sy'n deillio o'r Gweithredoedd y mae ffermwyr wedi ymgymryd â nhw, ond bydd rhai o'r rhain yn gysylltiedig ag effeithiau'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol perthnasol: er enghraifft, wrth annog ffermwyr i gymryd rhan yn yr Haen Gyffredinol mae hyn yn gosod rhwymedigaeth ar rai ffermwyr i gymryd camau nad ydynt wedi dewis eu cymryd o'r blaen (e.e. profi pridd er mwyn canfod a oes angen mewnbynnau ychwanegol fel gwrtaith): byddai'r lefel ddisgwyliedig o ran ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn annhebygol o gael ei sicrhau drwy ymyriad unigol (h.y. un yn canolbwyntio ar brofi pridd yn unig).

### *Costau a manteision economaidd Haenau Opsiynol a Chydweithredol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer (yn seiliedig ar y cynlluniau buddsoddi gwledig)*

Fel y nodwyd yn gynharach, dechreuwyd ar asesu costau a manteision economaidd y Gweithredoedd cychwynnol yn Haenau Opsiynol a Chydweithredol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir drwy ddatblygu cadwyn rhesymeg ar gyfer pob Gweithred sy'n nodi costau a manteision posibl y gweithgareddau a gefnogir o dan y Weithred. Yna, aseswyd dichonoldeb llunio amcangyfrifon ariannol o bob cost a mantais. Nododd hyn mai dim ond ar gyfer saith o'r 17 o Weithredoedd cychwynnol y byddai modd cwblhau dadansoddiad cost a budd sy'n pennu gwerth ariannol.

Mae costau a manteision economaidd y saith Gweithred Opsiynol a Chydweithredol gychwynnol ar ddau gam:

- Lle y bo modd, dadansoddwyd pob Gweithred Opsiynol a Chydweithredol ar wahân i asesu eu costau a'u manteision economaidd a phennu eu gwerth ariannol;
- Mae'r canlyniadau ar gyfer y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol unigol wedi cael eu dwyn ynghyd (o dan dybiaethau penodol) i ganfod costau a manteision cyfanredol posibl yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol (o gymharu â Busnes fel Arfer).

Cyflwynir manylion am y ffordd yr arfarnwyd pob Gweithred Opsiynol a Chydweithredol, a'r canlyniadau, yn Atodiad D. Mae hyn yn cynnwys crynodeb o'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd.

Crynhoir y dadansoddiad ansoddol o'r deg Gweithred arall isod a cheir manylion yn Atodiad D hefyd.

### Costau a manteision economaidd Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer (yn seiliedig ar gynlluniau buddsoddi gwledig)

*Dadansoddiad cost a budd Gweithredoedd Opsiynol*

Mae Tabl 38 yn crynhoi'r manteision economaidd sydd wedi cael eu mesur ac y mae eu gwerth ariannol wedi cael eu pennu fel rhan o'r dadansoddiad cost a budd o saith Gweithred Opsiynol. Mae'r pwyntiau allweddol i'w nodi fel a ganlyn:

- Mae cwmpas y manteision sydd wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad yn rhychwantu pob un o'r Gweithredoedd Opsiynol: y ddau asesiad mwyaf cynhwysfawr yw'r rhai sy'n gysylltiedig â rhoi Safleoedd Rheoli Safle Dynodedig ar waith a throi at ffermio organig, ond mae hyd yn oed y rhain yn destun rhai cyfyngiadau;
- Ni wahaniaethir rhwng y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol ond gall gwahaniaethau yn y gyfradd (a'r lefel) ymuno â'r Haen Gyffredinol effeithio ar y manteision hirdymor;
- Fel gyda'r Haen Gyffredinol, mae achosion "gorau" a "gwaethaf" wedi cael eu dadansoddi'n seiliedig ar dybiaethau gwahanol ynglŷn â chyfraddau ymuno, costau uned, manteision uned a phatrwm disgwyliedig y manteision;
- Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y gweithgareddau newydd y disgwylir iddynt gael eu cefnogi o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a pharhad unrhyw weithgareddau a allai barhau i gael eu cefnogi fel rhan o'r Opsiynau.

[91] Nid yw canlyniadau gwaith modelu'r Llwyfan Modelu Integredig a ddefnyddiwyd yn yr Achos Busnes yn ystyried unrhyw ymateb dynamig am iddo gael ei redeg â chamau pontio ffermydd "i ffwrdd". Mae hyn yn golygu bod y canlyniadau yn adlewyrchu effeithiau yn y tymor byrrach, ac nad ydynt yn ystyried unrhyw newidiadau yn ymarfer fferm yn y tymor hwy nac ailstrwythuro yn y diwydiant (e.e. newid mathau o ffermydd) a allai ddigwydd.

Ceir rhagor o fanylion am y dull gweithredu a'r dystiolaeth sylfaenol yn Atodiad D.

*Tabl 36*: *Manteision economaidd amcangyfrifedig Gweithredoedd Opsiynol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer (£m, GPN, 2026-2029)*

| Gweithred | Manteision a gynhwyswyd | Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir | | Busnes fel Arfer (cynlluniau buddsoddi gwledig) |
|---|---|---|---|---|
| | | Achos gorau | Achos gwaethaf | |
| Creu coetir ac amaethgoedwigaeth newydd | • Carbon<br>• Bioamrywiaeth<br>• Ansawdd aer | 470.1 | 131.4 | 7.9 |
| Rheoli a gwella cynefinoedd | • Bioamrywiaeth | 88.6 | 46.3 | 0.0 |
| Ymgymryd â gweithredoedd rheoli tir yn gynaliadwy mewn Cynllun Rheoli Safle Dynodedig | • Gwasanaethau ecosystem: darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth<br>• Hinsawdd a rheoleiddio dŵr<br>• Naws am le<br>• Rhywogaethau carismatig/angharismatig<br>• Ymchwil ac addysg | 373.3 | 182.8 | 0.0 |
| Adfer gwrychoedd neu blannu rhai newydd | • Carbon<br>• Bioamrywiaeth<br>• Ansawdd aer | 23.6 | 9.8 | 7.2 |
| Ymgymryd â gweithredoedd i wella iechyd pridd a chyflwyno gorchudd cnydau amlrywogaethol. | • Llai o lygredd gwasgaredig ar ansawdd dŵr | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Cefnogi ffermio organig (ardystiedig a throsi) | • Gwasanaethau ecosystem: Rheoli plâu yn fiolegol, Mwyneiddio maethynnau planhigion, Ffurfio pridd, Cronni carbon, Sefydlu nitrogen, Ffrwythlondeb pridd, Llif hydrolegol, Esthetig a Pheillio | 27.9 | 5.2 | 0.0 |
| Creu cynefinoedd dros dro a rhai parhaol | • Bioamrywiaeth | 0.3 | 0.2 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | | **983.8** | **375.6** | **15.2** |

Yn ymarferol, ni fu modd bob amser i ddod o hyd i sail ddibynadwy i amcangyfrif holl fanteision disgwyliedig y Gweithredoedd Opsiynol (fel y'u diffiniwyd yn y cadwyni rhesymeg sylfaenol), a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r amcangyfrifon. Mae Tabl 39 yn crynhoi'r manteision economaidd hynny ar gyfer pob Gweithred nad ydynt wedi'u cynnwys pan nad oedd yn bosibl rhoi amcangyfrifon cadarn. Mae'r pwyntiau allweddol i'w nodi fel a ganlyn:

- Mae effeithiau ar gynhyrchiant ffermydd yn aml yn cael eu hepgor am ei bod yn anodd cadarnhau'r cysylltiad rhwng y Weithred ac economeg busnes y fferm a chyffredinoli mewn ffordd ddibynadwy yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael;
- Mae'n anodd cadarnhau'r cysylltiadau ffisegol rhwng Gweithred a'r amgylchedd mewn ffordd gadarn (e.e. yr effaith ar allyriadau nwyon tŷ gwydr y gellir pennu eu gwerth yn hawdd pe bai modd cadarnhau'r effaith ffisegol gyda hyder).

Bydd angen gwneud gwaith pellach yn y dyfodol i lenwi'r bylchau hyn er mwyn i'w harwyddocâd posibl gael ei ddeall yn well a'i ddefnyddio i lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut y dylai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddatblygu.

*Tabl 37*: *Manteision economaidd Gweithredoedd Opsiynol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a hepgorwyd o'r dadansoddiad cost a budd*

| **Gweithred** | **Manteision a hepgorwyd** | |
|---|---|---|
| | **Economeg ffermydd** | **Amgylcheddol** |
| Creu coetir ac amaethgoedwigaeth newydd | • Mwy o gysgod a manteision eraill i dda byw | |
| Rheoli a gwella cynefinoedd | • Gwerth preifat da byw i ffermydd | • Gwelliannau lles o ganlyniad i well cyfleusterau hamdden a thirwedd<br>• Gwerth cymdeithasol allyriadau nwyon tŷ gwydr is |
| Ymgymryd â gweithredoedd rheoli tir yn gynaliadwy mewn Cynllun Rheoli Safle Dynodedig | • Gwerth preifat da byw i ffermydd | |
| Adfer gwrychoedd neu blannu rhai newydd | • Manteision preifat i ffermwyr o ganlyniad i beillio cnydau amlflodeuog yn well a llai o niwed a achosir gan blâu | • Atafaelu mwy o garbon a gwella ansawdd aer o ganlyniad i adfer gwrychoedd<br>• Gwell lles o ganlyniad i wella ansawdd tirwedd<br>• Gwell lles o ganlyniad i wella ansawdd dŵr oherwydd llai o erydiad pridd a dŵr ffô |
| Ymgymryd â gweithredoedd i wella iechyd pridd a chyflwyno gorchudd cnydau amlrywogaethol. | • Busnes fferm mwy proffidiol/cynhyrchiol (GYG)<br>• Costau gwrtaith is | • Gwerth cymdeithasol allyriadau nwyon tŷ gwydr is<br>• Gwelliannau lles o ganlyniad i wella bioamrywiaeth, gan gynnwys adfer rhywogaethau yn well<br>• Gwasanaethau ecosystem eraill: Rheoli plâu yn fiolegol; mwyneiddio maethynnau planhigion; ffurfio pridd; sefydlogi nitrogen; ffrwythlondeb pridd; llif hydrolegol; esthetig; peillio |
| Cefnogi ffermio organig (ardystiedig a throsi) | • Yr effaith ar gynhyrchiant ffermydd | • Effaith bwyd organig ar iechyd |
| Creu cynefinoedd dros dro a rhai parhaol | • Manteision preifat i ffermwyr o ganlyniad i beillio gwell a chostau is o ran gwrteithiau a phlaleiddiaid | • Gwelliannau lles o ganlyniad i well cyfleusterau hamdden a thirwedd<br>• Gwerth cymdeithasol allyriadau nwyon tŷ gwydr is<br>• Gwasanaethau ecosystem eraill: darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth; hinsawdd a rheoleiddio dŵr; ymdeimlad o le; rhywogaethau carismatig/angharismatig; ac ymchwil ac addysg |

Y brif gost i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â chyflawni Gweithredoedd Opsiynol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer (yn seiliedig ar gynlluniau buddsoddi gwledig) yw'r taliad i ffermwyr. Mae Tabl 40 yn crynhoi'r taliadau disgwyliedig gan Lywodraeth Cymru o dan bob Gweithred a gwmpaswyd gan ddadansoddiad cost a budd. Nid yw hyn yn cynnwys y gost i Lywodraeth Cymru am weinyddu'r cymorth am nad oes modd gwahaniaethu'r gost hon oddi wrth gostau eraill cyflawni'r Opsiynau, ar y cyd nac yn unigol. Felly, mae wedi'i

hymgorffori ar wahân (gweler isod). Nid yw'r gost i ffermwyr am wneud cais am gymorth wedi'i chynnwys ychwaith.

*Tabl 38*: *Taliadau amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru i ffermwyr am Weithredoedd Opsiynol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer (£m, GPN, 2026-2029)*[92][93]

| | **Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir** | | **Busnes fel Arfer** |
|---|---|---|---|
| | **Achos gorau** | **Achos gwaethaf** | |
| Creu coetir ac amaethgoedwigaeth newydd | 82.8 | 98.3 | 10.6 |
| Rheoli a gwella cynefinoedd | 9.3 | 11.3 | 0.0 |
| Ymgymryd â gweithredoedd rheoli tir yn gynaliadwy mewn Cynllun Rheoli Safle Dynodedig | 13.1 | 14.6 | 0.0 |
| Adfer gwrychoedd neu blannu rhai newydd | 24.4 | 11.7 | 9.6 |
| Ymgymryd â gweithredoedd i wella iechyd pridd a chyflwyno gorchudd cnydau amlrywogaethol. | 0.5 | 0.5 | 0.3 |
| Cefnogi ffermio organig (ardystiedig a throsi) | 1.8 | 1.1 | 0.0 |
| Creu cynefinoedd dros dro a rhai parhaol | 2.1 | 1.5 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **134.0** | **139.0** | **20.5** |

*Dadansoddiadau ansoddol*

Ar gyfer y deg Gweithred Opsiynol a Chydweithredol lle na fu modd cwblhau dadansoddiad cost a budd i bennu gwerth ariannol, mae asesiad ansoddol wedi cael ei gynnal.

Mae Tabl 41 yn crynhoi manteision disgwyliedig pob Gweithred yn seiliedig ar ddatblygu'r cadwyni rhesymeg. Mae ffocws y manteision ar y rhai y disgwylir iddynt godi yn ystod y Cyfnod Pontio, ond mae'n bwysig nodi y gall pob Gweithred hefyd gael effeithiau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Ystyrir arwyddocâd posibl hyn ymhellach isod.

*Tabl 39*: *Manteision disgwyliedig Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol sy'n destun asesiad ansoddol*

| **Gweithred** | **Manteision disgwyliedig** | |
|---|---|---|
| | **Economeg ffermydd** | **Manteision amgylcheddol a manteision ehangach eraill** |
| Rheoli coed a choetir sy'n bodoli eisoes | • Mwy o gysgod a manteision eraill i dda byw<br>• Incwm ychwanegol o goetir, gan gynnwys gwerthiannau pren | • Gwelliannau lles o ganlyniad i wella bioamrywiaeth, gan gynnwys adfer rhywogaethau'n well (adar coetir), hamddena a thirwedd |
| Rhoi mesurau bioddiogelwch fferm o safon uwch ar waith | • Cynhyrchiant gwell – effeithlonrwydd/cymhareb trosi porthiant<br>• Mwy o hyder ymhlith defnyddwyr – safonau lles<br>• Gwell proffidioldeb i ffermydd | • Costau niwed is o ganlyniad i achosion o glefydau anifeiliaid<br>• Risgiau is sy'n gysylltiedig â datblygu ymwrthedd gwrthficrobaidd |
| Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ehangach a mwy datblygedig | • Ffermydd mwy gwydn<br>• Gwell proffidioldeb / cynhyrchiant i ffermydd (GYG) | • Gwell lles / llesiant / iechyd meddwl i ffermwyr |
| Gwell cynhyrchiant, effeithlonrwydd a pherfformiad | • Gwell proffidioldeb / cynhyrchiant i ffermydd (GYG)<br>• Costau gwrtaith is | • Gwerth cymdeithasol allyriadau nwyon tŷ gwydr is |

[92] Mae'r taliadau a ddangosir yn **Error! Reference source not found.** yn adlewyrchu'r costau disgwyliedig am roi cymorth i ffermwyr ar y raddfa a ragwelir fel rhan o'r dadansoddiad cost a budd o bob Gweithred: yn ymarferol, mae'n bosibl y bydd maint y taliadau hyn yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael. Os felly, bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu gwariant ar y Gweithredoedd hynny y disgwylir y byddant yn sicrhau'r gwerth gorau am arian.

[93] Mae gwahaniaethau yn nhaliadau amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu gwahaniaethau yn nifer y ffermwyr sy'n cael cymorth a faint o gymorth y bydd pob ffermwr yn ei gael. Mae hyn yn esbonio pam mae'r taliadau yn yr achos "gorau" yn uwch na'r rhai yn yr achos "gwaethaf".

| Gweithred | Manteision disgwyliedig | |
|---|---|---|
| | Economeg ffermydd | Manteision amgylcheddol a manteision ehangach eraill |
| Pennu neu addasu Opsiynau sy'n helpu pobl i ymwneud â'r amgylchedd naturiol a chael mynediad ato | | • Gwell lles yn gysylltiedig â hamddena<br>• Cynhyrchiant gweithlu a gollir sy'n cael ei osgoi o ganlyniad i osgoi salwch<br>• Costau is i'r GIG oherwydd anweithgarwch ac iechyd meddwl gwael |
| Gwell ansawdd dŵr, llif a defnydd, gan gynnwys lliniaru llifogydd | • Gwell proffidioldeb / cynhyrchiant i ffermydd (GYG) | • Gwerth lles yn sgil gwella statws corff dŵr<br>• Costau difrod llifogydd sy'n cael eu hosgoi<br>• Gellir rhoi gwerth ar well cymunedau ecolegol mewn cynefinoedd â blaenoriaeth<br>• Costau'r GIG/iechyd y cyhoedd sy'n cael eu hosgoi |
| Gwella ansawdd aer a lleihau allyriadau amonia | • Gwell proffidioldeb / cynhyrchiant i ffermydd (GYG) oherwydd defnydd mwy effeithlon o wrtaith / maethynnau | • Gellir rhoi gwerth ar well cymunedau ecolegol mewn cynefinoedd â blaenoriaeth<br>• Lles o ganlyniad i wella statws corff dŵr (amwynder, hamddena) |
| Arloesi ac Ymchwil a Datblygu | • Gwell proffidioldeb / cynhyrchiant i ffermydd (GYG) | |
| Gweithgareddau ar raddfa tirwedd, gan gynnwys tir comin a rhywogaethau estron goresgynnol | | • Gwell llesiant mewn cymunedau gwledig<br>• Manteision lles canlyniadau amgylcheddol a sicrheir ar raddfa, ar draws tirwedd benodol |
| Cymorth i'r farchnad a'r gadwyn gyflenwi | • Mwy o arallgyfeirio, allforion a masnach mewn bwyd-amaeth.<br>• Mwy o gynhyrchion bwyd â brand Cymru, a chadwyni cyflenwi lleol cryfach<br>• Gwell prisiau a throsiant i ffermwyr | • Gwell ôl troed carbon drwy gadwyni cyflenwi mwy effeithlon a gwydn |

Mae Tabl 42 yn crynhoi casgliad yr asesiad ansoddol cyffredinol o werth disgwyliedig am arian ar gyfer pob Gweithred Opsiynol a Chydweithredol. Nodir hefyd fod lefel yr hyder yn yr asesiad hwn yn seiliedig ar natur gynhwysol, perthnasedd ac ansawdd y dystiolaeth sydd ar gael. Ceir rhagor o fanylion am y dystiolaeth sylfaenol fel rhan o Atodiad D.

*Tabl 40: Crynodeb o'r asesiad ansoddol o werth am arian Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol lle na chynhaliwyd dadansoddiad cost a budd*

| Gweithred | Manteision | Asesiad o fanteision o'u cymharu â chostau dros y cyfnod 2026-29 |
|---|---|---|
| Rheoli coetir sy'n bodoli eisoes | • Manteision nwyon tŷ gwydr a llygredd aer yn yr Haen Gyffredinol<br>• Gall manteision bioamrywiaeth ychwanegol godi yn yr hirdymor<br>• Mae'n bosibl y bydd incwm o bren yn yr hirdymor hefyd | • Mae'r costau yn gymharol isel a hefyd y manteision tebygol<br>• Yn gyffredinol, lefel isel o werth am arian ar y cychwyn ond bydd yn cynyddu'n araf dros y tymor hwy wrth i fanteision bioamrywiaeth gronni |
| Rhoi mesurau bioddiogelwch fferm o safon uwch ar waith | • Gwell cynhyrchiant<br>• Gwell lles defnyddwyr o ganlyniad i safonau bioddiogelwch gwell | • Mae'r costau yn gymharol isel (sy'n adlewyrchu cyfradd ymuno isel) ond gallai manteision ar lefel fferm, er eu bod |

| Gweithred | Manteision | Asesiad o fanteision o'u cymharu â chostau dros y cyfnod 2026-29 |
|---|---|---|
| | • Risgiau is o ddatblygu ymwrthedd gwrthficrobaidd<br>• Costau is o ganlyniad i achosion o glefydau anifeiliaid | yn isel ar y cychwyn, gael effaith ar unwaith<br>• Gallai'r manteision dros y tymor hwy fod yn sylweddol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â chostau is<br>• Yn gyffredinol, lefel ganolig o werth am arian ar y cychwyn (sy'n adlewyrchu natur uniongyrchol y manteision ar lefel fferm) |
| Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ehangach a mwy datblygedig | • Gwell cynhyrchiant a gwytnwch economaidd fferm yn yr hirdymor o ganlyniad i gymryd rhan mewn DPP/cymhwyso DPP<br>• Gwella lles ffermwyr | • Mae'r costau yn gymharol isel, a bydd y manteision yn dibynnu gan mwyaf ar y ffordd y cymhwysir DPP ar y fferm.<br>• Adlewyrchir cryn ansicrwydd wrth asesu lefel ganolig o werth am arian |
| Cynhyrchu cynaliadwy | • Allyriadau nwyon tŷ gwydr is<br>• Costau is a gwell cynhyrchiant fferm | • Mae'r costau yn gymharol uchel, ond mae'r effaith ar wireddu manteision yn debygol o fod ar unwaith ac am gyfnod estynedig<br>• Adlewyrchir hyn wrth asesu lefel uchel o werth am arian. |
| Pennu neu addasu Opsiynau sy'n helpu pobl i ymwneud â'r amgylchedd naturiol a chael mynediad ato | • Gwell mynediad at weithgareddau hamdden yng nghefn gwlad, gan gynnwys cynhyrchiant gweithlu a gollir sy'n cael ei osgoi o ganlyniad i osgoi salwch, costau is i'r GIG oherwydd anweithgarwch ac iechyd meddwl gwael<br>• Manteision lles o ganlyniad i gerdded yng nghefn gwlad | • Mae'r costau yn gymharol isel, ond mae pob categori o fantais yn sylweddol o bosibl o gymharu â chostau<br>• Mae'r asesiad hwn yn nodi lefel uchel o werth am arian. |
| Gwell ansawdd dŵr, llif a defnydd, gan gynnwys lliniaru llifogydd | • Costau is a defnydd mwy effeithlon o wrteithiau<br>• Gwelliannau o ran ansawdd cyrff dŵr fel afonydd a nentydd<br>• Gwell bioamrywiaeth a llai o gostau o ganlyniad i achosion o lifogydd | • Mae'r costau yn ansicr ac yn dibynnu ar yr opsiynau y mae ffermwyr yn eu dewis<br>• Mae'r dystiolaeth yn gryf y bydd gwella ansawdd cyrff dŵr yn cynyddu gwerth<br>• Mae effeithiau llai o lygredd yn debygol o gael eu gwireddu ar unwaith, ond mae newidiadau yn ansawdd dŵr yn digwydd yn arafach, gan arwain at asesiad gwerth am arian lefel ganolig |
| Gwella ansawdd aer a lleihau allyriadau amonia | • Costau gwrtaith is drwy ddefnyddio technegau amaethyddol manwl<br>• Gwella ansawdd cynefinoedd tirol y mae llygredd aer yn effeithio arnynt | • Mae'r costau yn ansicr ac yn dibynnu ar yr opsiynau y mae ffermwyr yn eu dewis<br>• Mae'r dystiolaeth o effaith a gwerth llai o lygredd aer ar gynefinoedd tirol yn gryf<br>• Ond bydd newidiadau yn digwydd dros gyfnod hwy, gan arwain at asesiad gwerth am arian lefel ganolig |
| Arloesi ac Ymchwil a Datblygu | • O gymhwyso ymchwil a datblygu at arferion amaethyddol a pherfformiad<br>• Effaith gysylltiedig ar gynhyrchiant a phroffidioldeb fferm | • Mae'r costau yn gymharol isel ac mae'r manteision yn ansicr ac yn rhai hirdymor, gan arwain at asesiad gwerth am arian lefel isel ar y cychwyn yn y cyfnod 2026-29 |
| Gweithgarwch ar raddfa tirwedd | • Manteision lles o ganlyniadau amgylcheddol gwell a sicrheir ar raddfa, ar draws tirwedd benodol<br>• Gwell llesiant mewn cymunedau gwledig sy'n cymryd rhan | • Mae'r costau yn gymharol uchel<br>• Mae tystiolaeth dda bod y cam datblygu newydd o'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig wedi arwain at fwy o weithredu a brwdfrydedd i gyflawni'r prosiect ym meysydd y prosiect. |

| Gweithred | Manteision | Asesiad o fanteision o'u cymharu â chostau dros y cyfnod 2026-29 |
|---|---|---|
| | | • Hefyd, ceir tystiolaeth o ffaith prosiectau cydweithredol eraill mew Tirweddau Dynodedig<br>• Mae'n cefnogi'r asesiad o lefel uchel o werth am arian. |
| Cymorth i'r farchnad a'r gadwyn gyflenwi | • Mwy o arallgyfeirio, allforion a masnach mewn bwyd-amaeth<br>• Mwy o gynhyrchion bwyd â brand Cymru<br>• Cadwyni cyflenwi lleol cryfach<br>• Allyriadau nwyon tŷ gwydr is oherwydd cadwyni cyflenwi byrrach<br>• Gwell enillion ar y farchnad i ffermwyr. | • Mae'r costau yn gymharol uchel<br>• Ond o ystyried ansawdd a chadernid tystiolaeth gwerthuso cynlluniau presennol, a'r effaith amlwg y mae'r rhain yn ei chael ar ganlyniadau bwriadedig, asesir hyn fel gwerth da am arian |

### Crynodeb o'r dadansoddiad cost a budd o Haenau Opsiynol a Chydweithredol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer

Mae'r rhan olaf o'r adran hon yn dwyn ynghyd y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer y Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol y mae'r dadansoddiad cost a budd wedi cael ei gynnal yn eu cylch er mwyn amcangyfrif:

- Y manteision net cyffredinol (Gwerth Cymdeithasol Presennol Net) (h.y. gwerth presennol net y manteision cymdeithasol llai gwerth presennol net y costau cymdeithasol);
- Y gymhareb cost a budd gyffredinol sy'n cael ei deillio fel cymhareb y Gwerth Cymdeithasol Presennol Net i daliadau Llywodraeth Cymru i ffermwyr.

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol cyfuno canlyniadau'r saith dadansoddiad cost a budd fel eu bod yn rhoi sail dros gymharu'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol â'r Gweithredoedd Cyffredinol. Gwnaed hyn drwy'r canlynol:

- Pwysoli canlyniadau'r dadansoddiad cost a budd ar gyfer pob Gweithred yn ôl maint y gweithgarwch fel y'i mesurir yn ôl y taliadau disgwyliedig gan Lywodraeth Cymru;
- Cyfyngu ar wariant cyffredinol – yn ôl y gofyn – yn seiliedig ar y gyllideb sydd ar gael (ar gyfer Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol): amcangyfrifwyd y gyllideb sydd ar gael fel y swm sy'n weddill ar ôl caniatáu ar gyfer taliadau disgwyliedig i ffermwyr o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) neu Fusnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) a chostau gweinyddol Llywodraeth Cymru (sy'n cael eu deillio o'r Achos Ariannol).

Yna, gellir dehongli'r canlyniadau fel amcangyfrifon o gostau a manteision cyffredinol disgwyliedig yr holl Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol cychwynnol, gan gydnabod nad yw'n ddichonadwy ar hyn o bryd gynnal dadansoddiad cost a budd dibynadwy ar gyfer yr holl Weithredoedd Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu trin y Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol hynny y mae'r costau a'r manteision economaidd wedi cael eu hamcangyfrif fel rhai sy'n cynrychioli'r holl Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol cychwynnol (ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r amcangyfrifon hyn).

Mae Tabl 43 yn crynhoi Gwerth Cymdeithasol Presennol Net cynyddrannol amcangyfrifedig a'r Gymhareb Cost a Budd ar gyfer pob un o'r Gweithredoedd lle mae dadansoddiad cost a budd wedi cael ei gwblhau. Mae hyn yn seiliedig ar gymharu'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir â Busnes fel Arfer ar sail yr achos "gorau" ac achos "gwaethaf". Mae'r pwyntiau allweddol i'w nodi fel a ganlyn:

- Mae Cymhareb Cost a Budd gyffredinol y Gweithredoedd Opsiynol rhwng 3.0 (achos "gwaethaf") ac 8.5 (achos "gorau"): mae hyn dipyn yn fwy na manteision disgwyliedig y Gweithredoedd Cyffredinol;
- Amcangyfrifir y bydd pedair o'r saith Gweithred Opsiynol yn arwain at Gymhareb Cost a Budd gynyddrannol ddisgwyliedig o fwy na 6;

- Mae'r ddwy Weithred Opsiynol lle mae'r Gymhareb Cost a Budd gynyddrannol yn waeth yn achosion lle nad yw manteision sylweddol o bosibl wedi cael eu cynnwys am y rhesymau a amlinellir uchod: dyma'r Gweithredoedd Opsiynol hefyd lle y disgwylir i gyfanswm y taliadau oddi wrth Lywodraeth Cymru fod yn fach;
- Cyfanswm y Gymhareb Cost a Budd yw cyfanswm Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (GCPN) y Gweithredoedd Opsiynol wedi'i rannu â chyfanswm taliadau Llywodraeth Cymru.

*Tabl 41*: *Gwerth am arian amcangyfrifedig Gweithredoedd Opsiynol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir*

| Gweithred | GCPN (£m, GPN) | | Cymhareb cost a budd | |
|---|---|---|---|---|
| | Achos gorau | Achos gwaethaf | Achos gorau | Achos gwaethaf |
| Creu coetir ac amaethgoedwigaeth newydd | 390.0 | 35.8 | 6.40 | 1.41 |
| Rheoli a gwella cynefinoedd | 79.3 | 34.9 | 9.52 | 4.09 |
| Ymgymryd â gweithredoedd rheoli tir yn gynaliadwy mewn Cynllun Rheoli Safle Dynodedig | 360.2 | 168.2 | 28.54 | 12.51 |
| Adfer gwrychoedd neu blannu rhai newydd | 1.5 | 0.4 | 1.10 | 1.21 |
| Ymgymryd â gweithredoedd i wella iechyd pridd a chyflwyno gorchudd cnydau amlrywogaethol. | -0.2 | -0.2 | 0.11 | 0.04 |
| Cefnogi ffermio organig (ardystiedig a throsi) | 26.1 | 4.1 | 15.50 | 4.76 |
| Creu cynefinoedd dros dro a rhai parhaol | -1.8 | -1.4 | 0.13 | 0.10 |
| **Cyfanswm** | **855.1** | **241.9** | **8.53** | **3.04** |

Fel yn achos y dadansoddiad o gostau a manteision yr Haen Gyffredinol yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, mae'n bwysig cydnabod na fydd pob un o fanteision economaidd (na chostau) yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol yn cael eu hadlewyrchu yn y canlyniadau yn Nhabl 43.

## *Costau gweinyddol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer (h.y. Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau buddsoddi gwledig)*

Costau gweinyddol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer (h.y. Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau buddsoddi gwledig) yw'r costau y mae Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Taliadau Gwledig Cymru) a CNC yn mynd iddynt: ystyrir costau disgwyliedig ffermwyr sy'n cymryd rhan ar wahân isod.

Mae Tabl 44 yn crynhoi'r costau amcangyfrifedig yn y cyfnod o 2026 i 2029[94]:

- Mynegir y costau hyn ar brisiau 2025 cyson yn nhermau gwerth presennol net;
- Caiff unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chymorth heblaw'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer eu hepgor lle y bo modd (e.e. rheoliadau sy'n effeithio ar ffermwyr);
- Ni chynhwysir unrhyw gostau suddiedig (h.y. y costau y disgwylir mynd iddynt cyn 1 Ionawr 2026 wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy).

Disgwylir i gostau parhaus cyflawni'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer fod yr un fath o ystyried bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi mynd iddynt neu wedi'u neilltuo (h.y. cânt eu trin fel costau suddiedig).

Esbonnir y tybiaethau sy'n ysgogi'r costau amcangyfrifedig yn yr Achos Ariannol. Ni fu modd gwahaniaethu rhwng y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â Haen Gyffredinol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a chostau'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol. Yn yr un modd, ni ellir gwahanu costau Busnes fel Arfer oddi wrth y costau sy'n gysylltiedig â Chynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig.

[94] Daw'r costau o'r Achos Ariannol ac fe'u mynegir ar sail prisiau cyson yn hytrach nag ar sail prisiau presennol.

*Tabl 42*: *Costau gweinyddol disgwyliedig y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer (£m, GPN, 2026-2029)*

| | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | |
| Gweinyddu | 40.8 | 31.6 | 31.7 | 32.1 |
| Cyngor ac arweiniad | 24.1 | 29.8 | 29.3 | 28.9 |
| **CNC** | 1.6 | 1.2 | 1.1 | 1.1 |
| **Cyfanswm** | **66.5** | **62.6** | **62.2** | **62.1** |

## *Dadansoddiad integredig o'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer*


Mae'r rhan olaf o'r dadansoddiad yn ceisio cyfuno'r canlyniadau ar gyfer y Gweithredoedd Cyffredinol yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir â'r rhai ar gyfer y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol er mwyn eu cymharu â'r canlyniadau cyfatebol ar gyfer Busnes fel Arfer (h.y. Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau buddsoddi gwledig). Mae hyn yn rhoi sylfaen i ddeall elfen bwysig o'r asesiad gwerth am arian posibl o'r gwahanol Opsiynau dros y Cyfnod Pontio.

Dangosir y camau allweddol wrth amcangyfrif Cymarebau Cost a Budd cyffredinol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer yn Ffigur 2. Maent yn cynnwys:

- Amcangyfrif y gyllideb sydd ar gael i'w dosbarthu i ffermwyr drwy ddidynnu costau disgwyliedig Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gweinyddu'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer, gan gynnwys costau disgwyliedig rhoi cyngor ac arweiniad yn seiliedig ar y caffaeliadau ategol a amlinellir yn yr Achos Ariannol[95];
- Amcangyfrif y taliadau disgwyliedig i bob ffermwr ar gyfer y Gweithredoedd Cyffredinol a Chynllun y Taliad Sylfaenol ym mhob blwyddyn o'r Cyfnod Pontio drwy allosod canlyniadau'r Llwyfan Modelu Integredig ar gyfer ffermwyr amser llawn dros bob fferm a thir comin yn seiliedig ar yr ardal a gaiff ei ffermio;
- Amcangyfrif gwerth presennol net disgwyliedig manteision y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) a Busnes fel Arfer (Cynllun y Taliad Sylfaenol) drwy luosi gwerth presennol y taliadau â Chymhareb Cost a Budd amcangyfrifedig briodol ar gyfer pob Opsiwn;
- Deillio'r gyllideb bosibl sydd ar gael ar gyfer y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a chynlluniau buddsoddi gwledig fel gweddill cyllideb Llywodraeth Cymru llai'r costau gweinyddol a'r taliadau i ffermwyr o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer ac yna amcangyfrif taliadau disgwyliedig Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar dybiaethau ynglŷn â chyfran y gyllideb sydd ar gael sy'n cael ei dosbarthu yn dibynnu ar lefel ac ansawdd y galw gan ffermwyr i gymryd rhan yn y Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol a'r canlyniadau disgwyliedig;
- Amcangyfrif gwerth presennol net disgwyliedig manteision y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a chynlluniau buddsoddi gwledig drwy luosi gwerth presennol y taliadau o dan bob senario â'r Gymhareb Cost a Budd bwysoledig amcangyfrifedig berthnasol ar gyfer y Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol a Chynllun y Taliad Sylfaenol;
- Adio gwerth presennol net disgwyliedig manteision y Gweithredoedd Cyffredinol ac Opsiynol a Chydweithredol (a Chynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau buddsoddi gwledig) â'i gilydd a'i rannu â chyfanswm disgwyliedig taliadau Llywodraeth Cymru i ffermwyr er mwyn amcangyfrif y Gymhareb Cost a Budd gyffredinol ar gyfer pob un o'r Opsiynau.

[95] Mae hyn yn seiliedig ar y costau yn yr Achos Ariannol wedi'u trosi'n sail prisiau cyson ond nid yw'n cynnwys costau rhedeg adrannol.

*Ffigur 2: Amcangyfrif gwerth am arian cyffredinol yr Opsiynau*




Er mwyn cydnabod rhai o'r elfennau o ansicrwydd, cyflwynir y dadansoddiad hwn fel achos canolog a'r ddau senario arall a ddisgrifir uchod sy'n ochr yn ochr â'i gilydd:

- Mae achos "gorau" rhesymol yn cynnwys:
  - Ffermwyr yn ymuno â'r Haen Gyffredinol yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir ar gyfradd gyflym;
  - Gwerth cymdeithasol carbon uchel;
  - Y gyfran uchaf o'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer Haenau Opsiynol a Chydweithredol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn cael ei dosbarthu;
  - Y Gymhareb Cost a Budd uchaf ar yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol yn cael ei gwireddu;
- Achos "gwaethaf" posibl:
  - Ffermwyr yn ymuno â'r Haen Gyffredinol yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir ar gyfradd araf;
  - Gwerth cymdeithasol carbon isel;
  - Llai o'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer Haenau Opsiynol a Chydweithredol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn cael ei ddosbarthu;
  - Y Gymhareb Cost a Budd isaf ar yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol yn cael ei gwireddu.

Yna, gellir estyn y dadansoddiad hwn i ystyried sut y gallai gwerth am arian yr Opsiynau ddatblygu yn y cyfnod o bum mlynedd ar ôl y Cyfnod Pontio. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y caiff elfen o'r cyllid yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir ei dyrannu oddi wrth yr Haen Gyffredinol ac i'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol o fewn cyllideb a fydd yn aros yn gyson mewn termau real ar lefelau 2029. Er mwyn dangos y goblygiadau posibl, tybir y bydd y gyllideb ar gyfer yr Haen Gyffredinol yn cael ei lleihau 10% bob blwyddyn ac y bydd yr adnodd a ryddheir yn cael ei symud i'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol.

Crynhoir canlyniadau allweddol y dadansoddiad yn **Error! Reference source not found.**.

- Disgwylir i'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithas sicrhau lefel uwch o enillion dros y Cyfnod Pontio na Busnes fel Arfer (h.y. fel y'i mesurir gan y Gymhareb Cost a Budd);
- Disgwylir i GCPN y Ffordd Ymlaen a Ffefrir dros y Cyfnod Pontio fod rhwng £1.4b a £2.5bn gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol a £1.6bbn a £4.3bn gyda chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol: mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae GCPN ar gyfer Busnes fel Arfer rhwng £0.4bn a £0.9bn;
- Yn yr achos canolog, amcanestynnir Cymarebau Cost a Budd o 1.82 (gyda'r Taliad Gwerth Cymdeithasol uchel) a 2.22 (gyda'r Taliad Gwerth Cymdeithasol isel) ar gyfer y Ffordd Ymlaen a Ffefrir: ceir Cymhareb Cost a Budd o 0.48 ar gyfer Busnes fel Arfer;
- Amcangyfrifir Cymarebau Cost a Budd o 2.08 (Taliad Gwerth Cymdeithasol uchel) a 2.94 (Taliad Gwerth Cymdeithasol isel) ar gyfer y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn y pum mlynedd y tu hwnt i'r Cyfnod Pontio (h.y. 2030 i 2034);

- Amcangyfrifir y bydd GCPN y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn y pum mlynedd ar ôl y Cyfnod Pontio rhwng £1.7b a £3.9bn gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol a £2.0bbn a £5.3bn gyda chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol: mewn gwrthgyferbyniad, mae GCPN ar gyfer Busnes fel Arfer rhwng £0.3bn a £0.7bn.

*Tabl 43*: *Gwerth am arian amcangyfrifedig y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer*

| | **GCPN (£m, GPN)** | | | **Cymhareb Cost a Budd** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Achos gorau** | **Achos canolog** | **Achos gwaethaf** | **Achos gorau** | **Achos canolog** | **Achos gwaethaf** |
| **Cyfnod Pontio (2026 – 2029)** | | | | | | |
| Ffordd Ymlaen a Ffefrir | | | | | | |
| • Cyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol (£115 yr hectar) | 2,522.3 | 2,391.3 | 1,372 | 1.87 | 1.82 | 1.09 |
| • Cyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol (£70 yr hectar) | 4,334.5 | 2,458.8 | 1,625.6 | 3.24 | 2.22 | 1.34 |
| Busnes fel Arfer | 851.9 | 614.8 | 360.8 | 0.67 | 0.48 | 0.28 |
| **Ar ôl y Cyfnod Pontio (2030-2034)** | | | | | | |
| Ffordd Ymlaen a Ffefrir | | | | | | |
| • Cyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol (£115 yr hectar) | 3,8893.1 | 2,845.7 | 1,720.0 | 2.79 | 2.08 | 1.35 |
| • Cyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol (£70 yr hectar) | 5,334.1 | 3,667.9 | 1,950.8 | 3.86 | 2.94 | 1.58 |
| Busnes fel Arfer | 716.3 | 527.8 | 347.2 | 0.63 | 0.47 | 0.31 |

Mae'r GCPNau a'r Cymarebau Cost a Budd a amcangyfrifir yn seiliedig ar rai tybiaethau pwysig nad ydynt o bosibl yn adlewyrchu'r holl elfennau o ansicrwydd sylweddol sy'n effeithio ar y canlyniadau. Gallai gwyriadau oddi wrth y tybiaethau hyn effeithio ar y Cymarebau Cost a Budd a wireddir. Fel rhan o'r broses o reoli ansicrwydd o'r fath, caiff rhaglen weithredol o fonitro a gwerthuso ei chynnal.

## *Crynodeb a chasgliad*

Mae'r dadansoddiad gwerth am arian yn yr Achos Economaidd yn canolbwyntio ar ddau gwestiwn allweddol:

- A yw'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (yn seiliedig ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) yn well na Busnes fel Arfer (yn seiliedig ar Gynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig) ac a yw'n cynnig adenillion digonol?
- Os felly, beth yw'r gyfradd gychwynnol a ffefrir ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol o ystyried y manteision hirdymor dynamig posibl y gallai ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gam cynnar eu cynnig?

Mae'r rhan olaf hon yn dwyn ynghyd y dystiolaeth gynharach i ymdrin â phob cwestiwn yn ei dro.

### A yw'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn well na Busnes fel Arfer ac a yw'n cynnig gwerth am arian digonol?

Mae'r dadansoddiad wedi ystyried yr Haen Gyffredinol ar wahân i'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol ac yna wedi cyfuno'r canlyniadau i roi barn gyffredinol ar y ddau Opsiwn. Mae'r ffocws wedi bod ar yr effeithiau yn ystod y Cyfnod Pontio (h.y. 2026-2029 yn gynwysedig).

Mae'r dadansoddiad o'r Haen Gyffredinol yn seiliedig ar waith modelu ar y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (gan ddefnyddio dwy gyfradd dybiedig wahanol ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol – cyfradd uchel o £115 yr hectar a chyfradd isel o £70 yr hectar). Mae Busnes fel Arfer yn seiliedig ar barhad Cynllun y Taliad Sylfaenol. Mae'r dadansoddiad o'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol yn seiliedig ar ddadansoddiadau cost a budd o saith Gweithred Opsiynol lle ceir tystiolaeth ddigonol[96].

[96] Mae'r bylchau yn y dystiolaeth ar gyfer y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol arfaethredig eraill yn golygu mwy o ddibyniaeth ar dybiaethau i amcangyfrif Cymhareb Cost a Budd gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ei gyfanrwydd.

Yn gyffredinol, o ystyried yr Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol gyda'i gilydd, disgwylir i'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda chyfradd uchel ac isel y Taliad Gwerth Cymdeithas sicrhau lefel uwch o adenillion dros y Cyfnod Pontio na Busnes fel Arfer (h.y. fel y'i mesurir gan y Gymhareb Cost a Budd). Yn yr achos canolog, cymhareb Cost a Budd amcangyfrifedig gyffredinol Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda'i gilydd yw 1.82 (gyda chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115) a 2.22 gyda chyfradd o £70 o gymharu â 0.48 ar gyfer Busnes fel Arfer[97].

At hynny, disgwylir i'r dadansoddiad – yn enwedig y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol – fod yn fwy tebygol o danamcangyfrif y manteision disgwyliedig yn hytrach na goramcangyfrif y costau oherwydd ystod ac arwyddocâd tebygol y manteision a hepgorir.

At hynny, gan edrych y tu hwnt i'r Cyfnod Pontio, disgwylir i'r gwahaniaeth rhwng y Cymarebau Budd a Chost ar gyfer y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer dyfu wrth i lefel gymharol fwy o adnoddau gael eu dyrannu i'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol (a llai i'r Haen Gyffredinol) ac wrth i ffermwyr ddod yn fwy effeithlon o ran bodloni gofynion y Cynllun a sicrhau'r manteision a ddymunir.

Mae'r Gymhareb Cost a Budd gyffredinol ar gyfer y gwahanol Opsiynau dros y Cyfnod Pontio yn dibynnu ar y canlynol:

- Faint o ffermydd sy'n dewis ymuno â'r cynllun o dan bob Opsiwn a pha mor gyflym;
- Faint o'r gyllideb sydd ar gael i Lywodraeth Cymru y bydd ei angen i weinyddu pob Opsiwn[98];
- Pa gyfran o'r gyllideb flynyddol sydd ar gael sy'n cael ei hamsugno gan yr Haen Gyffredinol;
- Pa gyfran o'r gyllideb flynyddol sy'n weddill y gellir ei buddsoddi yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol;
- Pa gyfran o gyllid y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a ddyfernir ar sail ddisgresiynol, er enghraifft yn dibynnu ar yr adenillion disgwyliedig a'r
- Adenillion cymharol disgwyliedig a sicrheir gan daliadau drwy'r Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol.

Felly, mae'n bwysig deall adenillion disgwyliedig yr Haen Gyffredinol ar wahân i adenillion yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol.

Yn seiliedig ar ddwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol, disgwylir i'r Haen Gyffredinol gynhyrchu lefel uwch o adenillion na Busnes fel Arfer[99]: yn yr achos canolog, disgwylir i'r Haen Gyffredinol gynhyrchu mwy o adenillion na Busnes fel Arfer: y Cymarebau Cost a Budd ar gyfer cyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol a chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol yw 1.26 a 1.6 o gymharu â 0.56 ar gyfer Busnes fel Arfer[100].

Wrth asesu'r Cymarebau Cost a Budd ar gyfer yr Haen Gyffredinol yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, fel y'i hesbonnir uchod, mae'n bwysig nodi bod:

- Y manteision disgwyliedig yn codi'n araf ac y bydd yn cronni dros y tymor canolig a'r hirdymor (h.y. y tu hwnt i'r Cyfnod Pontio) yn dibynnu ar agweddau a dulliau gweithredu ffermwyr sy'n gwneud gwaith dilynol ar eu Gweithredoedd fel rhan o'r Haen Gyffredinol[101];
- Dim ond drwy gymryd rhan yn yr Haen Opsiynol y bydd rhai manteision sylweddol yn codi: bydd yr Haen Gyffredinol yn talu am gostau cychwynnol datblygu cynlluniau a fydd ond yn sicrhau manteision gwirioneddol pan fydd y gweithredoedd a bennir ynddynt yn cael eu rhoi ar waith, o bosibl gyda rhagor o gymorth fel rhan o'r Haen Opsiynol[102].

---

[97] Cyflwynir y canlyniadau sylfaenol yn **Error! Reference source not found.**.
[98] Dadansoddir taliadau i ffermwyr fel swm gweddilliol.
[99] Ni ddylid ystyried y Cymarebau Cost a Budd ar gyfer yr Haen Gyffredinol ar wahân i'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol am eu bod yn dibynnu ar ei gilydd fel y'i hesbonnir mewn man arall.
[100] Cyflwynir y canlyniadau sylfaenol yn **Error! Reference source not found.**.
[101] Er enghraifft, canfu'r gwerthusiad o Raglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaethau Cynghori Llywodraeth Cymru fod "[y] *gefnogaeth yn arwain at newidiadau ar raddfa fach, cynyddraddol dros gyfnod o amser, yn aml drwy gyflwyno dulliau mwy proffesiynol ar gyfer rheoli busnes a gwelliannau iechyd ac amgylcheddol....[mae'r] enillion bach hyn ar draws llawer o agweddau o'r busnes, yn gyfanredol, yn cynorthwyo i greu mentrau mwy hyfyw a chynaliadwy yn y tymor hwy".*
[102] Dyma un o'r rhesymau pam mae'n bwysig hyrwyddo mabwysiadu'r Haen Gyffredinol ar gam cynnar ac ar raddfa fawr: po fwyaf o ffermwyr sy'n ymuno, y mwyaf tebygol y byddant yn ymgymryd â'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol.

Mae'r Gymhareb Cost a Budd ar gyfer yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol yn dibynnu ar y ffordd yr ymdrinnir â chymorth parhaus ar gyfer cynlluniau buddsoddi gwledig fel rhan o Fusnes fel Arfer[103]: bydd cynnwys gweithgarwch cynyddrannol a gefnogir gan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn unig yn golygu mai Cymhareb Cost a Budd ddisgwyliedig

yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol yw 5.02 o gymharu â 0.74 ar gyfer Busnes fel Arfer: dylid nodi cyfyngiadau'r amcangyfrifon hyn wrth ddehongli ffigurau cyfanredol y Gymhareb Cost a Budd.

Mae'r Cymarebau Cost a Budd ar gyfer yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol yn hepgor sawl mantais bosibl o ran cynhyrchiant a'r amgylchedd sy'n gysylltiedig â'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a nodwyd gan adolygiad annibynnol o'r dystiolaeth – gweler Tabl 46[104]. Er enghraifft, mae'r asesiad o'r Weithred i adfer gwrychoedd neu blannu rhai newydd yn hepgor manteision gwell atafaelu carbon, gwell ansawdd dŵr a thirwedd a chostau peillio a osgoir. Nid yw'n hawdd pennu gwerth i'r rhain ac, felly, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y Cymarebau Cost a Budd amcangyfrifedig. Er mai un o amcanion y Weithred yw gwireddu'r manteision hyn, mae'n anodd mesur pa mor fawr fyddent o bosibl[105].

Mae casgliad y dadansoddiad gwerth am arian yn glir: bydd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn sicrhau gwell gwerth am arian na Busnes fel Arfer felly mae'n well opsiwn. Gan ystyried y manteision nad ydynt wedi'u cofnodi yn y Gymhareb Cost a Budd lle pennir gwerth ariannol, bernir bod y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn cynnig gwerth am arian digonol hefyd.

Mae Tabl 46 yn crynhoi'r asesiad o'r rhestr fer o opsiynau yn erbyn amcanion hirdymor allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r ffactorau llwyddiant allweddol. Mae'r pwyntiau allweddol i'w nodi fel a ganlyn:

- Dim ond y Ffordd Ymlaen a Ffefrir sy'n cysylltu budd i ffermwyr â chyflawni holl amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a Busnes fel Arfer yr opsiwn gwaethaf;
- Ar y cyfraddau a fodelwyd, amcangyfrifir y bydd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn sicrhau lefelau tebyg iawn o ffermwyr yn cymryd rhan;
- Bydd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar lefel fwy sylweddol na Busnes fel Arfer.

*Tabl 44*: *Crynodeb o'r asesiad o'r rhestr fer o opsiynau*

| **Opsiwn** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (cyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol)** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (cyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol)** | **Busnes fel Arfer** |
|---|---|---|---|
| 1. Cyfranogiad cyffredinol gan ffermwyr | | | |
| 2. Mabwysiadu arferion ffermio mwy cynaliadwy | | | |
| 3. Cynnal/gwella gwytnwch ffermydd | | | |
| 4. Allyriadau nwyon tŷ gwydr is | | | |
| 4. Rheolir o leiaf 10% o'r fferm er budd bioamrywiaeth | | | |
| 5. Rheolir safleoedd hanesyddol yn well | | | |

[103] O ran dwy o'r Gweithredoedd Opsiynol, bydd y canlyniadau o bosibl yn cael eu hystumio'n sylweddol os caiff gweithgareddau presennol cynlluniau buddsoddi gwledig eu cynnwys (Organig a SoDdGAau). Am y rheswm hwn, dim ond y gweithgareddau cynyddrannol sy'n cael eu cynnwys.

[104] Miller Research (2025) *Evidence review of proposed SFS Optional & Collaborative Themes*, adroddiad i Lywodraeth Cymru

[105] Cydnabyddir y risg o gyfrif dwbl posibl o ran manteision, ond mae ymchwil gan y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd yn awgrymu mai cyfyngedig yw'r risg hon. Adroddiad-40 ERAMMP, 2020, Prisiad Economaidd o'r CFfC: Cadwyni Rhesymeg.

Gyda'i gilydd, disgwylir i'r Gweithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol gyfrannu at amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac amcanion statudol ehangach rheoli tir yn gynaliadwy. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â nhw fel a ganlyn:

- Os bydd lefel wael o ffermwyr yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ymgymryd â nhw;
- Os na fydd y ffermwr yn troi Gweithredoedd yn newidiadau mewn arferion ffermio ac yn well canlyniadau amgylcheddol.
- Os bydd cymorth ar gyfer cyngor, arweiniad ac arloesi yn cael effaith gyfyngedig ar gynhyrchiant ac effeithiolrwydd fferm.

Caiff y risgiau hyn eu lliniaru gan lefelau talu sy'n rhoi cymhelliant i ymgymryd â gweithredoedd ac yn sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Bydd strategaeth monitro a gwerthuso gynhwysfawr i helpu yn hyn o beth, a fydd yn sail i addasiadau amserol, lle y bo angen.

### Beth yw'r gyfradd gychwynnol a ffefrir ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy?

Yr ail gam allweddol yw pennu'r gyfradd gychwynnol a ffefrir ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a fydd yn sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae hyn yn golygu deall y cydbwysedd cywir rhwng:

- Sicrhau bod cynifer o ffermydd â phosibl yn ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy mor gyflym â phosibl a thrwy hynny fanteisio ar y manteision dynamig posibl, yn ystod y Cyfnod Pontio a thu hwnt;
- Sicrhau bod cost y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn fforddiadwy: mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu:
    - Y dylid cyfyngu'r gyllideb ar gyfer yr Haen Gyffredinol i gyllideb Cynllun y Taliad Sylfaenol presennol (h.y. (£238m);
    - Y dylai'r gyllideb gyffredinol fod ar yr un lefel â'r cymorth presennol i ffermwyr (£367m[106]).

Fel man cychwyn, mae'r dadansoddiad yn defnyddio tystiolaeth y gwaith modelu ar ddwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol: cyfradd uchel (£115 yr hectar) a chyfradd isel (£70 yr hectar). Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd ystyried y goblygiadau os pennir cyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol o fewn yr amrediad hwn neu, yn wir, yn uwch neu'n is na hynny.

Ar yr un pryd, mae angen asesu goblygiadau ehangach gwahanol gyfraddau ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol sy'n golygu defnyddio tystiolaeth arall sy'n effeithio ar gostau a manteision disgwyliedig gwahanol gyfraddau ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol: mae canlyniadau'r gwaith modelu yn dangos rhai o'r goblygiadau yn seiliedig ar wahanol gyfraddau ar sail set o dybiaethau, ond nid ydynt yn rhoi'r darlun llawn.

Mae angen hefyd i'r dadansoddiad wahaniaethu rhwng yr effeithiau posibl dros y Cyfnod Pontio o effeithiau mwy sylweddol, ond llai sicr yn y tymor canolig i'r tymor hwy, er enghraifft yn y cyfnod o bum mlynedd sy'n dilyn.

Mae i'r dystiolaeth sydd ar gael dair rhan:

- Crynodeb o gostau, manteision a fforddiadwyedd y Ffordd Ymlaen a Ffefrir os pennir cyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol ar £115 yr hectar (uchel) neu £70 yr hectar (isel) dros:
    - Y Cyfnod Pontio (o 2026 i 2029);
    - Y tymor canolig i'r tymor hwy (o 2030 i 2034);
- Y goblygiadau o ran costau, manteision a fforddiadwyedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy os pennir cyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol ar sero neu'n uwch na £115 yr hectar;

[106] Esbonnir sail y gyllideb yn llawnach fel rhan o'r Achos Ariannol.

- Adran i gloi, sy'n archwilio'r hyn y dylid ei bennu'n gyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol a ffefrir, fel yr awgryma'r dystiolaeth a'r dadansoddiad, o ystyried yr awydd i sicrhau bod cynifer o ffermwyr yn ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o fewn y gyllideb sydd ar gael a hefyd sicrhau gwerth am arian.

### *Costau, manteision a fforddiadwyedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy dros y Cyfnod Pontio*

Mae'r Cymarebau Cost a Budd amcangyfrifedig a ddeilliodd o'r gwaith modelu ar gyfer y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda gwahanol gyfraddau ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn awgrymu rhai gwahaniaethau pwysig: mae'r Gymhareb Cost a Budd gyffredinol ar gyfer y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn amrywio o 1.09 (yr achos gwaethaf) i 1.87 (yr achos gorau) o gymharu â 1.34 a 3.24 yn y drefn honno gyda chyfradd isel Taliad Gwerth Cymdeithasol. Tybir bod y Gymhareb Cost a Budd amcangyfrifedig ar gyfer yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol yn y dadansoddiad hwn yn annibynnol ar gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol (h.y. nid yw'n adlewyrchu unrhyw gysylltiadau cadarnhaol rhwng ymddygiad ffermwyr yn yr Haen Gyffredinol a Haenau eraill y cynllun), felly gellir priodoli'r gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon hyn i'r Haen Gyffredinol.

Fodd bynnag, mae'r prif ganlyniadau hyn yn celu rhai gwahaniaethau pwysig o bosibl yn y ddynameg sy'n eu hysgogi ac, felly, y ffordd y dylid eu dehongli a/neu eu haddasu i roi gwell arwydd o'r adenillion tebygol:

- Mae angen ystyried sut y bydd cyfradd ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn wahanol yn dibynnu ar gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol: yr allwedd i hyn yw deall sut yr effeithir ar Incwm Busnes Fferm a sut mae ffermydd yn ymateb;
- Mae angen cymharu'r manteision sy'n cronni, a mesur arwyddocâd mabwysiadu gweithredoedd yn gynnar, yn amgylcheddol yn bennaf;
- Mae angen asesu effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol newidiadau yn Incwm Busnes Fferm;
- Mae angen archwilio'r goblygiadau ar gyfer fforddiadwyedd.

*Ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Fel yr esbonnir uchod, mae gwaith modelu'r Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol yn amcangyfrif effaith gwahanol gyfraddau'r Taliad Gwerth Cymdeithasol ar Incwm Busnes Fferm cyfanredol o gymharu â senario lle mae ffermwyr yn aros yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol: yn gyffredinol, gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol (£115 yr hectar) a chan dybio cyfradd ymuno o 100%, bydd Incwm Busnes Fferm y sector ffermio £67m yn llai nag y byddai o dan gyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol (£70 yr hectar)[107]. At hynny, nid yw'r effaith hon yn unffurf rhwng pob math o fferm. Amcangyfrifir y bydd ffermydd defaid arbenigol yn yr AdAF yn gweld cynnydd o £24.0m yn eu Hincwm Busnes Fferm gyda Thaliad Gwerth Cymdeithasol ar ffurf uchel (o gymharu â Thaliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd isel), a bydd ffermydd pori cymysg yn yr ALFf yn gweld cynnydd o £17.6m;[108].


Bydd y gwahaniaethau hyn yn effaith dwy gyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol ar Incwm Busnes Fferm yn effeithio ar y cymhelliant i ymuno â Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar ôl caniatáu ar gyfer tapro taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol. Mae Ffigur 3 yn dangos sut y disgwylir i'r gyfradd ymuno amcangyfrifedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (Haen Gyffredinol) fod yn gyflymach gyda'r Taliad Gwerth Cymdeithasol uchel na'r Taliad Gwerth Cymdeithasol isel yn yr achos canolog:

- Yn 2026, os caiff Cynllun y Taliad Sylfaenol ei dapro i 60%, bydd tua 4,100 yn fwy o ffermydd wedi ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Yn 2027, os caiff Cynllun y Taliad Sylfaenol ei dapro i 40%, bydd 4,900 o ffermydd ychwanegol wedi ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Yn 2028, os caiff Cynllun y Taliad Sylfaenol ei dapro i 20%, bydd tua 2,300 yn fwy o ffermydd yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

[107] Gellir ystyried y dadansoddiad hwn yn un "achos gwaethaf" oherwydd mae'r Incwm Busnes Fferm a gollir os telir cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yn cynnwys yr holl stoc a waredir mewn busnesau fferm ac yn tybio bod pob fferm yn ysgwyddo costau cydymffurfio ychwanegol, na fydd yn wir o bosibl ym mhob achos.

[108] Daw'r effeithiau hyn ar Incwm Busnes Fferm o ddadansodiad y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol ac fe'u mynegir yn ôl prisiau 2023.

*Ffigur 3: Cyfradd ymuno amcangyfrifedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o dan wahanol gyfraddau Taliad Gwerth Cymdeithasol (achos canolog)*




Glas - FfYaFf – Taliad Gwerth Cymdeithasol uchel (£115 yr hectar)
Oren - FfYaFf – Taliad Gwerth Cymdeithasol isel (£70 yr hectar)

*Goblygiadau ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gam cynnar*

Mae Taliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd uchel sy'n rhoi cymhelliant i ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gynharach (ac yn cyflawni hynny) hefyd yn cynnig manteision anuniongyrchol pwysig eraill o bosibl:

- Mae'n golygu y bydd disgwyl i'r manteision amgylcheddol ddechrau cael eu gwireddu'n gynt.
- Mae'n rhoi mwy o gyfle i ffermwyr wireddu manteision masnachol: nid adlewyrchir y manteision hyn yn y Cymarebau Cost a Budd a fodelwyd, ond byddant yn gwella gwytnwch economaidd a chynaliadwyedd mabwysiadwyr cynnar.
- Mae'n annog ffermwyr i wneud mwy i wireddu manteision bwriadedig (ond anuniongyrchol) y Gweithredoedd Cyffredinol.
- Mae'n cynnig y cyfleoedd yn Haenau Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gynt, lle y disgwylir i ychwanegedd a gwerth am arian fod yn well (na'r Haen Gyffredinol): gellir dangos hyn drwy ddwy enghraifft.
  - Yn gyntaf, ar hyn o bryd, mae llawer o ffermwyr ond yn cymryd rhan yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol. Fel y dengys tystiolaeth o Gynllun Cynefin Cymru, er bod Cynllun Cynefin Cymru wedi bod yn agored i bob fferm o 2024, dim ond 2,041 o fusnesau fferm (13% o ffermydd amser llawn) a hawliodd daliadau o dan Gynllun Cynefin Cymru. [109]
  - Yn ail, mae manteision y Weithred Opsiynol ynglŷn â bioddiogelwch yn cynnwys lleihau'r risg o gostau niwed sylweddol iawn sy'n gysylltiedig ag achosion o glefyd ymhlith anifeiliaid: yn ôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol[110], costiodd clwy'r traed a'r genau yn 2001 £102 miliwn i Lywodraeth Cymru ac amcangyfrifwyd £90 miliwn arall o gostau heb eu digolledu i ddiwydiannau amaethyddol a chadwyni bwyd a lladdwyd dros filiwn o anifeiliaid ar oddeutu 1,000 o ffermydd oherwydd yr haint, cysylltiad peryglus neu am resymau lles.
- Mae'n hollbwysig i lwyddiant hirdymor y Cynllun Ffermio Cynaliadwy am ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr weithredu mewn ffyrdd nad ydynt wedi dewis gweithredu ynddynt yn flaenorol (e.e. profion pridd i ganfod a oes angen mewnbynnau megis gwrtaith mewn gwirionedd, gan arbed arian i'r ffermwr a lleihau llygredd): mae'n bosibl y byddai'r niferoedd sy'n ymgymryd â'r Gweithredoedd hyn yn fwy nag y byddent gyda Thaliad Gwerth Cymdeithasol isel (a fyddai hefyd yn annhebygol o allu cael eu cyflawni drwy ymyriadau unigol (h.y. un sy'n canolbwyntio ar brofi pridd yn unig)).
- Wrth i ffermwyr gwblhau'r Gweithredoedd Cyffredinol a, gobeithio, fabwysiadu arferion dilynol, dylai fod modd iddynt gael y canlyniadau disgwyliedig yn fwy effeithlon a gwella eu gallu a'u gwybodaeth i sicrhau

[109] Mae'n bosibl bod rhai ffermwyr yn credu na allant fodloni amodau'r cynllun presennol neu nad yw'r cymhelliant sydd ar gael yn ddigon atyniadol.

[110] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2002, *The 2001 Outbreak of Foot and Mouth Disease*

canlyniadau gwell eraill: bydd hyn yn lleihau eu costau, a allai ei gwneud yn bosibl i gyfraddau talu'r Haen Gyffredinol gael eu lleihau.


*Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol newidiadau yn Incwm Busnes Fferm*
Mae Taliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd uchel hefyd yn golygu y bydd ffermydd yn cael taliadau uwch gan Lywodraeth Cymru nag y byddent yn eu cael gyda Thaliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd isel (tua £67m y flwyddyn), ond nid yw'r gwaith modelu yn priodoli unrhyw fantais i hyn. Fodd bynnag, yn ymarferol, bydd yn:

- Lleihau cyfran y ffermydd y bydd eu Hincwm Busnes Fferm yn gostwng (o gymharu â chael y Taliad Sylfaenol) a maint cymedrig a chanolrifol y gostyngiad hwn yn ogystal â chynyddu cyfran y ffermydd y bydd eu Hincwm Busnes Fferm yn uwch – gweler Ffigur 4[111];
- Rhoi Incwm Busnes Fferm uwch (o gymharu â'r Taliad Gwerth Cymdeithasol isel) a allai o bosibl gael ei fuddsoddi mewn ffyrdd amrywiol, er enghraifft gwell arferion ffermio sy'n rhoi hwb arall i gynhyrchiant fferm ac yn gwella canlyniadau amgylcheddol/cymdeithasol;
- Cael effaith gadarnhaol ar wytnwch ffermydd.

*Fforddiadwyedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*
Mae gwahanol gyfraddau'r Taliad Gwerth Cymdeithasol yn amrywio o ran eu costau cyffredinol ac, felly, eu fforddiadwyedd.

Gyda chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar, bydd cyfradd ymuno gyflymach â'r Haen Gyffredinol yn golygu y bydd taliadau Llywodraeth Cymru yn cynyddu mwy yn ystod y Cyfnod Pontio nag y byddent gyda chyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol. Yn yr achos canolog, gallai'r taliadau fod yn fwy na chyllideb dybiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Haen Gyffredinol erbyn 2029 a thrwy hynny ei gwneud yn anfforddiadwy.

*Ffigur 4: Taliadau amcanestynedig Llywodraeth Cymru o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (Haen Gyffredinol) gyda chyfraddau Taliad Gwerth Cymdeithasol gwahanol (£m, 2026-2029)*




Mae hyn hefyd yn golygu y bydd adnoddau cymharol lai ar gael ar y cychwyn ar gyfer yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol (sy'n cynnig lefel uwch o adenillion). Mae hyn yn esbonio'r gwahaniaeth yn ystod y Cyfnod Pontio rhwng y Cymarebau Cost a Budd a fodelwyd ar gyfer y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda chyfradd uchel ac isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol, er nad yw hyn yn cofnodi'r gwahaniaethau posibl yn y manteision yn llawn. Archwilir y rhain ymhellach isod.

### *Costau, manteision a fforddiadwyedd yn y tymor hwy*
Yn y tymor hwy (y tu hwnt i'r Cyfnod Pontio), yn dibynnu ar ymateb cychwynnol ffermwyr i'r Haen Gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cynyddu cyfran ei chyllid cyffredinol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

[111] Cydnabyddir y gall busnesau fferm wneud addasiadau eraill o'u gwirfodd eu hunain.

y mae'n ei ddyrannu i'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol. Mae hyn yn adlewyrchu awydd i roi mwy o bwyslais ar annog newidiadau cynaliadwy mewn ymarfer ffermio a lle y disgwylir i Gymarebau Cost a Budd fod yn uwch. Gellir ei hwyluso hefyd os bydd cost cyflawni rhwymedigaethau'r Haen Gyffredinol i ffermwyr yn lleihau. Mae hyn yn golygu y gellir disgwyl i Gymhareb Cost a Budd gyffredinol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gynyddu'n gyson dros amser.

Gall Taliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd uchel sy'n annog ffermwyr i ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gynharach/ar raddfa helaethach ar lefel fferm gyfan yn ystod y Cyfnod Pontio esgor ar fanteision pellach a allai gronni y tu hwnt i'r cyfnod hwn (ond nad ydynt wedi'u hadlewyrchu yng nghanlyniadau'r gwaith modelu). Gallai'r manteision hyn godi o'r canlynol:

- Mae mwy o ffermydd yn barod i fabwysiadu ac ymgorffori arferion ffermio gwell a mwy effeithlon oherwydd y Gweithredoedd y maent yn ymgymryd â nhw yn ystod y Cyfnod Pontio, yn rhannol am eu bod yn cydnabod eu bod yn cyd-fynd yn fwyfwy â gofynion y farchnad/defnyddwyr;
- Mae mwy o ffermydd yn barod i gymryd rhan yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol (sy'n cynnig yr enillion mwyaf o fuddsoddiad) ac, felly, bydd hyn yn adeiladu llif cryfach o brosiectau â Chymhareb Cost a Budd uwch.

Hefyd, canfu adolygiad o gynllun amaeth-amgylcheddol a oedd yn cynnwys gweithredoedd cynefin fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy[112] y gall taliadau i ffermwyr am gynnal asedau amgylcheddol y fferm "influence not just the presence of a feature or habitat or whether it is managed, but also the type, quality and timing of its management, and the [longer-term] attitudes and behaviour of the farmer".

Mae hyn yn awgrymu, os gellir gwneud i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy apelio'n fwy i ffermwyr drwy wobrwyo'r manteision cymdeithasol y maent eisoes yn eu darparu, y gall o bosibl feithrin agweddau mwy cadarnhaol tuag at yr amgylchedd dros amser a allai, yn eu tro, wella ychwanegedd yn y tymor canolig i'r tymor hwy. At hynny, mewn ardaloedd mwy agored i niwed, gall wella gwytnwch fferm. Un o ganlyniadau hyn fyddai lleihau'r risg bod ffermydd o bosibl yn cael eu gadael heb eu ffermio neu'n cael eu tanreoli, a thrwy hynny osgoi effeithiau cymdeithasol niweidiol ar gymunedau gwledig sy'n dibynnu ar ffermio.

Gellir dangos arwyddocâd y fantais ddynamig bosibl hon drwy ei heffaith bosibl ar Gymhareb Cost a Budd ddisgwyliedig y Ffordd Ymlaen a Ffefrir dros gyfnod o bum mlynedd ar ôl y Cyfnod Pontio (h.y. o 2030 i 2034). Mae manteision o'r fath yn destun ansicrwydd o ran eu maint a'u hamseriad, ac felly bydd angen eu hystyried fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth yn y dyfodol.

Fel llinell sylfaen, cyn caniatáu ar gyfer unrhyw fanteision dynamig, tybir y bydd y gyllideb ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyffredinol yn aros ar lefelau 2029 (yn nhermau prisiau cyson) ac y caiff 10% o gyllideb pob blwyddyn ar gyfer yr Haen Gyffredinol ei newid i'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol. Ar y sail hon, disgwylir i Gymarebau Cost a Budd amcangyfrifedig y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda chyfraddau gwahanol ar gyfer y Taliad Gwerth Cymdeithasol gynyddu o 1.82 i 2.08 (Taliad Gwerth Cymdeithasol uchel) a 2.22 i 2.94 (Taliad Gwerth Cymdeithasol isel) rhwng 2030 a 2034.

Yna, mae'n bosibl dangos arwyddocâd posibl Taliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd uchel os bydd yn arwain at gyfuniad o'r canlynol:

- Cymhareb Cost a Budd uwch o gefnogi Haenau Opsiynol a Chydweithredol o'i chymharu â'r Taliad Gwerth Cymdeithasol isel (e.e. oherwydd mae lefel yr ychwanegedd yn fwy am fod angen llai o gymhelliant ar ffermwyr i ymgymryd â'r Gweithredoedd);
- Dyrannu mwy o'r gyllideb sydd ar gael i'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol am fod ansawdd y galw am gymorth yn gryfach wrth i ffermydd ddod yn fwy cyfarwydd â'r Gweithredoedd a/neu yn fwy parod i gyflwyno prosiectau sy'n cyd-fynd ag amcanion y Gweithredoedd.

Ar y sail hon, mae'n bosibl dangos pa mor sensitif yw pob Cymhareb Cost a Budd i newidiadau ym mhob paramedr. Mae Tabl 47 yn dangos sut mae'r bwlch rhwng y Gymhareb Cost a Budd gyda Thaliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd isel a'r Gymhareb Cost a Budd gyda newidiadau cyfradd isel wrth i bob paramedr gael

[112] Defra, 2012, *Dynamic Deadweight in Environmental Stewardship: Towards a better understanding of the added benefits of the scheme*, adroddiad a gyflwynwyd gan GHK ar y cyd â Land Use Consultants

ei newid. Er enghraifft, byddai cynnydd o 2 yn y Gymhareb Cost a Budd ar yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol, ynghyd â gostyngiad o 10% yn nhaliadau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Haenau hyn, yn gweld y Gymhareb Cost a Budd gyda Thaliad Gwerth Cymdeithasol uchel yn mynd yn uwch na'r hyn a geir gyda chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol isel. Mae'r celloedd mewn gwyrdd yn cynrychioli cyfuniadau a fyddai'n cynyddu'r Gymhareb Cost a Budd gyda chyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol yn uwch na'r hyn a geir gyda chyfradd isel.

*Tabl 45*: *Gwahaniaeth mewn Cymarebau Cost a Budd rhwng cyfraddau uchel ac isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol*

| | | **Gostyngiad yng nghanran taliadau Llywodraeth Cymru a ddyrennir i'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol (cyfradd isel y Taliad Gwerth Cymdeithasol)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynnydd yn y Gymhareb Cost a Budd ar yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol (cyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol)** | | **0** | **-10%** | **-20%** | **-30%** | **-40%** | **-50%** |
| | **0** | -0.64 | -0.54 | -0.43 | -0.31 | -0.18 | -0.04 |
| | **+1** | -0.36 | -0.26 | -0.06 | -0.04 | 0.09 | 0.24 |
| | **+2** | -0.09 | 0.01 | 0.22 | 0.24 | 0.37 | 0.51 |
| | **+3** | 0.19 | 0.29 | 0.40 | 0.52 | 0.65 | 0.79 |
| | **+4** | 0.46 | 0.56 | 0.67 | 0.79 | 0.92 | 1.07 |

Mae gwireddu manteision posibl y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda Thaliad Gwerth Cymdeithasol uchel yn dibynnu ar y canlynol:

- Meithrin dealltwriaeth fwy cynhwysfawr a gwell o fanteision (a chostau) posibl y Gweithredoedd a allai gael eu cefnogi fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Mynd ati'n weithredol i fonitro a gwerthuso effeithiau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wrth iddo gael ei roi ar waith a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i wella'r ffordd y'i llunnir er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian: er enghraifft, bydd yn bwysig olrhain ymateb ymddygiadol ffermwyr i'r cymhellion a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Esbonnir sut y caiff hyn ei wneud fel rhan o'r Achos Rheoli.

### *Beth os pennir cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o sero?*

Mae hefyd yn ddefnyddiol ystyried goblygiadau pennu cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol sy'n is na'r amrediad a gwmpaswyd gan waith modelu'r Llwyfan Modelu Integredig a'r Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol: ar y pegwn eithaf byddai pennu cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £0 yr hectar.

Gyda chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £0 yr hectar, ychydig o ffermydd, os o gwbwl, fyddai'n debygol o ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy[113]. Byddai hyn yn golygu y byddai'r manteision amgylcheddol sy'n gysylltiedig â Haen Gyffredinol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn cael eu hepgor i raddau helaeth.

Y prif reswm dros hyn yw mai ychydig o ffermydd a fyddai'n cael y cymhelliant ariannol i gymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy oherwydd yr effaith negyddol ar Incwm Busnes Fferm[114]. Mae Tabl 48 yn crynhoi'r goblygiadau i Incwm Busnes Fferm os pennir cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £0 yr hectar. Byddai Incwm Busnes Fferm cyfanredol yn gostwng £171.2m o gymharu â chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar ac yn gostwng £104.2m o gymharu â chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £70 yr hectar.

*Tabl 46*: *Yr effaith os pennir cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £0 yr hectar ar Incwm Busnes Fferm (£m y flwyddyn, pob fferm)*

| | **Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar** | **Taliad Gwerth Cymdeithasol o £70 yr hectar** | **Taliad Gwerth Cymdeithasol o £0 yr hectar** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm taliad Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan | 243.7 | 176.7 | |

[113] Er nad yw hyn wedi cael ei fodelu fel cyfraddau eraill y Taliad Gwerth Cymdeithasol, mae strwythur y taliadau, y costau disgwyliedig a'r incwm a hepgorwyd drwy gymryd rhan yn y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn awgrymu na fydd fawr ddim cymhelliant i gymryd rhan.
[114] Mynegir effeithiau ar Incwm Busnes Fferm yn ôl prisiau 2023.

| | Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar | Taliad Gwerth Cymdeithasol o £70 yr hectar | Taliad Gwerth Cymdeithasol o £0 yr hectar |
|---|---|---|---|
| gynnwys Taliad Gwerth Cymdeithasol (£m) | | | |
| Cyfanswm taliad Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys Taliad Gwerth Cymdeithasol (£m) | | | 72.5 |
| Llai | | | |
| Taliadau presennol Cynllun y Taliad Sylfaenol (£m) | 241.8 | 241.8 | 241.8 |
| Gostyngiad ym maint yr elw (£m) | 47.7 | 47.7 | 47.7 |
| Costau cydymffurfio eraill (£m) | 33.4 | 33.4 | 33.4 |
| Newid yn yr Incwm Busnes Fferm cyfanredol (£m) | -79.2 | -146.2 | -250.4 |
| Gostyngiad cymedrig fesul fferm (£'000) | 5.09 | 9.40 | 16.10 |

Byddai'r Incwm Busnes Fferm a gollir yn ei grynswth ar ei uchaf i ffermydd defaid arbenigol AdAF (£69m), ffermydd pori cymysg ALFf (£62m) a ffermydd godro iseldir (£31m).

Byddai colled gymedrig o £16k yn Incwm Busnes Fferm fesul fferm, a fyddai ar ei huchaf i ffermydd godro iseldir (£50k) a godro ALFf (£31k) ac ar eu hisaf i ffermydd cymysg iseldir (£9k).

Gyda chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o sero, byddai cynaliadwyedd llawer o ffermydd yn cael ei beryglu oherwydd eu dibyniaeth ar gymorth Llywodraeth Cymru:

- Yn ôl dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg diweddaraf o Fusnesau Fferm ar gyfer 2023-24 a ddefnyddiwyd i amcangyfrif proffidioldeb 9,125 o ffermydd yng Nghymru yn ymestyn dros 1,259,000 hectar, roedd 76% o elw ffermydd yn deillio o daliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol;
- Heb daliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol, y sector llaeth fyddai'n gwneud yr elw mwyaf ynghyd â ffermydd cnydau ŷd/cyffredinol ond ni fyddai pori AdA, gwartheg eidion AdAF na defaid AdAF yn gwneud unrhyw elw, ac y byddai'r ffermydd lleiaf (allbwn o dan £250k) yn gwneud colled.

### *Beth os pennir cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o fwy na £115 yr hectar?*

I'r gwrthwyneb, mae hefyd yn ddefnyddiol ystyried goblygiadau pennu Taliad Gwerth Cymdeithasol ar gyfradd uwch na'r amrediad a gwmpaswyd gan waith modelu'r Llwyfan Modelu Integredig a'r Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol.

Byddai cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o fwy na £115 yr hectar yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer yr Haen Gyffredinol ac felly ni fyddai'n fforddiadwy. Byddai hefyd yn lleihau'r cyllid y gellir ei neilltuo ar gyfer yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol, sy'n cynnig Cymarebau Cost a Budd uwch o bosibl. Byddai hyn yn lleihau'r Gymhareb Cost a Budd ddisgwyliedig.

At hynny, ychydig iawn (os o gwbl) o fanteision amgylcheddol ychwanegol y dylid eu rhagweld am fod gwaith modelu'r Llwyfan Modelu Integredig eisoes yn seiliedig ar gyfradd ymuno o bron 100% â'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir.

Mae Tabl 49 yn dangos, os pennir cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £250 yr hectar, y byddai Incwm Busnes Fferm cyfanredol yn cynyddu £201m y flwyddyn o gymharu â thalu Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar.

Fel arall, byddai pennu cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £168.2 yr hectar yn golygu na fyddai unrhyw newid yn yr Incwm Busnes Fferm cyfanredol, ond y byddai angen taliadau (trosglwyddo) ychwanegol o £79.2m y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru.

*Tabl 47*: *Yr effaith os pennir cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar ar Incwm Busnes Fferm (£m y flwyddyn, pob fferm)*

| | Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar | Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £168.17 yr hectar | Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £250 yr hectar |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm taliad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys Taliad Gwerth Cymdeithasol | 243.7 | 322.89 | 444.7 |
| Llai | | | |
| Taliadau presennol | 241.8 | 241.8 | 241.8 |
| Lleihad ym maint yr elw gros | 47.7 | 47.7 | 47.7 |
| Costau cydymffurfio eraill | 33.4 | 33.4 | 33.4 |
| Newid yn yr Incwm Busnes Fferm cyfanredol | -79.2 | -0.0 | 121.8 |
| Gostyngiad cymedrig fesul fferm (£'000) | 5.09 | 9.40 | 16.10 |

I gloi, byddai pennu cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o fwy na £115 yr hectar yn anfforddiadwy a byddai'n cynhyrchu Cymhareb Cost a Budd ddisgwyliedig is.

### *Casgliad – cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol a ffefrir*

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos y canlynol:

- Cyflymder disgwyliedig y gyfradd ymuno ar gyfer Haen Gyffredinol y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda chyfradd y Taliad Gwerth Cymdeithasol;
- Mae hyn wedyn yn ysgogi Cymhareb Cost a Budd uwch, gynyddol, yn y tymor hwy os gellir sicrhau manteision dynamig ehangach o gyflymu'r gyfradd ymuno â'r Haen Gyffredinol (ond mae'r rhain yn destun ansicrwydd);
- Mae Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar yn achosi'r risg o fod yn anfforddiadwy i Lywodraeth Cymru ym mlynyddoedd diweddaraf y Cyfnod Pontio.

Mae'n bosibl amcangyfrif cyfradd uchaf y Taliad Gwerth Cymdeithasol a fyddai'n fforddiadwy dros y Cyfnod Pontio o fewn y set bresennol o dybiaethau. Y gyfradd hon yw £107 yr hectar.

Mae Tabl 50 yn crynhoi costau a manteision posibl y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £107 yr hectar.

*Tabl 48*: *Costau a manteision disgwyliedig y Ffordd Ymlaen a Ffefrir gyda chyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol o £107 yr hectar (£m, GPN)*

| | Cyfnod Pontio (2026-2029) | | | Y tu hwnt i'r Cyfnod Pontio (2030-2034) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol = £115 yr hectar | Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol = £107 yr hectar | Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol = £70 yr hectar | Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol = £115 yr hectar | Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol = £107 yr hectar | Cyfradd Taliad Gwerth Cymdeithasol = £70 yr hectar |
| **GCPN manteision** | 2,391.3 | 2,821.51 | 3,294.7 | 2,845.7 | 3,032.2 | 3,667.9 |
| **Taliadau Llywodraeth Cymru i ffermwyr** | 1,310.4.4 | 1,294.3 | 1,273.9 | 1,370.3 | 1,368.1 | 1,350.2 |
| **Cymhareb Cost a Budd** | 1.82 | 2.18 | 2.59 | 2.08 | 2.22 | 2.72 |

Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i reoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn weithredol. Mae hyn yn golygu ei bod yn disgwyl cynnal adolygiadau rheolaidd/blynyddol ochr yn ochr ag asesiad parhaus er mwyn dadansoddi ei effaith ar agweddau ac ymddygiad ffermwyr (a chanlyniadau ychwanegol a sicrheir) fel y gall olrhain y gwerth am arian a sicrheir. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i addasu ffurf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys y fethodoleg dalu.

### Materion eraill i'w nodi

Dylid nodi tri grŵp arall o faterion wrth ddehongli'r Achos Economaidd dros y Cynllun Ffermio Cynaliadwy:

- Ni chymhwysir unrhyw bwysoliad ffurfiol i fesur ystyriaethau dosbarthiadol heblaw am archwilio effeithiau posibl taliadau ar Incwm Busnes Fferm: mae hyn yn berthnasol o bosibl am mai ffermwyr yw buddiolwyr arfaethedig allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y mae rhai ohonynt yn gweithredu ar incymau fferm cymharol isel, mewn cymunedau gwledig: fodd bynnag, yn ymarferol, mae'r gwahaniaethau cyfyngedig o ran effaith y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer ar economeg ffermydd yn y byrdymor i'r tymor canolig yn awgrymu y bydd yr effeithiau dosbarthiadol ychwanegol yn gymharol fach.
- Yn gysylltiedig â hyn, mae ffocws y dadansoddiad wedi bod ar effaith y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a Busnes fel Arfer ar lefel fferm gyfanredol: mae'n bwysig cydnabod hefyd y gallai'r Opsiynau effeithio ar gymunedau lleol, er enghraifft drwy warchod cydlyniant cymdeithasol a chynnal cyfalaf cymdeithasol lleol, drwy wneud y cyflenwad bwyd yn fwy diogel a bod yn fuddiol i hunaniaeth Cymru.
- Fel y nodir drwy'r Achos Economaidd cyfan, mae cyfyngiadau pwysig yn codi o wendidau o ran hyd a lled ac ansawdd y dystiolaeth sydd ar gael, sy'n ei gwneud yn anodd llunio amcangyfrifon cadarn a phennu gyda sicrwydd:
  - Y risgiau ynglŷn â chyfrif dwbl posibl a phriodoli effeithiau i'r Opsiynau;
  - Y niferoedd posibl a fydd yn ymgymryd â phob Gweithred a'i chostau tebygol;
  - Pa fanteision sy'n gysylltiedig â'r Gweithredoedd y gellir eu cofnodi a phennu eu gwerth ariannol mewn ffordd gymesur;
  - Arwyddocâd costau a manteision nad ydynt wedi cael eu hystyried;
  - Natur gynrychioliadol y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a gwmpaswyd gan y dadansoddiad cost a budd o'r holl Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol cychwynnol;
  - Dynameg y broses o bontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: mae llawer o'r dystiolaeth yn adlewyrchu'r sefyllfa a ddisgwylir ar ôl Pontio pan na fydd Cynllun y Taliad Sylfaenol ar gael.

## Yr Achos Masnachol

*Cwestiwn allweddol: A yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn fasnachol hyfyw ac yn atyniadol i'r ochr gyflenwi?*

Mae'r Achos Masnachol yn canolbwyntio ar yr opsiwn a ffefrir a gariwyd ymlaen o'r Achos Economaidd.

Mae'r Achos yn nodi:

- Strategaeth gaffael Llywodraeth Cymru fel y mae'n gymwys i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Y dull arfaethedig o gaffael gofynion allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Trefniadau ar gyfer llywodraethu a goruchwylio caffaeliadau.

### *Strategaeth gaffael*

Mae caffaeliadau gan Lywodraeth Cymru wedi'u llywodraethu gan Ddeddf Caffael 2023, Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2024, a Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024. Disgwylir i'r mwyafrif llethol o gaffael Llywodraeth Cymru ddigwydd drwy Reoliadau Caffael 2024.

Ym mis Tachwedd 2024, lansiodd Materion Gwledig Cymru System Brynu Ddynamig 4 blynedd newydd ar gyfer cymorth gwledig.

Mae'r system hon yn cynnig contract fframwaith lle y gall cyflenwyr sydd wedi cymhwyso ymlaen llaw gynnig am waith sy'n cael ei dendro gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaethau ym mhob Categori a amlinellir. Yn wahanol i fframwaith safonol, mae'n agored i geisiadau drwy gydol ei oes ac mae'n cynnig fframwaith hyblyg i ddarparu'r gwasanaethau arbenigol sydd eu hangen ar y sefydliad. Gwerth mwyaf system brynu ddynamig Cymorth Gwledig yw £400m.

Bydd yn hwyluso'r broses gaffael ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ogystal â chynlluniau a rhaglenni mawr eraill o fewn y Grŵp Llywodraeth Leol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae'n agored i'w defnyddio gan bob un o adrannau Llywodraeth Cymru a rhai cyrff cyhoeddus. Mae wedi'i rhannu'n dri chategori:

- Categori 1 – Rhaglen Cymorth Gwledig a Gwasanaethau Cymorth Prosiect (gan gynnwys gwasanaethau cymorth grant);
- Categori 2 – Cyngor Cymorth Gwledig a Gwasanaethau Technegol;
- Categori 3 – Gwasanaethau Ymgysylltu Cymorth Gwledig

Ystyrir ceisiadau gan gyflenwyr i ymuno â'r system ar sail dreigl.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y system yn 2027 er mwyn penderfynu a ddylid cyflwyno fframwaith newydd yn 2028. Drwy bennu pwyntiau adolygu rheolaidd yn ein strategaeth gaffael cawn gyfle i iteru ac addasu yn ôl anghenion ac amodau'r farchnad.

Lle na fydd y system yn addas ar gyfer anghenion caffael y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, bydd swyddogion yn manteisio ar gyfleoedd eraill sydd ar gael drwy fframweithiau amgen a/neu bwerau deddfwriaethol presennol Llywodraeth Cymru.

### *Sut y bwriedir caffael gofynion allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Mae'r prif gydberthnasau masnachol sy'n codi o'r broses o lunio, cyflwyno, gweithredu a monitro'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ymwneud â'r canlynol:

- Contract presennol Taliadau Gwledig Cymru ar gyfer TG [a datblygu systemau TG Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol];
- Contract Cyswllt Ffermio Llywodraeth Cymru i roi cyngor a throsglwyddo gwybodaeth i ffermwyr a pherchnogion tir;
- Gwasanaethau i gefnogi'r gwaith monitro a gwerthuso ar lefel rhaglen, gweithred a gweithgarwch.

- Gwasanaethau datblygu polisi amrywiol sydd eu hangen i greu a datblygu ymyriadau'r cynllun.

Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian, wrth gaffael y gwasanaethau hyn gellir ymgorffori gweithgareddau i gefnogi amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru (h.y. y tu hwnt i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy). Mae'r costau hyn wedi'u hymgorffori yn y gwasanaethau a ddarperir felly maent wedi'u cynnwys yn *Tabl 49*. Er enghraifft, bydd Cyswllt Ffermio yn rhoi cyngor a chymorth o ran trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi i ffermwyr ar nifer o bynciau perthnasol er mwyn gwella eu perfformiad a'u gwytnwch. Er ei fod yn cyd-fynd ag amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, mae'n bosibl nad yw hyn yn cefnogi Gweithredoedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o reidrwydd. Yn yr un modd, bydd TG Taliadau Gwledig Cymru yn rhoi cymorth ar gyfer ymyriadau ariannol eraill y llywodraeth nad ydynt yn ymwneud â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Tybir na fydd perthynas Llywodraeth Cymru â ffermwyr nac eraill sy'n cymryd rhan yng Ngweithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyfystyr â pherthynas fasnachol (er y rhoddir y cymorth yn gyfnewid am ymgymryd â gweithredoedd penodol).

At hynny, nid ystyrir bod cymorth CNC i gyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn berthynas fasnachol am ei fod wedi'i ariannu drwy gyllid grant a bod ei rôl a'i gyfrifoldebau wedi'u nodi yn ei lythyr cylch gwaith. Bydd angen cytuno ar dargedau lefel gwasanaeth a cherrig milltir perthnasol a'u monitro fel rhan o wiriadau diwydrwydd dyladwy arferol. Mae hyn yn tybio:

- Y bydd y tîm polisi sy'n gyfrifol am oruchwylio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ymgymryd â'r rôl arweiniol wrth ddatblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth priodol sy'n cynnwys targedau/gofynion cyflawni;
- Y bydd yr un tîm polisi yn gyfrifol am fonitro cynnydd CNC o ran cyflawni'r targedau y cytunwyd arnynt drwy gydol y flwyddyn, gan godi materion a phryderon gyda thîm nawdd Llywodraeth Cymru.

Mae Tabl 49 yn crynhoi'r prif gaffaeliadau a ragwelir ar hyn o bryd fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ystod y Cyfnod Pontio. Ar gyfer pob caffaeliad, mae Tabl 49 yn dangos:

- Y gofyniad bras;
- Amlinelliad o'r fanyleb ar gyfer ffrydiau gwasanaeth ac allbynnau gofynnol;
- Gwerth disgwyliedig y caffaeliad dros y Cyfnod Pontio o 2026 i 2029; mae'r gwerthoedd hyn yn gyson â'r cyllidebau yn yr Achos Ariannol;
- Yr adnodd a ddefnyddir i gefnogi'r caffaeliad.

Manylion pellach am y ddau brif gaffaeliad: Mae systemau TG Taliadau Gwledig Cymru a Cyswllt Ffermio yn Atodiad E.

*Tabl 49: Crynodeb o'r prif gaffaeliadau a ragwelir fel rhan o'r broses o gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

| Gofyniad masnachol | Manyleb | Gwerth (£m) | Adnodd caffael |
|---|---|---|---|
| **TG Taliadau Gwledig Cymru** | Gweler Atodiad E | £16.4m y flwyddyn | Wedi'i chaffael eisoes |
| **TG Taliadau Gwledig Cymru: Cyswllt Ffermio** | Gwaith i ddarparu adnoddau ar gyfer llwyfan Cyswllt Ffermio, ei ddatblygu, ei gefnogi a'i gynnal a'i integreiddio â systemau TG Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol. | £1.5m y flwyddyn | Wedi'i chaffael eisoes |
| **Cyswllt Ffermio – Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesedd** | Mae Cyswllt Ffermio yn wasanaeth i Gymru gyfan, ac yn cynnig ystod o wasanaethau i ffermydd sydd wedi'u teilwra at eu hanghenion | £16.0m y flwyddyn yn fras | System Brynu Ddynamig Cymorth Gwledig |
| **Cynllun Arloesedd Strategol** | Mae'r Cynllun Arloesedd Strategol yn cefnogi pum rhaglen allweddol o weithgarwch ym maes bwyd-amaeth, drwy gyngor | £15.0m y flwyddyn yn fras – dim ond rhywfaint o hyn fydd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (a daw | System Brynu Ddynamig Cymorth Gwledig |

| Gofyniad masnachol | Manyleb | Gwerth (£m) | Adnodd caffael |
|---|---|---|---|
| | a chymorth grant, gan gynnwys:<br>• Gwybodaeth, Arloesedd a Thechnoleg ar gyfer Llwyddiant<br>• Mentro i Lwyddo<br>• Sgiliau ar gyfer Llwyddiant<br>• Uwchraddio ar gyfer Llwyddiant<br>• Clystyrau ar gyfer Llwyddiant | o'r gyllideb ar gyfer Gweithredoedd Cydweithredol) | |
| **Monitro, adrodd a gwerthuso** | Gwasanaethau i gefnogi'r gwaith o gasglu a dadansoddi data i roi gwybodaeth am berfformiad a chyflwyno adroddiadau fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, mewn perthynas â rheoli tir yn gynaliadwy, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a phwerau ehangach i roi cymorth | £0.2m | I'w gadarnhau |
| **Cymorth polisi** | I'w ddatblygu yn ôl y gofyn mewn ymateb i ffurf ac allbynnau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (Gweithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol) | I'w gadarnhau | System Brynu Ddynamig Cymorth Gwledig |
| **Asesiad carbon** | Cymorth i ddatblygu adnodd i alluogi ffermwyr a rheolwyr tir i feincnodi eu hallyriadau nwy tŷ gwydr | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |

Bydd y broses gaffael i gefnogi gwaith monitro, gwerthuso ac adrodd ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn integreiddio allbynnau o'r Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd[115], â gweithgarwch a data eraill er mwyn cefnogi gofynion adrodd ynglŷn ag effaith a rheoli tir yn gynaliadwy o dan y Ddeddf. Mae'r rhaglen yn rhoi amrywiaeth eang o dystiolaeth, gan gynnwys monitro drwy'r arolwg maes cenedlaethol, gwaith modelu ar gyfer gweithgarwch datblygu polisi a dadansoddi sy'n cefnogi nifer o fentrau, er enghraifft Glastir ac adroddiadau Tueddiadau Cenedlaethol; y Cynllun Ffermio Cynaliadwy; y Goedwig Genedlaethol; Carbon Pridd a llywio, monitro a gwerthuso amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Daw'r dyfarniad i Ganolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (UK CEH), fel arweinydd y rhaglen, i ben ar 31 Hydref 2026.

Cafodd y darparwyr gwasanaeth sy'n cefnogi Taliadau Gwledig Cymru eu caffael yn seiliedig ar roi cymorth parhaus i gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r cymorth amaethyddol a gynigir ar hyn o bryd (Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig yn bennaf).

## *Dosrannu risg*

Yn gyffredinol, nid oes unrhyw risgiau ychwanegol hysbys i strategaeth fasnachol Llywodraeth Cymru ar lefel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy am y bydd y dulliau caffael presennol yn cael eu defnyddio gan sefydliadau sydd â gallu profedig i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen i'r safonau a ddymunir. Mae'n bosibl y bydd

[115] Cynllun arloesol i ddatblygu dyfodol cynaliadwy i Gymru yw'r Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd. Mae'n cael ei harwain gan UKCEH ar ran Llywodraeth Cymru ac yn dwyn ynghyd gonsortiwm mawr er mwyn sicrhau bod y rhaglen uchelgeisiol yn meddu ar yr arbenigedd cywir ac yn manteisio i'r eithaf ar y gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt yn y gymuned monitro a modelu.

caffaeliadau penodol yn codi heriau, ond nid yw dosrannu risg yn fater arwyddocaol o ystyried natur yr hyn y bydd angen ei gaffael o bosibl. Caiff newidiadau posibl eu rheoli yn unol â'r dull rheoli newid a amlinellwyd yn yr Achos Rheoli.

### *Dulliau talu*

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn talu am wasanaethau ac allbynnau allweddol dros ei oes ddisgwyliedig drwy'r canlynol:

- Taliadau a gaffaelwyd am wasanaethau;
- Taliadau grant i ffermwyr.

#### Taliadau a gaffaelwyd

Caiff taliadau am nwyddau a gwasanaethau a gaffaelwyd ar ran Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy eu llywodraethu o dan awdurdod Deddf Caffael 2023 a'i rheoliadau. Cânt eu hawdurdodi yn unol ag awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (gweler adrannau 117 i 145) a Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (gweler adrannau 8 i 20), fel y bo'n briodol.

#### Taliadau grant

Caiff taliadau grant a wneir gan Taliadau Gwledig Cymru eu hawdurdodi gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (gweler adrannau 117 i 145) a Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (gweler adrannau 8 i 20), fel y bo'n briodol. Mae Taliadau Gwledig Cymru yn darparu system ar-lein sy'n cael ei rheoli gan Lywodraeth Cymru i hwyluso prosesau ymgeisio a rheoli grantiau gwledig a chynlluniau talu i ffermwyr a pherchnogion tir yng Nghymru. Drwy'r system hon, gall defnyddwyr wneud cais ar gyfer amrywiol gynlluniau, rheoli eu gwybodaeth fusnes, a chael gafael ar adnoddau i'w cynorthwyo, gan gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol a thaliadau datblygu gwledig mewn perthynas â thir Caiff ei defnyddio i dalu ffermwyr fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

## *Llywodraethu a goruchwylio rhaglenni*

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan Is-adran Llywodraethu a Goruchwylio'r Rhaglen Materion Gwledig Cymru, a fydd yn paratoi adroddiadau arno ac yn ei werthuso yn y pen draw. Ynghyd â phartneriaid mewnol (cyllid, Trysorlys ac archwilio mewnol) ac allanol (Archwilio Cymru), bydd yr Is-adran yn darparu swyddogaethau rheoli portffolio ar gyfer mwy na £350m mewn prosiectau, rhaglenni a chynlluniau a weinyddir o dan Brif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## YR ACHOS ARIANNOL

*Cwestiwn allweddol: A yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn fforddiadwy ac yn gyllidadwy dros amser?*

Mae'r Achos Ariannol yn canolbwyntio ar fforddiadwyedd a chyllidadwyedd yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'n ystyried gwariant disgwyliedig Llywodraeth Cymru yn ystod y Cyfnod Pontio, sef y flwyddyn gyllidol 2026-27 hyd at 2029-30[116].

Mae'r Achos yn cwmpasu:

- Yr effaith ar gyfrif incwm a gwariant Llywodraeth Cymru;
- Yr effaith ar fantolen Llywodraeth Cymru;
- Crynodeb o fforddiadwyedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Cefnogaeth rhanddeiliaid.

Er bod yr asesiadau o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn yr Achos Economaidd a'r Achos Ariannol yn gysylltiedig â'i gilydd, ceir gwahaniaethau sy'n werth eu nodi. Mae'r arfarniad economaidd yn canolbwyntio ar werthoedd o safbwynt cymdeithas ac yn ystyried yr holl gostau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol (h.y. yr holl effeithiau ar les y cyhoedd) ac mae'r arfarniad ariannol yn canolbwyntio ar fforddiadwyedd o safbwynt Llywodraeth Cymru. Crynhoir y gwahaniaethau allweddol yn Tabl 50.

*Tabl 50: Cymharu cwmpas asesiadau economaidd ac ariannol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a sut y'u cynhelir*

| | **Asesiad economaidd** | **Asesiad ariannol** |
|---|---|---|
| **Ffocws:** | Gwerth am arian – Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (GCPN) | Cyllido a fforddiadwyedd – llif arian parod a stoc |
| **Cwmpas:** | Cymdeithas y DU yn ei chyfanrwydd a dadansoddiad dosbarthiadol lle y bo'n berthnasol | Cyllideb y sefydliad(au) cyhoeddus perthnasol |
| **Safonau perthnasol:** | Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF a chanllawiau atodol<br>Cyfradd ddisgowntio a gymhwyswyd | Rheolau cyfrifyddu a rheolau sefydlog y sector cyhoeddus |
| **Dadansoddiad:** | • Prisiau real (blwyddyn sylfaen gymharol)<br>• Defnyddio costau cyfle<br>• Mae'n cynnwys costau lles a manteision mesuradwy i gymdeithas<br>• Mae'n cynnwys costau a manteision amgylcheddol<br>• Nid yw'n cynnwys taliadau 'trosglwyddo' o'r Trysorlys<br>• Nid yw'n cynnwys chwyddiant cyffredinol<br>• Nid yw'n cynnwys costau suddiedig<br>• Nid yw'n cynnwys dibrisiant, amhariad na chostau cyfalaf | • Prisiau (nominal) cyfredol<br>• Manteision – rhyddhau arian parod yn unig<br>• Mae'n cynnwys costau cyfalaf a refeniw<br>• Mae'n cynnwys taliadau trosglwyddo<br>• Mae'n cynnwys chwyddiant |

### *Yr effaith ar gyfrif incwm a gwariant Llywodraeth Cymru*

Crynhoir y gyllideb ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn Tabl 52. Mae'n seiliedig ar egwyddorion cyfrifyddu a chyllidebu adnoddau ac mae'n dangos y costau adnoddau dros Gyfnod Pontio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

*Tabl 51: Y Gyllideb flynyddol amcanestynedig ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (£m, prisiau presennol)*

| **Elfen o gost** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | **2029-30** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth amaethyddol (2833) | 365.2 | 365.2 | 365.2 | 365.2 | 365.2 |

[116] Mae'r Achos Economaidd, mewn gwrthgyferbyniad, yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd y bydd rhai costau a manteision economaidd yn cronni dros gyfnod hwy, hyd at 2050 a thu hwnt.

| Elfen o gost | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 (2949) | 1.5 | 1.5 | 1.5 | 1.5 | 1.5 |
| Gweinyddu Taliadau Gwledig Cymru (2790) | 3.8 | 3.8 | 3.8 | 3.8 | 3.8 |
| TGCh Taliadau Gwledig Cymru (2789) | 8.2 | 8.2 | 8.2 | 8.2 | 8.2 |
| Cyllideb ddisgwyliedig | 378.7 | 378.7 | 378.7 | 378.7 | 378.7 |

Hefyd, mae Tabl 52 yn rhoi datganiad llif arian sy'n dangos faint y disgwylir i Lywodraeth Cymru ei wario ar y canlynol:

- Gweinyddu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Chynllun y Taliad Sylfaenol (a'r cynlluniau buddsoddi gwledig) dros y Cyfnod Pontio o 2026 hyd at ddiwedd 2029;
- Taliadau i ffermwyr o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Chynllun y Taliad Sylfaenol fel rhan o'r broses dapro: bydd yr union raniad rhwng y ddau yn dibynnu ar y niferoedd gwirioneddol sy'n ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy[117;]
- Unrhyw gostau ariannol eraill y gellir eu priodoli i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru;
- Costau disgwyliedig CNC mewn perthynas â sefydlu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac yna'i gyflawni dros y Cyfnod Pontio;

Nid yw Tabl 52 yn cynnwys y Costau Rhedeg Adrannol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy[118]. Yn ymarferol, nid yw'n hawdd dosrannu'r costau hyn yn y dyfodol rhwng cymorth ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chyfrifoldebau eraill.

Disgwylir i holl gyllid y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

*Tabl 52: Gwariant blynyddol amcanestynedig ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (£m, prisiau presennol)*

| Elfen o gost | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | 424.6 | 440.1 | 431.2 | 432.1 | 433.3 |
| Gweinyddu[119] | 33.0 | 42.1 | 33.2 | 34.0 | 35.0 |
| • Costau staff Taliadau Gwledig Cymru | 17.4 | 17.0 | 17.3 | 17.7 | 18.0 |
| • Costau TG | 15.6 | 25.0 | 15.8 | 16.3 | 17.0 |
| Cyngor ac arweiniad [120] | 24.9 | 31.3 | 31.4 | 31.5 | 31.6 |
| • Cyswllt Ffermio[121] | 11.3 | 11.0 | 11.0 | 11.0 | 11.0 |
| • Cynllun Ffermio Cynaliadwy a dargedwyd [122] | 0.0 | 5.0 | 5.0 | 5.0 | 5.0 |
| • Costau rhaglen | 13.6 | 13.6 | 13.6 | 13.6 | 13.6 |
| • Cyngor maes a thechnegol ychwanegol | 0.0 | 1.7 | 1.8 | 1.9 | 2.0 |
| Taliadau i ffermwyr/perchnogion tir[123] | 340.8 | 333.7 | 334.0 | 334.0 | 333.9 |

[117] Dylai'r model gynnwys y symiau wrth gefn sydd eu hangen i sicrhau bod digon o ddarpariaeth ariannol ar gyfer risgiau ac ansicrwydd.
*[118]* Mae'r Costau Rhedeg Adrannol yn rhan o gyllidebau rheolaidd sy'n darparu ar gyfer gweithrediadau gweinyddol gwasanaeth sifil Cymru. Mae dyletswydd ar uwch-weision sifil i beidio â gwario mwy na DEL Costau Rhedeg Adrannol. Os bydd costau yn fwy na'r Costau Rhedeg Adrannol mewn un cyfrif, dim ond gyda chytundeb Trysorlys Cymru neu'r Gweinidog y gellir eu talu er mwyn ôl-lenwi'r pwysau hynny â chronfeydd eraill a gymeradwywyd gan y Senedd sy'n ddilestair
[119] Mae gwariannau gweinyddol wedi cael eu trosi'n brisiau presennol drwy ddefnyddio amcangyfrif diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer datchwyddwr CDG.
[120] Mae costau cyngor wedi cael eu trosi'n brisiau presennol drwy ddefnyddio amcangyfrif diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer datchwyddwr CDG.
[121] Mae hyn yn cwmpasu cost ddisgwyliedig contract presennol Cyswllt Ffermio – gweler yr Achos Masnachol am ragor o wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd y costau gwirioneddol yn uwch neu'n is, yn dibynnu ar ganlyniadau cytundebol nad ydynt yn derfynol/na chytunir arnynt eto.
[122] Dalfan yw hwn i adlewyrchu caffaeliadau posibl i gefnogi'r broses o gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fesul cam: mae'n seiliedig ar wariant gwirioneddol cyson o £5m o 2026-27 ond gall gynyddu erbyn diwedd y Cyfnod Pontio yn dibynnu ar y galw.
[123] Mae hyn yn adlewyrchu cyllid treigl arian parod safonol tybiedig ar ddyraniad cyllidebol Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig ar gyfer 2025-26, llai costau amcangyfrifedig y rhaglen a chostau cynghori

| Elfen o gost | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfoeth Naturiol Cymru[124]** | | | | | |
| Gweinyddu | 1.0 | 1.6 | 1.2 | 1.2 | 1.2 |
| • Cyflawni cynllun rheoli CNC Rhan A[125] | 0.6 | 1.2 | 1.2 | 1.2 | 1.2 |
| • Rhan B - Rheoli rhaglenni / parodrwydd gweithredol [126] | 0.4 | 0.4 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |

Mae'r Achos Busnes yn tybio y bydd Trysorlys Cymru yn darparu lleiafswm cyllideb rhaglen o £366m mewn termau arian parod ym mhob blwyddyn gyllidol hyd at 2029-30 ar gyfer rhaglenni Materion Gwledig. Cyllideb dreigl arian parod safonol dros oes Adolygiad Cynhwysfawr Llywodraeth y DU o Wariant yw hon i bob diben, ac ni ddisgwylir unrhyw gynnydd oherwydd pwysau chwyddiannol. Bydd y ffordd y dyrennir y gyllideb hon o flwyddyn i flwyddyn yn cael ei chymeradwyo yn flynyddol gan Weinidogion Cymru a'r Senedd.

Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn amcangyfrif y gallai'r uchafswm cyllideb a ddarperir ar gyfer y Taliadau Cyffredinol (gan gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol yn ystod y Cyfnod Pontio) ddarparu hyd at £238m bob blwyddyn, sy'n golygu y bydd £128m ar gael ar gyfer y canlynol:

- Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys cymorth sy'n ymwneud â materion gwledig nad ydynt yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (£98.6m);
- Cyngor a chymorth arall (£16.5m);
- Costau gweinyddu rhaglen sy'n ymwneud â datblygu, gweithredu, cyflawni a monitro rhaglenni cyllido ym maes Materion Gwledig (£13.6m).

Bydd y tapro arfaethedig i'r ffermwyr hynny sy'n dewis aros yng Nghynllun y Taliad Sylfaenol yn ystod y Cyfnod Pontio yn cael effaith uniongyrchol (cynnydd) ar y gyllideb sydd ar gael ar gyfer yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol, gan dybio y caiff gwerth tapro o'r fath ei gadw ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd angen gwerth llawn yr hawliadau hyn o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol ar gyfer Taliad Cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol, o dybio y bydd pob fferm yn ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Caiff unrhyw bwysau nad yw wedi'i gyllido ei reoli ar hyn o bryd drwy danwariannau yn y Prif Grwpiau Gwariant ehangach ar gyfer Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Tybir y bydd hyn yn parhau yn ystod y Cyfnod Pontio.

## *Yr effaith ar fantolen Llywodraeth Cymru*

Bydd i'r buddsoddiad disgwyliedig yn systemau TGCh Taliadau Gwledig Cymru oblygiadau i fantolen Llywodraeth Cymru.

Gan ddefnyddio dull llinell syth o amorteiddio dros bum mlynedd (sef y dull presennol o drin gwariant TGCh a ddefnyddir gan Taliadau Gwledig Cymru), crynhoir y goblygiadau i fantolen Llywodraeth Cymru yn Tabl 53. Mae hyn yn dangos y disgwylir i Taliadau Gwledig Cymru fuddsoddi £60.1m rhwng 2025-6 a 2029-30. Gwerth gweddilliol y buddsoddiad hwn fydd £40.4m yn 2029-30.

*Tabl 53: Yr effaith amcanestynedig ar fantolen Llywodraeth Cymru (£m, prisiau presennol)*

| | 2025-6 | 2026-7 | 2027-8 | 2028-9 | 2029-30 | 2030-1 | 2031-2 | 2032-3 | 2033-4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiad mewn TG | 15.53 | 18.01 | 8.59 | 8.80 | 9.15 | | | | |

[124] Mae Tîm Nawdd CNC yn rheoli ac yn goruchwylio taliadau y cytunwyd arnynt i CNC (e.e. SoDdGAau, cytundebau rheoli tir a gorfodi). Yn ychwanegol at ei gyllid grant, mae costau CNC ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys dilysu coetiroedd (£1.3m y flwyddyn) a'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (£1.35m CCES) a'r Cytundeb Rheoli Tir (a gynhwysir o dan y Rhaglen Rhwydweithiau Natur (£0.6m))

[125] Mae'r costau o 2027-28 yn dibynnu ar ganlyniad adolygiad o gynlluniau peilot SoDdGA.

[126] Disgwylir i barodrwydd gweithredol fod wedi'i gwblhau yn 2025-26 ond mae swm wrth gefn ar gyfer costau posibl gweithgarwch parodrwydd ychwanegol yn ystod 2026-27 wedi'i gynnwys: mae hyn yn dibynnu, yn rhannol, ar ganlyniad yr adolygiad o'r cynllun peilot SoDdGA presennol.

| | 2025-6 | 2026-7 | 2027-8 | 2028-9 | 2029-30 | 2030-1 | 2031-2 | 2032-3 | 2033-4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiad cronnol mewn TG | 15.53 | 33.54 | 42.13 | 50.93 | 60.08 | 60.08 | 60.08 | 60.08 | 60.08 |
| Amorteiddio | | | | | | | | | |
| • 2025-6 | 3.11 | 3.11 | 3.11 | 3.11 | 3.11 | | | | |
| • 2026-7 | | 3.60 | 3.60 | 3.60 | 3.60 | 3.60 | | | |
| • 2027-8 | | | 1.72 | 1.72 | 1.72 | 1.72 | 1.72 | | |
| • 2028-9 | | | | 1.76 | 1.76 | 1.76 | 1.76 | 1.76 | |
| • 2029-30 | | | | | 1.83 | 1.83 | 1.83 | 1.83 | 1.83 |
| Cyfanswm amorteiddio | 3.11 | 6.71 | 8.43 | 10.19 | 12.02 | 8.91 | 5.31 | 3.59 | 1.83 |
| Cyfanswm amorteiddio (cronnol) | 3.11 | 9.81 | 18.24 | 28.42 | 40.44 | 49.35 | 54.66 | 58.25 | 60.08 |
| Gwerth asedau TG (net) | 12.42 | 23.73 | 23.89 | 22.50 | 19.64 | 10.73 | 5.42 | 1.83 | - |

## *Fforddiadwyedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'i gyllido*

Bydd angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy weithredu o fewn yr amlen gyllido a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru a'r Senedd yn flynyddol. Bydd rhwymedigaeth ariannol bob blwyddyn ar gyfer ymrwymiadau amlflwydd o'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol, y Cynllun Datblygu Gwledig etifeddol presennol ac ymrwymiadau presennol cynlluniau buddsoddi gwledig, a fydd yn parhau i gael eu rheoli o gyllideb y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Gan fod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn seiliedig ar alw, ni fydd fyth sicrwydd y caiff yr holl gyllidebau a ddyrannwyd eu gwario yn ystod y flwyddyn, hyd yn oed ar ôl gwneud pob ymdrech. Bydd swyddogion yn adolygu gwariant yn rheolaidd, ac alldro amcanestynedig y Taliad Cyffredinol, Cynllun y Taliad Sylfaenol ac ymrwymiadau blynyddol ac amlflwydd o dan y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol. Mae'r camau i liniaru'r risg a chynyddu gwariant yn cynnwys gwella argaeledd cynlluniau a rhaglenni yn seiliedig ar alw ac allbynnau a gweithredu o fewn terfynau gor-raglennu y cytunwyd arnynt [hyd at 30%] i gyflawni yn erbyn yr amlen gyllidebol sydd ar gael bob blwyddyn.

Pan fydd cyllidebau yn mynd yn dynn oherwydd galw mawr neu ostyngiad mewn cyllidebau a ddyrennir, bydd swyddogion yn addasu argaeledd cynlluniau a rhaglenni o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a phortffolio ehangach Materion Gweledig fel y bo'n briodol, gyda chyfarwyddyd Gweinidogol yn ôl yr angen.

Mae costau TG Taliadau Gwledig Cymru a gyflwynir yn Tabl 52 yn tybio cyfnod gweithredu o ddwy flynedd ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac yna gyfnod cyson o ddwy flynedd. Mae'r costau yn cefnogi'r broses o gyflwyno Cynnyrch Sylfaenol Hyfyw yn 2025-6, arlwy TG ychwanegol yn 2026-7 sy'n darparu gweithrediad llawn a nodweddion i ddefnyddwyr, a chymorth a chynnal a chadw parhaus. Os bydd angen newidiadau sylfaenol i ffurf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ddiweddarach yn ystod y Cyfnod Pontio, byddai costau TG Taliadau Gwledig Cymru yn cynyddu yn y blynyddoedd hynny. Wedi hynny, mae'r costau a gyflwynir yn caniatáu ar gyfer dim newidiadau TG mawr ar ôl 2026-7. Byddai'n rhaid i unrhyw newid sylweddol i ffurf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei gymeradwyo ynghyd â chost datblygu a gweithredu TG Taliadau Gwledig Cymru.

Ceir risg ychwanegol hefyd, os caiff y newidiadau hyn i'r cynllun eu nodi a bod angen eu cyflwyno ar fyr rybudd, bydd timau datblygu TG Taliadau Gwledig Cymru wedi cael eu cwtogi ar ôl 2026-7 a bydd galluogrwydd ac adnoddau datblygu yn gyfyngedig, a fydd yn peryglu'r broses o gyflwyno newidiadau i'r cynllun.

### *Cefnogaeth rhanddeiliaid*

Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn cefnogi cyllideb barhaus, a chynyddol yn ddymunol, ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn cydnabod maint y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau y gall y diwydiant amaethyddol ateb yr heriau a manteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â materion pwysig megis yr argyfwng hinsawdd a natur. Mae eu barn ynglŷn â sut y dylid dyrannu'r cyllid hwn i'r gwahanol Weithredoedd (Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol) yn amrywio.

Nid oes angen unrhyw gyllid allanol er mwyn cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac nid yw'n cynnwys unrhyw gyllid allanol, ond mae cyfraddau talu unigol fel arfer ond yn cyfrannu rhwng 40% a 60% o gostau'r eitem cyfalaf/gweithgarwch. Mae hefyd yn rhoi cyfle i gyllid ychwanegol fod ar gael i ffermwyr a pherchnogion tir drwy gyfleoedd masnachol, gan gynnwys ffynonellau cyllido amgen megis cyllid gwyrdd[127].

Disgwylir i rai rhanddeiliaid barhau i roi cymorth uniongyrchol i'w haelodau, heb gost i Lywodraeth Cymru, gan eu galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, roi cymorth gyda'r broses ymgeisio a/neu hyrwyddo Gweithredoedd penodol sy'n cyd-fynd â'u blaenoriaethau sefydliadol.

[127] Gweler, er enghraifft, grynodeb Llywodraeth Cymru o'r ymatebion i'w Hymgynghoriad ar Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy drafft a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025.

## YR ACHOS RHEOLI

*Cwestiwn allweddol: A oes modd cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn llwyddiannus?*

Mae'r Achos Rheoli yn canolbwyntio ar yr opsiwn a ffefrir. Mae'n ystyried:

- Sut y bwriedir rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel rhaglen, gan gynnwys ei drefniadau lywodraethu;
- Y cynllun rheoli newid;
- Sut y bwriedir gwireddu manteision;
- Sut y caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy eu rheoli;
- Cynlluniau ar gyfer sicrwydd a gwerthuso'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel rhaglen.

### *Rheoli'r rhaglen*


Caiff y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei gyflwyno drwy Gyfnod Pontio o bedair blynedd a fydd yn dechrau ar 1 Ionawr 2026, ac yn para hyd at 31 Rhagfyr 2029. Mae hyn yn rhan o gyfnod y Cynllun Cymorth Amlflwydd bum mlynedd cyntaf fel y'i nodwyd yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 [y "Ddeddf"]. Bydd y cyfnod hwn yn cwmpasu'r broses dapro a'r broses o gau Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig presennol yn y pen draw a datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ymhellach, yn enwedig y cymorth sydd i'w roi fel rhan o'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol.

Mae Ffigur 5 yn dangos sut y bwriedir rheoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyffredinol, sy'n seiliedig ar ddau gam:

- **Datblygu polisi:** mae'r ffordd y mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cael ei lunio i'w lansio ar ddechrau mis Ionawr 2026 wedi'i chadarnhau i raddau helaeth erbyn hyn. Disgwylir y bydd angen ei ddatblygu ymhellach mewn ymateb i adborth ar ôl ei weithrediad cychwynnol yn seiliedig ar fonitro a gwerthuso gweithgarwch yn ogystal ag amodau marchnad a rheoliadau sy'n newid;
- **Cyflawni**: bydd hyn yn cynnwys cwblhau model gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn derfynol, gan gynnwys prosesau priodol o'r dechrau i'r diwedd a rhannu data â thrydydd partïon.

Esbonnir pob cam ymhellach isod.

*Ffigur 5: Fframwaith cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*



## Llunio polisi

Fel y'i nodwyd, un o nodweddion allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw y bydd angen iddo barhau i ddatblygu o ran sut y defnyddir ei gyllid i sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl i gyflawni amcanion rheoli tir yn gynaliadwy a gwella gwerth am arian. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yn rheolaidd:

- Pa Weithredoedd y dylid eu cyflwyno i ymdrin ag anghenion polisi;
- Pa Weithredodd y dylid eu mireinio a'u haddasu i wella eu gwerth am arian a/neu eu heffeithiolrwydd;
- Pa Weithredoedd y dylid eu terfynu, os nad ydynt yn rhoi digon o werth am arian a/neu os ydynt yn aneffeithiol o ran cyflawni amcanion polisi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Er mwyn cefnogi'r angen hwn, caiff y defnydd o'r cylch 'ROAMEF' ei ymgorffori wrth reoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (gweler Ffigur 6)[128]. Mae pob cam o'r cylch yn adeiladu ar yr un blaenorol i greu dull rhesymegol o ddatblygu a mireinio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn seiliedig ar y canlynol:


1. Rhesymeg: Bydd pennu diben pob Gweithred bosibl yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a deall pam mae ei hangen yn helpu i ganfod pa broblem y mae pob Gweithred yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn anelu at ei hunioni.
2. Amcanion: Pennu amcanion clir sy'n amlinellu'r hyn y mae Gweithred y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn bwriadu ei gyflawni, gan gynnwys pennu nodau penodol a sut y caiff llwyddiant ei fesur.
3. Arfarnu: Asesu'r gwahanol opsiynau ar gyfer cyflawni'r amcanion a bennwyd ar gyfer pob Gweithred er mwyn canfod pa rai sy'n cynnig y gwerth gorau am arian yn seiliedig ar ystyried dichonoldeb tebygol, effeithiolrwydd ac effaith bosibl gwahanol ddulliau gweithredu.
4. Monitro: Monitro pob Gweithred yn barhaus yn ystod y broses o'i rhoi ar waith er mwyn olrhain cynnydd yn erbyn yr allbynnau a'r canlyniadau arfaethedig (a bennwyd ar Gam 2) a thrwy hynny sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dal i fod ar y trywydd cywir tuag at gyflawni ei amcanion o fewn y gyllideb sydd ar gael.
5. Gwerthuso: Gwerthuso effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwahanol rannau o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o bryd i'w gilydd yn seiliedig, yn rhannol, ar adborth rhanddeiliaid a dadansoddi a yw'r manteision bwriadedig yn cael eu gwireddu mewn ffordd sy'n cynnig gwerth da am arian.
6. Adborth: Cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o fonitro a gwerthuso drwy sicrhau bod y ddealltwriaeth hon yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol ac yn gwella arferion.

Fel rhan o'r broses barhaus o reoli'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y bwriad yw:

- Sefydlu a chytuno ar broses o ddatblygu a chymeradwyo newidiadau i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Creu sylfaen dystiolaeth y gellir ei defnyddio i lywio'r dadansoddiad cost a budd sy'n rhan allweddol o ddeall gwerth am arian posibl Gweithredoedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Cadarnhau gallu ac adnoddau priodol ar gyfer llunio polisïau, gan gynnwys datblygu achosion busnes.

[128] Model rheoli perfformiad a gyflwynir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF yw'r cylch ROAMEF.


*Ffigur 6:Fframwaith datblygu polisi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*




## Cyflawni

Mae Ffigur 7 yn dangos y ffrydiau gwaith allweddol a ragwelir i gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ystod y Cyfnod Pontio. Mae'n cynnwys cyfnod o 18 mis o fis Gorffennaf 2025 i fis Ionawr 2027. Yn ystod y cyfnod hwn bydd yr Haen Gyffredinol a Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol Blwyddyn 1 yn cael eu cyflwyno yn lle Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig. Yna, bydd cyfnod o dair blynedd pan fydd rhagor o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol yn cael eu cyflwyno a phan fydd eu ffurf gychwynnol yn cael ei mireinio fel y bo'n briodol. Mae'r amserlen hon ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gymharol fyr am y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Chynllun y Taliad Sylfaenol yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd, a fu'n bosibl drwy ymgysylltu helaeth â'r diwydiant a datblygu prosesau gweithredol a systemau TG ar gam cynnar.

*Ffigur 7: Ffrydiau gwaith pontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*




Bydd y broses o roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith o ddydd i ddydd yn cael ei harwain gan Taliadau Gwledig Cymru. Bydd yn defnyddio methodoleg ystwyth i ddatblygu'r prosesau busnes a'r systemau TG sydd

eu hangen i gyflawni amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ystod y Cyfnod Pontio. Crynhoir map ffordd y broses gyflawni yn Tabl 54.

*Tabl 54: Map ffordd y broses o gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

| **Blwyddyn 1 (2026)** | **Blwyddyn 2 (2027)** | **Blwyddyn 3 (2028)** | **Blwyddyn 4 (2029)** |
|---|---|---|---|
| Hawliadau Blynyddol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy/Cynllun y Taliad Sylfaenol | Hawliadau Blynyddol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy/Cynllun y Taliad Sylfaenol | Hawliadau Blynyddol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy/Cynllun y Taliad Sylfaenol | Hawliadau Blynyddol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy/Cynllun y Taliad Sylfaenol |
| Dangosfwrdd Haen Gyffredinol / Cynnyrch Sylfaenol Hyfyw y Cynllun Ffermio Cynaliadwy | Dangosfwrdd yr Haen Gyffredinol / Wedi'i fireinio | Dangosfwrdd yr Haen Gyffredinol / Wedi'i fireinio | Dangosfwrdd yr Haen Gyffredinol / Terfynol |
| Dechrau tapro Cynllun y Taliad Sylfaenol | Tapro Cynllun y Taliad Sylfaenol yn parhau | Blwyddyn olaf Cynllun y Taliad Sylfaenol | Dim Cynllun Taliad Sylfaenol |
| Integreiddio System Taliadau Gwledig Cymru a Cyswllt Ffermio<br>Contract newydd Cyswllt Ffermio yn dechrau<br>Rhannu data sylfaenol â Chynlluniau Sicrwydd Fferm | Integreiddio rhwng Taliadau Gwledig Cymru a System Amlrywogaeth Cymru / System Olrhain Gwartheg EID Cymru[129]<br>Llinell Sylfaen Carbon ar Lefel Fferm<br>Technoleg mapio maes newydd | Trefniadau integreiddio a rhannu data â chyflenwyr data a'r gadwyn gyflenwi<br>Trefniadau integreiddio a rhannu data â chyflenwyr data a'r gadwyn gyflenwi | Ap 'Cydymaith' Symudol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy Sianel ddigidol ychwanegol i Taliadau Gwledig Cymru ar-lein |
| Cynlluniau safle dynodedig, a dechrau'r Rhestr o'r Gwaith<br>Cynlluniau Cyfleoedd Coetir a Gwrychoedd | Cynlluniau safle dynodedig sy'n mynd rhagddynt a'r Rhestr o Waith | Cynlluniau safle dynodedig sy'n mynd rhagddynt a'r Rhestr o Waith | Cynlluniau safle dynodedig sy'n mynd rhagddynt a'r Rhestr o Waith |
| Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol Cychwynnol<br>Cymorth Tir Comin y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. | Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol Pellach. | Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol Pellach | Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol Pellach |
| | Asesiadau ar safle fferm ar gyfer ardaloedd o gynefin sensitif. | Parhaus | Parhaus |

Mae cynllun gweithredu Taliadau Gwledig Cymru yn canolbwyntio ar ddarparu cynnyrch sylfaenol hyfyw ar gyfer y Ffordd Ymlaen a Ffefrir ym Mlwyddyn 1 er mwyn cefnogi'r broses o fynd yn fyw a chyflwyno cynnig yr Haen Gyffredinol a Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol Blwyddyn 1. Bydd hyn hefyd yn rhoi amser i bob un o dair Haen y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael eu mireinio neu eu datblygu ymhellach yn ystod y Cyfnod Pontio o bedair blynedd fel rhan o gylch gwelliant parhaus.

Bydd y broses o gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar y cyfan yn seiliedig ar systemau sy'n bodoli eisoes sydd wedi gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon: maent yn ategu hanes profedig, hirsefydlog Taliadau Gwledig Cymru o ddarparu rhaglenni grantiau a chymorthdaliadau gwledig o dan PAC yr UE. Hefyd, mae defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill yn ymddiried yn Taliadau Gwledig Cymru.

Mae'n diweddaru systemau megis y System Adnabod Parseli Tir a strategaethau data er mwyn nodi'r dull gweithredol, yr egwyddorion a'r uchelgeisiau yn yr hirdymor i helpu i gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac amcanion ehangach rheoli tir yn gynaliadwy. Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth glir o'r cynnydd a'r

[129] Oherwydd gofynion y cynllun mewn perthynas â llinell sylfaen carbon yn yr Haen Gyffredinol a gweithredoedd cynhyrchiant yn yr Haen Opsiynol, bydd angen derbyn a phrosesu cryn dipyn o ddata ar dda byw oddi wrth y busnes fferm. Er mwyn lleihau'r baich ar y rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun, byddwn yn rhoi rhyngwynebau 'rhannu data' ar waith rhwng Taliadau Gwledig Cymru a'r System Olrhain Gwartheg, a reolir gan Wasanaehau Symud Gwartheg Prydain a'r Gronfa Ddata Adnabod Electronig, a reolir gan Hybu Cig Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gael yr holl ddata ar wartheg a defaid yn uniongyrchol oddi wrth y prosesydd data, fel sy'n ofynnol.

effeithlonrwydd a'r cyfleoedd gwell a ddisgwylir yn y dyfodol i ffermwyr, rheolwyr tir a rhanddeiliaid eraill, gan barhau i ddarparu system effeithiol o'r cychwyn.

## *Trefniadau Monitro ac Adrodd*

Mae Is-adran Llywodraethu a Goruchwylio Rhaglen Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am fonitro pob cynllun a ariennir o fewn Materion Gwledig Cymru, paratoi adroddiadau arnynt a'u gwerthuso o ddau safbwynt:

- Gofynion cyfreithiol y Ddeddf, gan gynnwys dyletswyddau rheoli tir yn gynaliadwy a'r gofynion adrodd cyfreithiol mewn perthynas â chyllid amaethyddol;
- Targedau a dangosyddion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei hun.

Bydd yr Is-adran yn datblygu sylfaen dystiolaeth i helpu i lunio a mireinio cymorth o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol. Caiff hyn ei lywio gan waith monitro cadarn, parhaus ynghyd ag adroddiadau misol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a gwerthusiad o'i elfennau (tua phob pum mlynedd). Bydd y dull gweithredu yn cael ei lunio i roi cyfleoedd rheolaidd i Weinidogion Cymru ac uwch-swyddogion sicrhau bod iteriadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dal i fod yn effeithiol, yn effeithlon ac yn rhoi gwerth am arian a hefyd cyfleoedd i nodi a datrys problemau gyda rhybudd cynnar. Y disgwyliad yw y bydd adolygiad manylach o'r Cynllun hanner ffordd drwy'r Cyfnod Pontio cyn yr adroddiadau statudol ar reoli tir yn gynaliadwy ac effaith yn 2030 er mwyn helpu'r Cynllun i ddatblygu mewn ffordd gadarnhaol.

### Gofynion Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

O dan y Ddeddf, mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i fonitro, gwerthuso ac adrodd ar gynnydd o ran cyfraniad unrhyw gymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru tuag at gyflawni amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Drwy fonitro gall Llywodraeth Cymru fod yn atebol am ei pherfformiad yn erbyn yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Mae'n rhoi tryloywder priodol i Aelodau'r Senedd a'r cyhoedd fel y gallant olrhain cyflawniadau.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu fframwaith monitro ac adrodd clir sy'n gymwys i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'n cynnwys set o weithgareddau cyffredinol i asesu effaith a gwerth am arian a pharatoi adroddiad arnynt. Mae'n cynnwys pum lefel adrodd:

- Y **Cynllun Cymorth Amlflwydd**, sef blaengynllun pum mlynedd sy'n nodi sut mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhoi cymorth yn ystod cyfnod y cynllun er mwyn cyfrannu at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy[130]. Mae'n disgrifio pob cynllun a fydd yn weithredol, neu y disgwylir iddo fod yn weithredol, yn ystod y cyfnod (er enghraifft, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy) ac unrhyw gymorth y bwriedir ei roi nad yw'n dod o dan gynllun.
- Caiff set o dargedau a dangosyddion rheoli tir yn gynaliadwy eu pennu a'u cyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2025 a gaiff eu defnyddio i asesu cynnydd yn erbyn yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Bydd y targedau a'r dangosyddion hyn hefyd yn gymwys i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- **Adroddiad Blynyddol** i roi tryloywder bod cymorth perthnasol yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru i'r sector amaethyddol. Wrth roi gwybodaeth am faint o gymorth a roddwyd, bydd yr Adroddiad Blynyddol hefyd yn cofnodi lle mae cymorth wedi cael ei dynnu'n ôl neu ei adennill. Bydd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 17 Hydref 2023 i 31 Mawrth 2025 (a bydd yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2026 fan bellaf). Wedyn, bydd pob cyfnod adrodd yn cwmpasu blynyddoedd cyllidol.
- Caiff **Adroddiad Effaith** ei baratoi bob pum mlynedd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn gwerthuso'r holl gymorth a roddwyd o dan y Ddeddf. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o effaith ac effeithiolrwydd y Ddeddf. Bydd cwmpas yr Adroddiad Effaith yn cynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ond ni fydd o reidrwydd wedi'i gyfyngu iddo. Bydd yr Adroddiad Effaith yn asesu'r ffordd, ac i ba raddau, y mae'r cymorth a roddwyd drwy gynllun neu fel arall:

    - Wedi cyflawni ei ddibenion;
    - Wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

[130] Llywodraeth Cymru, Cynllun Cymorth Amlflwydd – Amaethyddiaeth 2025-2029, 2024

- Bydd **Adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy** yn cael ei lunio bob pum mlynedd i asesu effeithiolrwydd y camau gweithredu a gymerwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â'r ddyletswydd i gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Bydd yn asesu cynnydd cronnol tuag at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy (ers i'r ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy ddod i rym) yn ogystal â'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd. Bydd hefyd yn gwerthuso cynnydd yn erbyn y dangosyddion a'r targedau o ran rheoli tir yn gynaliadwy ac yn nodi a yw pob targed wedi cael ei gyflawni. Mae'n bosibl y bydd yr adroddiad hefyd yn cofnodi materion eraill, megis blaenoriaethau allweddol, risgiau a chyfleoedd mewn perthynas â chyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, a'r effaith y mae'r cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion hynny wedi'i chael ar nodau ehangach Llywodraeth Cymru. Dechreuodd y cyfnod adrodd cyntaf ar 17 Hydref 2023 a daw i ben ar 31 Rhagfyr 2025. Wedi hynny, bydd adroddiadau ar sail cyfnod treigl o bum mlynedd.

Y bwriad yw mai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fydd y brif system, ond nid yr unig system, o gymorth gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Caiff ei effaith ei olrhain drwy raglen monitro a gwerthuso effeithiol sy'n ymgorffori data perfformiad a rheoli gan Taliadau Gwledig Cymru, CNC a darparwyr gwasanaethau eraill. Bydd yr wybodaeth hon yn cefnogi gofynion adrodd statudol a hefyd y broses o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

### Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Yn ychwanegol at ofynion monitro ac adrodd y Ddeddf, bydd gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei fframwaith monitro, adrodd a gwerthuso ei hun hefyd fel y gellir asesu effeithiolrwydd a gwerth am arian y cynllun ei hun. Bydd y dull gweithredu yn gyson â chanllawiau Trysorlys EF[131].

Gan weithio gyda thimau polisi perthnasol a Taliadau Gwledig Cymru, bydd yr Is-adran Llywodraethu a Goruchwylio'r Rhaglen yn monitro holl elfennau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn rheolaidd er mwyn rhoi adroddiadau dangosfwrdd misol i Fwrdd Trosolwg Strategol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Bwrdd y Portffolio Materion Gwledig. Y nod fydd asesu perfformiad cyffredinol yn erbyn cerrig milltir cyflawni allweddol, targedau gwariant, alldro manteision ac adolygiad o risgiau perthnasol, materion a chofrestrau manteision a rhoi argymhellion i uwch-swyddogion.

Bydd allbynnau'r gwaith monitro ac adrodd rheolaidd hwn, ynghyd â gweithgareddau modelu a chasglu data rheolaidd gan y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd, yn rhoi gwybodaeth allweddol i uwch-swyddogion a Gweinidogion Cymru er mwyn iddynt ddeall prosesau, effeithiau a gwerth am arian y Gweithredoedd sy'n rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Byddant hefyd yn rhoi tystiolaeth i swyddogion er mwyn iddynt archwilio gwerth am arian newidiadau posibl i'r polisi a'r cynllun i gael mwy o effaith mewn perthynas â gwireddu targedau, dangosyddion a manteision ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a gofynion cyfreithiol rheoli tir yn gynaliadwy. Disgwylir i grynodeb o'r dadansoddiad hwn gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol er mwyn dangos tystiolaeth o'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy'r Gweithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol.

Ar ddiwedd cylchoedd cyflawni rheolaidd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y rhagwelwn y byddant yn digwydd bob pum mlynedd (ond gydag adolygiad interim hanner ffordd drwy'r Cyfnod Pontio), bydd gwerthusiad terfyn rhaglen yn cael ei gynnal yn erbyn cylch cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer y pum mlynedd flaenorol er mwyn asesu effeithiolrwydd ac effaith y Cynllun; dysgu gwersi o'r hyn a weithiodd yn dda, yr hyn na weithiodd yn dda a pham; nodi argymhellion ar gyfer gwaith cynllunio, polisïau, strategaethau a ffurf cynlluniau yn y dyfodol; a, rhoi tryloywder sy'n seiliedig ar dystiolaeth i randdeiliaid sy'n dangos cyflawniadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac effaith gwerth y cyllid a ddyrannwyd. Bydd hyn yn gysylltiedig â'r dull rheoli newid.

Bydd yr Is-adran Llywodraethu a Goruchwylio Rhaglenni, ynghyd â Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, yn contractio gwerthuswr annibynnol i gynnal y gwerthusiad terfyn rhaglen gofynnol. Bydd swyddogion yn anelu at gyhoeddi'r gwerthusiad terfyn rhaglen ar yr un pryd â'r Adroddiad Effaith sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.


[131] Trysorlys EF, Y Llyfr Gwyrdd, 2022 a'r Llyfr Magenta: canllawiau Llywodraeth Ganolog ar werthuso, Mawrth 2020

## *Trefniadau llywodraethu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Mae Ffigur 8 yn dangos y strwythur llywodraethu arfaethedig ar gyfer cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Y nod yw:

- Sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn amserol ar y lefel prosiect briodol;
- Rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;
- Meithrin diwylliant o atebolrwydd a thryloywder;
- Rhoi goruchwyliaeth ac arweiniad i wella'r potensial i lwyddo.

*Ffigur 8: Strwythur llywodraethu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy*




Bydd y Bwrdd Newid Amaethyddol presennol yn dod yn Fwrdd Trosolwg Strategol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a fydd yn cynnig fforwm ymgysylltu mewnol ffurfiol er mwyn i swyddogion polisi, gweithredol a monitro rhaglen ganolbwyntio ar y canlynol:

- Polisi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Prosesau gweithredu a chyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Rheoli'r Gyllideb;
- Prosesu monitro, adrodd a gwerthuso rhaglenni rheoli tir yn gynaliadwy a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan Noddwr y Rhaglen a bydd yn cynnwys uwch-reolwyr Newid Hinsawdd, Materion Gwledig a Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol. Bydd yn cael mewnbwn gan randdeiliaid mewnol allweddol megis Trysorlys Cymru, fel y bo'n briodol, yn ogystal â chynrychiolwyr allanol allweddol megis CNC.

Bydd strwythurau llywodraethu presennol Taliadau Gwledig Cymru yn cael eu hailbwrpasu i ganolbwyntio ar roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith yn weithredol fel y gellir rheoli cerrig milltir dibyniaethau a gweithgareddau busnes allweddol yn weithredol, a nodi, monitro ac uwchgyfeirio unrhyw risgiau neu broblemau er mwyn ei gwneud mor debygol â phosibl y caiff y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei gyflawni'n llwyddiannus. Caiff y strwythur a'r broses hon eu sefydlu yng Nghynllun Llywodraethu Taliadau Gwledig Cymru (gweler Atodiad G).

Bydd Taliadau Gwledig Cymru yn gweithio gyda phartneriaid cyflawni allweddol eraill, yn enwedig CNC, a chontractwr/wyr Cyswllt Ffermio i ddarparu gwasanaeth di-dor i geiswyr y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Bydd aelodaeth a chylch gorchwyl strwythurau llywodraethu allweddol yn cael eu llunio'n eang i gydnabod bod angen gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl. Caiff llwybrau adrodd ac uwchgyfeirio eu nodi ar gam cynnar er mwyn sicrhau bod materion a chadwyni datrys ar waith i leihau unrhyw effaith ar y broses o gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Ceir Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer pob Bwrdd yn Atodiad G. Byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ystod 2025 cyn bod y broses gyflawni yn dechrau yn 2026 a gwelliannau yn y dyfodol yn ystod cyfnod y rhaglen e.e. mae'n bosibl y bydd Bwrdd Cyflawni Taliadau Gwledig Cymru yn dod yn Fwrdd Cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy unwaith y bydd y cynllun wedi'i roi ar waith yn llawn.

## *Rolau a chyfrifoldebau allweddol*

Wrth ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy caiff arferion da eu hymgorffori. Bydd yn parhau â'r gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol sydd wedi bod yn bresennol yn ystod y broses datblygu polisi ddiweddar sydd wedi llywio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Caiff ymgysylltu ac adborth o'r fath eu cefnogi gan Grŵp Adolygu (mewnol) y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a fydd yn parhau â'r cydberthnasau hynny â rhanddeiliaid mewnol ac yn casglu gwybodaeth gan grwpiau eraill i lywio, ynghyd ag adroddiadau monitro a gwerthuso, unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'w hargymell i Grŵp Trosolwg Strategol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd yn ategu'r gweithgarwch ymgysylltu presennol ar bolisïau, cymorth a rheoliadau cysylltiedig.

Y Cyfarwyddwr Materion Gwledig fydd noddwr y rhaglen a'r swyddog cyfrifyddu ar gyfer y gyllideb. Bydd y Cyfarwyddwr, ynghyd ag Uwch-swyddog Cyfrifol y Rhaglen (Pennaeth yr Is-adran amaethyddiaeth), yn atebol am gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac am sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion ac yn sicrhau'r manteision disgwyliedig. Byddant yn arwain ac yn hyrwyddo'r rhaglen. Byddant hefyd yn cael eu grymuso i bennu cyfeiriad y rhaglen a gwneud penderfyniadau allweddol, er enghraifft ar ddyrannu adnoddau.

Yr Is-adran Llywodraethu a Goruchwylio Rhaglenni sy'n atebol yn gyffredinol am gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy yn ogystal â goruchwylio'r holl raglenni, prosiectau a chynlluniau, gan gynnwys materion rheoli cyllideb a rhaglen strategol. Yr Is-adran sydd ag awdurdod yn unig dros y canlynol:

- Penderfyniadau cyllido o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r tu allan iddo (fel y maent yn ymwneud â'r gyllideb amaethyddiaeth);
- Y fframweithiau a ddefnyddir i ddyrannu cyllid;
- Prosesau monitro, adrodd a gwerthuso rhaglenni, prosiectau a chynlluniau, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Cyngor Gweinidogol ar gyllidebu a rheoli tir yn gynaliadwy.

Bydd yr Is-adran Amaethyddiaeth yn gyfrifol am barhau i ddatblygu polisïau sy'n ymwneud â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i'w ddatblygu mewn partneriaeth. Bydd yn integreiddio'r gwaith hwn â'i chyfrifoldeb presennol am bolisïau amaethyddol ehangach, megis y llwybr tuag at sero net, cymorth i'r farchnad ac ymyriadau yn ystod cyfnodau anwadal. Bydd hefyd yn sicrhau cydweithrediad mewnol ac allanol effeithiol i lunio safbwynt integredig i Lywodraeth Cymru sy'n ystyried y blaenoriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a sut mae'n cyd-fynd â'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

## *Cynllun y rhaglen*

Bydd y broses o roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith o Ddiwrnod Cyntaf y Cyfnod Pontio yn seiliedig ar ddull cydweithredol, uchelgeisiol a fydd yn cyflawni ochr yn ochr â'r canlynol:

- Gofynion y cynllun polisi terfynol a chymorth;
- Y prosesau busnes a'r systemau TG sydd eu hangen i gyflawni'r Haen Gyffredinol erbyn 1 Ionawr 2026 a helpu ffermwyr i ymgynefino â'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol wedi hynny yn y dyfodol.

Bydd cynllun cyffredinol y rhaglen ar gyfer y Cyfnod Pontio o bedair blynedd (gweler Atodiad H) yn cael ei ddefnyddio i olrhain cynnydd o ran gweithgareddau, elfennau i'w cyflawni a cherrig milltir a fydd, ynghyd â gweithgareddau monitro, adrodd a gwerthuso rheolaidd gan yr Is-adran Llywodraethu a Goruchwylio Rhaglenni yn sicrhau perfformiad cyflawni. Caiff unrhyw risgiau a phroblemau eu holrhain drwy fyrddau llywodraethu presennol Taliadau Gwledig Cymru a grybwyllir uchod ac yn fanylach yn yr adran ar reoli risg isod. Caiff materion eu huwchgyfeirio drwy Grŵp Trosolwg Strategol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yr Uwch-swyddog Cyfrifol a Noddwr Llywodraeth Cymru (y Cyfarwyddwr dros Faterion Gwledig).

## *Gofynion cymorth allanol*


Mae Taliadau Gwledig Cymru wedi llunio Model Gweithredu Targed i roi'r strwythur, yr adnoddau a'r galluogrwydd sydd eu hangen i gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o ddydd i ddydd. Bydd yn integreiddio adnoddau o rannau eraill o Lywodraeth Cymru, cyrff statudol megis CNC a darparwyr gwasanaethau sy'n cael eu caffael yn allanol.

Bydd y gofynion gwirioneddol o ran gallu technegol ac adnoddau a bennwyd yn seiliedig ar ffurf bresennol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn dibynnu ar ffactorau megis y niferoedd sy'n ymgymryd â'r Gweithredoedd Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol. Cydnabyddir y bydd cyfnodau o weithgarwch dwys o bosibl, er enghraifft yn ystod cyfnodau ymgeisio ac asesiadau ar y fferm fel rhan o'r Gweithredoedd Opsiynol, pan fo'r galw ymhlith cwsmeriaid yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael. Os bydd angen, caiff y Gwasanaeth Caffael Dynamig ei ddefnyddio i ategu'r adnoddau presennol ar adegau prysur.

## *Ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol*

Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau bod eu penderfyniadau yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi cymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler Ffigur 9). Drwy wneud hyn, gallent weithio gyda'i gilydd yn well, osgoi gwneud yr un camgymeriadau eto a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor a wynebwn.

*Ffigur 9: Ffyrdd o weithio i gymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy*




Fel y nodir yn yr Achos Strategol, mae Llywodraeth Cymru, wrth roi Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ar waith a datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, wedi ymgysylltu'n eang ac yn effeithiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd. Mae'r gweithgarwch ymgysylltu hwn drwy ymgynghori a chydlunio wedi helpu Llywodraeth Cymru i ddeall safbwyntiau ffermwyr, yr undebau ffermio a sefydliadau eraill megis cyrff anllywodraethol amgylcheddol a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol ac ymateb iddynt wrth ddatblygu ei chynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae'r strwythur a ddefnyddiwyd, gyda grwpiau gweithredol (e.e. Grŵp y Swyddogion, Grŵp Cyflawni Rhanddeiliaid Coed a Gwrychoedd a Grŵp Defnyddwyr Taliadau Gwledig Cymru) yn cynnal sgyrsiau mwy strategol (Bord gron Weinidogol), wedi bod yn ffordd effeithlon ac effeithiol o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae wedi helpu i greu consensws o ystyried bod uchelgeisiau ac amcanion rhanddeiliaid yn aml yn wahanol. Mae'r strwythur ffurfiol hwn wedi cael ei ategu gan ymgysylltu manylach, ad hoc.

Bwriedir i'r dull gweithredu hwn, sy'n gyson â'r pum ffordd o weithio yn Ffigur 9, osod y sylfaen ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y dyfodol. Er y bydd angen i'r gwahanol grwpiau ddatblygu mewn ymateb i anghenion newidiol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, maent, yn fras, yn addas at y diben ar hyn o bryd. Bydd swyddogion yn adolygu ac yn diweddaru eu Cylch Gorchwyl cyn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei gyflwyno yn 2026.

### ***Rheoli newid***

#### *Strategaeth rheoli newid*

Fel y nodir yn yr Achos Strategol, disgwylir i ffurf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddatblygu a chael ei haddasu dros amser, a hynny mewn ymateb i anghenion polisi sy'n newid a thystiolaeth y gwaith monitro a gwerthuso ar effeithiolrwydd a gwerth am arian ei gymorth. Hefyd, drwy newidiadau mewnol wedi'u cynllunio'n dda, mae'n bosibl y bydd modd gwella effeithiolrwydd ac effeithiolrwydd y prosesau busnes a ddefnyddir i gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd hyn yn rhan o gylch gwelliant parhaus.

Bydd y gallu i reoli newid yn llwyddiannus yn benderfynydd hollbwysig o ran llwyddiant y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae hyn yn wir yn ystod y Cyfnod Pontio a thu hwnt. Felly, nod y strategaeth rheoli newid ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw galluogi'r systemau, y prosesau a'r bobl sy'n gweithio ar y Cynllun yn Llywodraeth Cymru i ymaddasu'n gyflym ac yn hyblyg.

#### *Fframwaith rheoli newid*

Bwrdd Trosolwg Strategol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fydd yn gyfrifol yn y pen draw am reoli unrhyw newid i'r Cynllun.

O ystyried cymhlethdod y cyd-destun y bydd y Cynllun yn gweithredu ynddo (e.e. mynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a'r argyfwng natur), yn ogystal â'r angen i barhau i fod yn gyson â mentrau eraill Llywodraeth Cymru, bydd angen i'r ystyriaeth o'r holl opsiynau ar gyfer newid gyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru o ran mentrau yn y tymor hwy.

#### *Cynlluniau rheoli newid*

Er mwyn rheoli newid gweithredol yn effeithiol drwy gydol Cyfnod Pontio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, mae'r strategaethau allweddol canlynol wedi cael eu pennu:

- Cynllun rheoli cyffredinol sy'n nodi'r rheolaethau lefel uchel y bydd Taliadau Gwledig Cymru yn eu rhoi ar waith i weinyddu a dilysu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'n cynnwys gwaith partneriaid cyflawni a darparwyr gwasanaethau wedi'u contractio a esbonnir yn fanylach yn yr Achos Masnachol.
- Model Gweithredu Targed: Dechreuodd gwaith ar hwn yn 2024, a daeth cyfnod yr ymgynghoriad ffurfiol â'r staff i ben ar 28 Mawrth 2025. Cytunwyd ar strwythur terfynol y Model Gweithredu Targed i gefnogi'r broses o roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith a'i gyflawni ym mis Mai 2025.
- Strategaeth rheoli newid gyffredinol sy'n nodi trefniadau llywodraethu, rolau a chyfrifoldebau ac amseriadau i reoli newid parhaus yn effeithiol a sicrhau gwelliant parhaus.
- Ailbwrpasu Bwrdd Cyflawni Rhaglen y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Grŵp Adolygu ar gyfer y Cynllun sy'n gallu nodi ac argymell newidiadau i Grŵp Trosolwg y Cynllun i'w cymeradwyo yn unol â'r broses rheoli newid.

### ***Gwireddu manteision***

Er mai'r Uwch-swyddog Cyfrifol fydd yn gyfrifol yn y pen draw am wireddu manteision y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, caiff y gwaith o reoli manteision ei arwain gan yr Is-adran Llywodraethu a Goruchwylio Rhaglenni.

#### *Strategaeth gwireddu manteision y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Amlinellir amcanion a manteision disgwyliedig y Cynllun yn yr Achos Strategol sydd hefyd yn esbonio sut maent yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol rheoli tir yn gynaliadwy.

Mae manteision disgwyliedig a chostau economaidd posibl y Cynllun wedi cael eu harfarnu fel rhan o'r Achos Economaidd yn dilyn canllawiau yn y Llyfr Gwyrdd[132]. Mae'r dadansoddiad hwn wedi cwmpasu Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun.

[132] Trysorlys EF, y Llyfr Gwyrdd, 2022

Mae'r arfarniad o'r Haen Gyffredinol gan y Llwyfan Modelu Integredig a'r Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol wedi asesu effaith bosibl pob un o'r 15 Gweithred Gyffredinol fel pecyn; nid yw'n gwahaniaethu rhwng cyfraniad Gweithredoedd unigol.

Mae'r arfarniad o'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol wedi ystyried yr 17 o Weithredoedd arfaethedig ar gyfer Blwyddyn 1 ar wahân. Mae pob un wedi cael ei ategu drwy ddatblygu cadwyn rhesymeg sy'n disgrifio'r berthynas ddisgwyliedig rhwng y gweithgareddau y disgwylir i ffermwyr a pherchnogion tir ymgymryd â nhw er mwyn bodloni eu rhwymedigaethau o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r allbynnau, y canlyniadau ac, yn y pen draw, yr effeithiau a'r manteision sy'n deillio ohono.

Fodd bynnag, ni fu modd pennu gwerth ariannol y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol arfaethedig, na mesur eu holl gostau a manteision mewn rhai achosion. At hynny, fel y noda'r Achos Strategol, bydd angen i natur a chwmpas y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol ddatblygu o bosibl yn y dyfodol, yn enwedig ar ôl y Cyfnod Pontio. Bydd hyn yn creu angen am dystiolaeth ddigonol i gefnogi penderfyniadau sy'n effeithio ar wireddu manteision. Bydd swyddogion yn parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth hon er mwyn cryfhau penderfyniadau polisi yn y dyfodol a chefnogi'r broses o adrodd ar fanteision.

Serch hynny, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed fel rhan o'r dadansoddiad gwerth am arian yn yr Achos Economaidd, gellir nodir manteision â blaenoriaeth y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dyma'r manteision a fydd yn destun y ffocws cychwynnol wrth reoli manteision.

Ar gyfer pob mantais â blaenoriaeth, mae gwaith wedi cael ei wneud i nodi:

- Y gweithgareddau sydd eu hangen i roi cychwyn ar y manteision;
- Y newidiadau sydd eu hangen mewn arferion ffermio/rheoli tir – a/neu'r newid ymddygiadol ehangach – i sicrhau'r fantais;
- Yr allbynnau a'r canlyniadau disgwyliedig y gellir eu holrhain fel rhan o'r gwaith monitro ar sicrhau'r manteision disgwyliedig;
- Dangosyddion priodol i helpu i olrhain a yw manteision yn cael eu gwireddu: bydd angen gwneud gwaith pellach i fireinio'r dangosyddion hyn, gan gynnwys sicrhau, fel y bo angen, eu bod yn gyson â'r rhai sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru i olrhain y broses o gyflawni ei hamcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

## *Fframwaith gwireddu manteision y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Mae'r gwaith mapio hwn yn rhoi'r fframwaith i reoli'r broses o wireddu manteision.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud o dan arweiniad yr Is-adran Llywodraethu a Goruchwylio Rhaglenni er mwyn:

- Pennu/mireinio'r metrigau a'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau) priodol i olrhain sut y cyflawnir pob un o'r manteision â blaenoriaeth;
- Cynllunio sut y caiff y metrigau eu mesur a'u monitro, gan gynnwys pennu llinell sylfaen/senario gwrthffeithiol priodol ar gyfer pob mantais;
- Sicrhau bod y metrigau a ddewisir yn gallu mesur mewn ffordd sy'n rhoi sylfaen ddiamwys dros asesu perfformiad: bydd hyn yn cynnwys:
    - Ystyried yr holl fetrigau rhyng-gysylltiedig (e.e. drwy ddefnyddio coed ysgogi);
    - Osgoi, hyd y gellir, unrhyw dybiaethau o ran y metrig a ddewisir (e.e. peidio â defnyddio lluosyddion economaidd i bennu gwerth ariannol manteision anariannol; peidio â didynnu unrhyw linellau sylfaen);
    - Dim ond defnyddio mesurau procsi pan na fydd metrig delfrydol yn bodoli ac y gellir cyfiawnhau hynny;
- Cytuno ar y ffordd y caiff y mesurau, y DPAau a'r llinell sylfaen eu casglu.

Mae'n bwysig hefyd nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol/atebol am wireddu pob mantais mewn gwirionedd fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys:

- Dangos tystiolaeth o ymrwymiad lefel uwch i wireddu manteision;

- Pennu model llywodraethu priodol i barhau i oruchwylio a monitro'r manteision a wireddwyd;
- Cynllun ar gyfer adolygiadau ôl-weithredol, gan gynnwys pwyntiau adolygu penodedig.

Yn olaf, mae'r dull o reoli risg y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys ystyried y materion sy'n gysylltiedig â gwireddu manteision.

### *Cofrestr o fanteision*

Mae'r gofrestr o fanteision, sydd ar gael yn Atodiad F, yn pennu'r manteision y disgwylir iddynt godi ar hyn o bryd o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r holl fanteision a nodwyd yn yr Achos Strategol ac a arfarnwyd yn yr Achos Economaidd wedi'u cynnwys. Bydd y gofrestr o fanteision yn cael ei hadolygu'n rheolaidd fel rhan o ddull arfaethedig o wireddu manteision.

## ***Rheoli risg***

Mae rheoli risg ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn seiliedig ar ddull gweithredu sy'n cynnwys:

- Pennu strategaeth rheoli risg sy'n cefnogi proses ragweithiol ac effeithiol o reoli risg;
- Pennu fframwaith rheoli risg lle y caiff risgiau eu nodi, eu lliniaru a'u rheoli;
- Ymgorffori gweithgarwch rheoli risg mewn prosesau busnes yn llawn er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gymhwyso'n gyson a bod risgiau yn cael eu huwchgyfeirio i'w cofnodi fel y bo'n briodol;
- Arweinyddiaeth, cefnogaeth, perchenogaeth uwch-reolwyr ym maes rheoli risg.

### *Strategaeth rheoli risg*

Mae'r strategaeth arfaethedig i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhaglen y Cynllun Ffermio Cynaliadwy mewn ffordd ragweithiol ac effeithiol yn cynnwys:

- Nodi risgiau posibl ymlaen llaw a phennu systemau i'w gwneud mor annhebygol â phosibl y byddant yn codi ac yn cael effeithiau andwyol;
- Cymhwyso prosesau at fonitro risgiau a defnyddio gwybodaeth gyfredol a dibynadwy ynglŷn â risgiau;
- Y cydbwysedd priodol o reolaethau er mwyn lliniaru goblygiadau andwyol risgiau, os byddant yn codi;
- Prosesau gwneud penderfyniadau a gefnogir gan fframwaith i ddadansoddi a gwerthuso risgiau.

### *Fframwaith rheoli risg*

Mae'r dull arfaethedig o liniaru risgiau yn cynnwys:

- **Ymgynghori â'r partïon perthnasol:** mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cael ei ddatblygu yn seiliedig ar ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid allweddol i nodi'r gofynion polisi ac ystyried y ffordd orau o ymdrin â nhw, a bydd hyn yn parhau;
- **Astudiaethau peilot:** mae'r broses o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cynnwys dysgu o brofiad a threialu rhai Gweithredoedd arfaethedig er mwyn profi'r ffordd orau o fodloni eu gofynion ac osgoi unrhyw oblygiadau andwyol posibl (h.y. canlyniadau gwael), neu gynyddu manteision canlyniadau da;
- **Hyblygrwydd y Cynllun:** gan fod y galw am gymorth o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol yn ansicr, mae cynlluniau gweithredu ar ei gyfer wedi cael eu llunio i fod yn hyblyg er mwyn iddynt allu darparu ar gyfer unrhyw newid angenrheidiol o bosibl yn y dyfodol: caiff hyn ei gyflawni drwy bennu cyfres o bwyntiau adolygu lle y bydd modd newid neu derfynu elfennau o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- **Caffael ac ymyrryd contractiol** i drosglwyddo risg i bartïon eraill a chynnal hyn drwy gydberthnasau contractiol da, yn anffurfiol ac yn ffurfiol;
- Defnyddio technoleg sefydledig Taliadau Gwledig Cymru lle y bo modd er mwyn lleihau risg.

Drwy reoli risgiau yn y ffyrdd hyn, mae manteision disgwyliedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynyddu a/neu mae ei gostau yn lleihau.

### *Cynllun amlinellol rheoli risg*

Drwy gydol y broses o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â rhaglenni newid cymorth i ffermwyr.

Er y gallai risgiau ar lefel rhaglen gael eu nodi ar unrhyw adeg yn y dirwedd lywodraethu, bydd risgiau sylweddol ar lefel rhaglen yn cael eu huwchgyfeirio at Fwrdd Trosolwg Strategol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a chaiff hyn ei integreiddio â system rheoli risg ehangach Materion Gwledig (deiliad y gyllideb) a Llywodraeth Cymru. Drwy ymestyn y strwythur llywodraethu presennol i'w phartneriaid cyflawni, caiff yr holl risgiau strategol a chyflawni mawr eu rheoli a'u lliniaru.

Yn weithredol, bydd staff Taliadau Gwledig Cymru a phartneriaid cyflawni yn nodi risgiau ac yn eu rheoli a'u lliniaru'n ddynamig o ddydd i ddydd. Mae fframwaith llywodraethu Taliadau Gwledig Cymru yn cynnwys y broses o nodi, gwerthuso, asesu a chofnodi risgiau lle y bo'n briodol.

Caiff Risgiau Gweithredol eu codi a'u hasesu mewn ffordd reoledig fel y gellir rhoi ystyriaeth ddigonol i gamau lliniaru posibl. Yna, caiff pob penderfyniad ei gofnodi ym Mwrdd Risgiau a Materion misol Taliadau Gwledig Cymru:

## _Cynlluniau wrth gefn_

Taliadau Gwledig Cymru yw'r corff cyflawni presennol ar gyfer cymorth i ffermwyr yng Nghymru. Yn ystod Cyfnod Pontio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy hyd at ddiwedd 2029, bydd cyfnod o 'redeg deuol' yn bodoli wrth i'r cynlluniau cymorth i ffermwyr presennol (h.y. Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r cynlluniau buddsoddi gwledig) yn rhedeg ochr yn ochr â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd hyn gyda'i gilydd, ynghyd â'r defnydd o'r Ffurflen Cais Sengl fel y broses ymgeisio ar gyfer y ddau, yn cynnig cynllun wrth gefn 'parod' os bydd oedi cyn rhoi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith yn 2026 oherwydd digwyddiadau mewnol neu allanol, megis tarfu mawr o ganlyniad i achos o glefyd egsotig. Bydd ffermwyr yn gallu gwneud cais am gymorth o hyd yn 2026 am eu bod eisoes wedi defnyddio'r dulliau presennol o wneud cais.

Mae gan Taliadau Gwledig Cymru gynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb eisoes i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl os bydd effeithiau lleol neu fyd-eang ar wasanaethau. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu hadolygu a'u mireinio ar ôl Brexit a phandemig COVID-19. Byddant yn cael eu hestyn bellach i ystyried y dull gweithio mewn partneriaeth a fabwysiedir mewn perthynas â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, er enghraifft, rôl CNC i ddatblygu cynlluniau rheoli safle dynodedig.

## _**Sicrwydd rhaglenni**_

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn defnyddio proses Adolygiad Gateway i roi sicrwydd annibynnol. Cynhaliwyd yr Adolygiad Gateway diweddaraf ar ddatblygu'r Achos Busnes a chwblhawyd yr holl gamau gweithredu ym mis Mai 2025.

Bwriedir cynnal rhagor o Adolygiadau Gateway o barodrwydd i weithredu ym mis Medi 2025 ac yn union cyn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei lansio ym mis Ionawr 2026.

Ar ôl i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei lansio, mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn bwriadu cynnal adolygiad archwilio o brosesau gweithredol, rheolaethau a chyfrifiadau talu'r Cynllun yn ystod hydref 2026 cyn i'r rhagdaliadau gael eu rhyddhau.

Hefyd, mae'r Panel Sicrwydd newydd ei ffurfio yn cynnal archwiliad dwfn o drefniadau llywodraethu a risgiau'r Cynllun yn ystod mis Gorffennaf 2025.

Mae Taliadau Gwledig Cymru yn bwriadu parhau i ddibynnu ar y systemau sicrwydd lefel cynllun a ddefnyddiwyd i weinyddu cynlluniau PAC, gan gynnwys:

- Hapwiriadau (h.y. archwiliadau fferm);
- Proses Sicrhau Ansawdd y System Adnabod Parseli Tir;
- Adolygiad o afreoleidd-dra a thwyll.

## A. GWERTH AMAETHYDDIAETH YNG NGHYMRU

### *Cyflwyniad*

Mae'r Atodiad hwn yn rhoi trosolwg o gyfraniad hanesyddol ffermio i Gymru ynghyd â'i gyfraniad presennol. Mae'n crynhoi:

- Y patrwm o ddefnydd tir;
- Nodweddion ffermydd;
- Rôl economaidd ffermio o ran Incwm Busnes Fferm, gwerth ychwanegol a chyflogaeth a chynhyrchu bwyd a diogeledd bwyd;
- Rôl ffermio o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys atafaelu carbon;
- Effaith ffermio ar ansawdd aer;
- Rôl ffermio o ran darparu gwasanaethau ecosystem;
- Effeithiau cymdeithasol eraill ffermio.

### *Defnydd tir*

Mae sector amaethyddol Cymru yn seiliedig ar laswelltir a da byw yn bennaf, gyda chryn dipyn o amrywiad daearyddol yn dibynnu ar amodau topograffig, pridd a hinsawdd sy'n effeithio ar addasrwydd tir ar gyfer mathau unigol o dda byw.

Ym mis Mehefin 2024, roedd cyfanswm o 1,775,200 hectar o dir ar ddaliadau gyda 180,300 hectar arall o borfa arw tir comin. Roedd y tir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol yn cyfrif am tua 90% o gyfanswm arwynebedd Cymru. Roedd glaswelltir parhaol yn cyfrif am ddwy ran o dair (62%) o'r tir ar ffermydd yng Nghymru; roedd y tir arall yn cynnwys glaswelltir newydd (9%), porfa arw (14%), cnydau âr (6%) a thir arall (9%)[133].

Mae Tabl 55 yn dangos nodweddion allweddol y boblogaeth o ffermydd yng Nghymru yn 2024. Mae hefyd yn dangos dosbarthiad y boblogaeth hon yn ôl math o fferm. Mae'r pwyntiau allweddol i'w nodi yn cynnwys y canlynol:

- roedd 1,315 o ffermydd godro yn darparu 42% o'r allbwn safonol ond 5% o gyfanswm nifer y ffermydd oeddent;
- roedd 61% o ffermydd wedi'u dynodi'n ficro-ffermydd ac roeddent yn cyfrif am 16% o'r tir ar ffermydd a 5% o'r allbwn safonol;
- Roedd y 4,100 o ffermydd a oedd yn pori ar Ardaloedd dan Anfantais Fawr (17% o'r cyfanswm) yn cwmpasu 43% o'r arwynebedd tir ac yn darparu 19% o'r allbwn safonol.

*Tabl 55: Nodweddion ffermydd Cymru (Mehefin 2024)[134]*

| Math o fferm | Ffermydd | Tir ar ffermydd ('000 o hectarau) | Gwartheg ('000 o anifeiliaid) | Defaid ('000 o anifeiliaid) | Allbwn safonol (€ miliwn) |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwartheg godro | 1,315 | 180 | 501 | 206 | 831 |
| Pori ar Ardaloedd dan Anfantais Fawr (AdAF) | 4,100 | 608 | 232 | 5,732 | 373 |
| Pori ar Ardal dan Anfantais (AdA) | 1,795 | 166 | 156 | 1,138 | 142 |
| Pori isel | 1,048 | 88 | 104 | 471 | 86 |
| Cnydau âr/cymysg | 899 | 126 | 50 | 353 | 177 |
| Arbenigwyr | 399 | 36 | 8 | 104 | 247 |
| Micro | 14,759 | 221 | 40 | 746 | 101 |
| Pob fferm | 24,315 | 1,424 | 1,091 | 8,752 | 1,957 |


[133] Mae tir arall yn cynnwys coetir fferm, adeiladau a thir nas defnyddir at ddibenion amaethyddol. Gweler Llywodraeth Cymru, Arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth: Mehefin 2024

[134] Llywodraeth Cymru, Arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth, Mehefin 2024

| **Math o fferm** | **Ffermydd** | **Tir ar ffermydd ('000 o hectarau)** | **Gwartheg ('000 o anifeiliaid)** | **Defaid ('000 o anifeiliaid)** | **Allbwn safonol (€ miliwn)** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **% o'r cyfanswm** | | | | |
| Gwartheg godro | 5% | 13% | 46% | 2% | 42% |
| Pori AdAF | 17% | 43% | 21% | 66% | 19% |
| Pori AdA | 7% | 12% | 14% | 13% | 7% |
| Pori isel | 4% | 6% | 10% | 5% | 4% |
| Cnydau âr/cymysg | 4% | 9% | 5% | 4% | 9% |
| Arbenigwyr | 2% | 3% | 1% | 1% | 13% |
| Micro | 61% | 16% | 4% | 9% | 5% |
| Pob fferm | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

Mae Ffigur 10 yn dangos dosbarthiad daearyddol gweithgarwch amaethyddiaeth yng Nghymru.

*Ffigur 10:Dosbarthiad daearyddol gweithgarwch amaethyddol yng Nghymru yn ôl allbwn safonol (2023)135*




[135]Ystadegau Amaethyddol Cymru

Mae arolwg diweddaraf Llywodraeth Cymru o amaethyddiaeth a garddwriaeth[136] yn amcangyfrif nifer y da byw yng Nghymru yn 2024:

- Cafwyd cyfanswm o 1,089,800 o wartheg a lloi;
- Nifer y buchod 2+ oed a oedd wedi bwrw llo [137] oedd 251,300;
- Gan ddefnyddio diffiniad cyfatebol, y fuches eidion oedd 140,700.

Ers 2004, mae maint y fuches odro wedi cynyddu 3% ond mae maint y fuches eidion wedi gostwng 33% (gweler Tabl 56)[138].

*Tabl 56: Gwartheg yn ôl math a blwyddyn (2004-2024)[139]*

| **Math o wartheg** | **2004** | **2014** | **2024** |
|---|---|---|---|
| Gwryw o dan flwydd oed | 169,860 | 131,953 | 129,124 |
| Benyw eidion o dan flwydd oed | 135,184 | 101,274 | 113,824 |
| Benyw odro o dan flwydd oed | 56,776 | 71,781 | 77,828 |
| Gwryw 1-2 oed | 126,901 | 97,693 | 95,559 |
| Benyw eidion 1-2 oed | 105,143 | 83,090 | 94,875 |
| Benyw odro 1-2 oed | 59,121 | 66,960 | 77,233 |
| Gwryw 2+ oed | 47,601 | 45,908 | 34,682 |
| Benyw eidion 2+ oed heb epil | 51,858 | 46,433 | 37,939 |
| Benyw odro 2+ oed heb epil | 58,616 | 55,572 | 36,800 |
| Benyw eidion 2+ oed ag epil | 210,699 | 167,799 | 140,659 |
| Benyw odro 2+ oed ag epil | 244,776 | 234,305 | 251,313 |
| **Cyfanswm y gwartheg a'r lloi** | **1,266,535** | **1,102,768** | **1,089,836** |


Cynyddodd nifer y defaid ac ŵyn yng Nghymru yn ystod y 1970au gan gyrraedd eu hanterth o 11.8 miliwn yn 1999. Yna, lleihaodd y niferoedd yn y degawd canlynol, yn rhannol o ganlyniad i benderfyniad PAC yr UE i gael gwared yn raddol ar gymorth a oedd yn seiliedig ar nifer y da byw. Yna dechreuodd y niferoedd gynyddu eto am sawl blwyddyn ond ers tua 10 mlynedd maent wedi amrywio. Fodd bynnag, y ffigur o tua 8.7 miliwn a welwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf yw'r lefel isaf ers 2011.

## *Rôl economaidd ffermio*

Mae Ffigur 11 yn dangos dadansoddiad o ganlyniad Arolwg Amaethyddol Cymru ym mis Mehefin 2023. Mae'n dangos nifer y ffermydd, eu trosiant amcangyfrifedig a'r tir a ffermir yn ôl maint y fferm (yn seiliedig ar drosiant amcangyfrifedig). Er bod y ffermydd mwyaf yn cyfrif am 47% o gyfanswm y trosiant, dim ond 3% o ffermydd oedd y rhain. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd y ffermydd lleiaf yn cyfrif am 61% o'r cyfanswm gan gynhyrchu 5% o'r trosiant ar 16% o'r tir a ffermir.

[136] Llywodraeth Cymru, Arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth: Mehefin 2024
[137] Derbynnir hyn yn gyffredinol fel mesur o'r fuches odro
[138] Y ffynhonnell yw'r System Olrhain Gwartheg a reolir gan Wasanaethau Symud Gwartheg Prydain.
[139] Llywodraeth Cymru, Arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth, Mehefin 2024

*Ffigur 11: Cyfran y ffermydd, trosiant busnes a thir a ffermir yn ôl maint economaidd fferm yng Nghymru (2023)*[140]




## *Llafur ar ddaliadau amaethyddol Cymru*

Mae Tabl 57 yn dangos y newid mewn llafur fferm rhwng 1998 a 2023. Yn gyffredinol, lleihaodd cyfanswm y llafurwyr 11,708 (18.9%) i 50,244.

*Tabl 57: Llafur fferm yng Nghymru (1998-2023)*[141]

| | **Pob prif ffermwr, cyfarwyddwr, partner busnes a'u priod** | | **Cyfanswm y gweithwyr rheolaidd ac achlysurol** | **Cyfanswm y llafurwyr** |
|---|---|---|---|---|
| | **Amser llawn** | **Rhan amser** | | |
| 1998 | 25,784 | 19,558 | 16,610 | 61,952 |
| 2023 | 18,014 | 20,228 | 12,002 | 50,244 |
| Newid 1998-2023 | -7,770 | 670 | -4,608 | -11,708 |
| % y newid 1998-2023 | -30.1% | 3.4% | -27.7% | -18.9% |
| Newid cyfartalog o flwyddyn i flwyddyn | -311 | 27 | -184 | -468 |
| Newid canrannol cyfartalog o flwyddyn i flwyddyn | -1.2% | 0.1% | -1.1% | -0.8% |

### *Cynhyrchu bwyd a diogeledd bwyd*

Mae diogeledd bwyd yn dod yn fater cynyddol bwysig, y dylanwedir arno gan ffactorau economaidd, amgylcheddol a gwleidyddol.

Wynebodd tua 20% o bobl yng Nghymru brinder bwyd rhwng 2021 a 2022, sy'n awgrymu bod cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn wynebu diffyg diogeledd bwyd[142]. Pobl iau (16–34 oed) sydd fwyaf agored i lefel isel o ddiogeledd bwyd[143].

Mae pryderon ynglŷn â diogeledd bwyd wedi cael eu llywio gan y canlynol:

- Heriau economaidd: Mae prisiau bwyd sy'n codi, chwyddiant a newidiadau mewn cymorthdaliadau amaethyddol wedi rhoi straen ar gyllidebau aelwydydd, gan ei gwneud hi'n anodd i lawer fforddio digon o fwyd a bwyd maethlon.

[140] Llywodraeth Cymru, Arolwg Amaethyddol, 2023
[141] Llywodraeth Cymru, Arolwg Amaethyddol, amrywiol flynyddoedd
[142] Our Food 1200
[143] Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, *Food Security in Wales*, 2018

- Newid yn yr hinsawdd: Mae digwyddiadau tywydd eithafol, megis llifogydd a sychder, wedi tarfu ar gynhyrchu bwyd a chadwyni cyflenwi, gan arwain at lai o argaeledd a phrisiau uwch[144].
- Materion gwleidyddol a masnachol: Mae rhwystrau masnach ar ôl Brexit a gwrthdaro byd-eang wedi effeithio ar fewnforion bwyd, gan gyfrannu at achosion o darfu ar gadwyni cyflenwi a chostau cynyddol[145].

## *Allyriadau nwy tŷ gwydr net*

Mae Llywodraeth Cymru yn targedu gostyngiad o 63% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2030 a sicrhau allyriadau sero net erbyn 2050.

Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru wedi gostwng 36% ers 1990 ond mae'r cynnydd wedi gwastatáu'n ddiweddar, heb newid sylweddol rhwng 2021 a 2022. Y sector diwydiannol yw'r allyrydd mwyaf, ond ymhlith y cyfranwyr mawr eraill mae amaethyddiaeth[146].

Canfu dadansoddiad yn 2023 fod allyriadau nwyon tŷ gwydr ac atafaelu carbon o amaethyddiaeth yn cyfrif am tua 14% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, ac mai ffermio da byw oedd y brif ffynhonnell. Mae methan ($CH_4$) o eplesu enterig mewn gwartheg a defaid yn cyfrannu tua 61% o allyriadau amaethyddol[147]. Daw ocsid nitrus ($N_2O$) o reoli tail a defnyddio gwrtaith. Mae carbon deuocsid ($CO_2$) yn cael ei allyrru gan beiriannau a'r defnydd o ynni ar ffermydd.

Cyrhaeddodd allyriadau amaethyddol eu hanterth yn y ganrif hon ar 6.1 $MtCO_2e$ yn 2004; yn 2022, roeddent ar 5.6 $MtCO_2e$ yn 2019[148].

Mae atafaelu carbon yn amaethyddiaeth Cymru yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Creu coetir: ym mis Mawrth 2024, amcanestynnwyd y byddai 0.4 miliwn tunnell o $CO_2$ yng Nghymru yn cael ei atafaelu drwy brosiectau a ddilyswyd o dan y Cod Carbon Coetiroedd[149];
- Rheoli pridd a mawndir: er bod dal carbon mewn pridd a mawndir yn cyfrannu at gamau lliniaru, mae eu potensial wedi'i gyfyngu i 5-10% o'r cyfanswm sydd ei angen ar lefel y DU[150].

## *Effaith ffermio ar ansawdd aer*

Mae'r sector amaethyddol yn cael effaith niweidiol ar ansawdd aer yng Nghymru, yn bennaf drwy allyriadau amonia ($NH_3$) a llygryddion eraill sy'n effeithio ar iechyd pobl a'r amgylchedd.

Mae amaethyddiaeth yn gyfrifol am tua 93% o allyriadau amonia yng Nghymru[151]. Ymhlith y prif ffynonellau mae gwastraff da byw, taenu slyri a'r defnydd o wrtaith. Mae amonia yn cyfrannu at ffurfio mân ronynnau ($PM_{2.5}$), sy'n achosi risgiau i iechyd megis clefydau anadlol a chardiofasgwlaidd[152]. Gall mân ronynnau deithio'n bell, a chyfrannu at lefelau cefndirol llygredd aer mewn ardaloedd trefol. Mae gweithgareddau amaethyddol hefyd yn allyrru ocsidau nitrogen ($NO_x$) a chyfansoddion organig anweddol heblaw methan[153].

Mae llygredd amonia a nitrogen o amaethyddiaeth yn cael effaith niweidiol ar tua 56% o arwynebedd tir Cymru, gan achosi niwed i gynefinoedd sensitif fel coetiroedd hynafol, corsydd a rhostiroedd[154]. Mae dyddodiadau gormodol o nitrogen hefyd yn arwain at ewtroffigedd ac asideiddio sy'n newid cymunedau o blanhigion ac yn lleihau bioamrywiaeth.

Mae Cymru yn rhwym wrth gyfraith ryngwladol a domestig i leihau ei hallyriadau amonia. O dan Reoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 pennwyd targed i leihau lefelau 16% erbyn 2030 o gymharu â

---

[144] Our Food 1200
[145] Our Food 1200
[146] Llywodraeth Cymru, Llesiant Cymru, 2024
[147] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Sut y gallai Cymru fwydo'i hun erbyn 2035? Pecyn Tystiolaeth, 2023
[148] Llywodraeth Cymru, Allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ôl blwyddyn, Cyrchwyd Mehefin 2025
[149] Forest Research, Forest Statistics, 2024
[150] Y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd, Adroddiad Byr-01 Cyfleoedd a chyfyngiadau dal carbon mewn pridd a mawndiroedd 2023
[151] Cyswllt Ffermio, Llygredd aer: Rôl amaethyddiaeth yng Nghymru, 2020
[152] Cyswllt Ffermio, Llygredd aer: Rôl amaethyddiaeth yng Nghymru, 2020
[153] Cyswllt Ffermio, Llygredd aer: Rôl amaethyddiaeth yng Nghymru, 2020
[154] CNC, *The Second State of Natural Resources Report (SoNaRR2020) Assessment of the achievement of sustainable management of natural resources: Air Quality, 2021*

lefelau 2005.[155] Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 i ymdrin â llygredd amaethyddol[156]. Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru hefyd yn canolbwyntio ar leihau allyriadau o amaethyddiaeth, gan gynnwys amonia, drwy gryfhau rheolaethau a chymorth ar gyfer arferion cynaliadwy.

Yng Nghymru, cynyddodd yr arwynebedd tir y mae amonia yn cael effaith niweidiol arno tua 18% rhwng 2010 a 2021[157]. Mae tystiolaeth Defra yn cadarnhau bod llygredd amonia yn parhau'n broblem sylweddol[158].

Mae allyriadau amonia yng Nghymru wedi cynyddu 8% ers 2005, ac arferion amaethyddol yw'r ffynhonnell fwyaf o allyriadau (93%)[159]. Y sector llygru mwyaf yw gwartheg: mae rheoli tail (rhoi da byw dan do, storio tai, ac iardiau concrid awyr agored) a'i ddefnydd ar dir yn cyfrif am 70% o'r holl allyriadau $NH_3$ [160]. Yng Nghymru, mae colli amonia yn ystod camau rheoli tail yn gyfrifol am 46% o'r holl allyriadau amonia amaethyddol: daw 40% o wartheg a daw 6% o ryywogaethau eraill[161].

## *Rôl ffermio o ran darparu gwasanaethau ecosystem*

Mae'r rhan hon o'r Atodiad yn crynhoi'r dystiolaeth sydd ar gael ar rôl ffermio yng Nghymru o ran darparu gwasanaethau ecosystem.

Mae gwasanaethau ecosystem yn cwmpasu'r manteision y mae amgylcheddau naturiol yn eu cynnig i bobl. Maent yn rhan annatod o lesiant, economi a bioamrywiaeth Cymru. Maent yn dod o dan bedwar grŵp:

- Gwasanaethau darparu:
  - Bwyd a phren: Mae tir amaethyddol Cymru yn darparu cynhyrchion da byw a chnydau, ac mae coedwigoedd yn darparu pren.
  - Dŵr croyw: mae afonydd a chronfeydd dŵr yn cynnig dŵr yfed ac yn cefnogi amaethyddiaeth.
- Gwasanaethau rheoli:
  - Rheoli'r hinsawdd: amsugnwyr carbon yw mawndiroedd a choedwigoedd, sy'n helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd.
  - Rheoli llifogydd: mae gwlyptiroedd a choedwigoedd yn amsugno glaw, gan leihau perygl llifogydd.
  - Puro dŵr: mae ecosystemau naturiol yn hidlo llygryddion, gan gynnal ansawdd dŵr.
- Gwasanaethau diwylliannol:
  - Hamdden a thwristiaeth: Mae Parciau Cenedlaethol ac ardaloedd arfordirol yn denu ymwelwyr, sy'n cefnogi economïau lleol.
  - Treftadaeth ddiwylliannol: mae tirweddau o arwyddocâd hanesyddol ac ysbrydol.
- Gwasanaethau cefnogi:
  - Bioamrywiaeth: mae cynefinoedd amrywiol yn cefnogi amrywiaeth eang o rywogaethau, gan sicrhau gwytnwch ecosystemau.
  - Ffurfio pridd a'r cylch maethynnau: mae prosesau naturiol yn cynnal iechyd pridd sy'n allweddol i amaethyddiaeth.

[155] Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018
[156] Mae'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn targedu arferion gwael mewn amaethyddiaeth sy'n achosi risg o lygredd. Eu nod yw diogelu ansawdd dŵr ac aer drwy leihau faint o lygryddion a gollir o faethynnau ledled Cymru. Er mai'r prif fwriad yw lleihau llygredd dŵr, mae'r dull gweithredu hefyd yn helpu i leihau allyriadau atmosfferig. Mae'r rheoliadau yn ceisio osgoi cyfnewid llygredd ac atal neu leihau colli mwy o faethynnau i'r amgylchedd o ganlyniad i fesurau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar leihau colledion o nitrogen.
[157] Llywodraeth Cymru, Adolygiad statudol o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol: adolygiad 2025, 2025
[158] Defra, Adroddiad Tueddiadau Llygredd Aer 2023, 2024
[159] Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, Rhestrau Llygryddion Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: 2005-2022, 2024
[160] Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, Rhestrau Llygryddion Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: 2005-2022, 2024
[161] Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, Rhestrau Llygryddion Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: 2005-2022, 2024

Mae'r SYG yn amcangyfrif gwerth gwasanaethau ecosystem yng Nghymru (gweler Tabl 58). Mae'n gwneud hyn ar ddwy sail: gwerth blynyddol y gwasanaethau a gwerth yr asedau sy'n darparu gwasanaethau ecosystem[162]. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm gwerth asedau yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau ecosystem oedd £95.7bn yn 2022[163]. Amcangyfrifwyd mai gwerth blynyddol y gwasanaethau oedd £2.5bn yn 2022.

*Tabl 58: Gwerth gwasanaethau ecosystem yng Nghymru (2022, £m, prisiau 2023)[164]*

| Gwasanaeth | Gwerth blynyddol (£m) | Gwerth ased (£m) |
|---|---|---|
| Darparu biomas amaethyddol | 522.0 | 11,346 |
| Darparu glo | -171.5 | -1,968 |
| Darparu pysgod | 1.5 | 49 |
| Darparu mwynau a metelau | 61.3 | 856 |
| Darparu olew a nwy | 0.0 | 0 |
| Darparu trydan adnewyddadwy | 40.4 | 1,419 |
| Darparu pren | 52.0 | 1,332 |
| Darparu tanwydd coed | 12.5 | 397 |
| Darparu dŵr | 272.2 | 7,226 |
| Rheoli llygredd aer | 120.3 | 5,657 |
| Rheoli nwy tŷ gwydr | 238.7 | 12,297 |
| Rheoli sŵn | 1.3 | 72 |
| Rheoli gwres trefol | 30.8 | 602 |
| Hamdden (manteision iechyd) | 322.7 | 23,967 |
| Hamdden ac esthetig (prisiau tai) | 184.5 | 5,532 |
| Hamdden a thwristiaeth (gwariant) | 788.8 | 26,965 |
| **Pob gwasanaeth** | **2,477.5** | **95,748** |

## *Gwasanaethau darparu*

Crynhoir allbynnau allweddol y sector amaethyddol uchod.

## *Gwasanaethau rheoli*

### Ansawdd dŵr

Comisiynodd CNC adolygiad o faethynnau mewn cyrff dŵr ledled Cymru er mwyn datblygu dealltwriaeth ar raddfa genedlaethol o ansawdd dŵr maethynnau llinell sylfaen ac asesu risgiau posibl[165]. Mae'n cwmpasu nitradau a ffosffadau ac ystyriodd y mathau canlynol o gorff dŵr:

- Dŵr daear;
- Dŵr wyneb (afonydd);
- Llynnoedd;
- Dyfroedd trosiannol ac arfordirol.

Canolbwyntiodd ar y risg a achosir gan lygredd maethynnau gwasgaredig ar y tir ar y dosbarthiad a ddangoswyd yn Tabl 59[166].

---


[162] Mae hyn yn seiliedig ar y llif disgwyliedig o wasanaethau o adnodd naturiol, neu stoc adnodd naturiol o ran cyflenwad disgwyliedig yn y dyfodol a defnydd dros derfynlin gweddol ragweladwy.
[163] Mae'r SYG yn nodi na ddylid ystyried y gwerth hwn yn ddangosydd syml o gynaliadwyedd amgylcheddol nac iechyd ecolegol, am fod ffactorau economaidd fel prisiau olew a nwy yn dylanwadu arno'n rhannol.
[164] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyfrifon cyfalaf naturiol y DU
[165]CNC, Adolygiad maethynnau, 2023
[166] Defnyddiwyd gwaith modelu llwyth nitrogen a ffosfforws hefyd i nodi arwyddocâd defnyddiau tir amaethyddol i fewnbwn maethynnau i ddalgylchoedd dŵr.

*Tabl 59: Dosbarthiad sgoriau risgiau nitrad a ffosffad dŵr wyneb a dŵr daear*


| Sgôr | Risg nitrad bosibl | Risg ffosffad bosibl |
|---|---|---|
| 1 – 3 | Isel – risg isel y bydd crynodiad nitrad dŵr wyneb yn mynd dros y trothwy o 11.3 mg/l ac ystyrir bod defnyddiau tir yn annhebygol o fod yn ffynhonnell wasgaredig arwyddocaol | Isel – risg isel y bydd crynodiad ffosffad dŵr wyneb yn mynd dros y trothwy o 0.1 mg/l ac ystyrir bod defnyddiau tir yn annhebygol o fod yn ffynhonnell wasgaredig arwyddocaol |
| 4 – 6 | Canolig | Canolig |
| 7 – 8 | Uchel – ystyrir bod risg uchel y bydd crynodiad nitrad dŵr wyneb yn mynd dros y trothwy o 11.3 mg/l, ac y gall defnyddiau tir amaethyddol a/neu drefol gwasgaredig fod yn ffynhonnell gyfranogol arwyddocaol. | Uchel – ystyrir bod risg uchel y bydd crynodiad ffosffad dŵr wyneb yn mynd dros y trothwy o 0.1 mg/l, ac y gall defnyddiau tir amaethyddol a/neu drefol gwasgaredig fod yn ffynhonnell gyfranogol arwyddocaol. |

Mae Ffigur 12 a Ffigur 13 yn dangos sut mae'r risg yn amrywio'n ddaearyddol o ran math o ddŵr a maethyn. Mae'n dangos bod mwy o ardaloedd yn wynebu risg uwch o lygredd ffosffad na llygredd nitrad.

*Ffigur 12:Risg nitrad (ar y chwith) a risg ffosffad (ar y dde) dŵr wyneb*



*Ffigur 13:Risg nitrad (ar y chwith) a risg ffosffad (ar y dde) dŵr daear*





Bob tair blynedd, caiff statws pob corff dŵr yng Nghymru ei ddosbarthu yn ôl gofynion Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr[167]. Hefyd, nodir canlyniadau mewn Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd bob chwe blynedd. Os na fydd statws corff dŵr yn dda neu os na fydd yn well, yna cynhelir ymchwiliad i ganfod yr achosion[168]. Cyhoeddodd CNC ddosbarthiad interim o dan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (ochr yn ochr â'r asesiad o gydymffurfiaeth ansawdd dŵr ar gyfer Afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) ym mis Mawrth 2025[169].

[167] Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017

[168] Ceir naw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACAau) yng Nghymru – Cleddau Ddu a Chleddau Wen, Eden, Gwyrfai, Teifi, Tywi, Glaslyn, Dyfrdwy, Wysg a Gwy. Mae pob afon wedi'i dynodi ar gyfer sawl rhywogaeth a chynefin a warchodir o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae gan bob nodwedd Amcanion Cadwraeth sy'n rhan o Gynlluniau Rheoli Craidd CNC ar gyfer yr ACA: Mae CNC yn cyfeirio at dargedau ansawdd dŵr y mae angen eu cyrraedd er mwyn dosbarthu'r nodwedd yn un sydd mewn cyflwr ffafriol.

[169] CNC, Asesiad o ansawdd dŵr yng Nghymru 2024.

*Ffigur 14: Y naw afon mewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yng Nghymru*




Yn 2021, dangosodd yr adroddiad ar asesu cydymffurfiaeth afonydd mewn ACA fod pump allan o'r naw afon mewn ACA wedi methu â chyflawni'r targedau o ran ffosfforws (Wysg, Gwy, Dyfrdwy, Cleddau a Theifi)[170]. Yn gyffredinol, cyflawnodd 39% o'r 107 o gyrff dŵr a aseswyd y targedau a methodd 61%. Mae Tabl 60 yn crynhoi statws pob afon mewn ACA.

*Tabl 60: Crynodeb o statws cyffredinol ACAau Cymru mewn perthynas â thargedau ffosfforws (Nifer y cyrff dŵr)*

| Enw'r ACA | Llwyddo | Methu (Yn gyfnodol) | Methu (Yn gyson) | Heb ei hasesu |
|---|---|---|---|---|
| Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid | 5 | 2 | 1 | 1 |
| Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Coedydd Derw Meirionnydd | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Afon Teifi | 8 | 8 | 0 | 2 |
| Afonydd Cleddau | 5 | 5 | 5 | 4 |
| Afon Tywi | 2 | 0 | 0 | 1 |
| Afon Wysg | 2 | 7 | 8 | 6 |
| Afon Gwy | 14 | 11 | 17 | 3 |
| **Cyfanswm** | **42** | **33** | **31** | **18** |

[170] CNC, Asesiad Cydymffurfiaeth ACAau Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws, 2022

Yn 2022, gwnaeth CNC ddiweddaru rhai o'r targedau, cyflwyno rhai mân newidiadau i'r cyrff dŵr ac ailasesu data yn erbyn unrhyw dargedau newydd. Methodd un corff dŵr ychwanegol ar ôl yr ailasesiad[171]

Yn 2024, dangosodd yr asesiad o gydymffurfiaeth ar gyfer priodoleddau ansawdd dŵr yn afonydd ACA fethiant o ran sawl dangosydd ansawdd dŵr megis y galw am ocsigen tawdd ac ocsigen biocemegol[172]. Dangosodd asesiad wedi'i ddiweddaru CNC yn 2025 mai yn Afonydd Cleddau, Afon Wysg, Afon Gwy ac Afon Teifi y gwelwyd y rhan fwyaf o fethiannau i gyrraedd y targed[173]. Mae'r canlyniadau hyn yn gyson â phroblemau o ran llygredd organig a gorfaethu.

Mae gwaith modelu a dadansoddi ansawdd dŵr ychwanegol gan Dŵr Cymru[174] gan ddefnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol Dosrannu Ffynhonnell (SAGIS) yn dangos bod y rhan fwyaf o fethiant y llwyth ffosfforws o ganlyniad i ddefnydd tir gwledig, gan gynnwys amaethyddiaeth[175]

Mae'r data ar achosion o lygredd wedi'u cadarnhau o ffynonellau amaethyddol sy'n cael eu coladu gan CNC yn dangos nad yw'r nifer wedi lleihau ers iddo ddechrau casglu'r data yn 2001. Y sector a gyfrannodd fwyaf oedd y sector llaeth, a oedd yn gysylltiedig â rheoli slyri yn amhriodol.

## *Gwasanaethau diwylliannol*

### Hamdden a thwristiaeth

Mae amaethyddiaeth yng Nghymru yn chwarae rôl bwysig i gefnogi hamdden a thwristiaeth ledled Cymru. Am fod amaethyddiaeth yn cyfrif am fwy nag 80% o ddefnydd tir y wlad, mae ffermwyr yn rhoi mynediad i gefn gwlad ac yn helpu i gynnal y tirweddau sy'n denu trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae ffermwyr Cymru yn hwyluso mynediad helaeth i'r cyhoedd i gefn gwlad, gan gyfrannu at y canlynol:

- 16,000 o filltiroedd o lwybrau troed;
- 3,000 o filltiroedd o lwybrau ceffylau;
- 1,200 o filltiroedd o rwydweithiau beicio;
- 460,000 o hectarau o dir mynediad agored.

Mae'r seilwaith hwn yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden, gan gynnwys cerdded, beicio a marchogaeth, sy'n hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol ymhlith y boblogaeth[176].

Mae amaeth-dwristiaeth yn tyfu, gyda llawer o ffermydd yn cynnig:

- Gwyliau ar y fferm a bythynnod gwyliau, sy'n cynnig profiadau gwledig go iawn;
- Gweithgareddau rhagweithiol, megis bwydo anifeiliaid a theithiau o amgylch y fferm, sy'n apelio at deuluoedd a grwpiau addysgol.

Mae hyn wedi arallgyfeirio incwm fferm ac wedi cryfhau'r cysylltiad rhwng ymwelwyr trefol a bywyd gwledig.

Ffermwyr yw stiwardiaid tirwedd Cymru. Maent yn helpu i gynnal golygfeydd, sy'n rhan annatod o apêl Cymru i bobl sy'n hoffi gweithgareddau awyr agored, ac ymdrechion cadwraeth, sy'n gwarchod bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol.

### Amwynder a thirwedd

Mae ffermio ac amaethyddiaeth yn cyfrannu at amwynder a gwerth tirwedd Cymru drwy'r canlynol:

- Siapio'r golygfeydd eiconig: defnyddir tua 80% o Gymru ar gyfer amaethyddiaeth sy'n diffinio llawer o'r clytwaith o gaeau, waliau cerrig a bryniau agored sy'n nodweddiadol o gefn gwlad Cymru ac sy'n cyfrannu at ei chymeriad gweledol a diwylliannol;

---

[171]CNC, Diweddariad i dargedau ffosfforws ar gyfer cyrff dŵr yn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yng Nghymru, 2023
[172] CNC, Asesiad o ansawdd dŵr yng Nghymru 2024, 2025
[173] CNC, Asesiad o ansawdd dŵr yng Nghymru 2024, 2025
[174] Dŵr Cymru, Deall ffynonellau o ffosfforws yn ein hafonydd, 2023
[175] Nod SAGIS yw llywio penderfyniadau cynllunio dŵr gwastraff ac mae'r defnydd ohoni ar gyfer amaethyddiaeth a rheoli tir wedi cael ei feirniadu.
176 NFU Cymru, *Farming – Bringing Wales together*,

- Cefnogi twristiaeth: mae tirweddau amaethyddol yn denu twristiaid. Mae gwyliau ar y fferm, ffermydd agored a marchnadoedd cynnyrch lleol yn cynnig profiadau gwledig go iawn sy'n cysylltu hamdden â threftadaeth ffermio;
- Gwella llesiant;
- Cynnal bioamrywiaeth: mae gwrychoedd, dolydd ac ymylon caeau yn cynnal adar, trychfilod a phlanhigion, gan ychwanegu gwerth ecolegol ac esthetig;
- Galluogi mynediad i'r cyhoedd: mae ffermwyr yn cynnal dros 16,000 o filltiroedd o hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau ceffylau a llwybrau beicio a thir mynediad agored, yn enwedig yn ardaloedd yr ucheldir.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cefnogi cerdded, heicio, beicio, a gweithgareddau sy'n ymwneud â cheffylau, sy'n hyrwyddo hamdden a llesiant meddyliol.

### Diwylliant

Mae ffermio ac amaethyddiaeth wedi'u cydblethu'n ddwfn yng ngwead diwylliant Cymru. Maent yn dylanwadu ar bopeth, o iaith a hunaniaeth i wyliau, bwyd a'r dirwedd ei hun:

- Ffordd o fyw hanesyddol: Mae ffermio wedi siapio cymdeithas yng Nghymru ers miloedd o flynyddoedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ucheldir lle mae ffermydd teuluol bach, sydd yn aml yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall, yn ganolog i hunaniaeth y gymuned. Er enghraifft, mae ffermio'r bryniau, yn enwedig ffermio defaid, yn symbol o wytnwch cenedlaethol, annibyniaeth a chysylltiad â'r tir.
- Iaith a hunaniaeth: Mae amaethyddiaeth yn cefnogi'r Gymraeg, yn enwedig mewn cymunedau gwledig lle y caiff ei siarad fwyaf. Mae ffermio yn helpu i gynnal ysgolion a chapeli Cymraeg a bywyd pentref, yn enwedig mewn ardaloedd fel Gwynedd, sir Gaerfyrddin a Cheredigion.
- Diwylliant bwyd: Daw bwydydd Cymreig traddodiadol – fel cawl, bara lawr, oen Cymreig, Bara Brith, a chaws Caerffili – yn uniongyrchol o ffermio ac mae'r pwyslais cynyddol ar gynnyrch lleol a marchnadoedd ffermwyr wedi helpu i ailgysylltu pobl â threftadaeth bwyd Cymru ac i gefnogi economïau gwledig.
- Gwyliau a digwyddiadau: Mae Sioe Frenhinol Cymru, un o'r digwyddiadau amaethyddol mwyaf yn Ewrop, yn ddigwyddiad diwylliannol pwysig, sy'n dathlu ffermio, bwyd, crefftau a bywyd cefn gwlad. Mae sioeau amaethyddol lleol yn uchafbwyntiau cymunedol ledled Cymru, sy'n dwyn ynghyd deuluoedd, da byw, cynnyrch, cerddoriaeth a chrefftau traddodiadol.
- Crefftau: Mae sgiliau traddodiadol megis nyddu gwlân, gosod gwrychoedd, codi waliau sychion, a threialon cŵn defaid yn gysylltiedig â bywyd amaethyddol a chânt eu dathlu fel rhan o dreftadaeth Cymru. Mae mynegiant artistig yn aml yn deillio o'r tir— mae barddoniaeth, canu gwerin, paentio, ac adrodd straeon modern yn aml yn cyfeirio at fywyd cefn gwlad a ffermio.
- Hunaniaeth Genedlaethol: Defaid yw symbol eiconig mwyaf amaethyddiaeth Cymru, sydd yn aml yn ymddangos yn neunydd brandio twristiaeth ac mae barcudiaid coch, bryniau ac ysguboriau cerrig – sydd i gyd yn rhan o'r amgylchedd ffermio – yn symbolau o Gymru y gellir eu hadnabod ar unwaith.

## <u>*Gwasanaethau cefnogi*</u>

### Bioamrywiaeth

Mae bioamrywiaeth yng Nghymru yn wynebu heriau sylweddol, ac mae nifer o rywogaethau a chynefinoedd o dan fygythiad:

- Canfu adroddiad yn 2019 fod tua 18% (un o bob chwech) o rywogaethau a aseswyd yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu, gan gynnwys tegeirian y fign galchog, llygoden y dŵr, a madfall y tywod[177];
- Ers 1994, mae rhywogaethau tir a dŵr croyw sy'n cael eu monitro wedi lleihau 20% ar gyfartaledd, gyda lleihad arbennig o sydyn o 43% ymhlith gwyfynod[178];
- Mae dosbarthiad 42% o rywogaethau o blanhigion blodeuol a 44% o fryoffytau (mwsoglau a  llysiau'r afu) wedi lleihau ledled Cymru[179].

---

[177] Sefyllfa byd natur: Cymru, 2023
[178] Sefyllfa byd natur: Cymru, 2023
[179] Sefyllfa byd natur: Cymru, 2023

Y prif fygythiadau yw:

- Arferion amaethyddol, lle mae dulliau ffermio dwys wedi arwain at golli cynefin a diraddiant;
- Newid yn yr hinsawdd, sy'n newid cynefinoedd ac yn effeithio ar gyfraddau goroesi rhywogaethau;
- Llygredd dŵr ac aer, sy'n parhau i gael effaith negyddol ar ecosystemau;
- Lledaenu rhywogaethau estron sy'n tarfu ar ecosystemau lleol.

### Peillio

Mae peillio yn broses ecolegol hollbwysig sy'n sail i fioamrywiaeth a chynhyrchiant amaethyddol. Mae Cymru yn gartref i lu amrywiol o bryfed peillio, gan gynnwys gwenyn mêl, cacwn, gwenyn unig, glöynnod byw, gwyfynod a mathau penodol o chwilod. Mae'r rhywogaethau hyn yn hanfodol i atgenhedlu llawer o blanhigion gwyllt a chnydau.

Mae pryfed peillio yn gwneud cyfraniad pwysig i'r ecosystem a'r economi. Maent yn gyfrifol am ffrwythloni nifer o gnydau, gan gynnwys ffrwythau, llysiau a chnau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y bwyd sydd ar gael. Drwy alluogi planhigion i atgenhedlu, mae pryfed peillio hefyd yn cefnogi cynefinoedd amrywiol sy'n cynnal rhywogaethau gwahanol o fywyd gwyllt. Dywedir bod cyfraniad pryfed peillio i sector cynhyrchu bwyd y DU yn werth £690m bob blwyddyn: pe bai angen i hyn gael ei wneud gan fodau dynol, amcangyfrifir y byddai'n costio £1.8 biliwn y flwyddyn[180].

Mae poblogaethau bryfed peillio yng Nghymru wedi lleihau oherwydd:

- Colli cynefin: mae amaethyddiaeth ddwys a datblygu trefol wedi dinistrio ac wedi darnio cynefinoedd ac mae Cymru wedi colli tua 97% o'i dolydd blodau gwyllt ers y 1930au;
- Y defnydd o blaleiddiaid: gall y defnydd o agrocemegau amharu ar iechyd pryfed peillio, gan effeithio ar eu gallu i oroesi ac atgenhedlu;
- Newid yn yr hinsawdd: gall patrymau tywydd newydd darfu ar y berthynas rhwng gweithgarwch pryfed peillio ac adegau blodeuo planhigion;
- Clefydau a pharasitiaid mae pryfed peillio yn agored i amrywiol glefydau a heintiau parasitig.

### Iechyd pridd

Mae iechyd pridd yng Nghymru hefyd o dan bwysau o ganlyniad i amaethyddiaeth ddwys, newid yn yr hinsawdd ac arferion rheoli tir. Er bod rhai priddoedd yn dal i fod mewn cyflwr da, mae llawer wedi dirywio o ran mater organig, bioamrywiaeth a strwythur[181]:

- **Cywasgu pridd:** Mae tua 40% o briddoedd Cymru yn agored o bosibl i gywasgu, yn bennaf oherwydd y defnydd o beiriannau trwm a sathru da byw. Gall cywasgu o'r fath gwtogi ar ymdreiddiad dŵr a thwf gwreiddiau, gan effeithio ar gynnyrch cnydau a chynyddu mwy o ddŵr ffô[182].
- **Erydu pridd:** Er bod cyffredinrwydd glaswelltir parhaol yn cynnig rhywfaint o ddiogelwch, mae tua 7% o dir Cymru yn agored i gyfraddau erydu uchel, yn enwedig yn ystod glaw dwys[183]. Mae hyn yn achosi risg benodol yn ardaloedd yr ucheldir a chaeau amaethyddol sydd ar ogwydd.
- **Diffyg cydbwysedd maethynnau**: Ar lawer o ffermydd yng Nghymru gwelir lefelau is-optimaidd o pH pridd a macrofaethynnau allweddol fel ffosfforws, potasiwm, magnesiwm, sy'n arwain at lefel is o gynnyrch glaswelltir[184].
- **Carbon organig pridd:** Mae'n hollbwysig ar gyfer ffrwythlondeb a storio carbon. Mae gan lawer o briddoedd yng Nghymru lefelau mater organig is na'r hyn sy'n ddelfrydol. Mae lefelau carbon uwchbridd mewn glaswelltir wedi'i wella a thir âr wedi aros yn sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r data ar haenau pridd dyfnach ac effeithiau hirdymor newid yn yr hinsawdd ar garbon organig pridd.

[180] Cyfoeth Naturiol Cymru, Caru Peillwyr (cyrchwyd Gorffennaf 2025)
[181] Llywodraeth Cymru, Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru, 2022
[182] Llywodraeth Cymru, Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru, 2022
[183] Llywodraeth Cymru, Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru, 2022
[184] Mae gwaith samplu Cyswllt Ffermio Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at gyfleoedd i wella iechyd pridd ar ffermydd Cymru, Rhagfyr 2024

- **Bioamrywiaeth pridd:** Cyfyngedig yw'r dystiolaeth ynglŷn â thueddiadau o ran bioamrywiaeth pridd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae newidiadau yn ymwneud â newid defnydd tir, colli mater organig, digwyddiadau tywydd eithafol, a dwysedd rheoli tir[185].

Yng Nghymru ceir ardaloedd arwyddocaol o fawndir (e.e. rhannau o Eryri a Bannau Brycheiniog), sy'n amsugnwyr carbon hollbwysig, ond mae llawer wedi'u diraddio, wedi'u draenio at ddibenion amaethyddiaeth neu'n sychu, gan ryddhau carbon yn hytrach na'i storio.

Mae ffermio da byw dwys, yn enwedig gwartheg a defaid, wedi arwain at ddiffyg cydbwysedd maethynnau a'r posibilrwydd o ddŵr ffô sy'n cynnwys nitrogen a ffosfforws, sy'n effeithio ar ansawdd dŵr. Gall gorddefnydd o slyri a gwrteithiau ddiraddio strwythur pridd a'i iechyd microbaidd.

## *Effeithiau cymdeithasol eraill ffermio*

Mae'r rhan olaf o'r Atodiad yn crynhoi effeithiau cymdeithasol eraill sy'n gysylltiedig â ffermio.

### Iechyd ffermwyr a gweithwyr amaethyddol

Mae iechyd corfforol ac iechyd meddwl ffermwyr a gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn broblem sylweddol. Mae tystiolaeth ddiweddar o Gymru a Lloegr yn tynnu sylw at yr heriau:

- **Iechyd meddwl**: Mae cyfran sylweddol o ffermwyr yn nodi eu bod yn wynebu problemau iechyd meddwl. Er enghraifft, canfu astudiaeth fod 31% o ymatebwyr wedi nodi problemau gyda gorbryder neu iselder[186]. Mae ffactorau sy'n cyfrannu yn cynnwys pwysau ariannol, oriau gwaith hir, ynysigrwydd a natur anrhagweladwy ffermio oherwydd y tywydd ac amodau'r farchnad.
- **Iechyd corfforol:** Mae gofynion corfforol ffermio yn arwain at niferoedd mawr o broblemau cyhyrysberbydol. Canfu un astudiaeth fod 52% o ymatebwyr wedi nodi problemau gyda phoen neu anghysur[187]. At hynny, erys amaethyddiaeth yn un o'r diwydiannau mwyaf peryglus, sy'n cyfrif am nifer anghymesur o farwolaethau yn y gweithle ac anafiadau o gymharu â maint ei weithlu[188].

### Effaith amaethyddiaeth ar y Gymraeg

Mae'r sector amaethyddol (a fesurir fel prif gynhyrchwyr, gan gynnwys pysgota a choedwigaeth) yn fach o ran nifer y gweithwyr dan sylw. Mae data o Gyfrifiad 2021 yn dangos ei fod yn cyfrif am lai na 2% o'r holl weithwyr ond 5% o weithwyr sy'n siarad Cymraeg[189]. Y sector hwn sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr sy'n siarad Cymraeg o blith holl sectorau Cymru, sef 43% o gymharu â 16.6% a'r holl sectorau eraill. Mae ychydig o dan chwarter y 1,909 o ardaloedd lleol (ACEHIau) yng Nghymru yn cynnwys o leiaf 10 gweithiwr o'r sector amaethyddiaeth. Yng Ngwynedd, ym mhob ACEHI lle mae o leiaf 10 gweithiwr o'r sector amaethyddiaeth mae mwyafrif sy'n gallu siarad Cymraeg. Yn Sir Fynwy, ym mhob ACEHI lle mae o leiaf 10 gweithiwr o'r sector amaethyddiaeth mae cyfraddau siaradwyr Cymraeg yn is na'r cyfartaledd ar gyfer pob sector. Ym Mhowys, mae'r ACEHIau yn dangos cyfraddau siaradwyr Cymraeg amrywiol, o lefel isel iawn i uchel iawn[190].

Un o'r risgiau i gymunedau gwledig yw unrhyw newid i strwythur a chyfansoddiad y diwydiannau amaethyddol a thir. Gallai hyn arwain at newid mewn strwythurau cymunedol a rhwydweithiau cymdeithasol, gyda mudo i ac o ardaloedd gwledig yn cynyddu o bosibl wrth i gyfleoedd a heriau ddod i'r golwg. Gallai symudiadau pobl o'r fath gael mwy o effaith mewn ardaloedd lle mae'n newid y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg, a thrwy hynny newid cyfathrebu o ddydd i ddydd.

### Effeithlonrwydd adnoddau

Mae rheoli effeithlonrwydd adnoddau yn y sector ffermio yng Nghymru yn dod yn flaenoriaeth bwysicach, wedi'i hysgogi gan nodau amgylcheddol a phwysau economaidd. Er bod cynnydd wedi cael ei wneud, erys heriau sylweddol o hyd mewn meysydd megis y defnydd o ynni, rheoli dŵr a lleihau allyriadau.

---

185 Llywodraeth Cymru, Adolygiad o Dystiolaeth Pridd Cymru, 2022
186 Wheeler a Lobley, *Health-related quality of life within agriculture in England and Wales: results from an EQ-5D-3L self-report questionnaire, 2022*
187 Wheeler a Lobley, *Health-related quality of life within agriculture in England and Wales: results from an EQ-5D-3L self-report questionnaire, 2022*
188 Yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch, *Work-related fatal injuries reporTabl under RIDDOR, 2024*
189 Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata a gafwyd o Gyfrifiad 2021 o'r Boblogaeth
190 Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata a gafwyd o Gyfrifiad 2021 o'r Boblogaeth

Mae amaethyddiaeth yn cyfrif am tua 14% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru[191], yn rhannol oherwydd arferion sy'n defnyddio llawer o ynni a pheiriannau aneffeithlon. Mae'r ymdrechion i wella effeithlonrwydd ynni yn cynnwys mabwysiadu ffynonellau ynni adnewyddadwy a moderneiddio cyfarpar.

Mae effeithlonrwydd dŵr hefyd yn broblem sy'n codi: mae mentrau wedi cael eu rhoi ar waith i hyrwyddo cynaeafu dŵr glaw a gwella technegau dyfrhau a'r ffordd y rheolir maethynnau drwy leihau'r defnydd o ddŵr ac atal llygredd.

Mae'r niferoedd sy'n mabwysiadu technolegau amaethyddiaeth manwl megis monitro â lloeren a systemau cynghori sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial, yn cynyddu. Mae'r adnoddau hyn yn helpu ffermwyr i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau, monitro iechyd cnydau a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, sy'n cyfrannu at eu heffeithlonrwydd cyffredinol.

[191] Llywodraeth Cymru, Allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ôl blwyddyn, Cyrchwyd Mehefin 2025

## B. TYSTIOLAETH O WERTHUSIADAU O GYNLLUNIAU BLAENOROL I GEFNOGI AMAETHYDDIAETH YNG NGHYMRU

Mae'r Atodiad hwn yn crynhoi canfyddiadau allweddol y pedwar gwerthusiad diweddar o fentrau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r sector amaethyddol a chymunedau gwledig:

- Gwerthusiad o Glastir;
- Gwerthusiad o Raglen Datblygu Gwledig Cymru (2014-2022);
- Gwerthusiad o Cyswllt Ffermio;
- Y trydydd Arolwg o Arferion Ffermio.

### *Gwerthusiad o Glastir*

Gwerthuswyd Glastir gan y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd. Mae ei hadroddiad diweddaraf yn rhoi tystiolaeth ar statws nifer o gynefinoedd ac adnoddau naturiol (a rhai adnoddau diwylliannol dethol) a'r newid iddynt[192]. Mae'r 'Tueddiadau Cenedlaethol' hyn yn rhoi llinell sylfaen ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy a monitro a gwerthuso'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

| **Methodoleg y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd** |
|---|
| Ymhlith y dulliau a ddefnyddiwyd i gofnodi Tueddiadau Cenedlaethol a chanlyniadau opsiynau rheoli Glastir roedd cynnal ail Arolwg Maes Cenedlaethol integredig a oedd yn gynrychioliadol yn genedlaethol, a gynhaliwyd yn gyntaf yn 2013-16, y defnydd o loerennau a delweddau o'r awyr, cynnal Arolwg Ymarfer Ffermio arall gan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol a gwaith modelu nwyon tŷ gwydr. Pan fo data ar gael, nodir statws a thueddiadau Tueddiadau Cenedlaethol ar gyfer yr hirdymor (hyd at 45 o flynyddoedd) a'r byrdymor (y 10 mlynedd diwethaf). Nodir effaith opsiynau rheoli Glastir ar gyfer y cyfnod roedd Glastir yn weithredol (o 2012 ymlaen). Mae'r dull gweithredu cyffredinol yn cydnabod y gall tirweddau ac adnoddau naturiol fod yn araf i ymateb i ymyriadau rheoli a bod angen dull gweithredu rhyng-gysylltiedig ar sail system gyfan. |


Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Yn 2021, amcangyfrifwyd bod coetir yn ymestyn dros 23,700 hectar (16.9%) o Gymru, sef 7% yn fwy nag ydoedd yn 2010: mae hyn yn awgrymu cyfradd blannu newydd o 2,200 yr hectar y flwyddyn gyda chyllid Glastir.
- Cynyddodd hyd gwrychoedd 4% gyda chynnydd o 9% o ran lled ac uchder sy'n rhoi cyfanswm newydd o 52,700km yn 2021.
- Ehangodd cwmpas trefol (28,200 hectar) yn fwy na choetir felly roedd ardaloedd trefol yn cyfrif am 6% o Gymru yn 2021, a hynny'n bennaf o ganlyniad i drosi glaswelltir wedi'i wella.
- Collwyd 5% o'r tir amaethyddol mwyaf cynhyrchiol (Tir âr a Glaswelltir wedi'i Wella) hyd at 2021.
- Ni welwyd unrhyw newid o ran arwynebedd tir lled-naturiol.
- Bydd effaith y newidiadau o ran coetir a chwmpas trefol wedi bod yn bwysig i ansawdd gweledol tirwedd ar raddfa leol yn ogystal ag effeithio ar lawer o wasanaethau a manteision eraill.
- Yn gyffredinol, newidiodd 6.8% o Gymru ddefnydd tir rhwng 2010 a 2021.

Defnyddiwyd cyfres o ddangosyddion o gyflwr cynefinoedd a blaenoriaethau eraill Canlyniadau Glastir a Llywodraeth Cymru i olrhain tueddiadau dros yr hirdymor, y tymor canolig a'r byrdymor.

[192] Y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd, Adroddiad 104, 2024, Tueddiadau cenedlaethol Cymru a Gwerthusiad o Glastir

*Ffigur 15: % o gyfanswm y cyfrifon sy'n gwella (gwyrdd), yn sefydlog (llwyd), yn dirywio (coch) neu sy'n newydd (gwyn) ar y raddfa genedlaethol.*





Er bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion yn awgrymu sefydlogrwydd neu dim newid, mae nifer y dangosyddion lle gwelir dirywiad wedi cynyddu'n gyson. Efallai y bydd angen cymryd camau pellach i wella gwytnwch a chynaliadwyedd adnoddau naturiol Cymru o ystyried y pwysau o hyd o ganlyniad i reoli defnydd tir a'r risgiau a achosir gan newid yn yr hinsawdd, llygredd cemegol a bioddiogelwch.

Gwelwyd patrwm tebyg ar gyfer pum Adnodd Naturiol a phedwar Dosbarth o Asedau: awgrymodd y rhan fwyaf o'r dangosyddion sefydlogrwydd neu dim newid ond roedd mwy o ddangosyddion wedi dirywio yn hytrach na gwella.

Gofynnwyd i arbenigwyr yn y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd bwysoli dangosyddion yn seiliedig ar eu pwysigrwydd a rhoi asesiad cyffredinol o statws yr 19 o gynefinoedd a nodweddion. Y casgliadau oedd bod 12 (63%) o gynefinoedd a nodweddion mewn cyflwr a oedd yn 'Destun Pryder neu'n Dirywio' ac roedd chwech yn sefydlog (32%) ac roedd un yn gwella (Gwrychoedd). Mae hyn yn cymharu â'r asesiad blaenorol a gyhoeddwyd yn 2017 pan oedd pedwar (31%) 'yn Destun Pryder neu'n 'Dirywio'.

*Ffigur 16: % o gyfanswm y cyfrifon sy'n gwella (gwyrdd), yn sefydlog (llwyd), neu sy'n dirywio (coch) ar y raddfa genedlaethol*



| Dangosyddion o sefydlogrwydd neu welliant | Dangosyddion sy’n destun pryder |
|---|---|
| • Gwelliant o 4-20% yng nghyflwr gwrychoedd yn dibynnu ar y dangosydd ar gyfer y cyflwr<br>• Cynnydd o ran cyfoeth dangosyddion ynglŷn â phlanhigion sy’n gadarnhaol ar gyfer Glaswelltir wedi’i Wella<br>• Lleihad yn nifer y dangosyddion ynglŷn â phlanhigion sy’n negyddol mewn Glaswelltir wedi’i Led-wella<br>• Sefydlogrwydd yng nghyflwr llystyfiant Coetir a Rhos Corlwyn<br>• Dim newid yng nghrynodiad carbon uwchbridd cenedlaethol (Dangosydd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol Rhif 13)<br>• Dim newid yn arwynebedd Tir Lled-naturiol (Dangosydd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol Rhif 43)<br>• Dim newid yng nghyflwr Asedau Amgylchedd Hanesyddol gyda 54% mewn cyflwr rhagorol neu gadarn.<br>• Mae 80% o Flaenddyfroedd yn dal i fod mewn Cyflwr Ecolegol Da ond mae’r gweddill yn parhau i ddirywio<br>• Mae nifer y Glannau nentydd sydd wedi cael eu haddasu’n sylweddol neu’n ddifrifol wedi lleihau o 43% i 30%<br>• Mae 54% o Asedau Amgylchedd Hanesyddol mewn cyflwr Rhagorol neu Gadarn | • Gostyngiad o 8% o ran cyfoeth rhywogaethau o blanhigion ar draws pob cynefin<br>• Gostyngiad o 13-35% o ran dangosyddion adar, yn enwedig ar gyfer rhywogaethau tir âr a glaswelltir<br>• Gostyngiad o 23-75% o ran dangosyddion pryfed peillio yn dibynnu ar y Cynefin Bras<br>• Cynnydd o 6-32% o ran cywasgu pridd<br>• 4% o briddoedd yng Nghymru wedi erydu neu’n dangos olion tarfu<br>• Wedi colli 8% o grynodiad carbon uwchbridd yn y cynefin tir âr a garddwriaeth<br>• Dyblu priddoedd sy’n mynd dros drothwyon trwytholchi ar gyfer ffosfforws mewn priddoedd tir âr a garddwriaeth o 4% i 8% o safleoedd a chynnydd triphlyg mewn glaswelltir wedi’i wella o 5% i 17% o safleoedd.<br>• Mae lefelau asidedd 72% o safleoedd glaswelltir wedi’i wella yn dal i fod yn is na throthwyon cynhyrchu<br>• Mae 66% o nentydd blaenddwr yn cynnwys infertebratau goresgynnol<br>• Mae 46% o byllau bellach mewn cyflwr gwael neu wael iawn, sydd wedi cynyddu o 37%.<br>• Cynnydd dyblyg yn nifer y pyllau sy’n cynnwys rhywogaethau goresgynnol o 9% i 19%<br>• mae 50% o hawliau tramwy cyhoeddus yn dal i fod wedi’u blocio a heb arwyddion |

Rhoddodd Glastir gymorth ychwanegol fel rhan o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer gwasanaethau amgylcheddol i wella’r tir a’r amgylchedd. Roedd yn cynnwys teulu o gynlluniau cysylltiedig i sicrhau canlyniadau ar lefel fferm, coedwig a thirwedd, gan gynnwys:

- Glastir Sylfaenol;
- Glastir Uwch;
- Glastir Tir Comin;
- Glastir Organig;
- Glastir Grantiau Bach;
- Glastir Creu Coetir;
- Glastir Adfer Coetir.

Amcanion Glastir oedd:

- Gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd;
- Gwella ansawdd dŵr a rheoli adnoddau dŵr;
- Gwella ansawdd pridd a’r ffordd y caiff ei reoli;
- Cynnal a gwella bioamrywiaeth;
- Rheoli tirweddau ac amgylcheddau hanesyddol;
- Gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad.

Canlyniadau ychwanegol (ar ôl cais Swyddfa Archwilio Cymru i ehangu canlyniadau cynlluniau):

- Gwella nifer y ffermydd yn cymryd camau ynglŷn â newid yn yr hinsawdd;
- Gwella arallgyfeirio ac effeithlonrwydd ffermydd;
- Gwella proffidioldeb a chynaliadwyedd ehangach.

Yn gyffredinol, bu 40% o dir amaethyddol (38% o Gymru) yn rhan o gynllun Glastir ac yn achos chwarter y tir hwnnw, roedd camau rheoli penodol wedi’u cymhwyso at barseli tir penodol i wella statws yr amgylchedd naturiol.

Rhagwelwyd y byddai nifer sylweddol o gyfranogwyr o gynlluniau amaeth-amgylchedd blaenorol yn ymuno â chynllun Glastir: Ymunodd 54% o'r tir yng nghynlluniau Tir Gofal a/neu Tir Cynnal â chynllun Glastir.


O blith mwy na 700 o opsiynau a gynigiwyd yng nghynllun Glastir, roedd pum opsiwn yn cyfrif am 62% o arwynebedd tir yn y cynllun: roedd pedwar opsiwn yn ymwneud â chynnal a/neu gyfyngu ar nifer y da byw mewn porfeydd a chefn gwlad agored ac roedd y pumed opsiwn yn ymwneud ag ymyriadau Glastir Organig.

Gwerthuswyd effaith opsiynau rheoli tir Glastir drwy ei chymharu â thir nad oedd yn y cynllun.

Mae'r canlyniadau cryno yn cyfuno llawer o ddadansoddiadau o 'fwndeli' opsiynau rheoli Glastir a gofnododd effaith yr opsiynau a flaenoriaethwyd i'w dadansoddi gan Lywodraeth Cymru a lle roedd niferoedd digonol o reolwyr tir wedi ymuno er mwyn gallu gwneud dadansoddiad.

Yn gyffredinol, mae effaith opsiynau rheoli Glastir yn awgrymu na fu unrhyw newid canfyddadwy (gweler Ffigur 17) lle mae llwyd yn cynrychioli dim newid, mae glas yn awgrymu gwelliant cymharol fach ac mae oren yn dangos effaith negyddol.

*Ffigur 17:% cyfanswm cyfrifon dangosyddion ar raddfa genedlaethol ar gyfer tir yng nghynllun Glastir ar gyfer pum Adnodd Naturiol a phedwar Dosbarth o Asedau dros y byrdymor (2013-16 i 2021-23)*





Ar gyfer adnoddau naturiol (A), adar sydd fwyaf ymatebol o'u cymharu â phryfed peillio, llystyfiant, pridd a dŵr ond ni welir y canlyniad mwy cadarnhaol hwn eto yn y data ar Dueddiadau Cenedlaethol sydd o bosibl yn adlewyrchu gallu adar i symud i ymwela ar ddarnau lleol o gynefin newydd neu gynefin wedi'i wella heb arwain o reidrwydd at gynnydd net mewn niferoedd yn genedlaethol.

Yn y pedwar dosbarth o asedau mawr (B), nodir y newid mwyaf ar gyfer ffermdir a choetir amgaeedig sy'n debygol o ddeillio o ofyniad ar gyfer opsiynau rheoli Glastir sy'n creu cynefin (e.e. ymylon caeau) neu sy'n newid prif ysgogydd yn sylfaenol (e.e. cadw da byw allan o goetir yn hytrach na lleihau lefelau da byw). Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â llawer o opsiynau ar gyfer glaswelltir lled-naturiol a mynydd, rhostir a gweundir, lle gwelwyd mai cynnal yr arferion estynedig presennol o hen gynlluniau amaeth-amgylchedd yn hytrach nag annog newid trawsnewidiol oedd fwyaf cyffredin. Canfu Arolwg Ymafer Ffermio'r Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol mai dim ond 31% o reolwyr fferm a hunangofnododd newid o ran niferoedd da byw neu'r defnydd o wrtaith oherwydd taliadau Glastir, sy'n awgrymu mai cynnal a chadw oedd y flaenoriaeth ar gyfer y cynefinoedd glaswelltir ac ucheldir mwy gwasgaredig. Mae hyn yn cymharu â 61% a nododd newid

mewn arolwg blaenorol ar gyfer Tir Gofal a Tir Cynnal. Nid yw hyn wedi arwain at fawr ddim newid o ran cyflwr amgylcheddol dros y cyfnod o 10 mlynedd ar dir lle roedd opsiynau rheoli Glastir yn bresennol.

Mae dangosyddion hefyd wedi cael eu defnyddio i roi adroddiad uniongyrchol ar ganlyniadau ar gyfer chwe amcan amgylcheddol a diwylliannol Glastir (a rhai blaenoriaethau ychwanegol a oedd o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru) (gweler Ffigur 18).


*Ffigur 18:% cyfanswm cyfrifon dangosyddion ar raddfa genedlaethol ar gyfer chwe amcan amgylcheddol Glastir a rhai blaenoriaethau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru dros y byrdymor (2013-16 i 2021-23)*




Drwy asesiad arbenigol pwysolwyd y dangosyddion unigol hyn yn ôl eu pwysigrwydd i chwe amcan amgylcheddol a diwylliannol Glastir. Aseswyd bod pob un ohonynt wedi cael effaith lefel ‘isel’ ar gyfer chwe amcan amgylcheddol Glastir. Wrth eu hasesu am eu heffaith ar dueddiadau cenedlaethol, aseswyd bod pob un ohonynt wedi cael effaith lefel ‘isel’.

Mae’r dosbarthiadau o asedau a’r cynefinoedd bras a nodwyd yn cyfuno’n ofodol ledled Cymru i greu amrywiaeth gyfoethog o dirweddau. Yn 2017, cyfunodd Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir nifer o ddangosyddion ynglŷn â thirwedd a rheoli fferm a gofnodwyd o’r Arolwg Maes Cenedlaethol, gwybodaeth lloerennau a’r Arolwg o Ymarfer Ffermwyr i ddadansoddi a oedd y tir a ymunodd â chynllun Glastir (ond nad oedd yn destun opsiynau rheoli Glastir eto) yn cynnwys mwy o nodweddion y tybiwyd eu bod yn rhoi gwytnwch, o gymharu â thir y tu allan i’r cynllun. Canfuwyd bod hyn yn wir am y rhan fwyaf o’r dangosyddion (gweler Ffigur 19).

*Ffigur 19:Cymharu tir yn Glastir â metrigau cymedrig cenedlaethol gwytnwch (mae bariau i’r dde o’r llinell ‘0’ ganolog yn dangos gwerth mwy cadarnhaol ar gyfer y nodwedd honno)*




Mae’r data mwyaf diweddar o’r Arolwg Maes Cenedlaethol a’r Arolwg o Ymarfer Ffermwyr yn awgrymu darlun cymysg o newid gyda rhai enillion o ran nodweddion gwytnwch gan dir yn y cynllun, gan gynnwys:

- Cynnydd yn arwynebedd tir lled-naturiol ond dim newid o ran amrywiaeth cynefinoedd (sy’n dirywio ar raddfa genedlaethol);
- Cynnydd o 3.5% o ran cysylltedd glaswelltir ond dim newid o ran cysylltedd coetiroedd, gweundiroedd na gwlyptiroedd ar raddfa genedlaethol;
- Cynnydd o ran hyd gwrychoedd, ac roedd lleiafrif o’r rheolwyr tir (25-40%) yn y cynllun wedi gwneud rhai gwelliannau i gynyddu arallgyfeirio ac effeithlonrwydd.

Y casgliad yw bod statws cychwynnol uwch gwytnwch tir yn y cynllun wedi cael ei gynnal a bod rhai ardaloedd wedi gwella.

Roedd lliniaru newid yn yr hinsawdd yn un o chwe amcan amgylcheddol Glastir. O 2010 i 2021 roedd:

- Cynnydd o 0.33 Mt $CO_2$eq/y flwyddyn i 5.7Mt $CO_2$eq/y flwyddyn mewn allyriadau o amaethyddiaeth a nodwyd yn Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr Amaethyddiaeth Cymru;
- Lleihad o 0.02Mt C i -0.7Mt $CO_2$eq/y flwyddyn o ran amsugno yn y sector defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth.

Felly, erys bwlch sylweddol o 5 Mt $CO_2$eq/y flwyddyn o hyd rhwng y ddwy restr yn 2021. Mae angen cau'r bwlch hwn er mwyn i'r sector tir sicrhau sero net yn ei gyfanrwydd. Prif gyfraniad disgwyliedig Glastir at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr oedd newid niferoedd da byw, y defnydd o wrtaith, plannu coetiroedd newydd ac adfer mawndir.

Yn gyffredinol, mae canlyniadau'r gwerthusiad yn awgrymu cyfraniad cyfyngedig gan opsiynau rheoli Glastir i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr rhwng 2010 a 2023:

- Dim newid o ran niferoedd da byw mewn ymateb i daliadau Glastir a dim tuedd gyson o ran defaid ac ŵyn, gwartheg a lloi i Gymru gyfan gyda chynnydd o fwy na 5% o ran defaid ac ŵyn a gostyngiad -2% o ran gwartheg a lloi yn Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Llywodraeth Cymru, 2023;
- Dim newid yn y defnydd o wrtaith oherwydd taliadau Glastir: mae'r defnydd o wrtaith i'r diwydiant cyfan wedi gostwng 25% ers 2010 yng Nghymru a Lloegr oherwydd costau ond nid yw Glastir wedi cyflymu'r duedd hon;
- Er bod swm sylweddol o goetir newydd (+7%) a gwrychoedd newydd (+4%) wedi cael ei greu ers 2010, roedd Glastir ond yn gyfrifol am 1% a < 0.1% yn unig yn y drefn honno ac ni fyddant yn cyfrannu fawr ddim i gynyddu'r ddalfa garbon nes eu bod yn fwy aeddfed, ond sefydlir y potensial ar gyfer cynnydd bach mewn carbon ar gyfer y tymor hwy;
- Yng Nghymru, mae arwynebedd o 82,000 o fawndir (4% o Gymru); mae adolygiad o'r holl weithgareddau adfer mawndir cofnodedig ledled Cymru yn awgrymu bod 9,000 hectar o fawndir wedi cael ei adfer, ac mae'n debygol bod y rhan fwyaf o'r gwaith wedi cael ei wneud ers 2010; Cyfrannodd Glastir gyllid ar gyfer 992 hectar (11%) o'r gwaith adfer hwn.

Gan edrych ymlaen, mae canlyniadau Arolwg Ymarfer Ffermwyr y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol yn dangos pa mor barod yw'r sector amaethyddol ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, yr angen am fwy o arallgyfeirio ac effeithlonrwydd a gwell proffidioldeb a chynaliadwyedd.

- Mae mwy o ffermydd yn cymryd camau ynglŷn â newid yn yr hinsawdd: nid oedd 49% o'r holl ymatebwyr wedi cymryd unrhyw gamau i addasu ar gyfer bygythiadau newid yn yr hinsawdd: roedd rhwng 9 a 40% o ffermydd wedi cymryd camau i liniaru bygythiadau penodol oherwydd newid yn yr hinsawdd yn ystod y tair blynedd diwethaf (gydag un cam allan o chwe cham posibl yn cael ei gymryd ar gyfartaledd). Y sector llaeth oedd y sector mwyaf gweithredol a chyfrannodd taliadau Glastir 0.3 o gamau ychwanegol.
- Gwella arallgyfeirio ac effeithlonrwydd ffermydd: Gwelwyd cynnydd bach yn nifer y camau gweithredu fesul fferm i wella'r busnes fferm e.e. roedd 9% yn fwy wedi cymryd camau ynglŷn ag 'arallgyfeirio' o dan y cynllun ar gyfer ffermydd yng nghynlluniau Glastir Sylfaenol ac Uwch.
- Gwella proffidioldeb a chynaliadwyedd ehangach: Cytunodd rhwng 25-40% a gymerodd ran yng nghynlluniau Glastir Sylfaenol neu Uwch eu bod wedi gwneud gwelliannau a oedd wedi arwain at fusnes mwy gwydn, mwy o gymhelliant amgylcheddol, caffael sgiliau cynaliadwy a gwell lles ac iechyd personol yn sgil cymryd rhan yn y cynllun.

Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud, a bod mabwysiadwyr cynnar yn newid arferion, ond, mae cryn le i wella os yw'r sector amaethyddol am baratoi ar gyfer yr heriau amcanestynedig sy'n gysylltiedig â hinsawdd fwy eithafol ac ansicrwydd ac anwadalrwydd cynyddol mewn llawer o farchnadoedd byd-eang.

At hynny, mae llawer o heriau sydd i ddod o ganlyniad i'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd ochr yn ochr â'r pedwar amcan rheoli tir yn gynaliadwy. Ar y gorau, mae'r camau rheoli presennol, gan gynnwys y rhai a

gymerwyd o dan Glastir, yn cadw cynefinoedd ac adnoddau naturiol yn sefydlog ond mewn llawer o achosion, mae'r rhain ar lefelau hanesyddol isel. Ceir arwyddion pellach bod y sefydlogrwydd hwn yn cael ei golli ac mae'r arwyddion cynnar o ddechrau'r broses ddirywio yn dechrau dangos yn y data. Cyfyngedig yw'r dystiolaeth o welliant yn ein hadnoddau naturiol fel y'u pennwyd yn wreiddiol yn amcanion Glastir.

### *Gwerthusiad o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaethau Cynghori* [193]

Mae'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd i werthuso Cyswllt Ffermio yn dangos sut yr arweiniodd at well arferion ffermio. Ceir hefyd enghreifftiau o nifer llai o ffermwyr yn gwneud newidiadau mwy sylweddol. Y ffactorau allweddol a ddylanwadodd ar weithredu oedd meddylfryd, ysbrydoliaeth a hyder, gallu ac anoddau a mynediad at gyllid/blaenoriaethu cyllid.

Y gwahaniaeth mwyaf a wnaeth Cyswllt Ffermio oedd dylanwadu ar ddatblygiad personol ffermwyr, yn enwedig o ran rhoi hwb i'w hyder a'u huchelgais a chreu'r "sylfeini" ar gyfer newid. Ochr yn ochr â sgiliau technegol gwell, mae hyn wedi dylanwadu ar brosesau rheoli busnes a gwneud penderfyniadau, sydd, yn eu tro, wedi lleihau costau, gwella cynhyrchiant a gwytnwch busnes ac wedi arwain at safonau gwell ar gyfer yr amgylchedd a lles anifeiliaid.

Cyfyngedig yw'r dystiolaeth bod lleihau costau a gwella cynhyrchiant wedi arwain at fwy o broffidioldeb a throsiant, a chreu swyddi. Er yr ymddengys fod buddiolwyr yn arallgyfeirio ac yn mabwysiadu elfennau o ymarfer da sy'n newydd i'r fferm, nid oes unrhyw dystiolaeth bod ffermwyr yn mabwysiadu prosesau/technolegau mwy radical sy'n newydd i'r sector.

Y dylanwadau [mwyaf] pwysig ar effaith oedd cyfuniad o gymorth a/neu ymgysylltu â'r agweddau dwysaf ar Cyswllt Ffermio a'r Swyddog Datblygu.

Aseswyd bod gwerth ychwanegol Cyswllt Ffermio yn gryf. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddai'r canlyniadau wedi cael eu sicrhau, neu byddent wedi cymryd mwy o amser, wedi bod ar raddfa lai ac wedi bod o ansawdd is; canfuwyd mai ychydig o ffactorau eraill a gyfrannodd at sicrhau'r canlyniadau hyn (heblaw'r rhai a gafodd grantiau a oedd wedi eu galluogi i'w rhoi ar waith).

Dywedodd cyfran uwch o ffermwyr a oedd ag uchelgais glir ac a oedd wedi rhoi cynllun busnes a meincnodi ar waith, eu bod wedi cyflwyno "newid rhesymol" a briodolwyd i Cyswllt Ffermio. Er bod maint y samplau yn rhy fach i asesu arwyddocâd ystadegol, mae hyn yn dangos perthynas rhwng pennu cyfeiriad clir, a llinell sylfaen i fesur cynnydd, a chyflwyno dulliau gweithredu newydd.

*Tabl 61*: *Nodweddion busnes a'r graddau y mae newidiadau wedi cael eu rhoi ar waith oherwydd Cyswllt Ffermio ar Gam 2*

| | **% yr ymatebwyr â/ag … sydd wedi rhoi newid "rhesymol" ar waith oherwydd Cyswllt Ffermio** | **% yr ymatebwyr heb… sydd wedi rhoi newid "rhesymol" ar waith oherwydd Cyswllt Ffermio** |
|---|---|---|
| Uchelgais glir | 79% | 30% |
| Cynllun Busnes | 73% | 58% |
| Meincnodi | 86% | 20% |
| Cynllun Rheoli Maethynnau | 76% | 42% |
| Cynllun Iechyd Anifeiliaid | 85% | 30% |

## *Canlyniadau ac effeithiau*

Ceir tystiolaeth helaeth a chyson gadarnhaol ynglŷn ag effaith sylweddol Cyswllt Ffermio o ran newid meddylfryd ac agweddau, rhoi hwb i hyder ffermwyr a chodi eu huchelgais. Mae llawer o'r gweithgareddau yn chwarae rôl i roi mwy o hyder i ffermwyr roi cynnig ar rywbeth newydd ac i godi uchelgais.

Gwelwyd hefyd nifer bach o enghreifftiau lle roedd hyder wedi cael ei fagu ar ôl i Cyswllt Ffermio gadarnhau bod arferion buddiolwyr yn briodol.

[193] Hindle, R., Pates, R., a Barber, J. (2021). Gwerthusiad o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaethau Cynghori. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 41/2021

Er bod y canlyniadau hyn yn bwysig ac er gwaethaf y dystiolaeth i segmentu'r sector (cydnabod bod rhan o'r sector yn annhebygol o ymaddasu), roedd rhai rhanddeiliaid allanol yn pryderu – os mai hon oedd unig effaith Cyswllt Ffermio i rai – nad oedd yn ddigon i sicrhau maint y newid sydd ei angen yn y sector.

Helpodd gweithgareddau Cyswllt Ffermio i ddatblygu a chryfhau rhwydweithiau rhwng ffermwyr, yn ystod ac ar ôl y cymorth. Cyflawnwyd hyn drwy weithgareddau rhwng cymheiriaid a gweithgareddau grŵp ond roedd hefyd yn amlwg mewn gweithgareddau eraill megis Cyfnewid Rheolwyr.

Ceir tystiolaeth o effaith gwaddol hunangynhaliol lle mae rhwydweithiau yn parhau ar ôl i gymorth Cyswllt Ffermio ddod i ben a lle mae ffermwyr yn parhau i gyfnewid gwybodaeth ac arferion da.

Yn yr astudiaethau achos, disgrifiodd buddiolwyr hefyd sut roedd cymryd rhan yng ngweithgareddau Cyswllt Ffermio wedi "ehangu gorwelion" ac wedi cyflwyno syniadau newydd, gan arbenigwyr yn y maes a/neu drwy drafodaethau â chymheiriaid. Canolbwyntiodd y rhan fwyaf o syniadau ar raddfa fach a oedd yn newydd i'r ffermydd, megis newidiadau i ddwysedd plannu cnydau a strategaethau bwydo anifeiliaid, proffilio metabolig mamogiaid a chyfundrefnau rheoli pridd.

Rhoddodd ymgyngoriadau â buddiolwyr a staff cyflawni nifer o enghreifftiau o'r ffordd roedd Cyswllt Ffermio wedi cryfhau ac wedi proffesiynoli arferion rheoli busnes, yn enwedig drwy wneud penderfyniadau sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth a mwy hyderus a chyflwyno prosesau newydd i reoli'r busnes megis monitro electronig a rheoli cyfrifon yn well.

Cafwyd tystiolaeth bod y Gwasanaeth Cynghori yn rhoi hwb i ymddiriedaeth ffermwyr a'u parodrwydd i ymgysylltu o ran cyngor allanol ac, mewn rhai achosion, eu parodrwydd i dalu am hyn.

Ymddengys fod Cyswllt Ffermio wedi cael effeithiau eang eu cwmpas o ran lleihau costau, gwella cynhyrchiant a gwytnwch busnes a sicrhau manteision amgylcheddol a lles anifeiliaid. Er nad yw wedi cael ei droi'n drosiant/proffidioldeb gwell i'r busnesau hyn, nac wedi creu swyddi, roedd y rhan fwyaf yn disgwyl yr effeithiau hyn yn y dyfodol.

Roedd dros hanner y 36 o fuddiolwyr yn yr astudiaethau achos wedi gwneud arbedion cost oherwydd y cymorth a gawsant drwy Cyswllt Ffermio. Roedd y rhain wedi cael eu gwireddu'n gyflym gan mwyaf, ac roedd rhai yn eithaf sylweddol.

Ceir tystiolaeth hefyd sy'n dangos sut mae Cyswllt Ffermio wedi arwain at well cynhyrchiant – fel y'i nodir uchod, roedd bron tri chwarter y 36 o fuddiolwyr yr ymgynghorwyd â nhw ar gyfer yr astudiaethau achos wedi gwella eu cynhyrchiant.

Mae Cyswllt Ffermio hefyd wedi helpu i wella gwytnwch a hyfywedd busnesau. Dadleuodd ymgyngoreion, am fod llawer o'r gwelliannau yn rhai cymharol gyflym i'w cyflwyno, eu bod yn gallu symud yn gyflym i greu busnes mwy cynaliadwy. Nid newidiadau trawsnewidiol ynddynt hwy eu hunain oedd y rhain o reidrwydd, ond roeddent yn creu busnesau cynaliadwy a allai wedyn gael eu datblygu i'r genhedlaeth nesaf.

Roedd tystiolaeth o effeithiau ar drosiant a phroffioldeb yn llai cyffredin ac yn aml ar raddfa fach; lle y'u nodwyd, roeddent fel arfer wedi'u hysgogi gan arallgyfeirio, prosesau mwy effeithlon a meddu ar y sgiliau i gyflawni tasgau'n fewnol. Mewn rhai achosion, nid oedd effeithiau ariannol yn amlwg ar adeg yr ymgynghoriad ond roedd disgwyl iddynt godi yn y tymor hwy. I'r rhan fwyaf o'r ymgyngoreion nid oedd creu na chadw swyddi yn nod allweddol; roeddent yn canolbwyntio ar sicrhau bod y busnes yn gynaliadwy i gael sicrwydd ynglŷn â'u swyddi eu hunain a swyddi eu plant.

Fel rhan o'r astudiaethau achos ar Gam 2, gofynnwyd i'r ymgyngoreion a oedd Cyswllt Ffermio wedi arwain at gyfleoedd newydd o ran cynhyrchion neu farchnadoedd. Roedd tua thraean o'r buddiolwyr wedi gweld yr effaith hon eisoes, ond roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â chyfleoedd mewn marchnad newydd megis cynhyrchu mêl, plannu amrywogaethau newydd, newid o ffermio defaid i fuchod sugno neu arallgyfeirio gweithgareddau busnes i wneud y busnes yn wydn (e.e. biomas). Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ffermwyr yn cyflwyno cynhyrchion/prosesau arloesol dros ben, megis systemau cynhyrchu bwyd newydd.

Rhoddodd y ddau gam o'r ymchwil dystiolaeth sylweddol bod cyngor Cyswllt Ffermio wedi arwain at welliant amgylcheddol a manteision o ran iechyd anifeiliaid. Cyflawnwyd hyn drwy leihau'r defnydd o wrthfiotigau a gwrtaith, rheoli adnoddau'n fwy cynaliadwy a mesurau i wella bioamrywiaeth.

*Tabl 62: Ychwanegedd – i ba raddau y byddai manteision yn cael eu gwireddu yn absenoldeb Cyswllt Ffermio*

| | | **Wedi cyflwyno newidiadau ar y fferm** | **Manteision personol** | **Perfformiad fferm** |
|---|---|---|---|---|
| Diffrwythedd | Byddai'r canlyniadau wedi cael eu cyflawni'n llawn sut bynnag (ar yr un cyflymder, graddfa ac ansawdd) | 8% | 6% | 8% |
| Ychwanegedd rhannol | Byddai'r un canlyniadau wedi cael eu cyflawni, ond nid mor gyflym | 31% | 28% | 25% |
| | Byddai'r un canlyniadau wedi cael eu cyflawni, ond nid ar yr un raddfa | 11% | 8% | 11% |
| | Byddai'r un canlyniadau wedi cael eu cyflawni, ond o ansawdd is | 17% | 11% | 17% |
| Yn gwbl ychwanegol | Ni fyddai'r un canlyniadau wedi cael eu cyflawni fwy na thebyg | 22% | 31% | 25% |
| | Yn sicr, ni fyddai'r un canlyniadau wedi cael eu cyflawni fwy | 14% | 14% | 14% |
| Ddim yn gwybod | | 3% | 0% | 3% |

## *<u>Gwersi o fannau eraill</u>*

Adolygwyd 26 o raglenni, gan gynnwys dau sy'n gweithredu ledled y DU, a phump arall yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd y 10 rhaglen o wledydd yr UE yn cynnwys pump o Iwerddon, tair o'r Iseldiroedd a dwy o Ddenmarc. Cynhwyswyd hefyd dair rhaglen yr un o Awstralia a Chanada, dwy o Seland Newydd ac un o UDA.

O'r 19 o raglenni lle roedd rhywfaint o dystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau ar gael:

- Dim ond dros draean a oedd yn cynnwys canlyniadau a oedd yn ymwneud â thema gwelliant amgylcheddol a chynaliadwyedd: roedd canlyniadau cofnodedig ar gyfer sawl prosiect yn ymwneud â gwelliannau o ran rheoli maethynnau a manteision amgylcheddol cysylltiedig megis gwell ansawdd dŵr.
- nododd 14 ganlyniadau a oedd yn gysylltiedig â chyfnewid a datblygu gwybodaeth: nododd sawl prosiect ganlyniadau a oedd yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth ymhlith y rhai a oedd yn cymryd rhan, nododd eraill fwy o gydweithio a chydweithredu rhwng rhanddeiliaid a chofnododd rhai enghreifftiau o wella neu ddatblygu systemau trosglwyddo gwybodaeth a chynhyrchion.
- Roedd naw yn cynnwys canlyniadau a oedd yn ymwneud â'r thema gwelliant economaidd.

Un canlyniad economaidd arall oedd gwell cynhyrchiant a oedd yn gysylltiedig â mwy o sefydlogrwydd economaidd dros amser.

O ran pump o'r rhaglenni, roedd tystiolaeth yn gysylltiedig â'r thema defnyddio technoleg ac annog gweithgareddau arloesedd. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a oedd yn ymwneud â defnyddio technoleg a gweithgareddau arloesedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau disgwyliedig.

I gloi:

- Mae'r ddau gam o'r gwerthusiad wedi dangos sut mae Cyswllt Ffermio yn chwarae rôl hollbwysig i greu'r "sylfeini ar gyfer newid", gydag effaith sylweddol ar ganlyniadau personol megis newid meddylfryd, agweddau, hyder ac uchelgais, ochr yn ochr â gwell sgiliau a gwybodaeth (o ran sgiliau busnes a thechnegol). Mae hyn wedi arwain at newid arferion rheoli busnes ac, yn hollbwysig, brosesau gwneud penderfyniadau mwy hyderus ac ar sail gwell gwybodaeth. Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl ffermwyr (sy'n cael ei chydnabod ond yn aml yn cael ei thanbrisio) ac ar gryfhau rhwydweithiau yn y gymuned ffermio.

- O ran gweithredu, i lawer o ffermwyr, mae Cyswllt Ffermio yn arwain at newidiadau graddol ar raddfa fach dros gyfnod hir o amser. Y rheswm dros hyn yw bod llawer o fusnesau bach yn wynebu cyfyngiadau ar adnoddau a gallu, felly mae angen i newidiadau fod yn fforddiadwy ac yn hydrin. Gall hefyd adlewyrchu'r ffordd y mae gweithgarwch ymgysylltu â Cyswllt Ffermio (a deall yr hyn a gynigir) a phennu nodau mewn llawer o'r gweithgareddau yn cael ei arwain gan ffermwyr. Mae'r enillion ymylol hyn ymhlith llawer o agweddau ar y busnes, gyda'i gilydd, yn creu busnesau mwy hyfyw a chynaliadwy. Ceir manteision cyffredinol hefyd o ran effeithiau amgylcheddol ac iechyd anifeiliaid, yn enwedig o ran lleihau'r defnydd o wrthfiotigau a gwrtaith, rheoli adnoddau yn gynaliadwy a bioamrywiaeth.
- Mewn ychydig o achosion, bu Cyswllt Ffermio yn drawsnewidiol, er enghraifft drwy leihau costau'n sylweddol, gwella cynhyrchiant/cynnyrch cnydau neu arallgyfeirio.

## *Trydydd Arolwg o Arferion Ffermio Cymru*[194]

Yn gyffredinol, roedd 31.1% o'r rhai a gymerodd ran yn Glastir yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi '*newid y ffordd rwy'n rheoli'r fferm*', a 36.6% eu bod wedi gwneud '*newidiadau parhaol i'r ffordd rwy'n rheoli'r fferm*'.

Roedd y ffermydd a gymerodd ran yn lefel uwch Glastir Uwch yn fwy tebygol o gytuno (41.1% a 45.4%) na ffermydd a gymerodd ran yn Glastir Sylfaenol (yn unig) (18.5% ac 28.7%). Tybiwyd bod hyn yn adlewyrchu gofynion ychwanegol rhagnodiadau a chydnabyddiaeth rheolwyr o dan Glastir Uwch

Roedd canran y rhai a gymerodd ran yn Glastir Sylfaenol (yn unig) a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad '*Rwyf wedi newid y ffordd rwy'n rheoli'r fferm*' yn uwch yn y Trydydd Arolwg o Arferion Ffermio (54%) nag yn yr Ail Arolwg (30%). Dehonglwyd hyn fel tystiolaeth nad oedd newidiadau rheoli yn parhau ar ôl i'r cytundebau Glastir Sylfaenol (yn unig) ddod i ben. Byddai pob elfen o Glastir Sylfaenol (yn unig) wed dod i ben cyn neu yn ystod 2019.

Dehongliad mwy ffafriol yw bod tua hanner y ffermydd a arolygwyd a oedd yn ymuno â Glastir eisoes wedi cymryd rhan yn y cynllun Tir Gofal cynharach ac, o bosibl, wedi cymryd camau tebyg o dan y ddau gynllun. Felly, ni fyddai wedi bod yn gymaint o newid o ran rheoli'r fferm wrth ymuno â Glastir ag a fyddai wedi bod wrth ymuno â Tir Gofal.

## *Cyfraniadau Cynllun y Taliad Sylfaenol at broffidioldeb ffermydd yng Nghymru*

Mae'r Arolwg diweddaraf o Fusnesau Fferm ar gyfer 2023-24[195] wedi cael ei ddefnyddio i amcangyfrif proffidioldeb 9,125 o ffermydd yng Nghymru sy'n ymestyn dros 1,259,000 hectar a phwysigrwydd taliadau presennol Cynllun y Taliad Sylfaenol[196]. Mae hefyd yn rhoi sail ar gyfer deall eu hasedau a'u rhwymedigaethau cyfredol a chyfanswm yr asedau a'r rhwymedigaethau hynny (ac, felly, eu hyfywedd).

Diffinnir elw fel swm allbwn amaethyddol, refeniw arallgyfeirio, taliadau Piler 1 (Cynllun y Taliad Sylfaenol) a thaliadau Piler 2 (taliadau Glastir yn bennaf ond maent yn cynnwys taliadau eraill i ffermydd o dan y Cynllun Datblygu Gwledig) llai'r costau[197].

Crynhoir sail yr elw cyfun yn Tabl 63. Yn gyffredinol, cafwyd £280m o elw, gan 9,125 o ffermydd lle roedd 76% yn deillio o daliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol. O gynnwys taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol, roedd elw yn cyfrif am 14.3% o allbwn a, heb Gynllun y Taliad Sylfaenol, roedd yn cyfrif am 3.5%.

*Tabl 63: Proffidioldeb ffermydd (£m, 2023-24)*

| **Elfen** | **£m** |
|---|---|
| Allbwn/refeniw | |

[194]Arolwg â haenau yw'r arolwg hwn, sy'n edrych ar fewnbynnau newidiol ffermydd a rheoli ar lefel fferm gyfan y gellir eu priodoli i gymryd rhan yng nghynllun Glastir. Cynhaliwyd yr arolwg drwy gyfweliad â sgript dros y ffôn â 600 o ffermydd. Llwyddodd yr arolwg i gael ymatebion gan 125 o ffermydd godro, 226 o ffermydd gwartheg a defaid yn yr Ardaloedd dan Anfantais (CS-DA) a ffermydd gwartheg a defaid yn Ardal yr Iseldir (CS-LOW), a 249 o ffermydd gwartheg a defaid yn yr Ardal dan Anfantais Fawr (CS-SDA).
[195]Yn seiliedig ar 550 o ffurflenni.
[196]Mae gwerthoedd a roddir yn y papur hwn yn dangos yr amcangyfrifon wedi'u cynyddu o'r boblogaeth ar gyfer y 9,125 o ffermydd sydd ag Allbwn Safonol o €25,000 o leiaf. Ni chynhwysir ffermydd llai o faint.
[197] Mae hyn yn cynnwys addasiadau ar gyfer dibrisiant, llafur heb dâl a rhent tybiannol am dir a berchenogir.

| | |
|---|---|
| • Amaethyddiaeth ynghyd ag arallgyfeirio | 1,707 |
| • Cynllun y Taliad Sylfaenol – Piler 1 | 212 |
| • Cynllun y Taliad Sylfaenol – Piler 2 | 39 |
| Cyfanswm | 1,958 |
| Costau | 1,679 |
| Cyfanswm yr elw | 280 |
| **Cyfanswm yr elw heb gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol** | **68** |

Mae lefel elw fferm a phwysigrwydd taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol yn amrywio yn ôl math o fferm a maint fferm (gweler Tabl 64). Y pwyntiau allweddol i'w nodi yw, heb daliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol:

- Mai'r sector llaeth fyddai'n gwneud yr elw mwyaf ynghyd â ffermydd cnydau ŷd/cyffredinol;
- Na fyddai ffermydd pori AdA, ffermydd eidion AdAF na defaid AdAF yn gwneud unrhyw elw;
- Y byddai'r ffermydd lleiaf (allbwn llai na £250k) yn gwneud colled ond byddai ffermydd ag allbwn o fwy na £250k yn gwneud elw.

*Tabl 64: Proffidioldeb ffermydd yn ôl math o fferm a maint fferm[198]*

| | Nifer | Cyfanswm yr elw (£m) | Cynllun y Taliad Sylfaenol (£m) | Elw heb gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol (£m) | Cynllun y Taliad Sylfaenol fel % o gyfanswm yr elw | Elw heb gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol fel % o allbwn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o fferm | | | | | | |
| Godro (ALFf) | 878 | 60 | 18 | 42 | 30 | 8.0% |
| Godro (Iseldir) | 474 | 31 | 10 | 21 | 32 | 6.1% |
| Defaid AdAF | 2,399 | 62 | 80 | -18 | 129 | -6.1% |
| Defaid/eidion AdAF | 1,199 | 36 | 33 | 3 | 92 | 1.7% |
| Eidion AdAF | 548 | 6 | 9 | -3 | 150 | -7.5% |
| Pori AdA | 1,841 | 29 | 30 | 0 | 103 | -0.2% |
| Pori iseldir | 1,068 | 25 | 18 | 7 | 72 | 5.3% |
| Cnydau ŷd/cnydau cyffredinol | 443 | 23 | 9 | 14 | 39 | 10.5% |
| Cymysg defaid/gwartheg/cnydau | 275 | 8 | 6 | 2 | 75 | 3.4% |
| **Allbwn (£000)** | | | | | | |
| O dan 75 oed | 2,705 | 8 | 40 | -32 | 500 | -22.5% |
| 75 i 125 | 2,166 | 31 | 44 | -12 | 142 | -5.6% |
| 125 i 250 | 2,337 | 60 | 61 | -1 | 102 | -0.3% |
| 250 i 500 | 1,066 | 72 | 43 | 29 | 60 | 8.2% |
| O leiaf 500 | 850 | 109 | 25 | 84 | 23 | 10.0% |
| **Cyfanswm** | **9,125** | **280** | **212** | **68** | **76** | **3.5%** |

Mae cymhariaeth o asedau a rhwymedigaethau cyfredol yn rhoi sail ar gyfer asesu hyfywedd ffermydd yng Nghymru:

- Mae asedau cyfredol yn cynnwys masnachu mewn da byw, arian parod ac asedau byrdymor eraill;
- Mae rhwymedigaethau cyfredol yn cynnwys gorddrafftiau a benthyciadau byrdymor.

[198]Sef maint fferm yn ôl gwerth ei hallbwn.

Mae Tabl 65 yn crynhoi asedau a rhwymedigaethau cyfredol ffermydd yng Nghymru. Mae'r celloedd pinc yn cynrychioli'r ffermydd hynny lle mae'r rhwymedigaethau cyfredol yn fwy na'r asedau cyfredol – sef llai na 10% o ffermydd. Mae'n bosibl bod ffermydd eraill yn yr un sefyllfa, ond nid yw hyn yn sicr oherwydd yr amrediadau a ddefnyddiwyd i grynhoi'r data. Mae'r celloedd gwyrdd yn cynrychioli'r ffermydd hynny lle mae mwy o asedau na rhwymedigaethau.

*Tabl 65: Asedau a rhwymedigaethau cyfredol ffermydd yng Nghymru (% y ffermydd, 2023-24)*[199]

| **Rhwymedigaethau cyfredol** | **Asedau cyfredol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **<£25k** | **£25k - <£50k** | **£50k - <£100k** | **£100k - <£200k** | **£200k+** | **Cyfanswm** |
| £0 - <£5k | 5 | 11 | 13 | 9 | 3 | 41 |
| £5k - <£25k | 5 | 6 | 8 | 7 | 3 | 28 |
| £25k - <£50k | 2 | 2 | 3 | 3 | 2 | 11 |
| £50k - <£100k | 1 | 2 | 3 | 2 | 1 | 9 |
| £100k+ | X | 2 | 1 | 3 | 4 | 11 |
| **Cyfanswm** | **14** | **22** | **27** | **23** | **14** | **100** |

Mae Tabl 66 yn rhoi dadansoddiad cyfatebol ond y tro hwn ar gyfer cyfanswm yr asedau a'r rhwymedigaethau lle mae cyfanswm yr asedau yn cynrychioli gwerth y busnes (h.y. gwerth tir ac adeiladau'r busnes fferm, da byw bridio, peiriannau a'r hyn y gellir ei hawlio o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol yn ychwanegol at yr asedau cyfredol) ac mae cyfanswm y rhwymedigaethau yn cynrychioli'r hyn sy'n ddyledus gan y busnes, gan gynnwys morgeisi a benthyciadau hirdymor sicredig eraill, yn ogystal â'r rhwymedigaethau cyfredol.

Mae'r celloedd pinc yn cynrychioli'r ffermydd hynny lle mae cyfanswm y rhwymedigaethau yn fwy na chyfanswm yr asedau – sef canran fach iawn o ffermydd. Mae'n bosibl bod ffermydd eraill yn yr un sefyllfa, ond nid yw hyn yn sicr oherwydd yr amrediadau a ddefnyddiwyd i grynhoi'r data. Mae'r celloedd gwyrdd yn cynrychioli'r ffermydd hynny lle mae mwy o asedau na rhwymedigaethau.

*Tabl 66: Cyfanswm asedau a rhwymedigaethau ffermydd yng Nghymru (% y ffermydd, 2023-24)*[200]

| **Cyfanswm y rhwymedigaethau** | **Cyfanswm yr asedau** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **<£200k** | **£200k - <£500k** | **£500k - <£1m** | **£1m - <£2m** | **£2m+** | **Cyfanswm** |
| £0 - <£10k | 1 | 4 | 13 | 17 | 6 | 41 |
| £10k - <£50k | 1 | 1 | 4 | 9 | 4 | 20 |
| £50k - <£200k | X | 2 | 5 | 9 | 6 | 22 |
| £200k - <500k | X | X | 2 | 3 | 3 | 8 |
| £500k+ | X | X | X | 2 | 7 | 8 |
| **Cyfanswm** | **3** | **7** | **23** | **41** | **26** | **100** |

[199] Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Fferm Cymru, yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol o 550 o ffermydd
[200] Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Fferm Cymru, yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol o 550 o ffermydd

## C. DADANSODDIAD GWERTH AM ARIAN O'R HAEN GYFFREDINOL – DULL GWEITHREDU A CHANLYNIADAU

Mae'r Atodiad hwn yn esbonio'r gwahanol ddulliau o wneud gwaith modelu economaidd a ddefnyddwyd i ategu'r dadansoddiad gwerth am arian yn yr Achos Economaidd:

- Asesiad o effeithiau'r Haen Gyffredinol yn seiliedig ar ddadansoddiad gan y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd gan ddefnyddio ei Llwyfan Modelu Integredig[201];
- Dadansoddiad gan gonsortiwm o dan arweiniad y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol

Mae hefyd yn crynhoi'r canlyniadau allweddol.

### *Y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd – Llwyfan Modelu Integredig*

Adnodd i archwilio effeithiau polisi ac ymyriadau rheoli ar hyfywedd ffermydd, defnydd tir a chanlyniadau economaidd yng Nghymru yw'r Llwyfan Modelu Integredig. Mae'n mabwysiadu dull integredig, sy'n cydnabod bod ymyriadau yn cael effeithiau lluosog ac mae effeithiau polisi mewn un sector yn cael effeithiau anuniongyrchol mewn sectorau eraill. Mae'n cynnwys cadwyn o fodelau arbenigol o'r radd flaenaf sy'n cwmpasu amaethyddiaeth, coedwigaeth, penderfyniadau dyrannu defnydd tir, dŵr, aer, priddoedd, bioamrywiaeth, gwasanaethau ecosystem a phennu gwerth.

Cymhwysir y Llwyfan Modelu Integredig at fferm amser llawn (> 1 cyfwerth ag amser llawn (FTE) llafur). Ysgogir newidiadau o ran defnydd tir gan economeg y fferm ac addasrwydd tir. Nid ydynt yn ystyried sgiliau, nac ymatebion diwylliannol ac ymddygiadol.

Y llinell sylfaen economaidd ar gyfer y Llwyfan Modelu Integredig yw 2023. Mae data'r Arolwg o Fusnesau Fferm ar gyfer 2022-23 yn fewnbwn allweddol yn y gwaith modelu ochr yn ochr â chostau a phrisiau nwyddau o Lyfr Poced Rheoli John Nix (2023).

Mae Adroddiad 60 y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd yn cynnwys y tybiaethau llawn sy'n sail i'r gwaith modelu[202]

Mae'r gwaith modelu yn amcangyfrif effeithiau ar gyfer 7,401 o ffermydd amser llawn yng Nghymru. Mae'r gwaith modelu hwn yn cyfrif am:

- 30%[203] o oddeutu 24,608 o ffermydd gweithredol yn yr arolwg amaethyddol ym mis Mehefin,
- 73% o'r holl wartheg (78% o wartheg eidion 69% o wartheg godro) yng Nghymru;
- 83% o'r holl ddefaid yng Nghymru;
- 67% o borfa arw, 61% o dir cnydau a 50% o laswelltir wedi'i wella, y mae 76% ohono yn laswelltir dros dro a 46% o laswelltir parhaol.

Mae Tabl 67 yn dangos nifer y ffermydd yn ôl math o fferm, a chyfanswm yr arwynebedd a gynrychiolir gan bob un o'r mathau hyn o fferm. Ffermydd defaid arbenigol, godro ac AdAF cymysg sy'n cyfrif am y cyfrannau mwyaf o ffermydd yn y model. O ran arwynebedd cyfunol ffermydd, ffermydd defaid arbenigol, AdAF cymysg a godro sy'n cyfrif am yr arwynebeddau mwyaf.

*Tabl 67: Niferoedd ffermydd amser llawn yn y Llwyfan Modelu Integredig a'u harwynebedd yn ôl math o fferm*

| Math o fferm | Cyfanswm Nifer y Ffermydd | Cyfanswm yr arwynebedd (yn cynnwys ardaloedd anamaethyddol[204]) | Maint cyfartalog fferm (hectar) |
|---|---|---|---|
| Cnydau ŷd | 97 | 20,842 | 215 |
| Cnydau Cyffredinol | 52 | 7,109 | 137 |
| Gwartheg godro | 1,260 | 163,485 | 130 |
| Gwartheg a defaid iseldir | 679 | 63,665 | 94 |
| Cymysg[205] | 255 | 33,824 | 133 |
| Arall[206] | 317 | 18,383 | 58 |
| Defaid Arbenigol (AdAF) | 2,257 | 342,804 | 152 |
| Eidion Arbenigol (AdAF) | 184 | 34,007 | 185 |

[201] Y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd – Adroddiad 42, Trosolwg o'r Llwyfan Modelu Integredig
[202] Y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd – Adroddiad-60, Adroddiad Terfynol ar Senario Defnydd Tir y Llwyfan Modelu Integredig
[203] Mae'r diffyg yn cynrychioli ffermydd rhan amser/micro-ffermydd a'r ansicrwydd yn nyraniad y System Adnabod Parseli Tir o ran ffermydd amser llawn. Oherwydd cyfyngiadau data ni fydd modd adnabod pob fferm amser llawn, na'r holl dir sy'n gysylltiedig â ffermydd amser llawn yng Nghymru.
[204]Mae ardaloedd anamaethyddol yn cynnwys creigiau moel, adeiladau, iardiau, twyni tywod, gwastadeddau llaid. Nid yw'r ardaloedd hyn wedi'u cynnwys yng nghyfrifiadau'r gwaith modelu
[205] Cymysg: daliadau lle nad oes yr un categori sengl yn cyfrif am fwy na dwy ran o dair o gyfanswm yr Allbwn Safonol
[206] Arall: Daliadau nad ydynt yn cyd-fynd ag unrhyw un o'r categorïau diffiniedig. Mae'r categori hwn yn cynnwys daliadau nad oes modd eu dosbarthu.

| Math o fferm | Cyfanswm Nifer y Ffermydd | Cyfanswm yr arwynebedd (yn cynnwys ardaloedd anamaethyddol[204]) | Maint cyfartalog fferm (hectar) |
|---|---|---|---|
| Cymysg AdAF | 1,139 | 164,305 | 144 |
| Pori cymysg AdA | 1,161 | 124,854 | 108 |
| **Cyfanswm** | **7,401** | **973,278** | **132** |

## *Senarios modelu: Disgrifio'r senario llinell sylfaen a'i gymharu â'r senario gwrthffeithiol (Busnes fel Arfer)*

### Llinell sylfaen

Cyflwynir y senarios ar ben llinell sylfaen. Mae hyn yn dangos yr amodau y caiff ffermydd y model eu hefelychu i weithredu yn unol â nhw cyn cyflwyno'r senario modelu.

Mae'r llinell sylfaen ar gyfer y senarios a gwmpesir yn y dadansoddiad hwn yn un lle:

- Telir Cynllun y Taliad Sylfaenol[207], heb dapro;
- Nid yw cynlluniau buddsoddi gwledig/paratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'u cynnwys;
- Mae safonau cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da yn gymwys;
- Nid yw Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 mewn grym);
- Nid yw Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gael.

### Senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir

O dan y senario hwn caiff Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei chyflwyno. Caiff senarios ar gyfer dwy gyfradd dalu (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) eu modelu (gweler isod). Yn ogystal â modelu'r broses o gyflwyno'r Haen Gyffredinol, mae'r elfennau canlynol hefyd wedi'u hefelychu o dan y senario:

- Cynllun y Taliad Sylfaenol wedi'i dynnu'n ôl yn llawn;
- Nid yw cynlluniau buddsoddi gwledig/paratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'u cynnwys (dim newid o'r llinell sylfaen);
- Mae safonau cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da yn parhau'n gymwys (dim newid o'r llinell sylfaen);
- Mae Rheoli Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 mewn grym i bob fferm, gan gynnwys costau cydymffurfiaeth;
- Cyflwynir Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (nid yw Gweithredoedd Opsiynol na Chydweithredol yn cael eu modelu).

### Senario gwrthffeithiol (Busnes fel Arfer)

Y senario gwrthffeithiol (Busnes fel Arfer) yw'r un y gellir cymharu effeithiau senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn ei erbyn. Ar gyfer y gwaith modelu hwn, nod y senario gwrthffeithiol yw rhoi gwybodaeth am effeithiau posibl pe na bai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei gyflwyno, a phe bai Cynllun y Taliad Sylfaenol yn parhau. O dan y senario modelu hwn, caiff yr elfennau canlynol eu hefelychu:

- Telir Cynllun y Taliad Sylfaenol, dim tapro;
- Nid yw cynlluniau buddsoddi gwledig/paratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'u cynnwys (dim newid o'r llinell sylfaen);
- Mae safonau cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da yn parhau'n gymwys (dim newid o'r llinell sylfaen);
- Mae Rheoli Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 mewn grym i bob fferm, gan gynnwys costau cydymffurfiaeth;
- Nid yw Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gael.

### Dehongli allbynnau

Mae'r llinell sylfaen a'r ddau senario gyda'i gilydd yn golygu bod modd archwilio effeithiau penodol drwy amrywio cymhariaeth ar draws allbynnau'r model.

Amcangyfrifir effaith efelychiadol y senario gwrthffeithiol (Busnes fel Arfer) o'r newid yn erbyn y llinell sylfaen.

Gellir amcangyfrif effaith efelychiadol senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir drwy gyfrifo'r gwahaniaeth newid rhwng y senario gwrthffeithiol (Busnes fel Arfer) a phob un o senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir lle y bo modd, h.y. y gwahaniaeth rhwng gwerth amcanestynedig senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir a'r senario gwrthffeithiol. Drwy hyn, gellir gwahanu effaith Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy oddi wrth ffactorau eraill yn y gwaith modelu (e.e. yr amgylchedd rheoleiddio). Pan fo'r newid o dan

[207] Heb gynnwys taliadau ar dir comin a symiau ychwanegol i ffermwyr ifanc

y senario gwrthffeithiol yn fach iawn, neu pan gyfrifir newid cronnol, gellir cyflwyno newidiadau ar gyfer senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn erbyn y llinell sylfaen. Esbonnir hyn yn y dadansoddiad os yw hyn yn digwydd.

## *Disgrifiad o senario modelu'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir: Taliadau Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Mae'r adran hon yn amlinellu sut y caiff yr effeithiau amcangyfrifedig sy'n deillio o Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o dan ddau senario talu (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)) eu modelu.

Mae Tabl 68 yn dangos y cyfraddau talu sydd wedi'u cynnwys yn y gwaith modelu, a pha daliadau na chawsant eu modelu. Caiff pob taliad ei fodelu fel cyfradd safonol, h.y. nid ydynt yn amrywio yn ôl y cam a gymerwyd, nac unrhyw ffactorau penodol i'r fferm megis maint. Ni chynhwysir capio na thapro taliadau. Yr unig wahaniaeth rhwng y ddau senario yw gwerth y Taliad Gwerth Cymdeithasol (£115 yr hectar o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a), £70 yr hectar o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b).

Dylid nodi'r pwyntiau canlynol mewn perthynas â thaliadau wrth ddehongli canlyniadau'r senarios hyn ar gyfer Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy:

- Ni fodelwyd taliadau sy'n gymwys ar gyfer tir comin. Nid yw'r Llwyfan Modelu Integredig yn modelu tir comin am nad oes modd ei gysylltu'n ddibynadwy â setiau data eraill ffermydd (Arolwg mis Mehefin a'r System Adnabod Parseli Tir) a ddefnyddiwyd yn y model;
- Ni fodelwyd y Cyfnod Pontio lle y bydd ffermydd yn cael yr opsiwn rhwng 2026 a 2029 i gael naill ai taliadau is o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol neu daliadau o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Ni fodelwyd Haenau Opsiynol na Chydweithredol y Cynllun, ac felly ni chynrychiolir unrhyw daliad o Weithredoedd y gellir ymgymryd â nhw o dan yr Haenau hyn o'r Cynllun.

Felly, dylid tybio mai amcangyfrif o effeithiau posibl yr Haen Gyffredinol yw'r senarios:

- Unwaith y bydd Cynllun y Taliad Sylfaenol wedi cael ei dynnu'n ôl yn gyfan gwbl;
- Mewn senario lle mae ffermydd yn gallu dewis ymuno â Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy neu weithredu y tu allan i bob un o gynlluniau Llywodraeth Cymru;
- O daliadau'r Cynllun a Gweithredoedd ar dir o fewn giat y fferm yn unig. Ar gyfer ffermydd â hawliau cyffredin, gall taliadau y tu hwnt i giat y fferm fod yn ffynhonnell sylweddol o dâl ychwanegol y tu hwnt i'r taliadau a fodelwyd yn y Llwyfan Modelu Integredig.

Ni ddylid dehongli'r allbynnau fel rhai sy'n cynrychioli effeithiau posibl sy'n codi yn 2026, nac mewn unrhyw flwyddyn pan fydd ffermydd yn gallu dewis Cynllun y Taliad Sylfaenol yn lle ymuno â Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

*Tabl 68: Cyfraddau talu Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer modelu*

| Taliad | Disgrifiad | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) (£/hectar) | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) (£/hectar) |
|---|---|---|---|
| **Cynnal coetiroedd presennol** | Gwerth y taliad am bob hectar o goetir presennol a reolir. | 62 | 62 |
| **Cynnal cynefinoedd (ffermdir)** | Gwerth y taliad am bob hectar o gynefin lled-naturiol a reolir, a/neu bob hectar ychwanegol o gynefin dros dro hyd at y 10% gofynnol, unwaith y caiff ei greu. | 69 | 69 |
| **Taliad Fferm Gyfan** | Gwerth y taliad am bob hectar sy'n cwmpasu'r holl Weithredoedd Cyffredinol eraill ar gyfanswm yr arwynebedd cymwys. | 31 | 31 |
| **Taliad Gwerth Cymdeithasol (TGC)** | Gwneir y taliad hwn fesul hectar yn ychwanegol at unrhyw gostau yr eir iddynt ac incwm a hepgorwyd. Wedi'i gymhwyso i'r fferm gyfan. | 115 | 70 |
| **Tapro Cynllun y Taliad Sylfaenol** | | Heb ei fodelu | Heb ei fodelu |

## *Disgrifiad o senario modelu'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir: cynrychioliad o'r Gweithredoedd Cyffredinol*

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y cafodd y Gweithredoedd Cyffredinol eu hymgorffori yn senarios modelu'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir. Mae'r tybiaethau yn seiliedig ar fersiwn Tachwedd 2024 o'r Cynllun[208].

Mae'r cynrychioliad o Weithredoedd y Cynllun yn y gwaith modelu yn deillio o broses iteraidd rhwng swyddogion a thîm modelu'r Llwyfan Modelu Integredig er mwyn sicrhau bod y cynrychioliad o'r Gweithredoedd yn adlewyrchu bwriad y polisi yn

[208] Llywodraeth Cymru, Cynllun Ffermio Cynaliadwy: amlinelliad o'r cynllun arfaethedig, 2024

briodol. Cafodd yr holl dybiaethau eu dogfennu a'u cymeradwyo gan Uwch-swyddog Cyfrifol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn unol ag arweiniad y Llyfr AQUA[209].

Mae Tabl 69 yn rhoi trosolwg o'r costau allweddol a fodelwyd ar gyfer pob Gweithred Gyffredinol (UA) a sut mae'r weithred yn dylanwadu ar effeithiau a fodelwyd. Caiff costau eu cymhwyso at ffermydd y model er mwyn deall, ochr yn ochr â'r cyfraddau talu efelychiadol, a yw o fantais economaidd i ymuno â'r Cynllun ond maent hefyd yn dylanwadu ar optimeiddio economaidd strwythurau ffermydd y model (e.e. defnydd tir, stocio).

Mae Gweithredoedd Cyffredinol yn amrywio o ran pa agweddau ar y model y maent yn dylanwadu arnynt. Mae Gweithredoedd lle yr eir i gost amser yn bennaf, e.e. meincnodi, yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm ffermydd y model ond nid ydynt yn arwain yn uniongyrchol at newidiadau o ran defnydd tir, stocio, na mewnbynnau maethynnau oni bai bod y busnes yn ymgymryd â gweithredoedd pellach y tu hwnt i'r Weithred Gyffredinol. Felly, nid yw'r Gweithredoedd hyn, a nodir â seren yn Nhabl 4, yn cael effaith uniongyrchol ar effeithiau amgylcheddol a fodelwyd.

Mae UA9 cynnal coetiroedd wedi'i modelu fel un sy'n niwtral o ran cost ac effaith oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â'r ffordd y rheolir y llinell sylfaen bresennol a chyflwr coetiroedd ffermydd, ac amrywioldeb y Gweithredoedd y gellir ymgymryd â nhw ar y safle o dan UA9 o ganlyniad i hynny.

*Tabl 69: Tybiaethau Modelu'r Haen Gyffredinol*

| | Gweithred | Tybiaethau modelu costau | Cynrychioliad mewn effeithiau |
|---|---|---|---|
| -* | Adolygiad Llinell Sylfaen o Gynefin | A ystyriwyd fel rhan o'r broses ymgeisio. Ni chynrychiolir unrhyw gost yn y gwaith modelu | - |
| -* | Cyfrifiannell carbon | 1 diwrnod y flwyddyn o amser ffermwr | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |
| UA1* | Iechyd Pridd | Fesul cae: 18 munud ynghyd â chost ddadansoddol profion<br>Mae'n cynnwys tir a gafodd fewnbynnau yn flaenorol, neu a all gael mewnbynnau | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |
| UA1* | Cynllun/cofnodion rheoli maethynnau | 2 ddiwrnod y flwyddyn o amser ffermwr | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |
| UA1* | Adroddiadau rheoli maethynnau | 1 diwrnod y flwyddyn o amser ffermwr | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |
| UA2* | Rheoli Plâu Integredig | 2 ddiwrnod y flwyddyn o amser ffermwr | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |
| UA3* | Meincnodi | 1 diwrnod y flwyddyn o amser ffermwr | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |
| UA4* | Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) | O leiaf 7 awr y flwyddyn. 6 awr ynghyd â hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gorfodol | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |
| UA5 | Cynnal Cynefinoedd | Lleihau nifer y da byw 1 famog (neu'r gwartheg eidion union gyfatebol) fesul hectar ar borfa arw os yw stocio llinell sylfaen yn uwch na'r trothwy yn y canllaw ar gynefinoedd. Tybiaeth symleiddio yw hon, er mwyn adlewyrchu'r ffaith, er bod tir rhai cynefinoedd yn cynnwys mwy nag 1 famog fesul hectar dros lefelau'r canllaw, y bydd rhai da byw yn debygol o gael eu symud i rannau eraill o'r fferm yn hytrach na'u gwaredu ond nid yw hwn yn ymateb a fodelir.<br>Cynnal pyllau: cost/m2/y flwyddyn ni waeth beth fo maint y pwll | Mae costau yr eir iddynt ac incwm a hepgorir oherwydd newidiadau mewn stocio yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm. |
| UA6 | Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella | Tir nas defnyddir at ddibenion cynhyrchu ar dir âr a glaswellt dwys er mwyn cyflawni Rheol 10% o gynefin y Cynllun. Modelwyd fel:<br>Ymylon glaswelltir garw dros dro ar dir âr | Mae newid defnydd tir yn dylanwadu ar stocio a mewnbynnau maethynnau ac yn cael effeithiau ymhellach i lawr ar ganlyniadau amgylcheddol.<br>Mae costau yr eir iddynt ac incwm a hepgorir oherwydd newidiadau mewn stocio yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm. |

[209] Trysorlys EF, *The Aqua Book: guidance on producing quality analysis for government*, 2015

| | Gweithred | Tybiaethau modelu costau | Cynrychioliad mewn effeithiau |
|---|---|---|---|
| | | Gwyndynnydd Cymysg ar laswelltir wedi'i wella (cylchdro a pharhaol) | |
| UA7* | Cynllun Rheoli Safle Dynodedig | 1 diwrnod y flwyddyn o amser ffermwr | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm<br>Cynnal safleoedd sydd wedi'u cynnwys o dan UA5<br>Mae cyflawni gweithred benodol o dan y cynllun yn weithred Haen Opsiynol ac nid yw wedi'i gynnwys yma. |
| UA8 | Rheoli gwrychoedd | Plannu coed newydd mewn gwrychoedd nad ydynt yn cael eu rheoli ar y llinell sylfaen<br>Tybir bod gwrychoedd sy'n cael eu rheoli ar y llinell sylfaen yn cynnwys coed ifanc y gellir gadael iddynt dyfu. | Mae newid o ran cyflwr gwrychoedd, a choed newydd mewn gwrychoedd, yn cael effeithiau ymhellach i lawr ar ganlyniadau amgylcheddol<br>Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |
| UA9 | Cynnal coetiroedd | Niwtral o ran cost oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â rheoli ar y llinell sylfaen a chyflwr ac amrywioldeb y Gweithredoedd posibl y gellid ymgymryd â nhw | Dim dylanwad ar Incwm Busnes Fferm |
| UA10* | Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Gwrychoedd | 1 diwrnod y flwyddyn o amser ffermwr | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |
| UA11* | Yr Amgylchedd Hanesyddol | 1.5 ddiwrnod y flwyddyn o amser ffermwr | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |
| UA12* | Iechyd a Lles Anifeiliaid | 0.5 diwrnod y flwyddyn o amser ffermwr i gwblhau'r ymarfer Sgorio symudedd a Chyflwr Corff | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |
| | Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid | 1 diwrnod y flwyddyn o amser ffermwr, 0.5 diwrnod y flwyddyn o amser milfeddyg i gwblhau'r cylch gwella iechyd anifeiliaid | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |
| | Bioddiogelwch | 0.5 diwrnod y flwyddyn o amser ffermwr, 0.5 diwrnod y flwyddyn o amser milfeddyg i gwblhau'r Asesiad o Fioddiogelwch Anifeiliaid | Mae'r costau yr eir iddynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm |

## *Disgrifiad o senario modelu'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir: ymatebion ffermydd y model*

Mae pob un o'r 7,401 o ffermydd amser llawn y model yn cael dau 'ddewis' o dan senario modelu'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir:

- Ymuno â Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyfnewid am daliad, a rhoi'r holl Weithredoedd Cyffredinol cymwys ar waith;
- Peidio ag ymuno â'r Haen Gyffredinol, a gweithredu heb unrhyw gyllid gan y llywodraeth.

Caiff ffermydd eu modelu fel rhai sy'n ymuno â'r Haen Gyffredinol os efelychir y bydd y busnes yn cynhyrchu £1 yn fwy o elw yn y Cynllun nag y byddent pe baent yn gweithredu heb unrhyw gyllid. Nid ystyrir ysgogwyr ymddygiadol posibl, gan fod y rhain yn rhy amrywiol i gyfrif amdanynt gyda digon o hyder yn y gwaith modelu.

Ni all ffermydd y model bontio i fath mwy proffidiol o fferm o dan y senarios. Felly, dylai canlyniadau ac effeithiau gael eu hystyried fel rhai a all godi dros y tymor byrrach, yn hytrach nag fel rhai sy'n arwydd o unrhyw ailstrwythuro yn y diwydiant a allai ddigwydd dros gyfnod hwy.

## *Niferoedd efelychiadol a fydd yn ymuno â'r Cynllun*

Mae'r adran hon yn amlinellu'r niferoedd efelychiadol o dan bob un o senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, a'r gwahaniaethau o ran niferoedd rhwng y senarios, o ran:

- Nifer y ffermydd;
- Arwynebedd y ffermydd;
- Arwynebedd cynefinoedd;
- Hyd gwrychoedd;
- Arwynebedd coetiroedd;
- Niferoedd da byw.

### Ffermydd

Efelychir y bydd 99% a 97% o ffermydd y model yn ymuno â Haen Gyffredinol y Cynllun (yn hytrach na chael dim cyllid gan Lywodraeth Cymru) o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a (b) yn y drefn honno (Tabl 70). Gellir priodoli'r niferoedd mawr sy'n ymuno i golli Cynllun y Taliad Sylfaenol. Mae'r niferoedd a fodelwyd yn uwch o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) oherwydd y Taliad Gwerth Cymdeithasol uwch.

Yn ôl senario a math o fferm, efelychir mai ymhlith ffermydd cymysg AdAF (99.6%) y bydd y niferoedd mwyaf o dan senario'r taliad uwch ac mai ymhlith ffermydd Eidion Arbenigol (99.5%) y bydd y niferoedd mwyaf o dan senario'r taliad is. Mae'r niferoedd efelychiadol o dan y ddau senario ar eu hisaf ymhlith math o fferm Arall (89.0% o dan y gyfradd uwch a 78.6% o dan y gyfradd is).

*Tabl 70: Niferoedd efelychiadol yn ôl math o fferm*

| Math o fferm | Nifer y ffermydd (cyfanswm) | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) % y ffermydd sy'n mabwysiadu | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) % y ffermydd sy'n mabwysiadu |
|---|---|---|---|
| Cnydau ŷd | 97 | 97.9 | 94.9 |
| Cnydau Cyffredinol | 52 | 98.1 | 94.2 |
| Gwartheg godro | 1,260 | 99.2 | 95.0 |
| Gwartheg a defaid iseldir | 679 | 99.1 | 96.2 |
| Cymysg | 255 | 97.7 | 97.7 |
| Arall | 317 | 89.0 | 78.6 |
| Defaid Arbenigol (AdAF) | 2,257 | 98.8 | 98.2 |
| Eidion Arbenigol (AdAF) | 184 | 99.5 | 99.5 |
| Cymysg AdAF | 1,139 | 99.6 | 99.3 |
| Pori cymysg AdA | 1,161 | 99.2 | 98.1 |
| **Cyfanswm** | **7,401** | **98.6** | **96.7** |

### *Arwynebedd y ffermydd*

O ystyried yr efelychir y bydd y rhan fwyaf o ffermydd amser llawn yn ymuno â'r Haen Gyffredinol o dan y ddau senario talu, mae'r niferoedd yn ôl cyfanswm arwynebedd yn uchel.

O dan y ddau senario, efelychir y bydd dros 99% o gyfanswm arwynebedd y model (gan gynnwys ardaloedd anamaethyddol) yn ymuno â'r Haen Gyffredinol. O dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a), efelychir y bydd 99.7% o'r arwynebedd a fodelwyd o fewn y Cynllun, o gymharu â 99.1% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) (gweler Tabl 71).

Ffermydd Defaid Arbenigol (AdAF), ffermydd pori cymysg (AdAF) a ffermydd Godro sydd â'r arwynebedd mwyaf yn yr Haen Gyffredinol, sy'n adlewyrchu eu niferoedd mawr (31%, 15% a 17% o gyfanswm ffermydd y model yn y drefn honno) a'u harwynebedd mawr (35%, 17% a 17% o gyfanswm arwynebedd ffermydd y model yn y drefn honno).

*Tabl 71: Niferoedd efelychiadol yn ôl arwynebedd fferm*

| Cyfanswm Arwynebedd Ffermydd (hectar) | Cyfanswm arwynebedd ffermydd llinell sylfaen (hectar) (gan gynnwys ardaloedd anamaethyddol) | Cyfanswm yr arwynebedd o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | % arwynebedd ffermydd o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Cyfanswm yr arwynebedd o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | % arwynebedd ffermydd o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cnydau ŷd | 20,842 | 20,692 | 99.3 | 20,524 | 98.5 |
| Cnydau Cyffredinol | 7,109 | 6,947 | 97.7 | 6,916 | 97.3 |
| Gwartheg godro | 163,485 | 163,072 | 99.8 | 159,898 | 97.8 |
| Gwartheg a defaid iseldir | 63,665 | 63,355 | 99.5 | 62,856 | 98.7 |
| Cymysg | 33,824 | 33,356 | 98.6 | 33,356 | 98.6 |
| Arall | 18,383 | 18,097 | 98.4 | 17,671 | 96.1 |
| Defaid Arbenigol (AdAF) | 342,804 | 342,024 | 99.8 | 341,577 | 99.6 |
| Eidion Arbenigol (AdAF) | 34,007 | 33,997 | 100.0 | 33,997 | 100.0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymysg AdAF | 164,305 | 164,112 | 99.9 | 163,744 | 99.7 |
| Pori cymysg AdA | 124,854 | 124,612 | 99.8 | 124,159 | 99.4 |
| **Cyfanswm Arwynebedd Ffermydd (hectar)** | **973,278** | **970,264** | **99.7** | **964,698** | **99.1** |

### *Cynefin sy'n ymuno â'r Haen Gyffredinol:UA5 Cynnal Cynefinoedd*

O dan UA5 Cynnal Cynefinoedd, mae pob darn o dir cynefin sy'n ymuno â'r Haen Gyffredinol yn dod o dan y Weithred hon. Ar gyfer tir cynefin wedi'i led-wella a glaswelltir garw, caiff hyn ei fodelu fel lleihau stoc 1 famog (neu wartheg eidion cyfatebol) fesul hectar lle y caiff y cynefin ei fodelu fel un lle yr eir y tu hwnt i derfynau stocio'r canllaw. Caiff da byw sy'n cael eu symud o dir cynefin eu gwaredu o'r busnes fferm yn gyfan gwbl, yn hytrach na'u dadleoli i rywle arall ar y fferm. Yn ymarferol, gall ffermydd ddadleoli stoc i rannau eraill o'r fferm, ond nid yw hwn yn ymateb a gofnodir yn y gwaith modelu. Felly, dewiswyd 1 famog fesul hectar fel tybiaeth symleiddio er mwyn adlewyrchu'r ffaith, pan fydd ardal o gynefin wedi'i stocio uwchlaw lefel y canllaw, y caiff rhai da byw eu dadleoli i rywle arall yn hytrach na'u gwaredu'n gyfan gwbl ond hefyd y gallai fod effeithiau economaidd pan waredir da byw.

Yn unol a'r niferoedd efelychiadol mawr o dan y ddau senario, mae arwynebeddau cynefinoedd presennol yr efelychir y byddant o dan UA5 hefyd yn uchel (gweler Tabl 72). O dan y ddau senario, daw'r rhan fwyaf o holl dir cynefin y model o dan yr Haen Gyffredinol (99.8% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a), 99.7% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)).

*Tabl 72: UA5 Cynnal Cynefinoedd: arwynebedd cynefin yr efelychir y bydd yn ymuno â'r Haen Gyffredinol*

| UA5 cynefin | Cyfanswm arwynebedd llinell sylfaen (hectar) | Cyfanswm o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) (hectar) | Cyfanswm o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) (hectar) | Canran yr arwynebedd llinell sylfaen o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Canran yr arwynebedd llinell sylfaen o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) |
|---|---|---|---|---|---|
| Pyllau | 84 | 66 | 58 | 78.6 | 69.1 |
| Glaswelltir wedi'i led-wella | 127,123 | 126,976 | 126,881 | 99.9 | 99.8 |
| Porfa arw | 157,629 | 157,516 | 157,500 | 99.9 | 99.9 |
| Tir cynefin anamaethyddol [210] | 2,607 | 2,539 | 2,536 | 97.4 | 97.3 |
| SoDdGA nad yw'n goetir ar dir âr, glaswelltir wedi'i wella a thir anamaethyddol | 10,202 | 10,129 | 10,112 | 99.3 | 99.1 |
| Coetir llydanddail >0.1 hectar | 54,744 | 54,515 | 54,262 | 99.6 | 99.1 |
| **Cyfanswm (cynefin presennol)** | **352,389** | **351,741** | **351,349** | **99.8** | **99.7** |

### *Gwrychoedd sy'n ymuno â'r Haen Gyffredinol:UA8 Rheoli Gwrychoedd*

Gwahaniaethir rhwng gwrychoedd yn y llinell sylfaen yn ôl p'un a ydynt wedi cael eu rheoli'n flaenorol neu wedi'u creu o dan un o gynlluniau amaeth-amgylchedd Llywodraeth Cymru (Cynllun Amaeth-amgylchedd, e.e. Glastir). Defnyddir y gwahaniaeth hwn yn y gwaith modelu i lunio tybiaethau ynglŷn â chyflwr gwrychoedd a phresenoldeb coed ifanc y gellir gadael iddynt dyfu yn unol â gofynion y Weithred (yr adran ar Ganlyniadau).

Nid yw'r rhan fwyaf o wrychoedd (97.5%) wedi'u cofnodi'n rhai sydd wedi bod yn rhan o gynlluniau blaenorol ac felly tybir eu bod yn gulach, yn fyrrach a heb goed ifanc ar adeg ymuno â'r Cynllun (gweler Tabl 73). Tybiaeth symleiddio at ddibenion modelu yw hon.

Mae lefelau mabwysiadu uchel o dan y ddau senario talu yn golygu y bydd y rhan fwyaf o arwynebedd gwrychoedd llinell sylfaen yn dod o dan UA8 (99.6% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a 98.8% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)).

*Tabl 73: UA8 Rheoli Gwrychoedd: Hyd gwrychoedd yr efelychir y byddant yn ymuno â'r Haen Gyffredinol*

| Hyd y gwrych (km) | Hyd Llinell Sylfaen | Hyd o fewn Haen Gyffredinol Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Hyd o fewn Haen Gyffredinol Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | % Hyd llinell sylfaen Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | % Hyd llinell sylfaen Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) |
|---|---|---|---|---|---|

[210] Dosbarthiadau Map Gorchudd Tir o graig uwch-forlannol, gwaddod uwch-forlannol (e.e. twyni tywod, a morfa)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwrych mewn Cynllun Amaeth-amgylchedd ar y Llinell Sylfaen | 565 | 564 | 560 | 99.8 | 99.2 |
| Gwrych nad yw mewn Cynllun Amaeth-amgylchedd ar y Llinell Sylfaen | 22,086 | 22,007 | 21,815 | 99.6 | 98.8 |
| **Cyfanswm y gwrychoedd (km)** | **22,651** | **22,571** | **22,375** | **99.6** | **98.8** |

### Coetir sy'n ymuno â'r Haen Gyffredinol:UA9 Cynnal Coetiroedd

Mae 82,857 hectar o goetir ar ffermydd yn y llinell sylfaen (gweler Tabl 74). Mae hyn yn cyfrif am 8.5% o gyfanswm arwynebedd y model. Bydd y rhan fwyaf o goetir ar ffermydd (>0.1 hectar, heb gynnwys coetir conwydd dros 30 hectar[211]) yn cael ei gynnal o dan y ddau senario talu (99.7% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a 99.2% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)).

*Tabl 74: UA9 Cynnal Coetiroedd: arwynebedd coetir yr efelychir y bydd yn ymuno â'r Haen Gyffredinol*

| | Arwynebedd llinell sylfaen | Arwynebedd o fewn Haen Gyffredinol Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Arwynebedd o fewn Haen Gyffredinol Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | % arwynebedd llinell sylfaen Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | % arwynebedd llinell sylfaen Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) |
|---|---|---|---|---|---|
| Arwynebedd coetir (hectar) | 82,857 | 82,573 | 82,171 | 99.7 | 99.2 |

### Da byw yr efelychir y byddant yn ymuno â'r Haen Gyffredinol

Yn unol â'r niferoedd efelychiadol mawr o ran nifer y ffermydd ac arwynebedd o dan bob senario talu, mae cyfran yr Unedau Da Byw Pori llinell sylfaen yr efelychir y byddant yn dod o dan yr Haen Gyffredinol hefyd yn uchel gyda gwahaniaeth ymylol rhwng y ddau (gweler Tabl 75). Nid yw Tabl 75 yn ystyried unrhyw newidiadau mewn niferoedd stoc absoliwt; caiff y rhain eu harchwilio yn yr adran ar Ganlyniadau.

*Tabl 75: Cyfran y da byw llinell sylfaen yr efelychir y byddant yn ymuno â'r Haen Gyffredinol*

| Unedau Da Byw Pori | Cyfanswm llinell sylfaen | Da byw yn Haen Gyffredinol Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Da byw yn Haen Gyffredinol Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) |
|---|---|---|---|
| Gwartheg eidion | 261,637 | 252,449 | 251,315 |
| Defaid | 411,249 | 384,765 | 383,911 |
| Gwartheg godro | 293,860 | 254,871 | 249,672 |
| Cyfanswm | 966,746 | 892,084 | 884,898 |
| **Canran (%)** | **100** | **92.3** | **91.5** |

## *Taliadau efelychiadol Llywodraeth Cymru i ffermydd*

Mae'r adran hon yn amlinellu gwariant efelychiadol Llywodraeth Cymru o dan y senario gwrthffeithiol a senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir o ran:

- Gwariant cyfanredol o dan bob senario
- Gwariant cyfanredol yn ôl math o fferm
- Taliad cyfartalog yn ôl math o fferm

Mae'r Llwyfan Modelu Integredig ond yn modelu ffermydd amser llawn yn unig ac nid yw'n cynnwys taliadau na gweithredoedd ar dir comin. Felly, mae gwariant efelychiadol yn llai nag y byddai pe bai'r boblogaeth lawn o ffermydd, a'r tir cysylltiedig, yn cael eu cynnwys ac ni ddylid ystyried mai'r swm hwn yw gost lawn yr Haen Gyffredinol i Lywodraeth Cymru.

### Gwariant Cyfanredol

O dan y senario gwrthffeithiol, efelychir y caiff cyfanswm o £143.5m o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol ei dalu i ffermydd model (gweler Tabl 76). O dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, gwaredir ar Gynllun y Taliad Sylfaenol ac mae ffermydd model yn

[211] Tybir bod coetir conwydd dros 30 hectar yn cael ei reoli'n fasnachol.

ymuno â Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy os yw'n fwy proffidiol gwneud hynny na gweithredu heb gyllid y llywodraeth.

Mae cyfanswm gwariant efelychiadol Llywodraeth Cymru o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) 18% yn uwch nag ydyw o dan y senario gwrthffeithiol, a 13% yn is o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b).

*Tabl 76: Cyfanswm taliadau efelychiadol Llywodraeth Cymru i fferm amser llawn, yn ôl math o daliad*

| Cyfanswm y taliadau efelychiadol i fferm amser llawn (£m) | Gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | % cyfanswm taliadau Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | % cyfanswm taliadau Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun y Taliad Sylfaenol | 143.5 | 0 | 0 | - | - |
| Taliad Fferm Gyfan | 0 | 30.0 | 29.9 | 17.8 | 24.0 |
| Cynnal cynefinoedd | 0 | 22.9 | 22.8 | 13.5 | 18.3 |
| Cynnal coetiroedd | 0 | 4.5 | 4.5 | 2.7 | 3.6 |
| Taliad Gwerth Cymdeithasol | 0 | 111.5 | 67.5 | 66.0 | 54.1 |
| **Cyfanswm** | **143.5** | **168.9** | **124.6** | **100** | **100** |

Noder. Nid yw taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol a fodelwyd yn cynnwys tir comin na'r swm ychwanegol i ffermwyr ifanc

Rhwng y senarios talu, mae cyfanswm taliadau efelychiadol Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i ffermydd amser llawn 26% yn uwch o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) (£169 miliwn) na Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) (£125 miliwn).

Gellir priodoli'r gwahaniaeth yng nghyfanswm y taliadau efelychiadol rhwng dau senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn bennaf i'r Taliad Gwerth Cymdeithasol (TGC) uwch ond hefyd y 140 o ffermydd a'r 5,556 hectar ychwanegol yr efelychir y byddant yn ymuno â'r Haen Gyffredinol o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a).

O dan y ddau senario, y TGC sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o daliadau. O dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a), mae'r TGC yn cyfrif am 66% o'r taliadau, mae'r taliad fferm gyfan yn cyfrif am 18%, mae cynnal cynefinoedd yn cyfrif am 14% ac mae cynnal coetiroedd yn cyfrif am 3%. O dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b), mae'r TGC yn cyfrif am 54% o'r taliadau, mae'r taliad fferm gyfan yn cyfrif am 24%, mae cynnal cynefinoedd yn cyfrif am 18%, ac mae cynnal coetiroedd yn cyfrif am 4%.

Yn gyffredinol, mae'r gwahaniaethau mewn gwariant efelychiadol ar gyfer y mathau eraill o daliad yn fach am mai'r unig gyfradd dalu sy'n amrywio o dan y senarios yw'r TGC, ac mae'r niferoedd uwch o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) yn ymylol (mae 5,556 hectar o dir sy'n cael ei reoli yn cyfrif am <1% o arwynebedd llawn y model).

O dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b), mae'r taliad fferm gyfan yn cyfrif am gyfran fwy o gyfanswm y taliadau efelychiadol (24%), oherwydd y cyfraniad is o'r TGC a'r ffaith bod y taliad hwn yn cael ei dalu ar gyfer y fferm gyfan, ond mae elfennau o daliadau eraill ond yn cael eu talu ar ardaloedd penodol yn unig (e.e. coetir).

### *Gwariant yn ôl Math o Fferm*

Yn ôl math o fferm, gwelir y gwariant efelychiadol uchaf o dan y senario gwrthffeithiol a senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir ymhlith Defaid Arbenigol (AdAF), ffermydd pori cymysg AdA a ffermydd Godro (gweler Tabl 77). Mae hyn yn adlewyrchu niferoedd mawr y ffermydd hyn a'u harwynebedd, a'r cyfraddau ymuno uchel.

Mae cyfanswm y taliadau efelychiadol o dan y ddau senario talu yn dangos dosbarthiad tebyg ymhlith mathau o fferm i wariant Cynllun y Taliad Sylfaenol yn y senario gwrthffeithiol.

O dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a), mae pob math o fferm yn cael taliadau cyfanredol efelychiadol uwch nag y byddent yn eu cael o dan y senario gwrthffeithiol heblaw ffermydd Gwartheg a Defaid Iseldir, sy'n cael £0.37 miliwn yn llai fel cyfanswm taliad.

O dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b), mae pob math o fferm yn cael taliadau cyfanredol efelychiadol is nag y byddent yn eu cael o dan y senario gwrthffeithiol heblaw ffermydd Defaid Arbenigol sy'n cael ychydig yn fwy yn gyfanredol (£0.02 miliwn).


Ar gyfer pob math o fferm, ac o dan y ddau senario, y TGC sy'n cyfrif am y taliad mwyaf (gweler Ffigur 20), sy'n adlewyrchu'r ffaith bod gwerth y taliad hwn yn uwch nag elfennau eraill o daliadau o dan y ddau senario a'i fod yn cael ei dalu dros arwynebedd cymwys llawn y fferm.

*Tabl 77: Gwariant cyfanredol efelychiadol yn ôl math o fferm*

| Taliadau efelychiadol cyfanredol (£m) | Cynllun y Taliad Sylfaenol | Cyfanswm taliad Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Cyfanswm taliad Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) |
|---|---|---|---|
| Cnydau ŷd | 2.6 | 3.4 | 2.4 |
| Cnydau Cyffredinol | 1.0 | 1.1 | 0.8 |
| Gwartheg godro | 25.0 | 26.0 | 18.3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwartheg a defaid iseldir | 10.4 | 10.0 | 7.1 |
| Cymysg | 5.0 | 5.5 | 4.0 |
| Arall | 2.9 | 3.0 | 2.1 |
| Defaid Arbenigol (AdAF) | 48.8 | 64.3 | 48.9 |
| Eidion Arbenigol (AdAF) | 4.7 | 6.0 | 4.5 |
| Cymysg AdAF | 23.6 | 29.3 | 21.9 |
| Pori cymysg AdA | 19.5 | 20.4 | 14.8 |
| **Cyfanswm** | **143.5** | **168.9** | **124.6** |

*Ffigur 20:Cyfanswm y taliadau yn ôl math o fferm*




## Taliadau cyfartalog

Nid yw taliadau efelychiadol cyfartalog yn cynnwys unrhyw daliadau ar dir comin ac, yn achos Cynllun y Taliad Sylfaenol, nid ydynt yn cynnwys y swm ychwanegol i ffermwyr ifanc ychwaith.

O dan y ddau senario talu, ffermydd cnydau ŷd sy'n cael y taliad Cyffredinol cyfartalog mwyaf (gweler Tabl 78). Gellir priodoli hyn i'r nifer cymharol fach o'r ffermydd hyn yn y model (97) ond maint cyfartalog cymharol fawr y ffermydd (maint fferm cyfartalog o 215 hectar o gymharu â 131 hectar ar gyfer pob math o fferm arall yn y model) sy'n golygu taliadau gwerth cymdeithasol a fferm gyfan mwy. Ffermydd yn y categori Arall sy'n cael y taliad cyfartalog isaf o dan y ddau senario, sy'n adlewyrchu maint cyfartalog llai y ffermydd hyn o gymharu â maint cyfartalog y boblogaeth lawn yn y model (58 hectar o gymharu â 132 hectar).

Rhwng senarios, ymhlith ffermydd cnydau ŷd y gwelir y newid mwyaf mewn taliad cyfartalog rhwng y TGC uchaf ac isaf. Ymhlith ffermydd yn y categori Arall y gwelir y lleihad isaf rhwng y ddau senario talu.

O gymharu â Chynllun y Taliad Sylfaenol, mae pob math o fferm yn cael taliad cyfartalog uwch o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) nag o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol, sy'n adlewyrchu'r gwariant efelychiadol uwch gan Lywodraeth Cymru. O dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b), mae taliadau cyfartalog yn is nag ydynt o dan y senario gwrthffeithiol ar gyfer pob math o fferm heblaw ffermydd Defaid Arbenigol (AdAF) sy'n cael taliad cyfartalog ychydig yn uwch nag o dan y senario gwrthffeithiol.

*Tabl 78: Taliadau efelychiadol cyfartalog yn ôl math o fferm*

| **Taliad Cyffredinol Cyfartalog (£)** | **Cynllun y Taliad Sylfaenol[212]** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a)** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)** | **Gwahaniaeth rhwng Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) (£)** |
|---|---|---|---|---|
| Cnydau ŷd | 27,177 | 35,239 | 26,077 | -9,161 |
| Cnydau Cyffredinol | 19,074 | 21,660 | 16,088 | -5,572 |
| Gwartheg godro | 19,869 | 20,786 | 15,290 | -5,496 |
| Gwartheg a defaid iseldir | 15,290 | 14,878 | 10,888 | -3,990 |

[212] Nid yw taliadau efelychiadol Cynllun y Taliad Sylfaenol yn cynnwys taliadau tir comin, na'r swm ychwanegol i ffermwyr ifanc.

| Taliad Cyffredinol Cyfartalog (£) | Cynllun y Taliad Sylfaenol[212] | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | Gwahaniaeth rhwng Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) (£) |
|---|---|---|---|---|
| Cymysg | 19,684 | 21,891 | 15,869 | -6,022 |
| Arall | 9,194 | 10,484 | 8,415 | -2,069 |
| Defaid Arbenigol (AdAF) | 21,636 | 28,841 | 22,045 | -6,796 |
| Eidion Arbenigol (AdAF) | 25,468 | 32,944 | 24,594 | -8,350 |
| Cymysg AdAF | 20,688 | 25,806 | 19,317 | -6,490 |
| Pori cymysg AdA | 16,751 | 17,737 | 12,980 | -4,756 |
| Cyfanswm | 19,483 | 23,027 | 17,156 | -5,870 |

## *Canlyniadau*

Mae canlyniadau'r model yn cynrychioli'r newidiadau o ran defnydd tir, stocio a maethynnau sy'n ysgogi effeithiau amgylcheddol ymhellach i lawr.

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno canlyniadau o ddau senario talu'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir o'u cymharu â chanlyniadau'r senario gwrthffeithiol.

Cyfrifir newidiadau oherwydd y senario gwrthffeithiol yn erbyn y llinell sylfaen.

Cyfrifir newidiadau oherwydd senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn erbyn y newid gwrthffeithiol. Felly, mae canlyniadau ar gyfer Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a (b) yn dangos y newid ychwanegol efelychiadol mewn canlyniadau o'u cymharu â'r rhai a welir o dan y senario gwrthffeithiol. Pan fydd y newid o dan y senario gwrthffeithiol yn ddibwys, cyfrifir y newid o dan y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn erbyn y llinell sylfaen er mwyn sicrhau bod newidiadau canrannol yn adlewyrchu'r newid absoliwt a efelychir yn fwy cywir.

Cynrychiolir canlyniadau ar gyfer y canlynol:

- Defnydd Tir (gan gynnwys creu cynefin dros dro o dan Weithred Gyffredinol 8);
- Rheoli gwrychoedd;
- Niferoedd da byw;
- Mewnbynnau maethynnau.

### Defnydd Tir

O dan y senario gwrthffeithiol, ceir newidiadau wedi'u modelu bach iawn yng nghyfanswm arwynebedd cnydau (lleihad o 0.19%) ac arwynebedd glaswelltir sy'n cylchdroi (cynnydd o 0.11%). Ni welir unrhyw newidiadau eraill o ran arwynebedd cynhyrchiol (gweler Tabl 79).

O gymharu â'r senario gwrthffeithiol, mae newidiadau a fodelwyd o ran defnydd tir o dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn fwy oherwydd gofynion Rheol 10% o Gynefin y Cynllun ac UA6 Creu Cynefin Dros Dro ond maent yn dal i fod yn fach fel cyfran gyffredinol o gyfanswm arwynebeddau cynhyrchiol a fodelwyd. Caiff newidiadau oherwydd UA6 ar laswelltir a thir âr dros dro eu modelu fel newidiadau dros dro.

O dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a), o gymharu â'r senario gwrthffeithiol, efelychir y bydd 0.67% ychwanegol o arwynebedd cnydau yn mynd drwy newid defnydd tir i gynefin dros dro, y bydd glaswelltir sy'n cylchdroi yn lleihau 5.28% ac y bydd arwynebedd glaswelltir parhaol wedi'i wella yn lleihau 1.84%. O dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b), gwelir lleihad ychydig yn is o ran glaswellt sy'n cylchdroi a glaswellt parhaol. Ni fydd glaswelltir garw yn newid o dan y naill senario talu na'r llall.

*Tabl 79: Newid canrannol efelychiadol o ran defnydd tir*

| % newid o ran defnydd tir | Cnwd | Glaswelltir sy'n Cylchdroi | Glaswellt Parhaol | Glaswelltir Garw |
|---|---|---|---|---|
| O'r llinell sylfaen i'r senario gwrthffeithiol | -0.19 | 0.11 | 0.00 | 0.00 |
| O'r senario gwrthffeithiol i'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -0.67 | -5.28 | -1.84 | 0.00 |
| O'r senario gwrthffeithiol i'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -0.66 | -5.08 | -1.82 | 0.00 |
| Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) o'i chymharu â Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | 0.01 | 0.22 | 0.02 | 0.00 |

O ganlyniad i'r newid amcanestynedig hwn o ran defnydd tir, cyfanswm yr arwynebedd o gynefin dros dro a grëir o dan UA6 yw 16,018 hectar ar gyfer SFS7a 15,673 hectar ar gyfer SFS7b, sef gwahaniaeth o 2.16% (gweler Tabl 80).

Mae creu cynefin dros dro o dan UA6 yn cyfrif am 4.5% ychwanegol ar ben arwynebedd cynefin llinell sylfaen o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a 4.4% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b).

Gwyndynnydd cymysg yw'r rhan fwyaf o'r cynefin dros dro, a grëir ar laswelltir parhaol (Glaswelltir Dwys). Mae hyn yn cyfrif am 60% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a), mae gwyndynnydd cymysg ar laswelltir sy'n cylchdroi yn cyfrif am 38% ac mae ymylon glaswelltir garw ar dir âr yn cyfrif am 3%.

*Tabl 80: UA6 Creu cynefin dros dro: cyfanswm yr arwynebedd a grëir yn ôl categori o ddefnydd tir*

| Cynefin dros dro a grëir (hectar) | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) o'i chymharu â Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) % |
|---|---|---|---|
| Cynefin dros dro (cnwd) | 459 | 450 | 1.9 |
| Cynefin dros dro (glaswellt sy'n cylchdroi) | 6,001 | 5,767 | 3.9 |
| Cynefin dros dro (glaswellt parhaol) | 9,559 | 9,456 | 1.1 |
| **Cyfanswm** | **16,018** | **15,673** | **2.2** |

O'r 16,018 hectar o gynefin dros dro a grëir o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a'r 15,673 hectar o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b), ar ffermydd godro y crëir y gyfran fwyaf (gweler Tabl 81). Mae hyn yn adlewyrchu eu niferoedd mawr a'u harwynebedd yn y model, ar gyfran is o arwynebedd cynefin presennol. Cynefin dros dro ar ffermydd cnydau cyffredinol sy'n cyfrif am y gyfran isaf o arwynebedd a grëir o dan y ddau senario, sy'n adlewyrchu'r nifer is o'r math hwn o fferm yn y model (52 o ffermydd) ac felly'r cyfanswm arwynebedd cyfun is o gymharu â mathau eraill o fferm.

*Tabl 81: UA6 Creu cynefin dros dro: arwynebedd a grëir yn ôl math o fferm*

| Creu cynefin dros dro yn ôl math o fferm | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm a grëir (hectar) | % y cynefin dros dro a grëir | Cyfanswm a grëir (hectar) | % y cynefin dros dro a grëir |
| Cnydau ŷd | 614 | 3.8 | 606 | 3.9 |
| Cnydau cyffredinol | 221 | 1.4 | 220 | 1.4 |
| Gwartheg godro | 6,070 | 37.9 | 5,829 | 37.2 |
| Gwartheg a defaid iseldir | 2,500 | 15.6 | 2,477 | 15.8 |
| Cymysg | 863 | 5.4 | 863 | 5.5 |
| Arall | 494 | 3.1 | 477 | 3.0 |
| Defaid Arbenigol (AdAF) | 941 | 5.9 | 937 | 6.0 |
| Eidion Arbenigol (AdAF) | 272 | 1.7 | 272 | 1.7 |
| Cymysg AdAF | 910 | 5.7 | 892 | 5.7 |
| Amrywiol AdA | 3,133 | 19.6 | 3,100 | 19.8 |
| **Cyfanswm** | **16,019** | **100** | **15,673** | **100** |

## Newidiadau o ran gwrychoedd

O dan y senario gwrthffeithiol, ni chaiff unrhyw newidiadau i wrychoedd llinell sylfaen eu modelu.

O dan UA11, Mae gwrychoedd sy'n ymuno â'r Haen Gyffredinol yn mynd drwy ddau newid allweddol, yn dibynnu ar y cyflwr llinell sylfaen:

- Lled yn cynyddu i 3m wrth 2m o 1m wrth 1m os nad ydynt wedi'u rheoli o dan y llinell sylfaen, neu o 2m wrth 2m os tybir eu bod eisoes yn cael eu rheoli
- Plannu coed ifanc mewn gwrychoedd bob 50 metr. Caiff coed ifanc eu plannu lle y tybir bod y gwrych heb ei reoli (ac felly mewn cyflwr gwaeth) o dan y llinell sylfaen ond tybir eu bod eisoes yn bresennol i'w tyfu yn y gwrych os caiff ei reoli o dan y llinell sylfaen.

Ceir cynnydd cyffredinol yn arwynebedd gwrychoedd o 192% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a 190% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) o gymharu â'r llinell sylfaen (gweler Tabl 82). Efelychir y bydd cyfanswm o 373,891 o goed ifanc yn cael eu tyfu o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a), a 370,728 o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) (gweler Tabl 83). Mae'r gwahaniaethau rhwng y ddau

senario yn fach iawn, sy'n adlewyrchu'r gyfradd ymuno uchel o dan y naill a'r llall. Dylid ystyried bod y cynnydd mewn arwynebedd yn oramcangyfrif oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â lled a hyd gwrychoedd llinell sylfaen a fodelwyd.

Caiff y rhan fwyaf o goed ifanc eu modelu fel rhai sydd wedi cael eu plannu o'r newydd, yn hytrach nag fel rhai sydd eisoes yn bresennol yn y gwrych ac yn cael eu gadael i dyfu, gan fod y rhan fwyaf o wrychoedd yn y llinell sylfaen wedi'u modelu fel rhai heb eu rheoli. Dylid tybio bod nifer y coed ifanc sy'n cael eu plannu o'r newydd yn oramcangyfrif oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â chyflwr llinell sylfaen y gwrychoedd a fodelwyd.

*Tabl 82: UA11 Cynnal Gwrychoedd: cynnydd efelychiadol yn arwynebedd gwrychoedd*

| Metrigau gwrychoedd | Llinell sylfaen a senario gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | % y gwahaniaeth rhwng y senario gwrthffeithiol a Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | % y gwahaniaeth rhwng y senario gwrtthffeithiol a Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | % y gwahaniaeth rhwng Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arwynebedd gwrychoedd (m2) | 23,215,920 | 67,793,000 | 67,405,800 | 192.01 | 190.34 | -0.57 |

*Tabl 83: UA11 Cynnal Gwrychoedd: nifer efelychiadol y coed ifanc a dyfir*

| Coed ifanc a dyfir | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | % y gwahaniaeth rhwng Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) |
|---|---|---|---|
| Nifer y coed ifanc nad ydynt wedi'u plannu | 7,997 | 7,950 | -0.59 |
| Nifer y coed ifanc sydd wedi'u plannu | 365,894 | 362,778 | -0.85 |
| **Cyfanswm** | **373,891** | **370,728** | **-0.85** |

## Newidiadau o ran da byw

O dan y senario gwrthffeithiol ceir gostyngiad cyffredinol o 2.8% a fodelwyd o ran Unedau Da Byw Pori o gymharu â'r llinell sylfaen. Gellir priodoli hyn i ostyngiad o 9.0% mewn Unedau Da Byw Pori Godro oherwydd y terfynau a'r gofynion sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (gweler Tabl 84). Nid effeithir ar Unedau Da Byw Pori Eidion (gostyngiad o 0.11%) na Defaid (newid o 0.00%).

O gymharu â'r senario gwrthffeithiol, o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) ceir gostyngiad ychwanegol o 4.8% a 4.7% a fodelwyd yng nghyfanswm yr Unedau Da Byw Pori yn y drefn honno. Ymhlith defaid y gwelir y gostyngiadau mwyaf (gostyngiad o 6% o dan y ddau senario) ac yna Unedau Da Byw Pori Godro (gostyngiad o 4% o dan y ddau senario) ac Eidion (gostyngiad o 3%), sy'n adlewyrchu'r arwynebeddau mwy o gynefin ar ffermydd defaid sydd felly yn destun Gweithred Gyffredinol 5. Mae creu cynefin dros dro o dan UA6 ar laswelltir parhaol a glaswelltir sy'n cylchdroi yn dylanwadu ar stocio o dan bob categori o Uned Da Byw Pori.

Mae'r gwahaniaethau o ran newidiadau mewn stoc rhwng Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) yn ymylol (0.07% yn gyffredinol), sy'n adlewyrchu lefelau ymuno tebyg o dan yr holl senarios.

*Tabl 84: Newid canrannol efelychiadol o ran Unedau Da Byw Pori*

| % y newid mewn Unedau Da Byw Pori | Gwartheg Eidion | Defaid | Gwartheg Godro | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **O'r llinell sylfaen i'r senario gwrthffeithiol** | -0.11 | 0.00 | -9.01 | -2.77 |
| **O'r senario gwrthffeithiol i'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a)** | -3.02 | -6.20 | -4.40 | -4.81 |
| **O'r senario gwrthffeithiol i'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)** | -2.99 | -6.19 | -4.23 | -4.74 |
| **% y gwahaniaeth mewn Unedau Da Byw Pori** | | | | |
| **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) o'i chymharu â Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)** | 0.03 | 0.01 | 0.18 | 0.07 |

## Mewnbynnau Maethynnau

Ysgogir newidiadau ym mewnbynnau maethynnau gan newidiadau o ran stocio a defnydd tir.

O dan y senario gwrthffeithiol, ceir gostyngiad cyffredinol o 5.8% ym mewnbynnau maethynnau (gweler Tabl 85). Ysgogir hyn gan ostyngiad o 14.5% mewn gwrtaith N a gostyngiad o 9% yn ysgarthion gwartheg godro. Mae'r gostyngiad yn ysgarthion

gwartheg godro yn gysylltiedig â'r gostyngiad o 9% mewn unedau da byw pori godro oherwydd y newid i lwythau maethynnau o fewn y fferm o dan y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Nid effeithir ar ysgarthion gwartheg eidion a defaid.

O gymharu â'r senario gwrthffeithiol, mae'r senarios talu yn gweld gostyngiadau ychwanegol a fodelwyd ym mewnbynnau maethynnau o 4.4% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a 4.3% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b). Mae gostyngiadau yn digwydd ym mhob categori o fewnbwn.

Yn unol â'r gostyngiadau o ran stocio a ddisgrifir yn yr adran flaenorol, y newidiadau mwyaf a fodelwyd mewn mewnbynnau o dan y senarios talu yw'r rhai sy'n ymwneud ag ysgarthion defaid (gostyngiad o 6.2% o dan y ddau senario).

Ceir mân wahaniaethau rhwng y ddau senario. O dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b), gwelir gostyngiad ychydig yn is mewn mewnbynnau cyffredinol, oherwydd gostyngiadau ychydig yn is o ran stocio a newid defnydd tir o gymharu â Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a).

*Tabl 85: Newid canrannol efelychiadol o ran mewnbynnau maethynnau*

| % y newid o ran mewnbwn maethynnau | Gwrtaith N | Ysgarthion gwartheg godro | Ysgarthion gwartheg eidion | Ysgarthion defaid | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| O'r llinell sylfaen i'r senario gwrthffeithiol | -14.50 | -8.99 | -0.14 | 0.00 | -5.76 |
| O'r senario gwrthffeithiol i'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -2.81 | -4.40 | -3.02 | -6.20 | -4.35 |
| O'r senario gwrthffeithiol i'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -2.73 | -4.23 | -2.99 | -6.19 | -4.28 |
| % y gwahaniaeth o ran mewnbwn maethynnau | | | | | |
| Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) o'i chymharu â Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | 0.09 | 0.18 | 0.03 | 0.01 | 0.07 |

## *Effeithiau*

Mae'r adran hon yn disgrifio'r effeithiau economaidd ac amgylcheddol efelychiadol sy'n deillio o'r senarios a fodelwyd. Mae'n ystyried effeithiau ar:

- Incwm Busnes Fferm;
- Stociau carbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Ansawdd dŵr;
- Ansawdd aer;
- Bioamrywiaeth.

### Hirhoedledd tybiedig newidiadau'r Cynllun

Cyflawnir pob gweithred o dan gytundebau blwyddyn. Fodd bynnag, er mwyn amcanestyn effeithiau hirdymor newidiadau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun, mae'r Llwyfan Modelu Integredig yn tybio y bydd gweithredoedd a chamau rheoli cysylltiedig yn aros ar waith am y cyfnod a fodelwyd, a hynny heblaw am greu cynefin dros dro, gan y gallai ffermwr symud y nodweddion cynefin dros dro hyn o gwmpas y fferm, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr arwynebeddau newid defnydd tir sy'n gweithredu fel mewnbynnau ar gyfer modelau'r gwasanaethau ecosystem.

### Incwm Busnes Fferm cyfanredol

O dan y llinell sylfaen, ceir Incwm Busnes Fferm cyfanredol o £345.9 miliwn o ffermydd amser llawn y model (gweler Tabl 86). Ffermydd Godro sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf (59%), ac yna ffermydd Defaid Arbenigol (12%) a ffermydd Pori Cymysg AdA (9%). Y sectorau sy'n cyfrif am y cyfrannau lleiaf yw Cnydau Cyffredinol (0.4%), Cnydau Ŷd (1%) ac Arall (1%). Mae hyn yn adlewyrchu'r niferoedd is ac arwynebedd y ffermydd hyn.

O dan y senario gwrthffeithiol, mae'r Incwm Busnes Fferm cyfanredol yn gostwng 13.6% o'r llinell sylfaen. Gellir priodoli hyn yn bennaf i leihad yn nifer yr Unedau Da Byw Pori Godro mewn perthynas â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, costau allforio Nitrogen a wynebir gan y ffermydd hyn oherwydd terfynau ar y defnydd o Nitrogen, a'r terfynau ar ddefnydd eu hunain. Nid yw'r terfynau hyn yn effeithio ar ffermydd sy'n stocio gwartheg eidion a defaid ond maent yn mynd i rywfaint o gostau ychwanegol y rheoliadau megis cyfnodau caeedig ar gyfer taenu a chadw cofnodion.

O gymharu â'r senario gwrthffeithiol, o gyflwyno'r Haen Gyffredinol mae'r Incwm Busnes Fferm efelychiadol cyfanredol yn cynyddu 2.5% arall o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a). Mae hyn yn adlewyrchu cyfanswm uwch gwariant efelychiadol Llywodraeth Cymru ar Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) (£25 miliwn ychwanegol) nag ar Gynllun y Taliad Sylfaenol o dan y senario gwrthffeithiol. Ffermydd Defaid Arbenigol AdAF (26.8%) a Gwartheg Eidion Arbenigol

AdAF (20.2%) sy'n gweld y cynnydd canrannol mwyaf yn eu Hincwm Busnes Fferm cyfanredol o gymharu â'r senario gwrthffeithiol. Ffermydd Gwartheg a Defaid Iseldir (17.2%) ac Arall (15.1%) sy'n gweld y gostyngiad canrannol mwyaf.

O gymharu â'r senario gwrthffeithiol, mae cyflwyno'r Haen Gyffredinol yn lleihau Incwm Busnes Fferm cyfanredol 12.1% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) (gweler Tabl 87). Mae hyn yn adlewyrchu'r gwariant is o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) (£19 miliwn yn is) o gymharu â'r senario gwrthffeithiol.

Rhwng y ddau senario talu, mae'r TGC is o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) yn lleihau'r Incwm Busnes Fferm cyfanredol efelychiadol 14% (£43.5m) o gymharu â Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a). Incwm Busnes Fferm ffermydd Godro sy'n gweld yr effaith leiaf o ganlyniad i TGC is Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) (gostyngiad o 4.4% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) o gymharu â Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a)). Ffermydd Gwartheg a Defaid Iseldir, Defaid Arbenigol (AdAF) a Gwartheg Eidion Arbenigol (AdAF) sy'n gweld y lleihad mwyaf yn eu Hincwm Busnes Fferm cyfanredol efelychiadol pan fydd y TGC yn is (32.3%, 28.2% a 27.8% yn y drefn honno).

*Tabl 86: Incwm Busnes Fferm cyfunol efelychiadol yn ôl math o fferm*

| Cyfanswm yr Incwm Busnes Fferm efelychiadol o ffermydd amser llawn (£m) | Llinell sylfaen | Gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) |
|---|---|---|---|---|
| Cnydau ŷd | 3.9 | 3.5 | 3.9 | 3.0 |
| Cnydau Cyffredinol | 1.5 | 1.3 | 1.3 | 1.0 |
| Gwartheg godro | 205.5 | 171.3 | 166.7 | 159.4 |
| Gwartheg a defaid iseldir | 10.7 | 10.5 | 8.7 | 5.9 |
| Cymysg | 8.4 | 7.4 | 7.3 | 5.8 |
| Arall | 4.6 | 4.1 | 3.4 | 2.6 |
| Defaid Arbenigol (AdAF) | 44.5 | 43.0 | 54.5 | 39.1 |
| Eidion Arbenigol (AdAF) | 5.6 | 4.6 | 5.5 | 4.0 |
| Cymysg AdAF | 29.1 | 25.1 | 28.6 | 21.2 |
| Pori cymysg AdA | 32.3 | 28.1 | 26.5 | 20.9 |
| **Cyfanswm** | **345.9** | **298.9** | **306.4** | **262.9** |

*Tabl 87: Newid Canrannol yn yr Incwm Busnes Fferm cyfanredol yn ôl math o fferm*

| % y newid yng nghyfanswm yr Incwm Busnes Fferm efelychiadol o ffermydd amser llawn | % y newid o'r llinell sylfaen i'r senario gwrthffeithiol | % y newid o'r senario gwrthffeithiol i Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | % y newid o'r senario gwrthffeithiol i Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | % y newid o Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) i Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) |
|---|---|---|---|---|
| Cnydau ŷd | -10.5 | 11.7 | -15.0 | -23.9 |
| Cnydau Cyffredinol | -11.0 | -1.4 | -24.7 | -23.6 |
| Gwartheg godro | -16.7 | -2.7 | -6.9 | -4.4 |
| Gwartheg a defaid iseldir | -1.3 | -17.2 | -44.2 | -32.6 |
| Cymysg | -11.8 | -1.8 | -22.1 | -20.7 |
| Arall | -11.3 | -15.1 | -34.9 | -23.4 |
| Defaid Arbenigol (AdAF) | -3.4 | 26.8 | -9.0 | -28.2 |
| Eidion Arbenigol (AdAF) | -18.0 | 20.2 | -13.2 | -27.8 |
| Cymysg AdAF | -13.5 | 13.6 | -15.7 | -25.8 |
| Pori cymysg AdA | -12.9 | -5.7 | -25.6 | -21.1 |

## Stociau carbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr

### *Stoc carbon*

Ar gyfer stociau carbon (LULUCF, stoc carbon pridd a biomas, stoc carbon gwrychoedd), mae newidiadau yn digwydd yn anllinol dros amser mewn ymateb i newid yn y system. Mae newid a fodelwyd yn digwydd yn y senarios mewn ymateb i ddefnydd tir neu newid rheoli a fodelwyd, neu gynnal gwrychoedd.

Mae'r newid yn cynrychioli'r broses o drosglwyddo carbon o gael ei storio yn y "gronfa" o bridd a biomas, i'r "gronfa" atmosfferig (neu fel arall).

Oherwydd y cyfraddau newid anllinol, nodir niferoedd fel cyfanswm newid hyd at 2030, yn hytrach nag fel cyfartaledd blynyddol. Mae gwerthoedd negatif yn dangos atafaelu (h.y. gostyngiad yn y gronfa garbon atmosfferig).

O dan y senario gwrthffeithiol, oherwydd y newid defnydd tir ymylol a fodelwyd, mae colli stociau carbon a fodelwyd o'r llinell sylfaen yn llai na lefel yr ansicrwydd yn y gadwyn fodelu a dylid ei ystyried yn sero (gweler Tabl 88).

O ystyried y dylai'r newidiadau o ran stoc o dan y senario gwrthffeithiol gael eu hystyried yn sero, mae nodi newid canrannol ar gyfer Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a (b) fel cyfran o'r newid o dan y senario gwrthffeithiol yn rhoi gwerthoedd nad ydynt yn adlewyrchu'n briodol lefel y newid sydd wedi digwydd. Felly, nodir newid ar gyfer Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a (b) yn erbyn y llinell sylfaen. O dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, ceir cynnydd amcanestynedig o 0.02% mewn stoc carbon hyd at 2030 o gymharu â stociau yn y llinell sylfaen. Gellir priodoli hyn yn bennaf i'r atafaelu carbon ychwanegol sy'n deillio o'r cynnydd yn uchder/lled gwrychoedd a'r coed ychwanegol mewn gwrychoedd o dan UA8 Rheoli Gwrychoedd. Felly, mae newidiadau a fodelwyd mewn stociau carbon yn dibynnu'n fawr ar dybiaethau ynglŷn â dimensiynau gwrychoedd yn y llinell sylfaen, a sut y gallai'r rhain newid o dan y Cynllun, yn ogystal â'r data a ddefnyddir i amcangyfrif newid cysylltiedig mewn stociau carbon. Mae effeithiau hyn ar hyder cyffredinol yn yr allbynnau yn gyfyngedig, gan fod y newidiadau hyn mewn stociau carbon yn fach iawn o gymharu â newidiadau a fodelwyd mewn nwyon tŷ gwydr amaethyddol.

Unwaith eto, amcanestynnir arwynebeddau dibwys o newid defnydd tir sy'n arwain at lefelau colli stociau carbon a fodelwyd sy'n llai na lefel yr ansicrwydd yn y model a ddylai ei ystyried yn sero. Cyfrifir am y colledion bach hyn a fodelwyd ar hyn o bryd yn y gwerthoedd newid stociau carbon cofnodedig a chânt eu gwrthbwyso gan yr enillion o wrychoedd.

Mae'r gwahaniaethau rhwng dau senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn ddibwys oherwydd y lefelau ymuno uchel ar gyfer y ddau, ond ceir lefel atafaelu ychydig yn uwch o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a).

*Tabl 88: Newidiadau mewn stociau carbon a fodelwyd 2023 i 2030*

| Noder: mae gwerthoedd negatif yn dangos atafaelu | Gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) |
|---|---|---|---|
| Newid mewn stociau carbon o'r llinell sylfaen (ktCO2e) | 0.78 | -92.34 | -91.53 |
| Gwahaniaeth newid mewn stociau carbon o'r senario gwrthffeithiol (ktCO2e) | - | -93.11 | -92.31 |
| Newid mewn stociau carbon o'r llinell sylfaen (%) | 0.00 | -0.02 | -0.02 |

### *Allyriadau nwyon tŷ gwydr: blynyddol*

Caiff allyriadau blynyddol ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol a gwlyptiroedd a chyfrifir y newid cronnol dros amser. Mae'r systemau hyn yn creu allyriadau yn flynyddol, ac mae'r gwaith modelu yn tybio perthynas uniongyrchol rhwng y ffordd y cânt eu rheoli a'r allyriadau a ryddheir.

Mae newidiadau a fodelwyd mewn allyriadau yn digwydd mewn ymateb i newidiadau a fodelwyd o ran defnydd tir a rheoli amaethyddol (gan gynnwys da byw a'r defnydd o wrtaith). Mae gwerthoedd negatif yn dangos allyriadau a osgowyd.

Tybir bod newidiadau yn digwydd ar unwaith ac yn aros yn gyson dros amser. Mae'n bosibl bod y dybiaeth hon yn goramcangyfrif manteision o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr gwlyptiroedd, ond mae'r rhain ond yn cyfrif am gyfran ddibwys o'r manteision o ran nwyon tŷ gwydr.

Mae Tabl 89 yn dangos allyriadau nwyon tŷ gwydr gwlyptiroedd (mawn) ac amaethyddol blynyddol o dan bob senario, y newid ar gyfer pob un yn erbyn y llinell sylfaen, a'r newid ar gyfer senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn erbyn y senario gwrthffeithiol.

O dan y senario gwrthffeithiol, mae'r newidiadau wedi'u modelu yn fach iawn i nwyon tŷ gwydr gwlyptiroedd oherwydd y newid defnydd tir dibwys mewn ardaloedd o fawndir. Ceir gostyngiad blynyddol efelychiadol yn fflwcs nwyon tŷ gwydr amaethyddol o 5.5% o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu'r gostyngiad o 2.8% a fodelwyd mewn Unedau Da Byw Pori (Godro yn bennaf) a'r ysgarthion cysylltiedig, a'r gostyngiad ym mewnbynnau gwrtaith N (14.5%), sy'n arwain at ostyngiad cyffredinol mewn mewnbynnau N o 5.8%. Ceir hefyd ddylanwad bach o'r newidiadau amcanestynedig ymylol o ran defnydd tir (gostyngiad o 0.19% mewn cnydau, cynnydd 0.11% mewn glaswelltir sy'n cylchdroi) a gostyngiad bach yn yr allyriadau $N_2O$ anuniongyrchol o ganlyniad i effeithiau Rheoli Llygredd Amaethyddol a fodelwyd ar drwytholchiad nitradau (gweler yr adran ar ansawdd dŵr). O ran y newid yn fflwcs nwyon tŷ gwydr amaethyddol, mae'r gostyngiad efelychiadol mewn methan yn fwy na $N_2O$ o'i fynegi fel $CO_2$-e, ond gwelir gostyngiad cyfrannol fwy mewn $N_2O$ (gostyngiad o 4% mewn methan o gymharu â 13% mewn $N_2O$). Felly, mae'r manteision hyn yn dibynnu ar y newidiadau a fodelwyd mewn da byw a gwrtaith yn ogystal â'n tybiaethau modelu ynglŷn â newidiadau rheoli mewn ymateb i Reoli Llygredd Amaethyddol.

O gymharu â'r senario gwrthffeithiol, modelwyd newidiadau bach iawn hefyd yn nwyon tŷ gwydr gwlyptiroedd. Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchu newid defnydd tir bach iawn mewn ardaloedd o fawndir. Ceir gostyngiad blynyddol ychwanegol o 4.3% yn fflwcs nwyon tŷ gwydr amaethyddol a fodelwyd o'r senario gwrthffeithiol o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a 4.2% o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b). O'r gostyngiad hwn, mae senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn gweld gostyngiad ychwanegol o 3.3% (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a)) a 3.2% (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)) mewn $N_2O$ a fodelwyd o gymharu â'r senario gwrthffeithiol. O

ran methan, mae senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn gweld gostyngiad ychwanegol o 4.5% a fodelwyd (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a)) a 4.4% (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)) o gymharu â'r senario gwrthffeithiol. O ran methan, ysgogir y newidiadau hyn gan y gostyngiad ychwanegol mewn da byw yn bennaf (gostyngiad ychwanegol o 4.7% i 4.8% mewn Unedau Da Byw Pori o dan y senario gwrthffeithiol) a welir o dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, ac o ran $N_2O$ mae'r gostyngiad mewn gwrtaith N (gostyngiad ychwanegol o 2.7% i 2.8 % mewn gwrtaith o dan y senario gwrthffeithiol) hefyd yn bwysig. Felly, mae'r manteision hyn a fodelwyd yn dibynnu'n fawr ar y newidiadau mewn da byw a mewnbynnau gwrtaith a fodelwyd, a'r tybiaethau modelu sy'n sail i'r ymateb hwn i'r Cynllun. Gan fod Rheoli Llygredd Amaethyddol yn sicrhau cyfran fawr o'r manteision hyn a fodelwyd, maent hefyd yn dibynnu ar y tybiaethau modelu a'r ymateb amcanestynedig i'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

Dylid ystyried bod gwahaniaethau o ran gostyngiadau mewn allyriadau rhwng Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) yn fach iawn.

*Tabl 89: Allyriadau amaethyddol blynyddol a fodelwyd*

| | | | | Dadansoddiad o Nwyon Tŷ Gwydr Amaethyddol | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Newidiadau blynyddol mewn nwyon tŷ gwydr amaethyddol (gwrtaith a da byw) a gwlyptiroedd** | **Senario** | **Fflwcs gwlyptiroedd (4D) (KtCO2cq/y flwyddyn)** | **Cyfanswm fflwcs nwyon tŷ gwydr amaethyddol (KtCO2eq/y flwyddyn)** | **fflwcs nwyon tŷ gwydr amaethyddol fel $N_2O$ (KtCO2eq/y flwyddyn)** | **Fflwcs nwyon tŷ gwydr amaethyddol fel methan (KtCO2eq/y flwyddyn)** |
| Allyriadau blynyddol | Llinell sylfaen | 509 | 4,063 | 658 | 3,405 |
| | Gwrthffeithiol | 509 | 3,838 | 571 | 3,268 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | 509 | 3,674 | 552 | 3,122 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | 509 | 3,677 | 553 | 3,124 |
| % y gwahaniaeth o'r llinell sylfaen | Gwrthffeithiol | -0.02 | -5.53 | -13.28 | -4.03 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -0.02 | -9.57 | -16.10 | -8.31 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -0.02 | -9.49 | -16.04 | -8.23 |
| Y gwahaniaeth o'r senario gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | 0.00 | -164 | -19 | -146 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | 0.00 | -161 | -18 | -143 |
| % y gwahaniaeth o'r senario gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | 0.00 | -4.29 | -3.25 | -4.47 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | 0.00 | -4.20 | -3.18 | -4.38 |

### *Stociau ac Allyriadau nwyon tŷ gwydr: newid cronnol hyd at 2030*

Nodir newid cronnol mewn stociau a nwyon tŷ gwydr a fodelwyd ar gyfer y senario gwrthffeithiol a senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn erbyn y llinell sylfaen.

Gostyngiadau mewn nwyon tŷ gwydr amaethyddol, yn hytrach na chynnydd mewn stociau carbon, sy'n sicrhau'r rhan fwyaf o'r manteision carbon a fodelwyd hyd at 2030 o dan y senario gwrthffeithiol a dau senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir (gweler Tabl 90). Ysgogir y gostyngiadau hyn gan newidiadau o ran da byw a mewnbynnau N.

O ran stociau carbon mewn priddoedd a biomas, nid oes unrhyw newid hyd at 2030 o dan y senario gwrthffeithiol oherwydd y newid defnydd tir bach iawn. O dan ddau senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir, caiff cynnydd o 0.02% mewn stociau carbon ei fodelu oherwydd UA8 Rheoli Gwrychoedd. Mae'r rhain yn dibynnu'n fawr ar dybiaethau a'r data a ddefnyddir i lunio'r amcanestyniadau hyn.

Hyd at 2030, o dan y senario gwrthffeithiol, caiff gostyngiad cronnol o 5.53% mewn nwyon tŷ gwydr amaethyddol o'r llinell sylfaen ei fodelu, oherwydd gostyngiadau a fodelwyd mewn da byw (gostyngiad o 9% mewn Unedau Da Byw Pori Godro) a gwrtaith N (gostyngiad net o 14.5%). Felly, mae'r manteision hyn yn dibynnu ar y newidiadau a fodelwyd mewn da byw a gwrtaith.

O dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, caiff gostyngiadau o 9.6% (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a)) a 9.5% (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)) o'r llinell sylfaen eu modelu. Mae hyn yn ostyngiad ychwanegol o 4.2% (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)) a 4.3% (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a)) o nwyon tŷ gwydr amaethyddol o dan y senario gwrthffeithiol hyd at 2030. Ysgogir hyn gan y gostyngiad ychwanegol mewn da byw a fodelwyd (gostyngiad ychwanegol o 4.7% i 4.8% mewn Unedau Da Byw Pori o dan y senario gwrthffeithiol) a'r gostyngiad mewn gwrtaith N a fodelwyd (gostyngiad ychwanegol o 2.7% i 2.8% mewn gwrtaith o dan y senario gwrthffeithiol) a welir o dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir. Felly, mae'r manteision hyn a fodelwyd yn dibynnu'n fawr ar y newidiadau mewn da byw a mewnbynnau gwrtaith a fodelwyd, a'r tybiaethau modelu sy'n sail i'r ymateb hwn i'r Cynllun. Gan fod Rheoli Llygredd Amaethyddol yn sicrhau cyfran fawr o'r manteision hyn a fodelwyd, maent hefyd yn dibynnu ar y tybiaethau modelu a'r ymateb amcanestynedig i'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

*Tabl 90: Newid cronnol mewn stociau carbon a nwyon tŷ gwydr a fodelwyd 2023 i 2030*

| Noder: mae rhifau negatif yn dangos atafaelu neu allyriadau a osgowyd | Senario | Fflwcs gwlyptiroedd (4D) (KtCO2cq/y flwyddyn) | Cyfanswm fflwcs nwyon tŷ gwydr amaethyddol (KtCO2eq/y flwyddyn) | Colledion o stociau carbon mewn newid defnydd tir a choedwigaeth ynghyd â chynhyrchion pren a gynaeafir (KtCO2cy) |
|---|---|---|---|---|
| **Newid cronnol mewn allyriadau o'r llinell sylfaen hyd at 2030** | Gwrthffeithiol | -0.81 | -1,796.1 | 0.78 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -0.81 | -3,112.0 | -92.34 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -0.81 | -3,086.0 | -91.53 |
| **Newidiadau cronnol o'r llinell sylfaen hyd at 2030 fel: % y stoc yn y llinell sylfaen (Colledion o stociau carbon) neu allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y llinell sylfaen (nwyon tŷ gwydr amaethyddol a gwlyptiroedd)** | Gwrthffeithiol | -0.02 | -5.53 | 0 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -0.02 | -9.57 | -0.02 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -0.02 | -9.49 | -0.02 |

## Ansawdd dŵr

Dylanwedir ar lwythi llygryddion ar gyfer M, P a gwaddod gan newidiadau mewn da byw, gwrtaith a defnydd tir. Caiff data ar ffynonellau anamaethyddol o lygryddion, ynghyd â llygryddion o ffermydd neu dir nas ystyriwyd yng ngwaith modelu fferm y Llwyfan Modelu Integredig, eu cynnwys wrth gyfrifo crynodiadau ansawdd dŵr ond efallai fod lefel is o hyder iddynt a chânt eu modelu fel rhai nad ydynt yn ymateb i'r senario.

Mae'r data yn adlewyrchu gwaith i fodelu cyfartaledd hirdymor newydd oherwydd defnydd tir a rheoli tir a fodelwyd o dan bob senario ac nid ydynt yn cyfrif am unrhyw oedi o ran amser cyn cyrraedd ecwilibriwm newydd. Mae'n bosibl y bydd y defnydd hwn o'r cyfartaledd hirdymor newydd yn llai priodol dros gyfnodau byrrach (h.y. hyd at 2030). Mae'r cyfartaleddau hirdymor hyn yn gwastatáu brigau a all godi oherwydd digwyddiadau tywydd arwyddocaol sy'n achosi mwy o erydu a cholli llygryddion.

Mewn cymhariaeth â'r llinell sylfaen, mae'r senario gwrthffeithiol yn dangos gostyngiadau o 7% a fodelwyd yn y llwyth nitrad a ffosfforws (gweler Tabl 91). Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu gostyngiadau a fodelwyd mewn unedau da byw (gostyngiad o 2.8% mewn Unedau Da Byw Pori, Godro yn bennaf), mewnbynnau gwrtaith (gostyngiad o 14.5% mewn gwrtaith N a gostyngiad o 1.94% mewn gwrtaith P) ac effeithiau Rheoli Llygredd Amaethyddol a fodelwyd (sy'n gostwng lefelau colli nitrad a ffosfforws mewn cysylltiad â defnyddio tail a gwrtaith, drwy well amseriad a defnydd). Felly, mae'r manteision hyn yn dibynnu ar y newidiadau a fodelwyd mewn da byw a gwrtaith yn ogystal â'n tybiaethau modelu ynglŷn â newidiadau rheoli mewn ymateb i Reoli Llygredd Amaethyddol. Mae'r gostyngiad mewn llwyth gwaddod yn ymylol ac, o ystyried y gwerth newid bach, dylid ei ystyried yn sero. Mae hyn yn adlewyrchu'r newid defnydd tir bach iawn.

O gymharu â'r senario gwrthffeithiol, mae senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn gweld gostyngiad pellach o 3.0% mewn llwyth nitrad a fodelwyd. Mae'r llwyth ffosfforws a fodelwyd yn gostwng 1.7% arall o dan ddau senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir o gymharu â'r senario gwrthffeithiol. Ysgogir y newidiadau hyn gan y gostyngiadau ychwanegol mewn da byw a fodelwyd (gostyngiad ychwanegol o 4.7% i 4.8% mewn Unedau Da Byw Pori o dan y senario gwrthffeithiol); gwrtaith N (gostyngiad ychwanegol o 2.7% i 2.8% o dan y senario gwrthffeithiol); gwrtaith P (gostyngiad ychwanegol o 2.05% i 2.09% o dan y senario gwrthffeithiol). Felly, mae'r manteision hyn a fodelwyd yn dibynnu'n fawr ar y newidiadau mewn da byw a mewnbynnau gwrtaith a fodelwyd, a'r tybiaethau modelu sy'n sail i'r ymateb hwn i'r Cynllun. Gan fod Rheoli Llygredd Amaethyddol yn sicrhau cyfran fawr o'r manteision hyn a fodelwyd, maent hefyd yn dibynnu ar y tybiaethau modelu a'r ymateb amcanestynedig i'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Yn debyg i'r senario gwrthffeithiol, nid oes unrhyw newid o ran llwyth gwaddod, sy'n

adlewyrchu absenoldeb cyffredinol o ran newid defnydd tir ar y raddfa gyfanredol. Dylid ystyried bod y gwahaniaethau rhwng senario y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn ddibwys.

*Tabl 91: Newidiwyd a fodelwyd mewn N, P a llwyth gwaddod*

| Llwyth llygryddion cyfartalog blynyddol | Senario | Llwyth nitrad kt NO3 N /y flwyddyn | Llwyth ffosfforws kt P /y flwyddyn | Llwyth gwaddod kt Z /y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| Llwyth efelychiadol | Llinell sylfaen | 23.03 | 0.41 | 147.55 |
| | Gwrthffeithiol | 21.40 | 0.38 | 147.29 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | 20.76 | 0.37 | 147.30 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | 20.77 | 0.37 | 147.30 |
| % y gwahaniaeth o'r llinell sylfaen | Gwrthffeithiol | -7.08 | -7.15 | -0.18 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -9.87 | -8.73 | -0.17 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -9.82 | -8.70 | -0.17 |
| Y gwahaniaeth o'r senario gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -0.64 | -0.01 | 0.01 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -0.63 | -0.01 | 0.01 |
| % y gwahaniaeth o'r senario gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -3.00 | -1.70 | 0.01 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -2.94 | -1.67 | 0.01 |

### ***Statws Nitrad Dŵr Yfed a Statws Ffosfforws y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr***

Cyfunir llygryddion ansawdd dŵr (N, P, gwaddod) a fodelwyd ar raddfa is-ddalgylch o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr er mwyn cyfrifo cyfanswm y llwyth ar y lefel honno. Caiff y rhain eu cronni i lawr yr afon, gan gyfrif am gysylltiadau i lawr yr afon rhwng yr is-ddalgylchoedd a'r data sydd ar gael ar lygryddion anamaethyddol ac yna'u troi'n grynodiad. Yna, defnyddir y crynodiad a fodelwyd i bennu statws dŵr yfed N a statws P o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer pob dalgylch. Gall newid mewn statws a fodelwyd ddigwydd gyda gwelliannau ansawdd dŵr ymylol os oedd crynodiad y llinell sylfaen yn agos i drothwy'r statws.

O'r 879 o ddalgylchoedd, caiff pump eu modelu fel rhai sy'n methu â chyrraedd statws nitrad dŵr[213] yn y llinell sylfaen (gweler Tabl 92).

O dan y senario gwrthffeithiol, nid efelychir unrhyw newid yn nifer y dalgylchoedd sy'n methu.

O dan ddau senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir, amcanestynnir y bydd un dalgylch yn gwella.

*Tabl 92: Statws nitrad dŵr yfed a fodelwyd ar lefel dalgylch y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr*

| Grŵp | Senario | Llwyddo | Methu |
|---|---|---|---|
| Statws efelychiadol | Llinell sylfaen | 872 | 5 |
| | Gwrthffeithiol | 872 | 5 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | 873 | 4 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | 873 | 4 |

Pennir statws ffosfforws y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr drwy ddefnyddio trothwyon penodol ar gyfer dalgylchoedd sy'n amrywio yn ôl uchder, alcalinedd ac mae'n is mewn ardaloedd a ddynodwyd yn ACAau. Rydym yn asesu statws P yn seiliedig ar y crynodiad wrth all-lif pob is-ddalgylch o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ac felly rydym yn defnyddio'r trothwy mwyaf i lawr yr afon sydd ar gael ar gyfer pob dalgylch. Mae statws llinell sylfaen a fodelwyd a newidiadau o ran statws yn adlewyrchu patrwm gofodol y trothwyon hyn yn ogystal â newidiadau a fodelwyd o ran llwyth llygryddion.

O dan y senario gwrthffeithiol, modelwyd gostyngiad o 10% yn nifer y dalgylchoedd â statws P cymedrol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn y llinell sylfaen, a chynnydd mewn dalgylchoedd â statws da (2%) ac uchel (3%) (gweler Tabl 93). Efelychir na fydd statws unrhyw ddalgylchoedd yn dirywio. Mae gwelliannau yn ymwneud â'r gostyngiadau a fodelwyd mewn unedau da

[213] Mae statws nitrad yn seiliedig ar darged Cyfarwyddeb Nitrad yr UE o 50 mg $l^{-1}$ Nitrad, neu 11.3 mg $l^{-1}$ $NO_3$-N

byw godro a mewnbynnau gwrtaith P a welir o dan y senario hwn ac felly maent yn dibynnu ar y newidiadau hyn a fodelwyd, yn ogystal â'n tybiaethau modelu ynglŷn â newidiadau rheoli mewn ymateb i Reoli Llygredd Amaethyddol.

O gymharu â'r senario gwrthffeithiol, o dan ddau senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir, gwelir lleihad is yn nifer y dalgylchoedd y modelwyd y byddant yn symud i statws Da (1% yn llai o dan y senario gwrthffeithiol) ond cynnydd uwch yn y nifer sy'n symud i statws Uchel (1% yn ychwanegol). Efelychir na fydd statws unrhyw ddalgylchoedd yn dirywio. Mae'r gwelliannau yn adlewyrchu'r gostyngiadau ychwanegol mewn llwyth P a fodelwyd oherwydd gostyngiadau ychwanegol mewn da byw (gostyngiad ychwanegol o 4.7% i 4.8% mewn Unedau Da Byw Pori o dan y senario gwrthffeithiol) a gwrtaith P (gostyngiad ychwanegol o 2.05% i 2.09% o dan y senario gwrthffeithiol). Felly, mae'r manteision hyn a fodelwyd yn dibynnu'n fawr ar y newidiadau mewn da byw a mewnbynnau gwrtaith a fodelwyd, a'r tybiaethau modelu sy'n sail i'r ymateb hwn i'r Cynllun. Gan fod Rheoli Llygredd Amaethyddol yn sicrhau cyfran fawr o'r manteision hyn a fodelwyd, maent hefyd yn dibynnu ar y tybiaethau modelu a'r ymateb amcanestynedig i'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

*Tabl 93: Statws Ffosfforws Dalgylchoedd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a fodelwyd*

| | Senario | Uchel | Da | Cymedrol | Gwael | Gwael iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Statws efelychiadol | Llinell sylfaen | 279 | 264 | 131 | 7 | 0 |
| | Gwrthffeithiol | 287 | 269 | 118 | 7 | 0 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | 290 | 266 | 118 | 7 | 0 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | 290 | 266 | 118 | 7 | 0 |
| Y gwahaniaeth o'r senario gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | 3 | -3 | 0 | 0 | 0 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | 3 | -3 | 0 | 0 | 0 |
| % y gwahaniaeth o'r senario gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | 1 | -1 | 0 | 0 | Dd/G |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | 1 | -1 | 0 | 0 | Dd/G |
| % y gwahaniaeth o'r llinell sylfaen | Gwrthffeithiol | 3 | 2 | -10 | 0 | Dd/G |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | 4 | 1 | -10 | 0 | Dd/G |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | 4 | 1 | -10 | 0 | Dd/G |

## Ansawdd Aer: Amonia

Ysgogir newidiadau mewn allyriadau amonia a fodelwyd gan newidiadau o ran rheoli tir a fodelwyd, gan gynnwys stocio a mewnbynnau nitrogen.

O dan y senario gwrthffeithiol, ceir gostyngiad o 6.8% mewn allyriadau amonia a fodelwyd (gweler Tabl 94), a ysgogir gan y gostyngiad mewn da byw a fodelwyd (gostyngiad o 2.8% mewn Unedau Da Byw Pori, Godro yn bennaf) a gostyngiad o 14.5% a fodelwyd o ran mewnbynnau gwrtaith N.

O gymharu â'r senario gwrthffeithiol, o dan senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir, gwelir gostyngiad ychwanegol o 3.7% (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a)) a 3.6% (Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)) mewn allyriadau amonia. Mae'r gostyngiadau ychwanegol hyn yn adlewyrchu'r gostyngiadau ychwanegol mewn da byw (gostyngiad ychwanegol o 4.7% i 4.8% mewn Unedau Da Byw Pori o dan y senario gwrthffeithiol) a gwrtaith N (gostyngiad o 2.7% i 2.8% o dan y senario gwrthffeithiol) o dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir.

Mae'r gwahaniaethau rhwng y ddau senario talu yn ymylol, oherwydd y gyfradd ymuno uchel a efelychir ar gyfer y ddau.

*Tabl 94: Newidiadau mewn allyriadau amonia a fodelwyd*

| Grŵp | Senario | Allyriadau amonia (kt NH3 N /y flwyddyn) |
|---|---|---|
| Allyriadau efelychiadol | Llinell sylfaen | 15.53 |
| | Gwrthffeithiol | 14.47 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | 13.94 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | 13.96 |
| y gwahaniaeth o'r llinell sylfaen | Gwrthffeithiol | -1.06 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -1.59 |

| Grŵp | Senario | Allyriadau amonia (kt NH3 N /y flwyddyn) |
|---|---|---|
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -1.58 |
| % y gwahaniaeth o’r llinell sylfaen | Gwrthffeithiol | -6.82 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -10.23 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -10.14 |
| Y gwahaniaeth o’r senario gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -0.53 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -0.51 |
| % y gwahaniaeth o’r senario gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -3.66 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -3.56 |

## Ansawdd aer: $PM_{2.5}$ ac Effeithiau ar Iechyd

Mae newidiadau a fodelwyd o ran crynodiad $PM_{2.5}$ yn gysylltiedig â’r newidiadau a fodelwyd mewn allyriadau amonia yn ogystal â lefel gwaredu llygryddion a fodelwyd drwy lystyfiant ychwanegol a all ryng-gipio allyriadau, yn enwedig coed a choetir.

Mae cyfraddau gwaredu yn amrywio yn ôl y crynodiadau cychwynnol o lygryddion a fodelwyd a lleoliad gofodol llystyfiant o gymharu â’r crynodiad.

O dan y senario gwrthffeithiol a senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, mae’r gostyngiadau o ran crynodiadau o $PM_{2.5}$ a fodelwyd yn dilyn patrwm gostyngiad mewn allyriadau amonia a fodelwyd (gweler Tabl 95).

O dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, mae mantais ychwanegol a fodelwyd o ehangu uchder a lled gwrychoedd o dan UA8 Rheoli Gwrychoedd a’r cynnydd yn nifer y coed mewn gwrychoedd ond mae’r brif effaith yn deillio o’r gostyngiad mewn unedau da byw a mewnbynnau a fodelwyd.

Caiff effeithiau iechyd eu modelu fel ffwythiant newid yng nghysylltiad y boblogaeth â $PM_{2.5}$ ac felly maent yn amrywio’n ofodol. Mewn ardaloedd o boblogaeth ddwysach bydd mwy o bobl yn bresennol i gael budd o unrhyw ostyngiad mewn cysylltiad â $PM_{2.5.}$

Cyfrifir marwolaethau oherwydd cysylltiad â $PM_{2.5}$ yn nhermau Blynyddoedd o Fywyd a Gollir. Mae’r amcangyfrif hwn yn cyfeirio at y blynyddoedd cyfanredol a gollir oherwydd marwolaethau cynamserol yn y boblogaeth.

Amcanestynnir y manteision o wella ansawdd aer yn nhermau lleihau blynyddoedd o fywyd a gollir yn y boblogaeth. Ar gyfer senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, mae’r newid o ran $PM_{2.5}$ a fodelwyd a manteision o ran blynyddoedd o fywyd a gollir yn gynrychioliadol o’r adeg pan fydd y coed a’r gwrychoedd wedi tyfu’n llawn, na fyddai’r elfen o’r manteision sy’n ymwneud â gwaredu drwy lystyfiant yn cael ei sicrhau cyn hynny.

O dan y senario gwrthffeithiol, modelwyd mân ostyngiad o 5.3 o Flynyddoedd o Fywyd a Gollir mewn perthynas â chysylltiad â $PM_{2.5}$ ymhlith poblogaeth lawn Cymru.

O gymharu â’r senario gwrthffeithiol, mae senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn dangos gostyngiad ychwanegol o tua thraean a fodelwyd. Mae’r gwahaniaethau rhwng y ddau senario talu yn ddibwys.

*Tabl 95: Newidiadau a fodelwyd o ran crynodiad $PM_{2.5}$ a Blynyddoedd o Fywyd a Gollir*

| Grŵp | Senario | Newid cyfartalog wedi’i bwysoli yn ôl poblogaeth o ran crynodiad $PM_{2.5}$ | Blynyddoedd o Fywyd a Gollir |
|---|---|---|---|
| | Gwrthffeithiol | -0.003 | -5.3 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -0.0051 | -9.08 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -0.0050 | -9.02 |
| **Y gwahaniaeth o’r senario gwrthffeithiol** | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -0.0021 | -3.78 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -0.0020 | -3.72 |
| **% Y gwahaniaeth o’r senario gwrthffeithiol** | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) | -41% | -42% |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) | -40% | -41% |

## Bioamrywiaeth planhigion

Mae gwaith modelu bioamrywiaeth planhigion yn tybio bod newidiadau mewn pridd sy’n deillio o newidiadau o ran defnydd tir, neu gyflwyno ymyriadau penodol, yn ysgogi newidiadau cydberthynol o ran addasrwydd cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau o blanhigion.

Roedd y newid efelychiadol o ran defnydd tir ar gyfer y senario gwrthffeithiol ond yn golygu newidiadau bach iawn mewn tir cnydau tuag at laswelltir wedi'i wella sy'n cylchdroi (<1% o ddefnydd newid tir a fodelwyd). Felly, nid yw'r effaith ar fioamrywiaeth planhigion wedi cael ei modelu ar gyfer y senario gwrthffeithiol.

Er na chaiff ei fodelu, mae'n berthnasol nodi bod y gostyngiad efelychiadol mewn unedau da byw o dan y senario gwrthffeithiol wedi digwydd bron yn gyfan gwbl mewn Unedau Da Byw Pori Godro ar laswelltir wedi'i wella, lle mae bioamrywiaeth planhigion yn annhebygol o gynyddu.

O dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, efelychir effeithiau bioamrywiaeth planhigion ar gyfer UA5 Cynnal Cynefinoedd ac UA8 Rheoli Gwrychoedd yn unig. Ni chaiff effeithiau Gweithredoedd Cyffredinol eraill eu modelu, yn benodol:

- UA6 Creu Cynefin Dros Dro: mae'r gweithredoedd a fodelwyd (ymylon glaswelltir garw ar dir âr a gwyndynnydd cymysg ar laswelltir wedi'i wella) wedi'u pennu'n rhai dros dro ac nid ydynt ynghlwm wrth leoliad penodol ac felly maent yn annhebygol o bara ar safle yn ddigon hir i gael effaith barhaol ar fioamrywiaeth planhigion yn benodol.
- UA9 Cynnal Coetiroedd: gall cynnal coetiroedd arwain at effeithiau amgylcheddol amrywiadwy yn dibynnu ar gyflwr ac oedran y coetir yn y llinell sylfaen a'r math o goetir. Mae'r ansicrwydd ynglŷn â'r ffactorau llinell sylfaen hyn a'r diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai'r coetir yn cael ei gynnal neu a fyddai hyn yn newid yn golygu na chaiff effeithiau eu modelu, gan gynnwys bioamrywiaeth planhigion.

O dan UA5 Cynnal Gwrychoedd, caiff 1 famog fesul hectar (neu wartheg eidion union gyfatebol) ei gwaredu lle yr efelychir bod y parsel o dir uwchlaw lefel stocio'r canllaw. Y gostyngiad yw 1 famog/gwartheg eidion cyfatebol, ni waeth faint o unedau da byw y mae'r parsel yn eu stocio uwchlaw'r lefel a argymhellir. Mae dwyseddau stocio yn gysylltiedig ag uchder llystyfiant sydd, yn ei dro, yn gysylltiedig â chyflwr.

Nid oes unrhyw wahaniaethau o ran y gyfradd ymuno efelychiadol rhwng senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir ymhlith y plotiau o gynefin a arolygwyd wrth fodelu. Felly, mae'r canlyniadau ar gyfer effaith a fodelwyd yr un fath o dan y ddau senario.

Yn y llinell sylfaen, mae uchder llystyfiant yn y rhan fwyaf o blotiau o gynefin yn anffafriol ac felly maent mewn cyflwr is-optimaidd (gweler Tabl 96). Mae cyflwyno UA5 Cynnal Cynefinoedd, a'r gostyngiad cysylltiedig mewn da byw ar dir cynefin a fodelwyd, yn efelychu cynnydd yn uchder llystyfiant ar gyfer pob cynefin bras ac felly leihad yn nifer y lleoliadau mewn cyflwr is-optimaidd. Fodd bynnag, mae'r effaith yn fach, ac efelychir y bydd 11% o blotiau yn symud i uchder llystyfiant posibl ffafriol oherwydd y lleihad mewn stoc.

Yn ôl math o gynefin bras, yr effaith fwyaf a fodelwyd yw'r effaith o ran Corsydd, a hynny am fod disgwyl i'r gostyngiad o 1 famog fesul hectar arwain at ddwysedd stocio sero mewn llawer o achosion, sy'n adlewyrchu'r pwysau pori isel iawn i ddechrau. Caiff hyn ei gasglu o uchder y llystyfiant a welwyd lle ceir llystyfiant a welwyd mewn Gorgors neu Gors yn yr arolwg llinell sylfaen. Roedd uchder llystyfiant yn agos i'r lefel optimaidd ac nid oes angen fawr ddim newid o ran dwysedd stocio iddo symud i'r uchder optimaidd.

*Tabl 96: UA5 Cynnal Cynefinoedd: effaith efelychiadol ar uchder llystyfiant*

| Cynefin bras | Senario | % y plotiau a fodelwyd a oedd islaw uchder llystyfiant optimaidd |
|---|---|---|
| **Glaswelltir asidig** | Llinell sylfaen | 83 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir | 77 |
| **Rhos Corlwyn** | Llinell sylfaen | 100 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir | 99 |
| **Ffen, Cors a Gwern** | Llinell sylfaen | 100 |
| | Ffordd Ymlaen a Ffefrir | 96 |
| **Cors (gan gynnwys Gorgors)** | Llinell sylfaen | 99 |
| | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir** | **61** |
| **Cyfanswm** | **Llinell sylfaen** | **92** |
| | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir** | **81** |

Mae'r lleihad yn nifer y lleoliadau mewn cyflwr is-optimaidd, er ei fod yn fach, yn ysgogi rhai newidiadau yn addasrwydd cynefinoedd a fodelwyd mewn cynefinoedd yr ucheldir, gwlyptir yr iseldir a rhostir yr iseldir ar gyfer rhywogaethau o blanhigion rhai dangosyddion cadarnhaol o dan y gwaith Monitro Safonau Cyffredin.

Ymhlith yr holl rywogaethau, o dan ddau senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir, ni fydd 41% o rywogaethau o blanhigion a fodelwyd yn gweld unrhyw newid sylweddol o ran amlder efelychiadol y bydd yn digwydd ymhlith plotiau cynefin (gweler Tabl 97). Efelychir y bydd 35% yn digwydd yn amlach ac y bydd 23% yn gostwng. Gwelir cynnydd oherwydd cynnydd o ran addasrwydd cynefin ar gyfer corlwyni cyffredin a rhywogaethau rhostir a chors eraill, a gwelir lleihad mewn rhywogaethau ar laswelltir asidig wedi'i bori.

*Tabl 97: UA5 Cynnal Cynefinoedd: Newid a fodelwyd mewn rhywogaethau o blanhigion*

| Ymateb rhywogaethau o blanhigion i UA5 Cynnal Cynefinoedd | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a (b) cyfrif rhywogaethau | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a (b) canran % |
|---|---|---|
| Amlder cynyddol | 44 | 35 |
| Amlder gostyngol | 29 | 23 |
| Ddim yn sylweddol | 51 | 41 |
| **Cyfanswm** | **124** | **100** |

O dan UA8 Rheoli Gwrychoedd, cymhwysir cynnydd a fodelwyd yn lled ac uchder gwrychoedd dros blotiau ffiniau caeau wrth ymyl gwrychoedd sy'n bodoli eisoes. Newidiadau yn addasrwydd cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau o blanhigion o dan Ddangosydd y Coetir Hynafol i Gymru, planhigion neithdar a dangosydd cadarnhaol rhywogaethau Monitro Safonau Cyffredin ar gyfer glaswelltir iseldir a fodelwyd.

Nid yw 47% o rywogaethau a fodelwyd yn dangos unrhyw newid sylweddol a efelychwyd mewn ymateb i Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a (b). Efelychir cynnydd o ran amlder ar gyfer 21% o rywogaethau, oherwydd cynnydd yn addasrwydd cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau coetir cyffredin ac ymylol (gweler Tabl 98). Efelychir gostyngiadau ar gyfer 31% o rywogaethau a fodelwyd, sy'n gysylltiedig â lefel ostyngol o addasrwydd ar gyfer rhywogaethau glaswelltir wedi'i wella ac wedi'i led-wella. Mae'r newidiadau hyn yn tybio nad oes unrhyw bwysau pori sy'n atal y broses o ledu'r sylfaen gwrychoedd.

*Tabl 98: UA8 Rheoli Gwrychoedd: Newid a fodelwyd mewn rhywogaethau o blanhigion*

| Ymateb rhywogaethau o blanhigion | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a (b) cyfrif | Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a (b) canran % |
|---|---|---|
| Amlder cynyddol | 21 | 21 |
| Amlder gostyngol | 31 | 31 |
| Ddim yn sylweddol | 47 | 47 |
| **Cyfanswm** | **99** | **100** |

## Bioamrywiaeth adar

Efelychir y bydd newid mewn poblogaeth fel canran o'r boblogaeth llinell sylfaen ar gyfer 80 o rywogaethau sy'n gysylltiedig â chynefinoedd gwahanol ledled Cymru o dan y senario gwrthffeithiol a senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir.

Ysgogir newidiadau mewn poblogaeth a fodelwyd (cyfrif rhywogaethau penodol) gan ddefnydd tir a fodelwyd a newidiadau rheoli sy'n dylanwadu ar argaeledd ac addasrwydd sydd eu hangen ar gyfer amodau bridio llwyddiannus.

O dan y senario gwrthffeithiol, efelychir effeithiau ar fioamrywiaeth adar oherwydd newidiadau mewn da byw, mân newidiadau o ran defnydd tir, a newidiadau o ran dwysedd ffermio oherwydd y senario.

O dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, mae effeithiau ar fioamrywiaeth adar hefyd yn cael eu modelu ar gyfer camau penodol o dan UA5 Cynnal Cynefinoedd, UA6 Creu Cynefin Dros Dro ac UA8 Rheoli Gwrychoedd yn unig. Ni chaiff effeithiau Gweithredoedd Cyffredinol eraill eu modelu, yn benodol:

- UA9 Cynnal coetiroedd: gall cynnal coetiroedd arwain at effeithiau amgylcheddol amrywiadwy yn dibynnu ar gyflwr ac oedran y coetir yn y llinell sylfaen a'r math o goetir. Mae ansicrwydd ynglŷn â'r ffactorau llinell sylfaen yn golygu na chaiff effeithiau ar gyfer cynnal coetiroedd eu modelu, gan gynnwys bioamrywiaeth adar.

O dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, nid yw 94% o rywogaethau o adar a fodelwyd yn dangos unrhyw newid mewn ymateb i'r senario, sy'n golygu yr amcanestynnir y bydd unrhyw daflwybrau presennol o ran cynnydd, sefydlogrwydd neu ddirywiad yn aros yr un fath (gweler Tabl 99).

O dan y senario gwrthffeithiol, efelychir y bydd maint y boblogaeth yn cynyddu ar gyfer un rhywogaeth o adar ac y bydd tair arall yn cynyddu ar gyfer senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir. Efelychir y bydd un rhywogaeth yn lleihau o ran maint poblogaeth o dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir. Mae'r newidiadau yn ymylol a dylid eu hystyried yn is na lefel yr ansicrwydd yn y model. Y prif ganlyniad yw un lle nad oes unrhyw ymateb wedi'i fodelu ymhlith yr 80 o rywogaethau o adar mewn ymateb i unrhyw un o'r senarios.

Er nad yw wedi'i adlewyrchu yn yr ymateb a fodelwyd, gellid disgwyl y byddai'r cynnydd o ran cyflwr gwrychoedd (uchder a lled) o dan *A8 Rheoli Gwrychoedd yn cael effaith gadarnhaol fach i gymedrol ar rywogaethau sy'n nythu mewn gwrychoedd megis y llwydfron fach, coch y berllan, ac aderyn y to. Mae'n bosibl bod y diffyg ymateb o'r rhywogaethau hyn yn y gwaith modelu yn ymwneud â chyfuniad o ffactorau methodolegol sy'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd y caiff rhywogaethau o'r fath eu nodi mewn gwrychoedd mewn cyflwr tebyg yn nata'r arolwg llinell sylfaen, ond hefyd leoliad ac addasrwydd y dirwedd ehangach o amgylch

y gwrychoedd hyn. Mae gwell cyflwr gwrychoedd yn debygol o gynnig manteision ehangach lle mae gwrychoedd mewn tirwedd sydd eisoes yn ffafriol i'r rhywogaeth dan sylw.

*Tabl 99: Newidiadau a fodelwyd ym maint y boblogaeth o adar*

| Nifer y rhywogaethau | Cyfrif y senario gwrthffeithiol | Cyfrif Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a (b) | Canran y senario gwrthffeithiol | Ffordd Ymlaen a Ffefrir a a b Canran |
|---|---|---|---|---|
| Yn debygol iawn o gynyddu | 1 | 2 | 1 | 2.5 |
| Yn debygol o gynyddu | 0 | 2 | 0 | 2.5 |
| Dim newid | 79 | 75 | 99 | 94 |
| Yn debygol o leihau | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **80** | **80** | **100** | **100** |

Yn debygol iawn o gynyddu = Cynnydd yn y boblogaeth mewn > 97.5% o efelychiadau

Yn debygol o gynyddu = Cynnydd yn y boblogaeth mewn > 89.5% o efelychiadau

Dim newid = Nid oes yr un o'r uchod yn wir, felly tybir nad amcanestynnir unrhyw newid oherwydd y senario, neu mae hyder mewn newid yn isel.

## *Pennu gwerth ariannol newid mewn gwasanaethau ecosystem (2023 i 2030)*

Pennir gwerth newidiadau a fodelwyd o ran ansawdd aer, ansawdd dŵr, stociau carbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn termau ariannol hyd at 2030. Felly, mae'r gwerthoedd ariannol yn seiliedig ar y dibyniaethau a'r tybiaethau sy'n deillio o'r gwaith modelu ffisegol. Mae'r dulliau arfarnu a'r tybiaethau yn cydymffurfio â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. Mae Tabl 100 yn dangos y mesur ffisegol ar gyfer pob mantais y pennir ei gwerth.

Ac eithrio mesurau i greu cynefin dros dro, tybir y bydd pob newid ar gyfer y senario gwrthffeithiol a senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir yn parhau ar gyfer y cyfnod a fodelwyd at ddibenion amcanestyn yr effeithiau hirdymor. Mae'r holl fanteision ffisegol a fodelwyd a gwaith pennu gwerth economaidd yn seiliedig ar y dybiaeth hon.

Mae gwerthoedd ffisegol a fodelwyd ar gyfer ansawdd dŵr ar gyfer cyfartaledd blynyddol hirdymor newydd. Po fyrraf y cyfnod y pennir gwerth manteision, y lleiaf rhesymol yw tybio bod gwelliannau yn ansawdd dŵr mewn-ffrwd wedi digwydd oherwydd oedi yn y system (maethynnau yn cael eu cadw mewn priddoedd a dylanwad dŵr daear mewn rhai dalgylchoedd). Dylid nodi hyn wrth ystyried manteision.

*Tabl 100: Mesur ffisegol ar gyfer pob mantais y pennir ei gwerth*

| Manteision | Unedau | Math o werth |
|---|---|---|
| Ansawdd aer | Blynyddoedd o Fywyd a Gollir bob blwyddyn | *Reduction in costs of health impacts from air pollution* (Jones et al[214]) |
| Ansawdd dŵr | *Expected changes in WFD status due to changes in P and N* | *Benefit to people from knowing of/ enjoying higher quality freshwater environments (NWEBS values* gan Metcalfe, 2012 a diweddariadau [215]) |
| Nwyon Tŷ Gwydr | Newid net mewn TCO2eq atmosfferig dros 8 mlynedd | Benefit of reducing atmospheric GHG concentrations from non-traded sources (DESNZ, 2023[216]) |

Mae'r ffigurau yn cynrychioli amcangyfrif o werth y newid o ran llesiant i bobl yng Nghymru dros wyth mlynedd (2023-2030) o dan bob senario a fodelwyd.

Efelychir y senario gwrthffeithiol i gynhyrchu cyfanswm o £483 miliwn o bunnau mewn manteision ychwanegol hyd at 2030 (gweler Tabl 101). Mae Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) yn cynhyrchu £376 miliwn ychwanegol o fanteision a fodelwyd hyd at 2030 (cyfanswm o £858 miliwn) ac mae Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b) yn cyhyrchu £369 miliwn ychwanegol (cyfanswm o £851 miliwn) a fodelwyd dros yr un cyfnod.

O'r manteision a fodelwyd a sicrheir o dan y senario gwrthffeithiol, mae'r gwerth mwyaf yn deillio o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (£477 miliwn). O dan ddau senario'r Ffordd Ymlaen a Ffefrir, mae'r fantais fwyaf a fodelwyd hefyd yn deillio o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (£851 miliwn o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a) a £844 miliwn o dan Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b). O dan bob senario, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi'u hosgoi o amaethyddiaeth oherwydd newidiadau o ran da byw a

[214] Jones, L., Vieno, M., Morton, D., Cryle, P., Holland, M., Carnell, E., Nemitz, E., Hall, J., Beck, R., Reis, S., Pritchard, N., Hayes, F., Mills, G., Koshy, A., Dickie, I. (2017). *Developing Estimates for the Valuation of Air Pollution Removal in Ecosystem Accounts. Final report for Office of National Statistics*, Gorffennaf 2017.

[215] Metcalfe, P. (2012) *Updating the National Water Environment Benefit Survey Value. Report for Defra.*
Metcalfe, P. (2012). *Update of CRP WFD Benefit Value - Economic Component*, adroddiad i Asiantaeth yr Amgylchedd.

[216] DESNZ. (2023). Pennu pris defnydd ynni a nwy tŷ gwydr. *Supplementary guidance to the HM Treasury Green Book on Appraisal and Evaluation in Central Government. Data Tabls 1 to 19: supporting the toolkit and the guidance*

mewnbynnau a fodelwyd yn brif elfen o'r effaith hon, gyda chyfraniad bach iawn o newid defnydd tir a chyfraniad cyfyngedig o gynnal gwrychoedd o dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir (gweler Tabl 102).

Mae manteision o ran ansawdd dŵr yn cyfrannu'r gwerth mwyaf ond un a fodelwyd o dan bob senario. O dan y senario gwrthffeithiol, pennir gwerth manteision o well ansawdd dŵr a fodelwyd ar £4.8 miliwn hyd at 2030. Mae manteision a fodelwyd o dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir fymrym yn uwch (£5.21 miliwn o dan y ddau senario), oherwydd gostyngiadau mwy a fodelwyd o ran stocio a mewnbynnau o gymharu â'r senario gwrthffeithiol.

Mae manteision o ran ansawdd aer yn cyfrannu leiaf at gyfanswm gwerth amcangyfrifedig manteision ychwanegol hyd at 2030 o dan bob senario. O dan y senario gwrthffeithiol, pennir gwerth y fantais a fodelwyd hyd at 2030 ar £0.8 miliwn, oherwydd allyriadau amonia wedi'u hosgoi o leihau unedau da byw godro a mewnbynnau. O dan senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir, pennir gwerth manteision ansawdd aer a fodelwyd ar £2 filiwn o dan y ddau senario. Ysgogir y fantais ychwanegol hon gan y cynnydd yn arwynebedd gwrychoedd a nifer y coed mewn gwrychoedd, ochr yn ochr â gostyngiadau ychwanegol o ran stocio.

Dylid nodi bod gwerthoedd cymharol ansawdd aer ac ansawdd dŵr yn sicrhau newid dros amser hyd at 2123 ar gyfer y Ffordd Ymlaen a Ffefrir. Y rheswm dros hyn yw effaith yr oedi a gymhwysir wrth bennu gwerth y fantais ansawdd aer a fodelwyd, er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y gwerthoedd ffisegol yn gynrychioliadol o'r adeg pan fydd y coed a'r gwrychoedd wedi tyfu'n llawn, sef 5 mlynedd ar gyfer y fantais a sicrheir gan wrychoedd a 40 mlynedd ar gyfer y fantais a sicrheir gan goed. Yn ystod y cyfnodau hynny bydd y fantais yn cynyddu i'w llawn botensial, ac yna'n aros yn sefydlog.

*Tabl 101: Crynodeb o werthoedd gwasanaethau ecosystem o dan y senario gwrthffeithiol a senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir hyd at 2030.*

| **Manteision o 2023 hyd at 2030** | **Gwrthffeithiol** | | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a)** | | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b)** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mesur ffisegol** | **GPN, 8 mlynedd, £m** | **Mesur ffisegol** | **GPN, 8 mlynedd, £m** | **Mesur ffisegol** | **GPN, 8 mlynedd, £m** |
| Ansawdd aer | 5.3 o Flynyddoedd o Fywyd a Gollir | 0.84 | 9.08 o Flynyddoedd o Fywyd a Gollir | 1.94 | 9.02 o Flynyddoedd o Fywyd a Gollir | 1.93 |
| Ansawdd dŵr | 21 Gwella<br>0 Dirywio | 4.8 | 25 Gwella,<br>0 Dirywio | 5.21 | 25 Gwella<br>0 Dirywio | 5.21 |
| Nwyon Tŷ Gwydr | Lleihad o 1.796m tCO2e | 477 | Lleihad o 3.205m tCO2e | 851 | Lleihad o 3.178m tCO2e | 844 |
| **Cyfanswm (£m)** | - | **482.6** | - | **858.1** | - | **851.1** |

*Tabl 102: Dadansoddiad o werthoedd gwasanaethau ecosystem nwyon tŷ gwydr o dan y senario gwrthffeithiol a senarios y Ffordd Ymlaen a Ffefrir hyd at 2030*

| **Manteision o ran nwyon tŷ gwydr o 2023 hyd at 2030** | **GPN y senario gwrthffeithiol, £m** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (a), GPN, £m** | **Ffordd Ymlaen a Ffefrir (b), GPN, £m** |
|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | 477 | 827 | 820 |
| Defnydd tir | -0.22 | 25 | 24 |
| Gwlyptiroedd | 0.21 | 0.22 | 0.22 |
| **Cyfanswm** | **477** | **851** | **844** |

## *Consortiwm a arweinir gan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol*

Gwnaeth y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol fodelu effaith Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar y canlynol:

- 8,781 o ffermydd amser llawn;
- 6,774 o ffermydd rhan amser.

Gan dybio cyfradd ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o 100%. Nodir y canlyniadau ynglŷn ag Incwm Busnes Fferm fel newidiadau yn yr Incwm Busnes Fferm o'u cymharu â'r sefyllfa bresennol.

Cyfanswm yr arwynebedd a gwmpesir gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw 1.49m hectar (pob fferm), gyda 265k hectar o gynefin lled-naturiol sy'n bodoli eisoes a 27k hectar o gynefin a grëwyd i gydymffurfio â Rheol 10% y Cynllun – mae'r ddau arwynebedd yn cael taliadau cynnal cynefin o dan yr Haen Gyffredinol (gweler Tabl 103). Mae coetir sy'n bodoli eisoes yn cyfrif am bron 66k hectar ac mae'r arwynebedd hwn yn cael y taliad am gynnal coetir. Mae tir comin yn cyfrif am ychydig dros 81k hectar a chaiff ei fodelu o dan y taliad cynnal tir comin (ond mae'r taliad hwn bellach o dan yr Haen Gydweithredol). Mae

cyfanswm arwynebedd o 1.49m hectar yn cael y taliad fferm gyfan a'r taliad gwerth cymdeithasol ac o ran yr olaf, modelwyd dau werth y taliad hwn.

*Tabl 103: Arwynebedd tir amcangyfrifedig a reolwyd yn y model*

| | **Pob fferm** | | **Ffermydd amser llawn** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm yr hectarau** | **Cymedrig fesul fferm** | **Cyfanswm yr hectarau** | **Cymedrig fesul fferm** |
| Cynefin lled-naturiol a gynhelir (hectar) | 264.6k | 17.0 hectar | 231.9k | 26.4 hectar |
| Cynefin lled-naturiol a grëir (hectar) | 27.6k | 1.8 hectar | 22.7k | 2.6 hectar |
| Coetir a gynhelir (hectar) | 65.9k | 4.2 hectar | 51.0k | 5.8 hectar |
| Tir comin a gynhelir (hectar) | 81.6k | 5.2 hectar | 74.3k | 8.5 hectar |
| Cyfanswm arwynebedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (hectar) | 1,488.9k | 96.7 hectar | 1,257.2k | 143.2 hectar |

Mae'r model yn amcangyfrif y gostyngiad mewn stocio sydd ei angen oherwydd canllaw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gynefin sy'n bodoli eisoes a chynefin newydd ei greu. Caiff y mwyafrif o'r cyfyngiadau pori yn yr Haen Gyffredinol eu hannog ond nid ydynt yn orfodol. Mae'r cyfyngiad ar wlyptiroedd amgaeëdig (mawndir) gan y bydd pori'r math hwn o gynefin yn ystod y gaeaf yn achosi niwed parhaol posibl. Mae'r gostyngiad mewn stocio yn adlewyrchu'r ffaith bod stoc wedi cael ei ddadleoli o dir cynefin a chynefin newydd ei greu a'i ailddyrannu o fewn y busnes fferm a bod rhai busnesau fferm wedi dadleoli rhan o'r stoc. Mae faint o stoc sy'n cael ei dadleoli ac yna'i hailddyrannu o fewn y busnes fferm neu ei dadleoli yn elfen allweddol o ansicrwydd (ac yn dibynnu ar ddadansoddiad o sensitifrwydd). Mae'r dosbarthiad da byw a ddadleolwyd o fusnesau fferm yn anwastad. Yn achos y rhan fwyaf o'r mathau o fferm a meintiau ffermydd ni welir unrhyw ddadleoli ond mae rhai ffermydd yn gweld rhywfaint, yn enwedig ffermydd mawr iawn a ffermydd godro. Yr amcangyfrif achos gwaethaf yw gostyngiad o 65.5k (5.5%) mewn unedau da byw a fodelwyd, sy'n cynhyrchu gostyngiad amcangyfrifedig yng ngwerth allbwn amaethyddol cyfanredol o £80m (4.5%) a gostynigad llafur safonol o 4.5% (gweler Tabl 104).

*Tabl 104: Newidiadau ffisegol amcangyfrifedig*

| | **Pob fferm** | **Ffermydd amser llawn** |
|---|---|---|
| Gostyngiad mewn da byw (unedau da byw) | 65.6k | 63.4k |
| % y newid | -5.5% | -5.6% |
| Gostyngiad mewn allbwn (£m) | £80.2m | £79.0m |
| % y newid | -4.5% | -4.7% |
| Newid yn y Gofyniad Llafur Safonol | 1262 | 1,221 |
| % y newid | -4.0% | -4.2% |

Yr effaith net ar Incwm Busnes Fferm cyfanredol yw gostyngiad o rhwng £79m-£146m (pob fferm), yn dibynnu ar werth y Taliad Gwerth Cymdeithasol, ac i ffermydd amser llawn gostyngiad o rhwng £60m-£117m yn unig (gweler Tabl 105).

*Tabl 105: Yr effaith amcangyfrifedig ar Incwm Busnes Fferm cyfanredol*

| | **Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar** | | **Taliad Gwerth Cymdeithasol o £70 yr hectar** | |
|---|---|---|---|---|
| | Pob fferm | Ffermydd amser llawn | Pob fferm | Ffermydd amser llawn |
| Cyfanswm taliad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy | £243.7m | £206.1m | £176.7m | £149.6m |
| Llai taliadau presennol | £241.8m | £197.3m | £241.8m | £197.3m |
| Llai gostyngiad GM | £47.7m | £47.0m | £47.7m | £47.0m |
| Llai costau cydymffurfio eraill | £33.4m | £22.2m | £33.4m | £22.2m |

| | Taliad Gwerth Cymdeithasol o £115 yr hectar | | Taliad Gwerth Cymdeithasol o £70 yr hectar | |
|---|---|---|---|---|
| Newid mewn Incwm Busnes Fferm cyfanredol | £79.3m | -£60.4m; | -£146.3m | -£117.0m |
| newid canolrifol mewn Incwm Busnes Fferm/fferm | -£3.6k | -£4.6k | -£7.0k | -£9.0k |

## *Dadansoddiad o sensitifrwydd*

Mae'r effaith ar Incwm Busnes Fferm cyfanredol yn sensitif i dybiaethau ynglŷn â nifer y stoc sy'n cael eu hailddyrannu o gynefinoedd i fannau eraill ar y fferm, a nifer y stoc sy'n cael ei dadleoli o'r fferm – mae'r effaith hon yn arbennig o bwysig i ffermydd godro ac i ffermydd mawr. Mae'r effaith ar Incwm Busnes Fferm cyfanredol hefyd yn sensitif i dybiaethau ynglŷn â nifer y ffermydd sydd eisoes yn mynd i gostau cydymffurfio ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Er mwyn profi'r sensitifrwydd, cymhwysir tri senario gwahanol at bob fferm ar gyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol (gweler Tabl 106).

*Tabl 106: Senarios a brofwyd mewn dadansoddiad sensitifedd*

| | Senario 1 | Senario 2 | Senario 3 |
|---|---|---|---|
| Stocio | Dadleoli 65.5k o unedau da byw pori o ffermydd | Dim ond 70% o ffermydd y modelwyd y byddent yn dadleoli stoc sy'n gwneud hynny | Dim ond 40% o ffermydd y modelwyd y byddent yn dadleoli stoc sy'n gwneud hynny |
| Costau cydymffurfio | Mae pob fferm yn mynd i gostau cydymffurfio | Mae 70% o ffermydd yn mynd i gostau cydymffurfio | Mae 40% o ffermydd yn mynd i gostau cydymffurfio |

Mae'r dadansoddiad o sensitifrwydd yn llunio amcangyfrifon o'r gostyngiad mewn Incwm Busnes Fferm cyfanredol o rhwng £31m (achos gorau) a £79m (achos gwaethaf) (gweler Tabl 107). Mae'r rhain yn trosi'n effeithiau cyfartalog ar lefel fferm fel a ganlyn (gweler Tabl 108):

*Tabl 107: Yr effaith ar Incwm Busnes Fferm cyfanredol – dadansoddiad o sensitifrwydd (£m)*

| Pob fferm, cyfradd uchel y Taliad Gwerth Cymdeithasol | Senario 1 | Senario 2 | Senario 3 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm taliad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy | 243.7 | 243.7 | 243.7 |
| Llai taliadau presennol | 241.8 | 241.8 | 241.8 |
| Llai gostyngiad GM | 47.7 | 33.4 | 19.1 |
| Llai costau cydymffurfio eraill | 33.4 | 23.4 | 13.4 |
| Newid mewn Incwm Busnes Fferm cyfanredol | -79.3 | -54.9 | -30.6 |

*Tabl 108: Yr effaith ar Incwm Busnes Fferm ar lefel fferm – dadansoddiad o sensitifrwydd*

| Taliad Gwerth Cymdeithasol uchel | Senario 1 | Senario 2 | Senario 3 |
|---|---|---|---|
| Taliad canolrifol fesul fferm | £9.1k | £9.1k | £9.1k |
| Taliad cymedrig fesul fferm | £15.7k | £15.7k | £15.7k |
| % y mae eu Hincwm Busnes Fferm yn cynyddu | 10% | 12% | 15% |
| Y rhai sy'n gweld cynnydd canolrifol yn eu Hincwm Busnes Fferm (£k) | £3.9k | £3.7k | £3.3k |
| % yr Incwm Busnes Fferm sy'n gostwng | 90% | 88% | 85% |
| Y rhai sy'n gweld cynnydd cymedrig yn eu Hincwm Busnes Fferm (£k) | -£3.6k | -£3.4k | -£2.8k |

Mae'r canlyniadau yn Tabl 108 yn dangos bod ffermydd y mae eu Hincwm Busnes Fferm yn cynyddu (10% – 15% o ffermydd), gyda chynnydd canolrifol o rhwng £3.3k a £3.9k. Mae mwy o ffermydd y modelwyd y byddant yn gweld gostyngiad yn eu Hincwm Busnes Fferm (85% i 90% o ffermydd) gyda gostyngiad canolrifol o £2.8k i £3.6k.

## D. DADANSODDIAD GWERTH AM ARIAN O'R GWEITHREDOEDD OPSIYNOL A CHYDWEITHREDOL

Mae'r Atodiad hwn yn crynhoi'r dadansoddiad o werth am arian pob un o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol Blwyddyn 1. Mewn rhai achosion, bu modd mesur costau a manteision disgwyliedig a phennu eu gwerth ariannol; mewn achosion eraill, crynhoir y dystiolaeth sydd ar gael.

## Crynodeb o'r dadansoddiad cost a budd o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol

Mae'r Atodiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r achos economaidd dros bob un o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Ceir manylion llawn am y ffynonellau data, tybiaethau a thystiolaeth sy'n sail i'r asesiad hwn yn yr atodiad.

I ddechrau, rydym yn cyflwyno crynodeb o'r dadansoddiadau ar gyfer y Gweithredoedd Opsiynol hynny lle rydym wedi llwyddo i bennu gwerth ariannol rhai neu bob un o fanteision tebygol y Weithred er mwyn canfod Gwerth Cymdeithasol Presennol Net amcangyfrifedig a Mantais amcangyfrifedig: Cymhareb Cost. Mae hyn yn wir am y 7 Gweithred Opsiynol ganlynol:

### *Gweithred Opsiynol: Creu Coetir Newydd ac Amaethgoedwigaeth*

#### *Disgrifiad*

Mae hon yn rhoi cymorth i lunio Cynllun Creu Coetir, a chymorth i'w roi ar waith drwy (1) Grant Creu Coetir y Grantiau Bach ar gyfer plannu coed i greu coed cysgodi, wrth ymyl cyrsiau dŵr, ac yng nghorneli caeau neu gaeau bach at ddibenion cysgodi stoc, bioamrywiaeth a thanwydd pren - mae cyllid ar gael i blannu rhwng 0.1 hectar a 1.99 hectar; a (2) y Grant Creu Coetir sy'n cynnig cyllid ar gyfer plannu coed, ffensio a gatiau i ffermwyr a rheolwyr tir, i blannu dros 0.25 hectar. Ceir taliadau cynnal a chadw a phremiwm hefyd i sicrhau bod y coed yn ymwreiddio.

#### *Asesiad gwerth am arian*

| | |
|---|---|
| **Gwerth Presennol Net Costau** | £93m |
| **Gwerth Presennol Net Manteision** | £377.7m |
| **Gwerth Cymdeithasol Presennol Net** | £284.7m |
| **Cymhareb Cost a Budd** | 4.1 |
| **Manteision a gynhwyswyd** | Bioamrywiaeth, atafaelu carbon ac ansawdd aer. |
| **Manteision a hepgorwyd** | • Mwy o gysgod a manteision eraill i dda byw. Mae hyn yn debygol o fod yn anarwyddocaol yn y byrdymor ond yn dod yn fwy arwyddocaol dros y tymor hwy. Mae hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol i ffermwyr unigol, ond ar lefel Cymru gyfan bydd arwyddocâd y fantais hon, o'i chymharu â chostau amcangyfrifedig, yn dibynnu ar faint o ffermwyr sy'n ymgymryd â'r Weithred. |
| **Hyder cyffredinol yn yr amcangyfrif** | Yn gyffredinol, mae gennym hyder lefel ganolig i uchel yn yr amcangyfrif, oherwydd cadernid yr amcangyfrifon o fanteision ar gyfer atafaelu carbon, a rheoleiddio ansawdd aer, ond ceir mwy o ansicrwydd ac felly lai o hyder yn yr amcangyfrif o fantais ar gyfer bioamrywiaeth. |

### *Gweithred Opsiynol: Rheoli a Gwella Cynefinoedd*

#### *Disgrifiad*

O dan y Weithred hon, bydd ffermwyr yn cael cymorth i reoli a gwella cynefinoedd sy'n bodoli eisoes yn ychwanegol at y gofyniad i gynnal y cynefin o dan yr Haen Gyffredinol. Mae rhestr o weithredoedd arfaethedig ynglŷn â chynefinoedd wedi cael ei datblygu – gweler yr Atodiad – ac mae dulliau gweithredu cyffredin yn cynnwys:

- allgáu stoc lle y bo angen;
- ailgyflwyno pori ysgafn lle y bo angen;
- rheoli ychwanegol;
- adfer cynefinoedd;
- oedi cyn torri;
- rheoli gwlyptiroedd;
- rheoli tir âr ac ymylon caeau.

#### *Asesiad gwerth am arian*

| | |
|---|---|
| **Gwerth Presennol Net Costau** | £11m |

| | |
|---|---|
| **Gwerth Presennol Net Manteision** | £80.4m |
| **Gwerth Cymdeithasol Presennol Net** | £69.4m |
| **Cymhareb Cost a Budd** | 7,3 |
| **Manteision a gynhwyswyd** | Bioamrywiaeth |
| **Manteision a hepgorwyd.** | Nid ydym wedi llwyddo i bennu gwerth ariannol y manteision canlynol:<br>Gwelliannau lles o ganlyniad i well hamddena a thirwedd – mae hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol dros y tymor hwy, a bydd ei arwyddocâd o gymharu â chostau yn dibynnu ar y niferoedd sy'n ymgymryd â'r Gweithredoedd a'u heffaith ar y newid yn ansawdd tirwedd a gwerthfawrogiad pobl ohono.<br>Gwerth cymdeithasol allyriadau nwyon tŷ gwydr – mae hyn yn debygol o fod yn llai arwyddocaol yn y byrdymor ond dod yn fwy arwyddocaol dros yr hirdymor. Nid yw ei arwyddocâd o gymharu â chostau yn hysbys.<br>Gwerth preifat da byw i ffermydd – bydd hyn yn arwyddocaol i ffermwyr unigol. |
| **Hyder cyffredinol yn yr amcangyfrif** | Yn gyffredinol, mae gennym hyder lefel ganolig yn yr amcangyfrif, am fod mwy o ansicrwydd ac felly lai o hyder yn amcangyfrif o fantais ar gyfer bioamrywiaeth |

### *Gweithred Opsiynol: Rhoi'r Cynllun Rheoli Safle Dynodedig ar waith*

#### *Disgrifiad*

Ar ôl datblygu cynllun rheoli safle dynodedig yn yr Haen Gyffredinol bydd ffermwyr yn cael cymorth i gyflawni'r gweithredoedd a amlinellir yn y cynllun i sicrhau bod y safle dynodedig yn cael ei reoli yn y ffordd a ddymunir. Bydd hyn yn cyfrannu at ein hymrwymiad rhyngwladol o dan y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (gan gynnwys 30x30) erbyn 2030.

#### *Asesiad gwerth am arian*

| | |
|---|---|
| **Gwerth Presennol Net Costau** | £28.9m |
| **Gwerth Presennol Net Manteision** | £551.5m |
| **Gwerth Cymdeithasol Presennol Net** | £522.9m |
| **Cymhareb Cost a Budd** | 19.1 |
| **Manteision a gynhwyswyd** | Y gwasanaethau ecosystem canlynol a ddarperir gan fioamrywiaeth ar SoDdGA â Statws Cadwraethol Ffafriol: darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth; Hinsawdd a rheoleiddio dŵr; Ymdeimlad o le; Rhywogaethau carismatig/angharismatig; Ymchwil ac addysg |
| **Hyder cyffredinol yn yr amcangyfrif** | Yn gyffredinol, mae gennym hyder lefel ganolig yn yr amcangyfrif. Mae'r manteision yn dibynnu ar un astudiaeth yn unig a gyhoeddwyd gan Defra yn 2011, ac sy'n adlewyrchu data ar werth SoDdGA a gasglwyd yn 2010. Mae'n debygol bod gwerth ffafriaeth y cyhoedd am wasanaethau ecosystem gan SoDdGA wedi newid ers 2010, ac mae hyn yn ychwanegu mwy o ansicrwydd i'r amcangyfrifon. |

### *Gweithred Opsiynol: Adfer gwrychoedd neu blannu rhai newydd*

#### *Disgrifiad*

Cymorth i adfer gwrychoedd, yn ogystal â phlannu gwrychoedd newydd, ynghyd â chamau rheoli ychwanegol (yn y tymor hwy). Creu ac adfer, sy'n cyd-fynd â'r hyn a gynigir ar hyn o bryd drwy Grantiau Bach – Amgylchedd Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bondocio gwrychoedd – Plannu a bondocio gwrychoedd
- Gosod gwrychoedd: traddodiadol – Mae'r defnydd o ddulliau traddodiadol wedi'i gynnwys am fod y sylfaen gostau yn wahanol
- Plannu gwrychoedd – mae angen cynnwys cyngor ychwanegol i helpu i leoli gwrychoedd newydd i sicrhau canlyniadau ehangach, e.e. gwytnwch ecolegol a thraws llethr i gefnogi canlyniadau dŵr

#### *Asesiad gwerth am arian*

Yn seiliedig ar gynnydd o 10% yng nghyfanswm y gwrychoedd sy'n cael eu hadfer a'u plannu bob blwyddyn, a chynnydd o 48% yng nghyfanswm y gwrychoedd sy'n cael eu hadfer a'u plannu bob blwyddyn.

| | |
|---|---|
| **Gwerth Presennol Net Costau** | £11.7m - £24.4m |

| | |
|---|---|
| **Gwerth Presennol Net Manteision** | £2.4m - £4.9m |
| **Gwerth Cymdeithasol Presennol Net** | £9.4m - £19.5m |
| **Cymhareb Cost a Budd** | -0.2 |
| **Manteision a gynhwyswyd** | Ar gyfer gwrychoedd newydd a blannwyd: atafaelu carbon, ansawdd aer, a bioamrywiaeth. Ar gyfer gwrychoedd a adferwyd: bioamrywiaeth. |
| **Manteision a hepgorwyd** | Nid ydym wedi llwyddo i bennu gwerth ariannol y manteision canlynol:<br>• Ar gyfer gwrychoedd a adferwyd: atafaelu carbon ac ansawdd aer. Mae'r fantais hon yn debygol o fod yn arwyddocaol dros yr hirdymor ond mae arwyddocâd y fantais o'i chymharu â chostau yn aneglur.<br>• Ar gyfer pob gwrych, gwelliannau lles tirwedd o ansawdd gwell. Mae hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol ond mae arwyddocâd y fantais o'i chymharu â chostau yn aneglur.<br>• Ar gyfer pob gwrych: y manteision preifat i ffermwyr o ganlyniad i beillio cnydau amlflodeuog yn well a llai o niwed a achosir gan blâu. Gallai'r fantais hon fod yn arwyddocaol dros yr hirdymor.<br>Ar gyfer pob gwrych, gwerth lles o ansawdd dŵr gwell oherwydd llai o erydu pridd a dŵr ffo. Mae effaith gwrychoedd newydd a gwrychoedd a adferwyd ar y fantais hon yn debygol o fod yn weddol arwyddocaol dros yr hirdymor, ond (o ystyried effaith gymharol gyfyngedig gwrychoedd) nid o'i chymharu â chostau'r weithred hon. |
| **Hyder cyffredinol yn yr amcangyfrif** | Yn gyffredinol mae gennym hyder lefel isel i ganolig yn yr amcangyfrif oherwydd arwyddocâd tebygol y manteision a hepgorwyd o'r amcangyfrif o'r fantais. |

### *Gweithred Opsiynol: Ymgymryd â gweithredoedd i wella iechyd pridd a chyflwyno gorchudd cnydau amlrywogaethol.*

#### *Disgrifiad*

Mae gweithredoedd o dan yr Haen Opsiynol yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Diogelu priddoedd rhag erydu drwy fesurau rheoli priodol mewn ardaloedd sy'n wyneb risg.
- Cynnal y storfeydd presennol o ddeunydd organig pridd a chynyddu lle y bo'n briodol, drwy reoli pridd yn effeithiol.
- Cydbwyso cylchoedd maethynnau pridd er mwyn sicrhau y caiff swyddogaethau a gwasanaethau priddoedd eu cyflawni'n effeithiol.
- Cynnal a gwella strwythur pridd, gyda ffocws ar leihau cywasgu pridd i'r eithaf drwy ei reoli'n briodol yn ystod amodau gwlyb risg uchel.
- Diogelu a meithrin bioamrywiaeth pridd drwy ei reoli'n briodol.

#### *Asesiad gwerth am arian*

| | |
|---|---|
| **Gwerth Presennol Net Costau** | £0.5m |
| **Gwerth Presennol Net Manteision** | £0.04m |
| **Gwerth Cymdeithasol Presennol Net** | £0.46m |
| **Cymhareb Cost a Budd** | 0.1 |
| **Manteision a gynhwyswyd** | Manteision lles o ganlyniad i leihau nitradau, ffosfforws a dŵr ffô gwaddodion drwy ddefnyddio cnydau gorchudd |
| **Manteision a hepgorwyd** | Nid ydym wedi llwyddo i bennu gwerth ariannol y manteision canlynol:<br>• Busnes fferm (GYG) mwy proffidiol/cynhyrchiol a chostau gwrtaith is. Mae tystiolaeth o Arolwg 2023/4 o Fusnesau Fferm yn dangos bod costau gwrtaith fesul hectar gweithredol[217] yn amrywio o £81 (ffermydd gwartheg a defaid ucheldir); £94 (ffermydd gwartheg a defaid iseldir); £233 (ffermydd tir uchel ac ucheldir) a £244 (ffermydd godro iseldir). Efallai y bydd y costau gwrtaith sy'n cael eu harbed yn bwysig i ffermwyr unigol ond byddant yn llai arwyddocaol ar raddfa Cymru gyfan oherwydd arwynebedd cyfyngedig y tir a gwmpesir gan y weithred hon. |

[217] Ystyr hectarau gweithredol yw cyfanswm arwynebedd fferm llai'r arwynebedd lle ceir ffyrdd, coetir, tir gwastraff ac adeiladau. Mynegir pori garw yn nhermau porfa gyfatebol.

| | |
|---|---|
| | • Gwerth cymdeithasol allyriadau nwyon tŷ gwydr is. Bydd hyn yn llai arwydocaol ar raddfa Cymru gyfan oherwydd arwynebedd cyfyngedig y tir a gwmpesir gan y weithred hon<br>• Gwelliannau lles o ganlyniad i wella bioamrywiaeth, gan gynnwys adfer rhywogaethau yn well. Bydd hyn yn llai arwydocaol ar raddfa Cymru gyfan oherwydd arwynebedd cyfyngedig y tir a gwmpesir gan y weithred hon<br>• Gwasanaethau ecosystem eraill: Rheoli plâu yn fiolegol; Mwyneiddio maethynnau planhigion; Ffurfio pridd; Sefydlogi nitrogen; Ffrwythlondeb pridd; Llif hydrolegol; Esthetig; Peillio. Rydym wedi amcangyfrif mantais y gwasanaethau ecosystem hyn ar gyfer tir a ffermir yn organig (gweler isod), ond nid ydym yn gallu trosglwyddo'r dystiolaeth hon i fanteision y weithred hon. Fodd bynnag, mae'r weithred organig yn dangos maint y manteision pan fydd modd cynnwys cyfrif llawn o werth gwasanaethau ecosystem. |
| **Hyder cyffredinol yn yr amcangyfrif** | Yn gyffredinol, mae gennym hyder lefel ganolig yn yr amcangyfrif gan fod categorïau pwysig o fanteision gwasanaethau ecosystem wedi'u hepgor, ac mae'r weithred ynglŷn â ffermio tir yn organig (isod) yn dangos maint y manteision a hepgorir. Fodd bynnag, bydd effaith y rhain ar lefel Cymru gyfan yn gyfyngedig oherwydd arwynebedd cyfyngedig y tir a gwmpesir gan y weithred hon. |

### *Gweithred Opsiynol: Cefnogi ffermio organig (ardystiedig a throsi)*

#### *Disgrifiad*

O dan y weithred hon, caiff ffermwyr gymorth i drosi i safonau organig ar eu ffermydd, neu eu cynnal:

#### *Asesiad gwerth am arian*

| | |
|---|---|
| **Gwerth Presennol Net Costau** | £9.4m |
| **Gwerth Presennol Net Manteision** | £355.0m |
| **Gwerth Cymdeithasol Presennol Net** | £345.6m |
| **Cymhareb Cost a Budd** | 37.9 |
| **Manteision a gynhwyswyd** | Gwasanaethau ecosystem: Rheoli plâu yn fiolegol; Mwyneiddio maethynnau planhigion; Ffurfio pridd; Cronni carbon; Sefydlogi nitrogen; Ffrwythlondeb pridd; Llif hydrolegol; Esthetig; Peillio |
| **Manteision a hepgorwyd** | Nid ydym wedi llwyddo i bennu gwerth ariannol y manteision canlynol:<br>• Effaith bwyd organig ar iechyd. Nid ydym yn gallu asesu maint nac arwyddocâd y fantais hon, ac felly nid yw arwyddocâd y fantais o'i chymharu â chostau'r weithred yn hysbys.<br>• Yr effaith ar gynhyrchiant. Nid ydym yn gallu asesu maint nac arwyddocâd y fantais hon, ac nid yw ei harwyddocâd o'i chymharu â chostau yn hysbys. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu lefelau cynnyrch is a mwy amrywiadwy o gnydau organig. |
| **Hyder cyffredinol yn yr amcangyfrif** | Yn gyffredinol, hyder lefel isel sydd gennym yn yr amcangyfrif, am ei fod ond yn seiliedig ar un astudiaeth yn unig o Seland Newydd a gyhoeddwyd yn 2008 ac mae'n aneglur i ba raddau y gellir trosglwyddo'r canlyniadau hyn i gyd-destun Cymru. |

### *Gweithred Opsiynol: Creu cynefinoedd dros dro a pharhaol, gan gynnwys pyllau a phyllau dŵr tymhorol*

#### *Disgrifiad*

Mae'r gweithredoedd hyn yn cario gweithredoedd o dan UA8 ymlaen (lle nad oes eu hangen i fodloni'r gofyniad ynglŷn â 10% o gynefin) ochr yn ochr â gweithredoedd i greu cynefin parhaol newydd ar dir wedi'i wella. Bydd y gweithredoedd hyn yn cyfrannu at ehangu'r graddau y mae cynefinoedd yn cyfrannu at ein targed 30x30 o dan y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang.

#### *Asesiad gwerth am arian*

| | |
|---|---|
| **Gwerth Presennol Net Costau** | £1.5m |
| **Gwerth Presennol Net Manteision** | £0.2m |

| | |
|---|---|
| **Gwerth Cymdeithasol Presennol Net** | £1.3m |
| **Cymhareb Cost a Budd** | 0.2 |
| **Manteision a gynhwyswyd** | Bioamrywiaeth |
| **Manteision a hepgorwyd** | Nid ydym wedi llwyddo i bennu gwerth ariannol y manteision canlynol:<br>• Gwelliannau lles o ganlyniad i well cyfleusterau hamdden a thirwedd. Nid yw hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol o gymharu â chostau, oherwydd arwynebedd cyfyngedig y tir yr amcangyfrifir y bydd yn cael ei reoli o dan y weithred hon.<br>• Gwerth cymdeithasol allyriadau nwyon tŷ is – mae hyn yn debygol o fod yn llai arwydocaol o'i gymharu â chostau, oherwydd arwynebedd cyfyngedig y tir yr amcangyfrifir y bydd yn cael ei reoli o dan y weithred hon.<br>• Manteision preifat i ffermwyr o ganlyniad i beillio gwell a chostau is am wrteithiau a phlaleiddiaid – er y bydd y fantais hon yn bwysig o bosibl i ffermwyr unigol, ar raddfa Cymru gyfan mae hyn yn debygol o fod yn llai arwyddocaol o gymharu â chostau oherwydd arwynebedd cyfyngedig y tir yr amcangyfrifir y bydd yn cael ei reoli o dan y weithred hon.<br>Gwasanaethau ecosystem eraill: darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth; hinsawdd a rheoleiddio dŵr; ymdeimlad o le; rhywogaethau carismatig/angharismatig; ac ymchwil ac addysg. Rydym wedi amcangyfrif mantais y gwasanaethau ecosystem hyn ar gyfer SoDdGA (gweler uchod), ond nid ydym yn gallu trosglwyddo'r dystiolaeth hon i safleoedd nad ydynt yn SoDdGAau. Fodd bynnag, mae'r manteision i SoDdGAau yn dangos maint y manteision pan fydd modd cynnwys cyfrif llawn o werth gwasanaethau ecosystem. |
| **Hyder cyffredinol yn yr amcangyfrif.** | Yn gyffredinol, mae gennym hyder lefel ganolig yn yr amcangyfrif hwn. |

Ar gyfer y Gweithredoedd Opsiynol sy'n weddill, ac ar gyfer y tair Gweithred Gydweithredol, nid ydym wedi llwyddo i bennu gwerth ariannol manteision tebygol y weithred er mwyn llunio Gwerth Cymdeithasol Presennol Net amcangyfrifedig a Mantais amcangyfrifedig: Cymhareb Cost. Yn gyffredinol, mae hyn yn codi oherwydd diffyg tystiolaeth gadarn a dibynadwy o werth cymdeithasol y fantais i gymdeithas, a fynegir mewn gwerthoedd ariannol, a gynhyrchir. Yn hytrach, rydym yn defnyddio ffynonellau tystiolaeth eraill i lunio amcangyfrif ansoddol o'r gwerth am arian.

### *Gweithred Opsiynol: Rheoli coetir sy'n bodoli eisoes*

#### Disgrifiad

Bydd cwblhau cynllun rheoli coetir yn ei gwneud yn bosibl i geisiadau gael eu gwneud am gymorth ar gyfer gweithiau cyfalaf a nodwyd yng nghynllun gweithrediadau'r cynllun rheoli coetir. Bydd taliad refeniw yn helpu i greu cynllun rheoli coetir, gan gynnig rhesymeg a phorth i gael grant cyfalaf ar gyfer eitemau y bydd eu hangen i gwblhau'r gweithredoedd rheoli.

#### Gwerth am arian

**Yr effaith ar gostau** Amcangyfrifwn y bydd y weithred hon yn costio £2.2m yn 2026, gan gynyddu i £3.96m ar gyfer 2029.

**Yr effaith ar fanteision** Ni allwn amcangyfrif manteision y weithred hon mewn termau ariannol Rhestrwn isod y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r manteision a nodwyd gennym a'u harwyddocâd tebygol.

| | |
|---|---|
| Gwelliannau lles o ganlyniad i wella bioamrywiaeth, gan gynnwys adfer rhywogaethau'n well (adar coetir), hamddena a thirwedd | Mae'r fantais hon yn debygol o ddod yn fwy arwyddocaol dros y tymor hwy, ond mae'n aneglur sut y caiff y fantais hon ei chymharu â'r costau amcangyfrifedig. |
| Gwerth cymdeithasol allyriadau nwyon tŷ gwydr is | Bydd y fantais hon yn arwyddocaol ond bydd eisoes wedi'i gofnodi yn yr asesiad o fanteision Gweithred Gyffredinol UA9: Cynnal Coetiroedd |
| Costau iechyd o ganlyniad i lygredd aer a osgoir | Bydd y fantais hon yn arwyddocaol ond bydd eisoes wedi'i gofnodi yn yr asesiad o fanteision Gweithred Gyffredinol UA9: Cynnal Coetiroedd |
| Mwy o gysgod a manteision eraill i dda byw | Gall coetiroedd sy'n bodoli eisoes gyfrannu at wella iechyd da byw mewn sawl ffordd[218], er enghraifft drwy roi cysgod a lloches. Gallai hyn fod yn arwyddocaol i ffermwyr unigol. |
| Mathau eraill o incwm o goetiroedd | Mae'n bosibl y bydd ffermwyr unigol yn ceisio gwerthu credydau carbon o dan y Cod Carbon Coetiroedd. Mae'r |

[218]Y Comisiwn Coedwigaeth, *Grow your farm business: How trees can benefit your land, crops, and livestock*, 2024

| | |
|---|---|
| | dystiolaeth[219] yn dangos i brisiau uned y Cod Carbon Coetiroedd fwy na dyblu dros bum mlynedd – o bris cyfartalog o £11.02 yn 2020 i £26.85 yn 2024, a bod coetiroedd llydanddail wedi denu pris ychydig yn uwch na choetiroedd coniffer yn 2024. |
| Gwerthiannau pren | Gallai'r rhain fod yn arwyddocaol i ffermwyr unigol. Mae'r dystiolaeth[220] gan Confor yn nodi y gallai teneuo coed fod yn werth £3,000 yr hectar i ffermwr (ar gyfer coedwig 20 hectar gynhyrchiol) ac y gallai gwerthiannau pren (os y'u llwyrgwympwyd) fod yn werth £20,000 yr hectar. |

## *Crynodeb cyffredinol o werth am arian yn seiliedig ar dystiolaeth*

Mae'r costau yn gymharol isel a hefyd y manteision tebygol. Yn gyffredinol, nodir lefel isel o werth am arian ar y cychwyn ond bydd yn cynyddu'n araf dros y tymor hwy wrth i fanteision bioamrywiaeth gronni.

### *Gweithred Opsiynol: Rhoi mesurau bioddiogelwch fferm o safon uwch ar waith*

## *Disgrifiad*

Mae "bioddiogelwch" yn disgrifio'r gweithredoedd sy'n lleihau'r risg o ledaenu clefydau heintus ar ac oddi ar ffermydd. Mae'n hanfodol cadw anifeiliaid a phobl yn iach ac yn ddiogel rhag clefydau. Gallai bioddiogelwch gwael a chyflwyno clefydau gael effeithiau difrifol a hirdymor ar eich fferm ond hefyd ar y sector gwledig ac yn genedlaethol. Byddwn yn annog ac yn gwobrwyo bioddiogelwch da, a fydd yn golygu newid y ffordd y rheolir fferm i rai ffermydd.

Mae manteision bioddiogelwch da yn rhai i bob fferm unigol eu cronni'n bennaf, ond bydd hefyd effeithiau cadarnhaol ar y sector gwledig cyfan a chadwyni cyflenwi bwyd. Bydd hyn yn arwain at effaith genedlaethol gyfunol yn sgil gwell statws iechyd a lles da byw yng Nghymru, a bydd yn gwneud ffermydd da byw yng Nghymru yn fwy cynhyrchiol, yn ddiogelach ac yn wydn.

## *Gwerth am arian*

**Yr effaith ar gostau** Amcangyfrifwn y bydd y weithred hon yn costio £326k y flwyddyn ar gyfer pob un o'r pedair blwyddyn gyntaf.

**Yr effaith ar fanteision** Ni allwn amcangyfrif manteision y weithred hon mewn termau ariannol Rhestrwn isod y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r manteision a nodwyd gennym a'u harwyddocâd tebygol.

| Manteision | Arwyddocâd tebygol |
|---|---|
| **Cynhyrchiant gwell – effeithlonrwydd/cymhareb trosi porthiant** | Mae astudiaeth[221] yn 2023 o Ogledd Iwerddon yn nodi *pre-weaned dairy calves are vulnerable animals, highly susceptible to disease with consistently high levels of mortality on farms* a *the health of dairy calves is the product of the other two major factors; nutrition and rearing environment, as the most common calfhood diseases could be mitigated through provision of appropriate nutrition in a clean and comforTabl environment*<br><br>Mae'r fantais yn debygol o fod yn arwyddocaol i ffermwyr unigol, ond yn llai felly (o gymharu â chostau) ar lefel Cymru gyfan oherwydd y niferoedd cyfyngedig yr amcangyfrifir y byddant yn ymgymryd â'r Weithred hon. |
| **Mwy o hyder ymhlith defnyddwyr – safonau lles** | Mae'n debygol o fod yn arwyddocaol o gymharu â chostau'r Weithred hon. Daw adolygiad[222] yn 2002 i'r casgliad *consumers' concerns about farm animal welfare can prevent them from buying some products, and this influences the sustainability of intensive systems. Consumers perceive the need to increase the level of welfare in farm animals, even though their level of knowledge about farming and animal welfare issues is relatively low. Consumers concerns are not equally distributed among the different farm species, nor is there consistency in the willingness to pay to enhance animal welfare* |
| **Gwell proffidioldeb i ffermydd** | Daeth astudiaeth o iechyd lloi godro yn 2023 yng Ngogledd Iwerddon i'r casgliad bod *opportunity for research and knowledge transfer to target key areas within calf rearing to the benefit of calf health, welfare and performance, and subsequently dairy farm resilience and profitability.* |

[219] Y Cod Carbon Coetiroedd, *UK voluntary carbon market prices continue to rise, 2025*
[220] Confor, *Benefits of a 20 ha farm-forest, 2018*
[221] Aaron Brown (2023) *Housing and nutritional management to optimise dairy calf health and performance*, Traethawd hir a gyflwynwyd ar gyfer Gradd Doethur mewn Athronyddiaeth, Prifysgol y Frenhines, Belfast
[222] Marta E. Alonso, José R. González-Montaña a Juan M. Lomillos (2020), Animals, 10, 385;

| Manteision | Arwyddocâd tebygol |
|---|---|
| | Mae'r fantais yn debygol o fod yn arwyddocaol i ffermwyr unigol, ond yn llai felly (o gymharu â chostau) ar lefel Cymru gyfan oherwydd y niferoedd cyfyngedig yr amcangyfrifir y byddant yn ymgymryd â'r Weithred hon. |
| **Risgiau is sy'n gysylltiedig â datblygu ymwrthedd gwrthficrobaidd** | Mae'n arwyddocaol o bosibl o gymharu â chostau. Canfu adolygiad[223] o ddefnydd gwrthficrobaidd (AMU) ar ffermydd yn 2023 *positive association between farm biosecurity and reduction in AMU was observed in 51.8% (14/27) of the studies, and 18.5% (5/27) showed that improvement in farm management practices was associated with a reduction in AMU. A single study on economic assessment concluded biosecurity practices as a cost-effective way to reduce AMU. On the other hand, five studies showed an uncertain or spurious association between farm biosecurity and AMU* |
| **Costau niwed is o ganlyniad i achosion o glefydau anifeiliaid** | Mae'n arwyddocaol o bosibl o gymharu â chostau.<br>Yn ôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol[224], gwnaeth clwy'r traed a'r genau yn 2001 gostio £102 miliwn i Lywodraeth Cymru, ac amcangyfrifwyd bod £90 miliwn arall o gostau heb eu digolledu i ddiwydiannau amaethyddol a chadwyni bwyd. Lladdwyd dros filiwn o anifeiliaid yng Nghymru ar sail yr haint, cysylltiad peryglus neu am resymau lles ar bron 1000 o ffermydd i gyd.<br>Amcangyfrifir[225] bod heintiau Dolur Rhydd Feirysol y Gwartheg ar ffermydd Cymru yn costio £4,500 y flwyddyn i fferm eidion â 100 o fuchod, a £15,000 y flwyddyn i fferm odro â 130 o fuchod. |

### *Crynodeb cyffredinol o werth am arian yn seiliedig ar dystiolaeth*

Mae'r costau yn gymharol isel (sy'n adlewyrchu cyfradd ymuno isel) ond gallai manteision ar lefel fferm, er eu bod yn isel ar y cychwyn, gael effaith ar unwaith. Gallai'r manteision dros y tymor hwy fod yn sylweddol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â chostau is. Gwerth am arian canolig cyffredinol ar y cychwyn (sy'n adlewyrchu natur uniongyrchol y manteision ar lefel fferm).

## *Gweithred Opsiynol: Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ehangach a mwy datblygedig)*

**Disgrifiad** Bydd gweithgareddau DPP Opsiynol arfaethedig yn rhoi cymorth i gwblhau DPP mwy cymhleth neu lefel uwch sy'n gysylltiedig â'r themâu Opsiynol. Cynigir y bydd Cam 1 yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Dŵr;
- Aer;
- Iechyd anifeiliaid / bioddiogelwch;
- Rheoli, gwella a chreu cynefin;
- Rheoli a chreu coetir;
- Cynhyrchiant ac effeithlonrwydd DPA;
- Pridd a gorchudd cnydau amlrywogaethol;
- Ffermio organig.

### *Gwerth am arian*

**Yr effaith ar gostau** Amcangyfrifwn y bydd y weithred hon yn costio £80k y flwyddyn ar gyfer pob un o'r pedair blwyddyn gyntaf.

**Yr effaith ar fanteision** Ni allwn amcangyfrif manteision y weithred hon mewn termau ariannol Rhestrwn isod y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r manteision a nodwyd gennym a'u harwyddocâd tebygol

| Manteision | Arwyddocâd tebygol |
|---|---|
| Ffermydd mwy gwydn | Mae'n arwyddocaol o bosibl, o gymharu â chostau, dros yr hirdymor. Canfu adolygiad 2020 o Cyswllt Ffermio fod "[y] [226]gefnogaeth yn arwain at newidiadau ar raddfa fach, cynyddraddol dros gyfnod o amser, yn aml drwy gyflwyno dulliau mwy proffesiynol ar gyfer rheoli busnes a gwelliannau iechyd ac amgylcheddol....[mae'r] enillion bach hyn ar draws llawer o agweddau ar y busnes, yn gyfanredol, yn cynorthwyo i greu mentrau mwy hyfyw a chynaliadwy yn y tymor hwy |
| Busnesau fferm mwy proffidiol/cynhyrchiol (GYG) | Gall fod yn arwyddocaol yn yr hirdymor i rai ffermwyr – gall maint y fantais hon o'i chymharu â chost fod yn arwyddocaol yn yr hirdymor, ond mae hyn yn aneglur. |

[223] Pankaj Dhaka, Ilias Chantziaras, Deepthi Vijay, Jasbir Singh Bedi, Iryna Makovska, Evelien Biebaut a Jeroen Dewulf (2023) *Can Improved Farm Biosecurity Reduce the Need for Antimicrobials in Food Animals? A Scoping Review*, Antibiotics, 12, 893
[224] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2002) *The 2001 Outbreak of Foot and Mouth Disease*
[225] Llywodraeth Cymru (2022) Ymgynghoriad ar y Cynllun gorfodol Dolur Rhydd Feirysol Buchol
[226] Pates, R; Hindle, R; 2020. Gwerthusiad o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaethau Cynghori. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 14/2020

| | |
|---|---|
| | Canfu adolygiad[227] o effaith trosglwyddo gwybodaeth yn Iwerddon yn y cyfnod 2008-2014, a gyhoeddwyd yn 2019 fod *clients gained a 12.3% benefit to their margin per hectare over the period.* |
| Gwell lles / llesiant / iechyd meddwl i ffermwyr | Mae'n arwyddocaol o bosibl o gymharu â chostau. Nododd yr adolygiad o Cyswllt Ffermio yn 2020 fod Cyswllt Ffermio hefyd yn cael effaith (gydnabyddedig ond sydd yn aml heb ei gwerthfawrogi'n llawn) ar iechyd meddwl ffermwyr, drwy helpu i nodi atebion clir a fforddiadwy i broblemau a oedd wedi achosi cryn straen a phryder |

## *Crynodeb cyffredinol o werth am arian yn seiliedig ar dystiolaeth*

Mae'r costau yn gymharol isel, a bydd y manteision yn dibynnu gan mwyaf ar y ffordd y cymhwysir DPP ar y fferm. Mae hwn yn faes lle ceir ansicrwydd, ac adlewyrchir hyn yn yr asesiad o werth am arian canolig.

### *Gweithred Opsiynol: Cynhyrchu cynaliadwy*

## *Disgrifiad*

Bwriedir ymgymryd â'r weithred hon drwy dri mesur:

- Gostwng Oedran ar adeg Lladd – taliad fesul anifail yn seiliedig ar leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i leihau'r oedran lladd cyfartalog.
- Pori Cylchdro/Pori a Gorffwys – mae dull rheoli 'pori a gorffwys' (cylchdro, cell, tyrru) yn cynyddu carbon organig pridd mewn porfeydd, o gymharu â rheoli ar sail stocio penodol
- Gwasanaeth Cofrestru'r Tad ar gael – taliad untro i bob ffermwr buchod godro a sugno sy'n cofrestru rhif tag y tad ar adeg geni ar Wasanaehau Symud Gwartheg Prydain[228], sy'n dechrau taith tuag at ddefnyddio data a geneteg i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i ffermwyr.

## *Gwerth am arian*

**Yr effaith ar gostau** Amcangyfrifwn y bydd y weithred hon yn costio tua £8m yn 2026, gan gynyddu i tua £9.7m ar gyfer 2029.

**Yr effaith ar fanteision** Ni allwn amcangyfrif manteision y weithred hon mewn termau ariannol Rhestrwn isod y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r manteision a nodwyd gennym a'u harwyddocâd tebygol

| **Manteision** | **Arwyddocâd tebygol** |
|---|---|
| Gwell proffidioldeb / cynhyrchiant i ffermydd (GYG) | Noda astudiaeth[229] yn 2020 fod manteision pesgi gwartheg yn gyflymach fel a ganlyn:<br>• Llai o amser ar y fferm, felly mae cyfanswm yr allyriadau carbon yn is.<br>• Mae'n fwy effeithlon pesgi gwartheg cyfandirol yn gyflymach (yn gysylltiedig â gofynion cynnal beunyddiol).<br>• Mae cyfraddau uwch o fagu pwysau byw dyddiol yn fwy effeithlon am fod canran uwch o'r dogn yn cael ei defnyddio at ddibenion twf.<br>• Gwell defnydd o adnoddau – tir, adeiladau a llafur.<br>• Costau cynhyrchu is<br>Canfu adolygiad[230] o Sbaen yn 2017 fod cynnydd o 1 kg mewn pwysau aeddfed yn cynhyrchu cost economaidd o rhwng 0.43 € a 0.38 € fesul anifail ifanc a laddwyd oherwydd y cynnydd mewn cost cynhyrchu.<br>Mae hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol i ffermwyr unigol, ond bydd gwerth y fantais yn debygol o fod yn llai arwyddocaol ar lefel Cymru gyfan o'i chymharu â chost y Weithred. |
| Gwerth cymdeithasol allyriadau nwyon tŷ gwydr is | Gallai'r fantais hon fod yn arwyddocaol o'i chymharu â chostau. Mae adroddiad 68[231] o dan y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd yn nodi "Yn achos anifeiliaid sy'n cynhyrchu cig, gydag effeithlonrwydd gwell, mae pwysau lladd yn gallu cael ei gyflawni ar oedran ifanc a bydd oes fyrrach yn lleihau allyriadau CH4 fesul anifail". Mae'r adroddiad yn cyfeirio at dystiolaeth y bydd oedran lladd is yn lleihau ôl troed carbon net cynhyrchu eidion 5-10%. Mae tystiolaeth o'r Alban yn awgrymu gostyngiad o 12.5% yn newid canrannol allyriadau o'r llinell sylfaen o ganlyniad i ostwng oedran ar adeg lladd i 18 mis. |

[227] A. Cawley, C. O'Donoghue, K. Heanue, R. Hilliard a M. Sheehan (2019) *The impact of agricultural knowledge transfer resources on farm level profitability during the economic recession – a quantitative study*, The Journal of Agricultural Education and Extension, 25:2, 161-177

[228] Mae Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain: yn cynnal cronfa ddata'r System Olrhain Gwartheg (SOG); yn rhoi pasbortau gwartheg; yn prosesu gwybodaeth am enedigaethau, symudiadau a marwolaethau gwartheg a gyflwynir; ac yn ateb ymholiadau gan geidwaid gwartheg

[229] Julian Bell Christine Beaton Mary Young Gavin Hill Daniel Stout Anna Sellars Steven Thomson Mike Spencer Andrew Moxey (2020) *Suckler Beef Climate Change Group Farm Carbon Case Studies*, SRUC

[230] Javier López-Paredes, Jose-Antonio Jiménez-Montero, Maria-Angeles Pérez-Cabal, Oscar González-Recio4 and Rafael Alenda (2017) *A bio-economic model to improve profitability in a large national beef cattle population*, Spanish Journal of Agricultural Research 5 (3)

[231] Prosser, H. (2022). Rhaglen Monitro a Modelu Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) ERAMMP Adroddiad-68: Adolygiad o Leihau Allyrru Nwyon Tŷ Gwydr a Dal a Storio Carbon mewn Amaethyddiaeth i Ffurfio Polisi Amaethyddiaeth a Defnydd Tir. Adroddiad i Lywodraeth Cymru

| Manteision | Arwyddocâd tebygol |
|---|---|
| Costau gwrtaith is | Ar bori a gorffwys, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Nododd y Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon[232] dystiolaeth o nifer o astudiaethau a threialon maes a oedd yn dangos sut roedd dulliau rheoli 'pori a gorffwys' (cylchdro, cell, tyrru) yn cynyddu carbon organig pridd mewn porfeydd<br>Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Nododd y Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon hefyd fod tystiolaeth dda ynglŷn â chyd-fanteision pori cylchdro, gan gynnwys manteision o ran gwell iechyd pridd, cynhyrchu glaswelltir, lles anifeiliaid a bioamrywiaeth. At hynny, mae ganddo rôl i'w chwarae o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ehangach drwy ddefnyddio llai o wrtaith a phrynu llai o fwyd anifeiliaid.<br>Mae'r Rhwydwaith Ffermio sy'n Ystyriol o Natur yn nodi[233] *Adopting regenerative grazing practices can have an incredible impact on building soil health and improving farm business resilience…..Benefits of high-intensity grazing followed by more extended rest periods include deeper rooting plants, looser, more aggregated soils, larger, healthier plants, a deeper soil profile and dark soils rich in organic matter.*<br>Mae hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol i ffermwyr unigol, ond bydd gwerth y fantais yn debygol o fod yn llai arwyddocaol ar lefel Cymru gyfan o'i chymharu â chost y Weithred |

**Crynodeb cyffredinol o werth am arian yn seiliedig ar dystiolaeth** Mae costau yn gymharol uchel, ond mae'r effaith ar wireddu manteision yn debygol o fod yn uniongyrchol ac yn estynedig. Adlewyrchir hyn yn yr asesiad o lefel uchel o werth am arian.

## *Gweithred Opsiynol: Pennu neu addasu Opsiynau sy'n helpu pobl i ymwneud â'r amgylchedd naturiol a chael mynediad ato*

### Disgrifiad

Mae ymyriadau arfaethedig o dan y Weithred Opsiynol hon yn canolbwyntio ar roi grantiau cyfalaf ar gyfer eitemau i wella ansawdd llwybrau cerdded sy'n bodoli eisoes, megis clwydi a meinciau.

**Yr effaith ar gostau** Amcangyfrifwn y bydd y weithred hon yn costio tua £75k y flwyddyn ar gyfer pob un o'r pedair blwyddyn gyntaf.

**Yr effaith ar fanteision** Ni allwn amcangyfrif manteision y weithred hon mewn termau ariannol Rhestrwn isod y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r manteision a nodwyd gennym a'u harwyddocâd tebygol

| Manteision | Arwyddocâd tebygol |
|---|---|
| Gwell lles yn gysylltiedig â hamddena | Mae'n bosibl y bydd gwerth y fantais hon yn arwyddocaol o'i gymharu â chostau.<br>Amcangyfrifwyd[234] bod hamddena ar ffermdir yng Nghymru ar hyn o bryd yn werth rhwng £161 yr hectar (gwerth presennol cyfartalog blynyddol[235] dros 5 mlynedd) a £118 yr hectar (gwerth presennol cyfartalog blynyddol dros 25 mlynedd). Mae'r rhain yn cyfansymio i werthoedd blynyddol amcangyfrifedig o £334m (gan ddefnyddio'r ffigur £161 yr hectar) a £244m (gan ddefnyddio'r ffigur £118 yr hectar) ar gyfer holl ffermdir Cymru[236]. |
| Cynhyrchiant gweithlu a gollir sy'n cael ei osgoi o ganlyniad i osgoi salwch | Mae'n arwyddocaol o bosibl o gymharu â chostau. Daeth astudiaeth[237] o'r berthynas rhwng gweithgarwch corfforol ac absenoldeb heb ei gynllunio mewn cysylltiad â salwch yn 2017 yn America i'r casgliad *less physically active individuals, as well as persons with any number of chronic medical issues, had higher rates of unplanned illness-related absenteeism…. Increasing physical activity has been shown to reduce the future risk of both short-term absenteeism and long-term disability leave* |
| Costau is i'r GIG oherwydd anweithgarwch ac iechyd meddwl gwael | Mae'n arwyddocaol o bosibl o gymharu â chostau. Mae'r dystiolaeth[238] yn dangos bod ymweliadau fferm yn creu canlyniadau llesiant meddyliol cadarnhaol ar ddiwrnod yr ymweld, ond hefyd fanteision mwy parhaol yn yr wythnosau a'r misoedd ar ôl ymweliad. Ar gyfer rhai ymwelwyr, arweiniodd ymweliad fferm at fwy o hunan-barch ac |

[232] Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon: adroddiad llawn, 2024
[233] Y Rhwydwaith Ffermio sy'n Ystyriol o Natur, *Learnings on soil health, regenerative grazing and whole-farm planning*, 2025
[234] Dickie, I., Marks, R., Reeser, V., Couchman, A. a Jones, L. (2025). Y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd – Adroddiad-109: Asesiad diwygiedig o gyfalaf naturiol mewn cyfraddau talu ar gyfer 2025. Adroddiad i Lywodraeth Cymru
[235] Gwerthoedd presennol ar sail flynyddol yw'r ffigurau blynyddol cyfartalog, a gyfrifir drwy rannu'r Gwerth Presennol â'r derfynlin. Trysorlys EF piau'r cyfraddau disgowntio (2022)
[236] Caiff y manteision hyn eu cynnwys yng ngwerth y manteision o ffermdir Cymru o dan Fusnes fel Arfer ac o dan yr opsiwn a ffefrir ar gyfer Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Felly, byddai eu hychwanegu at werth gweithredu o dan y Weithred Opsiynol hon yn golygu cyfrif dwbl. Felly, nid ydym wedi priodoli'r manteision hyn i'r Weithred Opsiynol hon.
[237] Elena Losina, Heidi Y. Yang, Bhushan R. Deshpande, Jeffrey N. Katz, Jamie E. Collins (2017) *Physical activity and unplanned illness-related work absenteeism: Data from an employee wellness program*, Plos One, Mai 4, 2017, 1-13
[238] Jane Mills, James Taylor, Janet Dwyer a Jennifer Bertlett (2014), *The well-being benefits of sensory-rich farm visits*, International Journal of Agricultural Management, Cyfrol 4 Rhifyn 1

| Manteision | Arwyddocâd tebygol |
|---|---|
| | annibyniaeth y tu hwnt i'r ymweliad. Daeth astudiaeth fwy diweddar[239] o deithiau cerdded ym myd natur fel rhan o raglen iechyd meddwl gymunedol yn Awstralia yn 2023 i'r casgliad bod gan grwpiau cerdded Natur i bobl â chyflyrau iechyd meddwl botensial enfawr fel ymyriad anghlinigol |

## *Crynodeb cyffredinol o werth am arian yn seiliedig ar dystiolaeth*

Mae'r costau yn gymharol isel, ond mae pob categori o fantais yn sylweddol o bosibl o gymharu â chostau. Felly, mae'r asesiad hwn yn nodi lefel uchel o werth am arian.

## ***Gweithred Opsiynol: Gwell ansawdd dŵr, llif a defnydd, gan gynnwys lliniaru llifogydd***

## *Disgrifiad*

Er mwyn helpu ffermydd i wella eu hansawdd dŵr, a'u hadnoddau a'u heffeithlonrwydd bydd nifer o eitemau cyfalaf, gan gynnwys seilwaith mawr, yn parhau i fod ar gael. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn helpu ffermwyr i fynd y tu hwnt i'r gofynion Rheoli Llygredd Amaethyddol.

**Yr effaith ar gostau** Amcangyfrifwn y bydd y weithred hon yn costio rhwng £3.6m-£15m y flwyddyn ar gyfer y pedair blwyddyn gyntaf, yn dibynnu ar faint y gost cyfalaf fesul hawliad unigol

**Yr effaith ar fanteision** Ni allwn amcangyfrif manteision y weithred hon mewn termau ariannol Rhestrwn isod y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r manteision a nodwyd gennym a'u harwyddocâd tebygol.

| Manteision | Arwyddocâd tebygol |
|---|---|
| Gwerth lles yn sgil gwella statws corff dŵr | Gall fod yn arwyddocaol dros y tymor hwy, o gymharu â chostau. Mae amcangyfrifon canolog Asiantaeth yr Amgylchedd [240] ynglŷn â gwerth blynyddol gwella ansawdd dŵr mewn afonydd yng Nghymru a Lloegr yn amrywio o £17.4k fesul km[241] i £23.3k fesul km[242] (prisiau 2012). |
| Costau difrod llifogydd sy'n cael eu hosgoi | Mae'n debygol o fod yn llai arwyddocaol o gymharu â chostau. Daeth adolygiad[243] o ddifrod llifogydd i amaethyddiaeth yn 2013 i'r casgliad, hyd yn oed os yw'r dulliau presennol eisoes wedi canolbwyntio ar ddifrod i gnydau, fod angen rhywfaint o welliant o hyd ar gyfer swyddogaethau difrod cnydau. Mae hefyd angen datblygu swyddogaethau difrod ar gyfer categorïau eraill o ddifrod amaethyddol, gan gynnwys adeiladau fferm a'u cynnwys. Yn olaf, er mwyn cwmpasu pob math o ddifrod amaethyddol posibl, ac yn enwedig colli gweithgarwch, mae angen defnyddio dull gweithredu ar raddfa fferm. |
| Gellir rhoi gwerth ar well cymunedau ecolegol mewn cynefinoedd â blaenoriaeth | Gall fod yn arwyddocaol dros y tymor hwy, o gymharu â chostau. |
| Gwerth preifat gwell cynhyrchiant i ffermwyr | Mae hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol i ffermwyr unigol, ond bydd gwerth y fantais yn debygol o fod yn llai arwyddocaol ar lefel Cymru gyfan o'i chymharu â chost y Weithred. Daeth adroddiad Grŵp yr Arbenigwyr Rheoli Maethynnau (NMEG)[244] yn 2024 i'r casgliad *there is significant scope to ensure nutrients are used more efficiently on-farm: this requires better nutrient planning and monitoring on-farm, increasing responsible use of organic materials, reducing any excess nutrient inputs while also maintaining yield. It includes the application of a wide range of available technologies, many of which can save farmers money, but may have significant capital investment costs* |
| Costau'r GIG/iechyd y cyhoedd sy'n cael eu hosgoi | Mae'n bosibl y bydd gwerth y fantais hon yn llai arwyddocaol o'i gymharu â chostau. |

## *Crynodeb cyffredinol o werth am arian yn seiliedig ar dystiolaeth*

Mae costau yn ansicr ac yn dibynnu ar yr opsiynau y mae ffermwyr yn ymgymryd â nhw. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn gryf y bydd gwerth cyrff dŵr y mae eu hansawdd wedi gwella yn cynyddu. Mae effeithiau llai o lygredd yn debygol o gael eu

[239] Katarzyna Olcon, Peter Destry, Thomas Astell-Burt, Julaine Allan (2023) "I can get to a happy place by visiting nature": *The benefits of implementing nature walking groups within mental health services*, Environmental Advances 13 100393
[240] Asiantaeth yr Amgylchedd (heb ddyddiad) *Updating the National Water Environment Benefit Survey values: summary of the peer review*
[241] Newid yn statws ansawdd dŵr o ddrwg i wael, prisiau 2012
[242] Newid yn statws ansawdd dŵr o gymedrol i dda, prisiau 2012
[243] P. Brémond, F. Grelot, ac A.-L. Agenais (2013) *Review Article*: *Economic evaluation of flood damage to agriculture – review and analysis of existing methods Nat. Hazards Earth Syst.* Sci., 13, 2493–2512, 2013
[244] Defra (2024) Adroddiad Grŵp yr Arbenigwyr Rheoli Maethynnau (NMEG) *Improving policy and practice for agricultural nutrient use and management*

gwireddu ar unwaith, ond mae newidiadau yn ansawdd dŵr yn digwydd yn arafach, gan arwain at asesiad gwerth am arian lefel ganolig

### *Gweithred Opsiynol: Gwella ansawdd aer a lleihau allyriadau amonia*

#### *Disgrifiad*

Allyrrir nifer o nwyon llygryddion, ac yn enwedig cyfansoddion nitrogen, i'r atmosffer o weithgareddau amaethyddol, gan gynnwys y defnydd o wrtaith, peiriannau fferm a gwastraff da byw. Hefyd, allyrrir deunydd gronynnol cynradd o weithgareddau da byw, tai a braenaru. Fodd bynnag, mae prif gyfraniad amaethyddiaeth yng Nghymru at lygredd aer yn deillio o allyriadau amonia, lle roedd y sector amaethyddol yn cyfrif am 93% o gyfanswm allyriadau amonia cenedlaethol yn 2022.

Er mwyn helpu ffermydd i wella eu hansawdd aer, bydd nifer o eitemau cyfalaf, gan gynnwys seilwaith mawr, yn parhau i fod ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Buddsoddiadau mewn seilwaith ar y fferm
- Cyfarpar cymhwyso maethynnau'n fanwl

**Yr effaith ar gostau** Amcangyfrifwn y bydd y weithred hon yn costio rhwng £3.6m-£15m y flwyddyn ar gyfer y pedair blwyddyn gyntaf, yn dibynnu ar faint y gost cyfalaf fesul hawliad unigol

**Yr effaith ar fanteision** Ni allwn amcangyfrif manteision y weithred hon mewn termau ariannol Rhestrwn isod y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r manteision a nodwyd gennym a'u harwyddocâd tebygol

| **Manteision** | **Arwyddocâd tebygol** |
|---|---|
| Gwerth preifat defnydd mwy effeithlon o wrtaith/maethynnau i ffermwyr | Mae'r dystiolaeth (yn yr atodiad technegol) yn nodi potensial adenillion ariannol i amaethyddiaeth o ddefnyddio amaethyddiaeth fanwl. Mae hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol i ffermwyr unigol, ond bydd gwerth y fantais yn debygol o fod yn llai arwyddocaol ar lefel Cymru gyfan o'i chymharu â chost y Weithred |
| Gellir rhoi gwerth ar well cymunedau ecolegol mewn cynefinoedd â blaenoriaeth | Mae gwerth y fantais hon yn debygol o fod yn arwyddocaol yn yr hirdymor, o gymharu â chost y weithred. Mae ymchwil[245] wedi amcangyfrif, ar lefel y DU, mai costau difrod ymylol effeithiau N ar 'werthfawrogi bioamrywiaeth' yw £103/t NO2 ar gyfer nitrogen deuocsid a £414/t NH3 ar gyfer amonia. |
| Lles o ganlyniad i wella statws corff dŵr (amwynder, hamddena) | Mae gwerth y fantais hon yn debygol o fod yn arwyddocaol yn yr hirdymor, o'i gymharu â chost y weithred. Amcangyfrifir mai gwerth blynyddol manteision fesul km o statws corff dŵr sy'n cael ei wella yw[246] £17.4k (newid o statws gwael i gymedrol), £20.4k (cymedrol i dda) a £23.3k (cymedrol i dda) ar gyfer afonydd yng Nghymru a Lloegr (prisiau 2012) |

#### *Crynodeb cyffredinol o werth am arian yn seiliedig ar dystiolaeth*

Mae'r costau yn ansicr ac yn dibynnu ar yr opsiynau y mae ffermwyr yn eu dewis. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o effaith a gwerth llai o lygredd aer ar gynefinoedd tirol yn gryf, ond bydd y newidiadau yn digwydd dros gyfnod hwy, gan arwan at asesiad gwerth am arian lefel ganolig

### *Gweithred Gydweithredol: Arloesi ac Ymchwil a Datblygu*

#### *Disgrifiad*

Nod y weithred hon yw helpu ffermwyr i wneud y canlynol:

- cymryd rhan mewn gweithgarwch ymchwil a datblygu, gan gynnwys heriau arloesi
- rhoi canlyniadau ymchwil a datblygu/technolegau profi ac ymarferion arloesol ar waith mewn cyd-destun go iawn.
- cyflwyno (lle y bo'n briodol) canfyddiadau ynglŷn â gweithgarwch newydd o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Y nod hwn yw sicrhau datblygiadau arloesol sy'n arwain at well effeithlonrwydd, cynhyrchiant a chynaliadwyedd mewn amaethyddiaeth a chadwyni cyflenwi bwyd-amaeth yng Nghymru, gan sicrhau manteision amgylcheddol a chyflymu'r broses o bontio i sero net.

**Yr effaith ar gostau** Amcangyfrifwn y bydd y weithred hon yn costio £1m yn 2026, gan gynyddu i £1.2m y flwyddyn ar gyfer y cyfnod 2027-29.

---

[245] Jones, L., Mills, G., Milne, A., Hayes, F., Monteith, D., Dwyer, J., Ozdemiroglu, E., Hall, J., Evans, C., Emmett, B., Sutton, M., Reis, S., Ashmore, M., Everard, M., Holland, M. (2014). *Assessment of the impacts of air pollution on ecosystem services – gap filling and research recommendations.* (Prosiect AQ0827 Defra), Adroddiad Terfynol, Gorffennaf 2014.

[246] Asiantaeth yr Amgylchedd (2013) *Updating the National Water Environment Benefit Survey values: summary of the peer review*

**Yr effaith ar fanteision** Ni allwn amcangyfrif manteision y weithred hon mewn termau ariannol Rhestrwn isod y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r manteision a nodwyd gennym a'u harwyddocâd tebygol

| Costau a manteision a hepgorwyd | Arwyddocâd tebygol |
|---|---|
| Gwell proffidioldeb / cynhyrchiant i ffermydd (GYG) | Mae gwerth y fantais yn llai arwyddocaol yn y byrdymor o gymharu â'r costau ond ceir potential iddo ddod yn fwy arwyddocaol dros yr hirdymor, yn dibynnu ar y niferoedd sy'n mabwysiadu datblygiadau arloesol a dulliau newydd. Daeth astudiaeth[247] yn 2018 i'r casgliad *public investments in agricultural R&D have been a significant policy lever for supporting long-run productivity growth in the sector….. National public investments in agricultural R&D, along with technology spillovers from other countries and the private sector, are significant sources of new technology driving growth in agricultural Total Factor Productivity [TFP] …nearly all studies that attempt to quantify the impacts of multiple factors on long-term agricultural TFP growth in high-income countries find that public R&D had a major impact.* |

## *Crynodeb cyffredinol o werth am arian yn seiliedig ar dystiolaeth*

Mae'r costau yn gymharol isel ac mae'r manteision yn ansicr ac yn rhai hirdymor, gan arwain at asesiad gwerth am arian lefel isel ar y cychwyn yn y cyfnod 2026-29.

### *Gweithred Gydweithredol: Gweithgarwch ar raddfa tirwedd*

## *Disgrifiad*

Bwriedir ymgymryd â'r Weithred Gydweithredol hon drwy'r cynllun Ffermio Bro presennol a pharhau â'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig[248]. Bydd yr union ganlyniadau ac effaith yn dibynnu ar y prosiectau a ariennir o dan y Weithred Gydweithredol hon.

**Yr effaith ar gostau** Amcangyfrifwn y bydd Ffermio Bro yn costio £3m y flwyddyn yn 2026-2029. Mae hyn yn cynrychioli'r dyraniad i Gyrff Tirweddau Dynodedig i gyflwyno Ffermio Bro. Amcangyfrifwn y bydd y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig yn costio tua £3m yn 2026, £6.8m yn 2027 a £9.75m yn 2028. Ni allwn amcangyfrif y costau ar gyfer 2029.

**Yr effaith ar fanteision** Ni allwn amcangyfrif manteision y weithred hon mewn termau ariannol Rhestrwn isod y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r manteision a nodwyd gennym a'u harwyddocâd tebygol

| Manteision | Arwyddocâd tebygol |
|---|---|
| Gwell llesiant mewn cymunedau gwledig | Gallai gwerth y fantais fod yn arwyddocaol o gymharu â'r costau.<br>Daeth astudiaeth[249] o fanteision cydweithio mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd yn Lloegr yn 2012 i'r casgliad bod gan gynlluniau amaeth-amgylchedd cydweithredol *the potential to deliver greater environmental benefits, whilst at the same time encouraging farmers' participation in, and satisfaction with, agri-environment schemes.* Nododd fod cydweithio sy'n seiliedig ar ddulliau cyfranogol yn arwain at *better environmental outcomes since farmers are more likely to buy-in to the schemes long-term, to have a sense of ownership over them and to feel proud of their actions* |
| Manteision lles canlyniadau amgylcheddol a sicrheir ar raddfa, ar draws tirwedd benodol | Gallai gwerth y fantais fod yn arwyddocaol o gymharu â'r costau.<br>Daeth adolygiad[250] yn 2013 i'r casgliad bod y defnydd o gynlluniau amaeth-amgylchedd ar raddfa tirwedd, ehangach yn debygol o fod yn fanteisiol i grŵp bach ond allweddol o rywogaethau yn fwy na'r cynlluniau 'graddfa fferm' presennol, ac nad oeddent yn achosi anfantais i rywogaethau yn gweithredu ar raddfeydd llai o faint. Mae hefyd yn debygol o gynnig cyd-fanteision ychwanegol. Dadleuodd adolygiad[251] yn 2018 fod *a stronger focus on landscape-context specific measures could be incorporated in the design of agri-environment schemes to improve their effectiveness on the preservation of biodiversity at a landscape scale…. there is the need to incentivise the participation of farmers in spatially connected conservation measures.* |

[247] Heisey, Paul W., a Keith O. Fuglie. *Agricultural Research Investment and Policy Reform in High-Income Countries*, ERR-249, Gwasanaeth Ymchwil Economaidd Adran Amaethyddiaeth yr UD, Mai 2018.

[248] Ar hyn o bryd, mae cam datblygu cyfnod cyntaf y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig wedi mynd rhagddo. Ar ôl ymgysylltu helaeth a chymorth datblygu, cafodd 30 o fentrau cydweithredol gyllid i ddatblygu cynlluniau prosiect. Mae'r cam datblygu newydd hwn wedi arwain at fwy o weithredu ym meysydd y prosiect

[249] Steven B. Emery, Jeremy R. Franks (2012) *The potential for collaborative agri-environment schemes in England: Can a well-designed collaborative approach address farmers' concerns with current schemes?,* Journal of Rural Studies, 28, 218-231

[250] Ailsa J. McKenzie, Steven B. Emery, Jeremy R. Franks a Mark J. Whittingham (2013) *Landscape-scale conservation: collaborative agri-environment schemes could benefit both biodiversity and ecosystem services, but will farmers be willing to participate?,* Journal of Applied Ecology, 50, 1274–1280

[251] Rotchés-Ribalta, R., Ó hUallacháin, D (2018) *Agri-Environment Scheme design: the importance of landscape scale,* Papur a baratowyd i'w gyflwyno i *166ain Seminar EAAE ar Gynaliadwyedd yn y Sector Bwyd-Amaeth,* 30-31 Awst 2018, Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Galway, Iwerddon

Cyfeiriwn yn yr atodiad technegol at dystiolaeth o effaith prosiectau cydweithredol eraill mewn Tirweddau Dynodedig.

### *Crynodeb cyffredinol o werth am arian yn seiliedig ar dystiolaeth*

Mae'r costau yn gymharol uchel. Fodd bynnag, mae gennym dystiolaeth dda bod cam datblygu newydd y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig wedi arwain at fwy o weithredu a brwdfrydedd dros gyflawni prosiectau ym meysydd prosiectau, ac mae gennym dystiolaeth hefyd ynglŷn ag effaith prosiectau cydweithredol eraill mewn Tirweddau Dynodedig. Mae hyn yn peri inni asesu lefel uchel o werth am arian.

## *Gweithred Gydweithredol: Cymorth i'r farchnad a'r gadwyn gyflenwi*

### *Disgrifiad*

Caiff cymorth ei roi i ffermwyr, busnesau sy'n seiliedig ar fferm a busnesau yn y gadwyn gyflenwi ychwanegu gwerth at gynnyrch, ymuno â marchnadoedd newydd, rhoi cyfleoedd i ychwanegu gwerth at gynnyrch, datblygu cyfleoedd cadwyni cyflenwi a'r cyfan i sicrhau cynaliadwyedd a phroffidioldeb busnesau a diogelu a datblygu cyfleoedd gwaith gwledig.

**Yr effaith ar gostau** Amcangyfrifwn y bydd costau o £20m y flwyddyn ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2026 a 2029.

**Yr effaith ar fanteision** Ni allwn amcangyfrif manteision y weithred hon mewn termau ariannol Rhestrwn isod y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r manteision a nodwyd gennym a'u harwyddocâd tebygol

| Manteision | Arwyddocâd tebygol |
|---|---|
| Mwy o arallgyfeirio, allforion a masnach mewn bwyd-amaeth.<br>Mwy o gynhyrchion bwyd â brand Cymru, a chadwyni cyflenwi lleol cryfach | Mae gwerth y fantais hon yn debygol o fod yn arwyddocaol o gymharu â chostau'r Weithred hon. Nododd yr adroddiad Gwerthusiad o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd[252] yn 2025 fod y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn y cyfnod rhwng 2014 a 2020 wedi helpu i sicrhau 597 o gynhyrchion newydd a mynediad at 214 o farchnadoedd newydd. Nododd 60% o'r ymatebwyr i'r gwerthusiasd Arallgyfeirio/mynd i mewn i farchnadoedd newydd a nododd 56% Tyfu marchnadoedd presennol fel canlyniadau penodol y cymorth. |
| Gwell ôl troed carbon drwy gadwyni cyflenwi mwy effeithlon a gwydn | Mae gwerth y fantais hon yn debygol o fod yn arwyddocaol o'i gymharu â chostau'r Weithred hon. Nododd 32% o'r ymatebwyr i'r gwerthusiad o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig[253] eu bod wedi arwain at leihau eu hôl troed carbon. Yn y Gwerthusiad o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd / Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig[254], dywedodd cyfanswm o 41% o'r buddiolwyr fod eu prosiectau wedi creu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol (ond nodwn fod hynny'n seiliedig ar ddata hunangofnodedig, sy'n oddrychol). Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r effeithlonrwydd cynyddol o ganlyniad i'r prosesau newydd a brynwyd ganddynt (nodwyd hyn gan 17%) ac roedd 11% wedi defnyddio rhywfaint o'r cyllid i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy; at hynny, nododd 9% welliannau i'w prosesau ailgylchu (gan gynnwys enghreifftiau o drosi ynni o brosesau eraill) a gwell rheolaeth ar wastraff.Dywedodd 19% arall eu bod wedi byrhau eu cadwyn gyflenwi, gan arwain at leihau eu milltiroedd bwyd.[255] |
| Gwell prisiau a throsiant ariannol i ffermwyr | Mae'n bosibl y bydd gwerth y fantais hon yn llai arwyddocaol o gymharu â chostau'r Weithred hon. Gwnaeth adolygiad[256] o ffermio yng Nghymru ar ôl Brexit a gyhoeddwyd yn 2018 nodi *the key role and influence of the food chain, in respect of how it chooses to respond to the Brexit process and likely outcomes, centred around key processor and retailer perspectives including buyer loyalty and willingness to invest in Wales, Welsh product image, as well as longer-term pricing and market growth strategies.* Argymhellodd *Increasing agri-food sector and rural community resilience, through more active long-term partnership working between Welsh Government and commercial or social actors in the food, public services and financial sectors in Wales, planning for* |

Miller Research (2025) *Evidence review of proposed SFS optional & collaborative actions*, adroddiad i Lywodraeth Cymru. Mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn nodi bod gan lawer o Weithredoedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy y potensial i gysoni'n dda â Ffactorau Llwyddiant Allweddol y Cynllun, yn enwedig o ran sicrhau gwerth cyhoeddus hirdymor mewn meysydd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Fodd bynnag, mae cysoni o'r fath yn amodol ar y ffordd y'i rhoddir ar waith, gan gynnwys llunio cynlluniau priodol, ymgysylltu ymhlith ffermwyr, a mynediad at gymorth.
Gwerthusiad o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig: Adroddiad Terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 10/2025.

[253] Ffynhonnell: Griffiths, E; Teifi, I (2025). Gwerthusiad o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig: Adroddiad Terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 10/2025. Ffigur 5.1 Cyfran yr ymatebwyr a nododd ganlyniadau mewn ymateb i'r cwestiwn canlynol: 'A yw buddsoddiad yr FBIS/RBISF wedi arwain at unrhyw un o'r newidiadau neu fuddion canlynol i'ch busnes?'

[254] Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwlesdig – Bwyd

[255] Mae'r adroddiad yn gochel bod angen i'r manteision hyn gael eu cydbwyso yn erbyn mwy o gynhyrchu a milltiroedd bwyd i fusnesau a oedd wedi ymuno â marchnadoedd daearyddol ehangach oherwydd y cymorth. Er na allai'r gwerthusiad nodi effaith y cynlluniau yn bendant, mae cydbwysedd y dystiolaeth yn awgrymu eu bod wir wedi cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, drwy'r swm o fwy na £60m a fuddsoddwyd mewn cyfarpar a phrosesau gwell.

[256] Janet Dwyer (2018) *The Implications of Brexit for Agriculture, Rural Areas and Land Use in Wales*, Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymuned (CCRI), Prifysgol Caerloyw

| Manteision | Arwyddocâd tebygol |
|---|---|
| | *longer-term strength* gan nodi *A focus upon entrepreneurship skills and confidence, new products, new markets for alternative products, new enterprises and new multi-sectoral, environmentally sustainable land-based business models would seem worthwhile,* |
| Cyflenwad mwy cyson o gynhyrchion o ansawdd gwell i ddefnyddwyr | Arwyddocâd tebygol. Fel y nodir uchod, mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd wedi helpu i sicrhau 597 o gynhyrchion newydd yn y cyfnod rhwng 2014 a 2020. |
| Gwell cydweithio a chymorth i ffermwyr | Anhysbys. Fodd bynnag, mae adroddiad y gwerthusiad a grybwyllir uchod yn nodi bod y prosiectau a'r cynlluniau, gyda'i gilydd, yn debygol o fod wedi gwella gwytnwch a chynaliadwyedd yr economi wledig yng Nghymru yn fawr. |

### *Crynodeb cyffredinol o werth am arian yn seiliedig ar dystiolaeth*

Mae'r costau yn gymharol uchel, ond o ystyried ansawdd a chadernid tystiolaeth y gwerthusiad o gynlluniau presennol, ac effaith glir y rhain ar ganlyniadau bwriadedig, aseswn fod hyn yn rhoi gwerth am arian da.

## ***Crynodeb***

### *Cyfraniad y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol at amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Mae'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol, ar y cyd, yn cwmpasu gweithredoedd yn y meysydd canlynol:

- Rheoli ansawdd yr adnoddau naturiol allweddol sy'n ganolog i ffermio: pridd, dŵr ac aer;
- Creu coetiroedd, gwrychoedd a chynefinoedd newydd a rheoli'r rhai sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys SoDdGAau:
- Hyrwyddo bioddiogelwch;
- Hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd a chynhyrchiant cynaliadwy;
- Cynnig profiadau o ansawdd gwell i'r cyhoedd sy'n mwynhau mynediad at gefn gwlad;
- Hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus ffermwyr, ac annog ymchwil ac arloesedd yn y tymor hwy;
- Gwella adenillion y farchnad i ffermwyr drwy hyrwyddo cadwyni cyflenwi lleol.

Dylai'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol, ar y cyd, gyfrannu tuag at amcanion penodol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy statudol ehangach. Mae'r risg sy'n gysylltiedig â hyn yn gysylltiedig â lefelau gwael o ran nifer y ffermwyr sy'n ymgymryd â'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Caiff y risg hon ei lliniaru gan lefelau talu sy'n rhoi cymhelliant i ffermwyr ymgymryd â'r Gweithredoedd a sicrhau gwerth da am arian. Cyfyd risg hefyd y bydd y Gweithredoedd yn cael effeithiau a chanlyniadau dros gyfnod hwy na'r hyn a ragwelir neu y byddant yn cael llai o effaith na'r hyn a ragwelir. Bydd strategaeth monitro a gwerthuso gynhwysfawr i helpu i liniaru'r risg hon.

## E. ACHOS MASNACHOL – CAFFAELIADAU ALLWEDDOL

Wedi ei olygu - Sensitifrwydd Masnachol

## F. COFRESTR O FANTEISION

Mae'r gofrestr o fanteision yn pennu'r manteision y mae disgwyl iddynt godi o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar hyn o bryd. Caiff y manteision hyn eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r dull arfaethedig o wireddu manteision (gweler yr Achos Rheoli).

Mae'r manteision wedi'u pennu ar gyfer pob Gweithred o dan dair Haen y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol. Mae manteision y Gweithredoedd sy'n rhan o'r Haen Gyffredinol wedi'u grwpio gyda'i gilydd am fod hyn yn cyd-fynd â'r ffordd y maent wedi cael eu dadansoddi fel rhan o'r Achos Economaidd. Cofnodir unrhyw fanteision disgwyliedig ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Gweithredoedd Cyffredinol ar wahân hefyd. Ar gyfer y Gweithredoedd sy'n rhan o'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol, cofnodir y manteision disgwyliedig ar wahân.

Ar gyfer pob mantais ddisgwyliedig, rhoddir y manylion canlynol:

- Rhif cyfeirnod unigryw;
- Yr Haen o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy y mae'r fantais yn ymwneud â hi;
- Y Weithred o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy y mae'r fantais yn ymwneud â hi;
- Disgrifiad amlinellol o'r Weithred, gan gynnwys unrhyw brosiectau neu weithgareddau galluogi;
- Disgrifiad o ba agweddau ar Weithred y Cynllun Ffermio Cynaliadwy y disgwylir iddynt esgor ar y fantais: gellir defnyddio hyn i hwyluso'r gwaith monitro;
- Crynodeb o'r prif weithgareddau fferm sydd eu hangen i sicrhau'r manteision: ar gyfer y Gweithredoedd Cyffredinol, mae'r rhain yn cyd-fynd â'r disgrifiadau yn y Cynllun amlinellol ac ar gyfer y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol mae'n seiliedig ar y cadwyni rhesymeg sy'n sail i'r dadansoddiad gwerth am arian (gweler yr Achos Economaidd);
- Mantais ddisgwyliedig y Weithred;
- Y categori o fantais yn seiliedig ar y dosbarthiad a ddefnyddir yn yr Achos Strategol a'r Achos Economaidd: gwahaniaethir rhwng manteision sy'n rhyddhau arian parod, manteision nad ydynt yn rhyddhau arian parod, y rhai y gellir eu mesur ond nad oes modd pennu eu gwerth ariannol a'r rhai y gellir eu disgrifio mewn termau ansoddol yn unig;
- Y prif fuddiolwr, gan adlewyrchu, unwaith eto, y dosbarthiad a ddefnyddir yn yr Achos Strategol a'r Achos Economaidd: mae hyn yn gwahaniaethu rhwng manteision uniongyrchol i'r sector cyhoeddus (a gronnir gan Lywodraeth Cymru), manteision anuniongyrchol a gronnir gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a manteision ehangach a gronnir yn bennaf gan ffermwyr, defnyddwyr, cymunedau gwledig a rhannau eraill o gymdeithas Cymru;
- Sut mae'r fantais ddisgwyliedig yn cyd-fynd â'r dibenion rheoli tir yn gynaliadwy;
- Y mesur(au) allweddol o berfformiad;
- Lefel y targed ar gyfer y mesur(au) o berfformiad yn seiliedig ar y newid disgwyliedig a asesir fel rhan o'r dadansoddiad gwerth am arian yn yr Achos Economaidd;
- Y costau posibl yr eir iddynt wrth gyflawni'r Weithred (h.y. y taliadau disgwyliedig i ffermwyr a rheolwyr tir o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy rhwng 2026 a 2029 a fynegir fel gwerth presennol net mewn £m);
- Am faint o amser y disgwylir i fanteision Gweithredoedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy barhau;
- Y manteision posibl sy'n codi o gyflawni Gweithredoedd rhwng 2026 a 2030 (a fynegir fel gwerth presennol net mewn £m): disgwylir i rai manteision gronni);
- Y swyddog yn Llywodraeth Cymru a fydd yn gyfrifol am y broses o gyflawni manteision.

## G. CYNLLUN LLYWODRAETHU – TALIADAU GWLEDIG CYMRU

### *Cyflwyniad*

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei chynlluniau i roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith a'i gyflawni, a fydd yn lansio ar 1 Ionawr 2026. Disgwylir y bydd rhagor o waith datblygu polisi a gweithredol y tu hwnt i'r dyddiad dechrau yn 2026.

Er mwyn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod yn llwyddiannus, bydd angen gwneud penderfyniadau amserol ynglŷn â newidiadau pellach ar y lefel gywir o awdurdod. Bydd strwythur llywodraethu gweithredol sydd wedi'i ddiffinio'n dda yn arwain at dimau mwy effeithlon ac effeithiol, gwell canlyniadau, risgiau is a gwell defnydd o adnoddau. Mae hyn yn golygu pennu dull strwythuredig o wneud penderfyniadau, sydd wedi'i ddogfennu ac sy'n:

- Sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn amserol ar y lefel briodol;
- Rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;
- Meithrin diwylliant o atebolrwydd a thryloywder;
- Rhoi goruchwyliaeth ac arweiniad i wella'r potensial i lwyddo.

Nodir y fframwaith llywodraethu bras ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn yr Achos Rheoli. Mae'r Atodiad hwn yn canolbwyntio ar rôl Taliadau Gwledig Cymru a'i phartneriaid a'i rhanddeiliaid wrth i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei gyflawni o ddydd i ddydd.

Mae'r Atodiad hwn yn dogfennu'r dull arfaethedig o lywodraethu prosesau gwneud penderfyniadau rhaglenni sy'n effeithio ar Taliadau Gwledig Cymru (y "Cynllun Llywodraethu"). Mae hefyd yn diffinio rolau a chyfrifoldebau a'r amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau. Pan gynigir prosesau neu fethodolegau newydd, gwneir penderfyniadau ar ôl eu huwchgyfeirio a'u hystyried yn briodol.

Mae'n cynnwys Cylch Gorchwyl pob Bwrdd sy'n rhan o'r strwythur llywodraethu allweddol. Y nod yw sicrhau bod y trefniadau gwneud penderfyniadau a fydd yn llywio'r systemau a'r prosesau a weithredir i roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith mor dryloyw â phosibl.

Caiff y Cynllun Llywodraethu ei adolygu bob blwyddyn a'i ddiweddaru yn ôl yr angen gan y Rheolwr Rhaglenni. Pan fydd newidiadau'n digwydd, caiff rhif y fersiwn ei ddiweddaru i'r rhif nesaf ynghyd â'r dyddiad, a chaiff y perchennog sy'n gwneud y newid a disgrifiad o'r newid eu cofnodi yng nghofnod hanes adolygu'r ddogfen.

### *Cwmpas y cynllun*

Mae'r Cynllun Llywodraethu yn disgrifio pwy, yn ôl rôl, fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau, cymeradwyo dogfennau'r rhaglen, pennu contractau i gefnogi'r rhaglen, cymeradwyo elfennau i'w cyflawni gan gontractwyr, a gwneud y penderfyniad terfynol i dderbyn y system awtomataidd a chynhyrchion y contractwr. Mae hefyd yn pennu'r trothwyon pan fydd yn rhaid uwchgyfeirio materion i lefel uwch o awdurdod. Os bydd partïon yn y rhaglen yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad, mae'r Cynllun yn cynnwys proses apelio. Mae rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol fyrddau wedi'u cynnwys o dan rolau a chyfrifoldebau Byrddau unigol Taliadau Gwledig Cymru am y gall cyfansoddiad pob bwrdd yn amrywio.

### *Meini prawf llwyddiant / gwireddu manteision*

Bydd y Cynllun Llywodraethu hwn yn cael ei ystyried yn llwyddiannus os gwneir penderfyniadau gan y corff llywodraethu priodol yn amserol. Fodd bynnag, gall Taliadau Gwledig Cymru benderfynu pennu sawl maen prawf llwyddiant allweddol yn ddiweddarach unwaith y bydd y gallu i'w mesur wedi'i gadarnhau a gellir eu cysylltu â'r broses reoli gyffredinol o gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn erbyn ei amcanion yn ogystal ag amcanion ehangach rheoli tir yn gynaliadwy.

### *Lefelau o awdurdod*

Bydd angen i bob parti wybod ei lefel o awdurdod yn ogystal â lefelau awdurdod y rhai sy'n ymwneud â chyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae Tabl 109 yn pennu'r lefelau arfaethedig o awdurdod ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

*Tabl 109: Lefelau arfaethedig o awdurdod*


| Grŵp llywodraethu | Lefel o awdurdod |
|---|---|
| Arweinwyr Tîm | Newidiadau yn eu tîm eu hunain, neu y mae timau eraill yn fodlon arnynt, nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar gyllideb nac amserlen y prosiect. |
| Bwrdd Rheoli Newid | Newidiadau i ofynion neu gerrig milltir interim o fewn cyllideb ac amserlen gyffredinol y prosiect. |

| Grŵp llywodraethu | Lefel o awdurdod |
|---|---|
| Rheolwr y Prosiect | Newidiadau y gellir darparu ar eu cyfer o fewwn cyllideb ac amserlen gyffredinol y prosiect. [Newidiwch hyn i adlewyrchu penderfyniad eich prosiect o ran awdurdod Rheolwr y Prosiect i gymeradwyo newidiadau i gwmpas, amserlen, a chyllideb.] |
| Cyfarwyddwr y Prosiect | Newidiadau y gellir darparu ar eu cyfer <<o fewn 5%>> o gyllideb ac amserlen gyffredinol y prosiect. |
| Noddwr y Prosiect | Newidiadau y gellir darparu ar eu cyfer rhwng <<5-10%>> o gyllideb ac amserlen gyffredinol y prosiect. |
| Pwyllgor Llywio Gweithredol | Newidiadau lle y bydd angen cynyddu cyllid y prosiect, sy'n effeithio ar ddyddiadau gweithredu, neu sy'n newid cwmpas y prosiect sy'n cael effaith o 10% neu fwy.<br>Newidiadau sy'n ymwneud â pholisi; diwygiadau i'r contract. |
| Asiantaethau Rheoli'r Wladwriaeth a/neu'r Ddeddfwrfa | Unrhyw newidiadau o fwy na 10% o'r cwmpas, yr amserlen, neu'r adnoddau.<br>Ceisiadau gweithredu cyllidebol am unrhyw swm.<br>Ceisiadau adran 11.00.<br>Caffael gwerthwyr. |

### *Uwchgyfeirio materion a'u datrys*

Caiff unrhyw faterion sy'n codi eu trin gan y rhai ar y lefel isaf o awdurdod i wneud hynny. Weithiau, efallai y caiff materion eu nodi gan y rhai heb awdurdod i'w datrys. Yn yr achosion hyn, caiff y materion eu huwchgyfeirio i'r lefel briodol. Ymdrinnir â phob mater o fewn amserlen benodedig fel na fyddant yn gorlethu'r rhaglen. Caiff y materion hyn eu cyflwyno gerbron bwrdd perthnasol Taliadau Gwledig Cymru i'w trafod a chytuno yn y pen draw ar y ffordd ymlaen a argymhellir. Os bydd unrhyw faterion yn mynd yn rhy fawr i fwrdd unigol yn Taliadau Gwledig Cymru, caiff y rhain eu huchgyfeirio i Fwrdd Cyflawni Gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy neu i Fwrdd Goruchwylio Strategol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn i'r bwrdd hwnnw eu hystyried a phenderfynu arnynt.

*Ffigur 21: Strwythur llywodraethu Taliadau Gwledig Cymru*




## <u>*Bwrdd Rheoli Taliadau Gwledig Cymru (Cylch Gorchwyl)*</u>

### Rolau a chyfrifoldebau

Rôl Bwrdd Rheoli Taliadau Gwledig Cymru fydd:

- Rhoi arweinyddiaeth weladwy ac effeithiol i'r Is-adran a phennu ei chyfeiriad strategol corfforaethol a'i blaenoriaethau;
- Mynd ati i gyflawni nodau ac amcanion strategol yr Is-adran y cytunwyd arnynt a sicrhau bod amcanion Canghennau yn cyd-fynd â nhw;
- Sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu'n effeithiol a bod adnoddau ariannol yn cael eu rheoli;
- Sicrhau bod ystyriaeth lawn o barhad busnes ac adfer ar ôl trychineb a bod cynlluniau ar waith ar eu cyfer;
- Cytuno ar werthoedd corfforaethol, pennu safonau a monitro cydymffurfiaeth;
- Cytuno ar system dryloyw o reolaethau darbodus ac effeithiol (gan gynnwys rheolaethau mewnol) a'i chynnal;
- Asesu a rheoli risg Gorfforaethol ac Asedau Gwybodaeth;
- Arwain a goruchwylio'r broses o newid ac annog arloesedd;

- Cytuno ar strategaeth gorfforaethol er mwyn cynnal amgylchedd iach a diogel i staff ac ymwelwyr;
- Cymeradwyo cylch gwaith y Bwrdd Cyflawni Gweithredol, goruchwylio ei weithgareddau a chytuno ar drefniadau ar gyfer adrodd am eithriadau;
- Cofnodi ac adolygu gweithredoedd agored a phenderfyniadau angenrheidiol.

### Amlder cyfarfodydd

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter: bydd yn dilyn cyfarfod Bwrdd Cyflawni Taliadau Gwledig Cymru a gynhelir yn gynharach y diwrnod hwnnw. Lle y bo'n briodol, bydd y Bwrdd yn sefydlu grwpiau ad hoc i ymgymryd â darnau mawr o waith lle bo angen gweithredu ar y cyd.

Gellir ymdrin â materion lle bydd angen penderfyniad brys y tu allan i'r cylch cyfarfod arferol drwy ohebiaeth ar ffurf adrodd am eithriadau neu, weithiau, fel cyfarfod eithriadol, gyda chytundeb y Cadeirydd a'r aelodau.

### Aelodaeth

Penodir aelodau o'r Bwrdd yn ôl disgresiwn Pennaeth Taliadau Gwledig Cymru a chan y Pennaeth. Dylai aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd feddu ar wybodaeth am Taliadau Gwledig Cymru a'r awdurdod i wneud penderfyniadau strategol.

Mae aelodaeth bresennol y Bwrdd (a fydd yn cael ei hadolygu bob blwyddyn) fel a ganlyn:

- Pennaeth Taliadau Gwledig Cymru (Cadeirydd)
- Pennaeth Gweithrediadau (Dirprwy Gadeirydd)
- Pennaeth y Gangen Arfarnu
- Pennaeth yr Uned Polisi PAC ac Apeliadau
- Pennaeth Cymorth Technegol
- Pennaeth y Swyddfeydd Rhanbarthol
- Pennaeth y Gangen Gweithrediadau Cwsmeriaid
- Pennaeth Gweithrediadau 'Peilot'
- Pennaeth TG Taliadau Gwledig Cymru
- Pennaeth Arolygiaeth Wledig Cymru a'r Gangen Gartograffig
- Rheolwr Cyflawni TG Taliadau Gwledig Cymru
- Pennaeth Llywodraethu, y Gangen Llywodraethu, Cyllid a Phobl
- Uwch-reolwr Newid Busnes
- Rheolwr Rhaglenni Taliadau Gwledig Cymru

Lle y bo'n briodol, bydd y Bwrdd yn sefydlu grwpiau ad hoc i ymgymryd â darnau mawr o waith lle bo angen gweithredu ar y cyd.

### Proses uwchgyfeirio

Os na all aelodau o Fwrdd Rheoli Taliadau Gwledig Cymru sy'n bresennol yn unrhyw un o gyfarfodydd y Bwrdd ddatrys mater, bydd gan Gadeirydd Bwrdd Rheoli Taliadau Gwledig Cymru y bleidlais fwrw. Bydd gan y Cadeirydd yr hawl i ohirio'r bleidlais fwrw ac uwchgyfeirio mater i Fwrdd Gweithredu a Chyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

### Tryloywder

Caiff agendâu, cofnodion a phapurau'r Bwrdd eu cyhoeddi ar y fewnrwyd bedair wythnos ar ôl pob cyfarfod.

### Cyfrinachedd

Caiff Cadeirydd y Bwrdd (Pennaeth Taliadau Gwledig Cymru neu Ddirprwy), yn ôl ei (d)ddisgresiwn gyfyngu ar fynediad at ddogfennau penodol sydd wedi'u dosbarthu'n rhai 'Cyfyngedig / Swyddogol-Sensitif', a all achosi gwrthdaro buddiannau a/neu oblygiadau niweidiol os cânt eu datgelu.

### Ysgrifenyddiaeth

Caiff y Bwrdd ei gefnogi gan Ysgrifenyddiaeth o Gangen Llywodraethu, Cyllid a Phobl Taliadau Gwledig Cymru a fydd yn:

- Trefnu cyfarfodydd;
- Cytuno ar yr agenda â'r Cadeirydd;
- Dosbarthu papurau o leiaf bum diwrnod gwaith cyn cyfarfod;
- Cofnodi trafodaethau a chamau gweithredu a sicrhau eu bod wedi'u cyfleu yn y cofnodion y cytunir arnynt;
- Paratoi a dosbarthu trafodaethau, pwyntiau gweithredu a phenderfyniadau allweddol o fewn pum diwrnod gwaith i'r cyfarfod;
- Sicrhau y caiff y broses uwchgyfeirio ei rheoli'n briodol.

*Bwrdd Gweithredu a Chyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy(Cylch Gorchwyl)*

**Rolau a chyfrifoldebau**

Diben Bwrdd Gweithredu a Chyflawni Rhaglen y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Bwrdd) fydd rhoi cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth i ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (pob elfen), y Prosiect Profiad Cwsmeriaid, y Prosiect Adolygu Addasrwydd a Phrosiect y System Adnabod Parseli Tir, a'u rhoi ar waith. Bydd y Bwrdd Rhaglen Newid yn sicrhau bod prosiectau yn parhau i ganolbwyntio ar yr amcanion allweddol a sicrhau manteision lefel uchel.

Mae'r Bwrdd yn rhan o'r strwythur llywodraethu ehangach a sefydlwyd i reoli'r broses o bontio o'r PAC i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys y flwyddyn baratoadol 2025.


Rôl arfaethedig y Bwrdd fydd:

- Cadarnhau lefelau goddefiant prosiectau a chymeradwyo newidiadau o fewn cylch gwaith amcanion polisi a'r broses rheoli newid y cytunwyd arni;
- Gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r newidiadau y bydd angen eu cyflwyno i ddyluniad gweithredol unrhyw un o elfennau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy;
- Rhoi cyfeiriad cyffredinol i brosiectau, gan sicrhau bod prosiectau yn dal yn hyfyw;
- Sicrhau bod gan brosiectau rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir;
- Cymeradwyo briff prosiectau, dogfennau cychwyn prosiect ac unrhyw ofynion teilwra;
- Cytuno ar brosesau cyfathrebu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol;
- Adolygu'r amrywiol adroddiadau ar y prif bwyntiau a baratoir gan Taliadau Gwledig Cymru ar brosiectau;
- Cofnodi camau gweithredu a phenderfyniadau, dibyniaethau a thybiaethau a'u hadolygu;
- Ystyried rhyngddibyniaethau a rheoli unrhyw flaenoriaethau croes;
- Craffu ar ansawdd cynhyrchion a'u darparu;
- Sicrhau y caiff dyddiadau cerrig milltir y cytunir arnynt (a statws COG) eu hatgynhyrchu ym mhob rhan o Gynllun Rhaglen gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Y meysydd allweddol y bydd y Bwrdd yn eu trafod fydd:

- Cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol;
- Bydd arweinwyr prosiectau/ffrydiau gwaith yn rhoi diweddariadau lefel uchel drwy eithriad;
- Prosiect/ffrwd waith i roi diweddariad manwl o'u maes yn ôl y gofyn;
- Adolygu a chymeradwyo unrhyw ddogfennau rhaglen;
- Adolygu unrhyw geisiadau arfaethedig i newid cwmpas llinell sylfaen y rhaglen bontio;
- Y cyfathrebiad nesaf â rhanddeiliaid;
- Adolygu'r gyllideb;
- Adolygu adnoddau.

**Proses newid**



**Amlder cyfarfodydd**
Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob mis. Gellir ymdrin â materion lle bydd angen penderfyniad brys y tu allan i'r cylch cyfarfod arferol drwy ohebiaeth ar ffurf adrodd am eithriadau neu, weithiau, fel cyfarfod eithriadol, gyda chytundeb y Cadeirydd a'r aelodau.

**Aelodaeth**
Bydd aelodaeth ar sail gylchdro a bennir gan y blaenoriaethau cyflawni busnes yn ystod y flwyddyn. Bydd yr aelodaeth lawn fel a ganlyn:

- Pennaeth Taliadau Gwledig Cymru (Cadeirydd)
- Pennaeth Gweithrediadau (Dirprwy Gadeirydd)
- Pennaeth y Gangen Arfarnu
- Pennaeth yr Uned Polisi PAC ac Apeliadau
- Pennaeth Cymorth Technegol
- Pennaeth y Swyddfeydd Rhanbarthol
- Pennaeth y Gangen Gweithrediadau Cwsmeriaid
- Pennaeth Gweithrediadau 'Peilot'
- Pennaeth TG Taliadau Gwledig Cymru
- Pennaeth Arolygiaeth Wledig Cymru a'r Gangen Gartograffig
- Rheolwr Cyflawni TG Taliadau Gwledig Cymru
- Pennaeth Llywodraethu, y Gangen Llywodraethu, Cyllid a Phobl
- Uwch-reolwr Newid Busnes
- Rheolwr Rhaglenni Taliadau Gwledig Cymru.

Bydd hefyd ofynion i rai o'r tu allan i Taliadau Gwledig Cymru fod yn bresennol, a all gynnwys:

- Cynrychiolwyr o Dîm Cyswllt Ffermio
- Cynrychiolwyr o CAP Gemini (Contractwyr TG)
- Cynrychiolwyr o CNC
- Cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

Darperir yr Ysgrifenyddiaeth gan Swyddfa Rheoli Rhaglen Taliadau Gwledig Cymru.

Bydd angen i aelodau'r Bwrdd, os byddant yn absennol, ddarparu dirprwy i gynrychioli eu maes gwaith. Efallai y gofynnir am fewnbwn gan randdeiliaid eraill, yn ôl yr angen.

**Proses uwchgyfeirio**
Y Bwrdd fydd yn derbyn materion i'w huwchgyfeirio, a all effeithio ar gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn weithredol, neu unrhyw ddatblygiad newydd arall gan Taliadau Gwledig Cymru.

Os na all aelodau'r Bwrdd ddatrys y mater ac nad oes modd penderfynu yn ei gylch, bydd gan Gadeirydd Bwrdd Newid Taliadau Gwledig Cymru y bleidlais fwrw derfynol neu caiff y Cadeirydd gyfeirio'r mater neu'r penderfyniad at Fwrdd Cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a/neu Fwrdd Newid Amaethyddol Materion Gwledig.

**Tryloywder**
Caiff y camau gweithredu a'r penderfyniadau y cytunir arnynt gan y Bwrdd eu storio yn iShare a byddant ar gael i bob aelod o'r staff ar gais i Gangen Llywodraethu, Cyllid a Phobl Taliadau Gwledig Cymru.

**Cyfrinachedd**
Caiff Cadeirydd y Bwrdd (Pennaeth Taliadau Gwledig Cymru neu Ddirprwy), yn ôl ei (d)ddisgresiwn gyfyngu ar fynediad at ddogfennau penodol sydd wedi'u dosbarthu'n rhai 'Cyfyngedig / Swyddogol-Sensitif', a all achosi gwrthdaro buddiannau a/neu oblygiadau niweidiol os cânt eu datgelu.

**Ysgrifenyddiaeth**
Bydd cangen Llywodraethu, Cyllid a Phobl Taliadau Gwledig Cymru yn darparu'r Ysgrifenyddiaeth i'r Bwrdd drwy wneud y canlynol:

- Trefnu cyfarfodydd.
- Cytuno ar yr agenda â'r Cadeirydd.
- Dosbarthu papurau o leiaf bum diwrnod gwaith cyn cyfarfod.
- Paratoi a dosbarthu trafodaethau, pwyntiau gweithredu a phenderfyniadau allweddol o fewn pum diwrnod gwaith i'r cyfarfod.
- Cynnal Cofrestr Risg a Materion y Bwrdd.

- Sicrhau bod yr holl baparau perthnasol yn cael eu cadw yn y ffolderi priodol yn iShare.
- Diweddaru'r log o gamau gweithredu a phenderfyniadau.
- Uwchgyfeirio materion at Fwrdd Cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a/neu Fwrdd Newid Amaethyddol Materion Gwledig yn ôl y gofyn.

## *Bwrdd Cyflawni Busnes Taliadau Gwledig Cymru (Cylch Gorchwyl)*

### Rolau a chyfrifoldebau

Rôl Bwrdd Cyflawni Busnes Taliadau Gwledig Cymru fydd rheoli a monitro'r broses o ddarparu cynhyrchion Taliadau Gwledig Cymru gan ganghennau rheng flaen. Bydd hefyd yn llywodraethu'r broses o roi newidiadau i brosesau presennol Taliadau Gwledig Cymru ar waith, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):

- Cyswllt â Chwsmeriaid
- RPW Ar-lein
- Prosesau blynyddol y Ffurflen Cais Sengl
- Prosesau blynyddol Cynllun y Taliad Sylfaenol
- Holl brosesau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (unwaith y byddant ar gael ac wedi'u rhyddhau i'w defnyddio)
- Holl brosesau paratoadol y Cynllun (unwaith y byddant ar gael ac wedi'u rhyddhau i'w defnyddio)
- Cyhoeddiadau
- Dilysu a Phorth y Llywodraeth / Gwirhau (One Login)
- Technoleg yn y maes
- Pob proses busnes i ddiweddaru'r System Adnabod Parseli Tir
- Strategaeth cwmwl
- Cynnal Tir (Ffurflen FM5 / marcio ar-lein)
- Codi Risgiau a Materion *Newydd*
- Cyflwyno adroddiad ar feysydd cyflawni presennol (h.y. ystadegau allweddol).

### Amlder cyfarfodydd

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob mis, ar y dydd Mawrth cyntaf o'r mis. Gellir ymdrin â materion lle bydd angen penderfyniad brys y tu allan i'r cylch cyfarfod arferol drwy ohebiaeth neu weithiau fel cyfarfod eithriadol, gyda chytundeb y Cadeirydd a'r aelodau.

### Dull gweithredu

Mae'n gweithio'n agos gyda Bwrdd Newid Gweithredol Busnes Taliadau Gwledig Cymru a Bwrdd Dylunio Technegol Taliadau Gwledig Cymru, sy'n sicrhau ansawdd ac yn asesu dichonoldeb y newidiadau i systemau a phrosesau a gynigir gan y Bwrdd.

### Aelodaeth

Bydd Bwrdd Dylunio Busnes Taliadau Gwledig Cymru yn cyfarfod bob mis. Mae'n gweithio'n agos gyda Bwrdd Newid Gweithredol Busnes Taliadau Gwledig Cymru, Bwrdd Dylunio Busnes Taliadau Gwledig Cymru a Bwrdd Dylunio Technegol Taliadau Gwledig Cymru, sy'n sicrhau ansawdd ac yn asesu dichonoldeb y newidiadau i systemau a phrosesau a gynigir gan y Bwrdd. Bydd yr aelodaeth fel a ganlyn:

- Pennaeth Taliadau Gwledig Cymru (Cadeirydd)
- Pennaeth Gweithrediadau (Dirprwy Gadeirydd)
- Pennaeth yr Uned Polisi PAC ac Apeliadau
- Pennaeth Cymorth Technegol
- Pennaeth y Gangen Gweithrediadau Cwsmeriaid
- Pennaeth Gweithrediadau 'Peilot'
- Pennaeth TG Taliadau Gwledig Cymru
- Pennaeth Arolygiaeth Wledig Cymru a'r Gangen Gartograffig
- Rheolwr Cyflawni TG Taliadau Gwledig Cymru
- Pennaeth Llywodraethu, y Gangen Llywodraethu, Cyllid a Phobl
- Uwch-reolwr Newid Busnes
- Rheolwr Rhaglenni Taliadau Gwledig Cymru
- Contractwyr CAP Gemini (drwy wahoddiad yn unig)

### Tryloywder

Nid oes cyfyngiad ar agenda, papurau na chofnodion Bwrdd Dylunio Busnes Taliadau Gwledig Cymru ac maent ar gael ar iShare.

**Cyfrinachedd**

Caiff Cadeirydd y Bwrdd (Pennaeth Taliadau Gwledig Cymru neu Ddirprwy), yn ôl ei (d)ddisgresiwn gyfyngu ar fynediad at ddogfennau penodol sydd wedi'u dosbarthu'n rhai 'Cyfyngedig / Swyddogol-Sensitif', a all achosi gwrthdaro buddiannau a/neu oblygiadau niweidiol os cânt eu datgelu.

**Llwybr uwchgyfeirio**

Ar gyfer sefyllfaoedd lle bydd angen newid systemau a/neu brosesau presennol yna bydd y maes busnes dan sylw yn cwblhau templed Cais am Newid a'i gyflwyno i'r Ysgrifenyddiaeth i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Dylunio Busnes. Bydd y cais am newid yn manylu ar y sefyllfa bresennol a pham mae angen newid. Bydd y cais am newid yn cael ei ategu gan o leiaf 2 gynnig ar reoli'r sefyllfa h.y. bydd Taliadau Gwledig Cymru yn parhau i weithredu fel y mae (er bod risg yn codi o bosibl), neu caiff o leiaf un cynnig arall i liniaru'r sefyllfa ei gyflwyno ynghyd â'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â gwneud y newid hwnnw. Caiff y cynigion eu hystyried gan y bwrdd a chaiff y penderfyniad terfynol ei gofnodi ar y templed a'i gadw ar iShare. Caiff y penderfyniad ei gofnodi hefyd ar y Cofnod o Benderfyniadau rhag ofn y bydd angen craffu arno yn y dyfodol. Os na ddeuir i gytundeb yn ystod cyfarfod y Bwrdd Dylunio Busnes gellir tybio y bydd angen uwchgyfeirio'r mater at Fwrdd Newid Amaethyddol Materion Gwledig.

**Ysgrifenyddiaeth**

Caiff y Bwrdd ei gefnogi gan Ysgrifenyddiaeth o Gangen Llywodraethu, Cyllid a Phobl Taliadau Gwledig Cymru drwy'r canlynol:

- Trefnu cyfarfodydd.
- Cytuno ar yr agenda â'r Cadeirydd.
- Dosbarthu papurau o leiaf bum diwrnod gwaith cyn cyfarfod.
- Llunio'r cofnodion.
- Diweddaru'r Cofnod perthnasol o Faterion, Camau Gweithredu a Risgiau.
- Paratoi a dosbarthu trafodaethau, pwyntiau gweithredu a phenderfyniadau allweddol (h.y. cofnodion misol pob cyfarfod) o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod.
- Sicrhau y caiff y broses uwchgyfeirio ei rheoli'n briodol.
- Diweddaru dogfen grynodeb Bwrdd Cyflawni Taliadau Gwledig Cymru.

## *Bwrdd Cyflawni TG Taliadau Gwledig Cymru (Cylch Gorchwyl)*

**Rolau a chyfrifoldebau**

Mae Bwrdd Cyflawni Gwasanaethau Prosiectau TG Taliadau Gwledig Cymru yn goruchwylio ac yn rheoli'r broses o gyflawni nifer o elfennau i'w cyflawni o eiddo'r busnes.

Mae hyd a lled y gwaith a grisialir o dan y Bwrdd Cyflawni TG hwn yn cynnwys:

- Cyflawni Busnes fel Arfer:
  - Rhyddhau cynnwys, amseriadau
  - Blaenoriaethu Materion/Datrysiadau
  - Rheoli Newid
- Gwasanaethau prosiect:
  - Cwmpas
    - Bydd y Dogfennau Cwmpas yn manylu ar y set o elfennau i'w cyflawni, yr ymdrech a'r blaenoriaethau a fydd yn cyflawni'r canlyniadau busnes a'r amcanion sy'n sail i weithrediad Taliadau Gwledig Cymru.
    - TG Taliadau Gwledig Cymru fydd yn gyfrifol am greu'r set o Ddogfennau Cwmpas.
    - Mae cyfrifoldeb ar Berchnogion Busnes Taliadau Gwledig Cymru i sicrhau bod y Dogfennau Cwmpas yn cofnodi'r gofynion a bydd yn ofynnol iddynt gadarnhau derbynioldeb.
    - Rheoli Newid
  - Amserlenni cyflawni
    - Perchnogion Busnes i gytuno ar amserlennu pob elfen i'w chyflawni y cytunir arni yn y Cynllun Cyflawni TG yn unol â cherrig milltir Taliadau Gwledig Cymru.
    - Blaenoriaethu
    - Adolygu Cynnydd
    - Rheoli Newid
- Monitro Prosesau Cyflawni TG
  - Monitro'r Cynllun Cyflawni TG

- Blaenoriaethu
- Rheoli Newid

- Llywodraethu ar gyfer Cyflawni Amlwytholi TG Taliadau Gwledig Cymru (Datrysiad Llawn)
  - Llywodraethu
    - Cwmpas
    - Dylunio
    - Datblygu
    - Cyfathrebu
    - Dull Profi
    - Risg a Materion
  - Amserlen Gyflawni
    - Camau Rhoi ar Waith
  - Rheoli Newid

### Amlder cyfarfodydd
Cynigir y dylai Bwrdd Cyflawni TG Taliadau Gwledig Cymru gyfarfod bob mis.

### Aelodaeth
Mae Bwrdd Cyflawni TG Taliadau Gwledig Cymru yn goruchwylio ac yn llywodraethu'r holl brosesau cyflawni TG, gan gynnwys Busnes fel Arfer, Gwasanaethau Prosiect, (gan gynnwys Amlwytholi TG).

Lle y bo'n briodol, bydd Bwrdd Cyflawni Taliadau Gwledig Cymru yn argymell gweithgarwch y bydd angen ei gyflwyno i Fwrdd Dylunio Technegol Taliadau Gwledig Cymru i'w gymeradwyo, neu fyrddau llywodraethu eraill Taliadau Gwledig Cymru fel y bo'n briodol ar gyfer meysydd cyflawni penodol.

Aelodau Llywodraeth Cymru o'r bwrdd fydd yn gyfrifol am holl benderfyniadau a chymeradwyaethau gan y Bwrdd Cyflawni TG. Bydd cynrychiolwyr trydydd parti yn cyfrannu ac yn cynnig cyngor, arweiniad ac argymhellion.

| **Rôl – Llywodraeth Cymru** |
|---|
| TG Taliadau Gwledig Cymru: Pennaeth TG |
| Rheolwr Cyflawni Rhaglen TG Taliadau Gwledig Cymru (Cadeirydd) |
| Rheolwr Prosiectau TG Taliadau Gwledig Cymru |
| Rheolwr Gweithrediadau TG Taliadau Gwledig Cymru |
| TG Taliadau Gwledig Cymru – Rheolwyr Geo-ofodol |
| TG Taliadau Gwledig Cymru: Rheolwr Tîm Cymorth |
| Perchnogion Busnes Cyflawni Gweithredol Taliadau Gwledig Cymru |
| Swyddfa Rheoli Rhaglenni |
| Presenoldeb trydydd partïon |
| Gwasanaethau Prosiect Geo-ofodol/Busnes fel Arfer |
| CAPIT / Rheolwr Rhaglenni Ar-lein Taliadau Gwledig Cymru |
| CAPIT/Gwasanaethau Prosiect Ar-lein |
| CAPIT/Busnes fel Arfer Ar-lein |

Caiff pob maes ei gynrychioli ym mhob sesiwn fisol. Bydd pob maes busnes yn gyfrifol am gynrychiolwyr neu staff cyflenwi. Dylai fod gan unrhyw gynrychiolwyr gyfrifoldeb am wneud penderfyniadau.

### Proses uwchgyfeirio
Os na all aelodau Bwrdd Cyflawni TG Taliadau Gwledig Cymru sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r bwrdd ddatrys yr anghydfod neu'r mater ac nad oes modd gwneud penderfyniad yn ei gylch, bydd yr anghydfod/mater yn cael ei benderfynu'n derfynol drwy ei uwchgyfeirio gan y Swyddfa Rheoli Rhaglenni at Uwch-swyddog Cyfrifol drwy'r llwybr llywodraethu priodol.

### Tryloywder
Nid oes unrhyw gyfyngiad ar agenda, papurau na chofnodion cyfarfodydd Bwrdd Cyflawni Taliadau Gwledig Cymru a byddant ar gael ar iShare.

### Cyfrinachedd
Caiff y Rheolwr Cyflawni, ar y cyd â Pherchnogion Busnes Taliadau Gwledig Cymru, yn ôl eu disgresiwn, ddynodi eitemau penodol yn Swyddogol-Sensitif. O dan amgylchiadau penodol, gellir gofyn i aelodau trydydd parti dynnu'n ôl o'r bwrdd ar gyfer y trafodaethau hyn.

### Ysgrifenyddiaeth
Caiff y Bwrdd ei weinyddu gan Reolwr Cyflawni TG Taliadau Gwledig Cymru.

- Bydd yn trefnu cyfarfodydd misol neu gyfarfodydd interim 'OS' bydd angen.
- Bydd agenda osod. Bydd unrhyw ofynion ychwanegol/hwyr yn cael eu cwmpasu o dan Unrhyw Fater Arall.
- Bydd dogfennau wedi'u diweddaru bob amser ar gael.
- Paratoi a dosbarthu pwyntiau gweithredu ac unrhyw benderfyniadau o fewn pum diwrnod gwaith i'r cyfarfod.
- Sicrhau y caiff y broses uwchgyfeirio ei rheoli'n briodol.

## *Bwrdd Rheoli Risg Taliadau Gwledig Cymru (Cylch Gorchwyl)*

### Rôl a chyfrifoldebau
Rôl Bwrdd Rheoli Risg Taliadau Gwledig Cymru fydd rheoli a monitro'r Risgiau a'r Materion a all/allai effeithio ar y gwaith o ddarparu prosesau a systemau busnes Taliadau Gwledig Cymru. Daw risgiau o dan y pedwar prif gategori: Risg ariannol, Risg weithredol, Risg strategol, a Risg cydymffurfiaeth.

### Amlder cyfarfodydd
Mae Bwrdd Rheoli Risg Taliadau Gwledig Cymru yn cyfarfod bob mis ar yr ail ddydd Llun o'r mis. Mae'n gweithio'n agos gyda Bwrdd Cyflawni Busnes a Bwrdd Newid Busnes Taliadau Gwledig Cymru, sef y byrddau lle y codir Risgiau a Materion i ddechrau.

### Aelodaeth
Mae Bwrdd Rheoli Risg Taliadau Gwledig Cymru yn cynnwys yr aelodau canlynol:

- Pennaeth Taliadau Gwledig Cymru
- Pennaeth TG Taliadau Gwledig Cymru
- Pennaeth Gweithrediadau
- Pennaeth Llywodraethu, y Gangen Llywodraethu, Cyllid a Phobl
- Rheolwr Rhaglenni

### Tryloywder
Caiff y Gofrestr Risg a Materion ei diweddaru drwy gydol y cyfarfodydd hyn. Ni fydd unrhyw gyfyngiad arni a bydd ar gael ar iShare. Bydd templed ar gael i reolwyr Taliadau Gwledig Cymru godi Risgiau/Materion ym Mwrdd Cyflawni Busnes Taliadau Gwledig Cymru.

### Cyfrinachedd
Caiff Cadeirydd y Bwrdd (Pennaeth Taliadau Gwledig Cymru neu Ddirprwy), yn ôl ei (d)ddisgresiwn gyfyngu ar fynediad at ddogfennau penodol sydd wedi'u dosbarthu'n rhai 'Cyfyngedig / Swyddogol-Sensitif', a all achosi gwrthdaro buddiannau a/neu oblygiadau niweidiol os cânt eu datgelu.

### Proses uwchgyfeirio
Caiff Bwrdd Rheoli Risg Taliadau Gwledig Cymru benderfynu uwchgyfeirio'r Risg/Mater os cytunir y bydd effaith ehangach/fwy na'r hyn y gall Taliadau Gwledig Cymru ei rheoli ei hun. Y llwybr uwchgyfeirio ar hyn o bryd yw y bydd Risgiau/Materion yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a/neu'r Bwrdd Newid Amaethyddol, yn dibynnu ar lefel y risg y credir y dylid ei phriodoli i'r sefyllfa.

### Ysgrifenyddiaeth
Caiff y Bwrdd ei gefnogi gan Ysgrifenyddiaeth o Gangen Llywodraethu, Cyllid a Phobl Taliadau Gwledig Cymru drwy'r canlynol:

- Sicrhau bod y Gofrestr Risg a Materion yn gyfredol.
- Uwchgyfeirio Risg a Materion os a phryd y gofynnir i'r Ysgrifenyddiaeth wneud hynny.
- Adolygu Risgiau a Materion sy'n dod i mewn a'u cyflwyno gerbron Bwrdd Cyflawni Busnes Taliadau Gwledig Cymru.

# H. CYNLLUN RHEOLI CYFFREDINOL TALIADAU GWLEDIG CYMRU

Bydd y Cynllun Rheoli Cyffredinol ar y strata lefel uchaf er mwyn sicrhau rheolaethau homogenaidd wrth roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith o 2026 i 2030.

Caiff y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei roi ar waith gan Taliadau Gwledig Cymru yn Llywodraeth Cymru.

## *Enw'r cynllun: Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

## *Diben y cynllun:*

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i '[G]reu system newydd o gymorth ffermio a fydd yn cynyddu pŵer amddiffynnol natur drwy ffermio, gan werthfawrogi anghenion penodol ffermydd teuluol yng Nghymru a chydnabod y broses o gynhyrchu bwyd lleol sy'n ecolegol gynaliadwy'.

Erys y broses barhaus o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn un o gonglfeini'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fodd bynnag, oherwydd newid yn yr hinsawdd, mae Taliadau Gwledig Cymru yn debygol o wynebu risgiau mawr i gynhyrchu bwyd yn y dyfodol. Ein hecosystemau naturiol yw'r amddiffynfa orau sydd gennym i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddynt.

Er mwyn cydnabod hyn, ynghyd ag agweddau cymdeithasol a diwylliannol pwysig sy'n gydgysylltiedig â ffermio, pennwyd yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy yn y Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru). Yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy yw:

- Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy.
- Lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.
- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu.
- Cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn helpu i gyflawni'r amcanion hyn a bydd yn gwobrwyo ffermwyr am weithredoedd sy'n cyd-fynd â nhw o dan dair Haen y Cynllun:

- **Cyffredinol:** Mae'n rhaid i bob gweithred gymwys gael ei chyflawni gan ffermwyr sy'n ymuno â'r Cynllun. Bydd y gweithredoedd hyn yn helpu ffermydd i ddod yn fwy cynaliadwy. Dylent fod o fewn cyrraedd y rhan fwyaf o ffermwyr a dylai fod modd eu hintegreiddio mewn arferion ffermio cyfredol.
- **Opsiynol:** Gweithredoedd a all fod wedi'u targedu at faterion penodol sy'n gysylltiedig â thir neu dirwedd y gall ffermwr ddewis eu cyflawni. Bydd ffermwyr yn gallu dewis pa weithredoedd y maent yn ymgymryd â nhw yn yr Haen hon a byddant yn derbyn tâl am eu cyflawni (yn ychwanegol at y tâl am ymgymryd â'r Gweithredoedd Cyffredinol).
- **Cydweithredol:** Caiff y gweithredoedd hyn eu cyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig gan nifer o ffermwyr neu reolwyr tir, ar raddfa tirwedd neu ddalgylch neu ar raddfa genedlaethol. Rydym am i weithredoedd cydweithredol ganolbwyntio ar elfennau o'r Cynllun lle y gallant sicrhau manteision ehangach na'r rhannau unigol gyda'i gilydd neu lle mae angen sawl person gwahanol i sicrhau canlyniad penodol.

Yn ogystal â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, bydd y Ddeddf yn cefnogi ymyriadau cyllid grant eraill sy'n targedu'r gadwyn gyflenwi er mwyn gwella prosesau cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, nwyddau eraill a lliniaru newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo.

## *Rheoliadau arweiniol:*

Caiff rheoliadau o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, [gorchymyn pwerau cefnogi 2025] i roi effaith i adran 10 a 12 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 eu gwneud erbyn 31 Rhagfyr 2025 i gefnogi'r broses o gyflwyno'r Cynllun.

## *Rheoli Cymorthdaliadau*

Hysbysir am bob ymyriad o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o dan y rheoliadau ynglŷn â rheoli cymorthdaliadau. Byddwn yn dilyn gofyniad adrodd rheoliadau rheoli cymorthdaliadau.

## *Gwiriadau gweinyddol:*

### Egwyddorion cyffredinol

Dylid gwneud gwiriadau gweinyddol yn y fath fodd ag sy'n sicrhau bod cywirdeb a chyflawnder yr wybodaeth a ddarperir i wneud cais am gyllid, hawlio taliadau neu wneud datganiad arall yn cael eu gwirhau'n effeithiol. Dylai gwiriadau wirhau'r gydymffurfiaeth ag amodau cymhwystra a'r telerau y rhoddir cymorth yn unol â nhw.

Dylai'r fethodoleg a ddefnyddir i wneud gwiriadau gweinyddol gael ei nodi yn y gweithdrefnau a'r cyfarwyddiadau desg ar gyfer pob lefel o'r Cynllun. Dylai'r rhain nodi pa bwyntiau sy'n cael eu gwirio a lefel y gwiriadau sydd ei hangen ar gyfer gwahanol rannau o'r weithdrefn ar hyd y broses o'r dechrau i'r diwedd.

Ar gyfer pob lefel o'r Cynllun, bydd Taliadau Gwledig Cymru yn sefydlu system reoli sy'n sicrhau bod yr holl wiriadau yn cael eu gwneud i wirhau cydymffurfiaeth a defnydd priodol o arian cyhoeddus yn effeithiol.

Byddwn yn sicrhau bod canlyniadau'r gwiriadau gweinyddol a'r hapwiriadau yn cael eu hasesu er mwyn canfod a allai unrhyw broblemau olygu risg i weithrediadau tebyg eraill, cwsmeriaid neu gyrff eraill yn gyffredinol. Bydd yr asesiad hefyd yn nodi'r hyn sy'n achosi sefyllfaoedd o'r fath, unrhyw archwiliad pellach sydd ei angen a'r camau cywirol ac ataliol angenrheidiol.

Bydd cais am gyllid neu hawliad am dâl yn cael ei wrthod os bydd y cwsmer neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd yn atal gwiriadau rhag cael eu gwneud, heblaw am achosion o dan amgylchiadau eithriadol. Caiff unrhyw swm sydd eisoes wedi cael ei dalu am y gweithrediad hwn ei adennill.

Ni fydd gostyngiadau na phenderfyniadau i allgáu yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn effeithio ar gosbau ychwanegol yn unol â darpariaethau eraill mewn cyfraith genedlaethol

Os gwelir arwyddion o ddiffyg cydymffurfiaeth o ganlyniad i groeswiriadau bydd angen cymhwyso unrhyw weithdrefn weinyddol briodol ddilynol, a hapwiriad, lle y bo angen.

**Croeswiriadau**

Bydd croeswiriadau yn cwmpasu pob elfen sy'n bosibl ac yn briodol i reoli drwy wiriadau gweinyddol. Byddant yn sicrhau'r canlynol:

- Mae meini prawf cymhwystra, gweithredoedd a rhwymedigaethau eraill y Cynllun neu'r mesur cymorth yn cael eu cyflawni.
- Nid oes unrhyw gyllido dwbl drwy gynlluniau etifeddol y CE na chynlluniau cenedlaethol eraill.
- Mae'r cais neu'r hawliad am dâl yn gyflawn ac mae'n cael ei gyflwyno o fewn y terfyn amser perthnasol a, lle y bo'n gymwys, mae dogfennau ategol wedi cael eu cyflwyno ac maent yn profi cymhwystra neu gydymffurfiaeth.
- Cydymffurfir ag ymrwymiadau hirdymor, lle y bo'n briodol.

Bydd croeswiriadau o leiaf yn cael eu gwneud rhwng y parseli amaethyddol fel y'u datganwyd yn y ffurflen cais sengl a/neu'r hawliad am dâl a'r wybodaeth berthnasol a geir yn y System Adnabod Parseli Tir fesul parsel cyfeirnod. Pan fydd y system integredig yn darparu ar gyfer ffurflenni cais geo-ofodol, caiff y croeswiriadau eu gwneud yn ofodol yn erbyn yr ardal wedi'i digideiddio a ddatgenir â'r System Adnabod Parseli Tir. Ein proses fydd:

- Rheolau busnes sefydledig yn CAPIT er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a chymhwystra.
- Synhwyro o bell.
- Gwiriadau rheoli a gynhelir ar bob lefel rheoli.

Os gwelir arwyddion o ddiffyg cydymffurfiaeth o ganlyniad i groeswiriadau bydd angen cymhwyso unrhyw weithdrefn weinyddol briodol ddilynol, a lle y bo angen, hapwiriad. Bydd Arolygiaeth Wledig Cymru yn cynnal ymweliad maes cyflym.

## _Cyfraddau talu'r Cynllun_

Bydd dogfen sy'n esbonio'r fethodoleg i gyfrifo cyfraddau talu'r Cynllun ar gael a bydd yn cael ei chadw ar gyfer pob Cynllun, gan ddefnyddio egwyddorion Rhesymoldeb Cost a Gwerth am Arian.

## _Ceisiadau am gyllid_

Bydd ein prosesau arfarnu yn:

- Cynnwys gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer cyflwyno ceisiadau am gyllid sy'n sicrhau bod system adnabod unigryw yn gymwys i bob cais am gymorth a gyflwynir gan yr un cwsmer, gan gynnwys y dyddiad derbyn.
- Sicrhau bod cwsmeriaid terfynol (h.y. y cwsmer olaf a gafodd gyllid grant) yn cael eu nodi drwy un Rhif Cyfeirnod Cwsmer.
- Caniatáu i geisiadau gael eu tynnu'n ôl yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unrhyw adeg pan hysbysir Taliadau Gwledig Cymru yn ysgrifenedig, ar yr amod nad yw'r cwsmer wedi cael ei hysbysu o achosion o afreoleidd-dra nac archwiliad ar y fferm.
- Cofnodi a chadw'r holl geisiadau a dogfennaeth gysylltiedig, gan gynnwys y dyddiad derbyn yn ogystal ag unrhyw ddyddiad diwygio/tynnu'n ôl.
- Lle y bo'n berthnasol, sicrhau bod meini prawf dethol a sgorio wedi'u diffinio'n glir yn cael eu cofnodi a'u cadw.
- Sicrhau, ar ôl cwblhau gwiriadau cymhwystra yn llwyddiannus, y caiff cynnig sy'n cynnwys amodau'r Cynllun a chyfraddau grantiau ei anfon at y cwsmer.
- Cadw tystiolaeth bod y cwsmer wedi derbyn amodau'r grant a gynigir.
- Gwirio pob cais (a chadw cofnod o'r gwiriadau hynny, manylion y swyddog, a'r dyddiad y'u cwblhawyd) er mwyn sicrhau:

- Cymhwystra'r cwsmer.
- Cymhwystra'r gweithrediad.
- Cydymffurfiaeth â meini prawf dethol y Cynllun.
- Cydymffurfiaeth â'r rheolau caffael.
- Cydymffurfiaeth â'r rheolau ynglŷn â rheoli cymorthdaliadau.
- Cydymffurfiaeth â'r Llinell Sylfaen Reoliadol.
- Rhesymoldeb y costau a gyflwynwyd drwy ddefnyddio costau cyfeirio, cymharu â chynigion gwahanol neu bwyllgor gwerthuso.
- Dibynadwyedd y cwsmer, yn enwedig o ran unrhyw weithrediadau blaenorol a gyd-ariannwyd.
- Nid oes unrhyw gyllido dwbl.
- Mae'r cais am gymorth neu'r hawliad am dâl yn gyflawn ac mae'n cael ei gyflwyno o fewn y terfyn amser perthnasol a, lle y bo'n gymwys, mae dogfennau ategol wedi cael eu cyflwyno ac maent yn profi cymhwystra neu gydymffurfiaeth.
- Cydymffurfir ag ymrwymiadau hirdymor, lle y bo'n briodol.

**Rhesymoldeb Costau**

- Sicrhau bod systemau digonol i asesu rhesymoldeb costau. Dylid sicrhau bod grantiau a ddyfernir yn dilyn yr egwyddorion costeffeithiol a gwerth am arian. Dylai'r rhain, yn benodol, fynd i'r afael ag osgoi gorfanylebau.
- Mae sawl dull o asesu bod prisiau yn rhesymol ac yn gystadleuol. Cymharu cynigion gwahanol, barn arbenigwr/wyr neu restrau cyfeirio o brisiau. Pa ddull bynnag, neu ba gyfuniad bynnag o ddulliau a ddefnyddir, dylai roi sicrwydd cadarn bod Taliadau Gwledig Cymru yn gallu asesu bod y prisiau yn seiliedig ar y farchnad.
- Os cyflwynir newidiadau i'r prosiect wrth ei roi ar waith, dylid ailasesu'r effaith ar y costau wrth dalu'r hawliad.

## *Hawliadau am dâl*

Bydd ein prosesau talu yn:

- Cynnwys set benodol o ddangosyddion dilysadwy ar gyfer pob Cynllun.
- Sicrhau bod y cwsmer yn cyflwyno hawliad am dâl neu gadarnhad bod gweithgarwch wedi'i gwblhau ar gyfer pob Cynllun.
- Caniatáu i hawliadau am dâl gael eu tynnu'n ôl yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar yr amod nad yw'r cwsmer wedi cael ei hysbysu am achosion o afreoleidd-dra neu hapwiriadau.
- Cynnwys gweithdrefnau a fydd yn sicrhau bod system adnabod unigryw yn gymwys i bob hawliad a gyflwynir gan yr un cwsmer, gan gynnwys y dyddiad derbyn.
- Cofnodi a chadw'r holl hawliadau am dâl a dogfennaeth gysylltiedig, gan gynnwys y dyddiad derbyn yn ogystal ag unrhyw ddyddiad diwygio/tynnu'n ôl.
- Sicrhau na chaiff unrhyw daliad ei wneud i gwsmeriaid os cadarnheir bod amodau wedi cael eu creu'n artiffisial i gael taliad o'r fath.
- Bydd gwiriadau gweinyddol yn cynnwys, a lle y bo'n briodol ar gyfer yr hawliad dan sylw, y broses ddilysu ganlynol:

  - Mae'r gweithrediad a gwblhawyd yn cymharu â'r gweithrediad y cafodd y cais am gymorth ei gyflwyno a'i gymeradwyo yn ei gylch.
  - Y costau yr aed iddynt a'r taliadau a wnaed.
  - Mae'r gwariant yn ymwneud â'r cyfnod cymwys ac mae wedi cael ei dalu.
  - Mae'r gwariant yn ymwneud â gweithrediad a gymeradwywyd.
  - Mae'r taliad yn cydymffurfio â rheolau'r Cynllun.
  - Derbyn a gwirio'r holl anfonebau a dogfennau sy'n profi taliad (e.e. cyfriflenni banc) a chwblhau ymarfer cysoni.
  - Ar gyfer opsiynau cost symlach: mae'r amodau ar gyfer taliadau a bennwyd yn y grant a ddyfarnwyd wedi cael eu bodloni.

- Cynnal tystiolaeth o'r gwiriad a wnaed, gan gynnwys pwy a gwblhaodd y gwiriad a phryd.
- Sicrhau bod archwiliad ar y fferm yn cael ei wneud cyn y taliad olaf am weithrediad. Bydd yn rhaid penderfynu ar archwiliadau ar y fferm fesul Cynllun ar sail ex ante oherwydd risg gan ystyried y tebygolrwydd o ddiffyg cydymffurfiaeth a gwerth y cyllid a gallant gynnwys asesiad o bell o'r dystiolaeth a ddarparwyd megis ffotograffau â geotag, neu ymweliadau â'r safle.
- Sicrhau bod gan Taliadau Gwledig Cymru ddarpariaethau i adennill unrhyw daliadau amhriodol os na ellir cwblhau archwiliadau ar y fferm cyn gwneud taliad neu os yw ymddygiad cwsmeriaid yn annerbyniol.
- Gwirio cydymffurfiaeth ag ymrwymiadau hirdymor, lle y bo'n gymwys.

## *Llinell sylfaen reoliadol*

Bydd ein rheolaethau yn sicrhau'r canlynol:

- Caiff y llinell sylfaen reoliadol ei phennu yn rheolau'r Cynllun a bydd set o safonau dilysadwy ar gael ar gyfer pob un o'r gofynion llinell sylfaen reoleiddiol.
- Byddwn yn darparu rhestrau o Ofynion Rheoli Statudol a safonau Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da sy'n gymwys i Linell Sylfaen Reoliadol y Cynllun i gwsmeriaid, lle y bo'n briodol, drwy ddulliau electronig.
- Os na fydd cwsmer yn cyrraedd y safonau dilysadwy, caiff cosb briodol ei rhoi i'r cwsmer hwnnw a bennir yn ôl bwriad, difrifoldeb, graddau, a pharhauster.
- Dim ond os yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn deillio o weithred neu anweithred y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i'r cwsmer dan sylw y bydd y gosb briodol yn gymwys; ac os bodlonir un o'r amodau ychwanegol canlynol, neu'r ddau ohonynt:
    - Mae'r achos o ddiffyg cydymffurfiaeth yn ymwneud â gweithgarwch amaethyddol y cwsmer.
    - Mae arwynebedd daliad y cwsmer dan sylw.
- Byddwn yn defnyddio'r systemau gweinyddol a rheoli presennol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r Llinell Sylfaen Reoliadol ynghyd ag archwiliadau ar y fferm i gadarnhau a yw cwsmer yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol.

## *Archwiliadau ar y fferm*

Bydd ein prosesau arolygu yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r arolygwyr sy'n cynnal archwiliadau ar y fferm wedi ymwneud â'r gwiriadau gweinyddol ar y gweithrediad.
- Sicrhau bod Taliadau Gwledig Cymru yn tynnu sampl arolygu gynrychioliadol o'r boblogaeth gyfan o gwsmeriaid, gan anelu at y canlynol:
    - Rhan 20% i 25% ar hap er mwyn cael cyfradd gwallu gynrychioliadol.
    - Rhan 75% i 80% yn seiliedig ar risg, a fydd yn targedu'r meysydd lle mae'r risg o wallau ar ei huchaf.
- Sicrhau bod yr holl feini prawf dethol ar gyfer risg ac ar hap wedi'u pennu ac wedi'u dogfennu'n llawn, gan gynnwys:
    - Dull dadansoddi
    - System sgorio
    - Cadw'r holl ddogfennaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer dethol arolygiadau ar sail risg ac ar hap.
- Sicrhau bod yr archwiliadau ar y fferm yn cwmpasu holl ymrwymiadau cwsmeriad y gellir eu gwirio ar adeg yr ymweliad.
- Paratoi adroddiad yn manylu ar yr archwiliadau ar y fferm, gan gynnwys tystiolaeth o'r archwiliadau a gynhaliwyd, gan gynnwys pwy a'u cwblhaodd a phryd.
- Rhoi cyfle i'r cwsmer lofnodi'r adroddiad i dystio i bresenoldeb cwsmeriaid yn ystod yr archwiliad ac ychwanegu sylwadau.
- Caiff dadansoddiad blynyddol o ganlyniadau rheolaethau ei gynnal, a gellir addasu cyfraddau rheolaeth lle y bo'n briodol.

Ar sail Ardal yn unig, bydd ein prosesau arolygu yn gwneud y canlynol:

- Cynnal archwiliadau ar y fferm o hawliadau cymwys am dâl (yn dilyn gwiriadau gweinyddol) yn ystod y flwyddyn galendr ar gyfer sampl gynrychioliadol o gwsmeriaid ar gyfer pob Cynllun.
- Wrth gyhoeddi archwiliadau ar y fferm, cyfyngu'r rhybudd i'r cyfnod lleiaf sy'n angenrheidiol, llai na 48 awr yn y rhan fwyaf o achosion, a byth mwy na 14 diwrnod.
- Llunio cyfarwyddiadau sy'n pennu'n glir y trefniadau rheolaeth sy'n rhoi sicrwydd rhesymol bod meini prawf cymhwystra, dangosyddion dilysadwy a gweithredoedd eraill yn cael eu parchu.
- Trefnu archwiliadau ar y fferm ar adegau gwahanol o'r flwyddyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r risgiau a achosir gan wahanol weithredoedd.
- Sicrhau bod yr archwiliadau ary fferm yn cwmpasu'r holl barseli amaethyddol a thir anamaethyddol yr hawlir cymorth ar eu cyfer. Ystyried samplu ac allosod os canfyddir lefel benodedig o wall.
- Pennu ardaloedd a synhwyro o bell yn unol ag ymarfer sefydledig Llywodraeth Cymru.

O ran gwiriadau terfynol, bydd ein prosesau arolygu yn gwneud y canlynol:

- Dylai'r gwiriadau terfynol gwmpasu o leiaf 1% o wariant y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer gweithrediadau buddsoddi sy'n dal i fod yn ddarostyngedig i'r ymrwymiad o ran parhauster ac y mae'r taliad olaf wedi cael ei wneud ar eu cyfer.
- Sicrhau bod o leiaf 30% a dim mwy na 40% o'r gwariant yn cael ei ddethol ar hap. Caiff y gweddill ei ddethol o ystyried yr angen i wirio cymysgedd o fathau o weithrediadau a meintiau gweithrediadau, ac unrhyw risgiau a nodwyd yn dilyn gwiriadau blaenorol.

## *Gostyngiadau, tynnu'n ôl a chosbau*

**Egwyddor gyffredinol**

Bydd gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyfundrefn gosbi gymesur a amlinellir mewn safonau dilysadwy cyhoeddedig a matrics o gosbau, er mwyn rhoi cymhelliant i unigolion beidio â gorddatgan a pheidio â methu â bodloni gofynion y Cynllun.

Bydd y gyfundrefn gosbi yn cynnwys cosbau anariannol, e.e. llythyrau o rybudd a/neu ddigwyddiadau hyfforddiant er mwyn gwella cydymffurfiaeth cwsmeriaid a lleihau achosion o afreoleiddra yn y dyfodol.

**Ar sail Ardal yn unig, ein gostyngiadau a'n heithriadau**

Sicrhau bod cosbau am gyflwyno cais yn hwyr yn cael eu cymhwyso ar 1% fesul diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais. Os cyflwynir hawliadau fwy na 25 diwrnod gwaith yn hwyr ni chaiff taliad ei wneud. Bydd angen i hyn fod yn gyson â Chynllun y Taliad Sylfaenol tan 2029.

Bydd pob Cynllun sy'n seiliedig ar ardal yn gosod cosbau am orddatgan a thanddatgan a chaiff trothwyon y Cynllun eu cyhoeddi yng nghanllawiau Cynlluniau.

Sicrhau, os canfyddir achos o ddiffyg cydymffurfiaeth ag un o weithredoedd y Cynllun (e.e. cynnal cynefin/rheoli coetir), y caiff y gostyngiad neu'r eithriad ei gyfrifo ar sail difrifoldeb, graddau a pharhauster yr achos o ddiffyg cydymffurfiaeth. O dan rai amgylchiadau, a lle y bo'n gymwys, mae'n bosibl y bydd symiau a dalwyd eisoes mewn blynyddoedd blaenorol yn cael eu gostwng neu eu heithrio.

Sicrhau, os bydd mwy nag un gostyngiad yn gymwys, eu bod yn cael eu cymhwyso yn y drefn ganlynol: Cosb am orddatgan, cosbau am ddatganiad ynghylch anifeiliaid, cosbau am dorri meini prawf cymhwystra'r Cynllun, cosbau am gyflwyno'n hwyr, cosb am danddatgan, cosbau trawsgydymffurfio.

**Ar sail Ardal yn unig, gorddatgan y gwariant.**

Caiff taliadau eu cyfrifo yn seiliedig ar symiau y canfyddir eu bod yn gymwys yn ystod y gwiriadau gweinyddol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r hawliad am dâl a gyflwynir gan y cwsmer a chadarnhau'r symiau sy'n gymwys i gael cymorth. Bydd yn cadarnhau'r swm a fydd yn daladwy i'r cwsmer:

- Yn seiliedig ar yr hawliad am dâl a'r penderfyniad ynglŷn â'r grant.
- Ar ôl archwilio cymhwystra'r gwariant yn yr hawliad am dâl.

Os bydd y swm a gadarnheir ym mhwynt (a) yn fwy na'r swm a gadarnheir ym mhwynt (b) o fwy na 10%, caiff cosb weinyddol ei chymhwyso at y swm a gadarnheir yn (b). Swm y gosb fydd y gwahaniaeth rhwng y ddau swm hynny ond ni fydd yn mynd y tu hwnt i dynnu'r cymorth ôl yn llawn.

Fodd bynnag, ni fydd unrhyw gosbau yn cael eu cymhwyso os gall y cwsmer ddangos er boddhad Llywodraeth Cymru nad yw ar fai am gynnwys y swm anghymwys neu os yw Llywodraeth Cymru wedi'i bodloni fel arall nad yw'r cwsmer dan sylw ar fai.

Sicrhau, os canfyddir achos o ddiffyg cydymffurfiaeth ag un o weithredoedd y Cynllun (e.e. plannu iechyd pridd neu iechyd a lles anifeiliaid), y caiff y gostyngiad neu'r eithriad ei gyfrifo ar sail difrifoldeb, graddau a pharhauster yr achos o ddiffyg cydymffurfiaeth. O dan rai amgylchiadau, a lle y bo'n gymwys, mae'n bosibl y bydd symiau a dalwyd eisoes mewn blynyddoedd blaenorol yn cael eu gostwng neu eu heithrio.

## *Twyll ac afreoleidd-dra*

Byddwn yn sicrhau'r canlynol:

- Caiff asesid o reolaethadwyedd a dilysadwyedd ei gynnal ar gyfer pob un o Haenau'r Cynllun.
- Caiff asesiad risg o bob un o Haenau'r Cynllun ei gynnal o safbwynt twyll ac afreoleidd-dra a chaiff cynllun atal a chanfod twyll ei roi ar waith yn briodol.
- Bydd mesurau effeithiol ar waith i atal twyll, yn enwedig mewn meysydd lle ceir lefel uwch o risg, a bydd yn gweithredu fel mesur ataliol, ar ôl rhoi sylw i gostau a manteision yn ogystal â chymesurydd y mesurau.
- Bydd pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant digonol ar ymwybyddiaeth o dwyll.

## *Proses dyled*

Bydd ein prosesau adennill yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau y gofynnir i'r cwsmer ad-dalu dyled sy'n fwy na £100 ac y caiff taliadau amhriodol eu hadennill oddi wrth y cwsmer.
- Pan fydd dyled heb ei thalu, caiff ei hadennill yn awtomatig oddi wrth y cwsmer o unrhyw daliadau yn y dyfodol a wneir o dan bwerau'r gorchymyn cymorth.
- Ni fydd gofyn i'r cwsmer ad-dalu dyledion o £100 neu lai (cânt eu dileu).

- Sicrhau na fydd Taliadau Gwledig Cymru yn adennill y ddyled os yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwall anffeithiol ac na allai'r cwsmer yn rhesymol fod wedi'i ganfod.

## *Rheoli'r Gyllideb:*

Dylai fod gan bob Cynllun gyllideb sydd wedi'i rhannu yn ôl cyfnod a blwyddyn a gymeradwyir ar lefel Weinidogol.

Bydd pob Cynllun yn paratoi adroddiadau misol ar y broses gyllidebol sy'n dangos ymrwymiadau a gwariant hyd yma, a hawliadau a ragwelir ar gyfer gwariant cyfnod y Cynllun, wedi'u rhannu yn ôl blwyddyn ariannol.

## *Trefniadau diogelwch gwybodaeth:*

Byddwn yn dilyn polisïau Diogelu a Rheoli Gwybodaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Diogelu Data fel y'i diffiniwyd yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Byddwn yn dilyn polisïau Diogelwch TGCh Llywodraeth Cymru, gan gynnwys seiberddiogelwch.

## *Safon adnoddau dynol*

Bydd ein safonau Adnoddau Dynol yn sicrhau'r canlynol:

- Bydd gan y strwythur sefydliadol ddigon o adnoddau a galluogrwydd i gyflawni'r dyletswyddau sy'n ofynnol i gyflawni'r gweithrediadau a amlinellir ac ar gyfer nifer y cynlluniau a'r cwsmeriaid sydd i'w cefnogi.
- Mae'r strwythur yn cefnogi gwahanu dyletswyddau yn gywir. Mae hyn yn golygu na all unrhyw swyddog fod yn gyfrifol am fwy nag un o'r cyfrifoldebau o ran awdurdodi, talu, cynnal archwiliad ar y fferm neu gyfrifyddu am gyllid.
- Ni fydd unrhyw swyddog yn cyflawni un o'r tasgau hyn oni bai bod y gwaith wedi dod o dan oruchwyliaeth ail swyddog drwy:
    - Sicrhau bod pob achos o gymeradwyo, asesu ac awdurdodi Ceisiadau, Diwygiadau i Brosiect a Thaliadau yn gofyn am Wiriad Goruchwyliol.
    - Sicrhau bod Gwiriadau rheoli ar bob lefel.
- Mae hyfforddiant i'r staff yn briodol ar bob lefel o'r gweithrediad a cheir polisi o gylchdroi staff mewn swyddi sensitif, neu fel arall, sicrhau mwy o oruchwyliaeth. Caiff cofnodion hyfforddiant eu cynnal.
- Sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i osgoi gwrthdaro buddiannau os oes rhywun mewn swydd gyfrifol neu sensitif o ran dilysu, awdurdodi, talu a chyfrif am hawliadau hefyd yn cyflawni swyddogaethau eraill y tu allan i Lywodraeth Cymru. Bydd staff yn llofnodi ffurflen datgan buddiannau flynyddol.
- Bydd tystiolaeth bod gwaith pob aelod o'r staff wedi cael ei adolygu gan uwch-aelod o'r staff.

## *Partneriaid cyflawni*

Adroddiad mewn perthynas â'r opsiynau a ddewisir i reoli'r gofynion trawsgydymffurfio a'r cyrff rheoli cymwys sy'n gyfrifol am wirio'r gofynion a'r safonau trawsgydymffurfio. Rhoddir gwybod yn ddi-oed am unrhyw addasiadau i wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwnnw.

## *Trefniadau adrodd:*

Bydd ein trefniadau yn cefnogi'r canlynol:

- Adroddiadau gan Lywodraeth Cymru yn erbyn y dyletswyddau cyfreithiol a amlinellwyd yn y Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) neu i sefydliadau cyfreithiol eraill e.e. Sefydliad Masnach y Byd
- Pob un o Haenau'r Cynllun, gan sicrhau bod data digonol yn cael eu cofnodi er mwyn gallu paratoi adroddiadau blynyddol sy'n manylu ar y canlynol:
    - Data ynglŷn â chwsmeriaid unigol o ran ceisiadau a hawliadau am dâl, ardaloedd ac anifeiliaid a ddatgenir a/neu a hawlir, canlyniadau gwiriadau gweinyddol, archwiliadau ar y fferm a gwiriadau terfynol;
    - Lle y bo'n gymwys, canlyniadau'r gwiriadau sy'n ymwneud â'r llinell sylfaen reoliadol, gan gynnwys y gostyngiadau a'r eithriadau perthnasol.
    - Adroddiadau a gwerthusiadau rheolaeth y Cynllun.
- Cyhoeddi manylion cwsmeriaid fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau
- Tystiolaeth gan Taliadau Gwledig Cymru ar gyfer sicrwydd blynyddol cyfrifon Llywodraeth Cymru ac unrhyw archwiliadau canlyniadol

## I. FFRAMWAITH RHEOLI NEWID – TALIADAU GWLEDIG CYMRU

### *Cyflwyniad*

Nod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw cyfrannu tuag at nifer o amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn y Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy a amlinellwyd yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Mae cydweithio helaeth ar bolisïau wedi bod yn mynd rhagddo ers blynyddoedd lawer, ynghyd â chryn dipyn o gydlunio â'r diwydiant ffermio a rhanddeiliaid allanol allweddol, er mwyn cytuno ar gynigion cyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i fynd yn fyw yn 2026.

Mae pob parti a gymerodd ran yn y gwaith o lunio'r Cynllun yn deall y newid sylweddol sydd ei angen yn y diwydiant i gyflawni amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac maent yn cydnabod y bydd angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod yn hyblyg a newid wrth i'r niferoedd sy'n cymryd rhan gynyddu ac wrth i Lywodraeth Cymru ddechrau monitro a gwerthuso allbynnau, canlyniadau ac effeithiau Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol y Cynllun.

### *Proses rheoli newid*

Mae newid yn rhan anochel o unrhyw raglen neu broses busnes. Mae llunwyr polisïau, rhanddeiliaid, y rhai sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a phartneriaid cyflawni yn awgrymu neu'n gofyn am newidiadau i agweddau penodol ar y Cynllun neu ei brosesau ategol yn rheolaidd. Gall fod yn heriol bodloni'r ceisiadau yn gyson.

Mae proses rheoli newid arfaethedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cwmpasu'r camau a gymerir i ymdrin â cheisiadau gan bartïon mewnol a/neu allanol i newid y Cynllun.

Gall ceisiadau am newid fod yn lluosog, oherwydd gall gwahanol brosesau, gweithdrefnau neu ddeddfwriaeth newid (neu mae angen iddynt newid) yn yr un cyfnod. Felly, bydd angen rhoi proses rheoli newid ar waith er mwyn rheoli'r holl geisiadau am newid ar ôl i'r Gweinidog gymeradwyo'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (a ddisgwylir yn ystod haf 2025).

Mae proses rheoli newid Taliadau Gwledig Cymru yn pennu'r broses a'r gweithdrefnau a fydd yn ei gwneud yn bosibl i'r holl geisiadau i newid y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael eu datrys. Mae'r achosion lle y dylid gwneud cais am newid fel a ganlyn:

- Pan fydd angen i'r 'gofyniad cymhwystra' ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newid (mewn ymateb i anghenion newidiol Gweinidogion, polisïau neu randdeiliaid);
- Pan fydd angen newid gofynion rheoli'r Cynllun ar y rhai sy'n cymryd rhan oherwydd newidiadau mewn blaenoriaethau e.e. ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol neu fusnes;
- Pan fydd proses bresennol yn mynd dros yr amser prosesu sy'n dderbyniol (p'un a hynny yn ymwneud ag ymyriadau awtomataidd neu ymyriadau â llaw) neu'n atal y rhai sy'n cymryd rhan rhag bodloni rheolau a gofynion y Cynllun;
- Pan fydd Llywodraeth Cymru a/neu ei phartneriaid cyflawni yn rhoi datrysiad technoleg arloesol neu fodern ar waith e.e. ap symudol.

### *Diffiniadau*

Mae'r broses rheoli newid arfaethedig yn cydnabod y cysyniadau o ysgogwyr newid allanol a mewnol (gweler Ffigur 22) a'r pedwar categori o newid (gweler Ffigur 23). Mae'r cysyniadau hyn yn hanfodol er mwyn rheoli newid yn effeithiol.

*Ffigur 22: Ysgogwyr newid:*

| Ysgogwyr | Diffiniad |
|---|---|
| Allanol | Newidiadau i bolisïau neu brosesau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n deillio o'r tu allan i Lywodraeth Cymru. Bydd newidiadau o'r fath yn rhai mawr fel arfer ac mae'n bosibl y byddant wedi'u hysgogi gan reidrwydd gwleidyddol, adolygiad o dystiolaeth monitro a gwerthuso neu ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid. |
| Mewnol | Newidiadau i brosesau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n deillio o'r tu mewn i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys CNC. Dylai newidiadau o'r fath fod yn rhai safonol eu natur a chodi er mwyn gwella effeithlonrwydd gweithredol, datrys canlyniadau polisïau nas rhagwelwyd neu ddatrys problemau sy'n codi yn y Cynllun yn ystod y flwyddyn. Mae'r newidiadau hyn hefyd yn cwmpasu unrhyw broblemau TG a nodwyd yn yr amgylchedd byw. |

*Ffigur 23:Mathau o newid:*

| Categorïau | Diffiniad |
|---|---|
| Safonol | Dyma'r lefel fwyaf sylfaenol o newidiadau ac nid ydynt yn dwyn llawer o risg. Gall y newidiadau hyn ddigwydd bob dydd ac maent yn deillio o geisiadau gan unigolion sy'n cymryd rhan y Cynllun (h.y. adolygiadau o achosion). Fel arall, gallent fod yn fân addasiadau syml i bolisi (e.e. newid cyfradd dalu, neu mae eitemau newydd ar gael i roi cymorth) na fyddant yn gofyn am ailaddasu'r broses sy'n bodoli eisoes yn gyfan gwbl. |


| Categorïau | Diffiniad |
| --- | --- |
| Arferol | Bydd y newidiadau hyn fel arfer yn effeithio ar brosesau neu systemau mewnol, sy'n newid y ffordd y gweinyddir y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fel y cyfryw, ni fydd angen newidiadau sylfaenol i reolau'r Cynllun a gall newidiadau yn ystod y flwyddyn gael eu rheoli heb effeithio ar y rhai sy'n cymryd rhan.<br>Fodd bynnag, dylid nodi y bydd angen o hyd i unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn i systemau a ddefnyddir gan y rhai sy'n cymryd rhan gael eu hystyried yn ofalus ac y bydd angen cyhoeddusrwydd, os yw'n briodol, er mwyn sicrhau nad oes effaith andwyol ar y rhai sy'n cymryd rhan. |
| Mawr | Bydd y newidiadau hyn yn cael effaith sylfaenol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei hun a bydd angen newid rheolau'r Cynllun a diwygio'r rhwymedigaethau o dan y Cynllun ar y rhai sy'n cymryd rhan. O ganlyniad, bydd angen i newidiadau o'r fath gael eu cynllunio'n ofalus gan fod newidiadau ôl-weithredol/yn ystod y flwyddyn yn annhebygol o fod yn gwbl lwyddiannus. |
| Brys | Y newidiadau hyn yw'r ceisiadau am newid a dderbynnir pan fydd yn rhaid i'r newid ddigwydd ar unwaith. Byddant bob amser yn cael mwy o flaenoriaeth nag unrhyw geisiadau eraill am newid. Gallent fod yn gysylltiedig ag unioni problemau systemau TG sy'n peryglu diogelwch data. Gall newid brys hefyd gael ei gyflwyno pan fydd unrhyw broblem yn tarfu'n llwyr ar weithrediadau busnes. |

## *Newid allanol*

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi cael ei lunio i weithredu o fewn fframwaith cyffredin sy'n cynnwys yr Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol. Gall y rhai sy'n cymryd rhan a'u cynrychiolwyr (e.e. undebau ffermio, rhanddeiliaid allweddol eraill, hyd yn oed Aelodau o'r Senedd neu Weinidogion) awgrymu newidiadau i unrhyw un o Haenau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy unwaith y bydd manylion terfynol y Cynllun yn cael eu cyhoeddi (haf 2025) neu ar ôl iddo fynd yn fyw yn 2026.

Bydd angen i unrhyw newid allanol arfaethedig gael ei gydlynu a'i ystyried gan swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf cyn iddo gael ei gyflwyno i Fwrdd Goruchwylio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, lle y dylid briffio aelodau ar y newidiadau arfaethedig, ynghyd â'r asesiadau o effaith y polisi fel y bo'n briodol (gweler Ffigur24).

*Ffigur24:Cydlynu ac ystyried newidiadau arfaethedig o ganlyniad i ysgogwyr allanol.*





Rhagwelir mai dim ond newidiadau 'Arferol' neu 'Mawr' a gaiff eu hystyried a'u cymeradwyo gan Fwrdd Goruchwylio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy cyn cael eu hatgyfeirio at Taliadau Gwledig Cymru a Bwrdd Gweithredu a Chyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i'w hystyried fel rhan o'r broses rheoli newid fewnol.

## *Newid mewnol*

Mae Taliadau Gwledig Cymru yn gweithredu cyfundrefn flynyddol o welliant parhaus, lle mae'n casglu ac yn gwerthuso adborth gan gyfranogwyr, rhanddeiliaid, partneriaid cyflawni a thimau polisi cyn ystyried cynigion ar gyfer newid i'w cyflwyno bob blwyddyn. Rheolir gwelliant parhaus ar sail cylch syml Cynllunio-Gwneud-Gwirio-Gweithredu (PDCA) (gweler Ffigur 25

Mae Bwrdd Cyflawni Busnes Taliadau Gwledig Cymru eisoes wedi'i sefydlu fel trefniant llywodraethu ffurfiol i fonitro perfformiad systemau a'r ffordd y cyflawnir y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar ôl iddo fynd yn fyw. Felly, gall Taliadau Gwledig Cymru ymdrin â chynigion ar gyfer newidiadau 'Safonol' a 'Brys' ar sail 'ad-hoc' fel rhan o'i chylch gwelliant parhaus a'r trefniadau llywodraethu sydd eisoes ar waith.


*Ffigur 25:Cylch gwelliant parhaus Taliadau Gwledig Cymru*




## *Proses rheoli newid*

Caiff ceisiadau am newid eu rheoli gan Swyddfa Rheoli Rhaglenni Taliadau Gwledig Cymru, a fydd yn gweithio gyda Changen Gweithrediadau Taliadau Gwledig Cymru i'w hystyried a phenderfynu ar y llwybr atgyfeirio priodol (gweler Ffigur 26). Caiff pob penderfyniad ei gofnodi a chaiff dogfennaeth ei chadw at ddibenion cyfeirio a chraffu yn y dyfodol os bydd angen.

*Ffigur 26:Proses atgyfeirio ceisiadau am newid*




Bydd angen i bob cais am newid gael ei gyflwyno drwy ddefnyddio templed safonol cyn iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd perthnasol yn Taliadau Gwledig Cymru.

Bydd yn rhaid i geisiadau am newid Arferol neu Fawr gael eu cyflwyno i Fwrdd Gweithredu a Chyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i'w hystyried cyn y penderfynir a ddylid derbyn/gwrthod neu addasu'r cais. Dylent gael eu cyflwyno cyn y terfynau amser lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau y caiff systemau, prosesau a chanllawiau eu datblygu'n ddigonol o fewn y flwyddyn galendr a'r Haen briodol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Os cyflwynir ceisiadau am newid y tu allan i'r terfynau amser hyn, mae'n rhaid cyflwyno ffurflen asesu risg wedi'i chwblhau ar gyfer y cais am newid ar ôl ymgynghori â Thîm Gweithrediadau Taliadau Gwledig Cymru.

Bydd ceisiadau am newid Arferol neu Fawr yn dilyn y broses a amlinellir yn Ffigur 27.

### Cam 1: Nodi Newid – Casglu Dogfennaeth a Gwybodaeth Bwysig

Y cam cyntaf yn y broses o wneud cais am newid fydd rhoi cychwyn ar gais am newid. Ni ellir gwneud cais ar hap heb unrhyw ddogfennaeth ategol berthnasol. Mae'n rhaid cyflwyno dogfennaeth a gwybodaeth glir a chywir i ddangos bod y newid yn y cais yn ddilys.

### Cam 2: Derbyn Newid

Dylai'r newid arfaethedig gael ei ystyried gan Dîm Polisi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'i gyflwyno'n ffurfiol a'i dderbyn gan Fwrdd Goruchwylio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Ar y cam hwn defnyddir ffurflen cais am newid a fyddai'n gofyn i Dîm Polisi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy lenwi manylion penodol er mwyn prosesu'r cais yn swyddogol.

**Cam 3: Cwblhau Ffurflen Cais am Newid – Deall cwmpas y newid**

Unwaith y bydd Tîm Polisi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi rhoi cychwyn ar y newid, bydd yn ofynnol i Taliadau Gwledig Cymru a phartneriaid cyflawni astudio cwmpas y newid y gofynnir amdano. Bydd yn bwysig pennu'r gofynion ym model gweithredu a chyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn sicrhau bod digon o ddata ar gael, a bod y rhanddeiliaid a phobl eraill dan sylw yn ymwybodol o'r cais hwn.

**Cam 4: Asesu a Gwerthuso'r Newid – Effaith y Newid.**

Ar wahân i gadarnhau cwmpas y newid, bydd yr un mor bwysig penderfynu pa effaith y gallai'r newid hwn ei chael ar ofynion neu broses busnes y Cynllun. Os bydd yn newid mawr, bydd yn hollbwysig cofio y byddai'n effeithio ar nodau a chyllideb rhaglenni, neu y gall fod â goblygiadau i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Cynllun. Drwy glirio'r pwyntiau hyn bydd modd i'r tîm benderfynu a ddylid argymhell cymeradwyo neu wrthod y newid y rhoddwyd cychwyn arno.

**Cam 5: Cyfrifo Amcangyfrif o Gynnwys Newid**

Ar ôl pennu effaith y cais/ceisiadau, bydd yn haws bellach restru'r cais/ceisiadau yn seiliedig ar eu blaenoriaeth a chostau gweithredu a chyflawni. Dylai hyn ystyried cynlluniau datblygu TG presennol Taliadau Gwledig Cymru, cyllideb y Cynllun a chyflwyno'r newid ar yr adeg gywir o gylch blynyddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a haenau'r Cynllun.

**Cam 6:Gwneud Penderfyniad ynghylch y Newid – Cymeradwyo neu Wrthod y Ceisiadau am Newid**

Bydd yn rhaid ystyried sawl ffactor cyn cymeradwyo neu wrthod cais. Bydd y ffactorau hyn yn cynnwys costau gweithredu a chyflawni, lefel cymeradwyaethau cyllidebol y bydd eu hangen, yn dibynnu ar gwmpas y newid, ac ati. Felly, mae'n briodol po fwyaf y gwaith y bydd ei angen neu po fwyaf y cwmpas, y mwyaf o gymeradwyaethau y bydd eu hangen. Felly, dylai'r broses gymeradwyo hefyd gynnwys canllawiau neu fframwaith priodol.

**Cam 7:Ymgorffori Newidiadau a Gymeradwyir**


Unwaith y bydd y cam cymeradwyo wedi dod i ben, bydd yn rhaid llunio cynllun gweithredu ar gyfer y newidiadau a gymeradwywyd. Bydd y cam hwn yn hollbwysig gan y bydd yn cael effaith sylweddol ar y Cynllun a'i brosesu busnes presennol. Felly, bydd yn rhaid i gynllun strategol sy'n ei gwneud yn bosibl i'r newid gael ei ymgorffori'n ddi-dor gael ei gyfleu'n effeithiol i'r holl randdeiliaid a'r partïon dan sylw.

Bydd yn rhaid adrodd yn ôl ar effaith Newidiadau Arferol a Mawr i Fwrdd Goruchwylio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn iddo eu hystyried yn derfynol. Bydd yn rhaid i dimau polisi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddiweddaru dogfennau polisi, gan gynnwys tystiolaeth sy'n cefnogi'r rhesymeg dros unrhyw newid i un o reolau'r Cynllun, a'u cadw.

Caiff cais am newid Safonol neu Frys (drwy'r ffurflen opsiynau cyflawni busnes briodol) ei gyflwyno i Fwrdd Cyflawni Taliadau Gwledig Cymru a chaiff unrhyw benderfyniad ei wneud fel rhan o'r cylch gwelliant parhaus.

Bydd yr adroddiad blynyddol a gwaith monitro a gwerthuso ehangach ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gwerthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian unrhyw newidiadau a ymgorfforir.


*Ffigur 27:Llif y broses ar gyfer newidiadau Arferol neu Fawr*



## *Terfynau amser ar gyfer newid Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy*

Mae Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gweithredu ar sail flynyddol. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn ystyried ymuno cyn dyddiad dechrau blwyddyn y Cynllun, sef 1 Ionawr, gan gyfeirio at ganllawiau cyhoeddedig y Cynllun. Hefyd, mae Taliadau Gwledig Cymru wedi sefydlu cylchoedd datblygu TG er mwyn sicrhau bod systemau a ddefnyddir gan y rhai sy'n cymryd rhan a systemau ochr gefn ar waith ac yn weithredol. Mae'r amserlen yn Ffigur 28 yn dangos adegau newid ar sail blwyddyn.

*Ffigur 28:Llinell amser ar gyfer newidiadau blynyddol*




## *Terfynau amser ar gyfer newid Haenau Opsiynol a Chydweithredol*

Gall cymorth o dan yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol fod yn destun proses gwneud cais 'unrhyw bryd' neu gall gynnwys cyfnodau penodedig i'r rhai sy'n cymryd rhan. Heb derfyn amser penodol na strwythuredig ar gyfer newid, ceir mwy o botensial i'r rhai sy'n cymryd rhan ddrysu ynglŷn â rheolau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a allai arwain at fethiant i fodloni amodau'r Cynllun.

Er mwyn rheoli'r risg hon, bydd yn rhaid i newidiadau i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fod ar sail flynyddol hefyd. Fodd bynnag, yn unol ag ymarfer cyffredin Cynlluniau sy'n bodoli eisoes, dylai fod modd cyflwyno newidiadau safonol nad ydynt yn gofyn am ailaddasu'r gofynion na'r rheolau sy'n bodoli eisoes yn gyfan gwbl, o dan gylch gwelliant parhaus Taliadau Gwledig Cymru.

## *Newid annisgwyl*

Mae Taliadau Gwledig Cymru yn cydnabod y gall digwyddiadau allanol arwain at geisiadau am newid na allant fodloni'r terfyn amser ar gyfer newid y cytunwyd arno. Mae newidiadau o'r fath yn cyflwyno risg, yn fewnol ar gyfer cylchoedd datblygu, ac yn allanol, i'r rhai sy'n cymryd rhan.

Er mwyn asesu maint y risg, a sicrhau bod camau lliniaru priodol yn cael eu cymryd, bydd yn rhaid cynnal asesiad manwl o'r effaith gan ddefnyddio'r ffurflen asesu risg ar gyfer cais am newid ar gyfer pob newid annisgwyl a gynigir.

Mae'n rhaid i'r ffurflen hon gael ei chwblhau ar y cyd er mwyn sicrhau bod holl effaith a chostau'r newid yn cael eu hystyried a bod unrhyw oblygiadau anfwriadol yn cael eu lliniaru.